



HM Government

Deddf Galluedd Meddyliol 2005 Cod Ymarfer

**Yn cynnwys Trefniadau
Amddiffyn Rhyddid**

DRAFT



Cyflwyniad

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ('y Ddeddf') yn darparu fframwaith statudol yn Lloegr a Chymru, ar gyfer cynorthwyo pobl 16 oed ac hŷn i wneud eu penderfyniadau eu hunain, ochr yn ochr ag amlinellu'r fframwaith cyfreithiol i bobl sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, neu sydd â gallu ac yn dymuno gwneud paratodau ar gyfer adeg pan na fydd ganddynt allu o bosibl yn y dyfodol. Mae'n amlinellu pwy sy'n gallu gwneud penderfyniadau, ym mha sefyllfaoedd, a sut y dylent fynd ati i wneud hyn. Daeth y Ddeddf i rym yn 2007.

Mae'r fframwaith cyfreithiol sy'n cael ei ddarparu gan y Ddeddf yn cael ei gefnogi gan y Cod Ymarfer hwn ('y Cod'), sy'n darparu canllawiau a gwybodaeth am sut mae'r Ddeddf yn gweithio'n ymarferol. Mae Adran 42 y Ddeddf yn gofyn bod yr Arglwydd Ganghellor yn cynhyrchu Cod Ymarfer ar gyfer rhoi canllawiau i amrywiaeth o bobl â dyletswyddau a swyddogaethau gwahanol o dan y Ddeddf. Mae Adran 43 yn gofyn bod yn rhaid i'r Arglwydd Ganghellor fod wedi ymgynghori â Llywodraeth Cymru ac unigolion eraill y mae'n eu hystyried yn briodol, cyn i'r Cod gael ei baratoi neu'i ddiwygio. Mae'r Cod hefyd yn destun cymeradwyaeth y Senedd ac mae'n rhaid iddo fod wedi ei roi gerbron dau Dŷ'r Senedd am gyfnod o 40 niwrnod heb i'r naill Dŷ na'r llall bleidleisio yn ei erbyn. Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi cael ei gynhyrchu yn unol â'r gofynion hyn.

Mae gan y Cod rym statudol, sy'n golygu bod gan gategoriâu penodol o bobl ddyletswydd gyfreithiol i'w ystyried wrth weithio gyda neu ofalu am oedolion a allai fod yn brin o allu i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae'r categorïau hyn o bobl wedi'u rhestru isod.

Sut ddylai'r Cod Ymarfer gael ei ddefnyddio?

Mae'r Cod Ymarfer yn rhoi canllawiau i unrhyw un sy'n gweithio gyda neu'n gofalu am bobl a allai fod yn brin o allu i wneud penderfyniadau penodol. Mae'n disgrifio sut y dylent geisio cynorthwyo pobl i wneud eu penderfyniad eu hunain mor bell â phosibl, a'u cyfrifoldebau wrth weithredu neu wneud penderfyniadau ar ran unigolion os ydynt yn brin o allu i wneud y penderfyniadau hyn drostynt eu hunain.

Mae'r Cod hefyd yn rhoi canllawiau ar y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid, a gafodd eu cyflwyno gan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019. Mae'r system yn awdurdodi trefniadau ar gyfer gofal a thriniaeth sy'n golygu amddifadu pobl sy'n brin o'r gallu meddyliol perthnasol o'u rhyddid i gydsynio â'r trefniadau hyn, ac yn darparu'r mesurau diogelu angenrheidiol ar gyfer yr unigolyn yn Lloegr a Chymru.

Ar gyfer pwy mae'r Cod Ymarfer?

Nid yw'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar unrhyw un i 'gydymffurfio' â'r Cod - dylai gael ei ystyried fel canllaw yn hytrach na chyfarwyddyd. Ond os nad yw rhywun sy'n gweithio gyda neu'n gofalu am unigolyn sy'n brin neu a allai fod yn brin o allu wedi dilyn y cyfarwyddyd perthnasol yn y Cod, yna disgwylir iddynt roi rhesymau da pam nad ydynt wedi'i ddilyn.

Mae gofyn cyfreithiol i gategoriâu penodol o bobl 'ystyried' canllawiau perthnasol yn y Cod Ymarfer. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid iddynt fod yn ymwybodol o'r Cod Ymarfer wrth gynorthwyo neu wneud penderfyniadau ar ran rhywun sy'n brin neu a allai fod yn brin o allu i wneud penderfyniad drosto ei hun. Dylent ddilyn y Cod, a gallu esbonio'u rhesymau os nad ydynt.

Mae'r categorïau o bobl y mae gofyn iddynt ystyried y Cod Ymarfer yn cynnwys unrhyw un sy'n:

- atwrnai o dan Atwrneiaeth Arhosol (LPA) (gweler pennod 7)
- dirprwy a benodir gan y Llys Gwarchod (gweler pennod 8)
- Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA) (gweler pennod 10)
- cyflawni ymchwil wedi'i gymeradwyo yn unol â'r Ddeddf (gweler pennod 11)
- gweithredu mewn swyddogaeth broffesiynol dros, neu mewn perthynas ag, unigolyn sy'n brin o allu.
- cael ei dalu i gyflawni gweithredoedd ar gyfer neu mewn perthynas ag unigolyn sy'n brin o allu.

Mae'r ddau gategori olaf yn cwmpasu ystod eang o bobl. Mae pobl yn gweithredu mewn swyddogaeth broffesiynol yn gallu cynnwys:

- amrywiaeth o staff gofal iechyd (meddygon, deintyddion, nyrsys, therapyddion, radiolegwyr, parafeddygon etc.)
- staff gofal cymdeithasol (gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr gofal, etc.)
- eraill sy'n gallu bod yn rhan o dro i dro yng ngofal pobl sy'n brin o allu i wneud y penderfyniad o dan sylw, fel parafeddygon, gweithwyr tai, neu swyddogion yr heddlu.

Mae pobl sy'n cael eu talu i gyflawni gweithredoedd ar gyfer neu mewn perthynas ag unigolyn sy'n brin o allu yn gallu cynnwys:

- cynorthwyr gofal mewn cartref gofal
- gweithwyr gofal sy'n darparu gwasanaethau gofal yn y cartref,
- cynorthwyr personol a gweithwyr cymorth, ac
- eraill sydd wedi cael eu cytundebu i ddarparu gwasanaeth i bobl sy'n brin o allu i gydsynio i'r gwasanaeth hwnnw, er enghraifft staff mewn canolfan gofal dydd neu mewn grŵp gweithgaredd.

Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn gymwys yn fwy cyffredinol i *bawb* sy'n gweithio gyda, neu sy'n gofalu am, rywun sy'n brin neu a allai fod yn brin o allu i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hunain. Mae hyn yn cynnwys gofalcwyr teuluol neu ofalcwyr eraill nad ydynt yn cael eu talu. Bydd y canllawiau a roddir yn y Cod yn eu helpu i ddeall y Ddeddf a'i gweithredu. Dylent ddilyn y canllawiau yn y Cod cyn belled â phosibl.

Beth mae 'prin o allu' yn ei olygu?

Un o'r termau pwysicaf yn y Cod yw 'unigolyn sy'n brin o allu'.

Pryd bynnag y defnyddir y term 'unigolyn sy'n brin o allu', mae'n **golygu unigolyn sy'n brin o allu i wneud penderfyniad penodol neu i wneud gweithred benodol drostynt eu hunain ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad neu'r weithred.**

Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y gall pobl fod yn brin o allu i wneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain, ond bydd ganddynt allu i wneud penderfyniadau eraill. Er enghraifft, gall fod ganddynt allu i wneud penderfyniadau bach ynglŷn â materion pob dydd megis beth i'w wisgo neu beth i'w fwyta, ond eu bod yn brin o allu i wneud penderfyniadau mwy cymhleth am faterion ariannol.

Mae'n adlewyrchu'r ffaith hefyd y gallai unigolyn sy'n brin o allu wneud penderfyniad drostynt eu hunain ar adeg benodol wneud y penderfyniad hwnnw yn hwyrach. Er enghraifft, gall fod ganddynt salwch neu

gyflwr sy'n golygu bod eu gallu'n newid. Fel arall, gall fod oherwydd ar yr adeg mae angen i'r penderfyniad gael ei wneud, maent yn anymwybodol neu brin yn ymwybodol, naill ai oherwydd damwain neu fod o dan anaesthetig, neu gall eu gallu i wneud penderfyniad gael ei ddylanwadu gan alcohol neu gyffuriau.

Yn olaf, mae'n adlewyrchu'r ffaith tra gall rhai pobl fod yn brin o allu bob amser i wneud rhai mathau o benderfyniadau - er enghraifft, oherwydd cyflwr neu anabledd dysgu dwys sydd wedi effeithio arnynt ers eu geni - gall eraill ddysgu sgiliau newydd sy'n eu galluogi i ennill neu adennill gallu i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Mae pennod 4 yn rhoi diffiniad llawn o'r hyn a olygir gan 'ddiffyg gallu'.

Beth mae'r Cod Ymarfer yn ei gwmpasu mewn gwirionedd?

Mae'r Cod yn esbonio'r Ddeddf a'i phrif ddarpariaethau.

- Mae **Pennod 1** yn cyflwyno' Deddf Galluedd Meddyliol 2005.
- Mae **Pennod 2** yn amlinellu'r pum egwyddor statudol y tu ôl i'r Ddeddf a'r ffordd maent yn effeithio ar sut mae'n cael ei rhoi ar waith.
- Mae **Pennod 3** yn esbonio sut mae'r Ddeddf yn sicrhau bod pobl yn cael eu cynorthwyo i wneud eu penderfyniadau eu hunain cyn belled â phosibl. Mae'n rhoi canllawiau hefyd ar gadw'r unigolyn yn ganolog i'r system Trefniadau Amddiffyn Rhyddid.
- Mae **Pennod 4** yn esbonio sut mae'r Ddeddf yn diffinio 'unigolyn sy'n brin o allu i wneud penderfyniad' ac yn amlinellu prawf clir ar gyfer asesu a yw unigolyn yn brin o allu i wneud penderfyniad penodol ar adeg benodol.
- Mae **Pennod 5** yn esbonio yr hyn mae'r Ddeddf yn ei golygu wrth weithredu er y budd gorau i rywun sy'n brin o allu i wneud penderfyniad drostynt eu hunain, ac yn disgrifio'r rhestr wirio a amlinellir yn y Ddeddf i ganfod yr hyn sydd er y budd gorau i rywun.
- Mae **Pennod 6** yn esbonio sut mae'r Ddeddf yn amddiffyn pobl sy'n darparu gofal neu driniaeth i rywun sy'n brin o'r gallu i gydsynio i'r hyn a gynigir.
- Mae **Pennod 7** yn disgrifio rôl y Llys Gwarchod, a sefydlwyd o dan y Ddeddf, i wneud penderfyniadau neu ddatganiadau mewn achosion lle nad oes ffordd arall o ddatrys mater sy'n cael effaith ar unigolyn sy'n brin o allu i wneud y penderfyniad o dan sylw. Mae'r bennod hefyd yn rhoi canllawiau ar rôl y llys yn y broses Trefniadau Amddiffyn Rhyddid.
- Mae **Pennod 8** yn esbonio sut mae pobl sy'n dymuno cynllunio ymlaen llaw ar gyfer y posibilrwydd y gallent fod yn brin o allu i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hunain yn y dyfodol yn gallu rhoi Pwerau Atwrnai Arhosol (LPAs) i unigolion wedi'u henwi i wneud penderfyniadau penodol ar eu rhan, a sut y dylai atwrneiod wedi'u penodi o dan LPA weithredu.
- Mae **Pennod 9** yn disgrifio rôl y dirprwyon a benodir gan y Llys Gwarchod i weithredu a gwneud penderfyniadau dros rywun sy'n brin o allu i wneud y penderfyniadau hynny, ac mae'n esbonio sut maent yn cael eu harolygu.
- Mae **Pennod 10** yn disgrifio rôl yr Eiriolwyr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol Annibynnol (IMCAau) a benodir o dan y Ddeddf i helpu pobl sy'n brin o allu i wneud penderfyniadau arwyddocaol penodol. Mae'n amlinellu hefyd pryd y dylent gael eu cyfarwyddo. Mae Pennod 10 hefyd yn disgrifio rôl yr IMCAau o dan y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid.

- Mae **Pennod 11** yn esbonio'r gweithdrefnau mae'n rhaid eu dilyn os yw rhywun yn dymuno gwneud pendefyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth feddygol i gael ei roi ar waith pan nad oes ganddynt y gallu i wrthod y driniaeth benodedig.
- Cyflwynodd **Pennod 12** ac mae'n esbonio'r diffiniadau o amddifadu o ryddid at ddibenion Trefniadau Amddiffyn Rhyddid. Gellir defnyddio'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn unig i awdurdodi trefniadau sy'n achosi amddifadu o ryddid.
- Mae **Pennod 13** yn rhoi canllawiau ar bob cam o'r broses Trefniadau Amddiffyn Rhyddid.
- Mae **Pennod 14** yn esbonio rôl a chyfrifoldebau'r Corff Cyfrifol yn y broses Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ac yn esbonio sut mae'r Corff Cyfrifol cywir yn cael ei adnabod.
- Mae **Pennod 15** yn disgrifio rôl y Person Priodol o dan y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid, a benodwyd i roi cynrychiolaeth a chymorth i'r unigolyn trwy gydol y broses.
- Mae **Pennod 16** yn disgrifio'r tri asesiad a phenderfyniad sy'n ofynnol gan y Trefniadau DAmddiffyn Rhyddid. Mae'r bennod hon hefyd yn rhoi canllawiau ar bwy sy'n gallu cynnal yr asesiadau a'r penderfyniadau hyn.
- Mae **Pennod 17** yn disgrifio'r ymgynghori yn y broses Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ac yn amlinellu â phwy y dylid ymgynghori ac ar ba gam y dylai ymgynghori ddigwydd.
- Mae **Pennod 18** yn esbonio rôl y Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol (AMCPau) o dan y broses Trefniadau Amddiffyn Rhyddid. Mae'r AMCP yn rôl arbenigol sy'n darparu arolygiaeth fanylach o'r bobl hynny sydd ei angen fwyaf.
- Mae **Pennod 19** yn rhoi canllawiau ar adran 4B y Ddeddf, sy'n darparu'r sail gyfreithiol i wneuthurwyr penderfyniadau i gymryd camau i osod cyfyngiadau ar unigolyn mewn amgylchiadau eithriadol, pan fo'n angenrheidiol iwneud penderfyniad ynghylch triniaeth i gynnal bywyd neu weithred hanfodol i atal dirywiad difrifol yng nghyflwr yr unigolyn.
- Mae **Pennod 20** yn rhoi gwybodaeth ar sut bydd y system Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn cael ei monitro gan gyrff monitro perthnasol yn Lloegr a Chymru, pwy yw'r gyrff monitro, pa ddata y mae'n rhaid eu darparu iddynt a'r pwerau y gall gyrff monitro ymarfer i gyflawni'u cyfrifoldebau monitro.
- Mae **Pennod 21** yn esbonio'r rhannau hynny o'r Ddeddf sy'n gallu bod yn gymwys i blant a phobl ifanc a sut mae'r rhain yn berthnasol i ddeddfau eraill sy'n euheffeithio. Mae'r bennod hon hefyd yn esbonio sut mae'r system Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn gymwys i rai 16 a 17 oed.
- Mae **Pennod 22** yn esbonio sut mae'r Ddeddf yn berthnasol i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ac yn rhoi canllawiau penodol ar y rhyngwyneb rhwng y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid
- Mae **Pennod 23** yn disgrifio'r asiantaethau gwahanol sy'n bodoli i helpui sicrhau bod oedolion sy'n brin o allu i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
- Mae **Pennod 24** yn archwilio'r ffyrdd amrywiol y gellir datrys anghydfodau dros benderfyniadau a wneir o dan y Ddeddf neu fel arall yn effeithio ar bobl sy'n brin o allu i wneud penderfyniadau perthnasol. Mae'r bennod hon hefyd yn rhoi canllawiau penodol i herio'r broses Trefniadau Amddiffyn Rhyddid a, lle y bo'n gymwys, awdurdodiadau.

- Mae **Pennod 25** yn crynhoi sut mae'r deddfau ynglŷn â diogelu data a rhyddid gwybodaeth yn berthnasol i ddarpariaethau'r Ddeddf.
- Mae **Pennod 26** yn rhoi canllawiau ar sut mae'r Ddeddf yn amlinellu trefniadau amddiffyn a rheolaethau penodol yn cynnwys, neu mewn perthynas â, phobl sy'n brin o allu i gydsynio i'w cyfranogaeth.

Beth yw statws cyfreithiol y Cod?

Ble mae'n gymwys?

Mae'r Ddeddf ac felly'r Cod hwn yn gymwys i bawb y mae'n ymwneud â nhw sy'n preswyllo neu'n bresennol yn Lloegr a Chymru. Fodd bynnag, bydd hi'n bosibl hefyd i'r Llys Gwarchod ystyried achosion sy'n ymwneud ag unigolion sydd ag asedau neu eiddo y tu allan i'r awdurdodaeth hon, neu sy'n byw dramor ond sydd ag asedau neu eiddo yn Lloegr neu Gymru.

Beth sy'n digwydd os nad yw pobl yn cydymffurfio â'r Cod?

Gellir defnyddio methu â chydymffurfio â'r Cod mewn tystiolaeth gerbron llys neu dribiwnlys mewn unrhyw achos sifil neu droseddol, os bydd y llys neu'r tribiwnlys yn ystyried ei fod yn berthnasol i'r achos hwnnw. Os bydd llys neu dribiwnlys yn credu bod unrhyw un sy'n gwneud penderfyniadau dros rywun sy'n brin o allu heb weithredu er y budd gorau 'r unigolyn hwnnw, mae'r llys yn gallu defnyddio'u methiant i gydymffurfio â'r Cod fel tystiolaeth. Dyna pam ei bod yn bwysig y dylai unrhyw un sy'n gweithio gyda, neu'n gofalu am, unigolyn sy'n brin neu a allai fod yn brin o allu wneud penderfyniadau penodol ddod yn gyfarwydd â'r Cod.

Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Nid yw'r Cod Ymarfer yn ganllaw cynhwysfawr nac yn ddatganiad cyflawn o'r gyfraith. Mae deunyddiau eraill wedi cael eu cynhyrchu gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Swyddfa'r Gwarchodwr Cyhoeddus a'r Llys Gwarchod i helpu i esbonio agweddau o'r Ddeddf o bersbectifau gwahanol ac i bobl mewn sefyllfaoedd gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau ar gyfer gofalmwyr teuluol a gofalmwyr eraill a gwybodaeth sylfaenol o ddiddordeb i'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae llawer o elusennau a sefydliadau trydydd sector hefyd wedi cynhyrchu taflenni ffeithiau a chanllawiau. Mae sefydliadau proffesiynol hefyd yn gallu cynhyrchu gwybodaeth arbenigol a chanllawiau i'w haelodau. Mae gan lawer o weithleoedd erbyn hyn bolisiau a gweithdrefnau ar ran yr MCA a'r Cod y dylai staff fod yn ymwybodol ohonynt.

Mae'r Cod hefyd yn darparu gwybodaeth ynghylch ble y gellir cael canllawiau manylach o ffynonellau eraill. (Mae rhagor o wybodaeth yn ymddangos yn y troednodiadau i bob pennod.) Nid yw cyfeiriadau a wneir ac unrhyw ddolenni a ddarperir i ddeunydd neu sefydliadau yn ffurfio rhan o'r Cod ac nid ydynt yn denu'r un staws cyfreithiol. Mae cyfeiriadau at ragor o wybodaeth yn cael eu rhoi er cymorth yn unig ac ni ddylai cyfeiriadau a wneir awgrymu bod y Llywodraeth yn cymeradwyo'r fath ddeunydd.

Defnyddio'r cod

Cyfeiriadau yn y Cod Ymarfer

Trwy gydol y Cod Ymarfer, cyfeirir at Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 fel 'y Ddeddf' ac mae unrhyw adrannau a ddyfynnir yn cyfeirio at y Ddeddf hon oni bai y datgenir fel arall. Mae cyfeiriadau'n cael eu dangos fel a ganlyn: adran 4(1). Mae hyn yn cyfeirio at adran y Ddeddf. Mae rhif yr is-adran mewn cromfachau.

Lle cyfeirir at ddarpariaethau o ddeddfwriaeth arall, bydd teitl llawn y Ddeddf berthnasol yn cael ei nodi, er enghraifft 'Ddeddf Iechyd Meddwl 1983', oni bai y datgenir fel arall. (Er enghraifft, ym mhennod 13, cyfeirir at Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 fel MHA a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol fel MCA.) Cyfeirir at y Cod Ymarfer fel y Cod.

Senarios sy'n cael eu defnyddio yn y Cod Ymarfer.

Mae'r Cod yn cynnwys llawer o flychau o fewn y testun â senarios ynddynt, sy'n defnyddio cymeriadau a sefyllfaoedd dychmygol. Mae'r rhain wedi'u bwriadu i helpu i lunio beth a olygir yn y prif destun. Ni ddylai'r senarios gael eu cymryd mewn unrhyw fodd fel templedau ar gyfer penderfyniadau sydd angen eu gwneud mewn sefyllfaoedd tebyg.

Fformatau amgen a rhagor o wybodaeth

Mae'r Cod ar gael hefyd yn y Gymraeg a hawdd ei darllen a gellir ei roi ar gael mewn fformatau eraill ar gais.

DRAFT

Cynnwys

Sut ddylai'r Cod Ymarfer gael ei ddefnyddio?	3
Ar gyfer pwy mae'r Cod Ymarfer?	3
Beth mae 'prin o allu' yn ei olygu?	4
Beth mae'r Cod Ymarfer yn ei gwmpasu mewn gwirionedd?	5
Beth yw statws cyfreithiol y Cod?	7
Defnyddio'r cod	7
Fformatau amgen a rhagor o wybodaeth	8
Pa benderfyniadau sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf, a pha benderfyniadau sy'n cael eu heithrio?	16
Sut mae'r Ddeddf yn berthnasol i ddeddfwriaeth arall?	19
Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am y Cod Ymarfer?	20
2. Beth yw'r egwyddorion statudol a sut y dylid eu cymhwyso?	21
Beth yw'r egwyddorion statudol?	22
Beth yw diben yr egwyddorion statudol	22
Sut dylid cymhwyso'r egwyddorion statudol?	23
Senario: Asesu galluedd unigolyn i wneud penderfyniadau	24
Senario: Cymryd camau i helpu pobl i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain	26
Senario: Rhoi cyngor a chymorth priodol	27
Senario: Caniatáu i bobl wneud penderfyniadau mae eraill yn meddwl sy'n annoeth	28
Senario: Penderfyniadau sy'n achosi pryder	29
Senario: Canfod opsiwn llai cyfyngol	31
3. Sut dylid helpu pobl i wneud eu penderfyniadau'u hunain?	32
Crynodeb cyflym	32
Sut gellir helpu rhywun i wneud penderfyniad	33
Beth sy'n digwydd mewn sefyllfaoedd argyfwng?	34
Pa wybodaeth ddylid ei rhoi i bobl a sut dylid ei rhoi?	34
Senario: Darparu gwybodaeth berthnasol mewn ffordd briodol	37
Senario: Helpu pobl ag anghenion cyfathrebu cymhleth	38
Senario: Gwneud y mwyaf o dechnoleg	40

Pa gamau dylid eu cymryd i helpu unigolyn i deimlo'n dawel eu meddwl?	40
Senario: Gwneud i unigolyn deimlo'n dawel ei feddwl	42
Pa ffyrdd eraill sydd i alluogi gwneud penderfyniadau?	44
Sut mae'r unigolyn yn rhan o'r broses Trefniadau Amddiffyn Rhyddid?	45

4. Sut mae'r Ddeddf yn diffinio galluedd unigolyn i wneud penderfyniad a sut dylid asesu galluedd? **50**

Yn y bennod hon, fel trwy'r Cod cyfan, mae galluedd (neu brinder galluedd unigolyn) yn cyfeirio'n benodol at eu galluedd i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg bydd angen ei wneud. **50**

Beth yw galluedd meddyliol?	51
Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth 'brinder galluedd'?	53
Pa drefniadau diogelu mae'r Ddeddf yn eu darparu ynghylch asesu galluedd rhywun?	54
Pa brawf o brinder galluedd sydd ei angen ar y Ddeddf?	55
Beth yw'r prawf galluedd?	56
Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth 'methu â gwneud penderfyniad'?	57
Nam neu amhariad ar weithrediad y meddwl neu'r ymennydd	64
A yw anallu'r unigolyn i wneud y penderfyniad yn cael ei achosi gan y nam neu'r amhariad yng ngweithrediad eu meddwl neu'u hymennydd?	66
Pobl â galluedd cyfnewidiol neu allu sydd wedi'i effeithio gan ffactor dros dro	66
Galluedd cyfnewidiol a'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid	68
Amodau parhaol a allai effeithio ar allu	68
Pwy ddylai asesu galluedd?	69
Beth yw 'cred resymol' o brinder galluedd?	72
Pryd y dylid cynnwys gweithwyr proffesiynol?	74
Pa brofion cyfreithiol eraill o alluedd sydd?	76
Pa gamau dylid eu cymryd wrth asesu galluedd?	77
Ydy prosesau asesu'n gyfrinachol?	79
Beth os nad yw asesu galluedd yn bosibl?	80
Pwy ddylai gadw cofnod o asesiadau?	81
Sut mae rhywun yn gallu herio canfyddiad o brinder galluedd?	81
Asesiadau Ôl-weithredol	82

5. Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu pan fydd yn sôn am y 'budd pennaf'? **84**

- **Asesu a allai'r unigolyn adennill galluedd ac os ydyw, penderfynu a ellir gohirio'r penderfyniad tan hynny Asesu a allai'r unigolyn adennill galluedd ac os ydyw, penderfynu a ellir gohirio'r penderfyniad tan hynny.** **84**
- Beth yw egwyddor y budd pennaf ac i bwy y mae'n gymwys? 85

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth er y budd pennaf?	87
Pwy yw'r gwneuthurwr penderfyniad?	89
Senario: Dod i benderfyniad ar y cyd	92
Beth sy'n rhaid ei ystyried wrth geisio datrys budd pennaf rhywun?	92
Senario: Opsiwn llai cyfyngol	93
Senario: Dilyn y rhestr wirio	95
Pa ddiogelwch mae'r Ddeddf yn ei roi wrth geisio datrys budd pennaf rhywun?	95
Sut mae gwneuthurwr penderfyniadau'n canfod yr hyn yw 'pob amgylchiad perthnasol'?	96
5.33 Wrth geisio canfod y budd pennaf i rywun, dylai'r gwneuthurwr penderfyniadau geisio nodi'r holl faterion a fyddai'r mwyaf perthnasol i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd ac i'r penderfyniad penodol, yn ogystal â'r rhai hynny yn y 'rhestr wirio'. Yn amlwg, nid yw bob amser yn bosibl neu'n ymarferol ymchwilio pob mater yn drwyadl a allai fod o beth perthnasedd i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd neu'r penderfyniad o dan sylw. Felly diffinnir amgylchiadau perthnasol yn adran 4(11) y Ddeddf fel y rhai:	96
Sut y dylid cynnwys yr unigolyn sydd â diffyg galluedd i ganfod yr hyn sydd er y budd pennaf iddynt?	96
Senario: Cynnwys rhywun i ganfod yr hyn a fyddai er y budd pennaf iddynt	98
Sut y byddai'r siawns y bydd rhywun yn adennill ac yn datblygu galluedd y effeithio ar ganfod yr hyn sydd er y budd pennaf iddynt?	98
5.44 Mae rhai sefyllfaoedd lle gellir gohirio penderfyniadau os na fydd rhywun ar hyn o bryd â'r galluedd yn adennill y gallu i wneud y penderfyniad drostynt eu hunain. Mae Adran 4(3) y Ddeddf yn gofyn i'r gwneuthurwr penderfyniadau ystyried:	98
Senario: Penderfyniadau tymor byr ar gyfer rhywun a allai adennill galluedd	99
Sut y dylid canfod beth sydd er y budd pennaf i rywun wrth wneud penderfyniadau am driniaeth cynnal bywyd?	100
Sut mae dymuniadau a theimladau, credoau a gwerthoedd unigolyn yn effeithio ar ganfod yr hyn sydd er y budd pennaf iddynt?	102
Senario: Defnyddio cynllun gofal a chymorth yn y dyfodol	105
Senario: Ystyried credoau a gwerthoedd	106
Â phwy y dylid ymgynghori wrth ganfod beth sydd er y budd pennaf i rywun?	107
Senario: Ystyried barn eraill	109
Sut gall gwneuthurwyr penderfyniad barchu cyfrinachedd?	110
Senario: Profi bod cred resymol	111
Cofnodi penderfyniadau budd pennaf	111
Pa broblemau allai godi wrth ganfod beth sydd er y budd pennaf i rywun?	114

5.112 Mae'n bwysig y defnyddir yr egwyddor budd pennaf a'r rhestr wirio statudol yn hyblyg. Mewn rhai achosion, gall mantolen o opsiynau o blaid ac yn erbyn fod yn ddull defnyddiol i sicrhau y cynhwyswyd pob ffactor. Fodd bynnag, dylid ei defnyddio'n unig fel cymorth ac nid fel rhywbeth arall ar gyfer gwneud penderfyniad²⁴. Nid yw'r ffaith bod sawl cofnod mewn un golofn, ynddynt eu hunain, yn cyflwyno ateb. Mae'n

bosibl y bydd un cofnod yn unig yn y golofn arall, ond mae o'r fath bwysigrwydd fel ei fod yn troi'r fantol yn erbyn yr holl gofnodion yn y llall. Mae'r llysoedd wedi cyfeirio at hyn fel bod yn sefyllfa lle mae ffactor o 'bwysigrwydd magnetig'.¹²⁵ Ymhob achos, mae'n bwysig y rhoddir ystyriaeth iawn i flaenoriaethu pob ffactor perthnasol fel bod y canlyniad y gorau posibl ar gyfer yr unigolyn sydd â diffyg galluedd i wneud y penderfyniad penodol. Ni fydd cymhlethdodau gyda rhai penderfyniadau, ac eraill yn fwy cymhleth. 114

5.113 Gall aelodau'r teulu, partneriaid a gofalmwyr anghytuno ymhlith ei gilydd. Neu gallant fod ag atgofion gwahanol am farn yr unigolyn a fynegwyd yn y gorffennol. Gall gofalmwyr a theulu anghytuno a barn gweithiwr proffesiynol am ofal neu anghenion triniaeth yr unigolyn. 114

Senario: Cytuno anghytundebau 116

6. Pa amddiffyniad mae'r Ddeddf yn ei gynnig i bobl sy'n darparu gofal neu driniaeth? 117

Pa amddiffyniad sydd gan bobl wrth ofalu am y rhai hynny sydd â diffyg galluedd i gydsynio? 118

Pa fath o weithredoedd y mae'n bosibl bod ganddynt amddiffyniad rhagatebolrwydd? 119

Pryd yr ystyrir gweithredoedd fel eu bod yn amddifadu unigolyn o'u rhyddid? 126

Cadw cofnodion ac amddiffyn rhag atebolrwydd 126

Pwy sy'n cael ei amddiffyn rhag atebolrwydd gan adran 5? 127

Beth sy'n digwydd mewn sefyllfaoedd brys? 131

Beth yw effaith penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth? 131

Pa derfynau sydd ar amddiffyn rhag atebolrwydd? 132

7. Beth yw rôl y Llys Gwarchod? 139

Beth yw'r Llys Gwarchod? 140

Pa bwerau sydd gan y Llys Gwarchod? 140

Pryd bydd cais i'r Llys Gwarchod yn ofynnol? 144

Pa bwerau sydd gan y llys mewn perthynas â Phwerau Atwrnai? 148

Y Llys Gwarchod ac amddifadu o ryddid 149

Gweithredu datganiad neu benderfyniad gan y llys 150

Achosion yn ymwneud â phobl ifanc 16 neu 17 oed 150

Pwy ddylai gyflwyno cais? 151

Fydd cyllid cyfreithiol cyhoeddus ar gael? 154

8. Atwrneiaeth Arhosol 157

Beth yw Atwrneiaeth Arhosol (LPA)? 158

Sut mae rhoddwr yn creu LPA? 158

Pwy all fod yn atwrnai? 160

Sut ddylai rhywun gofrestru a defnyddio LPA? 162

Beth ddylai rhywun, fel gweithiwr cymdeithasol neu feddyg, wneud pan fydd unigolyn yn honni bod yn atwrnai dros eu cleient neu glaf?	164
Pa benderfyniadau gall atwrnai eu gwneud?	165
Oes unrhyw gyfyngiadau eraill ar bwerau atwrneiod?	174
Pa bwerau sydd gan y Llys Gwarchod dros LPAau?	174
Pa gyfrifoldebau sydd gan atwrneiod?	176
Senario: Ymgynghori ag atwrneiod	178
Beth yw dyletswyddau eraill atwrnai?	179
Beth ddylai atwrnai ei wneud os na fyddant yn gallu cyflawni'u dyletswyddau?	182
Sut mae'r Ddeddf yn diogelu rhoddwyr rhag camdriniaeth?	183
Beth yw EPA a sut mae'n wahanol i LPA?	185
Beth yw'r sefyllfa gydag EPAau?	186
9. Beth yw rôl dirprwyon a benodir gan y llys?	187
PryPryd all neu ddylai'r llys benodi dirprwy?	188
Pryd allai fod angen penodi dirprwy?	189
Pwy sy'n gallu bod yn ddirprwy?	192
A yw'r llys yn gallu diogelu pobl sydd â phrinder galluedd rhag colled ariannol?	194
Beth sy'n rhaid i'r dirprwy wneud?	195
Beth yw dyletswyddau eraill dirprwy?	198
Beth na all dirprwy ei wneud?	202
Pryd all dirprwy wneud rhoddion neu daliadau tebyg?	202
Beth yw rôl y Gwarcheidwad Cyhoeddus a Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus?	203
Goruchwylio dirprwyon	204
10. Beth yw rôl yr Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA)?	207
Beth yw gwasanaeth yr IMCA o dan adran 37 - 39 yr MCA (penderfyniadau ynghylch triniaeth feddygol ddifrifol neu lety)?	209
Senario: Mae IMCA yn herio asesiad ar alluedd	213
Senario: Rôl yr IMCA wrth gyfathrebu â'r unigolyn a'u cynorthwyo i fod yn rhan o benderfyniad	216
Senario: IMCA a thriniaeth feddygol ddifrifol	218
Senario: Defnyddio IMCA ar gyfer triniaeth barhaus	219
Senario: Penderfyniad ynghylch llety	221
Pryd y dylid penodi IMCA o dan yr LPS?	226
11. Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?	235

Crynodeb cyflym	235
Sut y gall rhywun wneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth?	236
Senario: Penderfyniadau ymlaen llaw a chynllunio gofal	237
Pwy all wneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth?	237
Senario: Parchu'r gallu i wneud penderfyniad ymlaen llaw	239
Beth ddylai pobl ei gynnwys mewn penderfyniad ymlaen llaw?	240
Pa reolau sy'n berthnasol i benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd?	243
Pryd ddylai rhywun adolygu neu ddiweddarau penderfyniad ymlaen llaw	244
Sut y gall rhywun dynnu penderfyniad ymlaen llaw yn ôl?	245
Sut y gall rhywun wneud newidiadau i benderfyniad ymlaen llaw?	245
Sut mae penderfyniadau ymlaen llaw yn gysylltiedig â rheolau eraill ynghylch gwneud penderfyniadau?	245
Sut y gall rhywun benderfynu ar fodolaeth, dilysrwydd a pherthnasedd penderfyniadau ymlaen llaw?	246
Senario: Asesu a yw penderfyniad ymlaen llaw yn ddilys	248
Senario: Asesu a yw penderfyniad ymlaen llaw yn berthnasol	250
Beth sy'n digwydd i benderfyniadau a wnaed cyn y daeth y Ddeddf i rym?	250
Beth yw'r goblygiadau sydd gan benderfyniadau ymlaen llaw ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol?	250
Pryd gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fod yn atebol?	252
Beth os oes gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol wrthwynebiad cydwybodol i ddarparu neu roi terfyn ar driniaeth sy'n cynnal bywyd?	253
Beth fydd yn digwydd os bydd anghytundeb ynghylch penderfyniad ymlaen llaw?	254
Sut mae datganiadau ymlaen llaw a chynlluniau gofal a chymorth ymlaen llaw yn wahanol i benderfyniadau ymlaen llaw?	255
12. Beth yw diffiniad Amddifadu o Ryddid?	256
Crynodeb cyflym	256
Mrs L	267
Beth yw ystyr rhoi cydsyniad dilys?	272
Cyfrifoldeb y Wladwriaeth	277
Triniaeth feddygol ar gyfer problemau iechyd corfforol	278
13. yw'r broses ar gyfer awdurdodi trefniadau o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid?	281
Crynodeb cyflym	281
Cyn sbarduno'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid	282
Cynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn	288

Ymgynghori	289
Y Broses Awdurdodi	290
14. Beth yw rôl Corff Cyfrifol ym mhroses y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid?	303
Crynodeb Cyflym	303
Pa sefydliadau sy'n gallu bod yn Gorff Cyfrifol?	304
Sut i sefydlu pa sefydliad yw'r Corff Cyfrifol	304
Pwy yw'r Corff Cyfrifol ar gyfer trefniadau mewn Ymddiriedolaeth y GIG neu Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG neu Fwrdd Iechyd Lleol?	305
Pwy yw'r Corff Cyfrifol ar gyfer trefniadau mewn Ysbyty Annibynnol?	306
Pwy yw'r Corff Cyfrifol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus yn Lloegr a Gofal Iechyd Parhaus y GIG yng Nghymru?	307
Pwy yw'r Corff Cyfrifol ar gyfer pob sefyllfa arall?	309
Beth yw'r egwyddor 'Dim Drws Anghywir'?	311
Beth y dylid ei ystyried yn ystod gweithio trawsffiniol?	311
Beth fydd yn digwydd pan fydd unigolyn o Loegr yn symud i wasanaeth yng Nghymru?	312
Beth fydd yn digwydd pan fydd unigolyn o Gymru'n symud i wasanaeth yn Lloegr?	313
Beth fydd yn digwydd pan fydd unigolyn o'r Alban neu Ogledd Iwerddon yn symud i wasanaeth yn Lloegr neu yng Nghymru?	314
Beth fydd yn digwydd pan fydd unigolyn o Loegr neu Gymru'n symud i wasanaeth yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon?	315
Sut dylid datrys anghydfod?	315
Beth yw dyletswydd y Corff Cyfrifol i gyflwyno gwybodaeth?	317
Beth yw rôl y Corff Cyfrifol wrth sicrhau bod rhannu data'n gyfreithlon?	318
Sut mae'r Corff Cyfrifol yn rhyngweithio â'r Llys Gwarchod?	319
Beth yw rôl y Corff Cyfrifol wrth fonitro ac adrodd?	319
15. Beth yw rôl y Person Priodol yn y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid?	321
Crynodeb Cyflym	321
Mae gan y Person Priodol hefyd yr hawl, mewn amgylchiadau penodol, i gael eu cynorthwyo yn y rôl gan IMCA ac mae gan y Corff Cyfrifol gyfrifoldeb i'w cynorthwyo.	322
Pwy all fod yn Person Priodol?	322
Sut mae'r Corff Cyfrifol yn pennu a oes unigolyn addas i weithredu fel y Person Priodol?	324
A oes angen i'r unigolyn o dan sylw gydsynio i'w penodi fel y Person Priodol?	327
Pwy sy'n nodi a oes Person Priodol ar gael?	328
Pryd y penodir Person Priodol?	328
Beth yw rôl y Person Priodol?	330

Beth yw hawliau'r Person Priodol?	333
16. Beth yw'r asesiadau a'r penderfyniadau sydd eu hangen ar gyfer y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid?	337
Crynodeb cyflym	337
Asesiadau LPS ac asesiadau ac adolygiadau Gofal neu Driniaeth	338
Yr asesiadau a'r penderfyniadau sydd eu hangen ar gyfer yr LPS	340
Asesiad a Phenderfyniad y Galluedd Meddyliol	343
Yr Asesiad a'r Penderfyniad Meddygol ynghylch Anhwylder Meddyliol	347
Yr Asesiad a'r Penderfyniad Angenrheidiol a Chymesur	350
17. Beth yw'r ddyletswydd i ymgynghori yn y broses Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid?	356
Crynodeb cyflym	356
Â phwy y dylid ymgynghori ynghylch y trefniadau a gynigir a dymuniadau a theimladau'r unigolyn y gofalir amdano?	357
Pwy ddylai gynnal yr ymgynghoriad a phryd y dylid ei gynnal?	358
Beth yw'r ddyletswydd i ymgynghori yn y broses Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid?	359
18. Beth yw rôl Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol ?	364
Crynodeb cyflym	364
Dyletswydd yr awdurdod lleol i gymeradwyo AMCP	365
Dyletswydd yr awdurdod lleol i sicrhau bod digon o AMCPau ar gyfer ei ardal	366
Beth yw gwasanaeth AMCP?	367
Pwy all fod yn AMCP?	367
Beth yw rôl yr AMCP yn yr adolygiad cyn-awdurdodi?	369
Beth yw Rôl yr AMCP mewn Adolygiadau?	377
Adegau eraill pan all AMCP gyfrannu	378
19. Beth yw adran 4B?	380
Oni bai mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n anghyfreithlon gosod cyfyngiadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid ar unigolyn cyn y mae penderfyniad i awdurdodi trefniadau o'r fath wedi'i wneud gan y Corff Cyfrifol neu y mae penderfyniad perthnasol yn cael ei wneud gan y llys. Amgylchiadau eithriadol yw amgylchiadau lle mae'n angenrheidiol gwneud penderfyniad i wneud triniaeth cynnal bywyd neu weithred hanfodol i atal dirywiad difrifol yng nghyflwr yr unigolyn. Eglurir y telerau hyn yn fanylach yn y bennod hon.	380
Os bodlonir amodau penodol, mae adran 4B Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (yr MCA) yn darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer gwneuthurwyr penderfyniad i gymryd camau i osod cyfyngiadau ar unigolyn. Mae'r bennod hon yn nodi'r amodau y mae'n rhaid iddynt eu defnyddio cyn y gellir dibynnu ar adran 4B.	380
Pryd y gellir dibynnu ar adran 4B?	381

Beth yw'r rhyngweithiad rhwng Cyrff Cyfrifol a'r defnydd o adran 4B?	386
Pwy y dylid eu hysbysu pan dibynnir ar adran 4B?	386
Cadw a rhannu cofnodion	388
20. Monitro ac Adrodd am y cynllun Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid	390
Crynodeb o'r Bennod hon	390
Beth yw'r nodau monitro ac adrodd am y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid?	391
Pwy fydd yn monitro'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid?	392
Pa bwerau sydd gan y cyrff monitro a beth maent yn ei wneud?	392
Cyfarfod â'r unigolyn sy'n ddarostyngedig i awdurdodiad LPS	393
Cynnal ymweliadau	394
System hysbysu	395
21. Sut mae'r Ddeddf yn berthnasol i blant a phobl ifanc?	397
Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a phobl 16 a 17 oed	399
A oes unrhyw ran o'r Ddeddf nad yw'n berthnasol i bobl ifanc 16 neu 17 oed?	400
Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am ofal neu driniaeth pobl ifanc 16 neu 17 oed?	401
Senario: Canfod beth yw budd gorau unigolyn ifanc	402
Pa lysoedd sy'n ystyried achosion sy'n cynnwys pobl ifanc?	403
Senario: Defnyddio'r Ddeddf ar gyfer plant	405
Roedd Mr T yn naw mlwydd oed pan darodd gyrrwr meddw ef i ffwrdd o'i feic a achosodd anafiadau difrifol i'w ben gan gynnwys niwed i'r ymennydd. Mae ei rieni'n gwneud hawliad am iawndal a dwy flynedd yn ddiweddarach, maent yn derbyn taliad sylweddol oherwydd anghenion gofal a llety gydol oes Mr T o ganlyniad i'r ddamwain.	405
Asesir bod Mr T yn annhebygol iawn o wella ddigon i allu gwneud penderfyniad pwysig neu gymhleth o ran arian, iechyd a lles pan fydd yn 18 oed neu'n hŷn. Felly, mae ei rieni'n gwneud cais i'r Llys Gwarchod i fod yn ddirprwyon eiddo, arian, iechyd a lles iddo. Mae'r llys yn gwneud y gorchmynion i'w penodi, fel y gallant wneud y penderfyniadau cymhleth i drefnu a thalu am y gofal y bydd angen ar Mr T yn y dyfodol.	405
Er eu bod yn ddirprwyon, mae rhieni Mr T yn parhau i gefnogi Mr T i wneud y penderfyniadau y mae ganddo'r gallu i'w gwneud, a'i gynnwys, a chanfod ei ddymuniadau a'i deimladau, am y penderfyniadau y mae ganddo brinder gallu i'w gwneud.	405
Senario: Gwrando ar achosion yn y llys priodol	405
Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a phlant o dan 16 oed	405
Sut y mae'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid yn berthnasol i Bobl Ifanc?	406
Pwy yw'r Corff Cyfrifol cywir?	410
Pa leoliadau all awdurdodiadau LPS eu defnyddio ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed?	411
Beth yw rôl a hawliau rhieni neu'r rhai hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant yn system yr LPS?	413
Hyd awdurdodiadau LPS, amllder adolygiadau ac adnewyddu ar gyfer pobl ifanc	415

Trosglwyddo pobl ifanc i wasanaethau oedolion	416
22. Beth yw'r berthynas rhwng y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Deddf Iechyd Meddwl 1983?	417
I bwy mae'r MHA yn gymwys?	420
Beth yw terfynau'r MCA?	420
Senario: Defnyddio'r MHA	421
Sut mae'r MCA yn gymwys i glaf sy'n ddarostyngedig i warcheidiaeth o dan yr MHA?	422
Sut mae'r MCA yn gymwys i glaf sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Triniaeth Gymunedol (CTO) o dan yr MHA?	424
Senario: Rhyngwyneb rhwng yr MHA a'r MCA pan fydd rhywun o dan Orchymyn Triniaeth Gymunedol	425
Sut mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn effeithio ar bobl a gynhwysir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl?	425
Beth yw'r goblygiadau i bobl sydd angen triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol?	426
Senario: Defnyddio'r MCA i drin claf sy'n cael ei gadw o dan yr MHA	427
Sut mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn effeithio ar benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?	428
Senario: Penderfynu a ddylid parchu penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth	429
Sut mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn effeithio ar gydsyniad ymlaen llaw i unigolyn gael ei dderbyn i'r ysbyty?	429
A yw'r MHA yn effeithio ar ddyletswyddau atwrneiod a dirprwyon?	430
A yw'r MHA yn cael effaith pan fydd yn rhaid rhoi cyfarwyddyd i Eiriolwyr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol?	431
Beth yw Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHAau) a sut maent yn wahanol i Eiriolwyr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCAau)?	432
Beth yw effaith adran 57 y Ddeddf Iechyd Meddwl ar yr MCA?	432
Beth sy'n digwydd pan fydd angen i unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol gael ei amddifadu o ryddid mewn ysbyty ar gyfer asesiad neu driniaeth anhwylder meddyliol?	433
Derbyn i'r ysbyty ar gyfer trin anhwylder meddyliol yn feddygol	433
Cleifion MHA yn y gymuned a'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid	436
Achosion lle na ellir defnyddio'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid	437
23. Pa ddulliau diogelu sy'n bodoli i bobl sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniad drostynt eu hunain?	440
Beth yw camdriniaeth?	441
Math o gamdriniaeth	441
Enghreifftiau	441
Pa ddeddfwriaeth sy'n diogelu pobl sydd â phrinder gallu rhag camdriniaeth neu esgeulustod?	443

Beth os bydd rhywun yn meddwl y gall unigolyn sydd â phrinder gallu fod mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod?	443
Beth yw rôl y Ddeddf mewn diogelu pobl rhag camdriniaeth?	444
Senario: Defnyddio Ymwelydd Cyffredinol	446
Sut mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn arolygu LPAau?	446
Sut mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn goruchwyllo dirprwyon?	447
Senario: Pryderon ynghylch dirprwy iechyd a lles	448
Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn dweud eu bod yn pryderu am atwrnai neu ddirprwy?	448
Sut mae'r Ddeddf yn delio â thriniaeth wael ac esgeuluso bwriadol?	450
Pwy ddylai sicrhau bod staff yn ddiogel i weithio gyda'r bobl maent yn gofalu amdanynt?	451
Senario: Adrodd am gam-drin	451
Pwy sy'n gyfrifol am fonitro safon darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol?	452
Beth yw penodai, a phwy sy'n eu monitro?	452
24. Beth yw'r ffyrdd gorau o ddatrys anghytundebau ac anghydfodau ynglŷn â materion sy'n cael eu cynnwys yn y Ddeddf?	455
Pa opsiynau sydd ar gyfer datrys anghytundebau?	456
Senario: Anghytundeb ynghylch gallu	457
Pryd fydd eiriolwr yn ddefnyddiol?	458
Pryd fydd cyfryngiad yn ddefnyddiol?	459
Senario: Defnyddio cyfryngu	461
Gweithdrefnau ar gyfer codi pryderon neu gwynion	462
Beth yw'r ffordd orau i ymdrin ag anghytundeb ynghylch cyllid unigolyn?	464
Sut gall y Llys Gwarchod helpu?	464
Fydd cyllid cyfreithiol cyhoeddus ar gael?	464
Pwy sy'n gallu codi pryderon am drefniadau, proses y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid, neu'r awdurdodiad?	466
Pa heriau all gael eu codi yn erbyn y trefniadau, awdurdodiad, neu broses yr LPS?	469
25. Pa reolau sy'n llywodraethu mynediad at wybodaeth am unigolyn sydd â phrinder gallu?	472
Pa gyfreithiau a rheoliadau sy'n effeithio ar fynediad at wybodaeth?	473
Sut mae rhywun yn cael mynediad atwybodaeth ar ran rhywun arall?	474
Pryd gall atwrneiod a dirprwyon ofyn i weld gwybodaeth bersonol?	476
Senario: Rhoi mynediad i atwrneiod at wybodaeth bersonol	477
Pryd gall rhywun weld gwybodaeth am ofal iechyd neu ofal cymdeithasol?	478

Senario: Rhannu gwybodaeth briodol	479
Pa wybodaeth ariannol y gellir ei rhannu?	480
A yw gwybodaeth yn parhau'n gyfrinachol ar ôl i rywun ei rhannu?	480
Beth yw'r ffordd orau i ddatrys anghytundeb am wybodaeth bersonol?	481
26. Sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar brosiectau ymchwil sy'n cynnwys unigolyn sydd â neu all fod â phrinder gallu?	482
Crynodeb cyflym	483
Beth yw 'ymchwil'?	483
Sut gall ymchwil sy'n cynnwys pobl sydd â phrinder gallu yn helpu?	485

DRAFT

Sut gall ymchwil sy'n cynnwys pobl sydd â phrinder gallu yn helpu?

Mae ymchwilydd yn ymgymryd ag ymchwil arsylwadol i ba mor effeithiol mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yn cynnwys pobl mewn cynllunio'u gofal a'u cymorth. Mae'n cynllunio i arsylwi ar gyfarfodydd gweithwyr cymdeithasol awdurdod lleol gyda chleientiaid a gofalwyr neu weithwyr cymorth i drafod eu cynlluniau cymorth.

Mae eisiau sicrhau bod ei sampl yn gynrychioladol o'r ystod eang o bobl mae gwasanaethau cymdeithasol yn eu cynorthwyo, gan gynnwys pobl â namau gwybyddol mwy difrifol sy'n effeithio ar ddealltwriaeth a chyfathrebu. Mae hyn yn golygu y gall rhai cyfranogwyr posibl fod â phrinder galluedd meddyliol i gydsynio i gymryd rhan yn yr ymchwil. Byddai'r ymchwil yn llai effeithiol pe na byddai'n cynnwys y grŵp hwn, oherwydd y gallant gyflwyno heriau clir ar gyfer cymryd rhan mewn cynllunio cymorth.

Mae'r ymchwilydd yn hyderus y bydd yr ymchwil hwn yn y pen draw o fudd i bobl â namau tebyg oherwydd y bydd yn darparu argymhellion ar ffyrdd i gynnwys y boblogaeth hon yn fwy effeithiol. Mae'n credu bod y risgiau o gymryd rhan yn ddibwys ond mae wedi cymryd camau i adnabod unrhyw rai a allai ddigwydd a lleihau'r rhain.

Mae'r ymchwilydd yn ceisio cydsyniad i arsylwi'r cyfarfodydd cynllunio cymorth gan y gweithwyr cymdeithasol y bydd yn arsylwi eu gwaith, yn ogystal ag unrhyw ofalwyr neu gynorthwywyr eraill a all fynychu. Pan fo'n teimlo y gall fod gan gyfranogwr anawsterau deall fersiynau hygyrch y taflenni gwybodaeth a ffurflenni cydsynio a baratodd, mae'n derbyn cyngor gan y gweithiwr cymdeithasol ac unrhyw ofalwyr ynghylch y ffordd orau i gyfathrebu â'r unigolyn i gynorthwyo'u dealltwriaeth. Os, ar ôl siarad a'r unigolyn amdano, y bydd yn ystyried nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i gydsynio i gymryd rhan, ond nad oes dim byd yn dangos na fyddent yn dymuno cymryd rhan neu nad ydynt yn dymuno iddo fod yn bresennol, yna mae'n mynd at unrhyw ofalwyr yr unigolyn fel 'ymgynghorai personol' am eu barn ar ddymuniadau a theimladau'r unigolyn am gymryd rhan mewn ymchwil. Os na fydd gan yr unigolyn ofalwr a fyddai'n briodol i ymgynghori ag ef, bydd yn siarad â'r gweithiwr cymdeithasol fel 'ymgynghorai enwebedig'. Os ar unrhyw adeg yn ystod yr arsylwi bydd yr ymchwilydd yn synhwyro bod ei bresenoldeb yn gwneud i'r cyfranogwr deimlo'n ofidus neu'n bryderus, neu nad ydynt yn dymuno ei fod yno, yna mae'n gadael yr ystafell ac yn dileu'u ddata o'r astudiaeth.

485

Pa ragdybiaethau gall ymchwilydd eu gwneud am allu?

486

26.7 Dylai ymchwilwyr ragdybio bod gan unigolyn allu, oni bai bod rheswm i gredu eu bod â phrinder gallu i wneud penderfyniad penodol (gweler pennod 3). Wrth ofyn am gydsyniad gwybodus, mae'n rhaid cymryd pob cam rhesymol hefyd i gynorthwyo'r unigolyn i wneud eu penderfyniad eu hun a'u galluogi i roi cydsyniad gwybodus. Mae pennod 3 yn esbonio camau y dylid eu cymryd a all helpu rhywun i wneud penderfyniad drostynt ei

hunain. Mae gan yr unigolyn yr hawl i wneud penderfyniadau na fyddai eraill yn cytuno â nhw o bosibl, ac mae ganddynt yr hawl i beidio â chymryd rhan mewn ymchwil.	486
26.8 Wedi cymryd pob cam rhesymol i gynorthwyo'r cyfranogwr i wneud penderfyniad, gall fod gan ymchwilwyr reswm i gredu y gall cyfranogwr fod â phrinder gallu i gymryd rhan mewn ymchwil. Os felly, maent yn gyfrifol am benderfynu a yw'r unigolyn yn gallu rhoi cydsyniad gwybodus neu beidio. Gall hyn olygu eu bod nhw eu hunain yn ymgymryd ag asesiad ar alluedd neu gall fod yn briodol ceisio barn aseswr arbenigol neu drydydd parti sy'n adnabod yr unigolyn yn dda.	486
26.9 Os bydd yr ymchwilwyr yn dymuno cynnwys unigolyn maent wedi sefydlu sydd â phrinder gallu i gydsynio i gymryd rhan yn yr ymchwil, mae'n rhaid iddynt ddilyn y gweithdrefnau a osodir yn adrannau 30-34 y Ddeddf, gan gynnwys gofyn am awdurdodiad gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil statudol awdurdodedig (REC – gweler 11.22).	486
26.10 Os na fydd yr ymchwilwyr yn dymuno cynnwys poblydd â phrinder gallu yn eu hymchwil, yna ni fydd angen iddynt ddilyn prosesau'r Ddeddf a cheisio awdurdodiad gan REC statudol. Fodd bynnag, dylent archwilio'n ofalus gyda'u prifysgol neu bwyllgor moeseg adrannol unrhyw faterion sensitif a all godi ynghylch asesu gallu neu eithrio rhai pobl rhag cymryd rhan mewn ymchwil.	486
Pa ymchwil mae adran 30-33 o'r Ddeddf yn ei gynnwys?	486
Sut gall ymchwil sy'n cynnwys unigolyn sydd â phrinder gallu gael cymeradwyaeth foesegol?	489
26.19 Nid yw ymchwil sy'n cael ei gynnwys gan y Ddeddf yn gallu cynnwys pobl sydd â phrinder gallu i gydsynio i'r ymchwil oni bai:	489
Ymchwil sy'n cynnwys pobl sydd â gallu'n unig	491
Cynnwys pobl sydd â phrinder gallu mewn ymchwil	493
Ymchwil ansoddol sy'n cynnwys pobl sydd â phrinder gallu	494
Pa gyfrifoldebau sydd gan ymchwilwyr wrth gynnwys unigolyn sydd â phrinder gallu?	494
26.36 Cyn cychwyn yr ymchwil, mae'n rhaid i'r tîm ymchwil wneud trefniadau i:	494
Beth fydd yn digwydd os bydd gofyn am benderfyniadau brys yn ystod y prosiect ymchwil?	503
Beth fydd yn digwydd ar gyfer ymchwil sy'n cynnwys meinweoedd dynol?	504
Beth os bydd gan unigolyn allu pan fydd ymchwil yn dechrau ond ei fod colli gallu?	505

1. Beth yw Deddf Galluedd Meddyliol 2005?

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (y Ddeddf) yn darparu'r fframwaith cyfreithiol i bobl 16+ oed i wneud eu penderfyniadau eu hunain, ochr yn ochr ag amlinellu'r fframwaith cyfreithiol ar sut i wneud penderfyniadau ar ran unigolion sydd â phrinder galluedd meddyliol i wneud hynny drostynt eu hunain. Mae'n rhaid i bawb sy'n gweithio gyda a/neu'n gofalu am unigolyn a all fod yn brin o allu wneud penderfyniad penodol i gydymffurfio â'r Ddeddf hon wrth gynorthwyo neu wneud penderfyniad dros yr unigolyn hwnnw. Mae'r un rheolau'n gymwys a yw'r penderfyniad ynglŷn a digwyddiad sy'n newid bywyd neu sefyllfa bob dydd.

Man cychwyn y Ddeddf yw y dylid rhagdybio bod gan unigolyn allu cyfreithiol i wneud penderfyniad drosto'i hun (yr hawl i annibyniaeth) oni bai ei bod wedi'i sefydlu nad oes ganddynt allu. Bydd unigolyn yn brin o allu os bydd asesiad yn dangos nad oes ganddynt y galluedd i wneud penderfyniad ar yr adeg y mae angen iddo gael ei wneud. Mae'r Ddeddf hefyd yn datgan bod yn rhaid rhoi pob cymorth a chefnogaeth ymarferol i'w galluogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain, neu i gynyddu eu cyfranogiad mewn unrhyw broses gwneud penderfyniad.

Athroniaeth sylfaenol y Ddeddf yw grymuso pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain lle y bo'n bosibl a sicrhau bod unrhyw benderfyniad neu weithred a weir ar ran rhywun sydd â phrinder galluedd i wneud y penderfyniad neu i weithredu drosto'i hun yn cael ei wneud er eu budd gorau.

Bwriad y Ddeddf yw cynorthwyo a chefnogi pobl a all fod yn brin o allu ac annog unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu amdanynt rhag bod yn orgyfngol neu'n eu rheoli. Ond nod y Ddeddf hefyd yw cydbwyso hawl unigolyn i wneud penderfyniad drostynt eu hunain â'u hawl i gael eu diogelu rhag niwed os byddant yn brin o allu i wneud penderfyniad i amddiffyn eu hun. Mae'r Ddeddf, gyda Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019, hefyd yn amlinellu'r darpariaethau ar gyfer amddifadu rhywun yn gyfreithiol o ryddid sydd â phrinder galluedd.

Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r egwyddorion craidd a fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau a chyflawni gweithredoedd mewn perthynas ag ystod eang o faterion gan gynnwys lles personol, gofal iechyd a materion ariannol.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys sawl rôl, corff a phŵer, pob un ohonynt yn cefnogi darpariaethau'r Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Atwrneiod wedi'u penodi o dan Bwerau Atwrnai Arhosol a Pharhaus (gweler pennod 8)
- Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG) (gweler yn arbennig penodau 8 a 9)

- Y Llys Gwarchod (gweler Pennod 7)
- Dirprwyon wedi'u penodi gan lys (gweler pennod 9)
- Eiriolwyr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (gweler pennod 10)
- Corff Cyfrifol
- Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol
- Adolygwr
- Person Priodol

Pa benderfyniadau sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf, a pha benderfyniadau sy'n cael eu heithrio?

- 1.1 Mae'r Ddeddf yn gymwys i ystod eang iawn o benderfyniadau neu weithredoedd a wneir, ar ran pobl a all fod yn brin o allu i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hunain. Mae'r rhain yn gallu bod yn benderfyniadau am:
- faterion dydd i ddydd megis beth i'w wisgo, beth i'w brynu wrth wneud y siopa wythnosol, neu driniaeth feddygol arferol
 - digwyddiadau mawr sy'n newid bywyd, megis a ddylai'r unigolyn symud i gartref gofal neu gael triniaeth feddygol fawr
- 1.2 Mae rhai penderfyniadau na ellir fyth eu gwneud ar ran unigolyn sydd â phrinder galluedd. Mae hyn oherwydd eu bod naill ai'n bersonol iawn i'r unigolyn o dan sylw neu wedi'u rheoli gan ddeddfwriaeth arall.
- 1.3 Mae adrannau 27 i 29 ac adran 62 y Ddeddf yn amlinellu'r penderfyniadau penodol na ellir fyth eu gwneud neu weithredoedd na ellir fyth eu cyflawni ar ran unigolyn sydd â phrinder galluedd o dan y Ddeddf, naill ai gan aelodau teuluol, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol, atwrneiod neu'r Llys Gwarchod. Mae'r rhain yn cael eu crynhoi isod.

Penderfyniadau ynglŷn â pherthnasoedd teuluol (adran 27)

- 1.4 Mae Adran 27 y Ddeddf yn eithrio penderfyniadau ynglŷn â'r materion canlynol yn benodol:
- cydsynio i briodas neu bartneriaeth sifil
 - cydsynio i gael perthnasoedd rhywiol
 - cydsynio i archddyfarniad ysgariad ar sail dwy flynedd o fod ar wahân

- cydsynio i ddiddymu partneriaeth sifil
- cydsynio i blentyn gael ei roi i'w fabwysiadu neu wneud gorchymyn mabwysiadu
- cyflawni cyfrifoldeb rhieni ar gyfer plentyn mewn materion nad ydynt yn gysylltiedig ag eiddo'r plentyn
- rhoi cydsyniad o dan Ddeddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008

1.5 Dylid cynnal asesiad ar alluedd os oes angen er mwyn sefydlu a yw'r unigolyn yn brin o allu i wneud penderfyniad ar un o'r materion hyn. Gweler Pennod 4 ar asesu galluedd.

Materion Deddf Iechyd Meddwl (adran 28)

1.6 Pan fydd unigolyn sydd â phrinder galluedd i gydsynio'n cael ei gadw ar hyn o bryd ac yn cael ei drin o dan Ran 4 Deddf Iechyd Meddwl 1983, nid oes dim yn y Ddeddf sy'n awdurdodi unrhyw un i:

- roi triniaeth i'r unigolyn ar gyfer anhwylder meddyliol
- cydsynio i'r unigolyn gael derbyn triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol

1.7 Ceir canllawiau pellach ym mhennod 22 y Cod.

Hawliau pleidleisio (adran 29)

1.8 Nid oes dim yn y Ddeddf yn caniatáu penderfyniad ar bleidleisio, mewn etholiad ar gyfer unrhyw swydd gyhoeddus neu mewn refferendwm, i'w wneud ar ran unigolyn. Nid oes rhaid i neb ddangos bod ganddynt y "galluedd meddyliol i bleidleisio".¹

Lladd anghyfreithlon neu gynorthwyo hunanladdiad (adran 62)

1.9 Er mwyn osgoi amheuaeth, nid oes dim yn y Ddeddf i'w gymryd sy'n effeithio ar y gyfraith ynglŷn â llofruddiaeth, dynladdiad neu gynorthwyo hunanladdiad.

1.10 Er nad yw'r Ddeddf yn caniatáu i unrhyw un wneud penderfyniad am unrhyw un o'r materion hyn ar ran rhywun sydd â phrinder galluedd, nid yw hyn yn atal camau gweithredu i ddiogelu unigolyn mewn perygl o gam-drin neu gamfanteisio. Pan nad yw'r unigolyn yn gallu cydsynio i'r fath weithred, mae'n rhaid i'r camau gweithredu a wneir fod er eu budd gorau ac os bydd angen dylid gwneud cais i'r Uchel Lys ystyried y mater o dan ei awdurdodaeth ymlynol (gweler paragraff 7.14).

¹ Gellir dod o hyd i Ganllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar y broses cofrestru etholiadol i bobl a all, oherwydd rhesymau analluedd corfforol neu feddyliol, fod ag angen cymorth er mwyn cofrestru manylion ar https://www.electoralcommission.org.uk/sites/default/files/pdf_file/IER-Guidance-on-assisted-applications-in-England-and-Wales.pdf

DRAFT

Sut mae'r Ddeddf yn berthnasol i ddeddfwriaeth arall?

1.11 Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn gymwys ochr yn ochr â deddfwriaeth arall sy'n effeithio ar bobl a all fod yn brin o allu mewn perthynas â materion penodol. Mae hyn yn golygu y dylai'r rhai hynny sy'n gweithredu o dan y Ddeddf hefyd fod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth arall, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Ddeddf Gofal 2014
- Deddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012
- Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Deddf Meinweoedd Dynol 2004
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Deddf Dysgu a Sgiliau 2000
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Deddf Plant a Theuluoedd 2014
- Deddf Plant 1989
- 2015
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau
- Deddf Twyll 2006
- Deddf Caethwasiaeth Fodern 2017
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 (mewn perthynas â phriodi o dan orfodaeth)
- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am y Cod Ymarfer?

1.12 Mae Adran 42 y Ddeddf yn amlinellu pwrpas y Cod Ymarfer, sef rhoi canllawiau i bobl benodol mewn amgylchiadau penodol. Mae Adran 43 yn esbonio'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn wrth baratoi'r Cod ac ymgynghori ar ei gynnwys, ac ar gyfer ei ystyried gan y Senedd. Mae Adran 42, is-adrannau (4) a (5), yn amlinellu'r categorïau o bobl sydd wedi'u gosod o dan ddyletswydd gyfreithiol i 'ystyried' y Cod ac yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am statws y Cod. Gellir dod o hyd i fwy o fanylion yn y Cyflwyniad, sy'n esbonio statws cyfreithiol y Cod.

DRAFT

2. Beth yw'r egwyddorion statudol a sut y dylid eu cymhwyso?

Mae'r Ddeddf yn bwriadu galluogi a chynorthwyo pobl 16 oed a hŷn a all fod yn brin o allu, i gynyddu eu galluedd i wneud penderfyniadau. Ei nod yw diogelu hawliau a buddiannau pobl sydd â phrinder galluedd i wneud penderfyniadau penodol, a'u galluogi i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, cyn belled â'u bod yn gallu gwneud hynny.

Mae Adran 1 y Ddeddf yn amlinellu'r pump 'egwyddor statudol' - y gwerthoedd sy'n ategu'r gofynion cyfreithiol yn y Ddeddf. Mae'r bennod hon yn rhoi canllawiau ar sut ddylai pobl ddehongli a chymhwyso'r egwyddorion statudol wrth ddefnyddio'r Ddeddf.

Yn y bennod hon, fel trwy gydol y Cod, mae galluedd (neu brinder galluedd) unigolyn yn cyfeirio'n benodol at ei galluedd i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei wneud.

Crynodeb cyflym

- Mae gan bob unigolyn yr hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain os oes ganddynt alluedd i wneud hynny. Mae'n rhaid i ofalwyr teuluol neu staff gofal cymdeithasol ragdybio bod gan unigolyn allu i wneud penderfyniadau, oni bai y cafodd ei sefydlu nad oes gan yr unigolyn allu.
- Cyn dod i'r casgliad fod unigolyn yn brin o allu i wneud penderfyniad penodol, mae'n rhaid i bob cam ymarferol fod wedi'u cymryd i'w helpu i wneud eu penderfyniad eu hun.
- Ni ddylai unigolyn sy'n gwneud penderfyniad mae eraill yn meddwl sy'n annoeth gael ei ystyried yn awtomatig fel un sydd â phrinder galluedd i wneud penderfyniad.
- Mae'n rhaid i unrhyw weithred neu unrhyw benderfyniad a wneir ar ran rhywun sydd â phrinder galluedd fod er eu budd gorau.
- Dylai unrhyw weithred neu unrhyw benderfyniad a wneir ar ran rhywun sydd â phrinder galluedd fod yn opsiwn sydd y lleiaf cyfyngol o'u hawliau a rhyddid sylfaenol, ar yr amod ei fod er eu budd gorau o hyd.

Beth yw'r egwyddorion statudol?

- 2.1. Y pum egwyddor statudol yw'r gwerthoedd sy'n ategu'r gofynion cyfreithiol yn y Ddeddf. Sef:
1. Mae'n rhaid rhagdybio bod gan unigolyn allu oni bai y cafodd ei sefydlu eu bod yn brin o allu.
 2. Nid yw unigolyn i gael ei drin fel un nad yw'n gallu gwneud penderfyniad oni bai y cymerwyd yr holl gamau ymarferol i'w helpu i wneud hynny heb lwyddo.
 3. Nid yw unigolyn i gael ei drin fel un nad yw'n gallu gwneud penderfyniad oherwydd eu bod yn gwneud penderfyniad annoeth.
 4. Mae'n rhaid i weithred neu benderfyniad a wneir o dan y Ddeddf hon dros neu ar ran unigolyn sy'n brin o allu gael eu gwneud, er eu budd gorau.
 5. Cyn i'r weithred neu'r penderfyniad gael eu gwneud, mae'n rhaid ystyried a yw'r diben y mae ei angen ar ei gyfer yn gallu cael ei gyflawni mewn ffordd sy'n llai cyfyngol o hawliau a rhyddid gweithredu'r unigolyn.

Beth yw diben yr egwyddorion statudol

2.2 Nod yr egwyddorion statudol yw:

- Grymuso pobl a'u hannog i wneud eu penderfyniadau eu hunain lle y bo'n bosibl, gyda chymorth os bydd angen,
- helpu pobl i gymryd rhan, cymaint ag sy'n ymarferol, mewn penderfyniad sy'n effeithio arnynt a
- diogelu hawliau a buddiannau pobl sydd â phrinder galluedd.

2.3. Nod yr egwyddorion yw cynorthwyo a chefnogi pobl a all fod yn brin o allu i wneud penderfyniad penodol, a pheidio â chyfyngu na rheoli eu bywydau. Eu nod yw grymuso pobl ac annog gwneud penderfyniad â chymorth yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau a wneir am unigolyn yn cytuno cymaint â phosibl, o fewn y gyfraith, â dymuniadau, gwerthoedd, credoau a theimladau'r unigolyn hwnnw².

2.4. Mae'r egwyddorion statudol yn gymwys i unrhyw weithred neu benderfyniad a wneir o dan y Ddeddf. Pan fyddant yn cael eu dilyn a'u cymhwyso i fframwaith gwneud penderfyniadau'r Ddeddf, byddant yn helpu pobl i weithredu'n briodol mewn achosion unigol. Byddant hefyd yn helpu pobl i ganfod atebion mewn sefyllfaoedd

² Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Ysbytai Aintree yn erbyn James [2013] UKSC Civ 67.
<https://www.bailii.org/uk/cases/UKSC/2013/67.html>

anodd neu ansicr. Gall methu â chadw at yr egwyddorion hyn adael sefydliadau'n agored i her gyfreithiol.³

Sut dylid cymhwyso'r egwyddorion statudol?

Egwyddor 1: 'Mae'n rhaid rhagdybio bod gan unigolyn allu oni bai y cafodd ei sefydlu ei fod yn brin o allu.' (adran 1 (2))

- 2.5. Mae'r egwyddor hon yn cydnabod bod gan bob oedolyn yr hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain - oni bai y cafodd ei sefydlu eu bod yn brin o allu i wneud penderfyniad penodol pan y bo angen.
- 2.6. Mae'n bwysig cydbwysu hawl pobl i wneud penderfyniad â'u hawl i ddiogelwch ac amddiffyniad. Y rhagdybiaeth ddechreuol bob amser yw fod gan unigolyn y galluedd, tan y sefydlir nad oes ganddynt. Mae Pennod 4 yn esbonio diffiniad y Ddeddf o 'ddiffyg galluedd' a'r prosesau sy'n rhan o asesu galluedd. Ni ddylid defnyddio rhagdybio galluedd fel rheswm dros beidio ag asesu galluedd mewn perthynas â phenderfyniad. Dylid cynnal asesiad cywir bob amser lle mae amheuan am allu unigolyn i wneud penderfyniad. Mae'r cyfrifoldeb ar yr unigolyn sy'n bwriadu cyflawni'r ymyrraeth i fod wedi sefydlu'n gywir bod galluedd yn wirioneddol brin yn yr unigolyn o dan sylw. Nid mater i'r unigolyn yw profi bod ganddynt y galluedd i wneud y penderfyniad.

³ CH yn erbyn Cyngor Metropolitaidd [2017] EWCOP12 - <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2017/12.html>

Senario: Asesu galluedd unigolyn i wneud penderfyniadau

Wrth gynllunio ar gyfer ei hymddeoliad, gwnaeth a chofrestrodd Ms A Atwrnai Arhosol (LPA - gweler Pennod 8) - proses gyfreithiol i ganiatáu i'w mab ei helpu hi â neu weithredu ar ei rhan mewn materion ariannol tra bod ganddi allu, gyda'i chydysyniad; ac yn y dyfodol os bydd hi'n colli galluedd i'w rheoli ei hun. Mae hi nawr wedi derbyn diagnosis o ddementia, ac mae'i mab yn bryderus ei bod hi'n mynd yn ddryslyd ynglŷn ag arian.

Mae'n rhaid i'w mab ragdybio bod gan ei fam allu i reoli ei materion personol. Mae'n rhaid iddo ystyried pob un o benderfyniadau ariannol Ms A wrth iddi eu gwneud, gan roi unrhyw gymorth a chefnogaeth sydd eu hangen arni i wneud y penderfyniadau hyn ei hun.

Mae mab Ms A yn mynd i siopa gyda hi, ac mae'n gweld ei bod yn gallu dod o hyd i nwyddau a sicrhau ei bod yn cael y newid cywir. Ond pan fydd angen iddi wneud penderfyniadau am ei buddsoddiadau, mae Ms A yn drysu - er ei bod wedi gwneud penderfyniadau o'r fath yn y gorffennol. Nid yw hi'n deall o hyd ar ôl i'w mab esbonio'r opsiynau gwahanol iddi.

Daw ei mab i'r casgliad fod ganddi'r galluedd i ddelio â materion ariannol pob dydd ond nid materion personol mwy cymhleth. Felly, mae'n defnyddio'r LPA ar gyfer y penderfyniadau ariannol anodd nad yw ei fam yn gallu eu gwneud, tra'n parhau i'w chynnwys yn y penderfyniad ac yn ystyried ei dymuniadau a theimladau, credoau a gwerthoedd. Mae Ms A yn parhau i ddelio â'i materion personol eraill cyhyd ag y bydd ganddi allu i wneud hynny.

- 2.7. Gall fod angen cymorth ar rai pobl i wneud penderfyniad neu i gyfathrebu eu penderfyniad. Fodd bynnag, nid yw hyn golygu o reidrwydd nad ydynt yn gallu gwneud y penderfyniad hwnnw - oni bai bod tystiolaeth eu bod yn brin o'r galluedd i wneud hynny. Dylai unrhyw un sy'n credu bod unigolyn yn brin o allu fod yn gallu dangos pam. Mae Pennod 4 yn esbonio'r safon o dystiolaeth sy'n ofynnol.

Egwyddor 2: 'Ni ddylai unigolyn gael ei drin fel bod heb allu i wneud penderfyniad oni bai y cymerir pob cam ymarferol i'w helpu i wneud hynny heb lwyddo.' (adran1(3)).

- 2.8. Mae'n bwysig gwneud popeth ymarferol a phosibl (mae'r Ddeddf yn defnyddio'r term 'ymarferol') i helpu unigolyn i wneud penderfyniad drostynt eu hunain cyn dod i'r casgliad eu bod yn brin o allu i wneud hynny. Dylai pobl â salwch neu anabledd sy'n effeithio ar eu galluedd i wneud penderfyniad gael eu cynorthwyo i wneud cynifer o benderfyniadau ag y gallant.
- 2.9. Nod yr egwyddor hon yw atal pobl rhag cael eu labelu'n brin o allu yn anghywir i wneud penderfyniadau penodol, heb dystiolaeth. Oherwydd ei bod yn annog unigolion i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, mae'n helpu hefyd i atal ymyrraeth ddiangen yn eu bywydau.
- 2.10. Mae'r math o gymorth y gall fod ei angen ar bobl i wneud penderfyniad yn amrywio. Mae'n dibynnu ar amgylchiadau personol, y math o benderfyniad y mae'n rhaid ei wneud (dylid sicrhau eglurdeb am beth yn union yw'r penderfyniad) a'r amser sydd ar gael i wneud y penderfyniad. Gall gynnwys:
- defnyddio ffordd wahanol o gyfathrebu (er enghraifft, cyfathrebu dieiriau) darparu gwybodaeth mewn ffurf fwy hygyrch (er enghraifft, ffotograffau, darluniau, neu ffilmiau)
 - ystyried ble a phryd mae penderfyniad yn cael ei wneud - i rai pobl gallai fod yn well iddynt wneud penderfyniad ar adeg benodol o'r dydd, neu mewn lleoliad cyfarwydd
 - trin cyflwr meddygol a all fod yn effeithio ar allu'r unigolyn
 - cael rhaglen strwythuredig i wella galluedd unigolyn i wneud penderfyniadau penodol (er enghraifft, helpu unigolyn ag anableddau dysgu i gaffael sgiliau newydd)
 - cynnwys eiriolwr neu ffrind rydych yn ymddiried ynddo (sy'n gallu cynghori, neu gynorthwyo'r unigolyn) neu
 - sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei annerch yn ei ddewis iaith.
- 2.11. Mae Pennod 3 yn rhoi mwy o wybodaeth ar ffyrdd i helpu pobl i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Senario: Cymryd camau i helpu pobl i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain

Mae gan Ms S syndrom Down ac mae hi yn ei blwyddyn olaf yn ei hysgol arbennig leol. Mae hi'n cyfathrebu trwy ddefnyddio arwyddo Makaton, dweud rhai geiriau unigol ac ap cyfathrebu cynorthwyol ar ei chyfrifiadur llechen. Mae hi hefyd yn mwynhau defnyddio'i chyfrifiadur llechen i dynnu lluniau a chwarae gemau.

Mae'n rhaid iddi benderfynu ar ei lleoliad addysgol nesaf. I baratoi ar gyfer gwneud y penderfyniad mae staff yr ysgol yn siarad â Ms S yn ogystal â'i chynorthwyo i ddefnyddio'i chyfrifiadur llechen i dynnu lluniau o staff allweddol a lleoedd perthnasol yn y coleg addysg bellach lleol. Yn ogystal, mae staff yr ysgol yn defnyddio cyfrifiadur llechen Ms S i wneud fideos ohoni'n gwneud gweithgareddau amrywiol yn y coleg.

Gyda chaniatâd Ms S, mae staff yr ysgol yn siarad â'i rhieni ynglŷn â thynnu lluniau a fideos pan fyddant yn mynd ar ymweliadau gyda Ms S i golegau eraill mae hi'n eu hystyried. Mae hyn yn galluogi Ms S i gyrchu'r wybodaeth pan fydd hi'n dymuno edrych arni ac i staff yr ysgol a'i rhieni siarad â hi amdani i'w chynorthwyo i wneud ei phenderfyniad.

Pan fydd hi'n gwneud y penderfyniad, bydd hi'n gallu defnyddio'r ffotograffau a'r fideos i'w chynorthwyo.

- 2.12. Ni ddylai unrhyw un sy'n cynorthwyo unigolyn a all fod yn brin o allu ddefnyddio perswâd gormodol na chaniatáu i'w cefnogaeth ddod yn bwysau. Gallai hyn gynnwys ymddwyn mewn modd sy'n ormesol neu'n dominyddu, neu geisio dylanwadu ar benderfyniad yr unigolyn, a gallai wthio unigolyn i wneud penderfyniad na fyddai wedi'i wneud fel arall. Mae'n bwysig, fodd bynnag, darparu cyngor a gwybodaeth briodol, gan amlinellu'r dewisiadau sydd gan unigolyn a'r goblygiadau o wneud neu beidio â gwneud penderfyniad.

Senario: Rhoi cyngor a chymorth priodol

Mae gan Mr S ddiagnosis o iselder. Nid yw'n teimlo bod ei feddyginiaeth bresennol yn gweithio'n dda iawn ac mae'n achosi iddo fagu pwysau. Mae wedi dweud wrth ei Nyrs Seiciatrig Gymunedol (CPN) ei fod yn dymuno rhoi'r gorau i gymryd ei feddyginiaeth.

Mae CPN Mr S wedi meddwl am y wybodaeth berthnasol mae angen i Mr S ei hystyried wrth wneud y penderfyniad hwn. Fel y cyfryw mae'n rhoi gwybodaeth i Mr S am y risgiau posibl o beidio â chymryd ei feddyginiaeth yn ogystal â dewisiadau amgen y gallai roi cynnig arnynt. Mae'n gwybod hefyd nad Saesneg yw iaith gyntaf Mr S felly mae'n sicrhau ei fod yn darparu'r holl wybodaeth yn iaith frodorol Mr S yn ogystal ag yn y Saesneg.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon mae Mr S yn penderfynu rhoi cynnig ar feddyginiaeth amgen i weld os bydd hynny'n gwneud gwahaniaeth cyn rhoi'r gorau i feddyginiaeth yn llwyr.

- 2.13. Mewn rhai sefyllfaoedd, ni ellir gohirio penderfyniadau wrth i unigolyn gael cymorth i wneud penderfyniad. Gall hyn ddigwydd mewn sefyllfaoedd lle cymerir camau gweithredu hanfodol argyfwng neu pan fydd gofyn am benderfyniad brys (er enghraifft, triniaeth feddygol ar unwaith). Yn y sefyllfaoedd hyn, yr unig gamau ymarferol a phriodol allai fod cadw unigolyn yn wybodus am yr hyn sy'n digwydd a pham.

Egwyddor 3: 'Ni ddylai unigolyn gael ei drin fel bod heb allu i wneud penderfyniad oherwydd ei fod yn gwneud penderfyniad annoeth yn unig.' (adran 1 (4))

- 2.14 Mae gan bawb eu gwerthoedd, credoau, dewisiadau ac agweddau eu hunain. Ni ddylid rhagdybio bod unigolyn yn brin o'r galluedd i wneud penderfyniad oherwydd bod pobl eraill yn meddwl bod eu penderfyniad yn annoeth yn unig. Mae hyn yn gymwys hyd yn oed os bydd aelodau teuluol, ffrindiau, staff gofal iechyd neu ofal cymdeithasol yn anhapus â phenderfyniad. Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar allu unigolyn i wneud penderfyniad, nid ar ganlyniad y penderfyniad ei hun⁴.

⁴ Ymddiriedolaeth Sefydledig Ysbytai Coleg Kings a C a V [2015] EWCOP 80 - <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2015/80.html>

Senario: Caniatáu i bobl wneud penderfyniadau mae eraill yn meddwl sy'n annoeth

Roedd Ms M wedi bod mewn damwain car sawl blwyddyn yn ôl. Ar y pryd cafodd ei hasesu yn brin o allu i reoli'i heiddo a'i materion ariannol a phenodwyd dirprwy i'w rheoli ar ei rhan.

Mae Ms M nawr yn credu ei bod wedi adennill ei galluedd i reoli'i heiddo a'i materion ariannol. Mae ei dirprwy yn mynegi pryder bod Ms M yn fyrbwyll ac yn ddiofal ag arian, ac mae'n bryderus y bydd Ms M yn gwario ei holl arian iawndal a bydd ganddi ddim ar ôl ar gyfer ei gofal.

Mae aseswr galluedd yn edrych ar hanes Ms M cyn y ddamwain ac yn dysgu bod Ms M wedi etifeddu £500,000 ddeng mlynedd ar hugain yn ôl. Ar y pryd, cymerodd Ms M ddwy wythnos i wario'r arian - prynodd gar cyflym a thaith 5 seren o gwmpas y byd. Ei hagwedd at arian oedd 'a geir yn rhodd a gerdd yn rhwydd' ac y byddai'n well ganddi'r boddhad o wario'r arian ar unwaith nag unrhyw foddhad wedi'i ohirio na fyddai hi'n byw i'w werthfawrogi.

Roedd hi'n amlwg nad oedd rheolaeth wael Ms M o arian yn perthyn i'w hanaf ar yr ymennydd, yn hytrach i'w chred hirhoedlog cyn y ddamwain am arian.

2.15 Gall fod achos pryder os bydd rhywun yn:

- gwneud penderfyniadau dro ar ôl tro sy'n ymddangos yn annoeth ac yn eu rhoi mewn perygl arwyddocaol o niwed neu gamfanteisio neu
- yn gwneud penderfyniad annoeth penodol sy'n amlwg afresymegol neu allan o gymeriad.

2.16. Nid yw'r amgylchiadau hyn o reidrwydd yn golygu bod rhywun yn brin o allu, gan fod gennym hawl i wneud penderfyniadau y gall eraill deimlo sy'n annoeth. Ond gallai fod angen ymchwiliad pellach, gan ystyried penderfyniadau a dewisiadau unigolyn yn y gorffennol. Er enghraifft, a ydynt wedi datblygu cyflwr neu anhwylder meddygol sy'n effeithio ar eu galluedd i wneud penderfyniadau penodol. A ydynt yn cael eu dylanwadu'n hawdd gan bwysau gormodol? Neu oes angen rhagor o wybodaeth neu gymorth i'w helpu i ddeall canlyniadau'r penderfyniad maent yn wynebu? Os oes rheswm cywir i amau bod gan yr unigolyn allu i wneud y penderfyniad, bydd hi'n angenrheidiol i asesu eu galluedd trwy ddefnyddio'r prawf yn y Ddeddf.

Senario: Penderfyniadau sy'n achosi pryder

Mae gan Mr R anaf ymennydd a gafodd yn dilyn damwain car. Cyn y ddamwain roedd Mr R yn dda iawn am reoli'i gyllid ac mae'n credu, ar ôl y ddamwain ei fod wedi cadw'r galluedd i reoli'i eiddo a'i faterion ariannol. Fodd bynnag, mae pryderon gan y rhai sy'n ei adnabod efallai nad oes ganddo'r galluedd i wneud hynny gan ei fod yn ymddangos yn anabl i gadw at gyllideb.

Mae aseswr galluedd yn gofyn i Mr R os yw'n gwybod beth yw cyllideb, ac mae'n ateb ei bod yn swm penodedig o arian sydd ganddo i wario ar eitemau penodol neu brosiect. Mae'r aseswr yn gofyn i Mr R am y peryglon o orwario ac mae'n siarad yn wybodus am ddyled.

Mae'r aseswr yn nodi bod Mr R yn gorwario'i lwfans misol o £2000 ac mae'n ei holi am hyn. Ymateb Mr R yw bod angen rhagor o arian arno gan nad yw'r hyn sydd ganddo'n ddigon. Mae'r aseswr yn archwilio'r hyn y mae Mr R yn gwario'i arian arno ac yn canfod bod Mr R yn credu bod gwario £350 ar bâr o esgidiau chwaraeon bob mis yn rhesymol, fel y mae gwario £750 y mis ar fynd â'i ffrindiau allan am ginio.

Mae siarad â Mr R yn dangos nad yw'n gallu defnyddio'r syniadau o gyllidebu a'r risg o ddyled i'w amgylchiadau ei hun. Er yr ymddengys ei fod yn gallu pwysu a mesur y wybodaeth angenrheidiol mewn theori, nid yw'n gallu ei ddefnyddio'n ymarferol.

Egwyddor 4: 'Mae'n rhaid i weithred neu benderfyniad a wneir, o dan y Ddeddf hon dros neu ar ran unigolyn sydd â phrinder galluedd gael eu gwneud, er y budd gorau iddo.' (adran 1 (5))

- 2.17. Mae'n rhaid i fudd gorau unigolyn fod yn sail ar gyfer yr holl benderfyniadau a gweithredoedd a gyflawnir ar eu rhan mewn sefyllfaoedd lle maent yn brin o allu i wneud y penderfyniadau penodol hynny drostynt eu hunain. Mae eithriadau i hyn ynghylch ymchwil (gweler pennod 26), penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth (gweler pennod 11), Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (gweler pennod 13) ac asesiadau anghenion o dan ddeddfwriaeth arall, lle bydd trefniadau diogelu eraill yn gymwys.
- 2.18. Mae'n amhosibl rhoi diffiniad unigol o'r hyn yw 'buddiannau gorau', oherwydd eu bod yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Fodd bynnag, mae adran 4 y Ddeddf yn amlinellu rhestr wirio o gamau i'w dilyn er mwyn penderfynu'r hyn sydd er y budd

gorau i unigolyn sydd â phrinder galluedd i wneud y penderfyniad o dan sylw. Gweler pennod 5 am ganllawiau manwl ac enghreifftiau.

- 2.19. Dylai penderfyniadau budd gorau ystyried y materion o safbwynt yr unigolyn ei hun, gan ystyried eu dymuniadau a'u teimladau, gan eu cynnwys yn y penderfyniad lle bynnag y bo'n bosibl, a chynnwys ystyriaethau ehangach na'u buddiannau 'meddygol' neu 'ariannol' gorau⁵. Mae'n rhaid i wneuthurwyr penderfyniadau, lle bynnag y bo'n ymarferol a phriodol, ymgynghori ag eraill sy'n ymwneud â gofalu am yr unigolyn neu sy'n ymddiddori yn eu lles.
- 2.20. Os bydd gan yr unigolyn allu i wneud penderfyniad, nid oes modd gwneud penderfyniad budd gorau ar eu rhan hyd yn oed os bydd rhywun yn credu bod ganddynt 'ddyletswydd gofal' at yr unigolyn.

Egwyddor 5: 'Cyn i'r weithred neu'r penderfyniad gael eu gwneud mae'n rhaid ystyried a ellir cyflawni'r diben y mae ei angen mewn ffordd sy'n llai cyfyngol o hawliau a rhyddid gweithredu'r unigolyn. (adran 1 (6))

- 2.21. Cyn i rywun wneud penderfyniad neu weithredu ar ran unigolyn sydd â phrinder galluedd i wneud y penderfyniad hwnnw neu gydsynio i'r weithred, mae'n rhaid gofyn y cwestiwn bob tro os byddant yn gallu gwneud rhywbeth arall fyddai'n ymyrryd llai â hawliau a rhyddid sylfaenol yr unigolyn.
- 2.22. Pan fydd mwy nag un opsiwn, mae'n bwysig archwilio ffyrdd a fyddai'n llai cyfyngol neu'n caniatáu'r rhyddid mwyaf i unigolyn sydd â phrinder galluedd i wneud y penderfyniad o dan sylw. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r penderfyniad terfynol ganiatáu i ddiben gwreiddiol y penderfyniad neu weithred gael ei gyflawni bob tro.
- 2.23. Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad neu weithred fod er y budd gorau i'r unigolyn sydd â phrinder galluedd o hyd. Felly weithiau gall fod yn angenrheidiol dewis opsiwn nad yw'r dewis lleiaf cyfyngol arall os yw'r opsiwn hwnnw er y budd gorau i'r unigolyn. Yn ymarferol, bydd y broses o ddewis opsiwn llai cyfyngol a phenderfynu yr hyn sydd er y budd gorau i'r unigolyn yn cael ei chyfuno. Ond mae'n rhaid i'r ddwy egwyddor gael eu defnyddio bob tro y gall penderfyniad neu weithred gael ei gwneud ar ran unigolyn sydd â phrinder galluedd i wneud y penderfyniad perthnasol.

⁵ Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Ysbytai Aintree yn erbyn James [2013] UKSC 67.
<https://www.bailii.org/uk/cases/UKSC/2013/67.html>

Senario: Canfod opsiwn llai cyfyngol

Mae Ms J mewn ysbyty adfer chwe mis ar ôl profi anaf trawmatig i'w hymennydd. Mae ganddi rywfaint o symudiad yn ei llaw chwith ac ychydig iawn o symudiad arall. Mae ffrind wedi prynu tegan meddal anwes â chynffon hir y mae hi'n gallu cydio ynddo fwy neu lai.

Nid oes gan Ms J iaith eto ac ychydig iawn o weithgaredd pwrpasol sydd ganddi. Mae hi'n mwynhau gafael yn y tegan gan ei symud ar draws ei hwyneb er mwyn cael ysgogiad.

Pan fydd ei rhieni'n cyrraedd i ymweld un bore, maent yn gweld ei bod yn gwisgo 'maneg focsio' ar ei llaw chwith. Mae'n ei hatal rhag gwneud unrhyw symudiad. Rhesymeg y nyrsys yw fod hyn er y budd gorau iddi gan eu bod yn ofni y byddai'n rhoi'r tegan yn ei cheg a thagu o bosibl.

Mae rhieni Ms J yn dadlau mai opsiwn llai cyfyngol fyddai symud y tegan meddal pan nad yw'n cael ei monitro, a fyddai'n ei chadw'n ddiogel ond na fyddai'n cyfyngu ar yr unig symudiad corfforol sydd ganddi.

3. Sut dylid helpu pobl i wneud eu penderfyniadau'u hunain?

Mae'n rhaid cymryd pob cam ymarferol a phosibl i helpu rhywun i wneud eu penderfyniadau eu hun cyn y gellir dod i'r casgliad eu bod yn brin o allu i wneud y penderfyniad hwnnw eu hun (gweler egwyddor statudol 2, gweler pennod 2). Yn ogystal, fel y mae adran 3(2) y Ddeddf yn tanlinellu, mae'n rhaid i'r camau hyn (megis helpu unigolion i gyfathrebu) gael eu cymryd mewn ffordd sy'n adlewyrchu amgylchiadau unigol yr unigolyn ac yn bodloni'u hanghenion penodol. Mae'r bennod hon yn rhoi canllawiau ymarferol ar sut i gynorthwyo pobl i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, neu i fod â rhan mor fawr a phosibl mewn gwneud penderfyniadau. Mae'r bennod hon hefyd yn cynnig canllawiau ymarferol ar sut i sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei gadw'n ganolog ym mhroses yr LPS.

Yn y bennod hon, fel trwy gydol y Cod, mae galluedd unigolyn (neu brinder galluedd) yn cyfeirio'n benodol at eu galluedd i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y bydd angen ei wneud.

Crynodeb cyflym

I helpu rhywun i wneud penderfyniad drostynt eu hunain, gwiriwch y pwyntiau canlynol:

- Darparu gwybodaeth
- Oes gan yr unigolyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen arno i wneud penderfyniad penodol?
- Os oes ganddynt ddewis, a ydynt wedi derbyn gwybodaeth ynghylch yr holl ddewisiadau amgen, gan gynnwys peidio â gwneud penderfyniad ar unwaith, neu ddim o gwbl?

Cyfathrebu mewn ffordd briodol

- Allai unrhyw un arall helpu gyda chyfathrebu (er enghraifft, aelod teuluol, gweithiwr cymorth, cyfieithydd, therapydd lleferydd ac iaith neu eiriolwr)?

- Allai gwybodaeth gael ei hesbonio neu'i chyflwyno mewn ffordd sy'n haws i'r unigolyn ddeall (er enghraifft, trwy ddefnyddio iaith syml neu gymhorthion gweledol)?
- Oes dulliau gwahanol o gyfathrebu wedi'u harchwilio os oes gofyn, gan gynnwys cyfathrebu dieiriau?

Gwneud i'r unigolyn deimlo'n dawel ei feddwl

- Oes lleoliadau penodol lle gallant deimlo'n fwy tawel eu meddwl?
- Oes adegau penodol o'r dydd pan fydd dealltwriaeth yr unigolyn yn well?
- Allai'r penderfyniad gael ei ohirio i weld a fydd yr unigolyn yn gallu gwneud y penderfyniad ar adeg ddiweddarach pan fydd yr amgylchiadau'n iawn iddynt?

Cynorthwyo'r unigolyn

- Oes unrhyw un arall yn gallu helpu neu gynorthwyo'r unigolyn i wneud y penderfyniad?

Sut mae'r unigolyn yn cael ei gadw'n ganolog i broses yr LPS?

- Mae nifer o benderfyniadau mae angen eu cymryd yn ystod proses yr LPS, gan gynnwys; ynghylch gofal neu driniaeth yr unigolyn, ynghylch y trefniadau ynglŷn â'r gofal neu driniaeth, ynghylch a ydynt yn dymuno cael eu cynorthwyo gan Berson Priodol neu IMCA.
- Dylid cynorthwyo'r unigolyn bob tro i wneud y penderfyniadau hynny cyn belled â phosibl. Hyd yn oed os yw'r unigolyn yn brin o'r galluedd i wneud un penderfyniad, mae'n bosibl eu bod yn parhau i allu gwneud un arall.

Pa wybodaeth sydd gan yr unigolyn a'u Person Priodol neu IMCA hawl iddi?

- Mae gan y Corff Cyfrifol ddyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth benodol, ac i sicrhau bod yr unigolyn a'u Person Priodol (lle y bo'n berthnasol) yn deall y wybodaeth. Mae'n rhaid i'r holl wybodaeth fod yn hygyrch.
- Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol hefyd sicrhau bod yr unigolyn a'u Person Priodol yn deall gwybodaeth benodol.

Sut gellir helpu rhywun i wneud penderfyniad

- 3.1 Mae sawl ffordd lle gellir helpu a chefnogi pobl i'w galluogi i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Bydd y rhain yn amrywio gan ddibynnu ar y penderfyniad i'w

wneud, yr amserlen ar gyfer gwneud y penderfyniad ac amgylchiadau unigol yr unigolyn sy'n ei wneud.

3.2 Mae'r Ddeddf yn gymwys i ystod eang o bobl â chyflyrau gwahanol a all effeithio ar eu galluedd i wneud penderfyniadau penodol. Felly bydd y camau priodol i'w cymryd yn dibynnu ar:

- amgylchiadau unigol unigolyn (er enghraifft, gall fod angen dull gwahanol ar rywun sydd ag anawsterau dysgu i rywun â dementia)
- y penderfyniad mae'n rhaid i'r unigolyn ei wneud, a
- hyd yr amser sydd ganddynt i'w wneud

3.3. Bydd penderfyniadau arwyddocaol, untro (megis symud tŷ) yn gofyn am ystyriaethau gwahanol o gymharu â phenderfyniadau dydd i ddydd am ofal a lles unigolyn. Fodd bynnag, dylai'r un prosesau cyffredinol fod yn gymwys i bob penderfyniad.

3.4. Diben cymorth yw galluogi'r unigolyn i wneud eu penderfyniad eu hun. Efallai bydd yr unigolyn sy'n cynorthwyo'n credu mai penderfyniad penodol yw'r un gorau, ond ni ddylent roi pwysau ar yr unigolyn y maent yn ei gefnogi i ddewis y penderfyniad hwnnw. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae profiadau bywyd yr unigolyn yn golygu mai profiad cyfyngedig iawn sydd ganddynt o gael eu caniatáu i wneud eu penderfyniadau eu hun.

3.5. Dylai darparu cymorth priodol â gwneud penderfyniadau fod yn rhan graidd o ddull unigolyn ganolog i'r broses gofal a chynllunio cymorth.

Beth sy'n digwydd mewn sefyllfaoedd argyfwng?

3.6. Yn amlwg mewn sefyllfaoedd argyfwng (er enghraifft, lle mae unigolyn yn cwmpo ac yn cael ei gludo'n anymwybodol i'r ysbyty), bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau brys a gweithredu ar unwaith er y budd gorau i'r unigolyn. Yn y sefyllfaoedd hyn, efallai nad yw'n ymarferol na'n briodol i ohirio'r penderfyniad tra'n ceisio helpu'r unigolyn i wneud eu penderfyniadau eu hun, neu i ymgynghori ag unrhyw atwrneiod neu ddirprwyon hysbys. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd argyfwng, dylai staff iechyd a gofal cymdeithasol geisio canfod beth maent yn gallu am ddymuniadau a theimladau'r unigolyn, (trwy holi pobl eraill os bydd angen), a chyfathrebu â'r unigolyn a rhoi'r diweddaraf iddynt ynghylch yr hyn sy'n digwydd.

Pa wybodaeth ddylid ei rhoi i bobl a sut dylid ei rhoi?

3.7. Mae'n bwysig darparu gwybodaeth fydd yn helpu'r unigolyn i wneud penderfyniadau ac i deilwra'r wybodaeth honno i anghenion a galluedd yr unigolyn. Mae'n rhaid i wybodaeth hefyd fod yn y ffurf cyfathrebu hawsaf a mwyaf priodol i'r unigolyn o dan

sy'lw. Er enghraifft, bydd rhai pobl yn ymateb yn well pan roddir gwybodaeth iddynt ar lafar, gall eraill hoffi darllen taflen cyn iddynt benderfynu. Gall fod angen cymorth ar rai gan ofalwr neu ffrind, a all wybod orau sut i gyfathrebu â'r unigolyn a'r ffordd sy'n well gan yr unigolyn i dderbyn y wybodaeth.

- 3.8. Bydd pa wybodaeth y dylid ei darparu i'r unigolyn yn dibynnu ar natur y penderfyniad. Er enghraifft, os bydd y penderfyniad yn ymwneud â thriniaeth feddygol, mae'n rhaid i'r meddyg esbonio diben ac effaith cwrs y driniaeth a'r canlyniadau tebygol o dderbyn neu wrthod triniaeth.
- 3.9. Dylai unrhyw un sy'n helpu rhywun i wneud penderfyniad drostynt eu hunain ddilyn y camau hyn:
- Cymryd amser i esbonio unrhyw beth a allai helpu'r unigolyn i wneud penderfyniad. Mae'n bwysig bod ganddynt fynediad at yr holl wybodaeth y mae ei hangen arnynt i wneud penderfyniad gwybodus, gan gynnwys natur y penderfyniad a pham bod angen ei wneud.
 - Ceisio peidio â rhoi mwy o fanylion nag sydd eu hangen ar yr unigolyn gan y gallai hyn eu drysu. Mewn rhai achosion, bydd esboniad syml, cyffredinol yn ddigon. Ond bydd yn rhaid iddo beidio â hepgor gwybodaeth bwysig berthnasol.
 - Beth yw'r risgiau a'r buddion? Disgrifio unrhyw ganlyniadau rhagweladwy o wneud y penderfyniad, ac o beidio â gwneud unrhyw benderfyniad o gwbl.
 - Esbonio'r effeithiau y gallai'r penderfyniad gael ar yr unigolyn a'r rhai hynny sy'n agos atynt - gan gynnwys unrhyw un â rhan yn eu gofal.
 - Os bydd ganddynt ddewis, rhoi'r wybodaeth iddynt am bob un o'r opsiynau, mewn ffordd gytbwys.
 - Ar gyfer rhai mathau o benderfyniadau, gall fod yn bwysig rhoi mynediad at wybodaeth o rywle arall. Gall hyn fod yn gyngor annibynnol neu arbenigol, (er enghraifft, gan ymarferydd meddygol neu gynghorwr ariannol neu gyfreithiol). Ond gallai fod yn gyngor gan ffrindiau neu berthnasau dibynadwy'n unig.
 - Gall fod o gymorth i wneud cofnod o'r wybodaeth a ddarperir a'r camau a gymerir i'w chyfathrebu.

Cyfathrebu - cyfarwyddyd cyffredinol

- 3.10. I helpu rhywun i wneud penderfyniad drostynt eu hunain, dylid rhoi cynnig ar bob dull posibl a phriodol o gyfathrebu:
- Dylai'r cam cyntaf ofyn i'r unigolyn os hoffent unrhyw gymorth, neu a oes unrhyw un yr hoffent fod yno gyda nhw, er enghraifft, perthnasau, ffrindiau, meddyg teulu, gweithiwr cymdeithasol, aelod o gymuned grefyddol, unrhyw atwrneiod a benodwyd o dan Atwrnai Arhosol, neu ddirprwyon a benodwyd gan y Llys Gwarchod.

- Holi pobl sy'n adnabod yr unigolyn yn dda am y ffordd orau o gyfathrebu (ceisio siarad ag aelodau teuluol, gofalwyr, staff canolfan dydd neu weithwyr cymorth). Gallant hefyd adnabod rhywun mae'r unigolyn yn gallu cyfathrebu ag ef yn hawdd, neu'r adeg pan fydd hi orau i gyfathrebu â nhw.
- Defnyddio iaith briodol. Lle y bo'n briodol, defnyddio lluniau, gwrthrychau neu ddarluniau i ddangos syniadau.
- Siarad â'r sain a chyflymder cywir, gyda geiriau a strwythur brawddegau priodol. Gall fod o fudd i oedi i wirio dealltwriaeth, i ofyn cwestiynau agored sy'n gwirio dealltwriaeth, neu ddangos bod dewis ar gael.
- Crynhoi gwybodaeth anodd i bwyntiau llai sy'n hawdd i'w deall. Rhoi amser i'r unigolyn ystyried a deall pob pwynt cyn parhau.
- Gall fod yn angenrheidiol ailadrodd gwybodaeth neu fynd yn ôl dros bwynt sawl gwaith, er mwyn galluogi'r unigolyn i gadw'r wybodaeth yn ddigon hir i wneud penderfyniad effeithiol.
- Bod yn ymwybodol o ffactorau diwylliannol, ethnig neu grefyddol sy'n llunio ffordd unigolyn o feddwl, ymddwyn neu gyfathrebu. Er enghraifft, mewn rhai diwylliannau mae'n bwysig cynnwys y gymuned mewn gwneud penderfyniadau. Gall rhai credoau crefyddol (er enghraifft, rhai Tystion Jehofa neu Wyddonwyr Cristnogol) ddylanwadu ar agwedd unigolyn at driniaeth feddygol a gwybodaeth am benderfyniadau ynghylch triniaeth.
- Os bydd angen, ystyried defnyddio dehonglydd iaith proffesiynol. Hyd yn oed os oedd unigolyn wedi cyfathrebu yn y Saesneg neu'r Gymraeg yn y gorffennol, gall fod wedi colli rhai sgiliau llafar (er enghraifft, oherwydd dementia). Gall fod yn well ganddynt nawr gyfathrebu yn eu dewis iaith, a dylid ystyried hyn fel opsiwn bob tro. Mae'n briodol yn aml defnyddio dehonglydd proffesiynol yn hytrach na defnyddio aelodau teuluol, yn enwedig lle mae plant yn dehongli ar gyfer aelodau hŷn y teulu.
- Os defnyddir lluniau i helpu i gyfathrebu, sicrhau eu bod yn berthnasol, a bod yr unigolyn yn gallu eu deall yn hawdd. Er enghraifft, mae bws coch yn gallu cynrychioli ffurf o drafnidiaeth i un unigolyn ond taith diwrnod i un arall.
- Fyddai eiriolwr (rhywun sy'n gallu cynorthwyo a chynrychioli'r unigolyn) yn gwella cyfathrebu yn y sefyllfa bresennol? (Gweler penodau 10 a 24 i gael mwy o wybodaeth am eiriolwyr).

Senario: Darparu gwybodaeth berthnasol mewn ffordd briodol

Mae gan Mr T rai anableddau corfforol a chafodd anaf trawmatig i'w ymennydd 5 mlynedd yn ôl. Mae ei hawliad am anaf personol wedi'i gytuno ac mae ei rieni wedi'u penodi yn ddirprwyon cyllid ac iechyd a lles.

Mae angen i dîm gofal gael ei benodi nawr i gynorthwyo Mr T yn ei gartref ei hun. Er bod gan ei rieni yr awdurdod i wneud y penderfyniad, eu nod yw cynorthwyo Mr T i wneud y penderfyniad ei hun.

Mewn trafodaeth â Mr T, maent yn nodi'r pethau sy'n bwysicaf yn ei fywyd. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno mewn hysbyseb swydd weledol a'u postio ar-lein. Mae Mr T, ei rieni a rheolwr achos gyda'i gilydd yn ystyried ac yn cytuno ynghylch pwy i'w cyfweld.

Mae'r cyfweiliad mewn lleoliad anffurfiol mewn tŷ bwyta lleol. Yn gyntaf, mae pawb yn cymdeithasu dros ginio, yna mae'r ymgeiswyr yn cael eu cynnwys mewn trafodaeth grŵp ac yn olaf cyfweiliad 1:1. Mae ffotograffau'n cael eu tynnu o'r ymgeiswyr fel bod gan Mr T gofnod gweledol.

Ar ôl y cyfweiliad mae Mr T, ei rieni a'i reolwr achos yn trafod pwy i'w benodi. Mae pob un ohonynt yn dod i'r un casgliad am ddau. Mae Mr T yn gallu dweud yn syml pam roedd yn well ganddo'r ddau hyn, mae gan y rheolwr achos bersbectif proffesiynol, ac mae rhieni Mr T yn hapus nad oes angen iddynt ddefnyddio'u pŵer i wneud penderfyniad fel dirprwyon.

Senario: Helpu pobl ag anghenion cyfathrebu cymhleth

Mae Ms C yn 18 ac yn mynychu ei hysgol arbennig leol. Mae gan Ms C anawsterau dysgu dwys a lluosog, ac mae hi'n llafar ond nid oes ganddi ddim lleferydd cydnabyddedig. Ar brynhawniau Gwener, mae myfyrwyr yn dewis rhwng amser yn y pwll peli neu'r ystafell synhwyrdd. Trwy'r ysgol gyfan mae holl staff yr ysgol yn defnyddio'r un gwrthrychau cyfeirio ar gyfer pob gweithgaredd, mae'r pwll peli'n cael ei gynrychioli gan un o'r peli a'r ystafell synhwyrdd gan glustog bersawrus. Felly, mae Ms C wedi dod yn gyfarwydd â'r gweithgareddau a'r gwrthrychau cyfeirio cysylltiedig. Ar brynhawniau Gwener mae'r ystafell ddosbarth yn cael ei harogleuo â mandarin i helpu'r myfyrwyr i'w gwahaniaethu o ddyddiau eraill yr wythnos. Mae'r athro neu'r cynorthwy-ydd cymorth yn gweithio gyda phob myfyriwr yn unigol i'w cynorthwyo i wneud eu dewis ar ddechrau sesiwn y prynhawn. Mae'r bêl a'r glustog yn cael eu rhoi i'r myfyrwyr i'w cyffwrdd a'u harogli ac yna gofynnir iddynt ddewis.

Mae staff yr ysgol yn ymwybodol fod Ms C yn hoffi'r ddau weithgaredd, ond mae'n bosibl ei bod yn well ganddi'r pwll peli, gan ei bod yn ymddangos yn fodlon aros yn hwy ac mae'n defnyddio'r lleisied mae staff yn gwybod sy'n dangos ei bod yn hapusach yn y pwll peli na'r ystafell synhwyrdd. Pan ofynnir iddi ddewis mae'r staff yn sylwi pa wrthrych cyfeirio mae hi'n estyn alto'n gyntaf. I gadarnhau a yw hi'n gwneud dewis gwirioneddol mae'r staff yn cyfnewid y gwrthrychau cyfeirio i wirio ei phenderfyniad. Os nad yw hi'n gwneud y penderfyniad, mae'r staff wedi cadarnhau'n barod gan ei rhieni, trwy'r llyfr ysgol cartref, pa weithgaredd maent yn credu yr hoffai'i wneud.

Helpu pobl â phroblemau cyfathrebu neu wybyddol penodol

3.11. Lle mae gan bobl broblemau cyfathrebu neu wybyddol penodol, mae'r camau canlynol yn gallu helpu:

- Dysgu sut mae'r unigolyn yn arfer â chyfathrebu. A ydynt yn defnyddio byrddau lluniau neu Makaton (arwyddion a symbolau i bobl ag anawsterau cyfathrebu neu ddysgu) neu oes ganddynt ffordd o gyfathrebu sy'n hysbys i'r rhai sy'n agos atynt yn unig?

- Os bydd gan yr unigolyn anawsterau clywed, defnyddio'u dull cyfathrebu sy'n well ganddynt (er enghraifft, iaith Arwyddion Prydain, cymhorthion gweledol, negeseuon ysgrifenedig neu iaith arwyddion). Lle y bo'n briodol, defnyddio dehonglydd cymwys.
- Oes technoleg cyfathrebu cynorthwyol megis syntheseisydd llais, allweddellau neu gyfarpar cyfrifiadurol arall ar gael i helpu?
- Os na fydd yr unigolyn yn defnyddio sgiliau cyfathrebu llafar, caniatáu mwy o amser i gyfathrebu'n effeithiol.
- I bobl sy'n defnyddio dulliau dieiriau o gyfathrebu, mae eu hymddygiad (yn enwedig, newidiadau mewn ymddygiad neu ofid) yn gallu darparu dangosyddion o'u teimladau.
- Gall fod yn well gan rai pobl ddefnyddio dulliau dieiriau o gyfathrebu ac yn gallu cyfathrebu'n fwyaf effeithiol mewn ffurf ysgrifenedig gan ddefnyddio cyfrifiaduron neu dechnolegau cyfathrebu eraill. Mae hyn yn arbennig o wir i'r rhai hynny ag anhwylderau sbectrwm awtistig.
- I bobl ag anawsterau cyfathrebu penodol, gall fod yn briodol ceisio cyngor neu gymorth gan weithiwr proffesiynol, er enghraifft, therapydd lleferydd ac iaith neu arbenigwr mewn niwroseicoleg glinigol.

Senario: Gwneud y mwyaf o dechnoleg

Mae gan Mr A anabledd dysgu ysgafn a pharlys yr ymennydd. Mae'n defnyddio ychydig iawn o gyfathrebu llafar ac mae'n dibynnu ar dechnoleg gynorthwyol i gyfathrebu'n effeithiol. Cafodd ei dderbyn i'r ysbyty a chafodd ymyrraeth lawfeddygol ei chynnig gan y tîm meddygol. Cododd anawsterau cyfathrebu Mr A bryderon am ei allu i gydsynio i'r lawdriniaeth hon.

Treuliodd tîm lleferydd ac iaith yr ysbyty, ynghyd ag aelodau eraill o staff yr ysbyty, amser gyda Mr A yn esbonio'r ymyrraeth wrtho mewn ffordd y gallai ddeall ar ôl cysylltu â'i deulu a therapydd lleferydd ac iaith cymunedol. Mae gwybodaeth ysgrifenedig hawdd i'w darllen yn cael ei rhoi iddo i'w darllen yn ei amser ei hun. Mae'r therapyddion lleferydd ac iaith sy'n ymwneud â gofal Mr A yn creu cynllun i'w helpu i gyfathrebu'i ddymuniadau yn ystod yr asesiad ar alluedd meddyliol.

Deuir â dyfais technoleg gynorthwyol Mr A i'r ysbyty ac mae'n cael ei gynorthwyo i ymarfer ei defnyddio, ond mae dulliau cyfathrebu amgen hefyd yn cael eu cynllunio rhag ofn nad yw'n teimlo'n hyderus i'w defnyddio gan, oherwydd ei salwch nad yw wedi'i defnyddio ers peth amser. Mae cardiau fflach gyda "Ie" a "Na" yn cael eu defnyddio fel teclyn cyfathrebu atodol. Cafodd yr asesiad ar alluedd meddyliol ei rannu hefyd i rannau y gellid eu hateb gan ddefnyddio atebion "ie" a "na".

Gan ddefnyddio cymysgedd o'r uchod, mae tîm yr ysbyty'n dangos bod gan Mr A y galluedd i gydsynio i'r ymchwiliad meddygol. Mae'n cyfathrebu'i ddymuniadau ynglŷn â'i iechyd a llesiant.

Ymgwymerwyd â'r lawdriniaeth feddygol yn llwyddiannus. Mae camau tebyg yn cael eu cymryd i drafod â Mr A sut i reoli canfyddiadau'r ymchwiliad.

Pa gamau dylid eu cymryd i helpu unigolyn i deimlo'n dawel eu meddwl?

3.12. I helpu unigolyn i deimlo'n dawel eu meddwl ac felly i wella'u galluedd i wneud penderfyniad, dylid ystyried lleoliad yn ogystal ag amseru'n ofalus.

Lleoliad

3.13. O ran lleoliad, ystyriwch y canlynol:

- Lle y bo'n bosibl, dewis lleoliad lle mae'r unigolyn yn teimlo'n fwyaf tawel eu meddwl. Er enghraifft, mae pobl fel arfer yn fwy cyfforddus yn eu cartrefi eu hunain na mewn meddygfa.
- Fyddai'r unigolyn yn ei chael hi'n haws i wneud eu penderfyniad mewn lleoliad perthnasol? Er enghraifft, fydddech chi'n gallu eu helpu i benderfynu ynglŷn â thriniaeth feddygol wrth fynd â nhw i'r ysbyty i weld beth sy'n bod?
- Dewis lleoliad tawel lle na fydd hi'n hawdd torri ar draws y drafodaeth.
- Ceisio dileu unrhyw sŵn cefndir neu bethau sy'n tynnu sylw (er enghraifft, y teledu neu radio, neu bobl yn siarad).
- Dewis lleoliad lle mae preifatrwydd ac urddas yr unigolyn yn gallu cael eu parchu'n iawn, a'r unigolyn yn rhydd rhag dylanwad ac felly'n gallu gwneud eu penderfyniad eu hun.

Amseru

3.14. O ran amseru, ystyriwch y canlynol:

- Ceisio dewis yr adeg o'r dydd pan fo'r unigolyn yn fwy parod i dderbyn - mae rhai pobl yn well yn y boreau, eraill yn fwy effro yn y prynhawn neu'n gynnar gyda'r nos. Gall fod yn angenrheidiol cyfarfod sawl gwaith cyn y gellir gwneud penderfyniad.
- Os bydd galluedd yr unigolyn yn debygol o wella yn y dyfodol rhagweladwy, aros hyd ei fod wedi gwneud hynny - os yn ymarferol a phriodol. Er enghraifft, gallai hyn fod yn wir ar ôl triniaeth am iselder neu gyfnod seicotig. Efallai na fydd hyn yn ymarferol a phriodol os yw'r penderfyniad yn un brys.
- Mae rhai meddyginiaethau yn gallu effeithio ar allu unigolyn (er enghraifft, meddyginiaeth sy'n achosi cysgadrwydd neu'n effeithio ar y cof). Oes modd gohirio'r penderfyniad hyd y bydd sgîl-ffeithiau wedi dod i ben?
- Cymryd un penderfyniad ar y tro - bod yn ofalus i osgoi blino neu ddrysu'r unigolyn.
- Peidio â rhuthro - caniatáu amser i'r unigolyn feddwl am bethau neu ofyn am eglurhad, lle bo hynny'n bosibl a phriodol.
- Osgoi neu herio terfynau amser sy'n ddiangen os nad yw'r penderfyniad yn un brys. Gall gohirio'r penderfyniad alluogi camau ychwanegol i gael eu cymryd i gynorthwyo pobl i wneud y penderfyniad drostynt eu hunain.

Senario: Gwneud i unigolyn deimlo'n dawel ei feddwl

Mae gan Ms K anableddau dysgu canolig ac mae angen sgan diagnostig arni.

Mae amgylcheddau ysbyty'n codi braw arni ac mae hi'n dweud nad yw'n deall cyfarwyddiadau llafar weithiau, ac yn deall gwybodaeth weledol yn haws na gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig.

Mae hi'n cyfarfod â'i hymgyngorydd, gweithiwr cymorth a Nyrs Clinigol Arbenigol ar gyfer Anableddau Dysgu i ystyried y sgan. Mae'r tîm meddygol yn awyddus i sicrhau bod ganddi allu i gydsynio i'r driniaeth os yn bosibl. Mae'r ymgynghorydd yn esbonio risgiau a buddion y driniaeth iddi, mewn iaith syml, gan ganiatáu amser iddi brosesu'r wybodaeth. Cynigir taith hefyd i Ms K o'r adran sganio.

Yn y ffordd hon mae Ms K yn gallu deall a chadw'r wybodaeth a chyfathrebu hyn i'r ymgynghorydd. Mae hi'n dweud ei bod yn hapus i gael y sgan ac yn llofnodi'r ffurflen gydsynio.

Yn ystod y driniaeth mae Ms K yn cael ei chynorthwyo gan aelod o'r tîm Anableddau Dysgu. Mae'n cwblhau'r sgan yn llwyddiannus.

Cymorth gan bobl eraill

- 3.15. Mewn llawer o achosion, bydd sicrhau bod gan unigolyn rywun arall yno i'w gynorthwyo yn eu galluogi i wneud eu penderfyniad eu hun (ac felly'n cefnogi egwyddor 2). Gall hyn fod oherwydd bydd hyn yn tawelu'u meddwl ac yn lleihau pryder. Gall fod hefyd oherwydd bod yr unigolyn yn gallu helpu i ddehongli'r ffordd maent yn cyfathrebu ynddi. Yn aml mae'r unigolyn yn gallu rhoi gwybodaeth ynghylch pwy fyddai'n eu helpu i wneud penderfyniad (neu, mewn rhai achosion, pwy na fyddai'n eu helpu). Mae'n rhaid i'r fath wybodaeth gan yr unigolyn gael ei chymryd o ddifrif a rhoi'r pwysau priodol iddi.
- 3.16. Mae'n bwysig sicrhau bod yr unigolyn yn hapus i dderbyn cymorth a'u bod yn ymddiried yn yr unigolyn sy'n eu cynorthwyo. Dylid cymryd pob cam ymarferol i osgoi'r risg o orfodaeth neu ddylanwad amhriodol.
- 3.17. Os nad oes pobl ddibynadwy arwyddocaol, neu nad oes neb yn fodlon darparu cymorth yna gall fod yn briodol ystyried penodi eiriolwr.

- 3.18. Dylai gweithiwr proffesiynol y mae'n rhaid iddo benderfynu a oes gan yr unigolyn y galluedd i wneud y penderfyniad o dan sylw wyllo'r rhyngweithio rhwng yr unigolyn a'r unigolyn sy'n darparu cymorth iddo. Os bydd y gweithiwr proffesiynol yn teimlo nad yw'r cynorthwy-ydd yn ceisio galluogi'r unigolyn i wneud eu penderfyniad eu hun neu'n ceisio cael yr unigolyn i wneud y penderfyniad mae'r cynorthwy-ydd yn ei ddymuno, gall fod angen iddynt ofyn i'r cynorthwy-ydd adael.
- 3.19. Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n cynnwys eraill fod yn ymwybodol o'r gofynion a chyfrifoldebau cyfrinachedd a amlinellir o dan ddyletswydd cyfraith gyffredin cyfrinachedd fel y nodwyd yn Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (gweler pennod 25). Mae hyn yn cyfyngu ar yr hyn sy'n gallu cael ei rannu ag eraill. Os bydd gan yr unigolyn allu mewn perthynas â rhannu gwybodaeth, o dan ddyletswydd cyfraith gyffredin cyfrinachedd, ni ellir rhannu unrhyw wybodaeth heb eu cydsyniad, [oni bai ei fod er budd y cyhoedd i ddatgelu neu'n ddyletswydd neu'n awdurdod cyfreithiol i ddatgelu]. Bydd angen i unrhyw ddatgeliadau data personol hefyd ddiwallu un o'r meini prawf cyfreithiol yn Erthygl 6 GDPR y DU. Bydd angen iddo ddiwallu un o'r amodau yn Erthygl 9 GDPR y DU neu Amserlen 1 Deddf Diogelu Data 2018. Dylai gweithwyr proffesiynol gyfeirio at ganllawiau proffesiynol ac i gyflogwyr i gael mwy o wybodaeth.

Senario: Pryderon am ddylanwad amhriodol

Mae dementia gan Ms T ac mae'n byw yn ei chartref ei hun. Mae wedi syrthio sawl gwaith yn ddiweddar, a'r tro diweddaraf wedi arwain at fynd i'r ysbyty. Mae'n cytuno dros dro i symud i gartref gofal hyd ei bod yn ddigon iach i ddychwelyd adref. Wrth i'w chyfnod cytunedig yn y cartref gofal ddod i ben, ystyriodd staff ei hangen i aros yn y cartref gofal gan ei bod wedi syrthio eto yno.

Mae gan fab Ms T atwrnai arhosol (LPA) ar gyfer iechyd a lles ac mae'n codi pryderon am ei bregusrwydd ac eiliadau achlysurol o ddryswch ynglŷn â lle mae hi. Mae'n dweud bod angen i Ms T barhau â'i harhosiad yn y cartref gofal. Mae Ms T yn cytuno ar yr achlysur hwn, sy'n gwrthdaro â'r safbwynt roedd wedi'i fynegi'n gyson o'r blaen, sef dychwelyd adref cyn gynted â phosibl.

Mae gan aelod o staff yn y cartref gofal bryderon am y gofid mae Ms T yn ymddangos i fod yn ddo a'r dylanwad y gall y mab fod wedi'i gael ar y newid yn ymateb Ms T. Mae'n asesu galluedd Ms T i wneud y penderfyniad hwn, gan siarad â hi am ei phryderon pan nad yw'r mab yn bresennol. Mae hyn yn datgelu ofn Ms T y bydd yn faich ar ei mab gan y gallai hyn gynyddu'r swm o gymorth gofal y gall fod angen iddo roi iddi.

Mae'r aelod o staff yn asesu bod Ms T wedi cadw a defnyddio'r wybodaeth berthnasol ac felly mae ganddi allu i wneud y penderfyniad i ddychwelyd adref â phhecyn cymorth i'w chynorthwyo. Er bod gan fab Ms T LPA, nid yw'n gymwys gan fod ganddi allu i wneud y penderfyniad hwn ynglŷn â'i gofal.

Pa ffyrdd eraill sydd i alluogi gwneud penderfyniadau?

3.20. Mae ffyrdd eraill i helpu rhywun i wneud penderfyniad drostynt eu hunain.

- Mae llawer o bobl yn cael budd o drafod pethau â phobl maent yn ymddiried ynddynt neu bobl sydd wedi bod mewn sefyllfa debyg neu wedi wynebu cyfyng-gyngor tebyg. Er enghraifft, gall pobl ag anabledau dysgu gael budd o gymorth gweithiwr cymorth dynodedig neu fod yn rhan o rwydwaith cymorth.
- Os bydd rhywun yn ofidus iawn (er enghraifft, yn dilyn marwolaeth rhywun agos) neu lle mae problemau hirhoedlog sy'n effeithio ar allu rhywun i ddeall mater, gall fod yn

bosibl gohirio penderfyniad er mwyn i'r unigolyn dderbyn therapi seicolegol, os bydd angen.

- Mae rhai sefydliadau wedi cynhyrchu deunyddiau i helpu pobl sydd angen cymorth i wneud penderfyniadau ac ar gyfer y rhai hynny sy'n eu cynorthwyo. Mae rhywfaint o'r deunydd hwn wedi'i gynllunio i helpu pobl â chyflyrau penodol, megis afiechyd Alzheimer neu anabledd dysgu dwys.
- Mewn rhai sefyllfaoedd - er enghraifft, wrth ystyried perthnasoedd rhywiol - gall cyrsiau hyfforddiant wedi'u teilwra helpu'r unigolyn i ddeall yr hyn sydd eu hangen arnynt er mwyn gwneud penderfyniad.

Senario: Derbyn cymorth gan bobl eraill

Mae gan Ms R anableddau dysgu a dywedodd wrth staff yn y cartref gofal yn ddiweddar lle mae'n byw ei bod hi am gael rhyw â'i chariad. Ar ôl siarad â Ms R am hyn, mae staff yn glir nad yw Ms R yn deall y gallai feichiogi os bydd yn cael rhyw, na sut mae babanod yn cael eu gwneud.

Mae staff yn asesu Ms R fel bod yn brin o allu i gydsynio i ryw. Maent yn deall bod hyn yn golygu y bydd rhaid iddynt ei hatal rhag cael rhyw â'i chariad, fydd yn peri gofid iddi.

Mae staff yn dyfeisio cynllun wedi'i deilwra sy'n cynnwys rhoi addysg rhyw i Ms R yn ystod y mis nesaf. Byddant yn ailasesu ei galluedd ar ddiwedd y cwrs gyda golwg ar ymgymryd â rhagor o hyfforddiant os bydd hi'n parhau i fod yn brin o allu i benderfynu cael perthynas rywiol.

Sut mae'r unigolyn yn rhan o'r broses Trefniadau Amddiffyn Rhyddid?

- 3.21. Mae'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) yn cynnig dulliau diogelu i bobl y mae angen neu a all fod angen trefniadau arnynt i'w rhoi ar waith sy'n gyfystyr ag amddifadu o'u rhyddid, ar gyfer eu gofal neu driniaeth, ond sy'n brin neu gallant fod yn brin o'r galluedd meddyliol i gydsynio i'r trefniadau hynny. Ni ddylid fyth rhagdybio bod unigolyn yn brin o'r galluedd i gydsynio i'r trefniadau, ac mae nifer o gamau y dylai gwneuthurwyr penderfyniadau eu cymryd cyn sbarduno proses yr LPS, a chyn gynted â bod y broses wedi cychwyn.
- 3.22. Mae nifer o benderfyniadau i'w gwneud hefyd gan yr unigolyn sy'n rhan o broses yr LPS, megis gwneud cais i gael ei gynrychioli a'i gynorthwyo gan IMCA a gwneud cais i'r Llys Gwarchod. Dylid trin pob un o'r penderfyniadau hyn yn unigol. Ni ddylid

rhagdybio nad oes gan yr unigolyn y galluedd i wneud un penderfyniad, oherwydd eu bod wedi bod yn brin o allu i wneud un gwahanol yn unig. Dylai gweithwyr proffesiynol a staff eraill sy'n gweithio gyda'r unigolyn sicrhau bod gan yr unigolyn, a'r IMCA neu Berson Priodol, y wybodaeth berthnasol ar gael iddynt i'w helpu i wneud unrhyw benderfyniadau o'r fath. P'un ai a oes gan yr unigolyn y galluedd perthnasol neu beidio, mae'n rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniadau sicrhau bob amser eu bod yn rhan o'r penderfyniad cyn belled â phosibl. Dylai gwybodaeth gael ei roi ar gael ynglŷn â'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn gyffredinol a hefyd am fanylion achosion unigol.

Penderfyniadau allweddol sy'n berthnasol i gynorthwyo'r unigolyn ym mhroses yr LPS

- 3.23. Mae nifer o benderfyniadau a all fod yn ofynnol, cyn i'r broses gael ei sbarduno, yn ystod y cam asesiadau, neu cyn gynted â bod awdurdodiad yn ei le. Dylid cynorthwyo'r unigolyn i wneud pob un o'r penderfyniadau hyn cyn belled â phosibl.
- 3.24. Cyn proses yr LPS bydd angen gwneud penderfyniad ynglŷn â gofal a thriniaeth yr unigolyn. Dylid cynorthwyo'r unigolyn i wneud eu penderfyniad eu hun cyn belled â phosibl. Fodd bynnag, os byddant yn brin o allu i gydsynio i'r gofal neu driniaeth honno gall fod angen penderfyniad budd gorau. Gweler pennod 5 i gael mwy o wybodaeth ynghylch penderfyniadau budd gorau.
- 3.25. Os bydd penderfyniad budd gorau wedi'i wneud ynglŷn â'r gofal neu driniaeth, gall fod angen penderfyniad ychwanegol am y trefniadau ynghylch gofal neu driniaeth yr unigolyn. Dylid cynorthwyo'r unigolyn cyn belled â phosibl i wneud y penderfyniadau ynglŷn â'u gofal a thriniaeth, neu'r trefniadau o'u cwmpas, cyn i broses yr LPS gael ei sbarduno.
- 3.26. Gan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos, gellid cynorthwyo'r unigolyn i ddeall y math canlynol o wybodaeth am y trefniadau:
 - Ble mae'r trefniadau'n digwydd, oedd rhaid i'r unigolyn symud i le newydd i dderbyn y gofal neu driniaeth?
 - Am ba mor hir fydd y trefniadau ar waith? Am ba mor hir y gallant gael eu trin neu eu gofalu amdanynt yn y llety newydd?
 - A yw'r llety yn agos at weithgareddau mae'r unigolyn yn eu mwynhau ac a yw'n gallu cael mynediad i'r gweithgareddau hynny o dan y trefniadau newydd?
 - Fydd yr unigolyn yn gallu gweld eu ffrindiau a theulu o dan y trefniadau newydd?
 - Pwy sy'n byw yn y llety(au) a phwy sy'n darparu gofal i'r unigolyn? A ydynt yn bobl mae gan yr unigolyn berthynas dda â hwy neu sy'n agos ato? Ydy'r unigolyn yn teimlo wedi'i gynorthwyo yn y fan honno?

- A ganiateir i'r unigolyn dreulio amser ar eu pen eu hun neu a fydd angen iddynt gael eu harolygu bob amser?
- Fydd yr unigolyn yn rhydd i dreulio'r diwrnod fel maent yn dymuno neu a fydd yn rhaid iddynt ddilyn amserlen benodol?
- Fydd yr unigolyn yn gallu penderfynu byw neu dderbyn gofal neu driniaeth mewn man arall?

3.27. Nid yw'r cwestiynau hyn yn ffurfio prawf galluedd. Fodd bynnag, mewn achosion priodol, gallant helpu'r unigolyn i fynegi'u dymuniadau a'u teimladau am y trefniadau, ac yn ei dro helpu gwneuthurwyr penderfyniadau i bennu a oes ganddynt allu i gydsynio iddynt. Er mwyn helpu i gynorthwyo'r unigolyn i gydsynio i'r trefniadau, dylai gwneuthurwyr penderfyniadau:

- sicrhau bod gan yr unigolyn yr holl wybodaeth berthnasol i ddeall y trefniadau a gynigir (gweler paragraffau 3.34-3.37 i gael mwy o wybodaeth am hawliau'r unigolyn i wybodaeth);
- esbonio canlyniadau'r trefniadau, i helpu'r unigolyn i ddeall yn well sut y byddant yn effeithio ar eu bywyd;
- defnyddio'r dull cyfathrebu gorau i'r unigolyn (gweler paragraffau 3.11 uchod i gael mwy o wybodaeth).

3.28. Er y gellid pennu nad oes gan yr unigolyn y galluedd i wneud penderfyniad am y trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid, gall yr unigolyn barhau i fynegi'u dymuniadau a'u teimladau am y trefniadau er enghraifft, trwy'r hyn maent yn ei ddweud neu eu hymddygiad. Dylai'r Corff Cyfrifol ystyried safbwyntiau a dymuniadau'r unigolyn wrth benderfynu a ddylid awdurdodi'r trefniadau. Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol hefyd gynnal proses ymgynghori i bennu dymuniadau a theimladau'r unigolyn am y trefniadau. Gweler pennod 14 i gael mwy o wybodaeth.

3.29. Dylid cynorthwyo'r unigolyn lle bo'n briodol trwy broses yr LPS, ac mae'n hollbwysig mewn llawer o achosion fod rhywun yno i'w cynrychioli a'u cynorthwyo mewn rhyngweithrediadau â'r Corff Cyfrifol a, lle bo'n berthnasol, yn y llys. Ym mhroses yr LPS, gellid cynorthwyo a chynrychioli'r unigolyn gan Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA) neu Berson Priodol. Dylid cynorthwyo'r unigolyn i gymryd rhan ym mhenodiad eu cynrychiolaeth a chymorth, cyn belled â phosibl. Cyn belled â phosibl, dylid cynorthwyo'r unigolyn i ddeall y gwahaniaethau rhwng IMCA a Pherson Priodol a gwneud penderfyniad am ba ffurf o gynrychiolaeth sydd orau iddynt. Gall yr unigolyn ofyn am gymorth IMCA, os bydd ganddynt y galluedd i wneud hynny. Gweler pennod 10 i gael mwy o wybodaeth ynghylch IMCA.

3.30. Fel arall, os bydd unigolyn addas posibl y gellid ei benodi fel y Person Priodol, byddai angen i'r unigolyn gydsynio i'r penodiad, os bydd ganddynt y galluedd i

wneud hynny. Dylid cynorthwyo'r unigolyn i wneud y penderfyniad hwn cyn belled â phosibl. Yn y rhan fwyaf o achosion, lle nad yw'r unigolyn yn dymuno penodi Person Priodol - heb ystyried a oes ganddynt y galluedd perthnasol - bydd hyn fel arfer yn golygu na ddylid penodi'r unigolyn hwnnw. Ond bydd rhai achosion lle bydd y Corff Cyfrifol fodd bynnag yn parhau i ystyried ei bod er y budd gorau i'r unigolyn i benodi'r Person Priodol. Pe na ddylid penodi Person Priodol, bydd angen i'r Corff Cyfrifol ystyried a fydd y meini prawf cyfreithiol ar gyfer penodi IMCA yn gymwys. Gweler mwy o wybodaeth ynghylch y Person Priodol ym mhennod 15.

- 3.31. Cyn gynted â bod awdurdodiad ar waith, gall yr unigolyn ddymuno herio'r trefniadau, neu ofyn am adolygu'r trefniadau. Os bydd yr unigolyn yn anhapus â'r trefniadau, dylai'u IMCA neu Person Priodol eu cynorthwyo i benderfynu'r hyn yr hoffent ei wneud nesaf. Gweler pennod 10 a 15 i gael mwy o wybodaeth.

Hawliau gwybodaeth yr unigolyn

- 3.32. Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol gyhoeddi gwybodaeth sy'n hygyrch a phriodol i anghenion yr unigolyn a'r Person Priodol. Y wybodaeth mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol ei chyhoeddi yw (Gweler pennod 14 i gael rhagor o wybodaeth am y Corff Cyfrifol a'r hyn y dylai pob un o'r penawdau hyn ei gynnwys):

- effaith awdurdodiad LPS gan gynnwys, asesiadau a phenderfyniadau, ymgynghori, ac adolygiadau cyn-awdurdodi,
- y broses ar gyfer awdurdodi trefniadau,
- yr amgylchiadau y dylid penodi IMCA ynddynt,
- rôl y Person Priodol
- pan ystyrir achos gan AMCP ar y cam adolygu cyn-awdurdodi,
- hawl yr unigolyn i herio'r trefniadau ac awdurdodiad yn y Llys Gwarchod, a sut y byddant yn cyflwyno'r fath her, a,
- sut y cynhelir adolygiadau, a'r amgylchiadau sy'n arwain at adolygiadau.

- 3.33. Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol hefyd gymryd camau ymarferol i sicrhau bod yr unigolyn sy'n mynd trwy broses yr LPS, a'i Person Priodol yn deall materion penodol. Mae hyn yn cynnwys y materion a restrir ym mharagraff 15.52, a sut maent yn gymwys i achos yr unigolyn, a natur y trefniadau arfaethedig. Os bydd gan yr unigolyn neu eu Person Priodol neu IMCA angen cyfathrebu penodol, dylai'r Corff Cyfrifol ystyried darparu cymorth ac ymateb i bob cais rhesymol am ddulliau cyfathrebu.

- 3.34. Yn ogystal â hyn, gall yr unigolyn neu'u Person Priodol neu IMCA geisio'r wybodaeth ganlynol gan y Corff Cyfrifol perthnasol:

- Sut mae adran 4B y Ddeddf yn gymwys cyn gwneud penderfyniad am awdurdodiad, a sut gall yr unigolyn herio unrhyw amddifadu o ryddid sy'n cael ei gyfiawnhau o dan y pŵer hwn. Mae adran 4B yn galluogi gwneuthurwyr penderfyniadau i gymryd camau i amddifadu unigolyn o'u rhyddid heb awdurdodiad LPS ar waith, lle bodlonir amodau penodol. Gweler pennod 19 i gael mwy o wybodaeth am adran 4B.
 - Sut a phryd y bydd yr unigolyn a'u Person Priodol neu IMCA yn gallu cyrchu gwybodaeth berthnasol arall am broses yr LPS e.e. sut i gyrchu copi o'u cofnodion.
 - Gwybodaeth am adnewyddiadau o awdurdodiadau LPS
 - Sut i awgrymu rhywun ar gyfer rôl y Person Priodol, neu sut y gall y Person Priodol gamu i lawr o'r rôl.
 - Sut bydd proses yr LPS yn rhyngweithio â fframweithiau cyfreithiol iechyd a gofal eraill (er enghraifft, o dan Ddeddf Gofal 2014 neu Ddeddf Plant 1989), a sut y gall hyn effeithio ar yr unigolyn.
 - Sut i godi cwynion am broses yr LPS gyda'r Corff Cyfrifol.
- 3.35. Mae gan yr unigolyn hawl i wybodaeth am eu hachos ar unrhyw adeg, mae hyn yn cynnwys yr asesiadau a'r penderfyniadau neu ymgynghori. Pan roddir awdurdodiad, mae'n rhaid anfon eu cofnod awdurdodi i'r unigolyn hefyd o fewn 72 awr. Os nad yw'n cael ei ddangos yn barod ar y cofnod, gall yr unigolyn neu'u Person Priodol neu IMCA ofyn i weld a oedd unrhyw anghytundeb rhwng y Corff Cyfrifol a'r unigolyn oedd yn cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi. Gall hyn fod yn fwyaf perthnasol pan fydd y Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol wedi cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi. Mae hyn yn gymwys hefyd ar ôl rhoi adnewyddiad .

4. Sut mae'r Ddeddf yn diffinio galluedd unigolyn i wneud penderfyniad a sut dylid asesu galluedd?

Mae'r bennod hon yn esbonio'r hyn mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth 'allu' a 'diffyg galluedd'. Mae'n rhoi canllawiau ynghylch sut i asesu a oes gan rywun y galluedd i wneud penderfyniad, ac yn awgrymu pryd dylai gweithwyr proffesiynol fod yn rhan o'r asesiad.

Yn y bennod hon, fel trwy'r Cod cyfan, mae galluedd (neu brinder galluedd unigolyn) yn cyfeirio'n benodol at eu galluedd i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg bydd angen ei wneud.

Crynodeb cyflym

Rhagdybio bod gan rywun allu

- Mae rhagdybiaeth fod gan bobl y galluedd i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Os bydd gwir reswm i amau bod gan yr unigolyn allu i wneud y penderfyniad, mae'n angenrheidiol asesu eu galluedd.

Deall yr hyn a olygir gan allu a phrinder galluedd

- Mae'n rhaid i allu unigolyn gael ei asesu'n benodol o ran eu galluedd i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y bydd angen ei wneud.
- Mae'n bwysig cymryd pob cam posibl i geisio helpu pobl i wneud penderfyniad drostynt eu hunain (gweler **pennod 2, egwyddor 2 a phennod 3**).

Asesu galluedd

- Bydd angen i unrhyw un sy'n asesu galluedd rhywun wneud penderfyniad i ddefnyddio'r prawf yn y Ddeddf. Gellir ei rannu i dri chwestiwn:
 - A yw'r unigolyn yn gallu gwneud y penderfyniad (gyda chymorth pe bai angen)?
 - Os na allant, a oes nam neu amhariad yng ngweithrediad eu meddwl neu ymennydd?
 - A yw anallu'r unigolyn i wneud y penderfyniad oherwydd y nam neu'r amhariad?
- Mae unigolyn yn methu â gwneud penderfyniad os na fyddant yn gallu:
- deall gwybodaeth am y penderfyniad i'w wneud (mae'r Ddeddf yn galw hyn yn 'wybodaeth berthnasol'),
- cadw'r wybodaeth honno yn eu meddwl (yn ddigon hir i wneud y penderfyniad),
- defnyddio neu bwysu'r wybodaeth honno fel rhan o'r broses gwneud penderfyniad, neu
- gyfathrebu eu penderfyniad (mewn unrhyw fodd).

- Ar gyfer penderfyniadau cymhleth neu bwysig, gall fod angen asesiad mwy trylwyr sy'n cynnwys gweithiwr proffesiynol.

Beth yw galluedd meddyliol?

- 4.1 Galluedd meddyliol yw'r galluedd i wneud penderfyniad, gyda chymorth fel y bo angen. Mae hyn yn cynnwys y galluedd i wneud penderfyniad sy'n effeithio ar fywyd pob dydd - megis pryd i godi, beth i'w wisgo neu a ddylid mynd at y meddyg pan fyddant yn teimlo'n sâl. Mae'n cyfeirio hefyd at y galluedd i wneud penderfyniadau mwy difrifol neu arwyddocaol, gan gynnwys y rhai hynny a allai fod â chanlyniadau cyfreithiol - i'r unigolyn neu i eraill. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, cytuno i gael triniaeth feddygol, penderfynu ble i fyw neu brynu nwyddau.
- 4.2 Mae asesu galluedd yn gywir yn hollbwysig i bawb sy'n cael eu heffeithio gan y Ddeddf. Gall rhywun sy'n cael ei asesu'n anghywir fel bod yn brin o allu gael eu hawl i wneud penderfyniad penodol wedi'i wrthod - yn enwedig os bydd eraill yn meddwl na fyddai'r penderfyniad er y budd gorau iddynt neu gallai achosi niwed. Os fodd bynnag, y bydd unigolyn yn brin o allu i wneud penderfyniadau penodol, gallai'r unigolyn hwnnw wneud penderfyniad nad ydynt yn ei ddeall mewn gwirionedd, a allai achosi niwed neu beryglu'r unigolyn.
- 4.3 Gall fod yn arbennig o anodd i bobl sy'n gofalu am yr unigolyn os byddant yn ystyried eu penderfyniad yn annoeth. Mae'n bwysig cyflawni asesiad i ddeall a oes gan yr unigolyn allu i wneud y penderfyniad hwnnw. Mae'n bwysig hefyd fod yr unigolyn sy'n gwneud asesiad yn gallu cyfiawnhau eu casgliadau ynghylch a oes gan yr unigolyn alluedd. Mae llawer o sefydliadau'n darparu canllawiau proffesiynol penodol ar asesu galluedd ar gyfer aelodau o'u galwedigaeth⁶.
- 4.4 Gall fod angen cymorth ar rai pobl i wneud neu gyfathrebu penderfyniad (gweler pennod 3). Ond nid yw hyn yn golygu o reidrwydd eu bod yn brin o allu i wneud hynny. Beth sy'n bwysig yw eu galluedd i gyflawni'r prosesau sy'n rhan o wneud y penderfyniad, yn hytrach na'r canlyniad.

⁶ Gweler er enghraifft: Cymdeithas Feddygol Prydain a Chymdeithas y Gyfraith, *Assessment of Mental Capacity: Guidance for Doctors and Lawyers* (Pedwerydd argraffiad) (Llundain: Cymdeithas y Gyfraith, 2015); the Joint Royal Colleges Ambulance Service Liaison Committee Clinical Practice Guidelines (JRCALC, ar gael ar-lein ar <https://aace.org.uk/clinical-practice-guidelines/>) a Chymdeithas Seicolegol Prydain, *Guidelines on assessing capacity* (BPS, 2019 ar gael ar-lein ar <https://www.bps.org.uk/news-and-policy/what-makes-good-assessment-capacity>)

Pryd dylid ystyried galluedd?

4.5 Mae rhagdybiaeth fod gan bobl y galluedd i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Fodd bynnag, gall fod yn angenrheidiol ystyried a oes gan unigolyn allu i wneud penderfyniad penodol os:

- Yw'r penderfyniad mae'r unigolyn yn ei gynnig i'w gymryd allan o gymeriad yn arwyddocaol;
- Yw'r penderfyniad mae'r unigolyn yn ei gynnig i'w gymryd yn ymddangos i fod yn annoeth, yn enwedig os byddant yn rhoi naill ai eu hunain neu eraill mewn perygl;
- Dangoswyd yn barod fod yr unigolyn yn brin o allu i wneud penderfyniadau eraill yn eu bywyd o ganlyniad i nam neu amhariad sy'n effeithio ar y modd mae eu meddwl neu ymennydd yn gweithio;
- Mae amddifadu unigolyn o ryddid yn angenrheidiol ar gyfer gofal neu driniaeth yr unigolyn [gweler pennod 12].

4.6 Nid yw ystyried galluedd unigolyn yr un peth ag asesu eu galluedd. Mae'n gofyn a oes gwir reswm i amau bod gan yr unigolyn y galluedd i wneud y penderfyniad o dan sylw. Mae methu ag ystyried hyn yn gallu bod yr un mor niweidiol i'r unigolyn â phenderfyniad brysiog eu bod yn brin o allu i wneud y penderfyniad.

4.7 Wrth ystyried galluedd unigolyn, mae'n bwysig bod camau yn cael eu cymryd i geisio cynorthwyo'r unigolyn i wneud eu penderfyniad eu hun. Fel yr eglurir yn fanylach ym Mhennod 3, mae hyn yn cynnwys gofyn y cwestiynau canlynol:

- Oes gan yr unigolyn yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen arnynt i wneud y penderfyniad?
- Os byddant yn gwneud penderfyniad sy'n cynnwys dewis rhwng dewisiadau, a oes ganddynt wybodaeth ynghylch yr holl opsiynau gwahanol?
- Fyddai gan yr unigolyn well dealltwriaeth pe byddai gwybodaeth yn cael ei hesbonio neu'i chyflwyno mewn modd arall?
- Oes adegau o'r dydd pan fo dealltwriaeth yr unigolyn yn well?
- Oes lleoliadau lle gallant deimlo'n fwy tawel eu meddwl?
- Oes modd gohirio'r penderfyniad hyd nes bod yr amgylchiadau'n wahanol a'r unigolyn o dan sylw yn gallu gwneud y penderfyniad?
- Oes unrhyw un arall yn gallu helpu'r unigolyn i wneud dewisiadau neu fynegi barn (er enghraifft, aelod teuluol neu ofalwr, eiriolwr neu rywun i helpu gyda chyfathrebu)?

Pryd dylid asesu galluedd?

- 4.8 Os bydd gwir reswm i amau bod gan yr unigolyn allu i wneud y penderfyniad, mae'n angenrheidiol asesu'u galluedd trwy ddefnyddio'r prawf yn y Ddeddf. Nid yw asesiad yr un peth â chasgliad bod yr unigolyn yn brin o allu i wneud y penderfyniad. Pan fydd wedi derbyn cymorth priodol (gweler pennod 3), gall casgliad asesiad ar alluedd ddweud bod gan yr unigolyn allu i wneud y penderfyniad.
- 4.9 Dylid adolygu asesiadau ar alluedd os bydd amgylchiadau a all effeithio ar allu'r unigolyn i wneud penderfyniad yn newid.

Pryd dylid gwneud cofnod o asesiad ar alluedd?

- 4.10 Lle bynnag y bu rheswm i asesu galluedd unigolyn, dylid gwneud cofnod o'r asesiad. Gall fod yr un mor bwysig i gofnodi casgliad bod gan yr unigolyn allu i wneud penderfyniad ag y mae i gofnodi nad oes ganddynt, yn enwedig os:
- Yw'n dod i'r casgliad bod gan yr unigolyn allu sy'n debygol o'i wneud yn agored i risgiau penodol; neu
 - Os bod gan yr unigolyn allu cyfnewidiol i wneud penderfyniadau a gall fod amheuaeth yn y dyfodol ynglŷn â oedd ganddynt y galluedd i wneud penderfyniad, megis rhoi pŵer atwrnai neu wneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth⁷.

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth 'brinder galluedd'?

- 4.11 Mae Adran 2(1) y Ddeddf yn datgan:

'At ddibenion y Ddeddf hon, mae unigolyn yn brin o allu mewn perthynas â mater os ar yr adeg faterol nad yw'n gallu gwneud penderfyniad drosto'i hun mewn perthynas â'r mater oherwydd nam, neu amhariad ar weithrediad y meddwl neu'r ymennydd.'

- 4.12 Gellir ei rhannu i dri chwestiwn:

1. A yw'r unigolyn yn gallu gwneud y penderfyniad (gyda chymorth pe bai angen)?
2. Os na allant, a oes nam neu amhariad yng ngweithrediad eu meddwl neu ymennydd?
3. A yw anallu'r unigolyn i wneud y penderfyniad oherwydd y nam neu'r amhariad?

- 4.13 Mae'n rhaid i asesiad o allu unigolyn gael ei seilio ar eu galluedd i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg mae angen iddo gael ei wneud (gyda chymorth os bydd angen), ac nid eu galluedd i wneud penderfyniadau'n gyffredinol. Mae

unigolyn yn gallu gwneud penderfyniadau am rai materion ond nid am eraill. Er enghraifft, gall unigolyn reoli lwfans ariannol bach i dalu am eu gwariant o ddydd i ddydd ond heb fod yn gallu gwneud penderfyniadau mwy cymhleth am eu materion ariannol. Mae adran 3 y Ddeddf yn diffinio yr hyn mae'n olygu i beidio â gallu gwneud penderfyniad (mae hyn yn cael ei esbonio ym mharagraff 4.20 isod).

Senario: Mae asesu galluedd yn benodol i benderfyniad

Mae gan Ms A diabetes ac anabledd dysgu. Mae angen i'w hawdurdod lleol benderfynu a yw'n gallu gwneud penderfyniadau ynglŷn â'i hiechyd a'i lles. Mae'n rheoli ei diabetes yn annibynnol heb anhawster.

Fodd bynnag, mae hi'n oedolyn bregus oherwydd yn hanesyddol mae wedi rhoi ei hun mewn perygl trwy ganiatáu i ddieithriaid ddod i mewn i'w chartref y maent wedi'i ddefnyddio fel canolfan i werthu cyffuriau ohono. Nid yw Ms A yn deall y perygl sy'n gysylltiedig â gwahodd y dieithriaid hyn i mewn i'w chartref.

Pe byddai aseswr galluedd yn asesu Ms A yn gyffredinol ynglŷn ag 'iechyd a lles' byddai'n methu oherwydd ei hanallu i ddeall y risg sy'n gysylltiedig â gwahodd y dieithriaid i mewn i'w chartref.

Fodd bynnag, mae asesiad ar alluedd ynglŷn â'r penderfyniadau iechyd a lles penodol ynghylch rheoli'i diabetes yn dangos bod ganddi allu i wneud y penderfyniadau hyn.

4.14 Mae adran 2(2) yn datgan nad oes rhaid i'r nam neu amhariad fod yn barhaol. Mae unigolyn yn gallu bod yn brin o allu i wneud penderfyniad ar yr adeg y bydd angen ei wneud hyd yn oed os yw:

- colli'r galluedd dros dro
- eu galluedd yn newid dros amser

Pa drefniadau diogelu mae'r Ddeddf yn eu darparu ynghylch asesu galluedd rhywun?

4.15 Mae'n rhaid i asesiad bod unigolyn yn brin o allu i wneud penderfyniad fyth gael ei seilio'n syml ar:

- eu hoedran
 - eu hymddangosiad
 - rhagdybiaethau am eu cyflwr, neu
 - unrhyw agwedd o'u hymddygiad (adran 2 (3))
- 4.16 Mae'r Ddeddf yn defnyddio'r gair 'ymddangosiad', oherwydd ei fod yn cynnwys pob agwedd o'r ffordd mae pobl yn edrych. Felly, er enghraifft, mae'n cynnwys nodweddion corfforol cyflyrau penodol (er enghraifft, creithiau, nodweddion cysylltiedig â syndrom Down neu sbasmau cyhyrau wedi'i hachosi gan barlys yr ymennydd) yn ogystal ag agweddau o ymddangosiad fel lliw croen, tatŵs a thyllau yn y corff, neu'r ffordd mae pobl yn gwisgo (gan gynnwys gwisg grefyddol).
- 4.17 Mae'r gair 'cyflwr' hefyd yn eang ei gwmpas. Mae'n cynnwys anabledau corfforol, anawsterau ac anabledau dysgu, salwch perthynol i oed, a chyflyrau dros dro (er enghraifft, meddwdod neu fod yn anymwybodol).
- 4.18 Gallai agweddau o ymddygiad gynnwys allblyg (er enghraifft, gweiddi neu ystumio), ymddygiad mewnblyg (er enghraifft, siarad â chi eich hun neu osgoi cyswllt llygad), neu wahaniaethau mewn ymddygiad, gan gynnwys gwneud penderfyniadau, mewn perthynas â chefnidir diwylliannol yr unigolyn.

Senario: Peidio â gwneud rhagdybiaethau am allu rhywun i wneud penderfyniad

Mae gan Mr F ddiagnosis o sgitsoffrenia paranoid. Mae'n dymuno gwneud ewyllys.

Er gwaethaf rhai credoau rhithiol, er enghraifft bod ei gymdogion yn gwranddo arno trwy'r socedi trydan yn ei gartref, mae Mr F yn dangos ei fod yn gallu deall natur a phwrpas Ewyllys, beth sydd ganddo i'w roi, y rhai hynny a allai ddisgwyl etifeddu, yn ogystal â phwy y mae'n dymuno rhoi ei ystâd iddynt a sut mae'n dymuno ei rhannu.

Er gwaethaf ei gredoau rhithiol, mae Mr F yn bodloni'r meini prawf ar gyfer galluedd i wneud Ewyllys.

Pa brawf o brinder galluedd sydd ei angen ar y Ddeddf?

- 4.19 Dylai unrhyw un sy'n cael eu gofyn yn y llys i ddangos bod unigolyn yn brin o alluedd i wneud penderfyniad ar yr adeg y mae'n rhaid iddo gael ei wneud, allu

gwneud hynny *ar gydbwysedd tebygolrwydd*. (adran 2(4)). Nid yw'r safon hwn yn berthnasol i feysydd eraill lle mae'r Ddeddf yn gofyn i bobl ystyried galluedd. Er enghraifft, mae'r Ddeddf yn gofyn bod gan unigolyn sy'n darparu gofal a thriniaeth *gred rhesymol* nad oes gan yr unigolyn alluedd i gytuno i'r camau sy'n cael eu gwneud (gweler Pennod 6 – [paragraffau 6.54-6.62]). Os oes camau priodol wedi cael eu cymryd i ystyried galluedd yr unigolyn, bydd cred ei bod hi'n fwy tebygol na pheidio nad oes gan yr unigolyn alluedd yn rhesymol. Bydd yr un peth yn wir wrth ystyried a oes gan yr unigolyn alluedd i gydsynio i drefniadau ar gyfer galluogi eu gofal a thriniaeth sy'n cael eu hystyried o dan yr LPS. Ym mhob sefyllfa, a ph'un ai yw hynny yn y llys ai peidio, nid cyfrifoldeb yr unigolyn ei hun yw 'profi' bod ganddynt alluedd.

Beth yw'r prawf galluedd?

- 4.20 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r hyn mae'n ei olygu i fod yn brin o allu i wneud penderfyniad penodol at ddibenion y Ddeddf yn adran 2 a'r hyn mae'n ei olygu i beidio â bod â'r galluedd i wneud penderfyniad yn adran 3. Mae asesiad o allu unigolyn yn erbyn y diffiniadau hyn yn aml yn cael ei adnabod fel y 'prawf galluedd'. Nid yw'n brawf meddygol, ond yn hytrach yn brawf cyfreithiol.
- 4.21 I ddefnyddio'r prawf, mae'n bosibl ei rannu i dri chwestiwn:
1. A yw'r unigolyn yn gallu gwneud penderfyniad ei hun (gyda chymorth pe bai angen)?
 2. Os na, a oes nam neu amhariad yng ngweithrediad eu meddwl neu ymennydd?
 3. A yw anallu'r unigolyn i wneud y penderfyniad oherwydd y nam neu'r amhariad?
- 4.22 Amlinellir gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r cwestiynau hyn isod.
- 4.23 Mae'n rhaid i gasgliad bod unigolyn yn brin o allu i wneud penderfyniad penodol fod yn seiliedig ar y prawf hwn, ac nid ar unrhyw brawf arall y gall gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol ddefnyddio ar gyfer tasgau eraill. Er enghraifft:
- Gall meddyg deimlo bod unigolyn yn brin o ddirnadaeth o'u cyflwr, ond nid yw hyn ynddo'i hun yn golygu bod yr unigolyn yn brin o allu i wneud penderfyniad penodol.
 - Gall Archwiliad Bach o Gyflwr Meddyliol gynorthwyo mewn asesu a oes gan unigolyn dementia, ond nid yw sgôr benodol ei hun yn golygu bod gan yr unigolyn allu neu beidio i wneud penderfyniad penodol.

Senario: Asesu a yw nam neu amhariad yn effeithio ar allu rhywun i wneud penderfyniad

Mae Ms J yn dioddef strôc sy'n gwanhau un ochr o'i chorff ac yn achosi ei hanawsterau cyfathrebu. Mae ei chartref wedi bod yn gartref i'r teulu ers blynyddoedd. Mae ei mab yn ei gwahodd i fyw gydag ef, penderfyniad a allai olygu gwerthu cartref y teulu.

Nid yw ei merch am i gartref y teulu gael ei werthu ac mae'n cwestiynu a oes gan Ms J allu i wneud y penderfyniad i werthu ei thŷ a symud i mewn gyda'i mab.

Gofynnir i ymgynghorydd ysbyty Ms J asesu ei galluedd i wneud y penderfyniad i werthu ei chartref.

Mae'r ymgynghorydd yn canfod, ar ôl ei strôc, bod gan Ms J y galluedd o hyd i wneud y penderfyniad hwnnw.

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth 'methu â gwneud penderfyniad'?

4.24 Mae unigolyn yn methu â gwneud penderfyniad os na fyddant yn gallu:

1. **deall** gwybodaeth am y penderfyniad i'w wneud (mae'r Ddeddf yn galw hyn yn 'wybodaeth berthnasol'),
2. **cadw**'r wybodaeth honno yn eu meddwl (yn ddigon hir i wneud y penderfyniad),
3. **defnyddio neu bwysu**'r wybodaeth honno fel rhan o'r broses gwneud penderfyniad, neu
4. **gyfathrebu** eu penderfyniad (mewn unrhyw fodd). Gweler adran 3(1).

4.25 Mae'r pedwar pwynt hwn yn cael eu hesbonio'n fanylach isod. Dylid defnyddio'r tri cyntaf gyda'i gilydd. Os nad yw unigolyn yn gallu gwneud un o'r tri pheth hyn, byddant yn cael eu hasesu fel nad ydynt yn gallu gwneud y penderfyniad. Mae'r pedwerydd yn gymwys yn unig mewn sefyllfaoedd lle na fydd pobl yn gallu cyfathrebu *mewn unrhyw fodd*.

Deall gwybodaeth am y penderfyniad i'w wneud

4.26 Mae'n bwysig peidio ag asesu dealltwriaeth rhywun cyn iddynt fod wedi derbyn gwybodaeth berthnasol am benderfyniad. Mae'n rhaid i bob ymdrech gael ei gwneud i gyflwyno gwybodaeth mewn ffordd sydd yn fwyaf priodol i helpu'r unigolyn i ddeall. Nid yw esboniadau cyflym neu rannol yn dderbyniol oni bai bod y sefyllfa'n un frys (gweler pennod 3 ar gyfer rhai camau ymarferol).

4.27 Mae gwybodaeth berthnasol yn cynnwys:

- natur y penderfyniad,
- y rheswm pam bod angen y penderfyniad, a'r
- effeithiau tebygol o benderfynu'r naill ffordd neu'r llall, neu beidio â gwneud penderfyniad o gwbl.

4.28 Mae'r llysoedd wedi gwneud penderfyniadau mewn nifer o achosion sy'n helpu i ddangos pa wybodaeth sy'n berthnasol mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft:

- Triniaeth feddygol⁷
- Preswyllo⁸
- Gofal⁹
- Cysylltu¹⁰

4.29 Mae'r llysoedd wedi pwysleisio bod angen i'r canllawiau hyn gael eu teilwra i ffeithiau pob achos unigol¹¹.

4.30 Mae adran 3(2) yn amlinellu'r angen i gyflwyno gwybodaeth mewn ffordd sy'n briodol i ateb anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn. Mae'n pwysleisio hefyd y pwysigrwydd o esbonio gwybodaeth gan ddefnyddio'r ffurf fwyaf effeithiol o gyfathrebu ar gyfer yr unigolyn hwnnw (megis iaith syml, iaith arwyddion, cynrychioliadau gweledol, cymorth cyfrifiadur neu ddulliau eraill). Gall fod yn briodol i geisio cyngor neu gymorth gan arbenigwr lleferydd ac iaith.

4.31 Er enghraifft:

- Gall fod angen rhywun ar unigolyn ag anabledd dysgu i ddarllen gwybodaeth ysgrifenedig iddynt. Gall fod angen darluniau arnynt hefyd i'w helpu i ddeall. Neu gallant atal y darlennydd rhag gofyn yr hyn mae pethau'n golygu. Gallai fod o gymorth hefyd iddynt drafod gwybodaeth ag eiriolwr.
- Gall unigolyn â gorbryder neu iselder ei chael hi'n anodd dod i benderfyniad am driniaeth mewn cyfarfod grŵp gyda gweithwyr proffesiynol. Gall fod yn well ganddynt ddarllen y dogfennau perthnasol yn breifat. Yn y modd hwn, maent yn gallu dod i gasgliad ar eu pen eu hun, gan ofyn am gymorth os bydd angen.

⁷Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Heart of England yn erbyn JB [2014] EWHC 342 (COP) - <https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/COP/2014/342.html>

⁸ LBX yn erbyn K, L a M [2013] EWHC 3230 (Fam) - <https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Fam/2013/3230.html>

⁹ LBX yn erbyn K, L a M [2013] EWHC 3230 (Fam) - <https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Fam/2013/3230.html>

¹⁰ LBX yn erbyn K, L a M [2013] EWHC 3230 (Fam) - <https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Fam/2013/3230.html>

¹¹ B yn erbyn Awdurdod Lleol [2019] EWCA Civ 913, ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCA/Civ/2019/913.html>.

- Gallai fod angen derbyn gwybodaeth sawl gwaith ar rywun sydd ag anaf caffaeledig i'r ymennydd. Bydd yn angenrheidiol i wirio bod yr unigolyn yn deall y wybodaeth. Os byddant yn cael anhawster i ddeall, gallai fod yn ddefnyddiol cyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd wahanol (er enghraifft defnyddio ffurfiau gwahanol o eiriau, lluniau neu ddiagramau). Mae gwybodaeth ysgrifenedig, recordiadau llais, fideos a phosteri'n gallu helpu pobl i gofio ffeithiau pwysig.
 - Gall strwythur teulu neu gefndir diwylliannol unigolyn olygu y byddai penderfyniad penodol yn cael ei wneud fel arfer gan, neu â chytundeb eu teulu neu gymuned, ond ni ddylid rhagdybio bod cefndir yr unigolyn yn golygu y byddant yn gwneud penderfyniad mewn modd benodol.
- 4.32 Mae'n rhaid i wybodaeth berthnasol gynnwys yr hyn fyddai canlyniadau tebygol penderfyniad (yr effeithiau posibl o benderfynu y naill ffordd neu'r llall) - a hefyd y canlyniadau tebygol o beidio â gwneud penderfyniad o gwbl (adran 3(4)). Mewn rhai achosion, gall fod yn ddigon i roi esboniad bras gan ddefnyddio iaith syml. Ond gallai fod angen gwybodaeth fanylach ar unigolyn neu fynediad i gyngor, gan ddibynnu ar y penderfyniad sydd angen ei wneud.
- 4.33 Mae'n bwysig gofyn cwestiynau i wirio bod yr unigolyn wedi deall y wybodaeth. Os gallai penderfyniad gael canlyniadau difrifol, mae'n bwysicach fyth fod unigolyn yn deall y wybodaeth berthnasol i'r penderfyniad hwnnw.
- 4.34 Dylai'r unigolyn allu rhoi rhyw fath o esboniad o'r wybodaeth sydd wedi'i hesbonio i ddangos eu bod wedi deall.

Senario: Darparu gwybodaeth berthnasol mewn fformat priodol

Mae gan Mr L anableddau dysgu ac mae wedi datblygu curiad calon afreolaidd. Rhagnodwyd meddyginiaeth iddo ar gyfer hyn, ond mae'n bryderus ynglŷn â chael profion gwaed rheolaidd i wirio lefelau ei feddyginiaeth. Mae ei feddyg yn rhoi taflen iddo i esbonio:

- y rheswm am y profion,
- yr hyn mae prawf gwaed yn ei olygu,
- y risgiau o gael neu beidio â chael y profion, a
- bod ganddo'r hawl i benderfynu cael y prawf neu beidio.

Mae'r daflen yn defnyddio iaith syml a ffotograffau i esbonio'r pethau hyn. Mae gofalwr Mr L yn ei helpu i ddarllen y daflen yn ystod yr ychydig ddyddiau nesaf, ac yn sicrhau ei fod yn ei deall.

Mae Mr L yn mynd yn ôl i ddweud wrth y meddyg, er bod ganddo ofn nodwyddau, y bydd yn cytuno i'r profion gwaed er mwyn iddo gael y feddyginiaeth gywir. Mae'n gallu adnabod y cyfarpar sydd ei angen i wneud y prawf gwaed.

Mae'r meddyg yn dod i'r casgliad bod Mr L yn gallu deall, cadw a defnyddio'r wybodaeth berthnasol ac felly bod ganddo'r galluedd i wneud y penderfyniad i gael y prawf.

Cadw gwybodaeth

- 4.35 Mae Adran 3(3) yn datgan bod yn rhaid peidio â rhagdybio'n awtomatig bod pobl nad ydynt ond yn gallu cadw gwybodaeth am gyfnod byr yn brin o'r galluedd i benderfynu - mae'n dibynnu ar yr hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer y penderfyniad o dan sylw. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r unigolyn allu cadw'r wybodaeth yn eu meddwl yn ddigon hir i'w defnyddio i wneud penderfyniad effeithiol. Mae eitemau megis llyfrau nodiadau, cyfrifiaduron, ffotograffau, poster, fideos a recordiadau llais yn gallu helpu pobl i gofnodi a chadw gwybodaeth. Gallu fod o fudd ar ddiwedd y broses gwneud penderfyniad i sicrhau bod yr unigolyn wedi cadw'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

Senario: Asesu galluedd unigolyn i gadw gwybodaeth

Mae gan Mr R ddementia cychwyniad cynnar. Mae'n dymuno gwneud atwrneiaeth arhosol (LPA). Mae'n dioddef â chof tymor byr gwael ac yn cael trafferth i gadw gwybodaeth newydd am fwy na thua awr.

Mae cyfreithiwr yn cyfarfod â Mr R i drafod gwneud LPA. Nid yw Mr R yn gallu dweud wrth y cyfreithiwr beth yw LPA. Mae'r cyfreithiwr yn esbonio natur a phwrpas LPA i Mr R, yn ogystal â rôl atwrnai ac unrhyw risgiau a allai godi.

Yn ystod yr awr nesaf, mae Mr R yn gallu cadw'r wybodaeth berthnasol ynglŷn â'i LPA. Mae'n dangos bod ganddo allu i wneud penderfyniadau er mwyn gwneud yr LPA, ac mae'n llofnodi'r ddogfen.

Defnyddio neu bwysu a mesur gwybodaeth fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.

- 4.36 Er mwyn i rywun fod â galluedd, mae'n rhaid iddynt fod a'r galluedd i bwysu a mesur gwybodaeth a'i defnyddio i gyrraedd penderfyniad. Weithiau mae pobl yn gallu deall gwybodaeth, ond bod nam neu amhariad yn eu hatal rhag ei defnyddio. Mewn achosion eraill, mae'r nam neu amhariad yn arwain at unigolyn yn gwneud penderfyniad penodol heb ddeall neu ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd iddynt.¹³

Senario: Defnyddio a phwysu a mesur gwybodaeth

Mae gweithiwr cymdeithasol yn ymweld â Mr E sydd ag anabledd dysgu a chyfathrebu cyfyngedig iawn. Mae gofyn am benderfyniad ynglŷn â Mr E yn cerdded y tu allan heb gymorth, yn ogystal â materion eraill sy'n berthnasol i ofal.

Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn treulio amser yn rhannu'r holl wybodaeth berthnasol â Mr E mewn ffordd sy'n addas i'w ddealltwriaeth. Mae'n ymddangos ei fod yn deall y wybodaeth, ac mae'r gweithiwr cymdeithasol yn ystyried sut i brofi ei allu i'w defnyddio a'i phwysu a mesur. Mae'n penderfynu ei bod orau i arsylwi arno sawl gwaith ar deithiau cerdded y tu allan gyda staff.

Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn dilyn yn agos y tu ôl i Mr E a'r staff cymorth. Mae'n amlwg nad yw'n gallu defnyddio'r wybodaeth ynglŷn â diogelwch y ffordd, wrth iddo wyro i'r ffordd sawl gwaith. Hyd yn oed pan fydd yn sefyll gyda'r gweithiwr cymorth yn y groesfan, mae'n pwysu'r botymau ac yna'n dechrau cerdded heb aros am yr arwydd gwyrdd.

Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn dod i'r casgliad bod Mr E yn brin o allu i wneud penderfyniadau i gerdded y tu allan yn ddiogel ar ei ben ei hun. Mae hyn yn gyson â barn ei staff cymorth.

- 4.37 Er enghraifft, gall unigolyn sydd â'r anhwylder bwyta anorecsia nerfosa ddeall gwybodaeth am ganlyniadau peidio â bwyta¹². Ond gallai eu cymhelliad i beidio â bwyta fod yn rhy gryf iddynt ei anwybyddu. Gallai rhai pobl sydd ag anaf ymennydd wneud penderfyniadau byrbwyll heb ystyried gwybodaeth a roddwyd iddynt neu eu dealltwriaeth ohoni, a all awgrymu nad ydynt yn gallu defnyddio na phwyso a mesur y wybodaeth.
- 4.38 Maes cyffredin arall o anhawster yw lle mae unigolyn ag anaf caffaeledig i'w ymennydd yn rhoi atebion rhesymegol i gwestiynau, ond mae'n amlwg o'u gweithredoedd nad ydynt yn gallu rhoi eu penderfyniad ar waith. Gelwir hyn weithiau yn nam yn eu gweithrediad gweithredol. Os nad yw'r unigolyn yn gallu deall (a/neu ddefnyddio a phwyso a mesur) y ffaith fod camgymharu rhwng yr hyn maent yn ei ddweud a'r hyn maent yn ei wneud pan ofynnir iddynt weithredu, gellir dweud eu bod yn brin o allu i wneud y penderfyniad o dan sylw. Fodd bynnag, gellir dod i'r casgliad hwn heb amheuaeth yn unig pan fydd tystiolaeth glir o gamgymharu dro ar ôl tro rhwng yr hyn mae'r unigolyn yn ei ddweud a'r hyn maent yn ei wneud. Mae hyn yn golygu yn ymarferol ei bod yn annhebygol o fod yn bosibl dod i'r casgliad fod yr unigolyn yn brin o allu o ganlyniad i'w nam ar sail un asesiad unigol.
- 4.39 Ni ddylid rhagdybio bod unigolyn sy'n gwneud penderfyniad mae eraill yn ei ystyried yn annoeth yn brin o allu. Fodd bynnag, gall cyfres o benderfyniadau annoeth ddangos anallu i ddefnyddio a phwyso a mesur gwybodaeth.

¹² Am E (Triniaeth feddygol: Anorecsia) [2012] EWCOP 1639, ar gael ar:<http://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/COP/2012/1639.html>.

Senario: Nam ar weithrediad gweithredol

Cafodd Ms L anaf i'w hymennydd dair blynedd yn ôl. Mae'n dioddef o fyrbwylltra o ganlyniad i'r anaf hwn ac mae'n ei chael yn anodd rheoli materion ynglŷn ag anghenion sylfaenol megis bwyd a rhyw. Mae'n ordew ac mae hyn yn dechrau effeithio ar ei symudoledd a'i hiechyd cyffredinol.

Yn ystod unrhyw drafodaeth â'i gofalwr mae'n fedrus ac yn rhoi atebion cymesur i gwestiynau ynglŷn a pham ei bod yn bwysig ei bod yn dilyn deiet cyfyngedig. Fodd bynnag yn fuan wedi hynny mae'n prynu a bwyta sawl bar o siocled o beiriant gwerthu neu siop.

Mewn cyfweiliad asesu galluedd ynglŷn â'r cwestiwn o reolaeth o'i deiet mae Ms L yn gallu deall yr holl wybodaeth a roddir iddi. Mae'n ymddangos hefyd ei bod yn gallu defnyddio a phwyso a mesur y wybodaeth honno.

Fodd bynnag, mae'r asesiad ar alluedd yn mynd yn ehangach na'r cyfweiliad, gan sefydlu pan fydd Ms L ym mhresenoldeb bwyd na ddylai ei fwyta, mae patrwm o'i byrbwylltra yn drech fel ei bod yn bwyta'r bwyd bob amser. Yn syth ar ôl pob digwyddiad mae Ms L yn gallu disgrifio pam na ddylai fod wedi'i fwyta.

Mae'r asesiad ar alluedd yn dangos camgymharu dro ar ôl tro rhwng yr hyn mae Ms L yn ei ddweud a'r hyn mae'n ei wneud pan fydd yn gweld bwyd, a'i bod yn brin o allu i wneud penderfyniadau am ei deiet.

Anallu i gyfathrebu penderfyniad mewn unrhyw ffordd

- 4.40 Weithiau nid oes ffordd i unigolyn gyfathrebu. Bydd hyn yn gymwys i ychydig iawn o bobl, ond mae'n cynnwys:
- pobl sy'n anymwybodol neu mewn coma, neu
 - y rhai hynny â'r cyflwr prin iawn a adnabyddir weithiau fel 'syndrom cloi i mewn', sy'n ymwybodol ond nid ydynt yn gallu siarad na symud o gwbl.
- 4.41 Os nad yw unigolyn yn gallu cyfathrebu eu penderfyniad mewn unrhyw ffordd o gwbl, mae'r Ddeddf yn dweud y dylent gael eu trin fel pe byddent yn methu â gwneud y penderfyniad hwnnw.
- 4.42 Cyn penderfynu bod rhywun yn cael ei gynnwys yn y categori hwn, mae'n bwysig gwneud pob ymdrech ymarferol a phriodol i'w helpu i gyfathrebu. Gallai hyn alw am gynnwys therapyddion lleferydd ac iaith, arbenigwyr mewn cyfathrebu dieiriau neu weithwyr proffesiynol eraill. Mae pennod 3 yn rhoi cyngor ynghylch cyfathrebu â phobl sydd ag anabledau penodol neu broblemau gwybyddol.

- 4.43 Mae cyfathrebu trwy symudiadau cyhyrau syml yn gallu dangos bod rhywun yn gallu cyfathrebu ac y gall fod ganddynt allu i wneud penderfyniad¹³. Er enghraifft, gallai unigolyn amrantu llygad neu wasgu llaw i ddweud 'ie' neu 'na'. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid i asesiad ddefnyddio'r tri phwynt cyntaf a restrir ym mharagraff 4.24, sy'n cael eu hesbonio mewn mwy o fanylder ym mharagraffau 4.26–4.38.
- 4.44 Dim ond nifer fach o bobl sydd â galluedd i wneud penderfyniad ond nad ydynt yn gallu ei gyfathrebu i unrhyw un arall. Os yw pobl eraill yn ystyried na all yr unigolyn wneud un o'r pethau sydd eu hangen i wneud penderfyniad (e.e. deall, cadw, defnyddio a phwyso'r wybodaeth berthnasol) ond maent yn ceisio cyfathrebu rhywbeth, ni ddylai unrhyw gofnod o ystyriaeth galluedd yr unigolyn ddweud nad ydynt yn gallu cyfathrebu eu penderfyniad. Mae hyn oherwydd nad ydynt wedi gwneud penderfyniad y gallant ei gyfathrebu. Byddai'r cofnod yn dangos yr hyn y mae'r unigolyn yn ei gyfathrebu, at ddibenion dysgu'r hyn sydd er eu budd pennaf.

Nam neu amhariad ar weithrediad y meddwl neu'r ymennydd

- 4.45 Os sefydlir nad yw unigolyn yn gallu gwneud penderfyniad penodol, yna mae'n angenrheidiol dangos bod gan yr unigolyn nam ar y meddwl neu'r ymennydd, neu ryw fath o amhariad sy'n effeithio ar y ffordd mae eu meddwl neu ymennydd yn gweithio, a bod hyn wedi achosi iddynt beidio â galluedd gwneud y penderfyniad. Os nad oes gan yr unigolyn nam neu amhariad yng ngweithrediad meddwl neu ymennydd yr unigolyn, yna nid ydynt yn gallu bod yn brin o allu i wneud penderfyniad at ddibenion y Ddeddf.
- 4.46 Mae enghreifftiau o nam neu amhariad yng ngweithrediad y meddwl neu'r ymennydd yn gallu cynnwys y canlynol:
- Cyflyrau sy'n gysylltiedig â rhai ffurfiau o salwch meddwl
 - Dementia
 - Anabledau dysgu arwyddocaol
 - Effeithiau tymor hir anaf caffaeledig i'r ymennydd
 - Cyflyrau corfforol neu feddygol sy'n achosi dryswch, cysgadrydd neu gollu ymwybyddiaeth
 - Deliriwm
 - Cyfergyd yn dilyn anaf i'r pen, a
 - Symptomau defnyddio alcohol neu gyffuriau
- 4.47 Mae'n haws sefydlu bod gan unigolyn nam neu amhariad yng ngweithrediad eu meddwl neu'u ymennydd os oes ganddynt ddiagnosis ffurfiol o gyflwr penodol.

¹³ Yr Ymddiriedolaeth Gofal Cynradd X yn erbyn XB & Anor - Yr Ymddiriedolaeth Gofal Cynradd X yn erbyn XB & Anor [2012] EWHC 1390 (Fam) (01 Mai 2012), ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Fam/2012/1390.html>

Fodd bynnag nid yw diagnosis ffurfiol yn angenrheidiol at ddibenion y Ddeddf. Nid yw'n angenrheidiol hefyd i'r nam neu'r amhariad gyd-fynd â diagnosis clinigol cydnabyddedig (er enghraifft mewn llawlyfr seiciatryddol). Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n honni bod unigolyn yn brin o allu, allu dangos sail cywir dros ystyried bod ganddynt nam neu amhariad.

Senario: Defnyddio a phwyso a mesur gwybodaeth - defnyddio'r rhyngrwyd

Mae gan Ms W anabledd dysgu a phrofodd drawma yn ei phlentyndod gan arwain at yr hyn sy'n cael ei ddisgrifio fel 'anhwylder personoliaeth cynyddol amlwg'. Mae'n dioddef o faterion ymlynu hysbys ac mae'n gallu mynd yn rhy agos at ddynion a dod yn argyhoeddedig eu bod yn mynd i'w phriodi. Mae'n ysu am fabi.

Yn ddiweddar mae defnydd Ms W o'r rhyngrwyd wedi peri pryder eithriadol. Mae hi'n byw gyda'i mam, sydd nawr yn teimlo nad yw'n gallu'i chynorthwyo. Mae Ms W yn cysylltu â nifer o ddynion, gan gynnwys troseddwr rhyw hysbys, ac mae'n bod yn rhywiol fanwl mewn negeseuon testun a ffotograffau ar-lein.

Mae gweithiwr cymdeithasol yn asesu galluedd Ms W ar gyfer defnydd o'r rhyngrwyd. I gychwyn, mae'n teimlo bod ganddi allu gan ei bod yn rhoi cyfrif da o'r risgiau a diogelwch y rhyngrwyd ac yn ymddangos ei bod yn deall popeth mae'n siarad â hi amdano. Mae Ms W yn llai clir wrth ddangos ei dealltwriaeth nad yw rhywun yn bwy maent yn dweud eu bod, ond mae'n parhau i ddweud y gallai pobl ddweud eu bod yn ffrind i chi pan nad ydynt, neu gall eu ffotograff ar-lein fod o unigolyn arall.

Mae Ms W yn dweud wrth y gweithiwr cymdeithasol bod ei chariad yn dod i'w chasglu heno. Mae'n prynu modrwy a chi bach iddi, ac maent yn mynd i briodi. Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn gofyn iddi am ei chariad ac mae'n dangos rhai o'u sgysiau iddo, ac mae'n dweud ei bod wedi cyfarfod â'i chariad wythnos yn ôl ar safle canlyn, mae wedi anfon ffotograffau dinoethol iawn a'i bod wedi cytuno i gael rhyw â'i feibion pan fydd yn ei chasglu.

Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn ceisio trafod sut mae Ms W yn gwybod bod ei chariad yn ddiwyll a ph'un ai a yw'n ddiogel rhedeg i ffwrdd gydag ef mor fuan. Y cwbl mae Ms W yn ei ddweud yw ei fod yn mynd i'w phriodi a phrynu modrwy a chi bach iddi.

Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn dod i'r casgliad bod anabledd dysgu Ms W a'r effaith ar hynny o anhwylder ymlynu ac anhwylder personoliaeth yn

golygu nad yw'n gallu defnyddio na phwyso a mesur y wybodaeth angenrheidiol i gadw'n ddiogel ar y rhyngwyd.

A yw anallu'r unigolyn i wneud y penderfyniad yn cael ei achosi gan y nam neu'r amhariad yng ngweithrediad eu meddwl neu'u hymennydd?

- 4.48 Ym mhob achos, mae'n angenrheidiol gofyn a yw anallu'r unigolyn i wneud y penderfyniad oherwydd y nam neu'r amhariad yng ngweithrediad eu meddwl neu'u hymennydd. Bydd hyn yn golygu esbonio (er enghraifft) sut bydd dementia unigolyn yn golygu nad ydynt yn gallu defnyddio na phwyso a mesur gwybodaeth berthnasol i'r penderfyniad o dan sylw. Mae'n rhaid i'r nam neu'r amhariad beidio ag amharu'n unig ar eu galluedd i wneud y penderfyniad, ond eu gwneud yn analluog i wneud y penderfyniad.
- 4.49 Bydd rhai achosion lle nad yw'n hawdd nodi a yw unigolyn yn methu â gwneud eu penderfyniadau eu hun oherwydd nam neu amhariad neu oherwydd dylanwad trydydd parti. Cyhyd ag y gellir dangos bod y nam neu'r amhariad yn achos anallu'r unigolyn i wneud y penderfyniad, yna byddant yn brin o allu at ddibenion y Ddeddf.
- 4.50 Fodd bynnag, os nad nam neu amhariad yng ngweithrediad meddwl neu ymennydd yr unigolyn yw'r rheswm nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniad, yna nid ydynt yn brin o allu at ddibenion y Ddeddf. Gall fod mai'r gwir reswm yw dylanwad rhywun arall, bygythiad, gorfodaeth neu ofn canlyniadau penderfyniad. Os bydd hyn yn wir a bod pryderon am ddiogelwch neu lesiant yr unigolyn, yna dylid dilyn gweithdrefnau diogelu. Mewn rhai amgylchiadau gall fod yn briodol i gais gael ei wneud i'r Uchel Lys i ystyried y mater o dan ei awdurdodaeth gynhenid (gweler paragraff 7.14).

Pobl â galluedd cyfnewidiol neu allu sydd wedi'i effeithio gan ffactor dros dro

- 4.51 Mae'n bwysig cydnabod nad yw asesiad bod unigolyn yn brin o allu i wneud penderfyniad penodol ar adeg benodol yn golygu eu bod yn brin o allu ar gyfer pob penderfyniad bob amser. Mae galluedd rhai pobl i wneud penderfyniadau yn amrywio oherwydd natur y cyflwr sydd arnynt. Mae'r amrywio hwn yn gallu digwydd dros fater o ddiwrnodau neu wythnosau (er enghraifft lle mae gan unigolyn anhwylder deubegwn) neu yn ystod y dydd (er enghraifft unigolyn â dementia, y gall eu galluedd gwybyddol wedi'u amharu'n llai'n arwyddocaol ar ddechrau'r dydd nag y maent tuag at ddiwedd y dydd). Gall ffactorau dros dro, megis salwch aciwt, poen difrifol, heintiad y llwybr wrinol, meddyginiaeth neu

brofedigaeth hefyd effeithio ar allu rhywun i wneud penderfyniadau. Bydd sut i ymdrin â'r sefyllfa yn dibynnu ar natur y penderfyniad.

Zenderfyniadau ynysig

- 4.52 Os mai penderfyniad ynysig sydd angen ei wneud, gall fod yn bosibl gohirio'r penderfyniad hyd fod gan yr unigolyn y galluedd i'w wneud drostynt eu hunain. Dylid yna gofnodi penderfyniad yr unigolyn yn glir, a bod tystiolaeth a gofnodwyd yn dangos bod ganddynt y galluedd i'w wneud.
- 4.53 Gall fod o gymorth hefyd i drafod a chofnodi'r hyn y byddai'r unigolyn yn ei ddymuno pe byddent yn colli galluedd i wneud penderfyniadau tebyg yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu, os bydd angen gwneud penderfyniadau pellach yna er eu budd gorau, gall y gwneuthurwr penderfyniad ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn (gweler pennod 5).
- 4.54 Os nad yw'n bosibl gohirio'r penderfyniad, dylid cymryd y camau gweithredu lleiaf hyd y bydd yr unigolyn yn adennill galluedd i wneud penderfyniadau.

Penderfyniadau wedi'u hailadrodd

- 4.55 Nid yw rhai penderfyniadau'n digwydd unwaith yn unig ac mae angen eu hailadrodd dros gyfnod o amser, er enghraifft rheoli cyllid personol unigolyn o ddydd i ddydd, neu reoli cyflwr megis diabetes. Er bod galluedd yn benodol i amser, ar gyfer penderfyniadau sy'n cael eu hailadrodd gall fod yn briodol ystyried y cyfnod ehangach y bydd angen i'r penderfyniadau gael eu gwneud. Os bydd unigolyn yn gallu gwneud y penderfyniadau'n unig ar gyfnodau cyfyngedig o'r cyfnod mae angen iddynt gael eu gwneud, gall fod yn briodol symud ymlaen ar y sail eu bod yn brin o allu.¹⁴ Mae hyn yn arbennig felly os bydd canlyniadau'r penderfyniadau'n ddifrifol ac mae gan yr unigolyn allu i'w gwneud am ran fach iawn o'r amser yn unig.
- 4.56 Bydd yn angenrheidiol parhau i adolygu galluedd yr unigolyn ac ailasesu eu galluedd os bydd yn dod i'r amlwg bod ganddynt y galluedd i wneud y penderfyniadau yn amlach na pheidio.

¹⁴ *Cyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer yn erbyn PWK* [2019] EWCOP 57 - <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2019/57.html>

Senario: Galluedd cyfnewidiol

Mae gan Mr J broblemau camddefnydd alcohol cymhleth tymor hir ac iechyd meddwl. Mae'n byw mewn gwasanaeth adfer alcohol arbenigol, gan ymgymryd â rhaglen lleihau alcohol yn raddol.

Mae gan Mr J hanes o fynd dros ei gymeriant alcohol dyddiol cytunedig, gan feddwi. Ar yr adegau hyn, mae'n anghofio bwyta ac mae wedi cael mynediad at gyfrifiadur wedi'i rannu yn y gwasanaeth i gymryd rhan mewn hapchwarae ar-lein, sydd wedi arwain ato'n colli symiau sylweddol o arian.

Lle ceir enghreifftiau o Mr J yn ymddangos ei fod wedi meddwi a allai arwain at grebwyll diffygiol ganddo, mae staff yn cynnal asesiad ar alluedd meddyliol i ddeall a oes ganddo'r galluedd i wneud penderfyniad i dalu symiau mawr o arian yn y gobaith o ennill jacpot.

Mae staff yn asesu a yw'n gallu pwysu a mesur y risgiau yn erbyn buddion o barhau i hapchwarae a gwneud penderfyniad am barhau i wario'r arian. Pan na fydd yn gallu pwysu a mesur y risgiau, mae ei fynediad at y cyfrifiadur wedi'i rannu'n cael ei gyfyngu gan ddefnyddio penderfyniad budd gorau, fel y cytunwyd fel rhan o'i gynllun gofal, gan gynnwys defnydd o ddatganiad ymlaen llaw a wnaed tra bod gan Mr J allu.

Galluedd cyfnewidiol a'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid

- 4.57 Ar gyfer yr ymagwedd benodol i'w chymryd at allu cyfnewidiol yng nghyd-destun Trefniadau Amddiffyn Rhyddid, gweler pennod 16 (paragraff 16.28-16.32).

Amodau parhaol a allai effeithio ar allu

- 4.58 Yn gyffredinol, dylai asesiadau ar alluedd fod yn gysylltiedig â phenderfyniad penodol. Ond gallai fod pobl â chyflwr parhaol sy'n effeithio ar eu galluedd i wneud penderfyniadau penodol neu a allai effeithio ar benderfyniadau eraill yn eu bywydau. Gall un penderfyniad ar ei ben ei hun wneud synnwyr ond gall achosi pryder pan y'i ystyrir ochr yn ochr ag eraill.
- 4.59 Eto, mae'n bwysig adolygu galluedd o dro i dro, gan y gall pobl wella'u galluedd gwneud penderfyniadau. Yn benodol, gall rhywun â chyflwr parhaol ddod yn abl i wneud rhai, os nad pob penderfyniad. Bydd rhai pobl (er enghraifft, pobl ag anableddau dysgu) yn dysgu sgiliau newydd trwy gydol eu bywydau, gan wella'u galluedd i wneud penderfyniadau penodol. I'r gwrthwyneb, gall rhai pobl (er enghraifft, pobl â dementia) ddod yn llai abl i wneud penderfyniadau wrth i amser fynd heibio a'u cyflwr yn datblygu. Felly dylid adolygu asesiadau o dro i dro.

4.60 Dylid adolygu galluedd bob amser:

- pryd bynnag mae cynllun gofal a chymorth yn cael ei ddatblygu neu'i adolygu
- ar gamau perthnasol eraill o'r broses cynllunio gofal, ac
- fel bydd angen i benderfyniadau newydd gael eu gwneud.

Senario: Cyflyrau parhaol

Cafodd Mr P ddamwain yn y gwaith a dioddefodd anafiadau pen difrifol. Cyflwynodd ei bartner gais i'r Llys Gwarchod i fod yn ddirprwy eiddo a chyllid iddo wrth iddi ddod yn amlwg y byddai iawndal yn cael ei ddyfarnu i Mr P i dalu am y gofal y byddai ei angen arno trwy gydol ei fywyd o ganlyniad i'r anaf i'w ben. Gwrthwynebodd Mr P gan ei fod yn credu y gallai reoli ei fywyd ac roedd am benderfynu sut i wario'i arian.

Fel rhan o'i asesiad ar alluedd ysgrifennodd Mr P restr o'r hyn roedd yn bwriadu gwario'i arian arno. Roedd hyn yn cynnwys eitemau moethus, na fyddai'n gadael digon o arian i dalu am gostau ei ofal yn y dyfodol. Esboniwyd wrth Mr P faint y byddai eitemau o'r fath yn costio a faint o arian a fyddai ganddo'n weddill ar gyfer ei anghenion gofal.

Dyfarnodd y llys fod gan Mr P y galluedd i wneud penderfyniadau ariannol o ddydd i ddydd, ond nid oedd yn deall pam ei fod wedi derbyn iawndal, na sut fel y gallai ei benderfyniad i wario'r arian fel mae'n dymuno effeithio ar ei ofal yn y dyfodol. Penderfynodd y llys felly fod Mr P yn brin o allu i reoli symiau mawr o arian a phenododd ei bartner yn ddirprwy iddo i wneud penderfyniadau ariannol parhaol ynghylch ei ofal. Ond rhoddodd fynediad i Mr P at ddigon o arian i dalu am ei anghenion pob dydd ac ambell beth moethus.

Pwy ddylai asesu galluedd?

- 4.61 Y person sy'n asesu galluedd unigolyn i wneud penderfyniad fel arfer fydd y person sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn ar yr adeg y bydd angen i'r penderfyniad gael ei wneud. Mae hyn yn golygu y bydd pobl wahanol yn rhan o'r broses o asesu galluedd rhywun i wneud penderfyniadau gwahanol ar adegau gwahanol.
- 4.62 Ar gyfer y rhan fwyaf o benderfyniadau dydd i ddydd, hwn fydd yr unigolyn sy'n gofalu amdanynt ar yr adeg pan fydd rhaid gwneud penderfyniad. Er enghraifft, gallai fod angen i weithiwr gofal asesu os bydd yr unigolyn yn gallu cytuno â chael

ei olchi. Yna gallai nyrs ardal asesu a yw'r unigolyn yn gallu cydsynio i gael eu dresin wedi newid.

- 4.63 Ar gyfer gweithredoedd gofal neu driniaeth (gweler pennod 6), mae'n rhaid bod gan aseswr 'gred resymol' bod yr unigolyn yn brin o allu i gytuno â'r weithred neu benderfyniad i'w gymryd (gweler paragraffau 4.44–4.45)
- 4.64 I gael disgrifiad o gred resymol) cyn gwneud penderfyniad neu weithredu er eu budd gorau.
- 4.65 Os bydd meddyg neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol yn cynnig ffordd o weithredu (er enghraifft, triniaeth neu archwiliad), mae'n rhaid iddynt fod yn wylidwrus o arwyddion nad oes gan yr unigolyn alluedd i gydsynio, a rhoi'r holl gymorth a chefnogaeth rhesymol iddynt i wneud penderfyniad. Mae asesu galluedd yn sgil glinigol graidd. Mewn lleoliadau megis ysbyty, gall asesu galluedd gynnwys y tîm amlddisgyblaethol (tîm o bobl o gefndiroedd proffesiynol gwahanol sy'n rhannu cyfrifoldeb am glaf). Ond yn y pen draw, cyfrifoldeb y gweithiwr proffesiynol sy'n gyfrifol am driniaeth yr unigolyn yw sicrhau bod galluedd wedi cael ei asesu¹⁵.
- 4.66 Os bydd unigolyn yn dewis cyfarwyddo ymarferwr cyfreithiol ar gyfer trafodiad cyfreithiol (er enghraifft gwneud ewyllys neu werthu tŷ), mae'n rhaid i'r ymarferwr cyfreithiol fod yn fodlon bod gan yr unigolyn allu i'w cyfarwyddo. Dylent hefyd ystyried a oes gan y cleient y galluedd i fodloni unrhyw brawf cyfreithiol perthnasol ar gyfer y trafodiad. Os bydd yr ymarferwr cyfreithiol yn meddwl nad oes gan y cleient y galluedd hwn, dylent roi gwybod iddynt am eu pryderon ac am y goblygiadau os canfyddir eu bod yn brin o allu. Gall fod yn angenrheidiol cynghori'r cleient y dylid cael barn ynghylch eu galluedd gan rywun proffesiynol sydd â'r arbenigedd perthnasol¹⁶.
- 4.67 Gall fod amgylchiadau lle bydd angen i ddarparwr addysg asesu a oes gan unigolyn ifanc y galluedd i wneud penderfyniad penodol, megis a ddylid cymryd rhan mewn cwrs. Fel gydag oedolion, cyfrifoldeb y person sy'n gyfrifol am ofal yr unigolyn ifanc ar yr adeg mae angen i'r penderfyniad gael ei wneud yw asesu a oes ganddynt y galluedd i wneud y penderfyniad. Pan fydd gan yr unigolyn ifanc gynllun Addysg, Iechyd a Gofal (Lloegr) neu gynllun addysg cyfatebol¹⁷ yng

¹⁵ Y Cyngor Meddygol Cyffredinol - Canllawiau ar wneud penderfyniadau a chydsyniad, ar gael ar: https://www.gmc-uk.org/-/media/documents/gmc-guidance-for-doctors---decision-making-and-consent-english_pdf-84191055.pdf.

¹⁶ Mae'r Cymdeithas Cyfreithwyr a'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfeithwyr hefyd yn rhoi canllawiau am gyfrifoldebau proffesiynol cyfreithwyr yn y maes hwn, ar gael ar: <https://www.lawsociety.org.uk/en/topics/regulation/sra-standards-and-regulations>

- <https://www.sra.org.uk/solicitors/>

¹⁷ Tan y bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn dod i rym, bydd rhan IV Deddf Addysg 1996 (a Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig ar gyfer Cymru) yn darparu ar gyfer rhoi datganiadau o anghenion addysgol arbennig yng Nghymru, ar gael ar:

Nghymru ar waith, dylai'r rhai hynny sy'n gyfrifol am ofal yr unigolyn ifanc gyfeirio ato wrth gynorthwyo'r unigolyn ifanc i wneud penderfyniad. Ni fyddai disgwyl i ddarparwyr addysg asesu galluedd unigolyn ifanc i wneud penderfyniadau pwysig neu gymhleth. Yn yr amgylchiadau hynny, mae'n debygol y bydd angen barn broffesiynol (gan feddyg teulu neu seicolegydd, er enghraifft).

- Mae'n debygol y bydd angen asesiadau mwy ffurfiol ar benderfyniadau mwy cymhleth (gweler paragraff 4.69 isod). Gallai barn broffesiynol ar allu'r unigolyn fod yn angenrheidiol. Gallai hyn fod, er enghraifft, gan seiciatrydd, seicolegydd, therapydd lleferydd ac iaith, therapydd galwedigaethol neu weithiwr cymdeithasol. Ond mae'n rhaid i'r penderfyniad terfynol am allu unigolyn gael ei wneud gan yr unigolyn sy'n bwriadu gwneud y penderfyniad neu gyflawni'r weithred ar ran yr unigolyn sydd â phrinder galluedd - nid y gweithiwr proffesiynol, sydd yno i gynghori.
- Dylai fod gan unrhyw aseswr y sgiliau a'r galluedd i gyfathrebu'n effeithiol â'r unigolyn (gweler pennod 3). Os bydd angen, dylent gael cymorth proffesiynol i gyfathrebu â'r unigolyn. Ym mhob achos, mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n cynnal yr asesiad fod yn ofalus peidio â chaniatáu i'w barn eu hunain ddylanwadu ar eu hasesiad.

Senario: Pwy ddylai asesu galluedd?

Yn dilyn strôc daethpwyd o hyd i Ms B wedi syrthio gartref gan barafeddygon, a adroddodd am arwyddion o esgeulustod difrifol. Yn ystod y broses cynllunio i ryddhau, cynigiodd tîm clinigol a gofal cymdeithasol yr ysbyty ei bod yn mynd i gartref gofal dros dro i alluogi gwasanaethau cymdeithasol i lanhau tŷ Ms B a rhoi mesurau diogelwch yn eu lle. Gwrthododd Ms B a bygythiodd fynd â'r ysbyty i'r llys am ymyrryd â'i bywyd preifat.

Awgrymodd asesiadau Tîm Amlddisgyblaethol yr Ysbyty (MDT) ar alluedd fod gan Ms B allu i wrthod gofal. Yn dilyn trafodaeth â'i merch, cynhaliwyd asesiad galluedd mwy cynhwysfawr ynglŷn â'i rhyddhau oherwydd pryderon nad oedd yn ymwybodol sut byddai esgeuluso ei hun yn effeithio ar ei hiechyd.

Trafododd y gweithiwr cymdeithasol, yr ymgynghorydd niwroleg a therapydd galwedigaethol leoliad ei chartref â Ms B, â chymorth ffotograffau a dynnwyd gan ei merch. Roedd Ms B yn gallu disgrifio cynllun ei thŷ ond nid er enghraifft sut roedd yr annibendod wedi achosi ei chwympiadau amrywiol, pam nad oedd wedi ymolchi ers misoedd neu pam roedd y bwyd yn ei hoergell yn anniogel. Roedd wedi'i chynhyrfu am yr asesiad a dywedodd ei bod yn cael ei chadw'n anghyfreithlon a bod ei hawliau'n cael eu tramgwyddo. Dywedodd na fyddai'n cydsynio i fynd i gartref gofal ond nid oedd yn gallu esbonio hyn yn fanwl. Cytunodd yn y pen draw i becyn gofal a'r gwasanaethau cymdeithasol yn ei helpu i dacluso'i chartref.

Daeth y tîm MDT i'r casgliad ar gydbwysedd tebygolrwydd y golygai cyflwr niwrolegol Ms B ei bod yn brin o allu i ddeall risgiau ei hamodau byw peryglus. Er ei bod yn gallu cyfathrebu'i dymuniadau, nid oedd yn gallu cofio'r pryderon na'r rhesymau am y drafodaeth.

Er yn cytuno ar y cyd bod Ms B yn brin o'r galluedd i wneud y penderfyniad i ddychwelyd adref, penderfynodd y tîm barchu ei dymuniadau. Derbyniodd y tîm mai'r opsiwn llai cyfyngol fyddai'i rhyddhau i'w chartref, gyda phecyn llawn o fesurau gofal a gwarchodol ar waith. Byddent yn adolygu'r sefyllfa'n rheolaidd â chymorth merch Ms B.

Beth yw 'cred resymol' o brinder galluedd?

- 4.68. Nid oes rhaid i ofalwyr (naill ai'n ofalwyr teuluol neu'n ofalwyr eraill) a gweithwyr gofal fod yn arbenigwyr mewn asesu galluedd mewn perthynas â phenderfyniadau dydd i ddydd. Ond er mwyn cael eu gwarchod rhag

atebolrwydd wrth ddarparu gofal neu driniaeth (gweler pennod 6), mae'n rhaid bod ganddynt 'gred resymol' fod yr unigolyn maent yn gofalu amdanynt yn brin o allu i wneud penderfyniadau perthnasol ynglŷn â'u gofal neu driniaeth (adran 5 (1)). Er mwyn bod yn sicr o'r cred resymol hon, mae'n rhaid eu bod wedi cymryd camau 'rhesymol' i sefydlu bod yr unigolyn yn brin o allu i wneud penderfyniad neu i gydsynio i weithred ar yr adeg y mae angen y penderfyniad neu'r cydsyniad. Mae hyn yn cynnwys darparu cymorth i alluogi'r unigolyn i wneud eu penderfyniad eu hun. Mae'n rhaid iddynt hefyd sefydlu bod y weithred neu'r penderfyniad er y budd gorau i'r unigolyn (gweler pennod 5).

- 4.69 Nid oes angen i benderfyniadau pob dydd ddilyn prosesau ffurfiol fel arfer, megis cynnwys gweithiwr proffesiynol i wneud asesiad. Fodd bynnag, os bydd rhywun yn herio'u hasesiad (gweler paragraff 4.97 isod), mae'n rhaid i'r gofalwr allu disgrifio'r camau y maent wedi'u cymryd. Mae'n rhaid bod ganddynt hefyd resymau gwrthrychol dros gredu bod yr unigolyn yn brin o allu i wneud y penderfyniad o dan sylw.
- 4.70 Bydd y camau a dderbynnir fel rhai 'rhesymol' yn dibynnu ar amgylchiadau unigol a natur brys y penderfyniad. Mae disgwyl i weithwyr proffesiynol, sy'n gymwys yn eu maes penodol, gyflawni asesiad llawnach, gan adlewyrchu eu graddfa uwch o wybodaeth a phrofiad, nac aelodau'r teulu neu ofalwyr eraill sydd heb gymwysterau ffurfiol. Gweler paragraff 4.81 i gael rhestr o bwyntiau i'w hystyried wrth asesu galluedd rhywun. Gallai'r canlynol hefyd fod o gymorth:
- Dechrau trwy ragdybio bod gan yr unigolyn y galluedd i wneud y penderfyniad penodol. Oes unrhyw beth i awgrymu fel arall?
 - Oes unrhyw ystyriaethau diwylliannol perthnasol am sut mae'r unigolyn yn gwneud penderfyniadau penodol fel arfer, er enghraifft ar y cyd fel rhan o uned deuluol? Fodd bynnag bod yn ymwybodol hefyd o unrhyw arwyddion o orfodaeth.
 - Oes gan yr unigolyn ddiagnosis blaenorol o anabledd neu anhwylder meddyliol? A yw'r cyflwr hwnnw'n effeithio ar eu galluedd nawr i wneud y penderfyniad hwn? Os na cheir diagnosis blaenorol, gallai fod yn well cael barn feddygol.
 - Gwneud pob ymdrech i gyfathrebu â'r unigolyn i esbonio'r hyn sy'n digwydd.
 - Gwneud pob ymdrech i geisio helpu'r unigolyn i wneud y penderfyniad o dan sylw.
 - Edrych a oes ffordd i esbonio neu gyflwyno gwybodaeth am y penderfyniad mewn modd sy'n ei wneud yn haws i'w ddeall. Os oes gan yr unigolyn ddewis, oes ganddynt wybodaeth am yr holl opsiynau?
 - A oes modd gohirio'r penderfyniad i gymryd amser i helpu'r unigolyn i wneud y penderfyniad, neu roi amser i'r unigolyn adennill y galluedd i wneud y penderfyniad drostynt eu hun?
 - A yw'r unigolyn yn deall pa benderfyniad mae angen iddynt wneud a pham bod angen iddynt ei wneud?
 - A ydynt yn deall gwybodaeth am y penderfyniad? A ydynt yn gallu ei chadw, ei defnyddio a'i phwyso a'i mesur i wneud y penderfyniad?

- Bod yn ymwybodol nad yw'r ffaith bod unigolyn yn cytuno â chi neu'n cydsynio i'r hyn sy'n cael ei gynnig o angenrheidrwydd yn golygu bod ganddynt y galluedd i wneud y penderfyniad.

Pryd y dylid cynnwys gweithwyr proffesiynol?

- 4.71 Mae'n bosibl y bydd angen barn broffesiynol ar unrhyw un sy'n asesu galluedd rhywun wrth asesu galluedd unigolyn i wneud penderfyniadau cymhleth neu bwysig. Mewn rhai achosion gall hyn gynnwys cysylltu â meddyg teulu'r unigolyn. Os bydd gan yr unigolyn gyflwr neu anhwylder penodol, gall fod yn briodol cysylltu ag arbenigwr (er enghraifft, seiciatrydd ymgynghorol, seicolegydd, neu weithiwr proffesiynol arall sydd â phrofiad o ofalu am gleifion â'r cyflwr hwnnw). Gallai therapydd lleferydd ac iaith helpu os bydd anawsterau cyfathrebu. Gall gweithwyr proffesiynol eraill megis nyrsys, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol ac eraill ddarparu'r sgiliau proffesiynol angenrheidiol. Mewn rhai achosion, dull amlddisgyblaethol sydd orau, neu gall fod yn angenrheidiol dod o hyd i aseswr galluedd profiadol. Mewn rhai achosion gellir codi ffi am ddarparu'r gwasanaeth hwn.
- 4.72 Ni ddylai gweithwyr proffesiynol fyth fynegi barn heb gynnal archwiliad ac asesiad cywir o allu'r unigolyn i wneud y penderfyniad. Mae'n rhaid iddynt ddefnyddio'r prawf galluedd priodol. Mewn rhai achosion, bydd angen iddynt gyfarfod â'r unigolyn fwy nag unwaith, yn enwedig os bydd gan yr unigolyn anawsterau cyfathrebu. Mae gweithwyr proffesiynol yn gallu cael gwybodaeth gefndirol gan deulu a gofalwyr unigolyn. Ond mae'n rhaid i safbwyntiau personol y bobl hyn am yr hyn maent yn dymuno i'r unigolyn sydd â phrinder galluedd beidio â dylanwadu ar ganlyniad yr asesiad hwnnw.
- 4.73 Gallai fod angen cyfraniad gweithiwr proffesiynol os:
- bydd y penderfyniad sydd angen ei wneud yn gymhleth neu fod ganddo ganlyniadau difrifol
 - bydd yr aseswr yn dod i'r casgliad fod unigolyn yn brin o allu, a bod yr unigolyn yn herio'r canfyddiad
 - bydd aelodau'r teulu, gofalwyr a/neu weithwyr proffesiynol yn anghytuno ynglŷn a galluedd unigolyn
 - bydd gwrthdaro buddiannau rhwng yr aseswr a'r unigolyn sy'n cael ei asesu
 - bydd yr unigolyn sy'n cael ei asesu yn mynegi safbwyntiau gwahanol i bobl wahanol - mae'n bosibl eu bod yn ceisio plesio pawb neu'n dweud wrth bobl yr hyn maent yn meddwl eu bod yn dymuno clywed
 - gallai rhywun herio galluedd yr unigolyn i wneud y penderfyniad - naill ai ar adeg y penderfyniad neu'n ddiweddarach (er enghraifft, gallai aelod o'r teulu herio ewyllys ar ôl i unigolyn farw ar y sail bod yr unigolyn yn brin o allu pan wnaeth yr ewyllys)
 - yw rhywun wedi cael ei gyhuddo o gam-drin oedolyn sy'n agored i niwed a all fod yn brin o allu i wneud penderfyniadau sy'n eu diogelu

- bydd unigolyn yn gwneud penderfyniadau dro ar ôl tro sy'n eu rhoi mewn perygl neu a allai arwain at ddioddef neu niwed.

Senario: Cael barn broffesiynol

Mae gan Ms M hanes o sgitsoffrenia gan gynnwys cyfnod mewn ysbyty seiciatrig arhosiad hir. Nid oes ganddi deulu sy'n dal yn fyw ac mae'n byw ar ei phen ei hun. Mae ei gofalwr yn ymweld unwaith y dydd ac mae ganddi nyrs seiciatrig cymunedol (CPN) sy'n cysylltu'n rheolaidd.

Mae wedi'i diagnosio â chanser genol sinws cam 4 ac mae'n cael ei chynorthwyo gan ei CPN ond mae'n gwrthod triniaeth. Mae ei thîm oncoleg yn pennu bod ganddi'r galluedd ar gyfer y penderfyniad hwn. Mae'r tiwmor yn tyfu ac yn achosi poen i Ms M, ac mae'n cymryd dos isel o morffin.

Mae Ms M yn syrthio ac mae ei meddyg teulu ac ymgynghorydd gofal lliniarol cymunedol yn cynghori ei bod yn cael ei derbyn i'r hosbis lleol, ond mae'n gwrthod.

Mae'r meddygon yn asesu galluedd meddyliol Ms M i benderfynu peidio â mynd i'r hosbis. Maent yn ansicr faint o forffin mae Ms M wedi'i gymryd, a maint y tiwmor. Gyda chymorth gofalwr Ms M, maent yn esbonio'u pryderon, a'r buddion a'r anfanteision o gael ei derbyn i'r hosbis. Nid yw Ms M yn dangos diffyg cof ond nid yw'n gallu esbonio pam nad yw'n dymuno mynd i'r hosbis.

Barn yr ymgynghorydd yw, rhwng popeth, nad oes gan Ms M y galluedd i wneud y penderfyniad hwn gan nad yw'n ymddangos ei bod yn defnyddio a phwyso a mesur gwybodaeth. Mae'r meddyg teulu'n penderfynu bod ymddygiad Ms M yn gyson â'i hymddygiad blaenorol a, rhwng popeth, fod gan Ms M allu i ddewis i aros gartref er gwaethaf natur ymddangosiadol annoeth y penderfyniad. Mae'r gofalwr yn cytuno â'r meddyg teulu, ond mae'r ymgynghorydd yn pryderu nad yw'r gofalwr yn glinigydd a bod hyn yn benderfyniad cymhleth.

Nid yw'r ddau feddyg yn gallu dod i gytundeb ac maent yn cysylltu â'r CPN, sy'n cadarnhau adroddiad y meddyg teulu o ddull cyfathrebu arferol Ms M a'i dymuniad a fynegir yn gyson i aros gartref. Mae'r meddyg teulu a'r ymgynghorydd yn cytuno, rhwng popeth, bod gan Ms M y galluedd i aros gartref, er gwaethaf y risgiau.

Gyda chymorth gweithiwr cymdeithasol Ms M, a gyda'i chytundeb, maent yn cynyddu ymweliadau'r gofalwr i dair gwaith y dydd ac mae'r meddyg teulu'n cytuno i ymweld eto y diwrnod canlynol. Dau ddiwrnod yn ddiweddarach mae Ms M yn syrthio eto. Mae'r tiwmor wedi erydu trwy'r croen uwchben ei boch, ac mae hi'n cytuno i gael ei derbyn i hosbis.

4.74

Mewn rhai achosion, gall fod yn ofyniad cyfreithiol, neu arfer proffesiynol da, i gynnal asesiad ffurfiol o allu. Mae'r achosion hyn yn cynnwys:

- lle gellid herio galluedd unigolyn i lofnodi dogfen gyfreithiol (er enghraifft, ewyllys), yn ddiweddarach¹⁸,
- sefydlu a oes angen cymorth y Cyfreithiwr Swyddogol neu ffrind cyfreithiad arall ar unigolyn a allai fod yn rhan o achos cyfreithiol (rhywun i gynrychioli ei safbwyntiau i lys a rhoi cyfarwyddiadau i'w cynrychiolydd cyfreithiol) a bod amheuaeth am allu'r unigolyn i roi cyfarwyddiadau i gyfreithiwr neu i gymryd rhan yn yr achos¹⁹
- pryd bynnag mae'n rhaid i'r Llys Gwarchod benderfynu a yw unigolyn yn brin o allu mewn mater penodol
- os oes gofyn i'r llysoedd wneud penderfyniad am allu unigolyn mewn achosion cyfreithiol eraill²⁰
- os bydd canlyniadau cyfreithiol o ganfod galluedd (er enghraifft, penderfynu ar iawndal ariannol yn dilyn hawliad am anaf personol)
- os yr ystyrir amddifadu'r unigolyn o'u rhyddid

Pa brofion cyfreithiol eraill o alluedd sydd?

- 4.75 Mae'r Ddeddf yn datgan bod y diffiniad o 'brinder galluedd' a'r prawf ar gyfer galluedd a amlinellir yn y Ddeddf 'at ddibenion y Ddeddf hon'. Mae hyn yn golygu bod y diffiniad a'r prawf i fod i gael eu defnyddio mewn sefyllfaoedd wedi'u cwmpasu gan y Ddeddf. Mae Atodlen 6 y Ddeddf hefyd yn diwygio deddfau presennol i sicrhau bod y diffiniad a'r prawf yn cael eu defnyddio mewn meysydd eraill o'r gyfraith na chynhwysir yn uniongyrchol gan y Ddeddf.
- 4.76 Er enghraifft, mae Atodlen 6, paragraff 20 yn anghymwysu unigolyn o wasanaeth rheithgor os yw'n brin o'r galluedd (gan ddefnyddio diffiniad y Ddeddf) i gyflawni tasgau rheithiwr.
- 4.77 Cyn i'r Ddeddf gael ei chyflwyno, roedd barnwyr mewn llysoedd wedi datblygu profion galluedd i gynnwys sefyllfaoedd penodol (yn cael eu hadnabod fel profion cyfraith gyffredin)²¹. Roedd y rhain yn cynnwys:
- galluedd i wneud ewyllys²²
 - galluedd i roi rhodd²³
 - galluedd i fynd i mewn i gontract²⁴

¹⁸ *Kenward yn erbyn Adams*, Y Times, 29 Tachwedd 1975

¹⁹ *Rheolau Trefniadaeth Sifil 1998, r 21.1*, Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010 15.1. Gweler hefyd *Hinduja yn erbyn Hinduja & Ors* [2020] EWHC 1533 (Ch) sy'n trafod tystiolaeth feddygol o alluedd, ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Ch/2020/1533.html>.

²⁰ *Masterman-Lister yn erbyn Brutton & Co a Jewell & Home Counties Dairies* [2002] EWCA Civ 1889, CA at 54, ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCA/Civ/2002/1889.html>.

²¹ I gael manylion, gweler Cymdeithas Feddygol Prydain a Chymdeithas y Cyfreithwyr, *Assessment of Mental Capacity: Guidance for Doctors and Lawyers* (Fourth edition) (London: Law Society, 2015)

²² *Banks yn erbyn Goodfellow* (1870) LR 5 QB 549 - <https://www.lexiswebinars.co.uk/legal/hot-topics/vulnerable-clients/supporting-materials/Banks-v-Goodfellow.PD>.

²³ Achos: *Re Beaney (deceased)* [1978] 2 All ER 595.

²⁴ Achos: *Re Boughton yn erbyn Knight* (1873) LR 3 PD 64.

- galluedd i fynd i gyfraith (cymryd rhan mewn achosion cyfreithiol)²⁵,
- galluedd i briodi²⁶.

4.78 Datganodd argraffiad cyntaf y Cod a gyhoeddwyd yn 2007 fod diffiniad y Ddeddf o allu'n unol â'r profion cyfraith gyffredin presennol, ac na wnaeth y Ddeddf eu disodli. Datganodd hefyd pan ddaeth achosion gerbron y llys ar y materion uchod, y gallai barnwyr fabwysiadu'r diffiniad a amlinellir yn y Ddeddf os credent ei bod yn briodol gwneud hynny. Ers hynny cafodd ei egluro bod prawf galluedd'r Ddeddf yn gymwys i'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd gan gynnwys:

- galluedd i fynd i gyfraith (cymryd rhan mewn achosion cyfreithiol)²⁷;
- galluedd i briodi²⁸.

4.79 Fodd bynnag, mewn nifer cyfyngedig o sefyllfaoedd mae barnwyr wedi mynnu bod y prawf cyfraith gyffredin presennol o allu'n wahanol i'r prawf a amlinellir yn y Ddeddf ac y dylai'r prawf cyfraith gyffredin barhau i fod yn gymwys yn hytrach na'r prawf a amlinellir yn y Ddeddf. Mae hyn yn wir mewn perthynas â:

- galluedd i wneud ewylllys²⁹;
- galluedd i roi rhodd³⁰.

4.80 Nid yw'r gyfraith yn y maes hwn yn hollol glir eto gan fod y cwestiwn a ddylai prawf cyfraith gyffredin fod yn gymwys, hyd yn oed pan fydd yn wahanol i'r prawf a amlinellir yn y Ddeddf, heb ei ystyried eto gan lys apêl.

Pa gamau dylid eu cymryd wrth asesu galluedd?

4.81 Mae pennod 3 yn disgrifio camau y dylid eu cymryd i gynorthwyo'r unigolyn i wneud eu penderfyniad eu hun. Ni ddylai hyn ddod i ben pan asesir galluedd yr unigolyn. Yn wir, bydd ceisio cynorthwyo'r unigolyn i wneud eu penderfyniad eu hun hefyd yn helpu'r aseswr wrth gasglu gwybodaeth i allu asesu a oes gan yr unigolyn allu i wneud y penderfyniad.

²⁵ *Masterman-Lister yn erbyn Brutton & Co and Jewell & Home Counties Dairies* [2003] 3 All ER 162 (CA) - *Masterman-Lister yn erbyn Brutton & Co* [2002] EWCA Civ 1889 (19 Rhagfyr 2002), ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCA/Civ/2002/1889.html>

²⁶ *Cyngor Dinas Sheffield yn erbyn E & S* [2005] 1 FLR 965, ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Fam/2004/2808.html>

²⁷ Rheolau Trefniadaeth Sifil 1998 Rhan 21.1, ar gael ar: <https://www.legislation.gov.uk/uksi/1998/3132/part/21>

²⁸ *PBM yn erbyn TGT* [2019] EWCOP 6, ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2019/6.html>

²⁹ *Re Clitheroe* [2021] EWHC 1102 (Ch) *Clitheroe, Re Probate* [2021] EWHC 1102 (Ch) (04 Mai 2021), ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Ch/2021/1102.html>.

³⁰ *Kicks yn erbyn Lee* [2014] EWHC 3926 (Ch), ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Ch/2014/3926.html>

4.82 Dylai asesiadau galluedd ganolbwyntio ar feini prawf, dylent fod yn seiliedig ar dystiolaeth, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac ni ddylent fod yn feirniadol. Bydd angen i unrhyw un sy'n asesu galluedd rhywun benderfynu pa rai o'r camau hyn sy'n berthnasol i'w sefyllfa.

- Dylent sicrhau bod pob cam ymarferol wedi cael eu cymryd ac yn parhau i gael eu cymryd i geisio cynorthwyo'r unigolyn i wneud y penderfyniad drostynt eu hunain.
- Dylent sicrhau eu bod yn deall natur ac effaith y penderfyniad i'w wneud eu hunain.
- Mae'n bosibl y bydd angen mynediad i ddogfennau a gwybodaeth gefndirol berthnasol arnynt (er enghraifft, manylion am arian yr unigolyn os byddant yn asesu galluedd i reoli materion personol, neu'u cefndir diwylliannol). Gweler pennod 25 i gael manylion ynghylch mynediad i wybodaeth.
- Gall fod angen gwybodaeth berthnasol arall arnynt i gynorthwyo'r asesiad (er enghraifft, cofnodion gofal iechyd neu farn staff sy'n rhan o ofal yr unigolyn).
- Gall aelodau o'r teulu a ffrindiau agos ddarparu gwybodaeth gefndirol werthfawr (er enghraifft, ymddygiad a galluedd yr unigolyn yn y gorffennol a'r mathau o benderfyniadau maent yn gallu eu gwneud ar hyn o bryd). Ond mae'n rhaid i'w barn a'u dymuniadau personol ynglŷn a'r hyn y maent yn dymuno i'r unigolyn beidio â dylanwadu ar yr asesiad.
- Dylent sicrhau eu bod yn asesu'r unigolyn pan fydd yn y cyflwr gorau i wneud y penderfyniad, os yw'n bosibl. Bydd llawer o'r camau ymarferol a awgrymir ym mhennod 3 yn helpu i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer asesu galluedd.
- Dylent esbonio eto i'r unigolyn yr holl wybodaeth berthnasol i'r penderfyniad. Mae'n rhaid i'r esboniad fod yn y ffurf cyfathrebu fwyaf priodol ac effeithiol i'r unigolyn hwnnw.
- Gwirio dealltwriaeth yr unigolyn ar ôl ychydig funudau. Dylai'r unigolyn allu rhoi esboniad bras o'r wybodaeth a esboniwyd. Mae dulliau gwahanol i bobl sy'n defnyddio dulliau cyfathrebu dieiriau (er enghraifft, arsylwi ar ymddygiad neu'u galluedd i adnabod gwrthrychau neu luniau).
- Osgoi cwestiynau sydd angen 'do' neu 'naddo' fel ateb yn unig (er enghraifft, 'Wnaethoch chi ddeall beth rwyf newydd ddweud?'). Nid ydynt yn ddigon i asesu galluedd yr unigolyn i wneud penderfyniad. Gall fod dim dewis arall mewn achosion lle ceir anawsterau cyfathrebu mawr, ac yn yr achosion hyn, gwirio'r ymateb trwy ofyn cwestiynau eto mewn ffordd wahanol.
- Mae ailadrodd y camau hyn yn gallu cadarnhau'r canlyniad.
- Nid yw sgiliau ac ymddygiad o reidrwydd yn adlewyrchu galluedd yr unigolyn i wneud penderfyniadau penodol. Nid yw'r ffaith fod gan rywun sgiliau cymdeithasol neu iaith dda, ymddygiad cwrtais neu foesau da'n golygu o reidrwydd eu bod yn deall y wybodaeth neu'n gallu ei phwyso a'i mesur.

- 4.83 Dylai asesiadau ar alluedd ddigwydd gyda'r unigolyn- nid yw'n briodol fel arfer i wneud asesiadau'n seiliedig ar bapurau neu adroddiadau³¹ (gweler paragraff 4.87 am weithredu pan nad yw asesiad yn bosibl). Mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn briodol cyflawni asesiad o bell trwy feddalwedd fideogynadleda os nad yw'n bosibl ymweld â'r unigolyn a bod rheswm i amau eu galluedd yw gwneud hynny'n gam ymarferol i gefnogi galluedd yr unigolyn, efallai oherwydd natur eu cyflwr neu sefyllfa.
- 4.84 Dylai esboniad o pam nad yw hi wedi bod yn bosibl cynnal yr asesiad gyda'r unigolyn gael ei gofnodi.
- 4.85 Bydd hi'n bwysig i'r aseswr fod yn ymwybodol bod pobl yn gallu gwneud penderfyniadau mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, mewn rhai diwylliannau mae penderfyniadau'n cael eu cymryd yn unigol yn gyffredinol, tra mewn eraill gall penderfyniadau gael eu gwneud gan ddefnyddio dull mwy casgliadol gydag eraill yn y teulu neu'r gymuned. Gallai dymuniad unigolyn i drosglwyddo penderfyniadau i eraill gael ei ystyried yn anghywir fel awgrym eu bod yn brin o allu, pan fydd yn arferol iddynt wneud penderfyniadau yn y ffordd hon. Bydd hi'n bwysig felly i'r aseswr ddefnyddio'r wybodaeth maent wedi'i chasglu fel rhan o'r asesiad i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r unigolyn, gan gynnwys sut maent yn gwneud penderfyniadau fel arfer, i'w helpu i ystyried ac asesu a oes ganddynt y galluedd.

Ydy prosesau asesu'n gyfrinachol?

- 4.86 Bydd angen i bobl sy'n ymwneud ag asesu galluedd rannu gwybodaeth am amgylchiadau unigolyn. Ond mae codau a deddfau moesegol sy'n gofyn bod gweithwyr proffesiynol yn cadw gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol. Fel rheol gyffredinol, mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol ofyn i'w cleifion neu gleientiaid a ydynt yn gallu datgelu gwybodaeth i rywun arall - hyd yn oed perthnasau agos. Ond weithiau mae gwybodaeth yn gallu cael ei datgelu heb gydsyniad yr unigolyn mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef (er enghraifft, i ddiogelu'r unigolyn neu atal niwed i bobl eraill)³².
- 4.87 Mae angen gwybodaeth gywir ar unrhyw un sy'n asesu galluedd rhywun ynglŷn â'r unigolyn sy'n cael ei asesu sy'n berthnasol i'r penderfyniad mae'n rhaid i'r unigolyn wneud. Felly dylai gweithwyr proffesiynol, lle y bo'n bosibl, sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael. Dylent wneud pob ymdrech i gael caniatâd yr unigolyn i ddatgelu gwybodaeth berthnasol. Dylent roi esboniad llawn o pam bod hyn yn angenrheidiol, a dylent ddweud wrth yr unigolyn am risgiau a chanlyniadau

³¹ Grŵp Comisiynu Clinigol Wandsworth yn erbyn IA (Gan y Cyfreithwr Swyddogol a'i Gyfaill Cyfreitha) [2014] EWCOP 990 (03 Ebrill 2014) (bailii.org), ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/COP/2014/990.html>

³² Er enghraifft, yn yr amgylchiadau a drafodir yn W yn erbyn Egdell ac eraill [1990] 1 All ER 835 at 848 - <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCA/Civ/1989/13.html> S yn erbyn Cyngor Dinas Plymouth a C, [2002] EWCA Civ 388) at 49 - <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCA/Civ/2002/388.html>

datgelu, a pheidio â datgelu gwybodaeth. Os nad yw'r unigolyn yn gallu rhoi caniatâd, gallai'r gweithiwr proffesiynol barhau i ddarparu gwybodaeth fydd yn helpu i wneud asesiad cywir o allu'r unigolyn i wneud y penderfyniad penodol. Mae gan bennod 25 mwy o fanylion ar sut i gyrchu gwybodaeth.

Beth os nad yw asesu galluedd yn bosibl?

- 4.88 Os nad yw'n bosibl cyflawni asesiad ar alluedd, mae'n bwysig ystyried y rhesymau pam nad yw asesiad yn bosibl a pha gamau dylid eu dilyn. Pan nad yw asesiad yn bosibl a bod rhesymau i amau galluedd yr unigolyn, dylai'r rhesymau ac unrhyw dystiolaeth ohonynt gael eu cofnodi. Mewn rhai achosion, gall fod yn briodol gwneud cais i'r Llys Gwarchod ystyried galluedd yr unigolyn i wneud y penderfyniad o dan sylw.
- 4.89 Gall fod amgylchiadau lle bydd amheuaeth am allu unigolyn yn gwrthod asesiad ar allu neu'n gwrthod cael ei archwilio gan feddyg neu weithiwr proffesiynol arall. Yn yr amgylchiadau hyn, gallai helpu i esbonio i rywun sy'n gwrthod asesiad pam bod ei angen a beth yw canlyniadau gwrthod. Dylid hefyd ystyried pa gamau eraill a allai helpu'r unigolyn i ymgysylltu, fel rhan o'r gofyniad o'u cefnogi i wneud penderfyniadau³³. Nid yw bygythiadau neu ymdrechion i orfodi'r unigolyn i gytuno i asesiad yn dderbyniol.
- 4.90 Os bydd yr unigolyn yn brin o allu i gytuno neu wrthod, mae'r asesiad yn gallu mynd rhagddo fel arfer, ar yr amod nad yw'r unigolyn yn gwrthwynebu'r asesiad, a'i fod er eu budd gorau (gweler pennod 5).
- 4.91 Nid oes modd gorfodi neb i ymgymryd ag asesiad ar alluedd. Os bydd rhywun yn gwrthod agor y drws i'w cartref, ni ellir ei orfodi. Os bydd pryderon difrifol am iechyd meddwl yr unigolyn, gall fod yn bosibl cael gwarant i orfodi mynediad ac i asesu'r unigolyn ar gyfer triniaeth mewn ysbyty - ond mae'n rhaid i'r sefyllfa fodloni gofynion Deddf Iechyd Meddwl 1983 (adran 135). Ond nid yw gwrthod asesiad ar alluedd yn unig yn ddigon o sail mewn unrhyw fodd ar gyfer asesiad o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (gweler pennod 22).
- 4.92 Os yw'r rheswm dros yr unigolyn yn gwrthod yn ymddangos ei fod yn cael ei orfodi gan rywun arall (er enghraifft aelod o'r teulu), yna gall fod yn bosibl i gael gorchymyn o'r Uchel Lys o dan ei awdurdodaeth gynhenid yn gorchymyn yr unigolyn arall i ganiatáu i weithiwr proffesiynol siarad â'r unigolyn yn breifat. Yng Nghymru, gall fod yn bosibl i swyddog wedi'i awdurdodi gan awdurdod lleol wneud cais i ynad heddwch am orchymyn cynorthwyo a diogelu oedolyn o dan adran 127 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

³³ AMDC yn erbyn AG & Anor [2020] EWCOP 58 [AMDC yn erbyn AG & Anor \[2020\] EWCOP 58 \(18 Tachwedd 2020\)](https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2020/58.html), ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2020/58.html>.

Pwy ddylai gadw cofnod o asesiadau?

4.93 Nid yw asesiadau ar alluedd i gymryd penderfyniadau dydd i ddydd neu gydsyniad i ofal yn gofyn am weithdrefnau ffurfiol na dogfennaeth gofnodedig. Mae paragraffau [4.67–4.69] uchod yn esbonio'r camau i'w cymryd i gyrraedd 'cred resymol' bod rhywun yn brin o allu i wneud penderfyniad penodol. Mae'n arfer da i weithwyr gofal cyflogedig gadw cofnod o'r camau maent yn eu cymryd wrth ofalu am yr unigolyn o dan sylw, gan gynnwys camau i sefydlu galluedd.

Cofnodion proffesiynol

- 4.94 Mae'n arfer da i weithwyr proffesiynol gyflawni asesiad cywir ar alluedd unigolyn i wneud penderfyniadau penodol ac i gofnodi proses yr asesiad ar alluedd yn y cofnodion proffesiynol perthnasol i ddangos sut y cyrhaeddwyd y casgliad am yr unigolyn sydd â galluedd neu beidio (gweler paragraff 4.80).
- 4.95 Dylai cyfreithwyr asesu galluedd cleient i roi cyfarwyddiadau neu gyflawni trafodiad cyfreithiol (cael barn feddygol neu broffesiynol arall, os oes angen) a'i gofnodi ar ffeil y cleient.
- 4.96 Bydd asesiad o allu unigolyn i gydsynio neu gytuno i ddarpariaeth gwasanaethau yn rhan o'r prosesau cynllunio gofal ar gyfer anghenion iechyd a gofal cymdeithasol, a dylai gael ei gofnodi yn y ddogfennaeth berthnasol.

Cofnodion ffurfiol o allu

4.97 Mewn rhai achosion, gallai fod angen adroddiad manylach o allu. Gall Rheoliadau, Rheolau neu Orchmynion a wneir o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol ofyn i ganfyddiadau gael eu cofnodi mewn ffordd benodol. Er enghraifft, bydd y Llys Gwarchod yn gofyn am gwblhau ffurflen COP3 (Asesiad ar Alluedd).

Sut mae rhywun yn gallu herio canfyddiad o brinder galluedd?

- 4.98 Mae'n debygol y ceir achlysuron pan fydd rhywun yn dymuno herio canlyniadau asesiad ar alluedd. Y cam cyntaf yw codi'r mater gyda'r unigolyn a gynhaliodd yr asesiad. Os yw'r her yn dod gan unigolyn y dywedir ei fod yn brin o allu, gallai fod angen cymorth arno gan deulu, ffrindiau neu eiriolwr. Gofyn i'r aseswr i:
- roi rhesymau pam eu bod yn credu bod yr unigolyn yn brin o allu i wneud y penderfyniad, a
 - darparu tystiolaeth wrthrychol i gefnogi'r gred honno.
- 4.99 Mae'n rhaid i'r aseswr ddangos ei fod wedi cymhwyso egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol (gweler pennod 2). Bydd angen i atwrneiod, dirprwyon a

gweithwyr proffesiynol ddangos eu bod hefyd wedi dilyn cyfarwyddyd yn y bennod hon.

4.100 Gallai fod yn bosibl cael ail farn gan weithiwr proffesiynol annibynnol neu arbenigwr arall wrth asesu galluedd. Mae gan bennod 24 awgrymiadau eraill ar gyfer delio ag anghytundebau. Ond os nad yw anghytundeb yn gallu cael ei ddatrys, gall yr unigolyn sy'n herio'r asesiad wneud cais i'r Llys Gwarchod. Mae'r Llys Gwarchod yn gallu dyfarnu a oes gan unigolyn allu i wneud y penderfyniad sy'n cael ei gynnwys yn yr asesiad (gweler pennod 7).

Asesiadau Ôl-weithredol

4.101 Mewn rhai amgylchiadau hyn gall fod amheuaeth a oes gan unigolyn allu i wneud penderfyniad ar adeg neilltuol yn y gorffennol. Efallai nad yw'n angenrheidiol bob tro i geisio penderfynu a oedd ganddo allu os yw'n bosibl i'w gynorthwyo i wneud y penderfyniad nawr. Er enghraifft, os oes amheuan am allu'r unigolyn i wneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth, gall fod yn bosibl iddo wneud un newydd os y sefydlir fod ganddynt y galluedd i'w wneud nawr.

4.102 Mewn llawer o sefyllfaoedd, mae'n arfer da cadw cofnod o gasgliad asesiad ar alluedd (gweler paragraffau 4.92 a 4.96). Mae hyn yn golygu y bydd hi'n haws o lawer i fynd i'r afael ag amheuaeth am allu'r unigolyn wedi hynny.

4.103 Fodd bynnag, mewn rhai achosion bydd yn angenrheidiol dod i gasgliad am a oedd gan unigolyn allu i wneud penderfyniad yn y gorffennol heb unrhyw gofnod o asesiad. Mae'n debygol y ceir sefyllfaoedd tebyg bydd llys yn rhan o'r broses ac yn debygol o gynnwys cwestiynau am a ddylai dogfen neilltuol gael ei hystyried fel bod ganddi effaith gyfreithiol. Er enghraifft:

- lle mae galluedd unigolyn i fod wedi gwneud eu hewyllys yn cael ei gwestiynu ar ôl eu marwolaeth. Byddai'n rhaid i'r Uchel Lys ddatrys yr anghydfod;
- lle mae galluedd unigolyn i fod wedi rhoi atwrneiaeth arhosol yn cael ei gwestiynu, a'i bod yn glir nad oes ganddo allu bellach i ddyfarnu atwrneiaeth newydd. Byddai gofyn i'r Llys Gwarchod ystyried a oedd gan yr unigolyn allu ar yr adeg y rhoddodd atwrneiaeth;
- lle mae galluedd unigolyn i fod wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth yn cael ei gwestiynu, ac mae'n amlwg nad oes ganddo allu bellach i wneud penderfyniad newydd ymlaen llaw nac i wneud penderfyniadau am driniaeth feddygol. Ni fyddai gofyn i'r Llys Gwarchod ystyried a oedd gan yr unigolyn allu i wneud y penderfyniad ymlaen llaw pan gafodd ei wneud.

- 4.104 Lle mae galluedd unigolyn i wneud penderfyniad yn cael ei asesu'n ôl-weithredol, mae'r dull i'w fabwysiadu yn wahanol i asesu galluedd 'mewn amser go iawn'. Er enghraifft, mae'n amlwg nad yw'n bosibl nawr i geisio cymorth yr unigolyn i wneud y penderfyniad. Bydd hi'n angenrheidiol casglu cymaint o dystiolaeth â phosibl o ddogfennau ac amgylchiadau amgylchynol i sefydlu a oedd gan yr unigolyn allu ar y pryd neu beidio.
- 4.105 Yn bwysig, mae rhagdybiaeth galluedd yn gweithio'n wahanol lle mae galluedd unigolyn yn cael ei benderfynu'n ôl-weithredol. Lle mae rhesymau cywir yn cael eu cyflwyno i awgrymu nad oedd gan yr unigolyn allu, bydd angen i unrhyw un sy'n dibynnu ar y ffaith fod gan yr unigolyn allu, allu dangos, ar gydbwysedd tebygolrwydd, mai hyn oedd yn wir. Mae pwy bynnag allai fod angen dangos hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Gallai fod yn atwrnai lle mae atwrneiaeth yn cael ei chwestiynu. Gallai fod yr unigolyn ei hun hefyd (neu rywun yn gweithredu ar eu rhan) lle mae penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth yn cael ei gwestiynu.

5. Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu pan fydd yn sôn am y 'budd pennaf'?

Fel a nodwyd mewn penodau cynharach, pan fydd y galluedd gan unigolyn i wneud penderfyniad, dylai'r unigolyn wneud y penderfyniad hwnnw drosto ei hun, gyda chymorth os bydd angen.

Pan fydd diffyg galluedd gan rywun i wneud y penderfyniad, fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid i unrhyw weithred neu unrhyw benderfyniad a wneir ar ran yr unigolyn, gael eu gwneud er budd yr unigolyn hwnnw. Mae'r bennod hon yn esbonio'r hyn mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth 'er y budd pennaf', y pethau y dylid eu hystyried wrth geisio canfod yr hyn sydd er y budd pennaf i unigolyn a sut y dylid cofnodi penderfyniadau er y budd pennaf. Mae hefyd yn amlygu rhai o'r anawsterau a allai ddigwydd wrth geisio canfod yr hyn mewn gwirionedd yw er y budd pennaf i unigolyn sydd â diffyg galluedd i wneud y penderfyniad.

Yn y bennod hon, fel trwy'r Cod cyfan, mae galluedd (neu ddiffyg galluedd) unigolyn yn cyfeirio'n benodol at eu galluedd i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg mae angen gwneud y penderfyniad.

Crynodeb cyflym

Dylai gwneuthurwr penderfyniad sy'n ceisio canfod beth sydd er y budd pennaf i unigolyn sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniad penodol ('diffyg galluedd'):

- Nodi'r dewisiadau sydd ar gael
- Ystyried y ffactorau yn y rhestr wirio a nodir yn y Ddeddf gan gynnwys:
 - Osgoi gwahaniaethu wrth beidio â rhagdybio'r hyn sydd er y budd pennaf i rywun ar sail ei oed, ei ymddangosiad, ei gyflwr neu ei ymddygiad yn unig.
 - Adnabod yr holl amgylchiadau perthnasol y byddai'r unigolyn sydd â diffyg galluedd yn eu hystyried pe byddai'n gwneud y penderfyniad neu'n gweithredu drosto'i hun.
 - Asesu a allai'r unigolyn adennill galluedd ac os ydyw, penderfynu a ellir gohirio'r penderfyniad tan hynny Asesu a allai'r unigolyn adennill galluedd ac os ydyw, penderfynu a ellir gohirio'r penderfyniad tan hynny.

- Annog a galluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau gymaint â phosibl.
- Os yw'r penderfyniad yn ymwneud â thriniaeth cynnal bywyd, peidio â chael ei ysgogi mewn unrhyw fodd gan awydd i beri marwolaeth yr unigolyn.
- Ceisio darganfod barn yr unigolyn gan gynnwys eu dymuniadau a'u teimladau nawr ac yn y gorffennol a theimladau, credoau, gwerthoedd a chefnidir diwylliannol ac unrhyw ffactorau eraill y byddent yn debygol o'u hystyried pe byddent ynn gwneud y penderfyniad drostynt eu hunain.
- Ymgynghori ag eraill sy'n agos at yr unigolyn, unrhyw un sy'n ymwneud a'u gofal neu driniaeth neu'n atwrnai neu'n ddirprwy ynghylch budd pennaf yr unigolyn a gweld a oes ganddynt unrhyw wybodaeth berthnasol am ddymuniadau a theimladau, credoau, gwerthoedd a chefnidir diwylliannol yr unigolyn.
- Osgoi cyfyngu ar hawliau'r unigolyn wrth weld a oes dewisiadau eraill a fyddai'n cyfyngu i lai o raddau ar hawliau'r person ac esbonio'r rhesymeg os na ddilynir y dewis lleiaf cyfyngol.
- Pwyso a mesur yr holl ffactorau hyn er mwyn canfod beth sydd er y budd pennaf i'r unigolyn.
- Ystyried a oes angen cofnodi'r penderfyniad.

Beth yw egwyddor y budd pennaf ac i bwy y mae'n gymwys?

- 5.1 Fel yr eglurwyd ym mhennod 2, egwyddor gyntaf y Ddeddf yw bod yn rhaid tybio bod pobl yn meddu ar alluedd i wneud penderfyniad neu weithredu drostynt eu hunain oni phofir nad ydynt yn meddu arno. Mae pobl sy'n meddu ar allu'n medru penderfynu drostynt eu hun beth y maent am ei wneud. Wrth wneud hynny, gallent wneud dewis nad yw pobl eraill yn credu ei fod er y budd pennaf iddynt. Eu dewis hwy yw hyn ac nid yw'n golygu, ohono'i hun, eu bod heb allu i wneud y penderfyniadau hynny. Fodd bynnag, mae'n bosibl y ceir arwyddion o ddiffyg galluedd os bydd y penderfyniad yn annodweddiadol neu'n peri i'r unigolyn fod yn agored i niwed neu berygl. Mae penderfynu'r budd pennaf i unigolyn felly'n berthnasol yn unig ar ôl cymryd pob cam ymarferol yn aflwyddiannus i gefnogi'r unigolyn i wneud y penderfyniad o dan sylw neu gydsynio bod gweithred yn cael ei chynnal.
- 5.2 Mae egwyddor y budd pennaf wedi'i nodi yn adran 1(5) y Ddeddf:

'Mae gweithred a gyflawnir, neu benderfyniad a wneir, o dan y Ddeddf hon dros neu ar ran unigolyn sydd heb allu yn un y mae'n rhaid ei gyflawni, neu ei wneud, er y budd pennaf iddo.'

- 5.3 Mae Adran 1(5) y Ddeddf yn cadarnhau bod yr egwyddor yn gymwys i unrhyw weithred a wneir, neu unrhyw benderfyniad a wneir, ar ran rhywun lle gellir credu'n rhesymol nad oes galluedd gan yr unigolyn o dan y Ddeddf. Mae'n cynnwys penderfyniad a gweithrediadau pob dydd anffurfiol yn ogystal â phenderfyniadau a wneir gan y llys.
- 5.4 Mae'r egwyddor hon yn cynnwys pob agwedd ar benderfynu a gweithredu ynghylch materion ariannol, lles personol a gofal iechyd, p'un ai a yw'r penderfyniad yn fater dibwys - megis beth i'w wisgo - neu'n fater pwysig, megis darparu gofal iechyd penodol.
- 5.5 Mae'n gymwys ar gyfer unrhyw un sy'n gwneud penderfyniadau ar ran unigolyn sydd â diffyg galluedd neu'n gweithredu o dan ddarpariaethau'r Ddeddf, gan gynnwys:
- gofalwyr teuluol, gofalwyr eraill a gweithwyr gofal
 - rhieni (gweler pennod 21)
 - staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol
 - atwrneiod a benodwyd o dan Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus
 - dirprwyon sydd wedi'u penodi gan y llys i wneud penderfyniadau ar ran rhywun sydd â diffyg galluedd, a'r
 - Llys Gwarchod.
- 5.6 Cyhyd ag y bo'r gweithrediadau neu'r penderfyniadau hyn er y budd pennaf i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, neu i gydsynio i weithrediadau sy'n ymwneud â'r gofal neu driniaeth, yna amddiffynnir y gwneuthurwr penderfyniadau neu ofalwr rhag atebolrwydd (gweler pennod 6).

Eithriadau i'r egwyddor er y budd pennaf

- 5.7 Mae tri amgylchiad allweddol lle mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn gymwys ond lle na fydd yr egwyddor er y budd pennaf yn gymwys.
- Y cyntaf yw lle bydd oedolyn wedi gwneud penderfyniad dilys a chymwys ymlaen llaw i wrthod triniaeth feddygol tra roedd y galluedd ganddynt i wneud hynny. Dylid parchu'u penderfyniad ymlaen llaw pan na fydd y galluedd ganddynt, hyd yn oed os bydd eraill yn meddwl nad yw'r penderfyniad i wrthod triniaeth er eu budd pennaf (ceir canllawiau ynghylch penderfyniadau ymlaen llaw ym mhennod 11).
 - Mae'r ail yn ymwneud â threfniadau o dan y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid. Mae'n rhaid i bob penderfyniad ynghylch gofal neu driniaeth unigolyn sydd â diffyg galluedd gael eu gwneud gan ddefnyddio'r egwyddor er y budd pennaf. Fodd bynnag, gall y trefniadau ynghylch y gofal neu driniaeth olygu amddifadu o ryddid.

Lle bo hyn yn digwydd, mae'n rhaid awdurdodi'r trefniadau hyn o dan y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid i sicrhau eu bod yn angenrheidiol ac yn gymesur (gweler pennod 13).

- Mae'r trydydd yn ymwneud ag unigolyn sydd â diffyg galluedd i gydsynio, mewn rhai amgylchiadau, yn cymryd rhan mewn ymchwil (gweler pennod 26)
- 5.8 Nid yw egwyddor er y budd pennaf hefyd yn gymwys ar gyfer penderfyniadau a wneir ynghylch asesu a bodloni anghenion o dan ddeddfwriaeth berthnasol arall y tu allan i'r Ddeddf, er enghraifft Deddf Gofal 2014 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu (mewn perthynas â phlant a phobl ifanc), Deddf Plant a Theuluoedd 2014/Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae hyn oherwydd bod pob un o'r fframweithiau deddfwriaethol hynny'n cyflwyno eu ffyrdd penodol eu hun, i sicrhau yr ystyrir buddiannau'r unigolyn, gan gynnwys lle nad ydynt yn gallu cymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau.
- 5.9 Heblaw am yr amgylchiadau hyn, yr egwyddor sy'n sail i'r Ddeddf yw y dylai pob gweithred a phenderfyniad gael eu gwneud er y budd pennaf i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd.

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth er y budd pennaf?

- 5.10 Nid oes diffiniad yn y Ddeddf o'r term 'er y budd pennaf', ond gellir ei ystyried fel cynrychioli'r penderfyniad neu weithred sy'n iawn ar gyfer yr un penodol hwnnw fel unigolyn ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad hwnnw neu weithredu. Nid yw'n golygu gwneud yr hyn y byddai'r gwneuthurwr penderfyniadau'n ei wneud. Mae 'er y budd pennaf' yn cwmpasu nid yn unig budd meddygol unigolyn, ond hefyd eu budd cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol³⁴.
- 5.11 Nid yw'r ddeddf yn rhagnodi'r hyn sydd er y budd pennaf i unigolyn ond mae'n nodi proses i'w dilyn sy'n galw am gwestiynau penodol i'w gofyn, camau i'w dilyn, a materion i'w hystyried. Cynllunnir y broses honno i gydnabod, yn arbennig, fod casgliad nad yw'r unigolyn yn gallu gwneud eu penderfyniad eu hun yn 'anwybyddu' eu hawliau a rhyddid³⁵.
- 5.12 Nid yw gweithredu neu benderfynu er y budd pennaf i'r unigolyn yr un peth â gwneud y peth gorau y gellid ei wneud mewn theori. Os na fydd opsiwn penodol ar gael mewn gwirionedd yna ni ellir dod i benderfyniad y byddai hyn er y budd pennaf i'r unigolyn. Trafodir hyn ymhellach ym mharagraff 5.74 isod.

³⁴ Gweler Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Ysbytai Prifysgol Aintree yn erbyn James [2013] UKSC 67 - <https://www.bailii.org/uk/cases/UKSC/2013/67.html>

³⁵ Gweler Ymddiriedolaeth y GIG Dyffryn Gwy yn erbyn B [2015] EWCOP 60, ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2015/60.html>

- 5.13 Wrth fynd ati i ganfod yr hyn sydd er y budd pennaf i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniad neu weithredu drostynt eu hunain, mae'n rhaid i wneuthurwyr penderfyniad ystyried yr holl ffactorau perthnasol y byddai'n rhesymol rhoi sylw iddynt (gweler paragraff 5.27), nid y rhai y maen nhw'n eu hystyried yn bwysig yn unig. Mae'n rhaid iddynt beidio â gweithredu neu wneud penderfyniad ar sail yr hyn y byddent am ei wneud os mai nhw oedd yr unigolyn nad oedd ganddynt y galluedd, ond mae'n rhaid iddynt ystyried dymuniadau, teimladau, gwerthoedd a chredoau'r unigolyn yn lle hynny.
- 5.14 Gall canfod yr hyn sydd er y budd pennaf i rywun arall fod yn anodd, ac mae'r Ddeddf yn gofyn i bobl ddilyn camau penodol i'w helpu i ddatrys a yw gweithred neu benderfyniad penodol er y budd pennaf i unigolyn. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y ceir anghytuno ynghylch yr hyn yw er y budd pennaf i unigolyn mewn gwirionedd. Cyhyd ag y bo'r unigolyn sy'n gweithredu neu'n gwneud y penderfyniad wedi dilyn y camau i sefydlu a oes galluedd gan unigolyn, ac, os nad oes y galluedd gan yr unigolyn, wedi gwneud popeth y gallant ei wneud yn rhesymol i ganfod yr hyn yw er y budd pennaf i unigolyn, dylai'r gyfraith eu hamddiffyn.

Senario: Er y budd pennaf i bwy?

Mae gan Mr P anabledd dysgu difrifol ac mae'n byw mewn cartref gofal. Mae ganddo broblemau â'i ddannedd sy'n achosi llawer o boen iddo ond mae'n gwrthod agor ei geg fel y gellir glanhau ei ddannedd.

Mae'r staff yn awgrymu y byddai'n syniad da rhoi anesthetig cyffredinol i Mr P o bryd i'w gilydd fel y gall deintydd lanhau ei ddannedd a llenwi unrhyw dyllau. Nid oes gan Mr P y galluedd i gydsynio i gael ei drin. Mae ei fam yn poeni am effeithiau anesthetig, ond mae'n gas ganddi ei weld mewn gofid ac mae'n awgrymu yn lle hynny y dylid rhoi lladdwyr poen cryf iddo pan fo eu hangen.

Er ei bod yn bwysig ystyried barn mam Mr P a'i ofalwyr wrth ganfod pa ddull o weithredu a fyddai er y budd pennaf iddo, ni cheir seilio'r penderfyniad ar ystyriaeth i'r hyn a fyddai'n peri llai o ofid iddynt. Yn hytrach, mae'n rhaid canolbwyntio ar yr hyn sydd er y budd pennaf i Mr P.

Ar ôl siarad ag eraill, mae'r deintydd yn cynnwys Mr P yn y broses penderfynu, gyda chymorth ei weithiwr allweddol ac eiriolwr, er mwyn ceisio cael gwybod beth yw achos a lleoliad y broblem ac egluro iddo eu bod yn ceisio atal y boen. Mae'r deintydd yn ceisio darganfod a fyddai unrhyw fathau eraill o ofal deintyddol yn well, fel cegolch neu gwm deintyddol.

Mae'r deintydd yn dod i'r casgliad y byddai er y budd pennaf i Mr P i:

- gael archwiliad priodol o dan anesthetig fel y gellir darparu triniaeth ar unwaith
- i'r tîm gofal adolygu opsiynau ar gyfer ei ofal deintyddol yn y dyfodol, gan gynnwys Mr P i'r graddau mwyaf posibl

Pwy yw'r gwneuthurwr penderfyniad?

5.15 Yn y Cod, defnyddir y term "gwneuthurwr penderfyniadau" yn aml ac mae'n cael ei ddefnyddio bob dydd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'n bwysig deall nad yw'r Ddeddf yn nodi unrhyw wneuthurwr penderfyniadau ffurfiol. Yr eithriadau yw:

- Os yw Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus wedi'i gwneud a'i chofrestru, neu os penodwyd dirprwy o dan orchymyn llys, yna'r atwrnai neu'r dirprwy fydd y gwneuthurwr penderfyniadau yn achos penderfyniadau sydd o fewn cwrpas eu hawdurdod;
- Lle bydd y Llys Gwarchod yn gwneud y penderfyniad ar ran yr unigolyn (gweler Pennod 7)

5.16 Ymhob achos arall, nid yw'r Ddeddf yn nodi bod y gwneuthurwr penderfyniad yn unrhyw unigolyn penodol neu fath o unigolyn. Lle bynnag y bo'n briodol, dylid

penderfynu ynghylch yr hyn sydd er y budd pennaf i unigolyn nad yw'n gallu gwneud y penderfyniad perthnasol yn anffurfiol ac ar y cyd rhwng y rhai sy'n ymwneud â'u gofal neu'n ymddiddori yn eu lles, p'un ai'n derbyn tâl/proffesiynol neu heb dâl. Mae hyn yn golygu:

- Nad yw'r ffaith yr ystyrir rhywun fel y perthynas agosaf yn golygu bod ganddynt unrhyw hawl gyfreithiol i wneud unrhyw benderfyniad ar eu rhan; ond hefyd
- Nad oes gan weithiwr proffesiynol hawl i wneud y penderfyniad ar ran yr unigolyn oherwydd bod ganddynt swydd benodol.

5.17 Fodd bynnag, mae'n parhau i wneud synnwyr i feddwl am "gwneuthurwr penderfyniadau" oherwydd y modd mae'r Ddeddf yn gweithio.

5.18 Bydd unrhyw un sy'n dymuno gweithredu mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth rhywun arall yn cael ei amddiffyn yn unig rhag atebolrwydd troseddol a sifil os byddant yn credu'n rhesymol nad oes galluedd gan yr unigolyn i wneud y penderfyniad perthnasol a bod y weithred er y budd pennaf i'r unigolyn (gweler pennod 6).

5.19 Mewn rhai achosion, gellid meddwl am yr unigolyn sy'n mynd i weithredu fel y "gwneuthurwr penderfyniadau" oherwydd bydd yn rhaid iddynt benderfynu a oes ganddynt y gred resymol angenrheidiol eu bod yn gallu elwa ar yr amddiffyniad rhag atebolrwydd. Er enghraifft:

- Y meddyg teulu sy'n cymryd sampl gwaed oddi wrth glaf maent yn credu'n rhesymol nad oes ganddo'r galluedd i gydsynio fyddai'r gwneuthurwr penderfyniadau p'un ai cymryd y gwaed hwnnw sydd er y budd pennaf eu claf.
- Bydd yn rhaid i'r gofalwr sy'n derbyn tâl benderfynu p'un ai cymryd camau i ymyrryd i atal unigolyn â dementia rhag niweidio eu hunain benderfynu yn y fan a'r lle a ydynt yn credu'n rhesymol nad oes galluedd gan yr unigolyn a bod y cam er y budd pennaf iddynt (ac, os yw'n golygu ataliaeth, a yw'r amodau ychwanegol a drafodir ym mhennod 6 yn cael eu bodloni).

5.20 Mewn achosion eraill, bydd yr unigolyn sy'n cyflawni'r weithred yn gweithredu ar gyfarwyddyd neu o dan oruchwyliaeth unigolyn arall, neu'n ddarostyngedig i gynllun a luniwyd gan rywun arall. Ymhob achos, bydd yn rhaid i'r unigolyn ei hun deimlo'n fodlon eu bod yn gweithredu er y budd pennaf i'r unigolyn cyn cyflawni'r weithred, ond mae'n debygol eu bod yn dibynnu ar y farn a nodir yn y cynllun. Felly, gellid meddwl am yr unigolyn sy'n gyfrifol am y cynllun fel y "gwneuthurwr penderfyniadau". Yng nghyd-destun ysbyty, er enghraifft, dylid ystyried yr ymgynghorydd sy'n gyfrifol am ofal y claf fel y gwneuthurwr penderfyniadau fel arfer.

5.21 Mewn unrhyw sefyllfa o'r fath, yn arbennig os oes staff gwahanol yn ymwneud â gofal unigolyn o sefydliadau gwahanol, mae'n bwysig y nodir un aelod o staff sydd â'r

cyfrifoldeb am gydlynu'r broses i benderfynu'r hyn sydd er y budd pennaf i'r unigolyn. Gallai'r unigolyn hwn fod yr un a ystyrir fel y "gwneuthurwr penderfyniadau" yn y modd a ddisgrifir uchod, ond mewn rhai achosion, gallai fod yn fwy priodol i'r unigolyn hwnnw ddirprwyo'r dasg hon i rywun sydd â'r set gywir o sgiliau i hwyluso'r broses o ystyried yr holl faterion a nodir o dan y Ddeddf.

5.22 Ymhob achos sy'n ymwneud â sefydliad mae'n rhaid, fodd bynnag, y ceir un unigolyn yn y pen draw sy'n barod i gymryd cyfrifoldeb ar ran y sefydliad hwnnw ar gyfer y casgliad bod y cam a gymerir er y budd pennaf i'r unigolyn o dan sylw. Nid yw hynny'n golygu bod ganddynt yr **hawl** i wneud y penderfyniad hwnnw, ond yn syml eu bod yn atebol amdano.

5.23 Mae'n bwysig bod pawb sydd â rhan yn y broses gwneud penderfyniad er y budd pennaf yn gwybod ac yn cytuno pwy yw'r gwneuthurwr penderfyniadau, a, waeth bynnag pwy sy'n gwneud y penderfyniad, y peth mwyaf pwysig yw bod y gwneuthurwr penderfyniadau'n ceisio canfod beth fyddai er y budd pennaf i'r unigolyn nad oes ganddo'r galluedd. Dylai'r gwneuthurwr penderfyniadau geisio adnabod unrhyw rhagfarn anymwybodol sydd ganddynt i sicrhau na fyddant yn dylanwadu ar y penderfyniad er y budd pennaf.

Senario: Dod i benderfyniad ar y cyd

Mae gan Ms D awtistiaeth ac anabledau dysgu difrifol ac mae'n derbyn maeth trwy diwb bwydo. Mae wedi colli pwysau'n gyflym ac mae angen iddi gael archwiliad meddygol ymchwiliol o dan anasthetig.

Nid yw Ms D yn hoffi cael ei chyffwrdd ac yn flaenrol roedd wedi dioddef gofid mawr pan gafodd ei hatal gan swyddogion yr heddlu i'w throsglwyddo mewn ambiwlans mewn argyfwng. Mae asesiad galluedd meddyliol gan ei meddyg teulu'n cadarnhau nad oes ganddi alluedd mewn cysylltiad â phenderfyniadau triniaeth feddygol.

Mae'r ysbyty'n cynnal cyfarfod er y budd pennaf, a fynychir gan aelodau'r tîm meddygol gan gynnwys yr anesthetydd a thîm amddiffyn yr ysbyty, tad a chwaer Ms D, a'i meddyg teulu. Nid oes angen IMCA oherwydd bod teulu Ms D yn siarad am ei dymuniadau a'i chredoau.

Mae penderfyniadau a wneir yn y cyfarfod yn galluogi'r tîm meddygol i greu cynllun gofal a chefnogaeth manwl sy'n seiliedig ar y budd pennaf i Ms D: Bydd ei theulu'n ei hannog i gael ei diogelu'n wirfoddol ar gludwely i'w throsglwyddo i'r ysbyty. Bydd yr anesthetydd yn rhoi presgripsiwn am ddos bach o gyn-feddyginiaeth y noson cynt i leddfu eu hofnau. Bydd ei mam yn mynd gyda hi yn yr ambiwlans. Ms D fydd y cyntaf ar restr bore'r ysbyty gan fod hyn yn llai trafferthus iddi.

Ar ddiwrnod y driniaeth, mae Ms D yn dawel ac mae ei theulu'n ei chefnogi i fynd i mewn i'r ambiwlans gyda'r gofid lleiaf posibl. Mae'n mynd yn syth i'r ystafelloedd CT gyda'r anesthetydd, lle mae'n derbyn anesthetig ar gyfer y sgan, gyda gweithdrefnau CT ac endosgcopig a gynhelir un ar ôl y llall er mwyn osgoi mynd i'r ysbyty'n ddiangen a defnydd pellach diangen o ataliaeth gemegol. Mae'r profiad cadarnhaol yn rhoi sicrwydd i Ms D ynghylch mynd i'r ysbyty yn y dyfodol.

Beth sy'n rhaid ei ystyried wrth geisio datrys budd pennaf rhywun?

Opsiynau sydd ar gael

5.24 Bydd y rhan fwyaf o benderfyniadau budd pennaf cynnwys dewis, naill ai rhwng unigolyn yn gwneud rhywbeth a pheidio â gwneud rhywbeth (er enghraifft gwneud triniaeth feddygol), neu'n gwneud dewis ar ran yr unigolyn rhwng dau neu fwy o opsiynau (er enghraifft lle gallent fyw). Lle gwneir y dewis ar ran yr unigolyn, gall y dewis hwnnw fod rhwng dau opsiwn yn unig sydd wir ar gael iddynt.³⁶

³⁶ N yn erbyn ACCG [2017] UKSC 22, ar gael ar: <https://www.bailii.org/uk/cases/UKSC/2017/22.html>

5.25 Mae angen i'r broses gwneud penderfyniad budd pennaf felly gychwyn gyda nodi pa opsiynau sydd ar gael. Mewn rhai achosion, gall hyn ymddangos yn glir iawn. Mewn achosion eraill, efallai y bydd yn angenrheidiol ei adnabod ar sail dros dro os nad yw'r holl wybodaeth ar gael eto. Ymhob achos, efallai y bydd opsiwn pellach yn dod yn glir yn ystod y broses o ystyried budd pennaf unigolyn. Er enghraifft, efallai y daw yn eglur ei bod mor bwysig iddynt aros gartref fel eu bod yn barod i oddef gradd uwch o risg iddynt na fyddai gweithwyr proffesiynol wedi'u hystyried yn dderbyniol yn flaenorol. Os felly, efallai byddai'r opsiwn iddynt aros yn eu cartref yn dod yn fwy posibl mewn modd nad oedd wedi gwneud yn flaenorol. Mae felly'n bwysig ystyried

yr

Senario: Opsiwn llai cyfyngol

Mae aseswr budd pennaf yn ymweld â Ms K sydd ag anabledd dysgu.

Mae Ms K yn medru symud yn annibynnol ac mae'n gymdeithasol â sgiliau cyfathrebu da. Mae angen sbardun arni gan staff gofal gyda phob agwedd o'i gofal, yn ogystal â chefnogaeth emosiynol ar gyfer materion gorbryder

Mae'r aseswr budd pennaf yn canfod bod Ms K yn byw gyda thri phreswlydd gwrywaidd, y maent i gyd yn cyfathrebu'n ddieiriau. Goruchwylir Ms K un i un ac mae weithiau'n cael ei chadw ar wahân yn ei hystafell ei hun, nid oherwydd ei hymddygiad ei hun ond oherwydd ymddygiad ymosodol gan breswlydd arall.

Mae'r aseswr budd pennaf yn dod i'r casgliad y dylid ystyried opsiynau llai cyfyngol ar gyfer Ms K. Cynhelir adolygiad gofal cymdeithasol a cheir lleoliad arall iddi gyda phreswlydd benywaidd arall. Mae hyn yn golygu nad oes angen cefnogaeth un i un bellach ar Ms K ac nad oes angen iddi gael ei chadw ar wahân i rannau o'i chartref fyth eto.

opsiynau sydd ar gael trwy gydol y broses a mynd yn ôl atynt os oes angen.

5.26 Wrth ystyried yr opsiynau sydd ar gael, mae'n rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniadau ystyried a yw'r pwrpas yn gallu cael ei gyflawni mewn ffordd sy'n llai cyfyngol o hawliau a rhyddid yr unigolyn (gweler paragraffau 2.21-2.23).

Rhestr Wirio Budd Pennaf

5.27 Oherwydd bod pob achos - a phob penderfyniad - yn wahanol, ni all y ddeddf nodi'r holl ffactorau y bydd angen eu hystyried i ddatrys budd pennaf rhywun. Ond mae adran 4 y Ddeddf yn nodi rhai ffactorau cyffredin y mae'n rhaid eu hystyried bob amser wrth geisio canfod yr hyn sydd er budd pennaf unigolyn Crynhoir y ffactorau hyn yn y rhestr wirio yma:

- Ni ellir canfod yr hyn sydd er budd pennaf rhywun yn unig ar oedran, golwg, cyflwr neu ymddygiad rhywun (paragraffau 5.31-5.32).

- Dylid ystyried pob amgylchiad perthnasol wrth ganfod budd pennaf rhywun (paragraffau 5.33-5.36).
 - Os bydd siawns y bydd yr unigolyn yn adennill y galluedd i wneud penderfyniad penodol, yna gall fod yn bosibl gohirio'r penderfyniad tan yn hwyrach os nad yw'n un brys (paragraffau 5.44-5.48).
 - Dylid gwneud pob ymdrech i alluogi ac annog yr unigolyn sydd heb y galluedd i gymryd rhan mewn gwneud y penderfyniad (paragraffau 5.37-5.43).
 - Mae ystyriaethau arbennig yn gymwys i benderfyniadau am driniaeth cynnal bywyd (paragraffau 5.49-5.60).
 - Dylid ystyried dymuniadau a theimladau, credoau, gwerthoedd ac unrhyw ffactorau diwylliannol perthnasol presennol a gorffennol yr unigolyn (paragraffau 5.61-5.80).
 - Dylid ystyried barn eraill sy'n agos at yr unigolyn sydd heb allu neu unigolyn sy'n ymwneud â'u gofal neu driniaeth, yn ogystal â barn atwrnai neu ddirprwy, yn arbennig eu barn ynghylch yr hyn roedd yr unigolyn hwnnw'n ei ddymuno (paragraffau 5.84-5.96).
- 5.28 Mae'n bwysig peidio â chymryd llwybr byr i ganfod budd pennaf, ac mae'n rhaid cynnal asesiad iawn a gwrthrychol. Os bydd y penderfyniad yn un brys, efallai na fydd amser i archwilio pob ffactor posibl, ond mae'r rhaid gwneud y penderfyniad er budd pennaf yr unigolyn sydd heb allu.
- 5.29 Er bod yn rhaid eu hystyried bob amser, ni fydd pob ffactor yn y rhestr wirio'n berthnasol i bob math o benderfyniadau neu gamau gweithredu, ac mewn sawl achos bydd yn rhaid ystyried ffactorau eraill yn ogystal, hyd yn oed ei bod yn bosibl na fydd rhai ohonynt wedyn yn berthnasol. Er enghraifft, gallai hyrwyddo annibyniaeth, cadw urddas neu ystyried yr effaith newid arwyddocaol mewn amgylchiad ar yr unigolyn fod yn ffactor pwysig.³⁷
- 5.30 Gall yr hyn fydd er budd pennaf unigolyn newid yn wir dros amser. Mae hyn yn golygu hyd yn oed lle bydd angen cymryd camau gweithredu tebyg dro ar ôl tro mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth yr unigolyn, dylid adolygu budd pennaf yr unigolyn yn rheolaidd. Yn yr un modd, lle bydd triniaeth feddygol benodol wedi'i dechrau oherwydd bod hynny er budd pennaf iddynt ar yr adeg honno, dylid adolygu'r penderfyniad yn rheolaidd i sicrhau bod hynny'n parhau.

³⁷ Cyngor Dinas *Newcastle-upon-Tyne yn erbyn TP a FW* [2016] EWCOP 61, ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2016/61.html>.

Senario: Dilyn y rhestr wirio

Mae dementia gan Ms M ac mae'n dechrau anwybyddu ei hylendid personol ac mae wedi'i chanfod sawl gwaith yn crwydro'r strydoedd yn methu â dod o hyd i'w ffordd adref. Mae gofalyr Ms M yn poeni nad oes ganddi'r galluedd bellach i wneud penderfyniadau priodol am ei gofal pob dydd. Ei merch yw ei atwrnai lles personol ac mae'n credu bod yr amser wedi dod i weithredu o dan yr Atwrneiaeth Arhosol (LPA).

Mae'n tybio i gychwyn y byddai'n well i Ms M symud i mewn i gartref gofal, oherwydd byddai'r staff yn gallu ei helpu i ymolchi a gwisgo a'i hatal rhag crwydro. Fodd bynnag, ni ellir rhagdybio'n unig ar sail ei hoedran, cyflwr, golwg neu ymddygiad naill ai nad oes gan Ms M alluedd i wneud penderfyniad o'r fath neu y byddai symudiad o'r fath er ei budd pennaf.

Mae'n rhaid i ferch Ms M asesu galluedd Ms M i wneud y penderfyniad ac mae'n ymgynghori â meddyg teulu Ms ynghylch hyn. Mae'r meddyg teulu'n asesu Ms M fel nad oes ganddi'r galluedd i wneud y penderfyniad hwn. Mae merch Ms M yna'n ystyried yr holl ffactorau perthnasol yn y rhestr wirio budd pennaf i benderfynu'r hyn fyddai er budd pennaf iddi.

Mae ei merch felly'n ystyried:

- dymuniadau a theimladau Ms M ar hyn o bryd ac yn y gorffennol
- barn pobl sy'n ymwneud â'i gofal
- unrhyw ffyrdd eraill o fodloni'i hanghenion gofal yn effeithiol a allai fod yn llai cyfyngol o ran hawliau a rhyddid Ms M, megis darparu mwy o ofal yn y cartref neu fynychu canolfan ddydd.

Wrth ddilyn y broses hon, mae merch Ms M yn dod i'r penderfyniad y byddai er budd pennaf Ms M i archwilio dod o hyd i gartref gofal addas ar ei chyfer.

Mae merch Ms M yn dilyn y rhestr wirio budd pennaf ynghylch materion eraill sy'n dod o dan awdurdod yr LPA.

Pa ddiogelwch mae'r Ddeddf yn ei roi wrth geisio datrys budd pennaf rhywun?

- 5.31 Mae Adran 4(1) yn datgan bod yn rhaid i unrhyw un sy'n datrys budd pennaf rhywun beidio â gwneud rhagdybiaethau na ellir eu cyfiawnhau ynghylch yr hyn allai fod eu budd pennaf yn unig ar sail oedran, golwg, cyflwr neu unrhyw agwedd o'u hymddygiad. Yn y modd hwn, mae'r Ddeddf yn sicrhau nad yw pobl nad oes ganddynt allu i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain yn ddarostyngedig i wahaniaethu neu eu trin yn llai ffafriol nag unrhyw un arall.
- 5.32 Mae 'golwg' yn derm eang ac mae'n cyfeirio at bob agwedd o olwg corfforol, gan gynnwys lliw croen, ffordd o wisgo ac unrhyw broblemau meddygol gweladwy, creithiau hagr neu anabledau eraill. Mae 'cyflwr' unigolyn hefyd yn cynnwys amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys anabledau corfforol, anawsterau neu anabledau dysgu, salwch cysylltiedig ag oedran neu gyflyrau dros dro (megis meddwdod neu bod yn anymwybodol). Mae 'ymddygiad' yn cyfeirio at ymddygiad a allai ymddangos yn anghyffredin i eraill, megis siarad yn rhy uchel neu chwerthin yn amhriodol. Gall hefyd gyfeirio at gefndir diwylliannol yr unigolyn.

Sut mae gwneuthurwr penderfyniadau'n canfod yr hyn yw 'pob amgylchiad perthnasol'?

- 5.33 Wrth geisio canfod y budd pennaf i rywun, dylai'r gwneuthurwr penderfyniadau geisio nodi'r holl faterion a fyddai'r mwyaf perthnasol i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd ac i'r penderfyniad penodol, yn ogystal â'r rhai hynny yn y 'rhestr wirio'. Yn amlwg, nid yw bob amser yn bosibl neu'n ymarferol ymchwilio pob mater yn drwyadl a allai fod o beth perthnasedd i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd neu'r penderfyniad o dan sylw. Felly diffinnir amgylchiadau perthnasol yn adran 4(11) y Ddeddf fel y rhai:
- mae'r unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad yn ymwybodol ohonynt, ac
 - y byddai'n rhesymol eu hystyried fel bod yn berthnasol.
- 5.34 Bydd yr amgylchiadau perthnasol wrth gwrs yn amrywio o achos i achos. Gallent gynnwys goblygiadau tymor byr a thymor hir. Er enghraifft, wrth wneud penderfyniad am brif driniaeth feddygol, byddai angen i feddyg ystyried anghenion clinigol y claf, buddion a beichiau potensial y driniaeth ar iechyd yr unigolyn a disgwyliad oes ac unrhyw ffactorau eraill sy'n berthnasol i wneud barn broffesiynol. Ond ni fyddai'n rhesymol ystyried materion megis disgwyliad oes wrth ganfod a fyddai er y budd pennaf i rywun dderbyn meddyginiaeth am broblem fach.
- 5.35 Mae penderfyniadau ariannol yn faes arall lle bydd yr amgylchiadau perthnasol yn amrywio. Er enghraifft, os bydd unigolyn wedi derbyn swm sylweddol o arian fel iawndal am ddamwain oedd yn golygu anaf i'r ymennydd o'i phlegid, byddai rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad ystyried amrywiaeth eang o amgylchiadau wrth wneud penderfyniadau ynghylch sut mae'r arian yn cael ei wario neu'i fuddsoddi, megis:
- a yw cyflwr yr unigolyn yn debygol o newid,
 - a oes angen gofal proffesiynol ar yr unigolyn, ac
 - a oes angen i'r unigolyn fyw mewn man arall i wneud bywyd yn haws iddynt.
- 5.36 Gellir penderfynu ynghylch y math hyn o faterion ar sail achos wrth achos.

Sut y dylid cynnwys yr unigolyn sydd â diffyg galluedd i ganfod yr hyn sydd er y budd pennaf iddynt?

- 5.37 Dylai'r gwneuthurwr penderfyniadau sicrhau y defnyddir pob modd ymarferol i alluogi ac annog yr unigolyn i ddeall a chymryd rhan mor llawn â phosibl yn y broses gwneud penderfyniadau ac unrhyw gamau gweithredu sy'n digwydd o ganlyniad, neu i helpu'r unigolyn i wella eu gallu i gymryd rhan (adran 4(4)). Gall hyn gynnwys ystyried unrhyw brosesau gwneud penderfyniad casgliadol perthnasol yn nheulu'r unigolyn neu gefndir diwylliannol ehangach.

- 5.38 Hyd yn oed nad oes gan yr unigolyn y galluedd i wneud y penderfyniad, mae'n bosibl bod ganddynt ddymuniadau a theimladau ar faterion sy'n effeithio ar y penderfyniad, ac ar ba ganlyniad fyddai'n well ganddynt. Dylid cael gwybod am y rhain lle y bo'n bosibl (gweler **paragraff 5.61**). Gall eu cynnwys helpu i ganfod yr hyn a fyddai er y budd pennaf iddynt. Wrth ddysgu am y farn hon, dylai'r gwneuthurwr penderfyniadau hefyd ystyried yr amgylchiadau lle cawsant eu mynegi i sicrhau nad yw dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn ganlyniad gorfodaeth gan eraill³⁸.
- 5.39 Bydd ymgynghori â'r unigolyn sydd â diffyg galluedd yn golygu cymryd amser i esbonio'r hyn sy'n digwydd a pham bod yn rhaid gwneud penderfyniad. Mae Pennod 3 yn cynnwys nifer o gamau ymarferol i gynorthwyo a galluogi gwneud penderfyniadau a allai hefyd fod yn ddefnyddiol i annog mwy o bobl i gymryd rhan. Mae'r rhain yn cynnwys:
- defnyddio iaith syml neu gynorthwyon cyfathrebu megis lluniau neu dechnoleg gynorthwyol i helpu'r unigolyn i ddeall yr opsiynau
 - gofyn iddynt am y penderfyniad ar adeg a lleoliad lle bydd yr unigolyn yn teimlo wedi ymlacio'n llwyr ac yn gyfforddus
 - rhannu'r wybodaeth i bwyntiau hawdd eu deall
 - defnyddio arbenigwyr megis dehonglwyr, arwyddwyr neu therapyddion iaith a lleferydd, i gyfathrebu gyda'r unigolyn
 - chwilio am gymorth eiriolwr lle y bo'n berthnasol, a allai fod wedi magu dealltwriaeth ynghylch dymuniadau a theimladau'r unigolyn dros gyfnod o amser.
- 5.40 Gallai hyn olygu bod angen i bobl eraill gyfathrebu gyda'r unigolyn i sefydlu'u barn. Er enghraifft, mae'n bosibl y gallai perthynas neu ffrind, gofalwr llawn amser neu eiriolwr y gellir ymddiried ynddynt fod yn gallu helpu'r unigolyn i leisio dymuniadau neu ddyheadau neu i nodi'r hyn sy'n well ganddynt rhwng opsiynau gwahanol.
- 5.41 Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ynghylch yr holl gamau hyn ym mhennod 3.
- 5.42 Gallai cymryd camau i alluogi ac annog yr unigolyn i gymryd rhan yn y penderfyniad arwain at ailfeddwl a oes ganddynt y galluedd neu beidio i wneud y penderfyniad gyda'r gefnogaeth sydd ar gael. Os yw hyn yn wir, mae'n bwysig mynd yn ôl ac ailasesu'u gallu i benderfynu a yw'r unigolyn yn gallu gwneud y penderfyniad drostynt eu hunain.
- 5.43 Dylid hysbysu'r unigolyn sydd â diffyg galluedd ynghylch canlyniad y penderfyniad, oni bai bod rheswm da dros beidio â'u hysbysu. Lle penderfynir peidio â'u hysbysu, dylid cofnodi'r rheswm dros hyn.

³⁸ Gweler ADS yn erbyn DSM [2017] EWCOP 8, ar gael ar:
<https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2017/8.html>.

Senario: Cynnwys rhywun i ganfod yr hyn a fyddai er y budd pennaf iddynt

Mae gan Mr O anawsterau dysgu difrifol ac mae'n dilyn cwrs sgiliau bywyd yn ei goleg addysg bellach lleol. Mae ganddo Gynllun Addysg, Iechyd a Gofal (EHCP) a gedwir gan y coleg a'r awdurdod lleol.

Yn y coleg, mae gan Mr O yr opsiynau o fynychu profiad mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys gofal anifeiliaid neu waith garddwriaethol. Mae asesiad galluedd yn dod i'r casgliad, yn ôl yr hyn sy'n debygol, bod diffyg galluedd gan Mr O i wneud ei benderfyniad ei hun ynghylch lleoliad oherwydd ei anallu i gofio gwybodaeth. Felly, mae'i goleg yn trefnu cyfarfod er y budd pennaf, gyda gwahoddiadau'n cael eu rhoi i'r rhai hynny sy'n ymwneud ag EHCO Mr O, gan gynnwys Mr O a'i rieni. Nod y cyfarfod er y budd pennaf oedd gwneud penderfyniad am ble y byddai'i leoliad profiad gwaith.

Yn ystod y cyfarfod, mae Mr O yn dweud ei fod yn hoffi gofalu am anifeiliaid a bod ganddo gath a chwnigen gartref. Dywedodd nad oedd yn hoffi gweld anifeiliaid yn cael eu hanafu. Esboniodd ei rieni y bydd Mr O yn poeni os bydd yn gweld anifeiliaid yn cael eu hanafu ar y teledu gartref. Mae ei rieni'n cytuno y byddai'r opsiwn gofalu am anifeiliaid yn dda iddo ond maent yn ychwanegu eu bod yn poeni bod ei ofn o weld anifeiliaid mewn poen yn golygu y byddai lleoliad profiad gwaith mewn milfeddygfa er enghraifft yn amhriodol. Mae'r cyfarfod yn dod i'r casgliad y byddai er y budd pennaf i Mr O ddod o hyd i leoliad mewn gofal anifeiliaid, nad yw'n ymwneud â gweld anifeiliaid yn cael eu hanafu.

Bydd profiad gwaith gofal anifeiliaid Mr O mewn lloches anifeiliaid lle na fydd yn gweld anifeiliaid yn derbyn llawdriniaethau. Mae'r EHCP yn cynnwys manylion anghenion Mr O sy'n galluogi'r coleg i roi addasiadau yn eu lle sydd eu hangen ar Mr O i ymgymryd â'r lleoliad gwaith.

Sut y byddai'r siawns y bydd rhywun yn adennill ac yn datblygu galluedd y effeithio ar ganfod yr hyn sydd er y budd pennaf iddynt?

- 5.44 Mae rhai sefyllfaoedd lle gellir gohirio penderfyniadau os na fydd rhywun ar hyn o bryd â'r galluedd yn adennill y gallu i wneud y penderfyniad drostynt eu hunain. Mae Adran 4(3) y Ddeddf yn gofyn i'r gwneuthurwr penderfyniadau ystyried:
- a yw'r unigolyn o dan sylw'n debygol o adennill y galluedd i wneud y penderfyniad penodol hwnnw yn y dyfodol, ac
 - os felly, pryd bydd hynny'n debygol.
- 5.45 Gall yna fod yn bosibl gohirio'r penderfyniad tan bydd yr unigolyn yn gallu gwneud drosto'i hun.

- 5.46 Mewn sefyllfaoedd argyfwng - megis pan fydd angen triniaeth feddygol frys - efallai na fydd yn bosibl aros i weld os bydd yr unigolyn efallai'n adennill galluedd fel eu bod yn gallu penderfynu drostynt eu hunain p'un ai cael y driniaeth frys ai peidio.
- 5.47 Lle nad yw'r unigolyn â'r galluedd ar hyn o bryd i wneud penderfyniad sy'n ymwneud â'u gofal pob dydd, gall yr unigolyn - dros amser a gyda'r cymorth iawn - fod yn gallu datblygu'r sgiliau i wneud hynny. Er y bydd yn rhaid i eraill o bosibl wneud y penderfyniad ar y foment benodol honno, dylid rhoi pob cymorth posibl i'r unigolyn hwnnw i'w galluogi i ddatblygu'r sgiliau fel eu bod yn gallu gwneud y penderfyniad drostynt eu hunain yn y dyfodol.

Senario: Penderfyniadau tymor byr ar gyfer rhywun a allai adennill galluedd

Mae Mr F wedi cael strôc ac o ganlyniad nid yw'n gallu siarad. O fewn dyddiau, mae'n dangos arwyddion o welliant, ac mae ei dîm meddygol yn credu y bydd yn gwella dros amser. Fodd bynnag ar hyn o bryd, mae ei wraig a staff yr ysbyty yn ei chael yn anodd cyfathrebu ag ef er mwyn penderfynu ar ei alluedd a'i ddymuniadau ynghylch penderfyniadau amrywiol.

Mae Mr F wedi gofalu am faterion ariannol y teulu erioed, ac nid oes gan ei wraig fynediad i'w gyfrif banc personol i ddarparu arian i'r teulu i fyw neu dalu biliau Ni ellir gohirio'r penderfyniadau ariannol hyn tan y bydd cyflwr Mr F yn gwella.

Mae ei wraig felly'n gwneud cais i'r Llys Gwarchod am orchymyn sy'n caniatáu iddi gael mynediad at gyfrif banc Mr F er mwyn talu'r biliau a rheoli treuliau'r cartref sy'n rhaid eu talu.

Mae'r penderfyniadau am drefniadau tymor hwy'n cael eu gohirio tan y ceir gwybod i ba raddau y bydd Mr F yn gwella.

- 5.48 Rhai ffactorau sy'n dangos y gallai rhywun adennill neu ddatblygu galluedd yn y dyfodol yw:
- y gellir trin achos y diffyg galluedd, naill ai drwy feddyginiaeth neu ryw fath arall o driniaeth neu therapi
 - bod y diffyg galluedd yn debygol o leihau ymhen amser (er enghraifft, os yw wedi'i achosi gan effeithiau meddyginiaeth neu alcohol, neu os yw'n dilyn sioc sydyn)
 - ei bod yn bosibl y bydd unigolyn sydd ag anableddau dysgu yn gallu dysgu sgiliau newydd neu gael profiadau newydd a fydd yn rhoi mwy o ddealltwriaeth a'r gallu iddynt wneud rhai penderfyniadau
 - y gallai'r unigolyn fod â chyflwr sy'n peri i alluedd fynd a dod ar wahanol adegau (megis rhai mathau o salwch meddwl)
 - bod rhywun nad oedd yn medru cyfathrebu cynt yn gallu dysgu modd newydd i gyfathrebu (gweler pennod 3).

Sut y dylid canfod beth sydd er y budd pennaf i rywun wrth wneud penderfyniadau am driniaeth cynnal bywyd?

- 5.49 Ceir ffactor arbennig yn y rhestr wirio sy'n gymwys i benderfyniadau am driniaeth sy'n angenrheidiol i gadw'r unigolyn yn fyw ('triniaeth cynnal bywyd') a nodir hyn yn adran 4(5) y Ddeddf. Y rheol sylfaenol yw nad yw rhywun sy'n penderfynu a yw triniaeth cynnal bywyd er y budd pennaf i rywun nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio i dderbyn neu i wrthod triniaeth o'r fath i gael ei ysgogi gan awydd i beri marwolaeth yr unigolyn hwnnw.
- 5.50 Mae a yw triniaeth yn 'driniaeth cynnal bywyd' ai peidio, yn dibynnu nid yn unig ar y math o driniaeth, ond hefyd yr amgylchiadau penodol lle y gellid ei rhagnodi. Er enghraifft, mewn rhai sefyllfaoedd byddai rhoi gwrthfotigau'n fodd i gynnal bywyd, tra defnyddir gwrthfotigau mewn amgylchiadau eraill i drin cyflyrau nad ydynt yn peryglu bywyd. Lle'r meddyg neu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n darparu triniaeth yw asesu ym mhob sefyllfa benodol a yw'r driniaeth yn un sy'n cynnal bywyd.
- 5.51 Lle'r meddyg neu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol hefyd ymhob sefyllfa yw penderfynu a fyddai'r driniaeth cynnal bywyd o dan sylw'n driniaeth a fyddai'n rhesymol ei rhoi o dan yr amgylchiadau. Er enghraifft:
- Mae'n bosibl na fydd rhai triniaethau'n rhoi unrhyw obaith realistig o lwyddo: er enghraifft, gallai ddiwydd nad yw CPR (adfywio cardio-pwlmonaidd) yn gallu ailddechrau calon ac anadlu'r unigolyn.
 - Ni ellir rhoi rhai triniaethau oherwydd rhesymau clinigol: er enghraifft, efallai na fyddai'n ymarferol ailosod tiwb bwydo ar gyfer unigolyn sy'n cael ei fwydo gan faeth a hydradiad trwy gymorth clinigol.
 - Mae'n bosibl y cynhwysir rhai triniaethau gan bolisiâu penodol: er enghraifft, efallai bod polisi gan ysbyty na ellir rhoi gwrthfotigau mewn sefyllfaoedd arbennig oherwydd risg ymwrthedd i wrthfotig. Neu efallai na fydd cyffur arbennig ar gael i'w ddefnyddio oherwydd nad yw'n bodloni meini prawf comisiynu cenedlaethol.
- 5.52 Wrth benderfynu a yw'n rhesymol rhoi triniaeth benodol i glaf penodol, dylai'r meddyg sy'n trin ystyried unrhyw ddatganiad a wnaethpwyd gan y claf ymlaen llaw yn yr un modd â chais a wnaethpwyd gan y claf sydd â'r galluedd i wneud penderfyniadau o'r fath.
- 5.53 Os na fydd y driniaeth yn un sy'n rhesymol i'w rhoi, ni all y Ddeddf orfodi'r meddyg sy'n trin i'w darparu. Ni all unigolyn nad oes y galluedd ganddo fod mewn gwell safle nag unigolyn sydd â'r galluedd. Os na fyddai'r opsiwn ar gael ar gyfer yr unigolyn os oedd ganddynt y galluedd ac yn gofyn amdano, nid oes unrhyw ofyniad i'w gynnig fel rhan o benderfyniad er y budd pennaf³⁹. Mae'n bosibl y ceir llwybrau eraill i ddatrys unrhyw anghydfod a all godi o ganlyniad i'r penderfyniad i beidio â chynnig y driniaeth, ond nid ydynt yn cael eu cynnwys o fewn cwrpas y Ddeddf hon, ac ni ellir eu datrys gan y Llys Gwarchod.
- 5.54 Os yw'r driniaeth, mewn egwyddor, yn un sy'n rhesymol yn ogystal ag ar gael i'w rhoi, yna bydd yn rhaid gwneud y penderfyniad a yw er y budd pennaf i'r claf i'w rhoi.

³⁹ Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Ysbytai Prifysgol Aintree yn erbyn James [2013] UKSC 67, ar gael ar: <https://www.bailii.org/uk/cases/UKSC/2013/67.html>

- 5.55 Ochr yn ochr â'r canllawiau yn y Cod hwn, dylai meddygon a staff eraill gyfeirio at ganllawiau proffesiynol perthnasol ar gyfer y broses o wneud y penderfyniad, gan gynnwys yr angen (er enghraifft) am ail farn⁴⁰.
- 5.56 Wrth wneud penderfyniad er y budd pennaf am roi neu barhau triniaeth cynnal bywyd, ceir rhagdybiaeth gref y bydd er y budd pennaf i'r claf geisio ymestyn ei fywyd/bywyd, a rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniadau beidio â chael ei ysgogi gan awydd i beri marwolaeth yr unigolyn am ba reswm bynnag, hyd yn oes os yw hyn oherwydd teimlad o drugaredd.
- 5.57 Fodd bynnag, gall y rhagdybiaeth gref o blaid ceisio ymestyn bywyd gael ei disodli lle:
- Ceir tystiolaeth glir na fyddai'r unigolyn yn dymuno derbyn y driniaeth o dan sylw yn yr amgylchiadau;
 - Byddai'r driniaeth ei hun yn feichus dros ben i'r claf, yn arbennig, wrth gyfeirio at yr hyn a wyddys am a yw'n fwy pwysig i'r claf gael ei gadw'n fyw ar bob cyfrif neu'i gadw'n gyfforddus;
 - Nid oes unrhyw obaith y bydd y driniaeth yn dychwelyd y claf i gyflwr ansawdd bywyd y byddai'r claf yn ei ystyried yn fuddiol. Y safbwynt pwysig yw un y claf, nid y meddygon neu weithwyr proffesiynol gofal iechyd.
- 5.58 Os ar ddiwedd y broses, y cytunir nad yw er y budd pennaf i'r claf roi neu barhau'r driniaeth, dylid naill ai tynnu neu ddod â'r driniaeth cynnal bywyd i ben, oherwydd byddai gwneud fel arall yn weithred anghyfreithiol. Nid oes unrhyw angen mewn achos o'r fath i gael awdurdodiad y Llys Gwarchod cyn gwneud hynny.
- 5.59 Fodd bynnag, os ar ddiwedd y broses, ei bod yn eglur bod y ffordd ymlaen yn gytbwys yn deg neu bod barn feddygol yn wahanol, neu ddiffyg cytundeb ynghylch camau gweithredu gan y rhai hynny sy'n ymddiddori yn lles y claf, mae'n rhaid gwneud cais i'r Llys Gwarchod (gweler pennod 7)⁴¹. Mae'n debygol iawn y bydd angen cais i'r Llys Gwarchod hefyd os oes gwrthdaro buddiannau potensial na ellir ei reoli'n briodol, fel y gall y gweithwyr meddygol proffesiynol sydd ynghlwm ddweud yn iawn eu bod yn credu'n rhesymol eu bod yn gweithredu er y budd pennaf i'r unigolyn.
- 5.60 Dylid cadw penderfyniadau mewn perthynas â thriniaeth cynnal bywyd o dan adolygiad. Nid yw'r ffaith y penderfynwyd dechrau triniaeth cynnal bywyd oherwydd bod hyn er y budd pennaf i'r claf yn golygu y bydd yn parhau i fod er y budd pennaf iddynt am gyfnod

⁴⁰ Er enghraifft, mae gan [Gymdeithas Feddygol Prydain ganllawiau gwneud penderfyniadau budd pennaf ynghylch maeth a hydradiad gyda chymorth clinigol](https://www.bma.org.uk/advice-and-support/ethics/adults-who-lack-capacity/clinically-assisted-nutrition-and-hydration), ar gael ar: <https://www.bma.org.uk/advice-and-support/ethics/adults-who-lack-capacity/clinically-assisted-nutrition-and-hydration>

Mae gan Goleg Brenhinol y Meddygon ganllawiau sy'n ymwneud â phenderfyniadau ynghylch y rhai mewn Anhwylderau Hir o Ymwybyddiaeth - <https://www.rcplondon.ac.uk/news/prolonged-disorders-consciousness-new-guidelines-help-doctors-and-families>

Mae gan y Cyngor Dadebru (DU) ganllawiau ynghylch penderfyniadau am roi CPR neu beidio - <https://www.resus.org.uk/library/publications/publication-decisions-relating-cardiopulmonary>

⁴¹ Ymddiriedolaeth y GIG yn erbyn Y [2018] UKSC 46 ar gael ar: <https://www.bailii.org/uk/cases/UKSC/2018/46.html>

amhenodol. Bydd pa mor aml y bydd angen yr adolygiad yn dibynnu ar natur achos y claf. Gweler 6.25-6.31 i ddarllen mwy am brif benderfyniadau gofal iechyd gan gynnwys penderfyniadau 'Peidio â Cheisio Adfywio Cardio-pwlmonaidd' (DNACPR).

Sut mae dymuniadau a theimladau, credoau a gwerthoedd unigolyn yn effeithio ar ganfod yr hyn sydd er y budd pennaf iddynt?

- 5.61 Mae Adran 4(6) y Ddeddf yn gofyn i'r gwneuthurwr penderfyniadau ystyried hyd 'y gwyddys yn rhesymol':
- (a) 'ddymuniadau a theimladau'r unigolyn yn y gorffennol ac ar hyn o bryd (ac yn arbennig, unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig perthnasol a wnaethpwyd ganddo pan oedd galluedd ganddo),
 - (b) y credoau a'r gwerthoedd a fyddai'n debygol o ddylanwadu ar ei benderfyniad os oedd galluedd ganddo, a'r
 - (c) ffactorau eraill y byddai'n debygol o'u hystyried os oedd yn gallu gwneud hynny.'
- 5.62 Mae paragraffau 5.24-5.30 uchod yn rhoi canllawiau pellach ynghylch pob un o'r ffactorau hyn.
- 5.63 Nid yw gofyn beth sydd er y budd pennaf i unigolyn yr un peth â gofyn 'beth fyddai'r unigolyn wedi'i wneud?'⁴². Mae'n rhaid i'r penderfyniad terfynol fod yn seiliedig ar yr hyn sydd er y budd pennaf i'r unigolyn.
- 5.64 Fodd bynnag, mae'r llysoedd wedi gwneud yn glir bod yn rhaid ystyried dymuniadau a theimladau unigolyn yn y gorffennol ac ar hyn o bryd a gall hyn fod y ffactor gwneud penderfyniad er y budd pennaf sy'n penderfynu¹⁰.
- 5.65 Ymhob achos, mae'n rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniadau gymryd y camau a nodir ym mharagraff 5.27 - h.y. yr unigolyn yn cymryd rhan, ymgynghori, dymuniadau a theimladau, yn arbennig nodi datganiadau ysgrifenedig, barn am gredoau a gwerthoedd]. Mewn sawl - ond nid yr holl - achosion, mae gweithredu'r broses hon yn golygu y bydd dealltwriaeth glir gan y gwneuthurwr penderfyniadau ynghylch yr hyn y byddai'r unigolyn wedi'i wneud os byddent yn gallu gwneud y penderfyniad eu hunain.
- 5.66 Mewn sawl sefyllfa, bydd hyn, yn ei dro, yn rhoi'r ateb ynghylch yr hyn er y budd pennaf i'r unigolyn. Gall hyn fod yn arbennig o wir mewn perthynas â phenderfyniadau am driniaeth feddygol (gweler ymhellach 5.74-5.77.) Mae gofal cymdeithasol ac arfer clinigol da hefyd yn darparu gofal a ddylai, cyn belled â phosibl, ei gyflwyno yn unol â dymuniadau a theimladau, credoau a gwerthoedd yr unigolyn y gwyddys amdanynt.
- 5.67 Mewn achosion eraill, mae ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol (fel sy'n ofynnol gan adran 4) yn golygu bod penderfyniad gwahanol yn cael ei wneud i'r hyn y byddai'r unigolyn wedi'i wneud. Gallai enghreifftiau o le gallai hyn fod yn briodol gynnwys:

⁴² Briggs yn erbyn Briggs (No 2) [2016] EWCOP 53, ar gael ar:

<https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2016/53.html>

- Lle byddai gweithredu dymuniadau'r unigolyn yn gwneud yr unigolyn yn agored i lefel o risg y mae'r unigolyn yn methu ag ystyried drostynt eu hunain, megis unigolyn oedrannus sydd â dementia sy'n dymuno parhau i fyw gartref ond nid yw'n gallu gofalu amdano ei hun yn ddiogel bellach.
- Lle nad yw'r unigolyn yn gallu deall neu bwyso a mesur y wybodaeth sy'n berthnasol i benderfyniad, megis unigolyn sydd wedi derbyn iawndal i dalu am ofal arbenigol y mae ei angen arnynt yn dilyn damwain, ond sydd eisiau gwario'r arian ar eitem foethus.

5.68 Mewn unrhyw achos lle mae'r gwneuthurwr penderfyniadau'n dod i gasgliad nad yw'r penderfyniad neu'r cam gweithredu er y budd pennaf i'r unigolyn yr hyn a fyddai'r unigolyn wedi'i benderfynu, dylai'r gwneuthurwr penderfyniadau fod yn barod i gyfiawnhau'u penderfyniad. Po fwyaf pell y bo'r hyn mae'r gwneuthurwr penderfyniadau'n ei benderfynu o'r hyn a fyddai'r unigolyn ei hun wedi'i benderfynu, dylai'r gwneuthurwr penderfyniad fod yn gallu rhoi cyfiawnhad clir. Gweler hefyd 5.102-5.108 ynghylch sut i gofnodi penderfyniadau er y budd pennaf.

Beth sy'n "gred resymol"?

5.69 Bydd faint y mae gwneuthurwr penderfyniadau'n gallu dysgu am farn unigolyn yn y gorffennol ac ar hyn o bryd yn dibynnu ar y penderfyniad, amgylchiadau a'r amser sydd ar gael. Mae'n ddyletswydd ar y gwneuthurwr penderfyniad gymryd pob cam ymarferol i gaffael ac ystyried cymaint o wybodaeth berthnasol â phosibl, fel arfer wrth siarad â'r unigolyn neu'r rhai sy'n eu hadnabod, yn yr amser sydd ar gael. Bydd yr hyn sydd ar gael mewn argyfwng yn wahanol i'r hyn sydd ar gael pan nad oes argyfwng. Ond hyd yn oed mewn argyfwng, mae'n bosibl bod cyfle o hyd i geisio cyfathrebu â'r unigolyn neu'i ffrindiau, teulu neu ofalwyr (gweler pennod 3 i gael canllawiau ar helpu cyfathrebu)⁴³.

Pa rôl sydd gan ddymuniadau a theimladau unigolyn yn y gorffennol ac ar hyn o bryd?

- 5.70 Mae'r Ddeddf yn gofyn i'r gwneuthurwr penderfyniadau ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn y gorffennol ac ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu ystyried yr hyn y mae'r unigolyn yn ei wneud neu'i ddweud ar hyn o bryd yn ogystal â'r hyn y gallent fod wedi'i ddweud yn y gorffennol. Os bydd dymuniadau a theimladau a fynegir nawr yn gwrthddweud dymuniadau a theimladau a fynegwyd yn y gorffennol, bydd angen i'r gwneuthurwr penderfyniadau ystyried y gwrthddweud yn ofalus iawn yng nghyd-destun yr amgylchiadau penodol i helpu i benderfynu beth sydd er y budd pennaf i'r unigolyn.
- 5.71 Efallai y bu gan yr unigolyn farn gref yn y gorffennol a allai ddylanwadu ar y penderfyniad i'w wneud nawr. Mae'n rhaid gwneud pob ymdrech resymol i wybod a yw'r unigolyn wedi mynegi barn yn y gorffennol a ddylai ddarparu gwybodaeth ar gyfer y penderfyniad sydd i'w wneud. Gallai hyn ddigwydd trwy gyfathrebu llafar neu ysgrifenedig, ymddygiad neu arferion, neu wedi'i chofnodi mewn unrhyw ffordd arall (er enghraifft, fideos neu recordiadau llais neu bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol). Wrth ddysgu am y farn hon, dylai'r

⁴³ Gweler Winspear yn erbyn Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Ysbytai Dinas Sunderland [2015] EWHC 3250 (QB) ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/QB/2015/3250.html>

gwneuthurwr penderfyniadau ystyried yr amgylchiadau lle cafodd ei mynegi hefyd i sicrhau nad oedd dymuniadau a theimladau'r unigolyn wedi'u dylanwadu gan farn eraill⁴⁴.

- 5.72 Mae adran 4(6)(a) yn rhoi pwyslais arbennig ar ddatganiadau neu gyfarwyddiadau ysgrifenedig ffurfiol neu anffurfiol (megis LPA) y gallai'r unigolyn fod wedi'u gwneud cyn colli galluedd⁴⁵. Gallai'r rhain gyflwyno llawer o wybodaeth am ddymuniadau unigolyn. Er enghraifft, gallai'r datganiadau hyn gynnwys gwybodaeth am y math o driniaeth feddygol y byddent yn ei dymuno yn achos salwch yn y dyfodol, ble fyddai'n well ganddynt fyw, neu sut y byddent yn dymuno derbyn gofal. Efallai byddai'r unigolyn wedi gwneud datganiadau penodol ymlaen llaw sy'n nodi'r hyn sy'n well ganddynt am unrhyw agwedd o ofal, llety neu ddull o fyw pe byddent yn colli galluedd.
- 5.73 Dylai'r gwneuthurwr penderfyniadau ystyried datganiadau ysgrifenedig yn ofalus. Os na fydd eu penderfyniad yn dilyn rhywbeth mae unigolyn wedi'i roi'n ysgrifenedig, dylent gofnodi'r rhesymau pam. Dylent fod yn gallu cyfiawnhau eu rhesymau os bydd rhywun yn herio'u penderfyniad.
- 5.74 Dylai meddyg ystyried datganiadau ysgrifenedig a wneir gan unigolyn cyn colli galluedd sy'n gofyn am driniaethau penodol mor ddifrifol â'r rhai a wneir gan bobl sydd â'r galluedd ar hyn o bryd i wneud penderfyniadau am driniaeth. Ond, yn union fel cais a wneir gan unigolyn sydd â'r galluedd, ni fyddai rhaid i'r meddyg ddilyn cais ysgrifenedig os byddant yn meddwl y byddai'r driniaeth benodol yn ddiangen yn glinigol, neu'n anaddas ar gyfer cyflwr yr unigolyn. Os na fydd triniaeth ar gael, yna ni fyddai'n cael ei chynnwys i'w hystyried fel rhan o wneud penderfyniad er y budd pennaf.
- 5.75 Mae'n bwysig nodi'r gwahaniaeth rhwng datganiad ysgrifenedig sy'n mynegi'r triniaethau a ffeirir a datganiad sy'n creu penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth. Cynhwysir hyn gan adran 24 y Ddeddf, a cheir statws gwahanol yn y gyfraith. Ni all meddygon ddiystyru penderfyniad ymlaen llaw dilys a chymwys i wrthod triniaeth a wneir gan oedolyn. Mae'n rhaid dilyn penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth os bydd yn bodloni gofynion y Ddeddf a'i fod yn gymwys i amgylchiadau'r unigolyn. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid peidio â rhoi'r driniaeth (gweler pennod 11 i gael mwy o wybodaeth). Os na fydd penderfyniad ymlaen llaw dilys a chymwys, dylid rhoi triniaeth yn seiliedig ar fudd gorau'r unigolyn. Os ceir penderfyniad ymlaen llaw ond nid yw'n ddilys a chymwys, mae'n rhaid i'r meddyg barhau i'w ystyried fel rhan o asesiad er y budd pennaf i'r unigolyn os oes ganddynt sail resymol i feddwl ei fod yn fynegiant gwir o ddymuniadau neu werthoedd yr unigolyn.
- 5.76 Gall pobl nad ydynt yn gallu mynegi'u dymuniadau a theimladau ar hyn o bryd mewn geiriau efallai fynegi'u hun trwy'u hymddygiad. Mewn rhai achosion, gallai eiriolwr helpu'r unigolyn i wneud dewisiadau a mynegi eu barn. Bydd mynegi pleser neu ofid ac ymatebion emosiynol hefyd yn berthnasol i ganfod yr hyn sydd er y budd pennaf iddynt. Yn olaf,

44 Gweler *ADS yn erbyn DSM* [2017] EWCOP 8, ar gael ar:
<https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2017/8.html>

45 Gweler paragraff 58 o *Parthed BM* [2014] EWCOP B20, ar gael ar:
<https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2014/B20.html>

oherwydd na all unigolyn fynegi dymuniad clir a chyson, nid yw'n golygu nad oes ganddynt deimladau sy'n rhaid eu hystyried.⁴⁶

- 5.77 Mewn nifer o sefyllfaoedd, mae'n bosibl bod y tîm gofal iechyd a'r unigolyn wedi cydweithio i greu Cynllun Gofal a Chymorth yn y dyfodol i gofnodi eu dymuniadau ynghylch eu triniaeth a'u gofal . Bydd y cynllun yn helpu i lywio penderfyniadau pan na fydd gan yr unigolyn alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau ei hun. Mae'n bosibl bydd y cynllun hwn yn cynnwys manylion am unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig perthnasol a phenderfyniadau ymlaen llaw, ynghyd ag enwau unrhyw un sydd wedi'u penodi i weithredu fel atwrnai iechyd a lles yr unigolyn. Gweler paragraffau 5.90 a 5.91 i gael rhagor o fanylion.

Senario: Defnyddio cynllun gofal a chymorth yn y dyfodol

Mae gan Ms G dementia Alzheimer uwch ac mae'n byw mewn cartref nyrsio. Yn ystod y 2 fis diwethaf mae wedi cael ei derbyn i'r ysbyty ddwywaith oherwydd bod gwres arni ac roedd wedi peidio â bwyta. Roedd hi'n fawr ei gofid a'i chynnwrf yn yr ysbyty, roedd ei merched yn teimlo oedd oherwydd y newid yn ei hamgylchedd.

Mae'r meddyg teulu a rheolwr y cartref nyrsio'n cyfarfod ag un o ferched Ms G sy'n dweud nad yw'n credu y dylai ei mam gael ei derbyn i'r ysbyty os byddai hyn yn digwydd eto. Mae'r meddyg teulu'n asesu Ms G fel unigolyn nad oes y gallu ganddi i wneud penderfyniadau am ei thriniaeth a chymryd rhan mewn trafodaethau, heb unrhyw siawns realistig o adennill galluedd.

Cynhelir cyfarfod ffurfiol i gytuno ynghylch cynllun gofal a chymorth yn y dyfodol ar gyfer Ms G. Rhoddir ystyriaeth ofalus am bwy y dylid ymgynghori â nhw. Mae Ms G yn weddw gyda thair merch, y mae un ohonynt yn byw'n belli ffwrdd. Mae rheolwr y cartref yn siarad â hi wrth ffonio. Mae'r merched yn nodi ffrind agos tymor hir Ms G fel rhywun y dylid ymgynghori â hi.

Mae rheolwr y cartref nyrsio, ffrind a 2 ferch yn cyfarfod. Mae pawb sydd ynghlwm yn cytuno os byddai Ms G yn datblygu haint ar y frest arall byddai er y budd pennaf iddi aros yn y cartref nyrsio gyda rheolaeth dda o'r symptomau, a pheidio â derbyn gwrthfotig i barhau'i bywyd.

Mae rheolwr y cartref nyrsio'n cadarnhau canlyniad y cyfarfod i'r ferch arall sy'n cytuno â'r cynllun gofal a chymorth. Cwblheir dogfen cynllun gofal a chymorth sy'n cofnodi'r argymhellion hyn, gan gadarnhau sut y dilynwyd egwyddorion gwneud penderfyniad er y budd pennaf.

Fis yn ddiweddarach, mae Ms G yn sâl iawn. Gelwir meddyg tu allan i oriau ac mae'n asesu Ms G fel bod ganddi arwyddion haint ar y frest a allai fod yn angheuol os na fydd yn cael ei thrin â gwrthfotig mewn wythiennol, a gall farw hyd yn oed gyda thriniaeth oherwydd ei chyflyrau isorweddol. Nid yw'r nyrsys asiantaeth sydd ar ddyletswydd yn y cartref yn adnabod Ms G yn dda, ond maent yn dangos y cynllun gofal a chymorth yn y dyfodol i'r meddyg tu allan i oriau. Mae'n ceisio cysylltu â'r merched yn aflwyddiannus drwy ffonio.

Mae'r meddyg yn gallu gweld o'r cynllun gofal a chymorth y dyfodol y dilynwyd proses gadarn sy'n dilyn egwyddorion gwneud penderfyniad er y budd pennaf'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Gan dderbyn gwybodaeth yn bennaf gan y cynllun gofal a chymorth y dyfodol, mae'r meddyg teulu'n gallu gwneud penderfyniad er y budd pennaf i gadw Ms G yn gyfforddus yn y cartref nyrsio, ac mae'n marw drannoeth.

⁴⁶ Parthed AB (Terfyniad Beichiogrwydd) [2019] EWCA Civ 1215, ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCA/Civ/2019/1215.html>

Pa rôl sydd gan gredoau a gwerthoedd?

- 5.78 Mae gwerthoedd a chredoau pawb yn dylanwadu ar y penderfyniadau maent yn eu gwneud. Gallent fod yn arbennig o bwysig i rywun nad oes ganddynt y galluedd i wneud penderfyniad oherwydd salwch cynyddol megis dementia, er enghraifft. Gellir dod o hyd i dystiolaeth ynghylch credoau a gwerthoedd unigolyn mewn pethau megis eu:
- cefndir diwylliannol
 - credoau crefyddol
 - credoau gwleidyddol, neu
 - ymddygiad neu arferion yn y gorffennol.
- 5.79 Mae rhai pobl yn nodi'u gwerthoedd a'u credoau mewn datganiad ysgrifenedig tra bod galluedd ganddynt o hyd. Efallai na fu gan eraill alluedd i wneud penderfyniad neu nad oedd y gallu ganddynt erioed i fynegi'u dymuniadau a theimladau.
- 5.80 Gall gwerthoedd y teulu neu gymuned lle magwyd yr unigolyn fod yn berthnasol. Efallai bydd angen i benderfyniad er y budd pennaf ystyried yr effaith a fyddai ganddo ar sut y mae'r gymuned yn ystyried yr unigolyn. Fodd bynnag, dylid trin hyn yn ofalus, yn arbennig os byddai'r weithred yn achosi gofid i'r unigolyn ei hun¹⁶.

Senario: Ystyried credoau a gwerthoedd

Roedd Ms A yn gweithio i elusen dramor tan ei bod mewn damwain car a chael niwed difrifol i'w hymennydd. Nid oes ganddi nawr y galluedd i wneud penderfyniadau ariannol cymhleth ac mae'r Llys Gwarchod wedi penodi'i thad fel dirprwy i fuddsoddi'r iawndal a dderbyniodd. Fel y gwneuthurwr penderfyniad ynghylch rheoli ei hiawndal, mae'n rhaid iddo ystyried ei dymuniadau, ei chredoau a'i gwerthoedd, yn ogystal â'i hanghenion gofal, cyn penderfynu sut i fuddsoddi'r arian.

Mae tad Ms A yn siarad â'i ffrindiau a'r rhai a fu'n gydweithwyr iddi. Maent yn dweud wrtho sut yr oedd credoau gwleidyddol Ms A wedi dylanwadu nid yn unig ar ei hagwedd at ei gwaith ond hefyd ei dymuniadau, teimladau a chredoau ynghylch pob agwedd o reoli'i bywyd.

Mae tad Ms A yn penderfynu peidio â buddsoddi yn y bondiau yr oedd ymgynghorydd ariannol wedi'u hargymell fel bod â'r enillion gorau, am eu bod yn rhai o eiddo cwmnïau na fyddai Ms A wedi'u cymeradwyo. Yn lle hynny, mae'n cyflogi ymgynghorydd ar fuddsoddi moesegol i ddewis buddsoddiadau sy'n unol â'i dymuniadau, teimladau a chredoau.

Pa ffactorau eraill dylai gwneuthurwr penderfyniad eu hystyried?

- 5.81 Mae adran 4(6)(c) y Ddeddf yn mynnu bod y gwneuthurwr penderfyniad yn ystyried unrhyw ffactorau eraill y byddai'r unigolyn sydd â diffyg galluedd yn eu hystyried pe byddai'n gallu. Gallai hynny gynnwys effaith y penderfyniad ar bobl eraill, rhwymedigaethau mewn cysylltiad â rhai sy'n ddibynol arnynt neu ddyletswyddau dinesydd cyfrifol⁴⁷.
- 5.82 Mae'r Ddeddf yn caniatáu gweithredoedd sy'n llesol i bobl eraill, ar yr amod eu bod er y budd pennaf i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd i wneud y penderfyniad. Er enghraifft, ar ôl ystyried holl amgylchiadau'r achos dan sylw, gellid penderfynu cymryd sampl o waed rhywun sydd â'r diffyg galluedd i gydsynio i hynny, er mwyn gweld a oes cyswllt genetig â chanser yn y teulu, gan y gallai hynny ddod â budd i rywun arall yn y teulu. Ond gallai hynny fod er y budd pennaf i'r unigolyn sydd â'r diffyg galluedd⁴⁸.
- 5.83 Mae 'er y budd pennaf' yn cynnwys mwy na buddiannau meddygol yr unigolyn⁴⁹. Er enghraifft, mae llysoedd wedi dyfarnu cyn hyn fod buddion cyffredinol posibl i rywun sydd â'r diffyg galluedd i gydsynio, megis y gefnogaeth emosiynol a geir neu a roddir drwy berthynas agos, yn ffactorau y mae'n bwysig eu hystyried wrth ganfod beth sydd er y budd pennaf i'r unigolyn ei hun²⁰. Os yw'n debygol y byddai'r un sydd â diffyg galluedd wedi ystyried y ffactorau hynny ei hun, gellir eu hystyried fel rhan o'r hyn sydd er y budd pennaf i'r unigolyn.

Â phwy y dylid ymgynghori wrth ganfod beth sydd er y budd pennaf i rywun?

- 5.84 Mae'r Ddeddf yn rhoi'r gwneuthurwr penderfyniad o dan ddyletswydd i ymgynghori â phobl eraill sy'n agos at yr un sydd â diffyg galluedd, os yw hynny'n ymarferol ac yn briodol, ar benderfyniadau a allai fod er y budd pennaf i'r unigolyn. Prif bwrpas ymgynghori yw deall beth fyddai penderfyniad yr unigolyn os byddent yn gallu gwneud y penderfyniad eu hunain²¹.
- 5.85 Mae hyn yn gymwys hefyd i'r rhai sy'n ymwneud â gofalu am yr unigolyn ac yn ymddiddori yn ei les, a gall fod yn briodol i ofyn am farn mwy o bobl ar gyfer penderfyniadau mwy difrifol (tra'n parchu cyfrinachedd cleifion). O dan adran 4(7), mae gan y gwneuthurwr penderfyniadau ddyletswydd i ystyried barn yr unigolion canlynol, os yw'n ymarferol ac yn briodol gwneud hynny:
- unrhyw un y mae'r unigolyn wedi'i enwi'n flaenorol fel un y mae am iddo gael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad,

⁴⁷ Yr Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn Skripal [2018] EWCOP 6 (22 Mawrth 2018), ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2018/6.html>

⁴⁸ Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG yn erbyn MC [2020] EWCOP 33 Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG yn erbyn MC [2020] EWCOP 33, ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2020/33.html>

⁴⁹ Gweler Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Ysbytai Prifysgol Aintree yn erbyn James [2013] UKSC 67, ar gael ar: <https://www.bailii.org/uk/cases/UKSC/2013/67.html>

- unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am yr unigolyn (gan gynnwys gweithwyr gofal a gweithwyr proffesiynol meddygol),
 - unrhyw un sy'n ymddiddori yn eu lles (er enghraifft, rhieni neu ofalwyr teuluol eraill, perthnasau agos eraill, eiriolwr sydd eisoes yn gweithio gyda'r unigolyn, neu staff addysg lle y bo'n briodol),
 - atwrnai sydd wedi'i benodi gan yr unigolyn o dan Atwrneiaeth Arhosol (a allai fod yn wneuthurwr penderfyniadau ar ran yr unigolyn, gan ddibynnu ar natur yr LPA), a
 - dirprwy sydd wedi'i benodi ar gyfer yr unigolyn hwnnw gan y Llys Gwarchod (y gall eu dirprwyaeth roi'r awdurdod iddynt wneud penderfyniad ar ran yr unigolyn).
- 5.86 Os nad oes unrhyw un y gellir ei gynnwys wrth drafod beth sydd er y budd pennaf i rywun, mae'n bosibl y bydd yr unigolyn yn gymwys i gael Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (IMCA). Pan fydd IMCA wedi'i benodi, dylent fod â rhan yn y broses tan y gwneir penderfyniad a'i weithredu'n llawn. I gael mwy o wybodaeth am IMCA gweler pennod 10.
- 5.87 Dylai unrhyw wneuthurwr penderfyniadau ddangos ei fod wedi meddwl yn ofalus ynghylch pwy y dylai siarad â nhw. Os yw'n ymarferol ac yn briodol siarad â'r bobl uchod, mae'n rhaid iddo wneud hynny ac ystyried eu barn.
- 5.88 Mae'n rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad allu egluro pam na siaradodd â rhywun penodol, pan y byddai'n ymddangos yn wrthrychol y byddai'r unigolyn hwnnw'n rhywun i ymgynghori â nhw. Mae'n arfer da iddo gadw cofnod clir o'u rhesymau. Bydd methu ag ymgynghori â rhywun sy'n gwir ymddiddori yn lles yr unigolyn pan fo'n ymarferol ac yn addas gwneud hynny'n golygu na all y gwneuthurwr penderfyniadau ddibynnu ar yr amddiffyniad yn adran 5 y Ddeddf ²².
- 5.89 Dylai'r gwneuthurwr penderfyniad geisio canfod:
- yr hyn mae'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw'n credu sydd er y budd pennaf i'r unigolyn yn y mater hwn, ac
 - os gallant roi gwybodaeth am ddyuniadau a theimladau, credoau a gwerthoedd yr unigolyn (er enghraifft ynghylch sut mae'r unigolyn wedi byw eu bywyd; yr hyn sydd wedi bod yn bwysig iddynt; yr hyn maent yn tybio fyddai'r unigolyn yn ei ddweud nawr).
- 5.90 Gall y wybodaeth hon fod ar gael gan rywun y mae'r unigolyn wedi'i enwi cyn colli ei alluedd fel un roedd yn dymuno iddo gael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad. Pobl sy'n agos at yr unigolyn sydd â diffyg galluedd, megis aelodau'r teulu agos, yw'r rhai sy'n debygol o'i adnabod orau. Mae'n bosibl y byddant hefyd yn gallu helpu i gyfathrebu neu ddehongli arwyddion sy'n dangos beth yw ddyuniadau a theimladau'r unigolyn ar y pryd ynghylch y penderfyniad i'w wneud. Nid yw'r ffaith yr ystyrir rhywun fel y perthynas agosaf yn golygu yr ystyrir eu barn fel bod yn fwy pwysig na rhai unrhyw un arall sy'n gallu rhoi'r wybodaeth berthnasol. Mae barn pob un cyn bwysiced â'i gilydd o bosibl, hyd yn oed os nad ydynt yn cytuno â'i gilydd. Mae'n rhaid eu hystyried ochr yn ochr â barn yr unigolyn sydd â diffyg galluedd a ffactorau eraill.
- 5.91 Wrth ymgynghori, dylai'r gwneuthurwr penderfyniadau geisio bod yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y rhai maent yn ymgynghori â nhw ac unrhyw ddyletsydd ymddiriedol, lle bydd rhywun yn ennill yn ariannol o'r penderfyniad. Nid yw hyn yn golygu o reidrwydd nad yw'r bobl hyn yn gallu cymryd rhan mewn gwneud penderfyniad. Ond mae'n

rhaid iddynt fod yn gallu canolbwyntio ar yr hyn yw'r materion perthnasol, yn enwedig yr hyn fyddai'r unigolyn ei hun wedi dymuno. Gweler paragraffau 5.113-5.117 isod ar gyfer canllawiau ynghylch sut i ddelio â barn groes.

Senario: Ystyried barn eraill

Mae Ms L wedi cael anaf i'r ymennydd gydag anawsterau cyfathrebu difrifol. Mae'n derbyn gofal gartref gan ei rhieni a bydd yn mynd i ganolfan ychydig o ddiwrnodau'r wythnos.

Byddai staff y ganolfan dydd yn hoffi mynd â rhai o'r defnyddwyr gwasanaeth ar daith diwrnod i ganolfan addysgol fferm. Maent yn esbonio'r daith i Ms L gan ddefnyddio iaith briodol a lluniau sy'n dangos i Ms L yr hyn y gall ei ddisgwyl ar y daith. Mae iaith y corff Ms L yn awgrymu ei bod yn hoffi'r syniad o ymweld ag anifeiliaid y fferm. Cwblheir asesiad galluedd, a chredir nad oes y galluedd gan Ms L i wneud y penderfyniad am y daith oherwydd ei anallu i bwysu a mesur y wybodaeth er mwyn gwneud penderfyniad. Mae staff y ganolfan dydd yn siarad a'i rhieni fel rhan o'r broses i asesu a fyddai'r daith er y budd pennaf iddi. Mae rhieni Ms L yn meddwl y byddai'r daith yn brofiad da iddi gan ei bod yn dwlu ar weithgareddau awyr agored. Fodd bynnag, maent yn ymwybodol bod Ms L yn gorbryderu yn arbennig pan fydd mewn man nad yw'n gyfarwydd ag ef a bydd yn rhaid iddi rhyngweithio â dieithriaid nad ydynt yn gwybod sut i gyfathrebu â hi.

Mae'r staff a rheini Ms L yn trafod sut i reoli hyn er y budd pennaf i Ms L. Cwblheir asesiad risg lle cytunir bod cynorthwy-ydd gofal, y mae Ms L yn arbennig o agos ati, yn mynd gyda hi drwy gydol yr amser yn y ganolfan fferm. Bydd y cynorthwy-ydd gofal yn defnyddio straeon sefyllfaoedd cymdeithasol trwy gydol y daith i helpu cyfathrebu Ms L a lleihau ei phryder.

- 5.92 Os yw atwrnai wedi'i benodi o dan Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus, neu os yw dirprwy wedi'i benodi gan lys, mae'n rhaid iddynt wneud y penderfyniadau ynghylch unrhyw faterion y maent wedi'u penodi i ddelio â nhw. Dylid ymgynghori ag atwrneiod a dirprwyon hefyd, os yw hynny'n ymarferol ac yn briodol, ynghylch materion eraill sy'n effeithio ar yr unigolyn sydd â diffyg galluedd.
- 5.93 Er enghraifft, dylid cysylltu ag atwrnai sydd wedi'i benodi'n unig i ofalu am eiddo a materion yr unigolyn i weld a ydynt yn meddu ar wybodaeth am gredoau a gwerthoedd, dymuniadau a theimladau'r unigolyn, a allai fod o gymorth i ganfod yr hyn fyddai er y budd pennaf i'r unigolyn mewn cysylltiad â phenderfyniadau am driniaeth neu ofal iechyd. Os felly, dylid ymgynghori â nhw. (Gweler penodau 8 a 9 i gael mwy o wybodaeth am rolau atwrneiod a dirprwyon).
- 5.94 Mae'n arfer da i staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol gofnodi ar ddiwedd y broses pam eu bod yn meddwl bod penderfyniad penodol er y budd pennaf i'r unigolyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig os bydd staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn penderfynu yn erbyn

barn rhywun yr ymgynghorwyd ag ef tra'n canfod yr hyn sydd er y budd pennaf i'r unigolyn. Ceir canllawiau ar gadw cofnodion ym mharagraffau 5.102-5.108 isod.

Beth os bydd y rhai sy'n ymwneud â gofalu am yr unigolyn neu'n ymddiddori yn lles yr unigolyn wedi llunio cynllun gofal a chymorth ar gyfer y dyfodol?

- 5.95 Weithiau bydd 'cynllun gofal a chymorth yn y dyfodol' ar gyfer unigolyn sydd â diffyg galluedd wedi'i lunio a'i gytuno arno, efallai gan aelodau'r teulu, gweithwyr meddygol proffesiynol a chartref gofal, ac yn arbennig ynghylch gofal diwedd bywyd.
- 5.96 Nid yw cynllun gofal a chymorth o'r fath o'i ran ei hun yn benderfyniad er y budd pennaf, ond mae'n bwysig fel cofnod o drafodaethau ac argymhellion a gytunwyd, a ddylai helpu i hysbysu penderfyniad er y budd pennaf ynghylch gofal meddygol priodol yn glinigol, ar yr adeg pan fydd ei angen. Mae felly'n bwysig, pan lunnir cynllun gofal a chymorth yn y dyfodol, ei fod yn cael ei gofnodi ac ar gael fel y gall hysbysu unrhyw benderfyniad budd pennaf. Er nad yw'n benderfyniad budd pennaf ei hun, dylai'r rhai sy'n ymwneud â llunio cynllun gofal a chymorth yn y dyfodol ddilyn egwyddorion penderfyniad budd pennaf y Ddeddf cyn belled â phosibl i sicrhau y gall y cynllun helpu i hysbysu'r penderfyniad budd pennaf yn gadarn.

Sut gall gwneuthurwyr penderfyniad barchu cyfrinachedd?

- 5.97 Mae'n rhaid i wneuthurwyr penderfyniadau gydbwyso'r ddyletswydd i ymgynghori â phobl eraill gyda hawl yr unigolyn sydd â diffyg galluedd i gyfrinachedd. Felly os bwriedir trafod gwybodaeth gyfrinachol, ni ddylent ond gofyn barn y rhai y mae'n briodol ymgynghori â nhw, lle mae eu barn yn berthnasol i'r penderfyniad sydd i'w wneud a'r amgylchiadau penodol.
- 5.98 Efallai y ceir achlysuron pan fydd yr hyn sydd er y budd pennaf i unigolyn yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol (er enghraifft, am eu cyflwr meddygol, os yw'r penderfyniad yn ymwneud â darparu triniaeth feddygol) i'r bobl yr ymgynghorir â nhw fel rhan o'r broses o ganfod eu budd pennaf (ceir canllawiau pellach ynghylch hyn ym mhennod 25). Mae'n rhaid i staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol sy'n ceisio pennu'r hyn sydd er y budd pennaf i unigolyn ddilyn eu canllawiau proffesiynol, yn ogystal â chanllawiau perthnasol eraill, ynghylch cyfrinachedd.

Cred resymol am yr hyn sydd er y budd pennaf i unigolyn

- 5.99 Mae adran 4(9) yn cadarnhau, os bydd rhywun yn gweithredu neu'n gwneud penderfyniad gan gredu'n rhesymol fod yr hyn maent yn ei wneud er y budd pennaf i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd, yna – ar yr amod eu bod wedi dilyn y rhestr wirio yn adran 4 – byddant wedi cydymffurfio ag egwyddor y budd pennaf sydd wedi'i nodi yn y Ddeddf. Nid yw dod i gasgliad anghywir am allu'r unigolyn neu'r hyn sydd er y budd pennaf iddo'n golygu o reidrwydd na fyddai'r gwneuthurwr penderfyniad yn cael ei amddiffyn rhag atebolrwydd (esbonnir hyn ym mhennod 6). Ond mae'n rhaid iddynt allu dangos ei bod yn rhesymol iddynt feddwl bod yr unigolyn yn un a oedd â diffyg galluedd a'u bod yn gweithredu er y budd pennaf i'r unigolyn hwnnw ar yr adeg y gwnaethant eu penderfyniad neu y cyflawnwyd y weithred.

- 5.100 Lle bo angen penderfyniad gan lys, bydd y llys yn gofyn am dystiolaeth o'r hyn a allai fod er y budd pennaf i'r unigolyn. Bydd hyn yn cynnwys tystiolaeth gan weithwyr proffesiynol perthnasol (er enghraifft, seiciatryddion neu weithwyr cymdeithasol) Gweler Pennod 7 i gael mwy o fanylion am y Llys. Yn y rhan fwyaf o'r sefyllfaoedd sy'n codi o ddydd i ddydd, nid oes angen ffurfioldeb o'r fath. Mewn sefyllfaoedd argyfwng, mae'n bosibl na fydd yn ymarferol nac yn bosibl casglu tystiolaeth ffurfiol.
- 5.101 Lle na fydd y llys yn gysylltiedig, mae disgwyl o hyd i bobl fod â lle i gredu'n rhesymol eu bod yn gweithredu er y budd pennaf i rywun. Nid yw hyn yn golygu bod gwneuthurwyr penderfyniadau'n gallu gorfodi eu barn eu hun. Mae'n rhaid iddynt fod â rhesymau gwrthrychol dros eu penderfyniadau – ac mae'n rhaid iddynt allu eu profi. Mae'n rhaid iddynt allu dangos eu bod wedi ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol ac wedi cymhwyso pob elfen yn rhestr wirio'r budd pennaf.

Senario: Profi bod cred resymol

Ymosodwyd ar Ms X yn y stryd a daethpwyd â hi i'r ysbyty'n anymwybodol, gydag anafiadau difrifol, wedi colli llawer o waed. Penderfynodd y tîm meddygol bod trallwysiad gwaed brys er y budd pennaf iddi gan fod ei angen i achub ei bywyd, a chynhaliwyd y trallwysiad.

Gan nad oedd unrhyw fath o ddull adnabod gan Ms Z, apeliwyd am wybodaeth i'w hadnabod a daethpwyd o hyd i'w theulu'n ddiweddarach. Pan gysylltwyd â'i pherthnasau, maent yn dweud wrth yr ysbyty bod credoau Ms Z yn golygu y byddai wedi gwrthod y trallwysiad gwaed os oedd y galluedd ganddi i wneud y penderfyniad.

Gan fod Ms Z wedi cyrraedd yr ysbyty'n anymwybodol a heb unrhyw ddull adnabod, nid oedd gan y tîm meddygol unrhyw wybodaeth am ei chredoau ar yr adeg roedd angen iddynt wneud y penderfyniad yn y fan a'r lle ynghylch triniaeth frys. Ar yr adeg roedd y meddygon wedi gwneud y penderfyniad budd pennaf, roedd ganddynt le rhesymol i gredu bod y penderfyniad er y budd pennaf i'w claf. Felly roeddent wedi'u hamddiffyn rhag atebolrwydd.

Unwaith i dîm yr ysbyty fod yn ymwybodol o gredoau Ms X, cawsant eu hystyried ganddynt, wrth ymgynghori â'i theulu, mewn penderfyniadau budd pennaf dilynol am ei thriniaeth feddygol tra nad oedd y galluedd ganddi i wneud y penderfyniadau drosti'i hun.

Cofnodi penderfyniadau budd pennaf

Penderfyniadau gofal a thriniaeth

- 5.102 Dylai unrhyw staff sy'n ymwneud â gofal unigolyn sydd â diffyg galluedd sicrhau y cedwir cofnod o'r broses o ganfod y budd pennaf ar gyfer pob penderfyniad.

5.103 Bydd y cofnod a gedwir o'r broses o ganfod budd pennaf yr unigolyn ynghylch unrhyw benderfyniad yn dibynnu ar natur y penderfyniad. Lle bydd eraill yn gweithredu'r penderfyniad, bydd yn bwysig iddynt allu deall pam y credir bod y weithred o ofal neu driniaeth er y budd pennaf i'r unigolyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu cynnwys cofnod yng nghynllun neu ffeil gofal a chymorth yr unigolyn o:

- sut y cyrhaeddwyd y penderfyniad am yr hyn sydd er y budd pennaf i'r unigolyn
- Barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn, yn arbennig os yn wahanol i'r penderfyniad a wnaethpwyd
- beth oedd y rhesymau dros gyrraedd y penderfyniad
- â phwy yr ymgynghorwyd i helpu i ganfod y budd pennaf, a
- pha ffactorau penodol a ystyriwyd, gan gynnwys unrhyw ffactorau diwylliannol perthnasol.

5.104 Bydd penderfyniadau mwy difrifol yn gofyn am gofnodion mewn mwy o fanylder. Bydd penderfyniadau penodol a wneir gan weithwyr a chyrrff proffesiynol iechyd a chymdeithasol yn cynrychioli ymyrraeth mor ddifrifol â hawliau'r unigolyn o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol²³ fel y dylid paratoi cofnod manwl. Mae paratoi cofnod o'r fath i dri phwrpas:

- a) I sicrhau bod y gwneuthurwr penderfyniad wedi ystyried yr holl faterion angenrheidiol er mwyn gallu dibynnu ar yr amddiffyn yn adran 5 y Ddeddf;
- b) I sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, y nodir anghydfod mewn perthynas â materion difrifol yn gynnar fel y gellir ystyried sut y bo modd eu datrys (gan gynnwys y Llys Gwarchod) **cyn** gweithredu. Mae hyn yn arbennig o bwysig os bydd y weithred o dan sylw'n anghildroadwy;
- c) I sicrhau atebolrwydd ar ôl y digwyddiad.

5.105 Mae'r penderfyniadau hyn yn cynnwys penderfyniadau:

- i symud yr unigolyn i lety tymor hir;
- i gyfyngu cyswllt yr unigolyn ag eraill (gallai hyn gynnwys unigolion a enwir neu ddo-barth o unigolion) (gweler paragraff 6.20 - 6.22);
- i roi triniaeth feddygol ddifrifol (gweler paragraff 6.32-6.37);
- i roi meddyginiaeth neu driniaeth 'gudd' (naill ai wrth gamgyfleu i'r unigolyn yr hyn sy'n cael ei roi neu fel arall);
- i roi meddyginiaeth neu driniaeth y mae'r gwneuthurwr penderfyniad yn gwybod, neu'n amau'n rhesymol, ei bod yn erbyn dymuniadau'r unigolyn.

5.106 Mewn achosion o'r fath, dylai'r cofnod gynnwys:

- disgrifiad o'r camau a gymerwyd i helpu'r unigolyn i wneud y penderfyniad, neu esboniad pam nad oedd yn ymarferol i gymryd camau o'r fath;
 - esboniad o pam y credir nad oes gan yr unigolyn y galluedd mewn perthynas â'r mater;
 - disgrifiad o'r camau a gymerwyd i sefydlu a yw er y budd pennaf i'r unigolyn i'r weithred gael ei gwneud, gan gynnwys, yn arbennig:
 - a. disgrifiad o'r camau a gymerwyd i ganfod dymuniadau, teimladau, credoau a gwerthoedd yr unigolyn mewn perthynas â'r mater ac, os yw'r penderfyniad a wneir yn gwrthdaro a dymuniadau, teimladau, credoau neu werthoedd yr unigolyn a ganfuwyd, esbonio'r rheswm pam y gwneir hyn;
 - b. disgrifiad o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd;
 - c. cadarnhad y cydymffurfiwyd ag unrhyw ddyletswydd i benodi eiriolwr (o dan y Ddeddf hon neu unrhyw Ddeddf arall);
 - d. (yn achos triniaeth feddygol) cadarnhad na fyddai'r ddeddf yn groes i benderfyniad ymlaen llaw i wrthod y driniaeth honno.
- 5.107 Os yw'r ffaith bod y sefyllfa'n frys yn golygu na all y gwneuthurwr penderfyniadau gwblhau'r cofnod cyn i'r penderfyniad gael ei wneud, dylai'r gwneuthurwr penderfyniadau sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl wedi hynny.
- 5.108 Wedi gwneud y penderfyniad, dylai'r gwneuthurwr penderfyniad sicrhau ei fod yn cael ei gofnodi a'i gyfathrebu i bawb sydd ynghlwm a bod cyfle i bob cyfranogwr gynnig adborth neu godi gwrthwynebiadau. Dylai'r cofnod hwn aros ar gyllun neu ffeil gofal a chymorth yr unigolyn.

Penderfyniadau eiddo a materion a wneir gan atwrneiod a dirprwyon

- 5.109 Dylai atwrneiod a dirprwyon a benodir i reoli eiddo a materion personol unigolyn gadw cofnod o drafodion busnes maent yn eu gwneud ar ran yr unigolyn. Gweler pennod 8 a 9 i gael gwybodaeth bellach. Ar gyfer penderfyniadau ariannol arwyddocaol, dylai'r atwrnai neu ddirprwy hefyd gofnodi sut roeddent wedi canfod beth oedd er y budd pennaf i'r unigolyn.
- 5.110 Dylai atwrneiod neu ddirprwyon a benodir ar gyfer iechyd a lles gadw cofnod o bob penderfyniad arwyddocaol maent yn eu gwneud am iechyd a lles yr unigolyn. Gallai penderfyniadau arwyddocaol gynnwys dewis cartref gofal, cytuno i driniaeth feddygol neu gwneud newid i ddeiet y rhoddwr oherwydd rhesymau iechyd. Gallai atwrneiod a dirprwyon wneud hyn wrth gadw dyddiadur ysgrifenedig neu ffeil gyfrifiadurol sy'n cofnodi'r penderfyniadau a wnaethpwyd a phryd. Dylai hyn gofnodi sut roeddent wedi canfod beth oedd er y budd pennaf i'r unigolyn, gan gynnwys manylion ynghylch pwy yr ymgynghorwyd ag ef ac unrhyw anghydfod am y penderfyniad.
- 5.111 Gallai cadw cofnod ynghylch sut y gwnaethpwyd penderfyniadau arwyddocaol gynorthwyo sgyrsiau ag aelodau'r teulu neu helpu i ddelio ag unrhyw bryderon y gellid eu codi. Mae cadw cofnod o benderfyniadau o'r fath yn arbennig o bwysig os bydd penderfyniad atwrnai'n mynd yn erbyn unrhyw rai o'r hyn a ffeirir gan y rhoddwr a restrir yn yr LPA.

Pa broblemau allai godi wrth ganfod beth sydd er y budd pennaf i rywun?

5.112 Mae'n bwysig y defnyddir yr egwyddor budd pennaf a'r rhestr wirio statudol yn hyblyg. Mewn rhai achosion, gall mantolen o opsiynau o blaid ac yn erbyn fod yn ddull defnyddiol i sicrhau y cynhwyswyd pob ffactor. Fodd bynnag, dylid ei defnyddio'n unig fel cymorth ac nid fel rhywbeth arall ar gyfer gwneud penderfyniad²⁴. Nid yw'r ffaith bod sawl cofnod mewn un golofn, ynddynt eu hunain, yn cyflwyno ateb. Mae'n bosibl y bydd un cofnod yn unig yn y golofn arall, ond mae o'r fath bwysigrwydd fel ei fod yn troi'r fantol yn erbyn yr holl gofnodion yn y llall. Mae'r llysoedd wedi cyfeirio at hyn fel bod yn sefyllfa lle mae ffactor o 'bwysigrwydd magnetig.'²⁵ Ymhob achos, mae'n bwysig y rhoddir ystyriaeth iawn i flaenoriaethu pob ffactor perthnasol fel bod y canlyniad y gorau posibl ar gyfer yr unigolyn sydd â diffyg galluedd i wneud y penderfyniad penodol. Ni fydd cymhlethdodau gyda rhai penderfyniadau, ac eraill yn fwy cymhleth.

Beth sy'n digwydd pan fydd pryderon croes?

5.113 Gall aelodau'r teulu, partneriaid a gofalwyr anghytuno ymhlith ei gilydd. Neu gallant fod ag atgofion gwahanol am farn yr unigolyn a fynegwyd yn y gorffennol. Gall gofalwyr a theulu anghytuno a barn gweithiwr proffesiynol am ofal neu anghenion triniaeth yr unigolyn.

5.114 Bydd y gwneuthurwr penderfyniadau'n cydbwysu pryderon er mwyn penderfynu rhyngddynt. Dylai'r dull cyntaf adolygu pob elfen o'r rhestr budd pennaf gyda phawb sydd ynghlwm. Dylent gynnwys yr unigolyn sydd sydd â diffyg galluedd (cymaint ag y maent yn gallu cymryd rhan) ac unrhyw un sydd wedi'i gynnwys mewn trafodaethau blaenorol. Efallai y bydd yn bosibl dod i gytundeb mewn cyfarfod i fynegi pryderon pawb, gan gynnwys rhai'r bobl nad ydynt yn gallu mynychu'r cyfarfod ei hun. Ond gall cytundeb ynddo'i hun beidio â bod er y budd pennaf i'r unigolyn os bydd yn cynrychioli cytundeb sy'n gweddu i'r lleill o gwmpas y bwrdd, yn hytrach na bodloni anghenion yr unigolyn. Mae'r cyfrifoldeb yn y pen draw ar gyfer ystyried p'un ai i weithredu ar y cytundeb, neu i gymryd rhyw gam arall, gyda'r gwneuthurwr penderfyniadau, fel yr unigolyn sy'n atebol am y camau gweithredu a ddilyniar wedyn yn seiliedig ar eu cred am yr hyn yw er y budd pennaf i'r unigolyn. Sonnir am anghytundebau mewn mwy o fanylder ym mhennod 24.

Teulu, partneriaid a gofalwyr yr ymgynghorir â nhw

5.115 Os bydd yr anghytundeb yn parhau, bydd angen i'r gwneuthurwr penderfyniadau bwysu a mesur barn y gwahanol bartion. Bydd hyn yn dibynnu'n llwyr ar amgylchiadau pob achos, y bobl sydd ynghlwm a'u perthynas â'r unigolyn sydd â diffyg galluedd. Weithiau bydd y gwneuthurwr penderfyniadau'n canfod bod mewnwelediad gan ofalwyr presennol neu flaenorol yr unigolyn ynghylch sut i ddehongli dymuniadau a theimladau unigolyn sy'n gallu eu helpu i ddod i benderfyniad.

5.116 Mae'n bosibl bod gan weithwyr gofal cyflogedig a gweithwyr cymorth sector gwirfoddol wybodaeth arbenigol am yr opsiynau neu driniaethau diweddaraf. Gall rhai hefyd wedi adnabod yr unigolyn am flynyddoedd.

5.117 Ni ddylid cau pobl sydd â buddiannau croes allan o'r broses, (er enghraifft, gall y rhai sy'n debygol o etifeddu o ewyllys yr unigolyn fod â'r hawl o hyd i ymgynghori â nhw am ofal neu

driniaeth yr unigolyn). Ond mae'n rhaid i wneuthurwyr penderfyniadau bob amser sicrhau nad yw buddiannau'r rhai yr ymgynghorir â nhw yn dylanwadu'n ormodol ar y broses o ganfod yr hyn sydd er y budd pennaf i unigolyn. Wrth bwysu a mesur cyfraniadau gwahanol, dylai'r gwneuthurwr penderfyniadau ystyried:

- pa mor hir y mae unigolyn wedi adnabod yr un sydd â diffyg galluedd
- beth yw eu perthynas
- lefel y cyswllt sydd ganddynt â'r unigolyn
- a oes ganddynt fuddiant yn y penderfyniad
- a fu eu hymddygiad ar hyn o bryd neu yn y gorffennol yn niweidiol i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd meddyliol, ac os felly, ym mha fodd

Eiriolaeth

5.118 Mewn rhai amgylchiadau, mae'n rhaid penodi ac ymgynghori ag IMCA i roi cymorth i a chynrychiolir unigolyn sydd â diffyg galluedd (gweler pennod 10). Os na fydd rhywun yn gymwys ar gyfer IMCA, gall mathau eraill o eiriolwr er hynny fod o gymorth. Gallai'r rhain fod yn eiriolwr statudol neu heb fod yn statudol, er enghraifft eiriolwr y Ddeddf Gofal, Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol, eiriolwr annibynnol neu eiriolwr cymheiriaid. Gall eiriolwyr o'r fath fod o gymorth i roi cynrychiolaeth annibynnol a chymorth i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd yn y broses o ganfod yr hyn sydd er y budd pennaf iddynt, os:

- bydd aelodau'r teulu'n anghytuno ynghylch y budd pennaf i'r unigolyn
- bydd aelodau'r teulu a gweithwyr proffesiynol yn anghytuno ynghylch y budd pennaf i'r unigolyn
- ceir gwrthdaro buddiannau ar gyfer pobl yr ymgynghorwyd â nhw yn yr asesiad budd pennaf (er enghraifft, gwerthu eiddo'r teulu lle mae'r unigolyn yn byw)
- bydd yr unigolyn sydd â diffyg galluedd yn barod mewn cyswllt ag eiriolwr
- gall y camau gweithredu a gynigir arwain at ddefnyddio ataliaeth neu gyfyngiadau eraill ar yr unigolyn sydd â diffyg galluedd
- ceir pryder am amddiffyn

Senario: Cytuno anghytundebau

Mae gan Mr R anabledau dysgu ac awtistiaeth ac mae ar fin gadael ei ysgol arbennig breswyl bresennol. Mae angen i'r tîm Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabled (SEND) yn ei awdurdod lleol wneud penderfyniad am ba leoliad fyddai orau i Mr R o'r opsiynau sydd ar gael.

Cwblhawyd asesiad sy'n pennu nad oes galluedd gan Mr R i gadw'r wybodaeth yn ddigon hir i wneud penderfyniad ynghylch ei leoliad nesaf. Mae'r ysgol yn trefnu cyfarfod budd pennaf, a fynychir gan Mr R, ei rieni, athrawon o'i ysgol sydd hefyd yn ei adnabod yn dda, a gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu cynnwys i baratoi Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal (EHCP) Mr R.

Mae'r cyfarfod yn ystyried pa leoliad fyddai orau i Mr R o'r opsiynau sydd ar gael. Yn ystod y cyfarfod esbonnir y lleoliadau amrywiol sydd ar gael gan gynnwys eu lleoliad, maint ac adnoddau. Esbonnir y rhain hefyd i Mr R mewn iaith addas gyda chymhorthion llun. Mae'r tîm SEND wedi edrych ar anghenion Mr R ac yn argymhell lle mewn lleoliad tŷ â chymorth lleol a gefnogir. Fodd bynnag, mae rheini Mr R yn dymuno iddo fynd i ysgol arbennig gan eu bod yn teimlo bod Mr R wedi mwynhau byw mewn ysgol breswyl ac maent yn meddwl na fydd Mr R yn derbyn y gofal addas mewn tŷ â chymorth. Cytunir, gyda Mr R yn cael ei gynnwys, y byddai o gymorth iddo ymweld â'r lleoedd sydd ar gael gyda'i rieni i archwilio'r ddau opsiwn posibl hyn.

Ar ôl yr ymweliadau ceir cyfarfod budd pennaf pellach lle trafodir dymuniadau a theimladau Mr R, eto gyda fe. Cytunir y byddai lleoliad tŷ cymorth wrth ei gartref teuluol er y budd pennaf i Mr R oherwydd ei fod yn gallu bodloni ei sgiliau annibyniaeth sy'n codi ac yng nghyffiniau ei deulu.

Datrys anghydfod am yr hyn sydd er y budd pennaf

5.119 Os bydd rhywun yn dymuno herio penderfyniad, efallai y byddent yn dymuno:

- Cynnwys eiriolwr i weithredu ar ran yr unigolyn sydd â diffyg galluedd i wneud y penderfyniad (gweler paragraff 5.118 uchod).
- Cael ail farn.
- Cynnal cyfarfod ffurfiol neu anffurfiol i geisio sicrhau consensws.
- Ceisio rhyw ffurf o gyfryngu (gweler pennod 15).

5.120 Yn y pen draw, os bydd pob cais arall i ddatrys yr anghydfod wedi methu, efallai bydd angen i'r llys benderfynu'r hyn sydd er y budd pennaf i'r unigolyn. Mae pennod 7 yn rhoi mwy o wybodaeth am y Llys Gwarchod, ac mae pennod 24 yn rhoi mwy o fanylion am anghydfodau ac anghytundebau.

6. Pa amddiffyniad mae'r Ddeddf yn ei gynnig i bobl sy'n darparu gofal neu driniaeth?

Mae adran 5 y Ddeddf yn caniatáu i ofalwyr a staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol gyflawni rhai tasgau penodol heb ofn atebolrwydd os byddant yn gweithredu er budd pennaf yr unigolyn o dan adran 4. Mae'r tasgau hyn yn ymwneud â gofal personol, gofal iechyd neu driniaeth pobl sydd â diffyg galluedd i gydsynio iddynt. Yr amcan yw rhoi cefnogaeth y gyfraith i weithredoedd y mae angen eu cyflawni er y budd pennaf i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd i gydsynio iddynt.

Mae'r bennod hon yn egluro sut mae'r Ddeddf yn rhoi amddiffyniad rhag atebolrwydd, sut mae'r amddiffyniad hwnnw'n gweithio'n ymarferol a lle mae terfyn neu gyfyngiad ar yr amddiffyniad. Mae hefyd yn esbonio pryd y gall gofalwr ddefnyddio arian rhywun i brynu nwyddau neu wasanaethau.

Yn y bennod hon, fel trwy'r Cod i gyd, mae galluedd unigolyn (neu ddiffyg galluedd) yn cyfeirio'n benodol at eu galluedd i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei wneud.

Crynodeb cyflym

Mae'r camau canlynol yn rhestru'r holl bethau y dylai pobl sy'n rhoi gofal neu driniaeth eu cofio er mwyn sicrhau eu bod wedi'u hamddiffyn gan y Ddeddf.

- Gweithredu mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth rhywun sydd â diffyg galluedd i gydsynio
- A yw'r weithred sydd i'w chyflawni'n gysylltiedig â gofal neu driniaeth unigolyn sydd â diffyg galluedd i gydsynio i'r weithred honno?
- Pwy sy'n cyflawni'r weithred? A yw'n briodol ac yn gymesur i'r unigolyn hwnnw wneud hynny ar yr adeg berthnasol?
- A yw'n golygu y bydd newidiadau mawr ym mywyd yr unigolyn o dan sylw? Os ydyw, bydd yn galw am ystyriaeth arbennig a bydd angen cofnodi'r penderfyniad.
- A ddylid gofyn i'r Llys wneud y penderfyniad?

Gwirio i weld a oes gan yr unigolyn y galluedd i gydsynio

- A gymerwyd pob cam posibl i helpu'r unigolyn i wneud penderfyniad drosto'i hun ynghylch y weithred?
- A ddefnyddiwyd y prawf galluedd?

- A oes sail resymol i gredu nad oes gan yr unigolyn y galluedd i roi caniatâd?

Gweithredu er y budd pennaf i'r unigolyn

- A ddefnyddiwyd rhestr wirio'r budd pennaf (gweler pennod 5) ac a ystyriwyd yr holl amgylchiadau perthnasol?
- A oes opsiwn llai cyfyngiadol ar gael?
- A yw'n rhesymol credu bod y weithred a gynigir er y budd pennaf i'r unigolyn.
- Deall y cyfyngiadau posibl ar amddiffyniad rhag atebolrwydd
- Os ystyrir defnyddio ataliad, a yw'n angenrheidiol i atal niwed i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd, ac a yw'n ymateb cymesur i'r tebygolrwydd y bydd yr unigolyn yn cael niwed – ac i ddifrifoldeb y niwed hwnnw?
- A ellid ystyried yr ataliad fel amddifadu rhywun o'i ryddid?
- A yw'r weithred yn mynd yn groes i benderfyniad a wnaed gan atwrnai neu ddirprwy o dan eu pwerau?

Talu am nwyddau a gwasanaethau angenrheidiol

- Os bydd rhywun yn dymuno defnyddio arian yr unigolyn i brynu nwyddau neu dalu am wasanaethau ar gyfer rhywun sydd â diffyg galluedd i wneud hynny eu hun, a yw'r nwyddau neu wasanaethau hynny'n angenrheidiol ac er y budd pennaf i'r unigolyn?
- Oes angen mynd ag arian o gyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu'r unigolyn neu werthu eiddo'r unigolyn i dalu am nwyddau neu wasanaethau? Os bydd, bydd yn rhaid cael awdurdod ffurfiol.

Pa amddiffyniad sydd gan bobl wrth ofalu am y rhai hynny sydd â diffyg galluedd i gydsynio?

- 6.1. Pob dydd, cyflawnir miliynau o weithredoedd ar ran pobl sydd â diffyg galluedd i naill ai:
 - gwneud penderfyniadau am eu gofal neu eu triniaeth eu hun, neu
 - gydsynio i rywun arall ofalu amdanynt.
- 6.2. Mae gweithredoedd o'r fath yn amrywio o dasgau gofal pob dydd (er enghraifft, helpu rhywun i ymolchi) i ddigwyddiadau tyngedfennol (er enghraifft, triniaeth feddygol ddifrifol neu drefnu i rywun fynd i gartref gofal).

- 6.3. Yn ddamcaniaethol, gallai llawer o'r gweithredoedd hyn fod yn erbyn y gyfraith. Yn gyfreithiol, mae gan bobl yr hawl i fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth²⁶, ac i atal eraill rhag ymyrryd â'u corff neu'u heiddo oni bai eu bod yn rhoi caniatâd²⁷. Ond beth fydd yn digwydd os nad oes gan rywun y galluedd i roi caniatâd? Gallai gofalwyr sy'n gwisgo pobl nad ydynt yn gallu gwisgo eu hun fod yn ymyrryd o bosibl â rhywun heb eu caniatâd felly, yn ddamcaniaethol, gellid eu herlyn am ymosod. Gallai cymydog sy'n mynd i mewn i dŷ rhywun sydd â diffyg galluedd i'w lanhau dresmasu ar eiddo'r unigolyn.
- 6.4. Mae Adran 5 y Ddeddf yn darparu 'amddiffyniad rhag atebolrwydd'. Mewn geiriau eraill, mae'n amddiffyn pobl sy'n cyflawni'r gweithredoedd hyn os byddant yn dilyn egwyddorion y Ddeddf yn gywir. Mae'n atal eu herlyn am weithredoedd y gellid eu hystyried fel arall yn gamwri sifil neu'n drosedd. Drwy amddiffyn gofalwyr teuluol a gofalwyr eraill rhag atebolrwydd, mae'r Ddeddf yn gadael i weithredoedd gofal neu driniaeth angenrheidiol ddigwydd fel pe bai'r unigolyn sydd â diffyg galluedd wedi cydsynio iddynt. Nid oes angen i'r bobl sy'n darparu gofal o'r fath gael awdurdod ffurfiol i weithredu.
- 6.5. Yn bwysig nid yw adran 5 yn rhoi i bobl sy'n trin neu'n gofalu am rywun arall y pŵer i wneud unrhyw benderfyniadau eraill ar ran y rhai sydd â diffyg galluedd i wneud eu penderfyniadau eu hun. Yn lle hynny, mae'n cynnig amddiffyniad rhag atebolrwydd fel y gallant weithredu mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth yr unigolyn. Gellir rhoi'r pŵer i wneud penderfyniadau ar ran rhywun sydd â diffyg galluedd drwy rannau eraill o'r Ddeddf (megis y pwerau a roddir i atwrneiod a dirprwyon, sydd wedi'u hesbonio ym mhenodau 8 a 9).
- 6.6. Os bydd pobl yn gweithredu mewn modd nad yw'n cydymffurfio ag adran 5 - er enghraifft wrth wneud penderfyniad neu gyflawni gweithred nad yw er y budd pennaf i'r unigolyn - yna mae'n bosibl y gallant fod yn atebol am unrhyw ganlyniadau.

Pa fath o weithredoedd y mae'n bosibl bod ganddynt amddiffyniad rhagatebolrwydd?

- 6.7. Mae adran 5(1) yn darparu amddiffyniad posibl ar gyfer gweithredoedd sydd wedi'u cyflawni mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth. Gellir cyflawni'r weithred ar ran rhywun a aseswyd ei fod heb alluedd i roi caniatâd i gyflawni'r weithred (lle rhoddwyd pob cymorth ymarferol i'w alluogi i wneud y penderfyniad yn aflwyddiannus) cyhyd ag y bo er y budd pennaf i'r unigolyn hwnnw (gweler pennod 5). Dylid cofnodi penderfyniadau (gweler paragraff 6.42-6.44). Nid yw'r Ddeddf yn diffinio 'gofal' neu 'driniaeth' y dylid rhoi eu hystyr arferol iddynt. Fodd bynnag, mae adran 64(1) yn egluro bod triniaeth yn cynnwys gweithdrefnau diagnostig neu weithdrefnau eraill. Mae hefyd yn cynnwys penderfyniad i dynnu neu wrthod triniaeth.
- 6.8. Mae rhai o'r gweithredoedd y gallai adran 5 eu cwmpasu yn cynnwys:

Gofal personol

- helpu i ymolchi, gwisgo neu hylendid personol
- helpu i fwyta ac yfed
- helpu i gyfathrebu

- helpu gyda symudedd (symud o gwmpas)
- helpu rhywun i gymryd rhan mewn addysg, gweithgareddau cymdeithasol neu hamdden
- mynd i gartref rhywun i adael eitemau a brynwyd neu i sicrhau eu bod yn iawn
- siopa neu brynu nwyddau angenrheidiol ag arian yr unigolyn (ond nid i gael mynediad i'w cyfrif banc, a fyddai'n gofyn am awdurdod cyfreithiol)
- trefnu gwasanaethau ar gyfer y cartref (er enghraifft, trefnu gwaith trwsio neu waith cynnal a chadw ar gyfer cyflenwadau nwy a thrydan)
- darparu gwasanaethau sydd o gymorth o gwmpas y cartref (fel gofal cartref neu bryd ar glud)
- ymgymryd â gweithredoedd sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal a chymorth (er enghraifft, gofal dydd, llety preswyl neu ofal nyrsio) - ond gweler hefyd baragraffau 6.10-6.19 isod

Gofal iechyd a thriniaeth

- cynnal archwiliadau a phroffon diagnostig (i ganfod salwch, cyflwr neu broblem arall)
- darparu triniaethau meddygol a deintyddol proffesiynol, a rhai tebyg
- rhoi meddyginiaeth
- mynd â rhywun i'r ysbyty i'w asesu neu i dderbyn triniaeth
- darparu gofal nyrsio (boed yn yr ysbyty neu yn y gymuned)
- cynnal unrhyw weithdrefnau meddygol eraill sy'n angenrheidiol (er enghraifft, cymryd sampl gwaed) neu therapiau (er enghraifft, ffisiotherapi neu driniaeth traed)
- darparu gofal mewn argyfwng.

6.9. Bydd unigolyn yn cael ei amddiffyn rhag atebolrwydd os eu bod:

- wedi cymryd camau rhesymol yn y lle cyntaf i sefydlu a yw'r unigolyn o dan sylw heb y galluedd i wneud y penderfyniad perthnasol;
- yn credu'n rhesymol bod yr unigolyn â diffyg galluedd;
- yn credu bod y ddeddf er y budd pennaf i'r unigolyn

6.10. Bydd beth yw camau rhesymol yn dibynnu ar y penderfyniad o dan sylw. Weithiau bydd yn gofyn i'r unigolyn wneud eu hasesiad eu hun a chymryd camau i gefnogi'r unigolyn. Mewn sefyllfaoedd eraill, bydd yn briodol i'r unigolyn ddibynnu ar asesiad a wneir gan rywun arall (gweler paragraff 6.52 ymlaen). Gall rhai gweithredoedd mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth achosi newidiadau mawr mewn bywyd gyda chanlyniadau arwyddocaol ar gyfer yr unigolyn o dan sylw. Mae'r rhai sy'n gofyn am ystyriaeth arbennig o ofalus yn cynnwys:

- newid preswylfa, efallai i mewn i gartref gofal neu gartref nyrsio
- atal cyswllt â phobl benodol
- prif benderfyniadau am ofal iechyd a thriniaeth feddygol
- rhoi meddyginiaeth 'gudd' neu driniaeth neu
- roi meddyginiaeth neu driniaeth yn erbyn dymuniadau unigolyn y gwyddys amdanynt.

6.11. Disgrifir y rhain yn y paragraffau canlynol. Bydd penderfyniadau o'r fath yn debygol o gynrychioli ymyrraeth ddifrifol â hawliau'r unigolyn o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Felly dylid paratoi cofnod manwl o'r penderfyniadau a wnaethpwyd i sicrhau bod y gwneuthurwr penderfyniadau wedi ystyried yr holl faterion angenrheidiol i fod yn gallu dibynnu ar yr amddiffyniad yn adran 5 y Ddeddf. Gweler paragraff 6.44 a phennod 5.

Newid preswylfa

6.12. Weithiau ni fydd rhywun yn gallu cael gofal digonol neu briodol yn eu cartref eu hun, ac efallai y bydd yn rhaid iddynt symud – efallai i fyw gyda pherthnasau neu i gartref gofal neu gartref nyrsio. Yn y lle cyntaf dylid cymryd camau i gefnogi'r unigolyn i wneud eu penderfyniad eu hun os oes ganddynt y galluedd i wneud hynny.

6.13. Os nad oes gan yr unigolyn y galluedd i gydsynio i symud, mae'n rhaid i'r gwneuthurwr (gwneuthurwyr) penderfyniadau ystyried yn gyntaf yr holl opsiynau sydd ar gael. Bydd yn rhaid iddynt ystyried p'un o'r rhain sydd er y budd pennaf i'r unigolyn (wrth gyfeirio at y rhestr wirio er y budd pennaf ym mhennod 5 ac yn arbennig ddymuniadau a theimladau'r unigolyn yn y gorffennol ac ar hyn o bryd, yn ogystal â barn pobl eraill berthnasol). Pan fydd yn gwneud hyn, mae'n rhaid i'r gwneuthurwr(gwneuthurwyr) penderfyniadau ystyried a oes dewis sy'n llai cyfyngiadol ar gael (gweler pennod 2, egwyddor 5) Gallai symud olygu amddifadu o ryddid. Mae Pennod 13 yn rhoi mwy o fanylion ar weithdrefnau Trefniadau Amddiffyn Rhyddid y mae'n rhaid eu dilyn mewn achosion o'r fath.

6.14. Dylai'r gwneuthurwr penderfyniad siarad â, lle bynnag y bo'n ymarferol:

- unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am yr unigolyn ar y pryd
- gofaluwr teuluol ac aelodau eraill o'r teulu sy'n agos at yr unigolyn ac yn ymddiddori yn eu lles
- eraill sy'n ymddiddori yn lles yr unigolyn
- unrhyw un y mae'r unigolyn wedi'i enwi'n flaenorol fel un y dylid ymgynghori ag ef
- atwrnai neu ddirprwy sydd wedi'i benodi'n gyfreithiol i wneud penderfyniadau penodol (am y gofal a/neu ei gyllid) ar eu rhan, ac
- unrhyw eiriolwr statudol sy'n cefnogi'r unigolyn, er enghraifft o dan Ddeddf Gofal 2014 #

6.15. Bydd rhai achosion yn gofyn am Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA). Bydd yr IMCA yn cynrychioli ac yn cefnogi'r unigolyn sydd â diffyg gallu a bydd yn darparu gwybodaeth er mwyn sicrhau y bydd y penderfyniad terfynol er y budd pennaf i'r unigolyn (gweler pennod 10). Bydd angen IMCA pan nad oes unrhyw un sy'n agos at yr unigolyn sydd â diffyg galluedd sy'n briodol neu ar gael i roi barn am yr hyn sydd orau iddynt, a bod:

- corff y GIG yn cynnig darparu triniaeth feddygol ddifrifol, neu
- gorff y GIG neu awdurdod lleol yn cynnig trefnu lle mewn ysbyty neu gartref gofal neu fath arall o lety tymor hwy ac
- y bydd yr unigolyn yn aros yn yr ysbyty am fwy nag 28 niwrnod, neu
- byddant yn aros mewn cartref gofal am fwy nag wyth wythnos.

6.16. Weithiau ni fydd y canlyniad terfynol fel yr oedd yr unigolyn sydd â diffyg gallu'n ei ddymuno. Er enghraifft, efallai y byddant am aros yn eu cartref, ond gallai'r rhai sy'n gwneud y penderfyniad drostynt benderfynu mai eu symud sydd er y budd pennaf

iddynt. Ym mhob achos, mae'n rhaid i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniad ystyried yn gyntaf unrhyw opsiynau eraill a allai gyfyngu'n llai ar hawliau a rhyddid yr unigolyn i weithredu (gweler pennod 2, egwyddor 5).

- 6.17. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl na fydd dewis arall heblaw symud yr unigolyn. Fel arfer byddai angen cael caniatâd ffurfiol gan yr unigolyn i'w symud os oedd y galluedd ganddynt i'w roi neu ei wrthod. Mewn achosion lle nad oes gan unigolyn y galluedd i gydsynio, gall adran 5 y Ddeddf ganiatáu i ofalwyr gyflawni gweithredoedd sy'n gysylltiedig â'i symud ar yr amod y gwneir hynny'n unol ag egwyddorion y Ddeddf a'r gofynion ar gyfer canfod yr hyn sydd er y budd pennaf i'r unigolyn.
- 6.18. Fodd bynnag, dylid ystyried a ddylid gwneud cais i'r Llys Gwarchod i benderfynu beth yw budd pennaf i'r unigolyn a lle y dylent fyw²⁸. Gall hyn fod yr achos er enghraifft os bydd anghytuno rhwng aelodau'r teulu nad oes modd ei ddatrys mewn unrhyw ffordd arall. Dylai unrhyw gais i'r llys gael ei wneud cyn symud, oni bai am amgylchiadau eithriadol.
- 6.19. Mae Adran 6 yn gosod cyfyngiadau pendant ar y defnydd o rym neu ataliad drwy bennu na cheir defnyddio ataliad (er enghraifft, i gludo'r unigolyn i'w gartref newydd) oni bai fod hynny'n angenrheidiol i ddiogelu'r unigolyn rhag niwed a'i fod yn ymateb cymesur i'r perygl o niwed (gweler paragraffau 6.69–6.75). Gallai unrhyw gamau a gymerir i symud yr unigolyn o dan sylw neu ei eiddo fod yn rhai sy'n achosi atebolrwydd os nad oes amddiffyniad ar eu cyfer o dan adran 5.

Cyfyngu ar gyswllt

- 6.20. Mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn angenrheidiol cyfyngu ar neu oruchwylio cyswllt rhwng yr unigolyn ac unigolyn arall neu gategori o bobl. Mewn rhai achosion, gall y cyfyngu neu oruchwylio hwnnw fod yn gydnaws â dymuniadau'r unigolyn (er enghraifft, efallai na fyddant yn dymuno gweld rhywun sydd wedi'u cam-drin yn flaenorol). Dylid cadw cofnod o pam y mae'r camau wedi'u cymryd a sut y maent yn gydnaws â dymuniadau'r unigolyn.
- 6.21. Mewn achosion eraill, gall cyswllt gael ei gyfyngu neu'i oruchwylio mewn amgylchiadau lle ei bod yn eglur bod yr unigolyn yn dymuno gweld yr unigolyn arall neu bobl. Mae hyn yn debygol o gynnwys ymyrryd â hawl yr unigolyn i barch am eu bywyd preifat a theuluol o dan Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac mae'n rhaid ei ystyried yn ofalus iawn bob amser (gweler paragraff 5.104). Mae'n rhaid i unrhyw ymyrraeth o'r fath fod yn angenrheidiol ac yn gymesur i'r risgiau y byddai'r unigolyn fel arall yn agored iddynt. Dylai'r cofnod a gedwir ddangos, yn arbennig, pa gamau llai ymwithiol y gellid fod wedi'u cymryd i ddiogelu buddiannau'r unigolyn.
- 6.22. Nid yw'n bosibl dibynnu ar y Trefniadau Diogelu Rhyddid i awdurdodi cyfyngiadau ar gyswllt. Y Llys Gwarchod yn unig all wneud penderfyniad ar ran unigolyn i beidio â gweld rhywun, ac mae cais i'r Llys Gwarchod yn debygol o fod yn angenrheidiol mewn unrhyw sefyllfa lle ceir amheuaeth neu anghytundeb am a yw'r cyfyngiad er y budd pennaf i'r unigolyn.

Penderfyniadau gofal iechyd a thriniaeth

6.23. Mae Adran 5 yn caniatáu i gamau gael eu gweithredu i sicrhau bod unigolyn sydd â diffyg galluedd i gydsynio'n derbyn triniaeth feddygol angenrheidiol. Gallai hyn gynnwys mynd â'r unigolyn i'r ysbyty ar gyfer triniaeth cleifion allanol neu drefnu cael eu derbyn i'r ysbyty. Hyd yn oed os bydd unigolyn sydd â diffyg galluedd i gydsynio yn gwrthwynebu'r driniaeth sy'n cael ei chynnig neu ei dderbyn i'r ysbyty, mae'n bosibl y byddai'r cam gweithredu'n cael ei ganiatáu o hyd o dan adran 5 (ond gweler paragraffau 6.25 a 6.30 isod).

Ceir terfynau am a ellir defnyddio grym neu ataliaeth i orfodi triniaeth (gweler paragraffau 6.75).

6.24. Bydd prif benderfyniadau gofal iechyd a thriniaeth angen ystyriaeth arbennig. Mae hyn hefyd yn cynnwys triniaeth yn erbyn dymuniadau unigolyn y gwyddys amdanynt a thriniaeth gudd. Oni bai bod penderfyniad o flaen llaw dilys a chymwys i wrthod y driniaeth benodol, mae'n rhaid i staff gofal iechyd ganfod yn ofalus yr hyn fyddai er y budd pennaf i'r unigolyn (gweler pennod 5). Fel rhan o'r broses o ganfod hyn, mae'n rhaid iddynt ystyried (lle y bo'n ymarferol ac yn gymwys):

- ddymuniadau a theimladau, credoau a gwerthoedd yr unigolyn sydd â diffyg galluedd yn y gorffennol ac ar hyn o bryd i wneud y penderfyniad ynghylch triniaeth, gan gynnwys unrhyw ddatganiad ymlaen llaw roedd yr unigolyn wedi'i ysgrifennu gan nodi'u dymuniadau pan oedd y galluedd ganddynt,
- barn unrhyw un a enwyd yn flaenorol gan yr unigolyn fel rhywun i ymgynghori ag ef,
- barn unrhyw un oedd yn ymwneud â gofalu am yr unigolyn,
- barn unrhyw un oedd yn ymddiddori yn eu lles, a
- barn unrhyw atwrnai neu ddirprwy a benodwyd ar gyfer yr unigolyn.

6.25. Mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod wedi meddwl yn ofalus ynghylch pwy i siarad â nhw. Os yw'n ymarferol ac yn briodol siarad â'r bobl uchod, mae'n rhaid iddynt wneud hynny ac ystyried eu barn.

6.26. Mae'n rhaid iddynt allu egluro pam nad oeddent wedi siarad ag unigolyn penodol pan y byddai'n ymddangos yn wrthrychol y dylid ymgynghori â'r person hwnnw. Mae'n arfer da i gael cofnod clir o'u rhesymau. Bydd methu ag ymgynghori â rhywun sy'n gwir ymddiddori yn lles yr unigolyn pan fo'n ymarferol ac yn briodol gwneud hynny'n golygu na all y gwneuthurwr penderfyniad ddibynnu ar yr amddiffyniad yn adran 5²⁹.

6.27. Mewn achosion penodol lle nad oes rhywun arall ar gael i ymgynghori ag ef am fudd pennaf yr unigolyn, mae'n rhaid penodi IMCA i gefnogi a chynrychioli'r unigolyn (gweler paragraff 6.15 uchod a phennod 10).

6.28. Mae'n rhaid i staff gofal iechyd hefyd ystyried a oes opsiynau triniaeth eraill a allai fod yn llai ymwithiol neu ataliol (gweler pennod 2, egwyddor 5). Wrth benderfynu am y ddarpariaeth, gwrthod neu dynnu triniaeth cynnal bywyd, mae'n rhaid bod unrhyw un sy'n canfod yr hyn sydd er y budd pennaf i'r unigolyn nad oes y galluedd ganddo i beidio â chael ei ysgogi gan ddymuniad i beri marwolaeth yr unigolyn (gweler pennod 5).

- 6.29. Gall cyfarfodydd aml-ddisgyblaeth weithiau fod yn ffordd ddefnyddiol i benderfynu ar fudd gorau unigolyn (gweler pennod 5 ynghylch pwy yw'r gwneuthurwr penderfyniadau). Gallent ddod â staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol at ei gilydd sydd â sgiliau gwahanol i drafod opsiynau'r unigolyn a dylent lle bo'n bosibl gynnwys y rhai hynny sydd agosaf at yr unigolyn o dan sylw. Ond bydd y cyfrifoldeb terfynol ynghylch penderfynu'r hyn sydd er y budd pennaf i'r unigolyn yn aros gydag aelod y staff gofal iechyd sy'n gyfrifol am driniaeth yr unigolyn.
- 6.30. Er nad yw penderfyniad i roi argymhelliad o Benderfyniad Peidio â Cheisio Adfywio Cardio-pwlmonaidd' (DNACPR) yng nghofnod yr unigolyn yn benderfyniad er budd pennaf yn hollol, dylai'r un egwyddorion fod yn berthnasol³⁰.

Senario: Penderfyniad Peidio â Cheisio Adfywio Cardio-pwlmonaidd' (DNACPR)

Roedd iechyd Ms R wedi dirywio ers peth amser, gan gynnwys problemau ysgyfaint ac arenau cronig, ac imiwnedd isel. Pan aeth yn dost iawn gyda haint ar y frest galwyd am ambiwlans gan ei thîm cymorth.

Derbyniwyd Ms R yn yr ysbyty. Yn feddygol nid oedd yn ymateb i driniaeth ac roedd yn glir i'w thîm cymorth nad oedd yn ymateb i'r bobl o'i chwmpas. Dangosodd profion gwaed bod ei chyflwr yn dirywio.

Cyfarfu ymgynghorydd Ms R â rheolwr ei thîm cymorth, ei gweithiwr cymdeithasol, eiriolwr, a'r nyrs anabled dysgu i wneud penderfyniad am ei gofal a'i thriniaeth. Nid oedd gan Ms R deulu agos a phan ymgynghorwyd â'i nith dywedodd nad oedd yn teimlo ei bod yn adnabod Ms R yn ddigon da i fod â rhan yn y penderfyniad.

Yr ymgynghorydd oedd y gwneuthurwr penderfyniad ac roedd yn ymwybodol er mwyn gwneud y penderfyniad hwn, roedd angen iddo siarad â phobl a oedd yn adnabod Ms R yn dda ac a allai esbonio'r hyn roeddent yn tybio y byddai hi'n dymuno iddo ddiwydd.

Esboniodd yr ymgynghorydd y gwahanol ganlyniadau ar gyfer Ms R, gan gynnwys os byddai'n gwella o'i haint ar y frest. Barn feddygol y meddyg oedd nad oedd Ms R yn debygol iawn o wella ac os byddai, byddai angen iddi aros yn yr ysbyty tan ddiwedd ei hoes, yn fwyaf tebygol mewn coma.

Roedd yr ymgynghorydd eisiau deall beth fyddai dymuniadau a'r hyn fyddai'n well gan Ms R mewn perthynas a'i gofal. Roedd ei rheolwr cymorth wedi siarad â'r tîm cymorth am hyn ac roedd pawb yn cytuno na fyddai Ms R eisiau aros yn yr ysbyty. Esboniodd y rheolwr cymorth a'r gweithiwr cymdeithasol hefyd pa mor anodd y bu'r misoedd diwethaf i Ms R wrth i'w chyflwr waethgu, gan gynnwys y pryderon amddiffyn a oedd wedi digwydd.

Yn dilyn trafodaeth hir i ddeall mwy am Ms R a'r hyn fyddai hi'n dymuno, penderfynodd yr ymgynghorydd i roi DNACPR ar waith ar gyfer Ms R.

Pryd dylid gofyn i'r llys wneud penderfyniad ynghylch gofal iechyd neu driniaeth?

- 6.31. Mewn rhai achosion, mae'n rhaid neu dylid gofyn i'r llys wneud y penderfyniad perthnasol, oherwydd heb graffu'r llys mae'n debygol na fydd gweithwyr proffesiynol meddygol yn gallu

dweud bod ganddynt gred resymol eu bod yn gweithredu er y budd pennaf i'r unigolyn fel eu bod yn cael eu hamddiffyn rhag atebolrwydd o dan adran 5³¹.

- 6.32. Yn arbennig, mae'n **rhaid** gofyn i'r llys wneud y penderfyniad ar ran yr unigolyn p'un ai cydsynio neu beidio i driniaeth feddygol cynnal bywyd lle, ar ddiwedd y broses gwneud penderfyniad a ddisgrifir ym mhennod 5 (gweler paragraff 5.59), mae'r penderfyniad wedi'i gydbwyso'n deg rhwng y ddau, mae gwahaniaeth mewn barn feddygol, neu ceir diffyg cytuno ynghylch y camau gweithredu a gynigir gan y rhai hynny sy'n ymddiddori yn lles yr unigolyn. Mae hyn yn cynnwys tynnu neu wrthod maeth a hydradu a gynorthwyir yn glinigol (CANH₃₂).
- 6.33. Mewn achosion sy'n cynnwys triniaeth nad yw'n cynnal bywyd, ond lle'r mae'r ffordd ymlaen wedi'i chydbwyso'n deg, ceir barn feddygol wahanol, neu ddiffyg cytundeb gan unigolion sy'n ymddiddori yn lles y claf, **dylid** gwneud cais i'r llys. Ceir eithriadau lle bydd yr unigolyn yn flaenorol wedi gwneud Atwrneiaeth Arhosol gan benodi atwrnai i wneud penderfyniad gofal iechyd o'r fath ar eu cyfer (gweler pennod 8) neu eu bod wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw dilys i wrthod y driniaeth a gynigir (gweler pennod 11).
- 6.34. Mae cais i'r Llys Gwarchod yn debygol o fod yn angenrheidiol os oes gwrthdaro buddiannau na ellir fel arall ei reoli'n briodol (gweler paragraff 5.59).
- 6.35. Dylai gweithwyr meddygol proffesiynol hefyd ystyried gofyn i'r llys benderfynu ar ran yr unigolyn mewn perthynas â thriniaeth feddygol a fydd yn cynnwys ymyrraeth ddifrifol gyda'u hawl i fywyd preifat (gan gynnwys eu hawl i ymreolaeth) a ddiogelir gan Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (gweler paragraff 5.104). Mae hyn fel y gall pawb sy'n bryderus ynghylch lles unigolyn gytuno ynghylch galluedd yr unigolyn a'r budd pennaf. Mae enghreifftiau o achosion o'r fath yn cynnwys:
- lle bydd gweithdrefn feddygol neu driniaeth ar gyfer prif fwriad sterileiddio;
 - lle bydd y weithdrefn i bwrpas rhoi organ, mêr esgyrn, bôn-gelloedd, meinwe neu hylif corfforol i rywun arall;
 - gweithdrefn ar gyfer mewnosod dyfais atal cenhedlu'n gudd neu fodd arall o atal cenhedlu;
 - defnyddio twyll i roi triniaeth feddygol i'r unigolyn;
 - lle y cynigir y gweithredir triniaeth arbrofol neu arloesol;
 - achos sy'n ymwneud â chwestiwn moesegol arwyddocaol mewn maes na phrofwyd neu ddadleuol o feddygaeth.
- 6.36. Mae pennod 7 yn rhoi mwy o wybodaeth am yr angen i atgyfeirio achosion i'r llys ar gyfer penderfyniad, ac mae pennod 24 yn cynnwys cytuno anghytundebau.

Penderfyniadau gofal iechyd a thriniaeth ar gyfer pobl 16-17 oed

- 6.37. Mae pennod 21 yn esbonio y gellir gwneud penderfyniad mewn perthynas â phobl 16 ac 17 oed sydd â diffyg galluedd mewn sawl achos naill ai wrth gyfeirio at y Ddeddf neu wrth

gyfeirio at Ddeddf Plant 1989 a gweithredu cyfrifoldeb rhieni. Gall gweithwyr proffesiynol felly ddewis pa drefn i'w gweithredu, ond dylent fod yn eglur ynghylch pa un maent yn ei defnyddio. Os byddant yn defnyddio'r Ddeddf, byddant yn gallu dibynnu ar adran 5 ar yr amod eu bod yn dilyn egwyddorion y Ddeddf yn gywir.

Pryd yr ystyrir gweithredoedd fel eu bod yn amddifadu unigolyn o'u rhyddid?

- 6.38. Mewn rhai amgylchiadau, gall trefniadau ynghylch gofal neu driniaeth yr unigolyn olygu amddifadu o ryddid. Gweler pennod 12 i gael mwy o wybodaeth am pan fydd y trefniadau'n golygu amddifadu o ryddid.
- 6.39. Dylai'r gwneuthurwr penderfyniadau bob amser ystyried gosod y trefniadau lleiaf cyfyngol yn eu lle, cyn bello ag y bo'n bosibl. Fodd bynnag, os bydd y trefniadau'n golygu, neu'n gallu golygu amddifadu o ryddid, dylid cychwyn y broses Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS). Nid yw adran 5 y Ddeddf yn rhoi amddiffyniad rhag gweithrediadau o'r fath. Mae Pennod 13 yn nodi gwybodaeth ynghylch sut i ofyn am awdurdodiad am amddifadu o ryddid.
- 6.40. Os bydd angen triniaeth ar yr unigolyn am anhwylder meddyliol a'i fod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ei gadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (MHA), gellir defnyddio naill ai'r LPS neu'r MHA i dderbyn neu gadw'r unigolyn yn yr ysbyty (gweler pennod 22).

Cadw cofnodion ac amddiffyn rhag atebolrwydd

- 6.41. Dylai unrhyw staff sy'n ymwneud â gofal unigolyn sydd â diffyg galluedd sicrhau y cedwir cofnod o'r broses o ganfod y budd pennaf ar gyfer yr unigolyn hwnnw am bob penderfyniad perthnasol. Bydd y math o gofnod a gedwir o'r broses o ganfod y budd pennaf i'r unigolyn ynghylch unrhyw benderfyniad yn dibynnu ar natur y penderfyniad. Dylid cadw cofnodion manwl priodol o benderfyniadau a wneir. Mae Pennod 5 yn cynnwys mwy o fanylion am hyn.
- 6.42. Ar gyfer penderfyniadau gofal iechyd a thriniaeth, bydd y cyfrifoldeb ynghylch penderfynu'r hyn sydd er y budd pennaf i'r unigolyn a chofnodi hyn gydag aelod y staff gofal iechyd sy'n gyfrifol am driniaeth yr unigolyn. Dylent gofnodi'u penderfyniad, sut y daethant i'r penderfyniad a'r rhesymau drosto yn nodiadau clinigol yr unigolyn. Cyhyd ag y byddant wedi cofnodi rhesymau gwrthrychol i ddangos bod y penderfyniad er y budd pennaf i'r unigolyn, ac y bodlonir gofynion eraill adran 5 y Ddeddf, amddiffynnir pob aelod o staff gofal iechyd sy'n cymryd camau gweithredu mewn cysylltiad â'r driniaeth benodol rhag atebolrwydd.
- 6.43. Lle bydd penderfyniadau'n cynrychioli ymyrraeth ddifrifol â hawliau'r unigolyn o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol³³ dylid gwneud cofnod manwl. Mae hyn i sicrhau bod y gwneuthurwr penderfyniadau wedi ystyried yr holl faterion angenrheidiol er mwyn gallu dibynnu ar yr amddiffyniad yn adran 5 y Ddeddf. Nodir manylion penderfyniadau y gallai hyn eu cynnwys a'r hyn y dylai cofnod o'r fath ei gynnwys ym mhennod 5.

Pwy sy'n cael ei amddiffyn rhag atebolrwydd gan adran 5?

6.44. Mae Adran 5 y Ddeddf yn fwyaf tebygol o effeithio ar:

- ofalwyr teuluol a mathau eraill o ofalwyr
- gweithwyr gofal
- staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol
- eraill a allai fod yn ymwneud â'r gofal, triniaeth neu gymorth o bryd i'w gilydd, ar gyfer unigolyn sydd â diffyg galluedd i gydsynio (er enghraifft, staff ambiwlans, gweithwyr tai, swyddogion yr heddlu a gweithwyr cymorth gwirfoddol)
- staff sy'n gofalu am bobl ifanc 16-17 oed mewn ysgolion arbennig preswyl a chartrefi plant.

6.45. Ar unrhyw adeg, mae'n debygol y bydd nifer o bobl yn cyflawni tasgau a gynhwysir gan adran 5 y Ddeddf. Nid yw adran 5 yn:

- rhoi mwy o hawliau i un na'r llall i gyflawni tasgau
- nodi pwy sydd â'r awdurdod i weithredu mewn enghraifft benodol
- caniatáu i rywun wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â phynciau ar wahân i ofal neu driniaeth yr unigolyn sydd â diffyg galluedd, neu
- ganiatáu i rywun gydsynio ar ran yr unigolyn sydd â diffyg galluedd i wneud hynny.

6.46. I gael amddiffyniad rhag atebolrwydd o dan adran 5, mae'n rhaid bod pob gweithred yn gysylltiedig â gofal neu driniaeth yr unigolyn sydd â diffyg galluedd i gydsynio. Cyn gweithredu, mae'n rhaid bod gofalwyr yn gyntaf yn credu'n rhesymol bod:

- yr unigolyn sydd â diffyg galluedd i wneud y penderfyniad penodol hwnnw ar yr adeg y mae angen ei wneud (lle rhoddwyd pob cymorth ymarferol i'w galluogi i wneud y penderfyniad heb lwyddo), a
- bod y weithred er y budd pennaf i'r unigolyn.

6.47. Esbonnir hyn ymhellach ym mharagraffau 6.52-6.62 isod.

Senario: Amddiffyn gofalwyr lluosog

Mae gan Mr R ddementia cynnar, ac mae'n byw yn ei gartref ei hun gyda help sawl un. Mae merch Mr R yn coginio ac yn dod â phrydau bwyd a siopa hanfodol iddo. Mae nyrs yn ymweld ag ef yn rheolaidd i newid y gorchudd ar friw pwyso, ac mae ffrind agos yn mynd â Mr R am dro'n rheolaidd, gan ei arwain pan fyddant yn croesi'r ffordd.

Mae gan Mr R y galluedd i wneud penderfyniadau am yr agweddau hyn o'i ofal, megis beth i'w gael i ginio, neu ble i fynd am dro, a phan y bydd y rhai hynny sy'n gofalu amdano'n gweithredu yn ôl ei ddymuniadau.

Weithiau fodd bynnag mae Mr R yn ddryslyd. Pan fydd ei ofalwyr wedi cymryd camau rhesymol i wirio a oes galluedd gan Mr R i wneud penderfyniad penodol, ac mae hyn yn arwain at y gred resymol nad oes ganddo'r gallu i benderfynu, maent yn gwneud y penderfyniad hwnnw er y budd pennaf iddo. Os byddant yn dilyn y camau hyn bydd pob un ohonynt yn cael eu hamddiffyn rhag atebolrwydd o dan adran 5 y Ddeddf.

- 6.48. Gall adran 5 hefyd amddiffyn gofalwyr y mae'n rhaid iddynt ddefnyddio arian yr unigolyn i dalu am nwyddau neu wasanaethau y mae eu hangen ar yr unigolyn ond nad oes ganddynt y galluedd i brynu drostynt eu hunain. Fodd bynnag, ceir rheolaethau llym ynghylch pwy all gael mynediad i arian rhywun arall. Gweler paragraffau 6.88-6.91 i gael mwy o wybodaeth.
- 6.49. Mae'n rhaid i ofalwyr sy'n darparu gwasanaethau gofal personol beidio â chynnal gweithdrefnau arbenigol sy'n cael eu gwneud fel arfer gan staff gofal iechyd wedi'u hyfforddi. Os bydd y weithred yn cynnwys triniaeth feddygol, y meddyg neu aelod arall o'r staff gofal iechyd sydd â chyfrifoldeb am y claf fydd y gwneuthurwr penderfyniadau y mae'n rhaid iddynt benderfynu a yw'r driniaeth a gynigir er y budd pennaf i'r unigolyn (gweler pennod 5). Gall meddyg ddirprwyo cyfrifoldeb i roi'r driniaeth i eraill yn y tîm clinigol y mae'r sgiliau neu'r arbenigedd priodol ganddynt. Gall pobl fydd yn gwneud mwy na'r hyn y mae eu profiad neu gymwysterau'n caniatáu beidio â chael eu hamddiffyn rhag atebolrwydd.

Cynllunio gofal, cymorth a thriniaeth

- 6.50. Gwneir penderfyniadau am ofal neu driniaeth unigolyn yn aml gan dîm aml-ddisgyblaethol (tîm o weithwyr proffesiynol sydd a sgiliau gwahanol sy'n cyfrannu at ofal rhywun - gweler pennod 4 ynghylch pwy yw'r gwneuthurwr penderfyniadau), wrth lunio cynllun gofal a chymorth gyda'r unigolyn. Dylai paratoi cynllun gofal a chymorth neu driniaeth bob amser gynnwys asesiad o allu'r unigolyn i gydsynio i'r camau gweithredu a gynhwysir yn y cynllun gofal a chymorth; cofnod o'r camau a gymerwyd i gefnogi'r unigolyn i wneud eu penderfyniad eu hun; a chadarnhad bod y camau gweithredu hynny wedi'u cytuno i fod er y budd pennaf i'r unigolyn. Gall staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol yna allu rhagdybio y bydd unrhyw gamau gweithredu a wneir ganddynt o dan y cynllun gofal a chymorth er y budd pennaf i'r unigolyn, ac felly maent yn derbyn amddiffyniad rhag atebolrwydd o dan adran 5. Ond bydd angen adolygu galluedd a budd pennaf unigolyn o hyd a'u cofnodi'n rheolaidd.

Pa gamau ddylai pobl eu cymryd i amddiffyn eu hun rhag atebolrwydd?

- 6.51. Yn ogystal â chymryd y camau canlynol, dylai rhywun sy'n dymuno cael ei amddiffyn rhag atebolrwydd bob amser gofio'r egwyddorion statudol a nodir yn adran 1 y Ddeddf (gweler pennod 2).
- 6.52. Yn gyntaf, mae'n rhaid cymryd camau rhesymol i ganfod a oes gan yr unigolyn y galluedd i wneud penderfyniad am y weithred a gynigir (adran 5(1)(a)). Os bydd galluedd gan yr unigolyn, mae'n rhaid iddynt roi eu cydsyniad i unrhyw un weithredu ar eu rhan, fel bod yr unigolyn sy'n gweithredu'n cael ei amddiffyn rhag atebolrwydd. I gael canllawiau ar yr hyn a nodir fel 'camau rhesymol', gweler paragraffau 6.9-6.10. Mae'n rhaid i'r camau hyn bob amser gynnwys:
- cymryd pob cam ymarferol a phriodol i helpu pobl i wneud penderfyniad am weithred eu hunain, a
 - defnyddio'r prawf galluedd (gweler pennod 4).
- 6.53. Bydd yn rhaid fod gan yr unigolyn sydd yn mynd i weithredu 'gred resymol' nad oes galluedd gan yr unigolyn i gydsynio ynghylch y weithred ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad.
- 6.54. Yn ail, bydd yn rhaid fod gan yr unigolyn sy'n cynnig gweithredu resymau rhesymol dros gredu bod y weithred er y budd pennaf i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd. Dylent ddefnyddio pob elfen o'r rhestr wirio budd pennaf (gweler pennod 5), ac yn arbennig:
- ystyried a yw'r unigolyn yn debygol o adennill y galluedd i wneud y penderfyniad hwn yn y dyfodol. Ydy'r weithred yn gallu aros tan hynny?
 - ystyried a oes opsiwn llai cyfyngol ar gael (pennod 2, egwyddor 5), a
 - bod ganddynt resymau gwrthrychol dros feddwl bod gweithred er y budd pennaf i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd i gydsynio iddi.

Beth sy'n 'rhesymol'?

- 6.55. Nid oes rhaid i ofalwyr fod yn arbenigwyr mewn asesu galluedd. Ond mae'n rhaid eu bod yn gallu dangos eu bod wedi cymryd *camau rhesymol* i ganfod a oes galluedd gan yr unigolyn i wneud y penderfyniad penodol. Ar yr adeg honno'n unig bydd ganddynt *resymau rhesymol dros gredu* nad oes gan yr unigolyn alluedd mewn perthynas â'r mater arbennig hwnnw. Gweler paragraffau 4.62–4.69 i gael canllawiau ynghylch yr hyn a nodir fel 'rhesymol' – er y bydd hyn yn amrywio, gan ddibynnu ar amgylchiadau³⁴.
- 6.56. Fel yr esboniwyd ym mhennod 4, mae'n rhaid i unrhyw un sy'n asesu galluedd unigolyn i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain ganolbwyntio'n llwyr ar a oes gan yr unigolyn y galluedd i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei wneud ac nid galluedd yr unigolyn i wneud penderfyniadau'n gyffredinol.

- 6.57. Y rhan fwyaf o'r amser, mae'n annhebygol y bydd angen prosesau asesu ffurfiol. Ond mewn rhai amgylchiadau, dylid cynnal gweithdrefnau ffurfiol (er enghraifft, lle bo angen cydsynio i driniaeth feddygol, bydd angen i'r meddyg asesu a chofnodi galluedd yr unigolyn i gydsynio). O dan adran 5, amddiffynnir gofawyr a gweithwyr proffesiynol rhag atebolrwydd cyhyd ag eu bo'n gallu rhoi rhesymau gwrthrychol sy'n esbonio pam eu bod yn credu nad oes gan yr unigolyn alluedd i gydsynio i'r weithred. Os bydd rhywun yn herio'u cred, amddiffynnir gofawyr yn ogystal â gweithwyr proffesiynol rhag atebolrwydd cyhyd ag y bônt yn gallu dangos eu bod wedi cymryd camau i ganfod a oes galluedd gan yr unigolyn a bod ganddynt gred resymol nad oes galluedd gan yr unigolyn.
- 6.58. Yn yr un modd, mae'n rhaid bod gan ofalwyr, perthnasau ac eraill sy'n ymwneud â gofalu am rywun y mae diffyg galluedd ganddo, *resymau rhesymol dros gredu* bod eu gweithredu er y budd pennaf i'r unigolyn. Mae'n rhaid iddynt beidio â gorfodi eu barn eu hun. Mae'n rhaid iddynt allu dangos eu bod wedi ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol ac wedi defnyddio'r rhestr wirio budd pennaf. Mae hyn yn cynnwys dangos eu bod wedi ceisio cynnwys yr unigolyn sydd â diffyg galluedd, a chanfod eu dymuniadau a theimladau, credoau a gwerthoedd. Mae'n rhaid eu bod hefyd wedi gofyn am farn eraill, lle y bo'n ymarferol a phriodol. Os bydd rhywun yn herio'u penderfyniad, byddant yn cael eu hamddiffyn rhag atebolrwydd os byddant yn gallu dangos ei bod yn rhesymol iddynt gredu bod eu gweithred er y budd pennaf i'r unigolyn - ymhob amgylchiad yr achos penodol hwnnw. Gweler paragraff 6.42-6.44 a phennod 5 i gael canllawiau ar gyfer cofnodi'r penderfyniadau hyn.
- 6.59. Os bydd staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cynnwys, bydd eu sgiliau a gwybodaeth yn effeithio ar yr hyn a nodir fel 'rhesymol'. Er enghraifft, mae asesu galluedd yn sgil glinigol graidd, felly bydd disgwyl i feddyg sy'n asesu galluedd rhywun gydsynio i driniaeth ddangos fwy o sgil na rhywun heb hyfforddiant meddygol (gweler paragraff 4.63). Dylent hefyd gofnodi yng nghofnod gofal iechyd yr unigolyn y camau a gymerwyd ganddynt a'r rhesymau am y canfyddiad. Dylai staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol ddefnyddio safonau proffesiynol a chlinigol arferol wrth benderfynu pa driniaethau i'w cynnig. Bydd yn rhaid iddynt benderfynu wedyn a yw'r driniaeth a gynigir er y budd pennaf i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd i gydsynio. Mae hyn yn cynnwys ystyried pob amgylchiad perthnasol a defnyddio'r rhestr wirio budd pennaf (gweler pennod 5)35.
- 6.60. Gellir dweud bod gan staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol 'resymau rhesymol dros gredu' nad oes galluedd gan unigolyn os:
- eu bod yn gweithio i gynllun gofal, cymorth neu driniaeth unigolyn, a
 - bod y broses cynllunio wedi cynnwys asesiad o allu'r unigolyn i wneud penderfyniad am gamau gweithredu yn y cynllun.

Senario: Gweithio gyda chynllun gofal a chymorth

Mae gan Ms M anableddau corfforol ac anghenion iechyd meddwl cymhleth. Mae'n byw mewn cartref nyrsio ac mae'r tîm aml-ddisgyblaethol wedi paratoi cynllun gofal a chymorth iddi, mewn ymgynghoriad â'i pherthnasau. Mae'r cynllun gofal a chymorth yn cynnwys y feddyginiaeth a ragnodwyd i Ms M, y ffisiotherapi sydd ei angen arni, help gyda'i gofal personol a gweithgareddau therapiwtig a argymhellwyd megis therapi celf.

Er y gwnaethpwyd ymdrechion i gynnwys Ms M yn y broses cynllunio gofal, aseswyd hi gan y meddyg a oedd yn gyfrifol am ei gofal ei bod â diffyg galluedd i gydsynio i'r rhan fwyaf o agweddau'i chynllun gofal a chymorth. Dibynnir ar y cynllun gofal a chymorth felly gan y nyrs neu gynorthwy-ydd gofal sy'n rhoi'r feddyginiaeth, gan y ffisiotherapydd a therapydd celf, a hefyd gan y cynorthwy-ydd gofal sy'n helpu Ms M gyda'i gofal personol. Mae'n rhoi rhesymau rhesymol iddynt dros gredu eu bod yn gweithredu er y budd pennaf iddi.

Fodd bynnag, wrth i bob gweithred gael ei gweithredu, mae'r bobl broffesiynol hyn i gyd yn cymryd camau rhesymol i gyfathrebu â Ms M i esbonio'r hyn maent yn ei wneud a chanfod a oes ganddi'r galluedd i gydsynio'r i'r weithred o dan sylw ar yr adeg honno. Os byddant yn credu ei bod, mae'n rhaid iddynt gael cydsyniad Ms M ar gyfer y gofal neu'r driniaeth cyn gweithredu.

- 6.61. Mae hefyd yn rhesymol iddynt dybio bod y broses cynllunio gofal wedi asesu'r hyn sydd er y budd pennaf i unigolyn. Ond mae'n rhaid iddynt barhau i wneud pob ymdrech i gyfathrebu â'r unigolyn i ganfod os nad oes galluedd ganddynt o hyd a bod y weithred yn parhau er y budd pennaf iddynt.

Beth sy'n digwydd mewn sefyllfaoedd brys?

- 6.62. Weithiau bydd angen gofal brys neu driniaeth feddygol frys ar bobl sydd â diffyg galluedd i gydsynio i arbed eu bywyd neu eu hatal rhag niwed difrifol. Yn y sefyllfaoedd hyn, bydd y camau sy'n 'rhesymol' yn gwahaniaethu i'r rhai mewn achosion nad ydynt yn rhai brys. Mewn achosion brys, bydd bron bob amser er y budd pennaf i unigolyn roi triniaeth frys heb oedi. Un eithriad i hyn yw pan fydd y staff gofal iechyd sy'n rhoi triniaeth yn fodlon bod penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth (gweler paragraff 6.65).
- 6.63. Gall gofal neu driniaeth frys olygu yr amddifadir rhyddid yr unigolyn a gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am hyn ym mhennod 12.

Beth yw effaith penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

- 6.64. Weithiau bydd pobl yn gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth tra bod y galluedd ganddynt i wneud hynny a chyn fod angen y driniaeth benodol honno arnynt. Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol gofal iechyd barchu'r penderfyniad hwn os yw'n ddilys ac yn berthnasol i'r driniaeth a gynigir.
- 6.65. Os bydd staff gofal iechyd yn fodlon bod penderfyniad ymlaen llaw yn ddilys ac yn gymwys i'r driniaeth a gynigir, nid ydynt wedi'u hamddiffyn rhag atebolrwydd os byddant yn rhoi

unrhyw driniaeth sydd yn mynd yn ei erbyn. Ond maent yn cael eu hamddiffyn rhag atebolwydd os nad oeddent yn gwybod am benderfyniad ymlaen llaw neu nad ydynt yn fodlon bod y penderyfniad ymlaen llaw yn ddilys ac yn gymwys yn yr amgylchiadau presennol (Adran 26(2)) Gweler pennod 11 i gael canllawiau pellach.

Pa derfynau sydd ar amddiffyn rhag atebolwydd?

- 6.66. Mae adran 6 yn gosod rhai cyfyngiadau pwysig ar weithredoedd y gellir eu gweithredu gydag amddiffyniad rhag atebolwydd o dan adran 5 (fel a ddisgrifiwyd yn rhan gyntaf y bennod hon). Y meysydd allweddol lle mae'n bosibl na fyddai gweithredoedd yn cael eu hamddiffyn rhag atebolwydd yw lle ceir defnyddio ataliaeth yn amhriodol neu lle mae unigolyn sydd â diffyg galluedd yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid heb awdurdodiad.
- 6.67. Hefyd, ni fydd neu ni all adran 5 roi amddiffyniad yn yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 5.59, lle bydd angen cais i'r Llys Gwarchod.

Defnyddio ataliaeth

- 6.68. Mae adran 6(4) y Ddeddf yn datgan bod rhywun yn defnyddio ataliaeth os byddant yn defnyddio grym - neu'n bygwth defnyddio grym - i orfodi rhywun i wneud rhywbeth eu bod yn ei wrthwynebu, neu atal rhyddid symudiad rhywun, p'un ai eu bod yn gwrthwynebu ai peidio.
- 6.69. Ni fydd unrhyw weithred i atal rhywun sydd â diffyg galluedd yn sicrhau amddiffyn rhag atebolwydd oni bai y bodlonir y ddwy amod ganlynol:
- bydd yn rhaid i'r unigolyn sy'n gweithredu gredu'n rhesymol bod yr ataliaeth yn *angenrheidiol* i atal *niwed* i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd, ac
 - mae'n rhaid i faint neu'r math o ataliaeth a ddefnyddir a'r amser mae'n para fod yn *ymateb cymesur* i debygolrwydd a difrifoldeb y niwed.
- 6.70. nGweler paragraffau 6.75-6.80 i gael esboniad pellach o'r termau *angenrheidiol*, *niwed* ac *ymateb cymesur*.
- 6.71. Dylai staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol hefyd gyfeirio at:
- Ganllawiau penodol ar gyfer plant a phobl ifanc yn Lloegr³⁶ a Chymru
 - Canllawiau proffesiynol perthnasol a chanllawiau eraill ar ataliaeth neu ymyrraeth gorfforol
 - cyfyngiadau a osodir gan reoliadau a safonau, megis y safonau sylfaenol ar gyfer y gwasanaethau gofal (gweler pennod 14).
- 6.72. Yn ogystal â'r Ddeddf, mae'r gyfraith gyffredin yn caniatáu i gamau angenrheidiol a chymesur gael eu cymryd i atal y risg uniongyrchol o niwed difrifol i rywun arall. Dylai ataliaeth i'r dibenion hyn gael ei defnyddio bob amser am y cyfnod byrraf posibl i alluogi'r sefyllfa i dawelu. Dylid ystyried pa fframweithiau cyfreithiol sydd ar gael i fynd i'r afael â'r sefyllfa (er enghraifft, asesiad ar gyfer derbyn i'r ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983³⁸(gweler paragraffau 6.39–6.41).

- 6.73. Mewn rhai achosion, gall gweithred o ataliaeth barhaus ddod yn amddifadu o ryddid. Gweler pennod 14 i gael gwybodaeth bellach.

Pryd gallai'r ataliaeth fod yn 'angenrheidiol'?

- 6.74. Mae'n rhaid bod gan unrhyw un sy'n ystyried defnyddio ataliaeth resymau gwrthrychol i gyfiawnhau bod yr ataliaeth yn angenrheidiol. Mae'n rhaid eu bod yn gallu dangos bod yr unigolyn y gofalir amdano'n debygol o ddioddef niwed oni bai y defnyddir ataliaeth gymesur. Mae'n rhaid i ofalwr neu weithiwr proffesiynol beidio â defnyddio ataliaeth fel y gallant wneud rhywbeth yn haws. Os bydd angen ataliaeth i atal niwed i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd, mae'n rhaid defnyddio'r grym lleiaf am yr amser byrraf posibl. Mae llai o debygolrwydd y bydd ataliaeth yn angenrheidiol pan ddilynir egwyddorion yr MCA a cheir dealltwriaeth go iawn o ddymuniadau, teimladau, credoau a gwerthoedd yr unigolyn.

Senario: Defnyddio ataliaeth yn briodol

Mae anableddau dysgu gan Mr D ac mae wedi dechrau ymddwyn mewn ffordd heriol. Mae staff yn ei gartref gofal yn meddwl bod cyflwr meddygol ganddo o bosibl sy'n achosi gofid iddo. Maent yn mynd ag ef at y meddyg, sy'n archwilio Mr D ac mae'n meddwl gall fod ganddo anghydbwysedd yn yr hormonau. Mae angen i'r meddyg gymryd prawf gwaed i gadarnhau hyn.

Mae Mr D yn gyfforddus ynghylch bod yn ystafell ymgynghori'r meddyg a siarad ag ef a'i ofalwr. Mae'r meddyg a gofalwyr Mr D yn esbonio wrth Mr D mewn iaith syml pam bod angen i'r meddyg gymryd y sampl gwaed, a'r hyn fydd yn digwydd. Mae hyn er mwyn cymryd pob cam rhesymol i gynorthwyo Mr D i wneud y penderfyniad i gael y prawf. Fodd bynnag, mae'r meddyg yn casglu o ymddygiad Mr D nad oes ganddo'r galluedd i ddeall pam bod angen y prawf a gwneud y penderfyniad. Mae'r meddyg yn penderfynu bod cael y prawf er y budd pennaf i Mr D, oherwydd (er y gallai'r prawf fod yn negyddol) byddai methu â thrin problem megis anghydbwysedd yn yr hormonau yn ei gwneud yn waeth.

Pan fydd y meddyg yn ceisio cymryd y sampl gwaed mae Mr D yn ofnus ac yn ceisio ei ymladd i ffwrdd. Mae'r meddyg yn penderfynu ei bod er y budd pennaf i Mr D gael ei atal am ychydig er mwyn cael y sampl gwaed wedi'i gymryd. Mae felly'n gofyn am gymorth dau gydweithiwr sydd wedi'u hyfforddi mewn dal claf yn effeithiol ar gyfer prawf gwaed mewn ffordd sy'n achosi cyn lleied o ofid â phosibl. Yn y modd hwn, a gyda gofalwyr Mr D yn siarad ag ef i dawelu ei feddwl cymaint â phosibl trwy gydol y weithdrefn, mae Mr D yn cael ei atal yn ddiogel am yr amser lleiaf posibl sydd ei angen i gymryd y sampl gwaed.

Mae'r ataliaeth dros dro'n gymesur a'r niwed tebygol a achosir wrth fethu â thrin y cyflwr meddygol posibl.

Beth yw 'niwed'?

- 6.75. Nid yw'r Ddeddf yn diffinio 'niwed' oherwydd y bydd yn amrywio gan ddibynnu ar y sefyllfa. Er enghraifft, gallai rhywun ag anableddau dysgu redeg i mewn i ffordd brysur heb rybudd,

os na fyddant yn deall peryglon ceir, neu gallai rhywun â dementia grwydro o'u cartref a mynd ar goll, os na fyddant yn gallu cofio ble maent yn byw.

- 6.76. Gall mesurau synnwyr cyffredin yn aml helpu i dynnu risg niwed (er enghraifft, wrth gloi cemegau gwenwynllyd i ffwrdd neu dynnu rhwystrau). Hefyd, dylai cynllunio gofal gynnwys asesiadau risg a nodi camau gweithredu priodol i geisio atal risgiau posibl. Ond mae'n amhosibl tynnu pob risg, a bydd angen ymateb cymesur pan fydd y risg o niwed yn digwydd.

Beth yw 'ymateb cymesur'?

- 6.77. Mae 'ymateb cymesur' yn golygu defnyddio ataliaeth o'r math lleiaf cyfyngol a'r lleiaf posibl i gyflawni canlyniad penodol er y budd pennaf i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd. Weithiau pan all fod yn angenrheidiol defnyddio grym, dylai gofalwyr a staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol ddefnyddio'r lleiafswm grym am yr amser byrraf posibl.
- 6.78. Er enghraifft, efallai bydd angen i ofalwr ddal braich rhywun tra'n croesi'r ffordd os nad yw'r unigolyn yn deall peryglon ffyrdd. Ond ni fyddai'n ymateb cymesur i atal yr unigolyn rhag mynd allan o gwbl. Gall fod yn briodol cael clo diogel ar ddrws sy'n wynebu ffordd brysur, ond ni fyddai'n ymateb cymesur i gloi rhywun mewn ystafell wely'r holl amser i'w hatal rhag ceisio croesi'r ffordd.

Senario: Osgoi defnyddio ataliaeth

Mae gan Mr U anabledd dysgu ac mae'n mynychu'r coleg. Mae'n dweud ei fod yn mwynhau ei amser yn y coleg a'i fod yn dysgu sgiliau newydd. Fodd bynnag ar brydiau mae'n ymddwyn yn ymosodol tuag at eraill a'i hun, weithiau'n bwrw wal ac yn niweidio'i hun.

Mae gweithiwr cymorth Mr U yn aros gydag ef yn y coleg, i'w gynorthwyo. Mae hyn yn cynnwys pan fydd ymddygiad Mr U yn heriol. Mae'r gweithiwr cymorth wedi'i hyfforddi i ddefnyddio technegau tawelu, ac ar adegau i atal Mr U yn gorfforol, os yw mewn risg o niweidio'i hun, eraill neu risg sylweddol i'r amgylchedd.

Er mwyn rheoli'r risgiau hyn a lleihau'r angen am ataliaeth, mae'r gweithiwr cymorth a'r tîm cymunedol yn gweithio gyda Mr U ar gynllun ymddygiad cadarnhaol i nodi a deall y sbardunau sy'n arwain at ei or-bryder ac ymddygiad ymosodol dilynol. Me hyn hefyd yn cynnwys annog Mr U i ddatblygu strategaethau hunan-reolaeth.

Trwy waith parhaus gyda Mr U, credir bod ei ymddygiadau heriol yn gysylltiedig â phryder a rhwystredigaeth. Mae ei weithiwr cymorth yn gweithio gyda'r coleg i roi strategaethau yn eu lle i leihau'r amgylcheddau swmllyd ac anrhagweladwy sy'n achosi pryder iddo. Mae Mr U a'i weithiwr cymorth yn gweithio gyda'i gilydd i gynyddu ei ymwybyddiaeth o'i bryder ac yn defnyddio iaith arwyddion neu gymhorthion gweledol fel pan fydd yn canfod ei fod yn teimlo'n bryderus, gall gymryd amser i ymdawelu. Mae'r cynllun wedi'i nodi ar bapur fel y gall pob aelod o dîm y coleg gynorthwyo Mr U wrth adnabod ei dechnegau i reoli'i bryder.

Yn y modd hwn mae cynllun ymddygiad cadarnhaol Mr U yn lleihau'r tebygolrwydd o ymddygiad heriol a'r angen am ataliaeth

- 6.79. Dylai gofalwyr a staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol ystyried opsiynau llai cyfyngol cyn defnyddio ataliaeth. Lle y bo'n bosibl, dylent ofyn i bobl eraill sy'n ymwneud â gofal yr unigolyn pa gamau gweithredu sydd eu hangen i amddiffyn yr unigolyn rhag niwed.

Esgeuluster

- 6.80. Nid yw adran 5 yn darparu amddiffyniad mewn achosion o esgeuluster - naill ai mewn gweithredu gweithred benodol neu wrth fethu â gweithredu lle y bo angen. Er enghraifft, mae'n bosibl yr amddiffynnir meddyg rhag hawliad curo am gynnal llawdriniaeth sydd er y budd pennaf i rywun. Ond os byddant yn cynnal y llawdriniaeth yn esgeulus, nid ydynt yn cael eu hamddiffyn rhag cyhuddiad o esgeuluster. Felly mae gan yr unigolyn sydd â diffyg galluedd yr un hawliau mewn achosion o esgeuluster â rhywun sydd wedi cydsynio i'r driniaeth.

Sut bydd adran 5 yn gymwys ar gyfer atwrneiod a dirprwyon?

- 6.81. Nid yw adran 5 yn rhoi amddiffyniad rhag gweithrediadau sydd yn mynd yn erbyn penderfyniad rhywun a awdurdodwyd i wneud penderfyniadau dros rhywun sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau o'r fath drostynt eu hunain. Er enghraifft, os bydd rhywun yn mynd yn erbyn penderfyniad atwrnai sy'n gweithredu o dan Atwrneiaeth Arhosol (LPA) (gweler pennod 8) neu ddirprwy a benodir gan y Llys Gwarchod (gweler pennod 9), ni fyddant yn cael eu hamddiffyn o dan adran 5.
- 6.82. Mae'n rhaid i atwrneiod a dirprwyon wneud penderfyniadau'n unig o fewn cwmpas awdurdod yr LPA neu orchymyn llys. Weithiau gall gofalwyr neu staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol deimlo bod atwrnai neu ddirprwy'n gwneud penderfyniadau na ddylent eu gwneud, neu nad ydynt er y budd pennaf i unigolyn. Os mai dyma'r achos, ac ni ellir datrys yr anghytundeb mewn unrhyw ffordd arall, mae'n rhaid i naill ai'r gofalwyr, y staff neu'r atwrnai neu ddirprwy wneud cais i'r Llys Gwarchod cyn gweithredu. Os bydd yr anghydfod yn ymwneud â darpariaeth triniaeth feddygol, gall staff meddygol barhau i roi triniaeth cynnal bywyd, neu driniaeth sy'n atal cyflwr unigolyn rhag gwaethygu'n sylweddol, tra bod y llys yn dod i benderfyniad (adran 6(6)).

Pwy sy'n gallu talu am nwyddau a gwasanaethau?

Cytundebau am nwyddau a gwasanaethau angenrheidiol

- 6.83. Pryd bynnag y bydd rhywun yn cytuno prynu nwyddau neu wasanaethau, ffurfir cytundeb. Gall cytundebau o'r fath gynnwys materion pob dydd, megis prynu dillad mewn siop neu drefnu bod pryd ar glud yn cael ei ddanfôn. Yn gyffredinol, ni ellir gorfodi cytundeb a wneir gan rywun sydd â diffyg galluedd i wneud y cytundeb os bydd yr unigolyn arall yn gwybod, neu yr ystyrir ei fod yn gwybod, am y diffyg galluedd³⁹. Mae adran 7 y Ddeddf yn addasu'r rheol hon ac yn datgan lle y bo nwyddau neu wasanaethau 'angenrheidiol' yn cael eu cyflenwi i rywun sydd â diffyg galluedd i fod yn rhan o'r cytundeb, mae'n rhaid i'r unigolyn hwnnw dalu pris rhesymol amdanynt.

Beth yw nwyddau a gwasanaethau angenrheidiol?

- 6.84. Mae 'angenrheidiol' yn golygu rhywbeth sy'n addas i gyflwr yr unigolyn mewn bywyd (eu lle mewn cymdeithas, yn hytrach na chyflwr meddyliol neu gorfforol) a'u gofynion go iawn pan ddarperir y nwyddau neu'r gwasanaethau (adran 7(2)). Y nod yw sicrhau y bydd pobl sy'n colli galluedd i wneud penderfyniadau yn gallu mwynhau safon debyg o fyw a ffordd o fyw i'r rhai oedd ganddynt cyn colli galluedd. Er enghraifft, os oedd unigolyn sydd nawr â diffyg galluedd wedi penderfynu prynu dillad dylunydd drud yn flaenorol, mae'r rhain yn parhau'n nwyddau angenrheidiol - cyhyd â'u bod yn gallu eu fforddio. Ond ni fyddant yn angenrheidiol ar gyfer rywun a oedd bob amser yn gwisgo dillad cyllideb, waeth pa mor gyfoethog bynnag roeddent.
- 6.85. Nid yw nwyddau'n angenrheidiol os oes gan yr unigolyn gyflenwad digonol ohonynt. Er enghraifft, efallai y bydd yn angenrheidiol ar gyfer rhywun sydd â diffyg galluedd i brynu un neu ddau bâr o esgidiau newydd. Ond ni fyddai dwsin o barau'n debygol o fod yn angenrheidiol.

Sut dylid trefnu taliadau?

- 6.86. Lle y bo unigolyn y mae diffyg galluedd ganddo wedi cytundebu ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau angenrheidiol, gofynnir i'w dirprwy neu atwrnai ar gyfer eiddo a materion dalu unrhyw arian sy'n ddyledus o dan y cytundeb ar ran yr unigolyn. Os nad oes gan yr unigolyn ddirprwy neu atwrnai ar gyfer eiddo a materion, gallai rhywun arall sydd ag arian sy'n berchen i'r unigolyn hwnnw (megis penodai) wneud y taliad ar eu rhan. Os nad oes neb a all wneud y taliad ar ran yr unigolyn sydd â diffyg galluedd, gall fod yn angenrheidiol gwneud cais i'r Llys Gwarchod i benodi dirprwy ar gyfer eiddo a materion i ddelio â'r taliad.

Gwariant mewn cysylltiad â gofal a thriniaeth

- 6.87. Weithiau gall gweithred mewn perthynas â gofal neu driniaeth unigolyn sydd â diffyg galluedd olygu gwariant. Er enghraifft, gallai gofalwr brynu bwyd ar ran yr unigolyn sydd â diffyg galluedd neu drefnu bod ciropodydd neu driniwr gwallt yn darparu gwasanaeth yng nghartref yr unigolyn. Mae adran 8 y Ddeddf yn cynnwys rheolau sy'n ymwneud â thalu am wariant o'r fath. Fodd bynnag, mae'r rheolau hyn yn gymwys lle bydd y weithred o dan sylw yn cael ei chynnwys gan adran 5 y Ddeddf.
- 6.88. Mae'n rhaid i'r gofalwr yn y lle cyntaf gymryd camau rhesymol i benderfynu a yw'r unigolyn â diffyg galluedd i wneud y penderfyniad neu i weithredu ar eu rhan eu hunain. Os felly, mae'n rhaid i'r gofalwr ddewis a yw'r penderfyniad neu'r weithred ei hun yn ymwneud â gofal neu driniaeth yr unigolyn ac a yw er y budd pennaf iddynt. Os byddant yn fodlon y bodlonir yr amodau hyn, gall y gofalwr yna ddelio'n gyfreithiol a thalu am unrhyw wariant y mae'r penderfyniad neu weithred yn ymwneud ag un o dair ffordd:
- Os bydd y gofalwr neu'r unigolyn sydd â diffyg galluedd yn gallu cynhyrchu'r cyllid sydd ei angen, gall y gofalwr addo y bydd yr unigolyn sydd â diffyg galluedd yn talu. Fodd bynnag, efallai na fydd cyflenwr yn hapus gyda hyn.
 - Os bydd arian gan yr unigolyn sydd â diffyg galluedd yn eu meddiant, gall y gofalwr ddefnyddio'r arian hwnnw i dalu am nwyddau a gwasanaethau.

- Gall y gofalwr dalu am y nwyddau a'r gwasanaethau gyda'u harian eu hun. Bydd yn rhaid i'r unigolyn sydd â diffyg galluedd eu had-dalu. Gall hyn olygu defnyddio arian sydd ym meddiant yr unigolyn neu gael trefniant 'IOU'.
- 6.89. Efallai na fydd y trefniadau hyn yn addas ar gyfer gweithwyr gofal a delir, y byddai eu cytundebau yn eu hatal rhag trafod arian eu cleientiaid. Nid ydynt hefyd yn rhoi unrhyw hawl i'r gofalwr gael mynediad i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu sy'n perthyn i'r unigolyn â diffyg galluedd. (Os bydd angen mynediad i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, gweler paragraffau 6.92-6.93 isod).
- 6.90. Dylai gofalwyr gadw biliau, derbynebau a phrawf arall o dalu pan fyddant yn wynebu costau mewn perthynas ag unigolyn sydd â diffyg galluedd. Bydd angen y dogfennau hyn arnynt pan fyddant yn gofyn am ad-daliad. Mae cadw cofnodion a dogfennaeth ariannol benodol yn ofynnol gan y safonau sylfaenol ar gyfer cartrefi gofal neu asiantaethau gofal cartref.

Mynediad i asedau rhywun

- 6.91. Nid yw'r Ddeddf yn rhoi mynediad i incwm neu asedau rhywun i ofalwr neu weithiwr gofal, na rhieni'r unigolyn. Nid yw'n caniatáu iddynt werthu eiddo'r unigolyn chwaith.
- 6.92. Bydd angen awdurdod cyfreithiol ffurfiol ar unrhyw un sy'n dymuno mynediad i arian mewn banc neu gymdeithas adeiladu. Bydd angen awdurdod cyfreithiol arnynt hefyd i werthu eiddo rhywun. Gellid rhoi awdurdod o'r fath mewn Atwrneiaeth Arhosol (LPA) gan benodi atwrnai i ddelio ag eiddo a materion, neu mewn gorchymyn y Llys Gwarchod (naill ai penderfyniad unigol y llys neu orchymyn yn penodi dirprwy i wneud penderfyniadau ariannol ar gyfer yr unigolyn sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau o'r fath).
- 6.93. Weithiau bydd gan unigolyn arall yn barod reolaeth gyfreithiol o'r cyllid ac eiddo unigolyn sydd â diffyg galluedd i reoli eu materion eu hun. Gallai fod yn atwrnai sy'n gweithredu o dan LPA briodol neu EPA gofrestredig (gweler pennod 8) neu ddirprwy a benodir gan y Llys Gwarchod (gweler pennod 9). Neu gallai fod yn rhywun (gofalwr fel arfer) sydd â'r hawl i weithredu fel 'penodai' (o dan Reoliadau Nawdd Cymdeithasol) a hawlio budd-daliadau ar ran unigolyn sydd â diffyg galluedd i wneud eu hawliad eu hun a defnyddio'r arian ar ran yr unigolyn. Ni all penodai ddelio ag asedau neu gynilion o ffynonellau eraill oni bai am fudd-daliadau a gallant ddefnyddio'r arian yn unig sydd ganddynt ar gyfer yr unigolyn y mae'n berchen arno.
- 6.94. Gall trefniadau eraill lle gall un unigolyn weinyddu arian ar ran rhywun arall, megis trefniant teuluol anffurfiol neu bŵer ffurfiol atwrnai o dan Ddeddf Pwerau Atwrnai 1971 ddod i ben yn awtomatig os bydd yr unigolyn y mae'r arian yn perthyn iddo'n colli galluedd i'w reoli drostynt eu hun.
- 6.95. Mae adran 6(6) yn egluro na all gofalwr teuluol neu ofalwr arall dynnu gwariant mewn perthynas â gofal neu driniaeth yr unigolyn sydd â diffyg galluedd os bydd hyn yn gwrthdaro â phenderfyniad a wneir gan rywun sydd â phwerau ffurfiol dros arian yr unigolyn, megis atwrnai neu ddirprwy'n gweithredu o fewn cwmplas eu hawdurdod. Pan na cheir gwrthdaro a bod y gofalwr wedi tynnu gwariant mewn perthynas â gofal neu driniaeth unigolyn sydd â diffyg galluedd gall y gofalwr ofyn am yr arian yn ôl gan atwrnai, dirprwy neu lle bo'n berthnasol, penodai.

Senario: Cael mynediad i asedau rhywun

Mae storm yn difrodi to tŷ'n ddifrifol y mae Mr G yn berchen arno, sydd ag anaf ymennydd rhyddfarnedig a gafwyd mewn ymosodiad ar y stryd. Mae Mr G yn ofidus ynghylch y difrod i'w dŷ ac yn gofyn i'w fab helpu i'w drwsio. Mae ei fab yn ceisio helpu Mr G i ddeall y penderfyniadau sydd angen eu gwneud am yr atgyweiriadau. Fodd bynnag mae'n canfod, tra bod Mr G ers ei ymosodiad wedi adennill gallu i reoli gwariant dydd i ddydd syml, ar hyn o bryd mae diffyg galluedd ganddo i ddeall a chadw gwybodaeth fwy cymhleth a gwneud penderfyniadau sydd eu hangen mewn perthynas ag atgyweirio'r tŷ a'r hawliad yswiriant.

Mae mab Mr G yn penderfynu trefnu'r atgyweiriadau a thalu amdanynt yn y lle cyntaf, gan nad oes digon o arian gan ei dad. Mae'n gwneud cais i'r Llys Gwarchod am awdurdod i hawlio'r yswiriant ar ran ei dad, ac i gael ei ad-dalu o gyfrif banc ei dad i dalu am gost yr atgyweiriadau unwaith y derbynnir taliad yr yswiriant.

Mae galluedd Mr G i wneud penderfyniadau wedi gwella'n araf gan ei fod wedi cael adferiad iechyd yn raddol o'i ymosodiad gyda thriniaeth a chymorth. Yn y dyfodol gall adennill galluedd i wneud penderfyniadau mwy cymhleth.

DRAFT

7. Beth yw rôl y Llys Gwarchod?

Mae'r bennod hon yn disgrifio rôl y Llys Gwarchod. Mae'n esbonio'r pwerau sydd gan y Llys a'r mathau o benderfyniadau a datganiadau y mae'n gallu eu gwneud. Mae'n esbonio hefyd pan fydd yn rhaid neu y dylai ceisiadau gael eu gwneud i'r Llys, pwy ddylai cyflwyno cais a sut mae'r Llys yn ymdrin ag achosion.

Yn y bennod hon, fel trwy'r Cod cyfan, mae galluedd unigolyn (neu brinder galluedd) yn cyfeirio'n benodol at eu galluedd i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen iddo gael ei wneud.

Crynodeb cyflym

Mae gan y Llys Gwarchod bwerau i

- benderfynu a oes gan unigolyn allu i wneud penderfyniad penodol drostynt eu hunain gwneud datganiadau, penderfyniadau neu orchmynion ar faterion ariannol neu les sy'n effeithio ar bobl sy'n brin o allu i wneud y fath benderfyniadau
 - gwneud penderfyniadau ynghylch amddifadu o ryddid
- penodi dirprwyon i wneud penderfyniadau dros bobl sydd â phrinder galluedd
- benderfynu a yw Atwrneiaeth Arhosol (LPA) neu Atwrneiaeth Barhaus
 - (EPA) yn ddilys
- diswyddo dirprwyon neu atwrneiod

Mewn rhai achosion, mae'n rhaid gofyn i'r Llys Gwarchod wneud y penderfyniad perthnasol, tra mewn achosion eraill, gellir gofyn i'r Llys Gwarchod wneud penderfyniad gan ddibynnu ar yr amgylchiadau.

Mewn perthynas ag awdurdodiadau Trefniadau Amddiffyn Rhyddid, mae'r Llys yn gallu ystyried y canlynol:

- a yw Atodlen AA1 y Ddeddf yn berthnasol i'r trefniadau, neu a yw amodau'r awdurdodiad yn cael eu bodloni;
- am ba gyfnod o amser mae'r awdurdodiad mewn grym;
- yr hyn mae'r awdurdodiad yn cyfeirio ato.
- Mae'r Llys hefyd yn gallu ystyried defnyddio adran 4B y Ddeddf. Mae'r adran hon yn galluogi gwneuthurwyr penderfyniadau i gymryd camau i amddifadu unigolyn o'u rhyddid, heb awdurdodiad, lle bodlonir amodau penodol

Beth yw'r Llys Gwarchod?

- 7.1. Mae'r Llys Gwarchod yn gwneud penderfyniadau am alluedd meddyliol a budd gorau. Mae hyn yn gallu cynnwys gwneud penderfyniadau dros ac ar ran oedolion (a phlant mewn ychydig o achosion – gweler pennod 21) lle mae rheswm i gredu eu bod yn brin o alluedd i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hunain. Mae'n ymdrin â phenderfyniadau am eiddo a materion ariannol, a materion gofal iechyd a lles personol gan gynnwys, mewn rhai achosion, amddifadu o ryddid (gweler pennod 12 ymlaen).
- 7.2. Mae gan y Llys Gwarchod yr un pwerau, hawliau, breintiau ac awdurdod â'r Uchel Lys. Wrth ddod i unrhyw benderfyniad, mae'n rhaid i'r llys ddefnyddio'r holl egwyddorion statudol a amlinellir yn adran 1 y Ddeddf. Yn benodol mae'n rhaid i'r llys fod yn fodlon bod pob cam ymarferol wedi cael eu cymryd i helpu'r unigolyn wneud y penderfyniad heb lwyddiant cyn canfod bod yr unigolyn â phrinder galluedd i wneud y penderfyniad o dan sylw. Os byddant â'r prinder galluedd hwnnw, mae'n rhaid i'r llys wneud penderfyniad er y budd gorau i'r unigolyn. Bydd ffi fel arfer am geisiadau i'r llys. Mae'r llys fel arfer yn eistedd yn gyhoeddus, â chyfyngiadau adrodd i ddiogelu hunaniaeth yr unigolyn o dan sylw. Mae'r llys yn gallu gwneud gorchmynion neu ddatganiadau ar unrhyw adeg o'r dydd neu nos os bydd angen⁵⁰.

Pa bwerau sydd gan y Llys Gwarchod?

- 7.3. Mae'r Llys Gwarchod yn gallu:
- o gwneud datganiadau (dyfarniadau), penderfyniadau a gorchmynion ar faterion ariannol a iechyd a lles sy'n effeithio ar bobl sydd â phrinder galluedd, neu yr honnir eu bod â phrinder galluedd, (mae'n rhaid i'r prinder galluedd gyfeirio at y mater penodol sy'n cael ei gyflwyno i'r llys)
 - o penodi dirprwyon i wneud penderfyniadau dros bobl sydd â phrinder galluedd i wneud y penderfyniadau hynny (gweler pennod 9)
 - o penderfynu a yw penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth feddygol yn bodoli, yn ddilys a/neu'n berthnasol i driniaeth neu driniaethau penodol (gweler pennod 11)
 - o diswyddo dirprwyon neu atwrneiod sy'n ymddwyn yn amhriodol. Mae'r llys yn gallu gwrandao ar achosion am LPAau ac EPAau. Mae pwerau'r llys ynglŷn ag EPAau wedi'u hamlinellu yn Atodlen 4 y Ddeddf

⁵⁰ Canllawiau am wneud cais argyfwng i'r Llys Gwarchod, ar gael ar: <https://www.gov.uk/emergency-court-of-protection>

- o yn ystyried cwestiynau mewn perthynas â Threfniadau Amddiffyn Rhyddid (gweler pennod 12)
- 7.4. Mae'n rhaid i'r llys ddilyn yr egwyddorion statudol a amlinellir yn adran 1 y Ddeddf (gweler pennod 2) a gwneud y penderfyniad er y budd gorau i'r unigolyn o dan sylw (gweler pennod 5).

Pa ddatganiadau mae'r llys yn gallu'u gwneud?

- 7.5. Mae adran 15 y Ddeddf yn darparu pwerau i'r llys i wneud datganiad (dyfarniad) ar faterion penodol.
- 7.6. Mae'n gallu gwneud datganiad ynghylch a oes gan unigolyn allu i wneud penderfyniad penodol neu gydsynio i weithred benodol. Bydd y llys yn gofyn am dystiolaeth ynghylch unrhyw asesiad o allu'r unigolyn, yn debygol o fod eisiau gweld dystiolaeth ysgrifenedig berthnasol (er enghraifft, dyddiadur, llythyrau neu bapurau eraill), a gall ddymuno clywed dystiolaeth gan weithwyr proffesiynol, aelodau'r teulu a ffrindiau. Os bydd y llys yn penderfynu bod gan yr unigolyn allu i wneud y penderfyniad hwnnw, ni fyddant yn mynd â'r achos ymhellach. Mae'r unigolyn wedyn yn gallu gwneud y penderfyniad drostynt eu hunain.
- 7.7. Mewn rhai achosion, yr unig ddatganiad y gellid gofyn i'r llys ei wneud yw a oes gan unigolyn allu i wneud penderfyniad penodol. Gallai hyn ddigwydd pan fydd:
- 1.1. gweithwyr proffesiynol yn anghytuno am allu unigolyn i wneud penderfyniad penodol (difrifol fel arfer)
 - 1.2. anghydfod dros a oes gan yr unigolyn allu (er enghraifft, rhwng aelodau'r teulu)
 - 1.3. unigolyn yn dymuno herio asesiad gan weithiwr proffesiynol eu bod â phrinder galluedd
- 7.8. Mae'r llys yn gallu gwneud datganiad dros dro (o dan adran 48) bod ganddo reswm i gredu ei bod yn bosibl bod gan yr unigolyn brinder galluedd i wneud y penderfyniad o dan sylw tra bod y dystiolaeth berthnasol yn cael ei chasglu.
- 7.9. Yn y rhan fwyaf o achosion lle mae'r llys yn gwneud datganiad terfynol ar bob dystiolaeth bod gan unigolyn brinder galluedd i wneud penderfyniad neu benderfyniadau penodol, bydd wedyn yn mynd ymlaen i ystyried sut y dylai'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud: gweler paragraffau 7.11 isod.
- 7.10. Mae'r llys hefyd yn gallu gwneud datganiad ynghylch a yw gweithred benodol ynglŷn â gofal neu driniaeth unigolyn yn gyfreithlon (naill ai lle mae rhywun wedi cyflawni'r weithred neu'n cynnig gwneud). Mae penderfyniadau ers i'r Ddeddf ddod i

rym wedi egluro bod hwn yn bŵer y dylid ei ddefnyddio'n anaml yn unig⁵¹. Gallai, fodd bynnag, fod yn berthnasol mewn sefyllfa lle mae gan unigolyn allu cyfnewidiol i wneud penderfyniad, oherwydd bod gan y llys y pŵer o dan adran 15(1)(c) i wneud datganiad ynghylch yr hyn y gellir ei wneud a pheidio â'i wneud mewn perthynas â'r unigolyn ar yr adeg pan fyddant â phrinder galluedd⁵².

Pa benderfyniadau mae'r llys yn gallu eu gwneud?

- 7.11. Os bydd y llys wedi datgan bod unigolyn â phrinder galluedd i wneud penderfyniad neu benderfyniadau penodol, mae'n gallu gwneud y penderfyniad dros yr unigolyn, naill ai trwy benodi dirprwy (gweler pennod 9) neu wneud y penderfyniad ei hun ar ran yr unigolyn.
- 7.12. Pan fydd y llys yn gwneud y penderfyniad ei hun, mae'n dewis rhwng yr opsiynau sydd ar gael i'r unigolyn ar y pryd, ac sydd er y budd gorau iddynt⁵³.
- 7.13. Os bydd y penderfyniad mewn perthynas â thriniaeth feddygol, mae'r llys yn cydsynio neu'n gwrthod ar ran yr unigolyn. Os bydd y llys yn gwrthod triniaeth feddygol ar ran yr unigolyn, yna ni fydd yn gyfreithlon i'w rhoi. Ar yr amod eu bod yn gweithredu'n rhesymol a heb esgeulustod, ni fydd tîm clinigol yr unigolyn felly'n torri unrhyw ddyletswydd at eu claf os byddant yn dal neu'n tynnu'r driniaeth yn ôl⁵⁴.

Senario: Penodi dirprwy

Roedd Mr P mewn damwain beic modur lle cafodd anaf arwyddocaol a pharhaol i'w ymennydd.

Nododd asesiad o'i allu meddyliol a llesiant fel rhan o'i adferiad fod Mr P â phrinder galluedd i wneud penderfyniadau ynglŷn â sut roedd ei arian yn cael ei reoli - treuliau dydd i ddydd a buddsoddiadau tymor hwy.

Roedd gan rieni Mr P ran agos yn gofalu amdano ar ôl ei ddamwain ac roeddent yn teimlo y byddai er ei fudd gorau pe byddent yn rheoli'i faterion ariannol. Felly cyflwynwyd cais ganddynt ar y cyd i'r Llys Gwarchod i gael eu penodi'n ddirprwyon eiddo a chyllid. Caniatodd y llys y gorchymyn dirprwyaeth. Galluogodd hyn rieni Mr P i gysylltu â'r banciau a sefydliadau ariannol eraill lle roedd gan Mr P arian, a chwmnïau lle roedd ganddo rwymedigaethau ariannol. Roeddent yna mewn sefyllfa i sicrhau bod ei faterion ariannol yn aros mewn trefn ac yn cael eu rheoli er ei fudd gorau.

⁵¹ *N yn erbyn ACCG* [2017] UKSC 22; *Bagguley yn erbyn E* [2019] EWCOP 49, ar gael ar: <https://www.bailii.org/uk/cases/UKSC/2017/22.html>

⁵² *Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Guys a St Thomas yn erbyn R* [2020] EWCOP 4, ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2020/4.html>

⁵³ *N yn erbyn ACCG* [2017] UKSC 22, ar gael ar: <https://www.bailii.org/uk/cases/UKSC/2017/22.html>

⁵⁴ *Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Ysbytai Prifysgol Aintree yn erbyn James* [2013] UKSC 67, ar gael ar: <https://www.bailii.org/uk/cases/UKSC/2013/67.html>

Pa ddatganiadau a phenderfyniadau nad yw'r llys yn gallu eu gwneud?

- 7.14 Nid yw'r llys yn gallu gwneud unrhyw benderfyniadau ar ran unigolyn sydd â'r galluedd i wneud y penderfyniad hwnnw. Mae'n gallu datgan, fodd bynnag, fod **gan** yr unigolyn y galluedd hwnnw, sy'n gallu bod yn bwysig os bydd anghydfod. Os bydd pryder am les neu fuddiannau unigolyn sydd â'r galluedd i wneud y penderfyniadau perthnasol, ond sy'n ymddangos yn rhesymol ei fod yn agored i niwed, yna bydd angen gwneud cais i'r Uchel Lys. Mae barnwr yn yr Uchel Lys yn gallu ymarfer awdurdodaeth gynhenid y llys hwnnw trwy wneud y gorchmynion sy'n angenrheidiol a chymesur i sicrhau buddiannau'r unigolyn o dan sylw⁵⁵.
- 7.15 Os bydd Mae'r llys yn gallu dyfarnu datganiadau a gynhwysir o fewn cwmpas adran 15 y Ddeddf yn unig. Mae rhai datganiadau nad ydynt yn cael eu cynnwys o fewn ei chwmpas, er enghraifft datganiad nad yw priodas dramor i'w chydabod yn Lloegr a Chymru. Os bydd angen y fath ddatganiad i sicrhau buddiannau'r unigolyn, yna bydd rhaid i hyn gael ei ddyfarnu gan Uchel Lys yng ngweithrediad ei awdurdodaeth gynhenid⁵⁶.
- 7.16 Nid yw'r llys yn gallu penderfynu ar ran unigolyn i dderbyn neu wrthod triniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol lle mae'r unigolyn hwnnw wedi'i gadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ac yn ddarostyngedig i'r drefn triniaeth orfodol o dan y Ddeddf honno⁵⁷.
- 7.17 Fel yr amlinellir uchod, mae'r llys yn penderfynu ar ran yr unigolyn rhwng yr opsiynau sydd ar gael yn wirioneddol iddynt. Nid yw'r llys yn gallu creu opsiynau nad ydynt ar gael, er enghraifft lle bydd y corff cyhoeddus wedi defnyddio'r meini prawf a osodir mewn deddfwriaeth gofal yn y gymuned ac wedi penderfynu na fydd yn cyllido pecyn gofal penodol. Mae'r llys yn gallu profi rhesymu'r corff cyhoeddus am beidio â chyflenwi'r pecyn gofal, ond nid yw'n gallu gorchymyn y corff cyhoeddus i gyllido'r pecyn. Mae'n rhaid i heriau i benderfyniad i beidio â chyllido (yn y rhan fwyaf o achosion) gael eu cyflwyno trwy adolygiad barnwrol. Yn yr un modd, lle mae clinigwyr yn ystyried nad yw triniaeth benodol yn cael ei chynnig (p'un ai yw hynny oherwydd nad yw'n briodol yn glinigol neu am reswm arall), ni all y llys ofyn eu bod yn darparu'r driniaeth honno. Fodd bynnag, os yw'r sefyllfa o flaen y Llys Gwarchod, gall y barnwr brofi'r rhesymau pam nad yw'n cael ei chynnig. Mae'n rhaid dod â her i'r penderfyniad i beidio â darparu'r driniaeth honno (yn y rhan fwyaf o achosion) i adolygiad barnwrol.

⁵⁵ *Parthed DL* [2012] EWCA Civ 253- <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCA/Civ/2012/253.html>

⁵⁶ *XCC yn erbyn AA ac Ors* [2012] EWHC 2183 (COP), ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/COP/2012/2183.html>

⁵⁷ Adran 28 y Ddeddf, ar gael ar: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/9/section/28>

Pryd bydd cais i'r Llys Gwarchod yn ofynnol?

Eiddo a materion personol

7.18. Mewn rhai achosion, mae'n rhaid i'r llys wneud penderfyniad oherwydd bod angen awdurdod penodol ar rywun i weithredu ac nad oes llwybr arall er mwyn ei gael. Mae hyn yn digwydd yn aml mewn perthynas ag eiddo a materion personol unigolyn sydd â phrinder galluedd. Mae enghreifftiau o ble fyddai hyn yn ofynnol yn cynnwys y sefyllfaoedd canlynol:

- o Lle nad oes LPA eiddo a materion personol mewn grym a bod angen i rywun wneud penderfyniad ariannol dros unigolyn sydd â phrinder galluedd i wneud y penderfyniad hwnnw. Gallai hyn olygu bod y llys yn gwneud penderfyniad untro ar ran yr unigolyn sydd â phrinder galluedd (er enghraifft, penderfynu ymrwymo i gytundeb tenantiaeth neu ei derfynu) neu gallai'r llys benderfynu penodi dirprwy i wneud ystod ehangach o benderfyniadau ynglŷn ag eiddo a materion personol yr unigolyn. (I gael mwy o wybodaeth ar rôl dirprwyon a benodir gan y llys gweler pennod 9).
- o Pan fydd er y budd gorau i unigolyn sydd â phrinder galluedd wneud ewyllys, neu ddiwygio ewyllys sy'n bodoli, ar eu rhan.
- o Pan fydd atwrnai o dan LPA yn meddwl ei bod er y budd gorau i unigolyn sydd â phrinder galluedd wneud rhoddion o'u hasedau sy'n mynd y tu hwnt i'r cyfyngiadau ar anrhegu a osodir gan y Ddeddf. (I gael mwy o wybodaeth ar derfynau atwrnai o dan LPA i wneud rhoddion gweler paragraffau 8.49-8.59).

Triniaeth feddygol

7.19. Mewn rhai achosion, mae'n rhaid gofyn i'r llys wneud y penderfyniad perthnasol er mwyn sicrhau hawliau'r unigolyn o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol⁵⁸. Yn benodol, mae'n rhaid gofyn i'r llys wneud y penderfyniad ar ran yr unigolyn a ddylid cydsynio neu beidio i driniaeth feddygol sy'n cynnal bywyd lle, ar ddiwedd y broses gwneud penderfyniad a ddisgrifir ym mhennod 5:

- mae'r penderfyniad yn y fantol yn wirioneddol;
- mae gwahaniaeth barn feddygol; neu
- mae diffyg cytundeb am y cwrs gweithredu a gynigir gan y rhai hynny sy'n ymddiddori yn lles yr unigolyn⁵⁹.

⁵⁸ *Ymddiriedolaeth y GIG yn erbyn Y* [2018] UKSC 46, ar gael ar:

<https://www.supremecourt.uk/cases/docs/uksc-2017-0202-judgment.pdf>

⁵⁹ Mewn rhai sefyllfaoedd, nid y broblem wirioneddol yw p'un ai yw'r driniaeth feddygol er budd pennaf yr unigolyn, ond bod y tîm clinigol yn ystyried nad ydynt yn gallu ei chynnig yn iawn (oherwydd nad yw'n briodol yn glinigol neu am reswm arall). Nid yw hon yn broblem ar gyfer y Llys Gwarchod yn y pen draw.

7.20. Pan fydd y driniaeth i gael ei rhoi yn erbyn dymuniadau, teimladau, credoau neu werthoedd hysbys yr unigolyn, dylai gweithwyr meddygol proffesiynol ystyried a chofnodi:

- Ar ba sail y gallant ddweud yn gywir eu bod yn credu'n rhesymol bod y driniaeth er y budd gorau i'r unigolyn;
- A ydynt wedi ystyried pob opsiwn arall sy'n llai cyfyngol;
- A fydd rhoi'r driniaeth yn gofyn am ddefnyddio grym corfforol, ac, os felly, a fydd hyn yn gofyn am awdurdod y Llys Gwarchod.

7.21. Mae'n rhaid gofyn i'r llys hefyd i awdurdodi trefniadau i ddarparu triniaeth feddygol sy'n gyfystyr ag amddifadu unigolyn o'i ryddid os nad oes modd awdurdodi'r amddifadu o ryddid hwnnw o dan y Trefniadau Diogelu Rhyddid (gweler 7.33).

Pryd all cais i'r Llys Gwarchod fod yn ofynnol?

Eiddo a materion personol

7.22. Gall fod achosion hefyd sy'n ymwneud ag eiddo a materion personol unigolyn lle dylid gofyn i'r llys wneud penderfyniad ar ran unigolyn sydd â phrinder galluedd, hyd yn oed os penodwyd atwrnai neu ddirprwy. Mae hyn debygol o fod yn wir lle ceir anghytundeb a yw penderfyniad penodol er y budd gorau i'r unigolyn, neu lle ceir pryder a yw penderfyniad o fewn cwmpas pwerau dirprwy neu atwrnai. Gallai enghreifftiau gynnwys:

- o Pan fydd atwrnai o dan LPA yn dymuno gwerthu eiddo sy'n perthyn i unigolyn sydd â phrinder galluedd, ond ceir anghydfod ymhlith y teulu ehangach a yw'r fath werthiant er y budd gorau i'r unigolyn.
- o Lle ceir gwrthdaro buddiannau rhwng atwrnai neu ddirprwy a'r unigolyn maent yn gweithredu ar eu rhan, er enghraifft lle mae dirprwy eiddo a materion personol yn dymuno prynu eiddo sy'n perthyn i'r unigolyn y maent wedi'u penodi i wneud penderfyniadau ar eu rhan.

Senario: Gwneud penderfyniad i Ddatrys anghytundebau tu allan i'r llys

Mae gan Ms W afiechyd Alzheimer ac nid yw'n gallu gofalu amdani ei hun yn ei chartref ei hun mwyach, hyd yn oed gyda chymorth ymweliadau gofalwr. Mae'n cael ei asesu fel bod angen iddi symud i gartref gofal ac mae gan ei mab a'i merch, sy'n atwrneiod iechyd a lles, safbwyntiau gwahanol ar ba gartref gofal y dylai Ms W symud iddo. Mae gan Ms W ddigon o arian i dalu ffioedd cartref gofal, ond mae prinder galluedd ganddi i wneud y penderfyniad am ble i fyw.

Mae cyfreithiwr Ms W yn gweithredu fel atwrnai mewn perthynas â'i materion eiddo ac ariannol. Nid oes ganddo gylch gorchwyl i benderfynu pa gartref gofal sydd orau o ran lles Ms W a bodloni'i hanghenion.

Yn hytrach na bod cais ar unwaith i'r Llys Gwarchod i benderfynu pa gartref gofal fyddai er y budd gorau i Ms W (neu hyd yn oed benodi dirprwy iechyd a lles i wneud y penderfyniad), mae'r cyfreithiwr yn trefnu talu am gyfryngu rhwng mab a merch Ms W i ddatrys y mater. Mae'r cyfryngiad yn llwyddiannus, gyda mab a merch Ms W yn archwilio'r holl faterion ac yn cytuno ar y cartref mwyaf priodol i'w mam. Mae'r mater yn cael ei ddatrys yn gyflymach ac yn llai drud nag y byddai cais i'r llys wedi bod.

Triniaeth feddygol

- 7.23. Mewn unrhyw achos sy'n ymwneud â thriniaeth feddygol, hyd yn oed os na fydd yn cynnal bywyd, bydd presenoldeb unrhyw un o'r ffactorau a amlinellir ym mharagraff 7.19 (cydbwysedd manwl, anghytundeb neu amheuaeth) yn golygu y bydd yn annhebygol y gall gweithwyr meddygol proffesiynol ddweud yn gywir eu bod yn credu'n rhesymol eu bod yn gweithredu er budd gorau'r unigolyn, er mwyn cael eu hamddiffyn rhag atebolrwydd o dan adran 5 y Ddeddf⁶⁰. Os na fyddant yn gallu datrys y mater, dylid gofyn i'r llys benderfynu beth sydd er y budd gorau i'r unigolyn.
- 7.24. Gall fod sefyllfaoedd hefyd lle mae gan y rhai hynny sy'n ymwneud â'r broses gwneud penderfyniadau wrthdaro buddiannau posibl. O ystyried bod angen i wneud penderfyniad budd gorau gynnwys ymgynghori â phawb sy'n agos at yr unigolyn, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n ymwneud â'u gofal, byddai'n brin canfod achos lle na ellid dweud y byddai gan un neu ragor o'r rhai hynny sy'n ymwneud â'r mater wrthdaro buddiannau o ryw fath neu'i gilydd. Er enghraifft,

⁶⁰ *Parthed P (Sexual Relations and Contraception)* [2018] EWCOP 10, ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2018/10.html>; ac, *Ysbytai Coleg y Brifysgol Llundain yn erbyn KG* [2018] EWCOP 29, ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2018/29.html>

- Mae penderfyniad i barhau â thriniaeth cynnal bywyd yn gallu golygu bod cartref gofal yn parhau i dderbyn incwm, bod y teulu yn cael eu harbed rhag profi colled derfynol eu hanwylyd neu nad oes rhaid i'r tîm clinigol wynebu rheoli tynnu triniaeth yn ôl a gofal diwedd oes
 - I'r gwrthwyneb, mae penderfyniad i dynnu triniaeth yn ôl yn gallu golygu na fyddai rhaid i gomisiynydd neu ddarparwr y gwasanaeth gyllido na darparu gofal parhaol neu y byddai aelod o'r teulu'n cael ei ryddhau rhag dyletswyddau/cyfrifoldebau gofalu neu gael budd yn gynt o ewyllys claf.
 - Y naill ffordd neu'r llall, gall fod gan unigolion gwahanol (yn weithwyr proffesiynol ac yn aelodau'r teulu) eu safbwyntiau cryf eu hunain.
- 7.25. Mae'r mathau hyn o wrthdrawiadau posibl yn rhan o fywyd pob dydd ac nid ydynt yn golygu o reidrwydd nad yw pobl yn gallu cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, cyhyd â'u bod yn gallu cynnal ffocws ar faterion perthnasol, yn enwedig, yr hyn y byddai'r unigolyn ei hun yn ei ddymuno. Mae cyrff clinigol wedi arfer ag ymdrin â gwrthdrawiadau buddiannau posibl, yn enwedig trwy sicrhau bod tryloywder ynghylch gwrthdrawiadau posibl. Os na ellir reoli gwrthdaro buddiannau posibl yn briodol, yna mae'n debygol y bydd angen cais i'r Llys Gwarchod fel y gall y gweithwyr meddygol proffesiynol sydd ynghlwm ddweud yn iawn eu bod yn credu'n rhesymol eu bod yn gweithredu er y budd gorau i'r unigolyn.
- 7.26. Dylai gweithwyr meddygol proffesiynol hefyd ystyried gofyn i'r llys benderfynu ar ran yr unigolyn mewn perthynas â thriniaeth feddygol a fydd yn cynnwys ymyrraeth ddifrifol gyda'u hawl i fywyd preifat (gan gynnwys eu hawl i ymreolaeth) a ddiogelir gan Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Dyma'r achos hyd yn oed os bydd pawb sy'n ymwneud â lles unigolyn yn cytuno ynghylch galluedd a budd gorau'r unigolyn. Mae enghreifftiau o achosion o'r fath yn cynnwys:
- lle bydd gweithdrefn feddygol neu driniaeth ar gyfer y prif fwriad o sterileiddio
 - lle bydd y weithdrefn at ddiben rhoi organ, mêr esgyrn, bôn-gelloedd, meinwe neu hylif corfforol i rywun arall
 - gweithdrefn ar gyfer mewnosod dyfais atal cenhedlu'n gudd neu fodd arall o atal cenhedlu
 - defnyddio twyll i roi triniaeth feddygol i'r unigolyn
 - lle y cynigir bod triniaeth arbrofol neu arloesol yn cael ei chyflawni
 - achos sy'n ymwneud â chwestiwn moesegol arwyddocaol mewn maes na phrofwyd neu ddadleuol o feddygaeth
 -

- 7.27. Heb y craffu gan y llys yn y fath achos, mae'n debygol na fydd gweithwyr meddygol proffesiynol yn gallu dweud bod ganddynt gred resymol eu bod yn gweithredu er budd gorau'r unigolyn er mwyn cael eu diogelu rhag atebolrwydd o dan adran 5 y Ddeddf ⁶¹.
- 7.28. Ar wahân, dylid gofyn i'r llys ddatrys amheuon neu anghytundebau a oes penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth feddygol (ADRT) yn bodoli, ei fod yn ddilys a/neu'n gymwys i driniaeth neu driniaethau penodol. Gall hyn ddigwydd naill ai cyn bod unrhyw gwestiwn a ddylai'r driniaeth/triniaethau perthnasol gael eu rhoi, neu ar yr adeg pan fyddant o dan ystyriaeth.

Achosion eraill

- 7.29. Mewn unrhyw achos arall lle ceir amheuaeth neu anghytundeb rhwng y rhai hynny sy'n ymddiddori yn lles yr unigolyn na fedrir ei ddatrys, dylid gofyn i'r llys wneud y penderfyniad ar eu rhan os credir nad oes ganddynt y galluedd i wneud y penderfyniad. Mae penderfyniadau allweddol yn cynnwys ble dylai'r unigolyn fyw a phwy dylai'r unigolyn weld, ond mae'r egwyddor hon yn gymwys i unrhyw fater arwyddocaol sy'n ymwneud â lles yr unigolyn.

Oedi

- 7.30. Mae'r Ddeddf yn gosod rhwymedigaeth i gymryd pob cam ymarferol i alluogi'r unigolyn i ennill neu adennill lefel o allu i wneud y penderfyniad gofynnol. Dylai cytundeb gael ei geisio hefyd, os yn bosibl, rhwng y rhai hynny sy'n ymwneud â'r broses gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i gymryd y fath gamau beidio â dod ar draul lles yr unigolyn, yn enwedig pe byddai oedi yn cael dylanwad ar ganlyniadau triniaeth posibl (er enghraifft y cyfleoedd o oroesi math arbennig o ganser)⁶². Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth gynnar bob amser ynghylch pa mor hir y mae'n rhesymol treulio yn ceisio cynorthwyo'r unigolyn neu'n dod i gytundeb cyn gwneud cais i'r llys.

Pa bwerau sydd gan y llys mewn perthynas â Phwerau Atwrnai?

- 7.31. Mae'r Llys Gwarchod yn gallu penderfynu dilysrwydd LPA neu EPA ac yn gallu rhoi cyfarwyddiadau ynghylch sut y dylai atwrnai ddefnyddio'u pwerau o dan LPA (gweler pennod 8). Yn benodol, mae'r llys yn gallu diddymu LPA a therfynu penodiad yr atwrnai. Gallai'r llys wneud hyn os na fydd yr atwrnai'n cyflawni'u dyletswyddau'n

⁶¹ *Parthed P (Sexual Relations and Contraception)* [2018] EWCOP 10, ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2018/10.html>; ac, *Ysbytai Coleg Prifysgol Llundain yn erbyn KG* [2018] EWCOP 29, ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2018/29.html>

⁶² *Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Ysbytai Sherwood Forest ac Anor yn erbyn H* [2020] EWCOP 5, ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2020/5.html>; *a*, *QJ yn erbyn Awdurdod Lleol* [2020] EWCOP 7 ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2020/7.html>

gywir neu'n gweithredu er y budd gorau i'r rhoddwr. Mae'n rhaid i'r llys yna benderfynu a fydd yn angenrheidiol i ddirprwy gymryd rôl yr atwrnai.

- 7.32. Gall yr OPG wneud cais i'r llys mewn rhai amgylchiadau cyn cofrestru LPA os bydd darpariaethau ynddi fyddai'n ei hatal rhag bod yn ddilys. Mae'n gallu bod yn gymwys hefyd i ddiswyddo atwrnai neu ofyn i'r llys bennu unrhyw faterion am y modd mae LPA yn cael ei defnyddio.

Y Llys Gwarchod ac amddifadu o ryddid

- 7.33. Pan fydd unigolyn yn ddarostyngedig i drefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd wedi'i ystyried o dan y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid. Mae Rheolau 2017 y Llys Gwarchod yn caniatáu i unrhyw unigolyn neu sefydliad wneud cais i'r Llys Gwarchod heb ganiatâd, lle mae'n ymwneud â'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid. Mae hyn yn cynnwys yr unigolyn neu eu Person Priodol neu IMCA. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ar benderfynu a ddylid gwneud cais i'r llys ym mhennod 24.
- 7.34. Pan fydd trefniadau awdurdodedig yn digwydd yn barod, neu fod awdurdodiad i ddod i rym ar ddyddiad a benodir yn y cofnod awdurdodi o fewn 28 niwrnod, (gweler pennod 13 i gael mwy o fanylion), o dan adran 21ZA y Ddeddf mae'r llys yn gallu ystyried y canlynol:
- o a yw Atodlen AA1 y Ddeddf yn berthnasol i'r trefniadau, neu a yw amodau'r awdurdodiad yn cael eu bodloni;
 - o am ba gyfnod o amser mae'r awdurdodiad mewn grym;
 - o yr hyn mae'r awdurdodiad yn cyfeirio ato.
- 7.35. Wrth ystyried y materion hyn, bydd y llys yn ystyried y dystiolaeth berthnasol. Gall y llys benderfynu ar un o'r camau gweithredu canlynol:
- amrywio neu derfynu'r awdurdodiad, neu
 - gyfarwyddo'r Corff Cyfrifol i amrywio neu derfynu'r awdurdodiad.
- 7.36. Yn ogystal, mewn nifer gyfyngedig o achosion gall fod yn angenrheidiol amddifadu unigolyn o ryddid cyn bod y trefniadau a gynigir wedi'u hawdurdodi neu'n disgwyl penderfyniad gan y llys sy'n berthnasol i'r cwestiwn a yw'r gwneuthurwr penderfyniad wedi'i awdurdodi i amddifadu unigolyn o ryddid. Gallai hyn godi, er enghraifft, mewn sefyllfaoedd o frys mawr ac mewn argyfyngau sydyn. Mae adran B yr MCA yn gallu awdurdodi gwneuthurwyr penderfyniadau i gymryd camau i amddifadu unigolyn o ryddid heb fod awdurdodiad mewn grym ond i alluogi triniaeth cynnal bywyd yn unig neu i atal dirywiad difrifol yn iechyd yr unigolyn. Gellir gwneud cais i'r llys ynglŷn â'r defnydd o adran 4B. Gall hyn gael ei ystyried

yn ystod her i awdurdodiad LPS, cyn gynted ag y bo un mewn grym, neu fel mater annibynnol. Gweler pennod 19 i gael mwy o wybodaeth ar adran 4B.

Fydd y Llys fyth yn gwneud gorchymyn ar drefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid?

- 7.37. Mae'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid wedi'u cynllunio i sicrhau bod gan bawb sydd o dan drefniadau cyfystyr ag amddifadu o ryddid yr un trefniadau diogelu i'w hawliau Erthygl 5. Ni ddylai rôl y Llys Gwarchod gynnwys awdurdodi'r trefniadau mwyach heblaw am amgylchiadau prin. Felly, ni ddylai Cyrff Cyfrifol wneud ceisiadau am awdurdodiad i'r Llys Gwarchod.
- 7.38. Gall y llys fod yn gwneud penderfyniad ynglŷn â materion eraill, megis triniaeth feddygol ddifrifol neu ynghylch cyswllt teuluol, ar yr un pryd â bod amddifadu o ryddid yn cael ei ystyried. Er ei fod yn y pen draw yn fater i'r llys benderfynu sut i symud ymlaen, byddai disgwyl yn y rhan fwyaf o achosion, i'r llys ystyried hyn fel penderfyniad annibynnol a gofyn i'r Corff Cyfrifol ystyried yr amddifadu o ryddid.
- 7.39. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, gall Corff Cyfrifol fod wedi gwneud cais i'r llys am fater arall, megis cytundeb tenantiaeth, sydd wedi'i gydblethu'n agos â'r trefniadau cyfystyr ag amddifadu o ryddid. Lle bo hyn yn wir, gall y llys benderfynu eu hystyried gyda'i gilydd. Yn y fath amgylchiadau, gall y llys ystyried yr achos cyfan, a lle y bo'n berthnasol, wneud Gorchymyn o dan adran 16 y Ddeddf.

Gweithredu datganiad neu benderfyniad gan y llys

- 7.40. Bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n rhoi datganiad neu benderfyniad gan y llys mewn grym hefyd ddilyn egwyddorion y Ddeddf. Maent wedi'u rhwymo gan ddatganiad y llys ynghylch galluedd neu benderfyniad ynglŷn â budd gorau. Mae'n bosibl y bydd angen mynd yn ôl i'r llys os yw galluedd yr unigolyn wedi newid neu nad yw'r penderfyniad er eu budd gorau bellach⁶³.

Achosion yn ymwneud â phobl ifanc 16 neu 17 oed

- 7.41. Mae naill ai llys sy'n ymdrin ag achosion teulu neu'r Llys Gwarchod yn gallu gwrando ar achosion sy'n ymwneud â phobl 16 neu 17 oed sydd â phrinder galluedd. Mewn rhai achosion, mae'r Llys Gwarchod yn gallu gwrando ar achosion sy'n ymwneud â phobl iau nag 16 (er enghraifft, pan fydd angen i rywun gael ei benodi i wneud penderfyniadau tymor hir am eu materion ariannol). O dan adran 21 y Ddeddf, mae'r Llys Gwarchod yn gallu trosglwyddo achosion ynglŷn â phlant i llys

⁶³ *AMDC yn erbyn AG ac Anor* [2020] EWCOP 58, ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2020/58.html>. *Ymddiriedolaeth y GIG yn erbyn AF ac Anor* [2020] EWCOP 55 (09 Tachwedd 2020), ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2020/55.html>

sydd â phwerau o dan Ddeddf Plant 1989. Mae'r fath lys hefyd yn gallu trosglwyddo achosion i'r Llys Gwarchod, os bydd angen. Mae pennod 21 yn rhoi mwy o fanylion ar achosion lle gallai hyn fod yn gymwys.

Pwy ddylai gyflwyno cais?

7.42. Bydd pwy ddylai gyflwyno cais i'r llys yn dibynnu ar natur y mater, ond yn gyffredinol:

- o Os bydd staff gofal cymdeithasol yn bryderus am benderfyniad sy'n effeithio ar les unigolyn sydd â phrinder galluedd, dylai'r awdurdod lleol perthnasol wneud y cais.
- o Mewn achosion sy'n ymwneud â materion ynghylch triniaeth feddygol, yr ymgeisydd fel arfer ddylai fod y sefydliad sydd, neu a fydd, yn gyfrifol am gomisiynu neu ddarparu gwasanaethau clinigol neu ofal i'r unigolyn
- o Ar gyfer penderfyniadau am eiddo a materion personol rhywun sydd â phrinder galluedd i reoli eu materion eu hunain, yr ymgeisydd fel arfer fydd yr unigolyn (er enghraifft gofalwr teuluol) sydd ag angen awdurdod penodol gan y llys i ymdrin ag arian ac eiddo'r unigolyn
- o Pan fydd anghytundeb rhwng aelodau teulu, gall aelod o'r teulu ddymuno gwneud cais i'r llys i ddatrys yr anghytundeb – gan gofio'r angen, yn y rhan fwyaf o achosion, i gael caniatâd ymlaen llaw (gweler paragraffau 7.47 isod)
- o Gall unigolyn sy'n dymuno herio penderfyniad eu bod â phrinder galluedd wneud cais i'r llys, wedi'i gynorthwyo gan eraill lle y bo angen
- o Gall unrhyw berson sy'n ymddiddori yn lles yr unigolyn wneud cais i'r llys, ond yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n debygol y bydd angen caniatâd arnynt (gweler paragraffau 7.47 isod).

Senario: Gorchymyn Llys ynghylch tai

Mae Mr T, sydd wedi byw yn ei eiddo am y rhan fwyaf o'i fywyd fel oedolyn, wedi datblygu anhwylder personoliaeth paranoid ac anhwylder lledrithiol cyson. Mae'r symptomau'n cynnwys ymdeimlad ei fod yn cael ei erlid gan ei landlord. O ganlyniad i'w salwch mae'n pentyrru eitemau ac yn gwrthod mynediad i'w landlord gwblhau ymchwiliadau neu atgyweiriadau. Mae cartref Mr T yn awr yn risg tân a diogelwch ac mae pla o bryfetach yno. Mae Mr T yn brin o ddirnadaeth ynghylch ei ddiagnosis iechyd meddwl ac nid yw'n ymgysylltu ag unrhyw asiantaethau cymorth i'w gynorthwyo i reoli'i amgylchiadau.

Mae ei landlord felly'n dod â chais i feddiannu ei eiddo. Cyfarwyddir seiciatrydd yn yr achos meddiannu ac mae'n dod i'r casgliad o ganlyniad i'w salwch meddwl fod Mr T â phrinder galluedd i wneud penderfyniadau ynglŷn â'i denantiaeth, gan gynnwys clirio'i eiddo. Mae'r seiciatrydd hefyd yn cyflwyno canllawiau ynghylch sut i leihau unrhyw ofid i Mr T pe byddai'n rhaid gwneud penderfyniadau ar ei ran.

Mae'r awdurdod lleol yn gwneud cais i'r Llys Gwarchod i ofyn am orchymyn i gynorthwyo Mr T i aros yn ei gartref, gan gynnwys datganiad ei bod yn gyfreithlon i'r awdurdod lleol fynd i mewn i'w gartref i drefnu mynediad i drydydd partïon i glirio rhywfaint o'i eiddo a sbwriel gormodol. Mae hyn yn galluogi gwneud yr eiddo'n ddiogel ac yn bosibl byw ynddo ac i Mr T gadw ei gartref.

-
- 7.43. Mae'r llysoedd wedi pwysleisio mai cyfrifoldeb cyrff cyhoeddus yw sicrhau bod anghydfodau am faterion lles arwyddocaol mewn perthynas â'r rhai mae ganddynt gyfrifoldebau gofal drostynt yn cael eu dwyn i'r llys os na ellir eu datrys trwy drafod⁶⁴. Gall methu â dod ag achos priodol i'r llys arwain at fynd yn groes i hawliau'r unigolyn o dan Erthyglau 5 neu 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol.
- 7.44. Mae'r sefyllfa mewn perthynas ag amddifadu o ryddid wedi'i amlinellu yn 7.33. Mae hyn yn cynnwys y sefyllfa lle cyflwynir y cais gan Berson Priodol neu Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol yr unigolyn sy'n derbyn gofal.

Sut mae rhywun yn gallu gwneud cais i'r Llys Gwarchod?

- 7.45. Bydd ffurf y cais yn dibynnu ar natur y mater i'w ystyried. Gellir dod o hyd i Reolau Diogelu a Chanllawiau Ymarfer y Llys Gwarchod ar gov.uk⁶⁵.
- 7.46. Mae canllawiau'r llys yn cynnwys yr hyn ddylai ddigwydd cyn i achos gael ei ddwyn gerbron mewn perthynas â:
 - o lles personol
 - o eiddo a materion personol

⁶⁴ *Llundain Bwrdeistref Hillingdon yn erbyn Neary ac Anor* [2011] EWCOP 1377, ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2011/1377.html>

⁶⁵ <https://www.gov.uk/courts-tribunals/court-of-protection>

- o lles personol cymysg ac eiddo a materion personol
- 7.47. Mewn rhai achosion, bydd gofyn i'r unigolyn sy'n gwneud y cais gael caniatâd gan y Llys Gwarchod⁶⁶. Nid yw'r gofyniad hwn fyth yn gymwys ar gyfer yr unigolyn sydd â phrinder galluedd, neu y dywedir ei fod â phrinder galluedd. Nid yw fyth yn gymwys chwaith mewn perthynas â cheisiadau ynghylch amddifadu o ryddid.

Sut fydd y Llys Gwarchod yn ymdrin â'r achos?

- 7.48. Bydd sut mae'r llys yn ymdrin yn union â'r achos yn dibynnu ar y math o gais. Mae llawer o achosion yn cael eu penderfynu heb wrandawriad llys, yn enwedig y rhai hynny ynghylch eiddo a materion personol unigolyn sydd wedi cael eu dwyn gerbron oherwydd bod angen awdurdod ar rywun i wneud y penderfyniad(au) perthnasol (gweler 7.18 uchod).
- 7.49. Ym mhob achos, mae'n rhaid i'r llys ystyried fel cam cyntaf sut fydd yr unigolyn o dan sylw yn cymryd rhan yn yr achos. Os mai'r ymgeisydd fydd yr unigolyn yr honnir ei fod â phrinder galluedd, byddant yn barti bob amser i'r achos llys. Ym mhob achos arall, bydd y llys yn penderfynu a ddylai'r unigolyn sydd â phrinder galluedd, neu yr honnir ei fod â phrinder galluedd, gymryd rhan fel parti i'r achos a sut y gallant gymryd rhan yn yr achos⁶⁷.
- 7.50. Bydd angen cyfaill cyfreitha neu gynrychiolydd cyfreithiol achrededig wedi'i benodi gan y llys ar bobl sydd â phrinder galluedd i gyfarwyddo cyfreithiwr neu i gynnal eu hachos eu hunain⁶⁸. Mae'r cyfaill cyfreitha yn gallu cyfarwyddo'r cyfreithiwr a chynnal yr achos ar ran unigolyn sydd â phrinder galluedd i roi cyfarwyddiadau.
- 7.51. Bydd y Cyfreithiwr Swyddogol yn gweithredu fel cyfaill cyfreitha os:
- o nad oes unrhyw un arall yn addas ac yn fodlon bod yn gyfaill cyfreitha
 - o oes arian ar gael i dalu costau'r Cyfreithwr Swyddogol, er enghraifft cymorth cyfreithiol
 - o yw meddyg yr unigolyn neu weithiwr proffesiynol meddygol arall, er enghraifft, eu seiciatrydd, yn cadarnhau nad oes ganddynt y galluedd i reoli'r achos (oni bai eu bod yn blentyn)
- o Bydd y llys yn penodi'r Cyfreithwr Swyddogol - os ydynt yn cytuno - ar yr adeg sy'n berthnasol.

⁶⁶ Gweler Cyfarwyddyd 8A Ymarfer y Llys Gwarchod, ar gael ar:
<https://www.judiciary.uk/publications/practice-direction-8a-permission/>

⁶⁷ Gweler rheol 1.2 Rheolau'r Llys Gwarchod 2017, ar gael ar:
<https://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1035/part/1/article/1n2><https://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1035/part/1/article/1n2>

⁶⁸ Gweler rheol 1.2 Rheolau'r Llys Gwarchod 2017, ar gael ar:
<https://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1035/part/1/article/1n2><https://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1035/part/1/article/1n2>

- 7.52. Mewn achosion sy'n ymwneud ag iechyd a lles yr unigolyn, bydd y llys yn ystyried mewn gwrandawriad rheoli achos y camau i'w cymryd fydd yn caniatáu i'r llys benderfynu ar y cwestiynau a gyflwynir iddo. Bydd y nifer o wrandawiadau pellach sydd eu hangen i alluogi'r llys i wneud penderfyniad yn dibynnu ar ba mor gymhleth yw'r achos. Mae'r partïon gerbron y llys o dan ddyletswydd i gydweithredu i alluogi ymdrin â'r achos yn gyfiawn ac ar gost gymesur⁶⁹.
- 7.53. Mewn achosion sy'n ymwneud ag eiddo a materion personol unigolyn, bydd sut y penderfynir yr achos yn dibynnu ar a oes anghydfod am unrhyw agwedd. Os bydd, yna bydd y llys fel arfer yn trefnu gwrandawriad datrys anghydfod. Mae hyn yn gyfle i weld a yw'r achos yn gallu cael ei ddatrys ac osgoi cyfreitha diangen. Mae'r gwrandawriad felly'n cael ei gynnal yn breifat, a gerbron barnwr gwahanol i'r un a fyddai yna'n gwrandao ar yr achos os nad yw'r anghydfod yn gallu cael ei ddatrys. Mewn bron pob amgylchiad, nid oes modd dibynnu ar ddim byd sy'n cael ei ddweud yn y gwrandawriad os nad yw'r anghydfod yn gallu cael ei ddatrys, ac mae'n rhaid i farnwr wedyn benderfynu ar y materion sy'n weddill. Cyn ac, os bydd angen, ar ôl y gwrandawriad datrys anghydfod, mae'r partïon o dan ddyletswydd i gydweithredu i alluogi ymdrin â'r achos yn gyfiawn ac ar gost gymesur⁷⁰.
- 7.54. Mae achosion sy'n ymwneud ag amddifadu unigolyn o'i ryddid yn cael eu disgrifio yn 7.33.
- 7.55. Cynhelir gwrandawiadau llys gwarchod, heblaw am y gwrandawriad datrys anghydfod, fel arfer yn gyhoeddus, gyda chyfyngiadau adrodd i ddiogelu hunaniaeth yr unigolyn o dan sylw.
- 7.56. Mae gan y Llys Gwarchod y pŵer i ddyfarnu costau⁷¹. Bydd, yn benodol, yn debygol o ddyfarnu costau os bydd ymddygiad parti cyn neu yn ystod achos wedi arwain at naill ai achos diangen neu achos diangen o estynedig neu ddrud.

Fydd cyllid cyfreithiol cyhoeddus ar gael?

- 7.57. Gan ddibynnu ar eu sefyllfa ariannol, gall pobl fod â hawl i:
- o gyngor cyfreithiol wedi'i gyllido'n gyhoeddus (help cyfreithiol) gan gyfreithwyr achrededig neu asiantaethau cyngor

⁶⁹ Gweler Rhan 1 Reolau'r Llys Gwarchod 2017, ar gael ar:
<https://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1035/part/1/article/1n2https://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1035/part/1/article/1n2>

⁷⁰ Gweler Rhan 1 Rheolau'r Llys Gwarchod 2017, ar gael ar:
<https://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1035/part/1/made>

⁷¹ Gweler Rhan 19 o Rheolau'r Llys Gwarchod 2017, ar gael ar:
<https://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1035/part/1/made>

- o cynrychiolaeth gyfreithiol gerbron y Llys Gwarchod mewn rhai achosion iechyd a llesiant.

Pryd y gall rhywun gael help cyfreithiol?

- 7.58. Mae help cyfreithiol yn fath o gymorth cyfreithiol (cyllid cyhoeddus) sy'n talu am gyngor a chymorth ar faterion cyfreithiol, gan gynnwys y rhai hynny sy'n effeithio ar unigolyn sydd â phrinder galluedd. Ond nid yw'n darparu cynrychiolaeth ar gyfer gwrandawriad llys.
- 7.59. I fod yn gymwys ar gyfer help cyfreithiol, mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos:
- o eu bod yn ennill llai na swm penodol ac nad oes ganddynt gynilion nac asedau ariannol eraill dros swm penodol
 - o y byddent yn elwa'n ddigonol o gyngor cyfreithiol i gyfiawnhau'r swm mae'n ei gostio.
- 7.60. Mae help cyfreithiol yn gallu cynnwys:
- o cyngor ac arweiniad ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a hawliau'r unigolyn
 - o help gan gyfreithiwr neu gynrychiolydd arall i ysgrifennu llythyrau
 - o mewn amgylchiadau eithriadol, cael barn bargyfreithiwr,
 - o cymorth i baratoi a chefnogi cais i'r Llys Gwarchod.

Pryd y gall rhywun gael cynrychiolaeth gyfreithiol?

- 7.61. Mae cyllid cyhoeddus ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol ar gael yn y Llys Gwarchod yn unig ar gyfer yr achosion sy'n ymwneud â:
- hawl unigolyn i fywyd
 - rhyddid neu ddiogelwch corfforol unigolyn
 - triniaeth feddygol (o fewn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983)⁷²
 - y gallu i briodi, mynd i mewn i bartneriaeth sifil neu i fynd i mewn i berthnasoedd rhywiol
 - hawl i fywyd teuluol
- 7.62. Gall achosion nad ydynt yn ymwneud â'r meysydd hyn barhau i dderbyn cyllid trwy'r cynllun Cyllido Achosion Eithriadol (ECF) pe byddai methiant i ddarparu cymorth

⁷² Ond nid yw'r Llys Gwarchod yn gallu gwneud penderfyniad ar ran unigolyn i dderbyn neu wrthod triniaeth o dan Ran 4 Deddf Iechyd Meddwl 1983, manylion ar gael ar:
<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1983/20/part/IV>

cyfreithiol yn torri hawliau dynol unigolyn neu trwy'r hawliau a gadwyd o dan gyfraith y DU yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

- 7.63. Pan gyflwynir cais o dan adran 21ZA neu mewn perthynas ag adran 4B y Ddeddf, lle mae wedi cael ei ddefnyddio cyn i benderfyniad gael ei wneud mewn perthynas â'r LPS, nid oes prawf modd am gymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol pan gyflwynir y cais gan yr unigolyn neu'u Person Priodol. Mae hyn yn golygu bod yr unigolyn neu'u Person Priodol, hyd yn oed pan na fyddant yn gweithredu fel cyfaill cyfreitha'r unigolyn, yn gallu gwneud cais ynghylch amddifadu o ryddid i'r llys heb fod rhaid bodloni prawf modd.
- 7.64. I bob unigolyn arall sy'n gwneud cais mewn perthynas ag adran 21ZA neu adran 4B, neu ar gyfer materion na chynhwysir gan 21ZA y Ddeddf, bydd rhaid i'r unigolyn sy'n cyflwyno'r cais i'r llys fodloni prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol.
- 7.65. I fod yn gymwys ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol, lle bo prawf modd yn gymwys, bydd rhaid i bobl yn gyffredinol fodloni rhagor o feini prawf haeddiannau manwl nag ymgeiswyr am help cyfreithiol. Er enghraifft, bydd rhagolygon yr achos i fod yn llwyddiannus, a yw'r achos yn cyfiawnhau cyllid cyhoeddus o ystyried y costau, ac a yw'r llys wedi gorchymyn (neu'n debygol o orchymyn) gwrandawriad llafar yn cael eu hystyried i gyd. Bydd yn rhaid iddynt hefyd sefydlu na allai'r achos gael ei gyflwyno gan rywun arall neu'i gyllido mewn ffordd arall ac nad oes dewisiadau eraill i achos llys, megis systemau cwyno a chynlluniau ombwdsmon, y dylid eu harchwilio gyntaf.
- 7.66. Mae'r math hwn o waith yn gallu cael ei ymgymryd gan gyfreithwyr sydd â chontract Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar gyfer Iechyd Meddwl neu Ofal Cymunedol. Gellir dod o hyd i fanylion cynghorwyr cymorth cyfreithiol sydd â chontract cymorth cyfreithiol yn Lloegr a Chymru ar-lein⁷³. Gellir cael gwybodaeth bellach am gymorth cyfreithiol a chyllid cyhoeddus gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol⁷⁴.

⁷³ [Find A Legal Aid Adviser, ar gael ar:](https://find-legal-advice.justice.gov.uk/) <https://find-legal-advice.justice.gov.uk/> [Noder safle Beta yw hwn ar adeg cyhoeddi]

⁷⁴ Cymorth cyfreithiol a chyllid cyhoeddus, ar gael ar: <https://www.gov.uk/government/organisations/legal-aid-agency>

8. Atwrneiaeth Arhosol

Mae'r bennod hon yn esbonio beth yw Atwrneiaethau Arhosol (LPAau) a sut y dylent gael eu defnyddio. Mae'n amlinellu'r math o benderfyniadau y mae pobl yn gallu penodi atwrneiod i'w gwneud a phryd y gall ac na all LPA gael ei defnyddio. Mae'n amlinellu dyletswyddau a chyfrifoldebau atwrneiod hefyd, y safonau a mesurau gofynnol ar gyfer delio ag atwrneiod nad ydynt yn bodloni safonau priodol.

Mae'r bennod hon hefyd yn esbonio sut mae LPAau yn wahanol i Atwrneiaethau Parhaol a beth ddylai ddiwydd i EPAau a gafodd eu gwneud cyn 30 Medi 2007.

Yn y bennod hon, fel trwy'r Cod i gyd, mae galluedd unigolyn (neu brinder galluedd) yn cyfeirio'n benodol at eu galluedd i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei wneud.

Crynodeb cyflym

- Mae Atwrneiaeth Arhosol (LPA) yn caniatáu i rywun benodi unigolyn neu bobl maent yn ymddiried ynddynt i wneud penderfyniadau ariannol a/neu les personol ar eu rhan.
- Mae'n rhaid i LPA fod yn gofrestredig â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG) cyn iddi allu gael ei defnyddio.

Wrth weithredu o dan LPA, mae'n rhaid i atwrneiod:

- Sicrhau bod egwyddorion statudol y Ddeddf yn cael eu dilyn
- Gwirio a oes gan yr unigolyn y galluedd i wneud y penderfyniad penodol hwnnw drostynt eu hunain. Os bydd ganddynt alluedd:
 - ni ellir defnyddio LPA lles personol - mae'n rhaid i'r unigolyn wneud y penderfyniad
 - gellir defnyddio LPA eiddo a materion personol os bydd y rhoddwr wedi nodi hynny yn yr LPA, ac os byddant wedi rhoi caniatâd i wneud y penderfyniad.
- Sicrhau bod unrhyw beth sy'n cael ei wneud o dan awdurdod yr LPA er y budd gorau i'r unigolyn.
- Ystyried canllawiau yn y Cod Ymarfer hwn sy'n berthnasol i'r penderfyniad sydd angen ei wneud
- Gweithredu'n unig o fewn terfynau eu pŵer a gan ystyried unrhyw gyfarwyddiadau yn yr LPA
- Cyflawni'u cyfrifoldebau a dyletswyddau i'r unigolyn sydd â phrinder galluedd.

Beth yw Atwrneiaeth Arhosol (LPA)?

- 8.1. Mae LPA yn ddogfen gyfreithiol sy'n caniatáu i rywun gynllunio ymlaen llaw ar gyfer colli galluedd meddyliol posibl yn y dyfodol. Mae'n caniatáu i'r unigolyn (a elwir yn "rhoddwr") benodi unigolyn neu bobl maent yn ymddiried ynddynt (a elwir yn "atwrneiod" neu "dderbynwyr") i wneud penderfyniadau ariannol a/neu les personol ar eu rhan. Gan ddefnyddio LPA, mae'r atwrnai yn gallu gwneud penderfyniadau sydd yr un mor ddilys â'r rhai hynny a wneir gan yr unigolyn.
- 8.2. Mae dau fath o LPA;
 - eiddo a materion personol - yn cynnwys cyllid, arian ac eiddo
 - lles personol - yn cynnwys gofal iechyd, gofal cymdeithasol a chydsyniad i driniaeth feddygol. Gelwir hyn yn aml yn LPA 'iechyd a lles' neu 'benderfyniadau iechyd a gofal'
- 8.3. Gweler paragraffau 8.40–8.59 i gael mwy o wybodaeth am LPAau eiddo a materion personol. Gweler paragraffau 8.60–8.68 i gael mwy o wybodaeth am LPAau iechyd a lles.
- 8.4. Mae'n rhaid i'r ddau fath o LPA fod yn gofrestredig â'r OPG cyn y gellir eu defnyddio.
- 8.5. Cyn gynted â'i bod wedi'i chofrestru, mae LPA eiddo a materion personol yn gallu cael ei defnyddio pan fydd gan y rhoddwr allu, os bydd y rhoddwr wedi nodi hynny yn yr LPA, ac os byddant wedi rhoi caniatâd i wneud y penderfyniad. Ond gellir defnyddio LPA lles personol yn unig os na fydd gan y rhoddwr y galluedd i wneud y penderfyniad.
- 8.6. Mae'r rhoddwr yn gallu dewis un unigolyn neu nifer o bobl fel eu hatwrneiod i wneud mathau gwahanol o benderfyniadau.

Sut mae rhoddwr yn creu LPA?

- 8.7. Mae'n rhaid i'r rhoddwr ddilyn y gweithdrefnau cywir i greu a chofrestru LPA, fel yr amlinellir ym mharagraffau 8.24-8.29. Fel arall gallai'r LPA beidio â bod yn ddilys ac ni ellir ei chofrestru. Yr OPG yw'r awdurdod cofrestru ar gyfer LPAau. Os nad yw LPA wedi'i chofrestru, ni ellir ei defnyddio gan yr atwrnai.
- 8.8. Nid yw'n angenrheidiol cael cyngor cyfreithiol na meddygol i greu LPA ond gall fod yn syniad da os bydd amgylchiadau'r rhoddwr yn gymhleth.
- 8.9. Oedolion 18 oed neu drosodd yn unig sy'n gallu gwneud LPA, a gallant wneud LPA yn unig os bydd ganddynt y galluedd meddyliol i wneud hynny. Nid yw hyn yn golygu bod angen i'r rhoddwr fod â'r galluedd i wneud yr holl benderfyniadau ar yr adeg y

maent yn gwneud yr LPA. Mae'n golygu bod yn rhaid fod ganddynt y galluedd meddyliol i benderfynu i wneud ac yna gweithredu'r LPA hyd yn oed os na fydd ganddynt y galluedd meddyliol i wneud rhai o'r penderfyniadau y byddai'r LPA yn eu cynnwys.

8.10. Er mwyn i LPA fod yn ddilys:

- mae'n rhaid iddi fod yn y ffurf statudol a ragnodir gan reoliadau
- mae'n rhaid iddi gynnwys y wybodaeth y gofynnir amdani yn y ffurflen, er enghraifft, manylion am bwy mae'r rhoddwr yn dymuno'u penodi fel eu hatwrnai/hatwrneiod a sut y dylent wneud penderfyniadau
- mae'n rhaid i'r rhoddwr lofnodi datganiad sy'n dweud eu bod wedi darllen y wybodaeth ragnodedig yn y ffurflen (neu fod rhywun wedi ei darllen iddynt)
- os byddant yn creu LPA eiddo a materion personol, mae'n rhaid i'r rhoddwr benderfynu a ydynt yn dymuno i'r LPA fod yn gymwys yn unig pan nad oes ganddynt allu mwyach, ac os y byddant, dangos hyn ar y ffurflen
- mae'n rhaid i'r ddogfen enwi pobl (nid unrhyw un o'r atwrneiod) y dylid dweud wrthynt am gais i gofrestru'r LPA, neu dylai ddweud nad oes neb y maent yn dymuno dweud wrthynt
- mae'n rhaid i'r atwrneiod lofnodi datganiad sy'n dweud eu bod wedi darllen y wybodaeth ragnodedig a'u bod yn deall eu dyletswyddau – yn enwedig y ddyletswydd i weithredu er y budd gorau i'r rhoddwr (pennod 5)
- mae'r ffurflen yn cynnwys tystysgrif y mae'n rhaid ei chwblhau gan drydydd parti annibynnol. Gallai hyn fod yn ffrind, cydweithiwr, neu rywun mae'r rhoddwr wedi'i adnabod yn dda am o leiaf ddwy flynedd - mae'n rhaid iddynt fod yn fwy na dim ond rhywun rydych yn ei led adnabod. Neu gallai fod yn feddyg neu gyfreithiwr y rhoddwr neu rywun â'r sgiliau proffesiynol i farnu bod y rhoddwr yn deall yr hyn maent yn ei wneud ac nad ydynt yn cael eu gorfodi.⁷⁵ Os yn bosibl, dylai darparwr y dystysgrif drafod yr LPA gyda'r rhoddwr yn breifat, heb yr atwrneiod neu bobl eraill yn bresennol, cyn iddynt lofnodi eu rhan o'r ffurflen.
 - I. Mae'n rhaid i ddarparwr y dystysgrif lofnodi i gadarnhau: yn eu barn, fod y rhoddwr yn deall pwrpas yr LPA
 - II. na ddefnyddiodd neb bwysau amhriodol i dwyllo neu orfodi'r rhoddwr i wneud yr LPA ac
 - III. nad oes dim byd i atal yr LPA rhag cael ei chreu.

8.11. Mae rhai pobl nad ydynt yn gallu bod yn ddarparwyr tystysgrif, gan gynnwys pobl sy'n cael eu henwi yn yr LPA fel atwrneiod neu eilyddion o atwrneiod ac aelodau teuluoedd atwrneiod. Mae canllawiau'r OPG yn rhoi mwy o fanylion.

⁷⁵ Mae manylion ychwanegol am bwy all a phwy na all fod yn ddarparwr tystysgrif ar gael mewn rheoliadau ar: <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2007/1253/regulation/8/made>

- 8.12. Mae rhoddwr yn gallu penderfynu ar unrhyw adeg eu bod yn dymuno diddymu LPA maent wedi'i chreu, ar yr amod bod ganddynt y galluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwnnw. Os na chofrestrwyd yr LPA, mae hyn yn golygu dinistrio'r ddogfen wreiddiol ac unrhyw gopiâu sydd wedi'u gwneud. Os cofrestrwyd yr LPA, mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gofyn i'r rhoddwr gwblhau 'gweithred ddirymu'⁷⁶, y mae'n rhaid ei llofnodi a'i dyddio gan y rhoddwr a thyst (nid oes angen i'r tyst fod yr un unigolyn a dystiodd i'r LPA). Mae'n rhaid i'r rhoddwr hysbysu'r holl atwrneiod eu bod yn diddymu'r LPA, ac anfon y ddogfen i'r OPG ynghyd â'r ddogfen LPA wreiddiol.
- 8.13. Os bydd y rhoddwr yn dymuno gwneud LPA newydd, dylent ddiddymu unrhyw un sy'n gofrestredig, gan na fydd yn cael ei dirymu'n awtomatig. Os felly, dylent ddilyn y broses uchod.

Pwy all fod yn atwrnai?

- 8.14. Dylai rhoddwr feddwl yn ofalus cyn dewis rhywun i fod yn atwrnai iddynt. Dylai atwrnai fod yn rhywun y gellir ymddiried ynddo, yn gymwys ac yn ddibynadwy. Dylai fod ganddynt y sgiliau a'r gallu i gyflawni'r tasgau angenrheidiol.
- 8.15. Mae'n rhaid i atwrneiod fod yn o leiaf 18 oed. Ar gyfer LPAau eiddo a materion personol, gallai'r atwrnai fod naill ai'n:
- unigolyn (ar yr amod nad ydynt yn fethdalwyr ar yr adeg mae'r LPA yn cael ei gwneud), neu
 - gorfforaeth ymddiriedolaeth (yn aml yn rhan o fanc neu sefydliad ariannol eraill neu'n gwmni cyfreithwyr).
- 8.16. Os bydd atwrnai a enwebir o dan LPA eiddo a materion personol yn mynd yn fethdalwr ar unrhyw adeg, ni fyddant yn cael gweithredu mwyach fel atwrnai ar gyfer eiddo a materion personol. Mae pobl sy'n fethdalwyr yn parhau i allu gweithredu fel atwrnai ar gyfer LPAau iechyd a lles.
- 8.17. Nid yw unigolyn sydd ar restr waharddedig y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gallu gweithredu fel atwrnai (na dirprwy). Mae'n drosedd i unigolyn ar y rhestr waharddedig gymryd rhan mewn gweithgaredd a reoleiddir megis "cymorth mewn cynnal materion personol oedolyn"⁷⁷.
- 8.18. Mae'n rhaid i'r rhoddwr enwi unigolyn adnabyddadwy fel atwrnai yn hytrach na theitl swydd mewn cwmni neu sefydliad, (er enghraifft, ni fyddai 'Cyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion' neu 'fy nghyfreithiwr' yn ddigonol). Ni ddylai gweithiwr

⁷⁶ Mae testun enghreifftiol ar gyfer gweithred ddirymu ar gael yng nghanllawiau'r OPG ar LPAau: LP12 Make and register your lasting power of attorney a guide - [Make, register or end a lasting power of attorney: End your lasting power of attorney, ar gael ar: https://www.gov.uk/power-of-attorney](https://www.gov.uk/power-of-attorney).

⁷⁷ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/47/schedule/4> paragraff 7 (3E)

gofal cyflogedig sy'n gofalu am y rhoddwr (megis rheolwr cartref gofal) gytuno i weithredu fel atwrnai, heblaw am mewn amgylchiadau anarferol (er enghraifft, os mai nhw yw'r unig berthynas agos i'r rhoddwr). Mae hyn oherwydd y gallai greu gwrthdaro buddiannau i'r gweithiwr gofal rhwng eu dyletswydd i'r rhoddwr a'u rôl fel gweithiwr proffesiynol cyflogedig, yn enwedig mewn perthynas â phenderfyniadau a rhoddion budd gorau.

8.19. Mae rhoddwr yn gallu penodi un (yr unig un) neu fwy o atwrneiod. Pan fydd y rhoddwr yn penodi mwy nag un atwrnai, mae angen iddynt nodi a ddylai'r atwrneiod weithredu 'ar y cyd', 'ar y cyd ac yn unigol', neu 'ar y cyd ynghylch rhai materion ac ar y cyd ac yn unigol ynghylch eraill' (adran 10(4):

- Mae'n rhaid i gydatwrneiod weithredu gyda'i gilydd bob amser. Mae'n rhaid i bob atwrnai gytuno ar benderfyniadau a llofnodi unrhyw ddogfennau perthnasol. Os na fydd un atwrnai yn gallu gweithredu mwyach, ac yna ni all yr un ohonynt weithredu, os bydd eilyddion wedi'u penodi, byddant yn cymryd eu lle.
- Mae atwrneiod ar y cyd ac yn unigol yn gallu gweithredu gyda'i gilydd ond gallant hefyd weithredu'n annibynnol os y dymunant. Mae unrhyw gamau gweithredu a wneir gan atwrnai ar ei ben ei hun mor ddilys â phe byddent yn unig atwrnai. Os na fydd un atwrnai yn gallu gweithredu mwyach, gall y gweddill barhau i wneud hynny oni bai ei fod mewn perthynas â mater mae'n rhaid iddynt weithredu ar y cyd arno. Os cânt eu penodi, bydd atwrneiod sy'n eilyddion yn cymryd lle'r un nad yw'n gallu gweithredu mwyach, a byddant yn gyfrifol am unrhyw benderfyniadau ar y cyd.

8.20. Gall y rhoddwr ddymuno penodi atwrneiod i weithredu ar y cyd mewn rhai materion ond ar y cyd ac yn unigol mewn eraill. Er enghraifft, gallai rhoddwr ddewis penodi dau neu fwy o atwrneiod ariannol ar y cyd ac yn unigol. Ond gallent ddweud wedyn wrth werthu tŷ'r rhoddwr, bod yn rhaid i'r atwrneiod weithredu ar y cyd. Gall y rhoddwr benodi atwrneiod lles i weithredu ar y cyd ac yn unigol ond yn nodi bod yn rhaid iddynt weithredu ar y cyd mewn perthynas â rhoi cydsyniad i lawdriniaeth. Os na fydd rhoddwr sydd wedi penodi dau neu fwy o atwrneiod yn nodi sut y dylent weithredu, mae'n rhaid iddynt weithredu ar y cyd bob amser (adran 10(5)).

8.21. Wrth ddewis penodi atwrneiod ar y cyd, neu ar y cyd ac yn unigol, dylai'r rhoddwr ystyried goblygiadau pob opsiwn. Mae penodi atwrneiod ar y cyd yn gallu lleihau'r risg o gamdriniaeth neu wrthdrawiadau buddiannau sy'n codi, ond ni all fod yn ymarferol bob amser (er enghraifft ymweld â banc neu drefnu taliadau gyda'i gilydd). Ar y llaw arall, mae penodi atwrneiod ar y cyd ac yn unigol yn caniatáu i atwrneiod weithredu'n annibynnol a heb oruchwyllo'i gilydd. Mae hyn yn gallu cynyddu'r risg o wrthdrawiadau buddiannau neu gamdriniaeth ond mae'n caniatáu mwy o hyblygrwydd mewn ymagwedd ac mae'n gallu rhannu baich cyfrifioldeb ar draws llawer o unigolion.

- 8.22. Os bydd yr atwrneiod wedi'u penodi ar y cyd neu'n unigol, os wrth wneud penderfyniad arwyddocaol ar ran y rhoddwr, eu bod yn anghytuno ar yr hyn sydd er y budd gorau i'r rhoddwr ac nad ydynt yn gallu datrys yr anghytundeb, bydd angen iddynt wneud cais i'r Llys Gwarchod (gweler pennod 7).
- 8.23. Mae Adran 10(8) yn dweud y gall rhoddwyr ddewis enwi atwrneiod sy'n eilyddion i fabwysiadu'u dyletswyddau o dan amgylchiadau penodol (er enghraifft, os bydd atwrnai'n marw). Gall y rhoddwr enwi atwrnai penodol i gymryd lle atwrnai, neu gall yr eilyddion gymryd lle unrhyw atwrnai, os bydd angen. Nid yw rhoddwyr yn gallu rhoi'r hawl i'w hatwrneiod benodi eilydd neu olynydd.

Sut ddylai rhywun gofrestru a defnyddio LPA?

- 8.24. Mae'n rhaid i LPA fod yn gofrestredig â'r OPG cyn y gellir ei defnyddio. Ni fydd LPA heb ei chofrestru yn rhoi unrhyw bwerau cyfreithiol i'r atwrnai wneud penderfyniad dros y rhoddwr. Gall y rhoddwr gofrestru'r LPA tra bod ganddynt y galluedd meddyliol i wneud hynny, neu gall yr atwrnai wneud cais i gofrestru'r LPA ar unrhyw adeg
- 8.25. Mae manteision i gofrestru'r LPA yn fuan ar ôl i'r rhoddwr ei gwneud. Er enghraifft, mae hyn yn sicrhau nad oes oedi pan fydd angen i'r LPA gael ei defnyddio ac nad oes gwallau sy'n ei hatal rhag cael ei chofrestru. Os bydd y rhoddwr yn colli gallu a bod gwallau yn y ffurflen, ni fydd yn bosibl cywiro'r rhain ac felly ni ellir cofrestru'r LPA.
- 8.26. Nid yw'n ofynnol cofrestru LPA ar unwaith ac mae rhai pobl yn dewis peidio er mwyn arbed arian ar y ffi cofrestru neu i gadw'r hyblygrwydd i newid eu trefniadau cyn ei chofrestru. Fodd bynnag, dylai hyn gael ei ystyried yn erbyn y manteision o gofrestru cyn gynted â'i bod wedi'i llofnodi.
- 8.27. Tra bod ganddynt y galluedd o hyd, dylai'r rhoddwyr roi gwybod i'r OPG am newidiadau cyfeiriad parhaol i'r rhoddwr neu'r atwrnai neu unrhyw newidiadau eraill mewn amgylchiadau. Os na fydd gan y rhoddwr allu mwyach i wneud hyn, dylai atwrneiod adrodd am unrhyw newidiadau o'r fath i'r OPG. Mae enghreifftiau'n cynnwys atwrnai eiddo a materion personol yn mynd yn fethdalwr neu briodas yn dod i ben rhwng y rhoddwr a'u hatwrnai. Bydd cadw cofnodion yr OPG yn gyfredol yn helpu i sicrhau nad yw atwrneiod yn gwneud penderfyniadau nad oes ganddynt yr awdurdod i'w gwneud mwyach. Dylid hysbysu'r OPG hefyd os bydd y rhoddwr neu unrhyw un o'r atwrneiod yn marw, neu os bydd unrhyw un o'r atwrneiod yn colli galluedd meddyliol i weithredu o dan yr LPA.
- 8.28. Cyn gynted â'i bod wedi'i chofrestru â'r OPG, bydd angen cyflwyno LPA eiddo a materion personol hefyd i fanc, cymdeithas adeiladu neu sefydliadau ariannol eraill mae'r rhoddwr yn eu defnyddio, cyn y gellir ei defnyddio. Gall fod gan y sefydliadau hyn eu prosesau cofrestru eu hunain.

- 8.29. Er nad yw'n angenrheidiol, cyn gynted â bod LPA lles personol wedi'i chofrestru, argymhellir bod copi yn cael ei roi i unrhyw weithwyr meddygol proffesiynol sy'n gweithio gyda'r rhoddwr cyn ei defnyddio. Gallai hyn gynnwys eu meddyg, practis meddyg teulu, ysbyty neu ddarparwyr gofal.

A ellir defnyddio pwerau atwrnai tramor yn Lloegr a Chymru?

- 8.30. Pan fydd LPA neu gyfatebol wedi'i dyfarnu mewn awdurdodaeth arall (h.y. y tu allan i Loegr a Chymru), os yw'n ddilys yn ôl cyfraith yr awdurdodaeth honno, dylid ei thrin fel ei bod yn effeithiol yn Lloegr a Chymru yn awtomatig. Os yw'r atwrnai'n cael trafferth wrth weithredu'r pŵer, gallant wneud cais i'r Llys Gwarchod am ddatganiad eu bod yn gweithredu'n gyfreithiol wrth weithredu'r pŵer⁷⁸. Wrth weithredu'r pŵer yn Lloegr ac yng Nghymru, mae'n rhaid i'r atwrnai weithredu fel petaent yn cael eu llywodraethu gan y Ddeddf a dilyn y canllawiau yn y Cod. Mae'n bwysig nodi bod atwrneiaeth arhosol 'tramor' yn cynnwys un sy'n cael ei rhoi mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Pa ganllawiau ddylai atwrnai eu dilyn?

- 8.31. Mae adran 9(4) yn datgan bod yn rhaid i atwrneiod fodloni'r gofynion a amlinellir yn y Ddeddf. Yn bwysicaf oll, mae'n rhaid iddynt ddilyn yr egwyddorion statudol (adran 1) a gwneud penderfyniadau er y budd gorau i'r unigolyn sydd â phrinder galluedd (adran 4). Gweler pennod 2 am ganllawiau ar sut i ddefnyddio egwyddorion y Ddeddf.
- 8.32. Mae'n rhaid i atwrneiod hefyd barchu unrhyw amodau neu gyfyngiadau mae dogfen yr LPA yn eu cynnwys. Gall amodau fod yn gyfarwyddyd uniongyrchol, lle bydd yn rhaid i'r atwrnai eu dilyn (er enghraifft "mae'n rhaid i'm atwrneiod beidio â chydysnio i unrhyw driniaeth sy'n ymwneud â chynhyrchion gwaed gan fod hyn yn groes i'm crefydd"); neu gallant fynegi dymuniadau neu'r hyn sy'n well gan y rhoddwr, lle dylent roi gwybod i'r atwrnai wrth wneud penderfyniad budd gorau (er enghraifft "byddai'n well gen i fyw o fewn 5 milltir i'm chwaer").
- 8.33. Mae'r llys wedi dyfarnu nad yw rhoddwr yn gallu cyfarwyddo, na mynegi'r hyn sy'n well ganddynt, i'w hatwrneiod weithredu mewn ffordd sy'n anghyson â'r Ddeddf neu sy'n anghyfreithlon⁷⁹. Felly bydd amod neu gyfarwyddyd y dylai atwrnai wneud rhywbeth i ddod â bywyd rhoddwr i ben, neu gynorthwyo yn y broses honno, yn aneffeithiol ac nid yw'r atwrnai yn gallu'i ddefnyddio i gyfiawnhau gweithredu'n anghyfreithlon. Nid yw'n effeithiol chwaith os bydd yn gyfarwyddyd sy'n amodol ar newid yn y gyfraith yn y dyfodol.

⁷⁸ Rheolau 2017 Y Llys Gwarchod ([legislation.gov.uk](https://www.legislation.gov.uk)), ar gael ar: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2017/1035/part/23/made>

⁷⁹ Gweler *The Public Guardian yn erbyn DA & Ors* [2018] EWCOP 26, ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2018/26.html>

- 8.34. Mae rhoddwr yn gallu cyfarwyddo'u hatwrnai i gael cydsyniad trydydd parti cyn gweithredu, er enghraifft, cael cydsyniad plant y rhoddwr cyn gwerthu eu cartref.
- 8.35. Cyn gweithredu o dan y pŵer hwn, dylai atwrnai ymdrechu bob amser i gynorthwyo'r rhoddwr i wneud y penderfyniad eu hunain. Mae pennod 3 yn awgrymu ffyrdd i helpu pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain yn unol ag ail egwyddor y Ddeddf. Dylai atwrneiod hefyd gyfeirio at y canllawiau ym mhennod 4 wrth asesu gallu'r rhoddwr i wneud penderfyniadau, ac yn benodol, dylent ddilyn y camau a awgrymir i sefydlu 'cred resymol' bod y rhoddwr â phrinder galluedd (gweler paragraffau 4.67–4.69).
- 8.36. Wrth benderfynu'r hyn sydd er y budd gorau i'r rhoddwr, dylai atwrneiod gyfeirio at y canllawiau ym mhennod 5. Os bydd y rhoddwr wedi gwneud cyfarwyddyd gorfodol yn yr LPA sy'n ymddangos ei bod yn gwrthdaro â'r hyn sydd er y budd gorau i'r rhoddwr, yna mae'n debygol y bydd angen cais i'r Llys Gwarchod i ddatrys y mater. Gall fod angen i'r cyfarwyddyd gael ei wahanu oddi wrth yr LPA er mwyn i'r LPA fod yn ddilys, gan fod gan yr atwrnai rwymedigaeth statudol i wneud penderfyniad budd gorau⁸⁰.
- 8.37. Gweler paragraffau 8.101–8.115 am ddisgrifiad o ddyletswyddau atwrnai.

Senario: Gwneud penderfyniadau er y budd gorau i roddwr

Roedd Mr Y yn ymgyrchwr amgylcheddol am lawer o flynyddoedd. Penododd ei gyfreithiwr fel ei atwrnai o dan LPA eiddo a materion personol ac mae wedi colli galluedd ers hynny i wneud penderfyniadau ariannol cymhleth am fuddsoddiadau.

Ni ddatganodd Mr Y yn benodol yn yr LPA fod yn rhaid i fuddsoddiadau sy'n cael eu gwneud ar ei ran fod yn fuddsoddiadau moesegol. Pan fydd yr atwrnai yn asesu budd gorau ei gleient, fodd bynnag, mae'r atwrnai yn ystyried dymuniadau, gwerthoedd a chredoau Mr Y yn y gorffennol, gan gynnwys ei waith fel ymgyrchwr amgylcheddol.

Pan fydd yr atwrnai yn gwneud penderfyniadau ariannol ar ran Mr Y mae'n buddsoddi mewn cynhyrchion buddsoddi â pholisïau moesegol ac amgylcheddol gyfrifol cryf.

Beth ddylai rhywun, fel gweithiwr cymdeithasol neu feddyg, wneud pan fydd unigolyn yn honni bod yn atwrnai dros eu cleient neu glaf?

- 8.38. Pan fydd rhywun yn honni ei fod yn gweithredu fel atwrnai unigolyn arall, naill ai mewn perthynas â phenderfyniadau ariannol neu benderfyniadau lles personol, mae gan staff hawl i:

⁸⁰ Gweler Parthed [2019] EWCOP 40 'In The Matter Of Various Lasting Powers of Attorney', ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2019/40.html>

- ofyn i weld y ddogfen wreiddiol neu gopi ardystiedig i wirio ei bod wedi'i chofrestru a bod yr unigolyn yn cael ei enwi fel atwrnai
- gofyn i weld ID llun i ddangos prawf o hunaniaeth yr unigolyn sy'n honni bod yn atwrnai
- gwirio gyda'r OPG nad yw'r ddogfen wedi'i thynnu yn ôl a bod yr atwrnai yn parhau i allu gweithredu'n gyfreithlon
-

8.39. Os ar ôl gweld yr LPA a phrawf ID, bydd staff eisiau gwirio o hyd a oes gan rywun unigolyn arall yn gweithredu ar eu rhan, gallant ofyn i'r OPG wirio'u cofrestr trwy gwblhau'r ffurflen 'OPG 100', sy'n wasanaeth am ddim. Gellir cyflymu'r gwiriadau hyn mewn achosion brys⁸¹. Mae hefyd gan yr OPG wasanaeth 'Defnyddio atwrneiaeth arhosol' electronig⁸².

Pa benderfyniadau gall atwrnai eu gwneud?

LPAau eiddo a materion personol

- 8.40. Mae rhoddwr yn gallu gwneud LPA sy'n rhoi'r hawl i atwrnai wneud penderfyniadau am eiddo a materion personol (gan gynnwys materion ariannol). Ar ôl cael ei chofrestru gellir defnyddio LPA eiddo a materion personol pan fydd gan y rhoddwr allu, os bydd y rhoddwr wedi nodi hynny yn yr LPA, ac os byddant yn rhoi caniatâd i wneud y penderfyniad. Bydd yr LPA yn parhau i fod yn gymwys pan na fydd gan y rhoddwr allu mwyach.
- 8.41. Fel arall, mae rhoddwr yn gallu datgan yn y ddogfen LPA y dylai'r LPA fod yn gymwys yn unig pan fyddant â phrinder galluedd i wneud penderfyniad perthnasol. Cyfrifoldeb y rhoddwr yw penderfynu pwy ddylai asesu eu gallu. Er enghraifft, gall y rhoddwr ymddiried yn yr atwrnai i gynnal asesiad yn unol â'r Ddeddf, neu gallant ddweud bod yr LPA yn gymwys yn unig os bydd eu meddyg teulu neu feddyg arall yn cadarnhau'n ysgrifenedig eu bod â phrinder galluedd i wneud penderfyniadau penodol am eiddo neu gyllid. Gall sefydliadau ariannol ddymuno gweld y cadarnhad ysgrifenedig cyn cydnabod awdurdod yr atwrnai i weithredu o dan yr LPA.
- 8.42. Nid yw'r ffaith bod rhywun wedi gwneud LPA eiddo a materion personol yn golygu nad ydynt yn gallu trafod trafodion ariannol drostynt eu hunain. Gall fod gan y rhoddwr allu, ond mae'n rhagweld efallai y gallant fod â phrinder galluedd ar ryw adeg yn y dyfodol. Neu gall fod ganddynt allu cyfnewidiol ac felly'n gallu gwneud rhai penderfyniadau (ar rai adegau) ond bod angen atwrnai i wneud eraill (ar adegau eraill). Dylai'r atwrnai ganiatáu ac annog y rhoddwr i wneud cymaint â phosibl a dylai weithredu'n unig pan fydd y rhoddwr yn gofyn iddynt neu wneud y

⁸¹ Parthed COVID 19 - canllawiau'r GIG a staff gofal cymdeithasol: gwirio os oes gan glaf [COVID-19 atwrnai neu ddirprwy \(GOV.UK\)](https://www.gov.uk/guidance/nhs-staff-searching-our-registers-of-attorneys-and-deputies), ar gael ar: [https://www.gov.uk/guidance/nhs-staff-searching-our-registers-of-attorneys-and-deputies.](https://www.gov.uk/guidance/nhs-staff-searching-our-registers-of-attorneys-and-deputies)

⁸² Defnyddio atwrneiaeth arhosol ([GOV>UK](https://www.gov.uk)), ar gael ar: [https://www.gov.uk/use-lasting-power-of-attorney.](https://www.gov.uk/use-lasting-power-of-attorney)

penderfyniadau hynny mae'r rhoddwr â phrinder galluedd i'w gwneud. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, gall y rhoddwr ddymuno trosglwyddo cyfrifoldeb dros bob penderfyniad i'r atwrnai, hyd yn oed y rhai hynny y mae ganddynt allu i'w gwneud o hyd.

8.43. Os na fydd y rhoddwr yn cyfyngu penderfyniadau mae'r atwrnai yn gallu'u gwneud, bydd yr atwrnai yn gallu gwneud penderfyniadau am unrhyw un neu bob un o faterion eiddo ac ariannol yr unigolyn. Gallai hyn gynnwys:

- prynu neu werthu eiddo yn enw'r rhoddwr,
- newid a llofnodi cytundebau tenantiaeth,
- agor, cau neu weithredu unrhyw gyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu gyfrif arall yn enw'r rhoddwr
- rhoi mynediad at wybodaeth ariannol y rhoddwr
- hawlio a derbyn pob budd-dal, pensiwn, lwfans ac ad-daliad i gyfrif yn enw'r rhoddwr a'u defnyddio ar ran y rhoddwr (oni bai bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi penodi rhywun yn barod, a bod pawb sy'n ymddiddori yn lles y rhoddwr yn hapus i hyn barhau)
- derbyn unrhyw incwm, etifeddiaeth neu hawl arall i gyfrif yn enw'r rhoddwr ar ran y rhoddwr
- delio â materion treth y rhoddwr
- talu morgais, rhent a chostau cartref y rhoddwr
- yswirio, cynnal ac atgyweirio eiddo'r rhoddwr
- buddsoddi cynilion y rhoddwr
- gwneud rhoddion cyfyngedig ar ran y rhoddwr (ond gweler paragraffau 8.49–8.59 isod)
- talu am ofal meddygol preifat a gofal preswyl neu ffioedd cartref nyrsio
- gwneud cais am unrhyw hawl i gyllid ar gyfer gofal y GIG, gofal cymdeithasol neu addasiadau ar gyfer y rhoddwr
- defnyddio arian y rhoddwr i brynu cerbyd neu unrhyw gyfarpar neu help arall sydd ei angen ar y rhoddwr
- ad-dalu llog a chyfalaf ar unrhyw fenthyciad a gymerwyd gan y rhoddwr.
-

8.44. Bydd LPA eiddo a materion personol cyffredinol yn caniatáu i'r atwrnai gyflawni unrhyw un neu bob un o'r gweithredoedd uchod (er nad yw hon yn rhestr lawn o'r gweithredoedd y gallant eu gwneud). Fodd bynnag, gall y rhoddwr ddymuno nodi'r mathau o bwerau maent yn dymuno i'r atwrnai eu cael, neu i eithrio mathau penodol o benderfyniadau. Os bydd gan y rhoddwr unrhyw asedau fel ymddiriedolwr, dylent gael cyngor cyfreithiol am sut y gall yr LPA effeithio ar hyn.

8.45. P'un ai a oes gan yr atwrnai bŵer cyffredinol mewn perthynas ag eiddo a materion personol neu bŵer cyfyngedig wedi'i gyfyngu i'r adeg pan fydd y rhoddwr wedi colli galluedd, nid oes gan yr atwrnai yr awdurdod i greu Ewyllys i'r rhoddwr. Os bydd angen trefnu gwneud Ewyllys, bydd angen cyflwyno cais i'r Llys Gwarchod.

- 8.46. Mae'n rhaid i'r atwrnai wneud y penderfyniadau hyn yn bersonol ac nid yw'n gallu rhoi awdurdod i rywun arall fel arfer i gyflawni'u dyletswyddau (gweler paragraffau (8.106–8.107). Ond os bydd y rhoddwr yn dymuno i'r atwrnai allu rhoi awdurdod i arbenigwr wneud penderfyniadau penodol, mae angen iddynt ddatgan hyn yn glir yn nogfen yr LPA (er enghraifft, penodi rheolwr buddsoddi i wneud penderfyniadau buddsoddi penodol). Bydd angen i roddwr hefyd ddatgan yn glir yn yr LPA os byddant yn dymuno i arbenigwr maent wedi'i benodi eisoes barhau i weithredu unwaith i'r LPA ddod i rym, fel arall ni fyddant yn gallu parhau i weithredu.
- 8.47. Gall rhoddwyr ddymuno penodi rhywun (efallai aelod o'r teulu neu weithiwr proffesiynol) i fynd trwy eu cyfrifon gyda'r atwrnai yn achlysurol. Gallai hyn helpu i roi sicrwydd i roddwyr y bydd rhywun yn gwirio'u materion ariannol pan fyddant â phrinder galluedd i wneud hynny. Gall fod o gymorth hefyd i atwrneiod drefnu gwiriad rheolaidd fod popeth yn cael ei wneud yn gywir. Dylai'r rhoddwr sicrhau bod yr unigolyn yn fodlon cyflawni'r rôl hon a'i fod yn barod i ofyn am y cyfrifon os na fydd yr atwrnai yn eu darparu. Dylent gynnwys y trefniant hwn yn nogfen yr LPA wedi'i llofnodi. Dylai'r LPA ddweud hefyd a yw'r unigolyn yn gallu codi ffi am y gwasanaeth hwn, ac os ydynt yn gallu, ar ba gyfradd.
- 8.48. Os bydd y rhoddwr yn dymuno penodi gweithiwr proffesiynol (er enghraifft, cyfreithiwr neu gyfrifydd) fel eu hatwrnai, dylent nodi yn yr LPA a yw'r gweithiwr proffesiynol yn gallu codi ffi, ac os felly, ar ba gyfradd.

Pa roddion mae atwrnai yn gallu eu gwneud o dan LPA eiddo a materion personol?

- 8.49. Mae terfynau llym ar y mathau o roddion mae atwrneiod yn gallu'u rhoi ar ran rhoddwr. Gall atwrnai wneud roddion o arian neu eiddo'r rhoddwr yn unig i bobl sy'n perthyn neu'n gysylltiedig â'r rhoddwr (gan gynnwys yr atwrnai) ar achlysuron "arferiadol", gan gynnwys:
- genedigaethau neu ben-blwyddi
 - priodasau neu ben-blwyddi priodas
 - seremonïau neu ben-blwyddi partneriaethau sifil, neu
 - unrhyw achlysur arall pan fydd teuluoedd, ffrindiau neu gysylltiadau fel arfer yn rhoi anrhegion, er enghraifft, y Nadolig, Eid, Diwali, Hanukkah, Blwyddyn Newydd Tsieina (adran 12(3)(b)).
- 8.50. Os oedd y rhoddwr wedi gwneud cyfraniadau'n flaenorol at unrhyw elusen yn rheolaidd neu o dro i dro, mae'r atwrnai yn gallu gwneud cyfraniadau o gyllid yr unigolyn. Mae hyn yn gymwys hefyd pe byddai disgwyl wedi bod i'r rhoddwr wneud y fath daliadau (adran 12(2)(b)). Ond mae'n rhaid i werth unrhyw rodd neu gyfraniad fod yn rhesymol ac ystyried maint ystâd y rhoddwr. Er enghraifft, ni fyddai'n rhesymol prynu roddion Nadolig drud pe byddai rhaid i'r rhoddwr fod heb eitemau hanfodol er mwyn talu amdanynt.

- 8.51. Mewn amgylchiadau penodol, gellir gwneud rhoddion hyd at yr eithriad treth Etifeddiaeth flynyddol, a'r eithriad rhoddion bach blynyddol i uchafswm o ddeg o bobl. Mae'r fath roddion yn gallu cael eu gwneud lle:
1. mae gan y rhoddwr ddisgwyliad oes o lai na phum mlynedd
 2. mae ystâd y rhoddwr yn fwy na'r band cyfradd dim at ddibenion Treth Etifeddiaeth
 3. mae'r rhodd yn fforddiadwy o ystyried amgylchiadau'r rhoddwr
 4. nid oes tystiolaeth y byddai'r rhoddwr yn gwrthwynebu'r rhodd
- 8.52. Os bydd yr atwrnai yn dymuno gwneud rhodd y tu allan i'r terfynau hyn, yna gall fod angen gwneud cais i'r Llys Gwarchod.
- 8.53. Nid yw'r rhoddwr yn gallu defnyddio'r LPA i wneud rhoddion mwy helaeth na'r rhai hynny a ganiateir o dan adran 12 y Ddeddf. Ond maent yn gallu gosod amodau neu gyfyngiadau llymach ar bwerau'r atwrnai i wneud rhoddion. Dylent ddatgan y cyfyngiadau hyn yn glir yn nogfen yr LPA wrth ei chreu.
- 8.54. Wrth benderfynu ar roddion priodol, dylai'r atwrnai ystyried dymuniadau a theimladau'r rhoddwr i ganfod yr hyn fyddai er y budd gorau i'r rhoddwr.
- 8.55. Gall y rhoddwr hefyd gynnwys datganiad yn yr LPA yn mynegi'u dymuniad i'r atwrnai ddefnyddio cyllid y rhoddwr er budd rhywun heblaw am y rhoddwr (gan gynnwys yr atwrnai). Gall y fath ddarpariaeth mewn LPA fod yn ddilys, ar yr amod ei bod yn ddatganiad yn unig o ddymuniadau'r rhoddwr, yn hytrach na chael ei mynegi fel cyfarwyddiadau gorfodol i'r atwrnai eu dilyn. Mae hyn oherwydd bod yn rhaid i'r atwrnai wneud pob penderfyniad yn unol â budd gorau'r rhoddwr ar adeg y penderfyniad⁸³.
- 8.56. Gallai enghreifftiau o daliadau y gall atwrnai eu hawdurdodi os bydd darpariaeth ar eu cyfer megis uchod mewn LPA ddilys, heb geisio cymeradwyaeth y Llys Gwarchod, gynnwys:
- cronfeydd ymddiriedolaeth i wyrion
 - talu ffioedd ysgol i wyrion
 - benthyciadau di-log i deulu
 - cynhaliadau ar gyfer unrhyw aelod o'r teulu heblaw am wraig, gŵr, partner sifil neu blentyn o dan 18 y rhoddwr
 - buddsoddiadau ym musnes yr atwrnai, neu fusnes aelod o'r teulu
 - taliadau am wyliau, ceir neu eitemau o werth i aelodau'r teulu

⁸³Gweler Parthed [2019] EWCOP 40 'In The Matter Of Various Lasting Powers of Attorney', ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2019/40.html>

- 8.57. Nid yw'n angenrheidiol chwaith i atwrnai wneud cais i'r Llys am ganiatâd i ddefnyddio cyllid y rhoddwr i roi budd i unigolyn arall (gan gynnwys yr atwrnai) yn yr un ffordd ag y gwnaeth y rhoddwr pan oedd ganddo allu.
- 8.58. Mae'r atwrnai yn gallu gwneud cais i'r Llys Gwarchod am ganiatâd i wneud rhoddion nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr LPA (er enghraifft, at ddibenion cynllunio treth).
- 8.59. Mae'r OPG yn darparu canllawiau i atwrneiod ar roi rhoddion⁸⁴.

LPAau lles personol

- 8.60. Mae LPA lles personol yn galluogi atwrneiod i wneud penderfyniadau am les personol, sy'n gallu cynnwys penderfyniadau gofal iechyd a thriniaeth feddygol. Yn wahanol i LPA eiddo a materion personol, mae LPA lles personol yn gallu cael ei defnyddio'n unig pan fydd gan y rhoddwr brinder galluedd i wneud penderfyniad iechyd neu les penodol.
- 8.61. Gallai LPAau lles personol gynnwys penderfyniadau am:
- le dylai'r rhoddwr fyw a gyda phwy y dylent fyw
 - gofal dydd i ddydd y rhoddwr, gan gynnwys deiet a gwisgo
 - pwy y gall y rhoddwr gael cysylltiad â nhw
 - cydsynio i neu wrthod archwiliad meddygol a thriniaeth ar ran y rhoddwr
 - trefniadau sydd eu hangen i'r rhoddwr gael triniaeth feddygol, deintyddol neu optegol
 - asesiadau ar gyfer a darparu gwasanaethau gofal
 - a ddylai'r rhoddwr gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, gweithgareddau hamdden, addysg neu hyfforddiant
 - gohebiaeth a phapurau personol y rhoddwr
 - hawliau mynediad at wybodaeth bersonol am y rhoddwr, neu
 - gwynion am ofal neu driniaeth y rhoddwr.
- 8.62. Mae terfynau hefyd ar y mathau o benderfyniadau y mae atwrnai yn gallu eu gwneud. Mae penderfyniadau nad yw atwrnai lles personol yn gallu eu gwneud yn cynnwys:
- manylu ar y driniaeth benodol y dylai unigolyn ei chael
 - gosod dewisiadau meddygol yr atwrnai ei hun
 - tynnu bwyd a diod yn ôl rhag y rhoddwr heb ymgynghori
 - cyfarwyddo staff i gyflawni gofal na chytunwyd
 -

⁸⁴ Canllawiau'r OPG ar ddarparu rhoddion, ar gael ar: www.gov.uk/government/publications/giving-gifts-a-guide-for-deputies-and-attorneys.

- 8.63. Mae rhoddwyr yn gallu ychwanegu cyfyngiadau neu amodau i feysydd lle na fyddent yn dymuno i'r atwrnai gael y pŵer i weithredu. Er enghraifft, gallai rhoddwr ddymuno i atwrnai wneud penderfyniadau am eu gofal cymdeithasol yn unig ac nid am eu gofal iechyd. Mae rhoddwyr hefyd yn gallu nodi'r hyn sy'n well ganddynt ar gyfer sut maent am i'r atwrnai fynd i'r afael â phenderfyniadau budd gorau. Mae rheolau penodol ar gyfer LPAau sy'n awdurdodi atwrnai i wneud penderfyniadau am driniaeth cynnal bywyd (gweler paragraffau 8.75–8.77 isod).

Senario: Cyfyngu'r penderfyniadau y gall atwrnai eu gwneud

Mae Ms H yng nghamau cynnar afiechyd Alzheimer. Mae'n dymuno cael trefn ar ei materion personol tra bod ganddi'r galluedd i wneud hynny, ac felly mae'n gwneud LPA lles personol, gan benodi ei merch fel atwrnai.

Mae Ms H yn gwybod bod perthnasoedd o dan straen rhwng ei merch a rhai aelodau eraill o'r teulu. Mae'n bwysig iawn i Ms H nad yw hyn yn effeithio ar y cysylltiad sydd ganddi ag aelodau eraill o'r teulu.

Mae Ms H yn datgan yn yr LPA nad oes gan ei hatwrnai yr awdurdod i gyfyngu ar bwy sy'n gallu cysylltu â hi. Felly, pe byddai ei merch yn dymuno atal unrhyw un rhag cysylltu â Ms H, mae'n rhaid iddi wneud cais i'r Llys Gwarchod am benderfyniad ar hyn.

- 8.64. Cyn gwneud penderfyniad o dan LPA lles personol, mae'n rhaid i'r atwrnai sicrhau bod:
- yr LPA wedi'i chofrestru gyda'r OPG
 - y rhoddwr â phrinder galluedd i wneud y penderfyniad penodol neu fod yr atwrnai'n credu'n rhesymol bod y rhoddwr â phrinder galluedd i wneud y penderfyniadau a gynhwysir gan yr LPA (wedi defnyddio egwyddorion y Ddeddf)
 - os bydd galluedd y rhoddwr yn gyfnewidiol (gweler paragraff 4.50), na ellir oedi'r penderfyniad tan y bydd y rhoddwr yn adennill galluedd i'w wneud eu hunain
 - mae'n gwneud y penderfyniad er y budd gorau i'r rhoddwr, a'u
 - bod wedi cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a ddarparwyd gan y rhoddwr o fewn yr LPA, gan gynnwys cael tystiolaeth feddygol ar allu os nodwyd hyn.
- 8.65. Pan fydd atwrnai'n teimlo nad yw'n gallu gwneud penderfyniad, dylai'r rhai hynny y mae angen iddynt wneud penderfyniadau gofal a thriniaeth wneud penderfyniad budd gorau os bydd yr unigolyn â phrinder galluedd (pennod 5), ac felly bydd yn cael ei ddiogelu rhag atebolrwydd o dan adran 5 y Ddeddf (pennod 6).
- 8.66. Pan fydd staff gofal iechyd neu ofal cymdeithasol yn ymwneud â pharatoi cynllun gofal a chymorth i rywun sydd wedi penodi atwrnai lles personol, mae'n rhaid iddynt asesu'n gyntaf a oes gan y rhoddwr allu i gytuno â'r cynllun gofal a chymorth neu i rannau ohono. Os bydd y rhoddwr â phrinder galluedd ac mae'r penderfyniad o fewn cwmpas LPA y rhoddwr, mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol

yna ymgynghori â'r atwrnai a sicrhau eu bod yn cytuno â'r cynllun gofal a chymorth. Hyd yn oed os bydd y tu allan i gwmpas yr LPA, bydd angen i'r gweithwyr proffesiynol ymgynghori â'r atwrnai wrth ystyried pa gamau gweithredu sydd er y budd gorau i'r unigolyn.

- 8.67. Gall staff iechyd a gofal cymdeithasol ofyn i'r OPG chwilio'r gofrestr o LPAau i gadarnhau bod LPA lles personol wedi'i chofrestru neu i gadarnhau bod atwrnai wedi'i benodi ac yn gallu gweithredu.
- 8.68. Pan fydd unigolyn yn cyllido eu gofal eu hunain a bod ganddynt atwrnai iechyd a lles yn ogystal ag eiddo a materion personol, mae'n rhaid i'r ddau atwrnai weithio gyda'i gilydd i wneud penderfyniad (gweler paragraff 8.81 i gael mwy o fanylion).

Penderfyniadau y gall atwrnai iechyd a lles eu gwneud a pheidio â'u gwneud

- 8.69. Mae LPA lles personol yn caniatáu i atwrneiod wneud penderfyniadau i dderbyn neu wrthod gofal iechyd neu driniaeth oni bai bod y rhoddwr wedi datgan yn glir yn yr LPA nad ydynt yn dymuno i'r atwrnai wneud y penderfyniadau hyn.
- 8.70. Hyd yn oed lle bydd yr LPA yn nodi y gall penderfyniadau gofal iechyd gael eu gwneud, nid oes gan atwrneiod hawl i gydsynio nac i wrthod triniaeth mewn sefyllfaoedd lle:
- mae gan y rhoddwr allu i wneud y penderfyniad gofal iechyd penodol (adran 11(7)(a)). Nad oes gan atwrnai bŵer i wneud penderfyniad os bydd y rhoddwr yn gallu gwneud eu penderfyniadau ei hunain am driniaeth.
 - lle bydd y rhoddwr wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw wedi hynny i wrthod y driniaeth a gynigir (adran 11(7)(b)). Nid yw atwrnai yn gallu cydsynio i driniaeth os bydd y rhoddwr wedi gwneud penderfyniad dilys a chymwys ymlaen llaw i wrthod triniaeth benodol (gweler pennod 9). Ond os oedd y rhoddwr wedi gwneud a chofrestru LPA ar ôl y penderfyniad ymlaen llaw, a rhoi hawl i'r atwrnai gydsynio i neu wrthod y driniaeth, gall yr atwrnai ddewis peidio â dilyn y penderfyniad ymlaen llaw.
 - mae penderfyniad yn ymwneud â thriniaeth cynnal bywyd, oni bai y rhoddir awdurdodiad penodol i wneud hynny (adran 11(7)(c)). Nid oes gan atwrnai bŵer i gydsynio i na gwrthod triniaeth sy'n cynnal bywyd, oni bai bod dogfen yr LPA yn eu hawdurdodi'n benodol (gweler paragraffau 8.75–8.77.)
 - mae'r rhoddwr yn cael ei gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (adran 28). Nid yw atwrnai yn gallu cydsynio i na gwrthod triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol i glaf sy'n cael ei gadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, gyda dau eithriad:
 - i. gall atwrnai wrthod caniatáu therapi electrogynhyrfol lle mae'r rhoddwr â phrinder galluedd i gydsynio i'w ddefnyddio

- ii. gall atwrnai gydsynio i driniaeth o dan orchymyn triniaeth gymunedol lle bo angen y driniaeth ar unwaith ac mae gan y rhoddwr brinder galluedd i gydsynio.
- 8.71. Gweler pennod 22 i gael gwybodaeth bellach ar y rhyngweithio rhwng y Ddeddf a'r Ddeddf Iechyd Meddwl.
 - 8.72. Nid yw LPAau yn rhoi'r pŵer i atwrneiod fynnu ffurfiau penodol o driniaeth feddygol nad yw staff gofal iechyd yn credu sy'n angenrheidiol neu'n briodol ar gyfer cyflwr penodol y rhoddwr.
 - 8.73. Mae'n rhaid i atwrneiod ddilyn egwyddorion y Ddeddf bob amser a gwneud penderfyniadau er y budd gorau i'r rhoddwr. Os bydd staff gofal iechyd yn anghytuno ag asesiad yr atwrnai o fudd gorau, dylent drafod yr achos ag arbenigwyr meddygol eraill a/neu gael ail farn ffurfiol. Yna dylent drafod y mater ymhellach gyda'r atwrnai. Nid yw gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn gallu diystyru penderfyniad atwrnai. Os na fyddant yn gallu datrys yr anghytundeb, mae'n rhaid iddynt wneud cais i'r Llys Gwarchod (gweler paragraffau 8.85–8.91 isod). Tra bo'r llys yn penderfynu, gall staff gofal iechyd roi triniaeth sy'n cynnal bywyd i ymestyn bywyd y rhoddwr neu atal dirywiad yn eu cyflwr.
 - 8.74. Ni ddylai rhoddwr gynnwys cyfarwyddiadau na cheisiadau sy'n ymwneud ag ewthanasia na marw â chymorth mewn LPA. Nid oes darpariaeth ar gyfer hyn o dan gyfraith Lloegr a Chymru a bydd yr OPG yn gwneud cais i'r Llys Gwarchod i ddileu unrhyw ddarpariaeth o'r fath pan fydd yr LPA yn cael ei hanfon i'w chofrestru.

LPAau lles personol sy'n awdurdodi atwrnai i wneud penderfyniadau am driniaeth cynnal bywyd

- 8.75. Mae atwrnai yn gallu cydsynio i neu wrthod triniaeth cynnal bywyd ar ran y rhoddwr yn unig os, wrth wneud yr LPA, bydd y rhoddwr wedi datgan yn benodol yn nogfen yr LPA eu bod yn dymuno i'r atwrnai gael yr awdurdod hwn.
- 8.76. Fel gyda phob penderfyniad, mae'n rhaid i atwrnai weithredu er y budd gorau i'r rhoddwr wrth wneud penderfyniadau am y fath driniaeth. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio'r rhestr wirio budd gorau (gweler pennod 5) ac ymgynghori â gofalwyr, aelodau o'r teulu ac eraill sy'n ymddiddori yn lles y rhoddwr. Yn benodol, mae'n rhaid i'r atwrnai beidio â chael ei symbylu mewn unrhyw ffordd gan yr awydd i achosi marwolaeth y rhoddwr (gweler pennod 5). Gall unrhyw un sy'n amau bod yr atwrnai yn gweithredu er y budd gorau i'r rhoddwr allu gwneud cais i'r Llys Gwarchod am benderfyniad.

- 8.77. Fel yr amlinellir ym mharagraff 8.70, ac yn fanylach ym mhennod 11, ni fydd atwrnai yn gallu diystyru penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth oni bai bod LPA wedi cael ei gwneud wedi hynny a bod yr atwrnai wedi cael y pŵer i wneud penderfyniadau am ofal iechyd.

Senario: Gwneud penderfyniadau ynghylch triniaeth cynnal bywyd

Mae Ms J yn derbyn diagnosis o ganser. Roedd wedi gweld ei thad yn dioddef ar ôl triniaeth ymwithiol am ganser ac mae hi'n glir na fyddai'n dymuno mynd trwy driniaeth gyffelyb ei hun. Wrth i'w chynllun triniaeth fynd rhagddo, mae'n parhau i drafod ei dymuniadau a'i theimladau amdano gyda'i gŵr.

Mae Ms J yn gwneud LPA lles personol gan benodi ei gŵr fel ei hatwrnai ag awdurdod i wneud ei holl benderfyniadau lles a gofal iechyd os bydd hi'n colli gallu i wneud hynny. Mae'n cynnwys datganiad penodol yn yr LPA sy'n awdurdodi ei gŵr i gydsynio i neu wrthod triniaeth sy'n cynnal bywyd.

Mae Ms J wedi cael llawer o drafodaethau gyda'i gŵr am driniaeth ei thad, ac mae'n cael trafodaeth barhaus ag ef nawr am ei thriniaeth ei hun. Er enghraifft mae'n dweud yn aml os bydd ei chanser yn datblygu y tu hwnt i gam penodol ei dymuniad fyddai ar reoli a rhyddhau rhag poen yn lliniarol a all ymestyn ei hoes ond a fyddai'n cael sgîl-ffeithiau heriol. Mae Ms J yn hyderus bod ei gŵr yn ymwybodol iawn o, a bydd yn parchu, ei dymuniadau a theimladau os bydd yn rhaid iddo wneud penderfyniad fyth am driniaeth er ei budd gorau, os bydd hi â phrinder galluedd'n ddiweddarach i wneud y penderfyniadau hynny ei hun.

Penderfyniadau sy'n ymwneud â lles personol, ac eiddo a materion personol

- 8.78. Bydd enghreifftiau lle bydd angen penderfyniad i gael ei wneud sy'n ymwneud â lles personol y rhoddwr yn ogystal â'u heiddo a materion personol. Bydd hyn yn gyffredinol yn wir lle mae angen prynu eitemau, talu am wasanaethau neu lofnodi contractau sy'n ymwneud â gofal iechyd neu gymdeithasol i'r rhoddwr. Gallai hyn gynnwys:

1. Penderfyniadau am le dylai'r rhoddwr fyw sy'n cynnwys prynu neu werthu eiddo, neu lofnodi cytundebau tenantiaeth, gan gynnwys newidiadau i lety preifat neu symud i gartref gofal
2. Cydsynio i, trefnu a thalu am driniaeth feddygol, deintyddol neu optegol.
3. Trefnu asesiadau ar gyfer gofal cymunedol lle mae'r rhain yn cynnwys prawf modd
4. Penderfyniadau am weithgareddau cymdeithasol a hamdden, addysg neu hyfforddiant lle mae'r rhain yn cynnwys taliadau ariannol

- 8.79. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys pob enghraifft a bydd angen i atwrneiod adnabod pryd bydd penderfyniad yn gofyn am ystyriaeth o'r ddau fater.

- 8.80. Bydd sut bydd atwrnai'n delio â'r penderfyniadau hyn yn dibynnu ar a oes gan yr un unigolyn bŵer atwrnai ar gyfer y ddau fath.

- Os bydd gan atwrnai y pŵer i wneud penderfyniadau am les personol, ac eiddo a materion personol, dylent sicrhau eu bod yn ystyried budd gorau'r rhoddwr o'r ddau bersbectif wrth wneud y penderfyniad.
- Os bydd atwrneiod gwahanol wedi'u penodi i wneud penderfyniadau am les personol i'r rhai hynny a benodwyd ar gyfer eiddo a materion personol, mae'n rhaid i'r atwrneiod weithio gyda'i gilydd i wneud y penderfyniad. Bydd angen i bob un ystyried budd gorau'r rhoddwr mewn perthynas â'r elfen o'r penderfyniad maent yn gyfrifol amdano a chytuno â'r atwrnai arall pa fforddyw'r orau i symud ymlaen. Bydd hyn yn cynnwys cydbwysio anghenion ieched neu les y rhoddwr â'u sefyllfa ariannol i gyrraedd penderfyniad gwybodus.

8.81. Pan fydd dau neu fwy o atwrneiod yn gyfrifol am fathau gwahanol o benderfyniad ac nad ydynt yn gallu cyrraedd cytundeb, gall fod yn angenrheidiol gwneud cais i'r Llys Gwarchod. Gallai hyn godi mewn amgylchiadau lle mae angen i'r rhoddwr fynd i gartref gofal wedi'i gyllido'n breifat ac nid yw'r atwrneiod yn gallu cytuno pa gartref hyd yn oed ar ôl ystyried budd gorau'r rhoddwr, anghenion lles personol a chyllid.

Oes unrhyw gyfyngiadau eraill ar bwerau atwrneiod?

8.82. Nid yw atwrneiod wedi'u diogelu rhag atebolrwydd os byddant yn gwneud rhywbeth sydd wedi'i fwriadu i atal y rhoddwr, oni bai:

- bod yr atwrnai'n credu'n rhesymol bod y rhoddwr â phrinder galluedd i wneud y penderfyniad o dan sylw, a
- bod yr atwrnai'n credu'n rhesymol bod angen ataliaeth i atal niwed i'r rhoddwr, a
- bod y math o atalaieth a ddefnyddir yn gymesur â'r tebygolrwydd a'r difrifoldeb o'r niwed

8.83. Os bydd angen i atwrnai wneud penderfyniad neu weithredu a all gynnwys defnyddio ataliaeth, dylent ystyried y canllawiau a amlinellir ym mhennod 6.

8.84. Nid oes gan atwrneiod awdurdod i weithredu fydd yn arwain at y rhoddwr yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid. Bydd unrhyw amddifadu o ryddid yn gyfreithlon yn unig os yw wedi'i awdurdodi'n gywir. Mae pennod 12 a 13 yn disgrifio Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ac mae pennod 22 yn esbonio cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Pa bwerau sydd gan y Llys Gwarchod dros LPAau?

8.85. Mae gan y Llys Gwarchod amrywiaeth o bwerau i:

- bennu a yw LPA yn ddilys
- rhoi cyfarwyddiadau ynglŷn a defnyddio'r LPA, a

- diswyddo atwrnai (er enghraifft, os na fydd yr atwrnai'n gweithredu er y budd gorau i'r rhoddwr).

8.86. Mae pennod 7 yn rhoi mwy o wybodaeth am bwerau'r Llys Gwarchod.

8.87. Os bydd gan rywun amheuan ynghylch a yw LPA yn ddilys, gallant ofyn i'r llys benderfynu a yw'r LPA:

- yn bodloni gofynion y Ddeddf
- wedi'i dirymu (ei chanslo) gan y rhoddwr, neu
- wedi dod i ben am unrhyw reswm arall.

8.88. Mae'r llys hefyd yn gallu atal rhywun rhag cofrestru LPA neu ddyfarnu bod LPA yn annilys os:

- gwnaeth y rhoddwr yr LPA o ganlyniad i bwysau amhriodol neu dwyll, neu
- fod yr atwrnai'n ymddwyn, neu wedi ymddwyn neu'n bwriadu ymddwyn mewn ffordd sy'n mynd yn groes i'w dyletswyddau neu nad yw er y budd gorau i'r rhoddwr.

-

8.89. Mae'r llys hefyd yn gallu egluro ystyr LPA, os na fydd yn eglur, ac mae'n gallu dweud wrth atwrneiod sut y dylent ddefnyddio LPA. Os bydd atwrnai'n meddwl nad yw LPA yn rhoi digon o bwerau iddynt, maent yn gallu gofyn i'r llys ymestyn eu pwerau os nad oes gan y rhoddwr allu mwyach i awdurdodi hyn. Mae'r llys hefyd yn gallu awdurdodi atwrnai i wneud rhodd nad yw'r Ddeddf fel arfer yn ei chaniatáu (adran 12(2)), os bydd er y budd gorau i'r rhoddwr.

8.90. Gall yr OPG wneud cais i'r llys mewn rhai amgylchiadau cyn cofrestru LPA os bydd darpariaethau ynddi fyddai'n ei hatal rhag bod yn ddilys. Maent hefyd yn gallu gwneud cais i ddiswyddo atwrneiod neu ofyn i'r llys bennu unrhyw faterion am y ffordd mae LPA yn cael ei defnyddio.

8.91. Dylai pob atwrnai gadw cofnodion o'u cysylltiadau â materion y rhoddwr (gweler hefyd baragraff 8.114 isod). Mae'r llys yn gallu gorchymyn atwrneiod i gynhyrchu cofnodion (er enghraifft, cyfrifon ariannol) ac i ddarparu adroddiadau, gwybodaeth neu ddogfennaeth benodol. Os bydd gan rywun bryderon am dâl neu dreuliau atwrnai, gallai'r llys ddatrys y mater. Mae gan yr OPG hefyd bŵer i ofyn am gofnodion lle mae rhywun wedi codi pryder am weithredoedd atwrnai.

Senario: Pryderon am atwrnai lles

Mae gan Ms L ddementia fasgiwlaidd ac mae'n byw gyda'i mab, Mr J, sydd wedi cynorthwyo'i fam gyda'i gofal ers peth amser. Mae Mr J hefyd yn gweithredu fel atwrnai lles personol i Ms L, sydd nawr â phrinder galluedd i wneud penderfyniadau ynglŷn â'i gofal.

Mae iechyd Ms L yn gwaethygu, ac mae angen cymorth ychwanegol arni gyda'i hunanofal. Mae gofalwr sydd wedi'i gyflogi i roi mwy o gymorth i Ms L, yn sylwi ar rai crafiadau a chleisiau drwg ar freichiau a choesau Ms L. Mae'r gofalwr yn holi Mr J am hyn, ac mae'n dweud nad oedd wedi sylwi ar y marciau ar Ms L, gan ddweud ei bod yn debygol wedi syrthio.

Mae'r gofalwr yn siarad â'i oruchwylydd sy'n codi rhybudd diogelu gyda'r awdurdod lleol, gan ei bod yn bryderus y gallai Ms L fod wedi'i cham-drin yn gorfforol gan Mr J.

Fel rhan o'u hymchwiliadau, mae gweithiwr cymdeithasol o'r awdurdod lleol yn cysylltu â'r OPG sy'n cadarnhau bod LPA iechyd a lles, gyda Mr J yn atwrnai i Ms L. Mae'r awdurdod lleol yn rhannu canlyniad ei ymchwiliad â'r OPG fel bod penderfyniad yn gallu cael ei wneud a ddylai'r LPA aros mewn grym.

Pa gyfrifoldebau sydd gan atwrneiod?

- 8.92. Ni all rhoddwr fynnu bod rhywun yn cytuno i fod yn atwrnai. Mater i'r atwrnai a gynigir yw penderfynu a ddylai gymryd y cyfrifoldeb hwn. Dylent ystyried a oes ganddynt y sgiliau a'r gallu i weithredu fel atwrnai ac a ydynt wir yn dymuno bod yn atwrnai ac ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl. Pan fydd atwrnai yn derbyn y rôl trwy lofnodi dogfen yr LPA, mae hyn yn gadarnhad eu bod yn fodlon gweithredu o dan yr LPA cyn gynted â'i bod wedi'i chofrestru. Mae atwrnai yn gallu tynnu yn ôl o'r penodiad os byddant fyth yn mynd yn analluog neu'n anfodlon gweithredu, ond os bydd yr LPA wedi'i chofrestru mae'n rhaid iddynt ddilyn y gweithdrefnau cywir ar gyfer tynnu yn ôl (gweler paragraff 8.117 isod).
- 8.93. Cyn gweithredu o dan LPA, mae'n rhaid i atwrneiod sicrhau bod yr LPA wedi'i chofrestru â'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Nid oes rhwymedigaeth ar atwrnai i weithredu, oherwydd bod LPA yn rhoi pŵer yn hytrach na dyletswydd. Ond cyn gynted â bod atwrnai yn dechrau gweithredu o dan LPA, mae'n rhaid iddynt fodloni safonau penodol. Os na fyddant yn cyflawni'r dyletswyddau isod, gallant gael eu diswyddo o'r rôl. Mewn rhai amgylchiadau gallent wynebu cyhuddiadau o dwyll neu esgeulustod.

Pa ddyletswyddau mae'r Ddeddf yn eu gosod?

- 8.94. Mae gan atwrneiod sy'n gweithredu o dan LPA ddyletswydd i:
1. ddilyn egwyddorion statudol y Ddeddf (gweler pennod 2)
 2. gwneud penderfyniadau er y budd gorau i'r rhoddwr

3. ystyried y canllawiau yn y Cod Ymarfer
4. gwneud y penderfyniadau hynny'n unig mae'r LPA yn rhoi awdurdod iddynt wneud
5. rhannu'r ddogfennaeth sy'n dangos bod ganddynt bŵer atwrnai gyda thrydydd partïon perthnasol.

Egwyddorion a budd gorau

8.95. Mae'n rhaid i atwrneiod weithredu yn unol ag egwyddorion statudol y Ddeddf (adran 1) ac er y budd gorau i'r rhoddwr (mae'r camau dros sefydlu budd gorau'n cael eu hamlinellu yn adran 4). Yn benodol, mae'n rhaid i atwrneiod ystyried a oes gan y rhoddwr allu i wneud y penderfyniad drostynt eu hunain, a chymryd pob cam ymarferol a phriodol i'w cynorthwyo i wneud eu penderfyniadau eu hunain (gweler pennod 3). Os na fydd gan y rhoddwr allu, dylent ystyried a yw'r rhoddwr yn debygol o adennill y galluedd i wneud y penderfyniad yn y dyfodol. Os felly, gall fod yn bosibl gohirio'r penderfyniad tan bydd yr unigolyn yn gallu ei wneud.

Y Cod Ymarfer

8.96. Yn ogystal â'r bennod hon, dylai atwrneiod roi sylw arbennig i'r canllawiau canlynol a amlinellir yn y Cod:

- pennod 2, sy'n amlinellu sut y dylai egwyddorion y Ddeddf gael eu defnyddio
- pennod 3, sy'n disgrifio'r camau y gellir eu cymryd i geisio helpu'r unigolyn i wneud y penderfyniadau drostynt eu hunain
- pennod 4, sy'n disgrifio diffiniad y Ddeddf o brinder galluedd ac sy'n rhoi canllawiau ar asesu gallu, a
- phennod 5, sy'n rhoi canllawiau ar sefydlu'r budd gorau i'r rhoddwr.

8.97. Mewn rhai amgylchiadau, gallai atwrneiod ei chael yn ddefnyddiol hefyd i gyfeirio at ganllawiau ym:

- mhennod 6, sy'n esbonio pan all atwrneiod sydd â chyfrifoldebau gofalu gael amddiffyniad rhag atebolrwydd ac sy'n rhoi canllawiau ar yr ychydig amgylchiadau pan fydd y Ddeddf yn caniatáu ataliaeth mewn perthynas â gofal a thriniaeth
- pennod 7, sy'n rhoi crynodeb o bwerau'r Llys Gwarchod mewn perthynas ag LPAau
- pennod 11, sy'n esbonio sut y gall LPAau gael eu heffeithio os bydd y rhoddwr wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth
- pennod 24, sy'n disgrifio ffyrdd i ddatrys anghytundebau.

Gwneud penderfyniadau'n unig sy'n cael eu cynnwys gan yr LPA

8.98. Mae'n bosibl y bydd rhai amgylchiadau lle mae'n ofynnol i atwrnai eiddo a materion personol wneud penderfyniad ar ran y rhoddwr, sydd ag elfen lles personol. Gall

atwrnai eiddo a materion personol wneud y penderfyniad os yw'n effeithio ar eiddo a materion ariannol y rhoddwr. Wrth gwrs, gallai'r un person gael ei benodi fel yr atwrnai ar gyfer materion eiddo ac arian a materion iechyd a lles.

- 8.99. O dan unrhyw LPA, bydd gan yr atwrnai awdurdod i wneud ystod eang o benderfyniadau. Ond os bydd rhoddwr yn cynnwys cyfyngiadau yn nogfen yr LPA, bydd hyn yn cyfyngu ar awdurdod yr atwrnai (adran 9(4)(b)). Os bydd yr atwrnai'n meddwl bod angen mwy o bwerau arnynt, gallant wneud cais i'r Llys Gwarchod a all benderfynu rhoi'r awdurdod gofynnol i'r atwrnai neu fel arall penodi'r atwrnai fel dirprwy gyda'r pwerau angenrheidiol (gweler pennod 7).
- 8.100. Mae'n arfer da i wneuthurwyr penderfyniadau ymgynghori ag atwrneiod am unrhyw benderfyniad neu weithred, a yw'n cael ei gynnwys gan yr LPA neu beidio. Mae hyn oherwydd y gall fod gan atwrnai wybodaeth bwysig am ddymuniadau a theimladau'r unigolyn. Mae ymchwilyr hefyd yn gallu ymgynghori ag atwrneiod os byddant yn meddwl am gynnwys y rhoddwr mewn ymchwil (gweler pennod 26).

Senario: Ymgynghori ag atwrneiod

Mae Mr V yn gwneud ac yn cofrestru LPA lles personol gan benodi ei fab a'i ferch fel atwrneiod ar y cyd. Mae hefyd yn gwneud LPA eiddo a materion personol, gan benodi ei fab a'i gyfreithiwr i weithredu ar y cyd ac yn unigol.

Yn ddiweddarach mae Mr V yn cael strôc, ac, yn dilyn ymdrechion tîm yr ysbyty i'w gynnwys a'i gynorthwyo mewn penderfyniadau am ei driniaeth ar unwaith, mae'n cael ei asesu â phrinder galluedd i wneud y penderfyniadau hyn am y tro. Mae'i atwrneiod lles felly'n camu i mewn i wneud y penderfyniadau hyn er y budd gorau i Mr V. Maent yn cytuno na fyddai'n briodol ar hyn o bryd i wneud penderfyniadau am ofal Mr V yn y dyfodol, oherwydd gallai adennill galluedd i wneud y penderfyniadau ei hun ar yr adeg y bydd angen iddynt gael eu gwneud.

Er nad oes gan y cyfreithiwr awdurdod i wneud penderfyniadau lles, mae'r atwrneiod lles yn ymgynghori ag ef am fudd gorau Mr V o ran penderfyniadau am ei anghenion gofal ar hyn o bryd. Maent yn siarad ag ef am benderfyniadau triniaeth ar hyn o bryd a'u hawgrym i beidio â gwneud penderfyniadau'n gynamserol am ei ofal yn y tymor hwy. Yn yr un modd, mae'r atwrneiod eiddo a materion personol yn cysylltu â merch Mr V am y penderfyniadau ariannol sydd angen eu gwneud gan nad oes gan Mr V y galluedd i wneud y rhain ei hun.

Beth yw dyletswyddau eraill atwrnai?

8.101. Mae atwrnai a benodir o dan LPA yn gweithredu fel asiant dewisol y rhoddwr ac felly, o dan gyfraith asiantaeth, mae gan yr atwrnai ddyletswyddau penodol tuag at y rhoddwr. Mae atwrnai'n ymgymryd â rôl sydd â llawer o bŵer, y mae'n rhaid iddynt ddefnyddio'n ofalus ac yn gyfrifol. Mae ganddynt ddyletswydd i:

1. ddefnyddio safonau penodol o ofal a sgîl (dyletswydd gofal) wrth wneud penderfyniadau
2. cyflawni cyfarwyddiadau'r rhoddwr
3. gweithredu er budd pennaf y rhoddwr a pheidio â chymryd mantais o'u sefyllfa fel eu bod nhw eu hunain yn elwa (dyletswydd ymddiriedol)
4. peidio â dirprwyo penderfyniadau, oni bai yr awdurdodir hynny
5. gweithredu'n ddidwyll
6. parchu cyfrinachedd
7. cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r Llys Gwarchod
8. peidio â rhoi'r gorau i'r rôl heb ddweud wrth y rhoddwr a'r OPG (gweler paragraff 8.117).
9. hysbysu'r corff cyfrifol lle mae eu gweithredoedd wedi arwain at amddifadu'r rhoddwr o'i ryddid.
10. cyflwyno tystiolaeth bod ganddynt bŵer ar hyn o bryd pan ofynnir gan drydydd partiön megis banciau neu feddygon.

8.102. Mewn perthynas ag LPA eiddo a materion personol, mae ganddynt ddyletswydd i:

- gadw cyfrifon
- cadw arian ac eiddo'r rhoddwr ar wahân i'w rhai eu hunain. Yr unig eithriad yw os bydd cytundeb hirsefydlog o gael cyllid ar y cyd, e.e. gŵr a gwraig â chyfrifon ar y cyd.

Dyletswydd gofal

8.103. Mae 'dyletswydd gofal' yn golygu cymhwyso safon benodol o ofal a sgîl - gan ddibynnu ar a yw'r atwrnai'n cael eu talu am eu gwasanaethau neu fod ganddynt gymwysterau proffesiynol perthnasol:

1. Mae'n rhaid i atwrneiod nad ydynt yn cael eu talu gymhwyso'r un gofal, sgîl a diwydrwydd ag y byddent yn eu defnyddio i wneud penderfyniadau am eu bywydau eu hunain.
2. Bydd yn rhaid i atwrnai sy'n honni bod ganddo sgiliau neu gymwysterau penodol (er enghraifft, cyfrifydd neu gyfreithiwr) ddangos lefel o sgîl yn y meysydd penodol hynny sy'n gyson â'u honiadau.
3. Os bydd atwrneiod yn cael eu talu am eu gwasanaethau, dylent ddangos graddfa uchel o ofal a sgîl, sy'n briodol i'w lefel o dâl.
4. Bydd yn rhaid i atwrneiod sy'n ymgymryd â'u dyletswyddau yng nghwrs eu gwaith proffesiynol (megis cyfreithwyr neu ymddiriedolwyr corfforaethol)

ddangos cymhwyster proffesiynol a dilyn rheolau a safonau eu galwedigaeth. Mae canllawiau penodol i atwrneiod proffesiynol ar gael o'r OPG.

Dyletswydd ymddiriedol

- 8.104. Mae dyletswydd ymddiriedol yn golygu bod yn rhaid i atwrneiod beidio â chymryd mantais o'u sefyllfa. Ni ddylent chwaith roi eu hunain mewn sefyllfa lle mae eu buddiannau personol yn gwrthdaro â'u dyletswyddau. Mae'n rhaid iddynt hefyd beidio a chaniatáu i unrhyw ddylanwadau eraill effeithio ar y ffordd maent yn gweithredu fel atwrnai. Dylai penderfyniadau bob amser fod er budd y rhoddwr, ac nid yr atwrnai. Mae'n rhaid i atwrneiod beidio ag elwa na chael budd personol o'u sefyllfa, heblaw am dderbyn rhoddion lle mae'r Ddeddf yn eu caniatáu, a yw ar gost y rhoddwr neu beidio.
- 8.105. Pan fydd atwrnai'n credu bod angen iddynt weithredu mewn modd sy'n groes i'w dyletswydd ymddiriedol i'r rhoddwr, gall fod angen iddynt wneud cais i'r Llys Gwarchod. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, lle byddant yn dymuno cymryd taliad o ystâd y rhoddwr am ddyletswyddau gofal maent yn eu cyflawni ar gyfer y rhoddwr⁸⁵, neu i ad-dalu treuliau maent wedi mynd iddynt o ganlyniad i'w rôl fel atwrnai ond nad yw hyn wedi cael ei gynnwys o fewn yr LPA.

Senario: Atwrnai yn gofyn am daliad ar gyfer darparu gofal i roddwr.

Mae Ms H yn byw gyda'i merch sy'n atwrnai cyllid ac eiddo iddi. Yn dilyn strôc, mae angen cymorth ar Ms H gyda gofal personol ac mae merch Ms H eisiau rhoi'r gorau i weithio i ofalu amdani. Mae'n amcangyfrif y gallai Ms H fforddio rhoi rhywfaint o arian iddi bob wythnos am y gofal mae hi'n ei roi i wneud yn iawn am ei henillion a gollir. Byddai hyn yn llawer mwy fforddiadwy na chyflogi asiantaeth gofal.

Mae merch Ms H felly'n cyflwyno cais i'r Llys Gwarchod, sy'n awdurdodi'r taliadau hyn am y gofal mae'n darparu i'w mam.

Dyletswydd i beidio â dirprwyo

- 8.106. Nid yw atwrneiod fel arfer yn gallu dirprwyo'u hawdurdod i rywun arall. Mae'n rhaid iddynt gyflawni'u dyletswyddau'n bersonol. Gall yr atwrnai ofyn am gyngor proffesiynol neu arbenigol (er enghraifft, cyngor buddsoddi gan gynghorwr ariannol neu gyngor ar driniaeth feddygol gan feddyg). Ond nid ydynt yn gallu, fel rheol gyffredinol, ganiatáu i rywun arall wneud penderfyniad maent wedi'u penodi i'w wneud, oni bai bod hyn wedi cael ei awdurdodi'n benodol gan y rhoddwr yn yr LPA.

⁸⁵ Mae'r OPG yn cynhyrchu canllawiau ar gymryd taliadau am ofal: "*Family care payments*"- <https://www.gov.uk/government/publications/public-guardian-practice-note-family-care-payments>

8.107. Mewn amgylchiadau penodol, gall fod gan atwrneiod bwerau cyfyngedig i ddirprwyo (er enghraifft, trwy anghenraid neu amgylchiadau na ragwelwyd, neu ar gyfer tasgau penodol na fyddai'r rhoddwr wedi disgwyl i'r atwrnai ymdrin â nhw'n bersonol). Ond nid yw atwrneiod fel arfer yn dirprwyo unrhyw benderfyniadau sy'n dibynnu ar eu disgresiwn.

Dyletswydd didwylledd

8.108. Mae gweithredu'n ddiwyll yn golygu gweithredu gyda gonestrwydd ac uniondeb. Er enghraifft, mae'n rhaid i atwrnai sicrhau nad yw eu penderfyniadau'n mynd yn groes i benderfyniad a wnaeth y rhoddwr pan oedd ganddynt allu o hyd (oni bai y byddai er y budd gorau i'r rhoddwr wneud hynny, er enghraifft byddai peidio â mynd yn erbyn y penderfyniad gwreiddiol yn rhoi'r rhoddwr mewn perygl).

1.

Dyletswydd cyfrinachedd

8.109. Mae gan atwrneiod ddyletswydd i gadw materion y rhoddwr yn gyfrinachol, oni bai:

- cyn iddynt gollu'r galluedd i wneud hynny, y cytunodd y rhoddwr fod rhywfaint o wybodaeth bersonol neu ariannol yn gallu cael ei datgelu at ddiben penodol (er enghraifft, maent wedi enwi rhywun maent yn dymuno iddynt wirio'u cyfrifon ariannol), neu
- bod rhyw reswm da arall i'w rhyddhau (er enghraifft, mae er budd cyhoeddus neu fudd gorau'r unigolyn sydd â phrinder galluedd, neu fod risg o niwed i'r rhoddwr neu eraill).

8.110. Yn yr amgylchiadau olaf, gall fod yn ddoeth i'r atwrnai gael cyngor cyfreithiol os bydd y sefyllfa ac ystyriaethau'n arbennig o gymhleth. Mae pennod 25 yn rhoi mwy o wybodaeth am gyfrinachedd.

Dyletswydd i gydymffurfio â chyfarwyddiadau'r Llys Gwarchod

8.111. O dan adrannau 22 a 23 y Ddeddf, mae gan y Llys Gwarchod bwerau eang i benderfynu ar faterion ynghylch gweithrediad neu ddilysrwydd LPA. Mae'n gallu hefyd:

- roi awdurdod ychwanegol i atwrneiod
- eu gorchymyn i gynhyrchu cofnodion (er enghraifft, cyfrifon ariannol), neu
- eu gorchymyn i ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth benodol i'r llys.

8.112. Mae'n rhaid i atwrneiod hefyd gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad neu orchymyn mae'r llys yn eu gwneud.

Dyletswydd i beidio ag ymwadu heb hysbysu'r rhoddwr a'r OPG

8.113. Cyn gynted â bod rhywun yn dod yn atwrnai, ni fyddant yn gallu rhoi'r gorau i'r rôl honno heb hysbysu'r rhoddwr a'r OPG. Os byddant yn penderfynu rhoi'r gorau i'w rôl, mae'n rhaid iddynt ddilyn y canllawiau perthnasol sydd ar gael gan yr OPG (paragraff 8.116-8.120).

Dyletswydd i gadw cyfrifon

8.114. Mae'n rhaid i atwrneiod eiddo a materion personol gadw cyfrifon o drafodion a gwblheir ar ran y rhoddwr. Weithiau bydd y Llys Gwarchod neu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gofyn i weld cyfrifon. Os na fydd yr atwrnai'n arbenigwr ariannol a bod materion y rhoddwr yn gymharol syml, gall cofnod o incwm a gwariant y rhoddwr (er enghraifft, trwy ddatganiadau banc) fod yn ddigon. Y mwyaf cymhleth fydd materion y rhoddwr, y mwyaf manwl y bydd angen i'r cyfrifon fod.

Dyletswydd i gadw arian ac eiddo'r rhoddwr ar wahân

8.115. Dylai atwrneiod eiddo a materion personol fel arfer gadw arian ac eiddo'r rhoddwr ar wahân i'w rhai eu hunain neu rai unrhyw un arall. Gall fod achlysuron lle mae rhoddwyr ac atwrneiod wedi cytuno yn y gorffennol i gadw'u harian mewn cyfrif banc ar y cyd (er enghraifft, os bydd gŵr yn gweithredu fel atwrnai ei wraig). Gallai fod yn bosibl parhau â hyn o dan yr LPA. Ond yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd yn rhaid i atwrneiod gadw cyllid ar wahân i osgoi unrhyw bosibilrwydd o gamgymeriadau neu ddryswch.

Beth ddylai atwrnai ei wneud os na fyddant yn gallu cyflawni'u dyletswyddau?

8.116. Mae'n bosibl ar ôl i unigolyn ddod yn atwrnai eu bod yn canfod nad ydynt yn gallu cyflawni'u dyletswyddau. Gallai hyn fod am nifer o resymau, er enghraifft, mae ganddynt gyfrifoldebau newydd sy'n ei gwneud hi'n anodd bodloni eu dyletswydd i'r rhoddwr, neu eu bod yn canfod eu hunain yn analluog i wneud y penderfyniadau mae angen iddynt eu gwneud i'r rhoddwr. Fel arall, gallant ganfod eu hunain mewn amgylchiadau pan fydd yn rhaid iddynt yn gyfreithiol roi'r gorau i weithredu, megis os bydd eu galluedd eu hunain wedi'i atal.

8.117. Mae atwrnai yn gallu camu i lawr o'u rôl trwy broses a elwir yn "ymwadu". Mae'n rhaid iddynt anfon ffurflen "ymwadu atwrneiaeth arhosol" at y rhoddwr (os na fydd yr LPA wedi'i chofrestru), neu at y rhoddwr a'r OPG (os bydd yr LPA wedi'i chofrestru)⁸⁶. Dylent hefyd hysbysu unrhyw atwrneiod eraill a benodir gan yr LPA.

8.118. Os bydd nifer o atwrneiod wedi'u penodi ar y cyd ac yn unigol, gall yr atwrneiod eraill barhau i weithredu. Os na fydd atwrneiod eraill neu eu bod wedi'u penodi ar y

⁸⁶ Manylion am 'sut i stopio â bod yn atwrnai o dan atwrneiaeth arhosol (LPA)', ar gael ar: <https://www.gov.uk/government/publications/disclaim-a-lasting-power-of-attorney>.

cyd, bydd yn rhaid iddynt hefyd roi'r gorau i weithredu. Bydd atwrneiod sy'n eilyddion yn ymgymryd â'r rôl os byddant wedi'u henwi yn yr LPA.

- 8.119. Os na fydd atwrnai'n gallu cyflawni'u dyletswyddau, gall fod er y budd gorau i'r rhoddwr iddo gamu i lawr fel bod eraill yn gallu bodloni'r cyfrifoldebau hyn, naill ai trwy'r atwrneiod eraill yn yr LPA neu trwy benodi dirprwy os bydd angen. Os na fydd yr atwrnai yn gallu ymwadu o'u rôl (er enghraifft, oherwydd colli galluedd meddyliol yn sydyn), dylid cysylltu â'r OPG i gael cyngor.
- 8.120. Fel y datganwyd ym mharagraff 7.31, mae gan y Llys Gwarchod y pŵer i ddiswyddo atwrnai, a allai gynnwys mewn amgylchiadau lle na fydd yr atwrnai'n cyflawni'u dyletswyddau mwyach.

Sut mae'r Ddeddf yn diogelu rhoddwyr rhag camdriniaeth?

Beth ddylai rhywun ei wneud os byddant yn meddwl bod atwrnai'n camddefnyddio'u rôl?

- 8.121. Mae atwrneiod mewn sefyllfa o ymddiriedaeth, p'un ai a oes ganddynt atwrneiaeth arhosol dros eiddo a materion personol, lles personol neu'r ddau. Mae rhoddwyr yn gallu atal camdriniaeth trwy ddewis yn ofalus atwrnai addas ac y gellir dibynnu arno. Ond mae gan eraill rôl i chwilio am arwyddion posibl o gamdriniaeth neu gamfanteisio ac adrodd am unrhyw bryderon wrth yr OPG. Mewn sefyllfa frys, gall yr unigolyn fynd yn syth i'r Llys Gwarchod am benderfyniad am iechyd a lles neu eiddo ac arian yr unigolyn.
- 8.122. Mae arwyddion y gall atwrnai fod yn camfanteisio ar y rhoddwr (neu'n methu â gweithredu er y budd gorau i'r rhoddwr) yn cynnwys:
- atal perthnasau neu ffrindiau rhag cysylltu â'r rhoddwr - er enghraifft, gall yr atwrnai atal cysylltiad, neu gall y rhoddwr wrthod ymweliadau neu alwadau teleffon yn sydyn gan deulu a ffrindiau heb ddim rheswm dealladwy
 - newidiadau sydyn heb eu hesbonio mewn trefniadau byw (er enghraifft, mae rhywun yn symud i mewn i ofalu am roddwr y bu ganddynt ychydig iawn o gysylltiad ag ef)
 - peidio â chaniatáu i staff gofal iechyd neu ofal cymdeithasol weld y rhoddwr
 - mynd â'r rhoddwr o'r ysbyty yn erbyn cyngor meddygol, tra bod y rhoddwr yn derbyn triniaeth feddygol angenrheidiol
 - biliau heb eu talu (er enghraifft, ffioedd gofal preswyl neu gartref nyrsio)
 - atwrnai'n agor cyfrif cerdyn credyd i'r rhoddwr
 - gwario arian ar bethau nad ydynt yn ymwneud yn amlwg ag anghenion y rhoddwr
 - yr atwrnai'n gwario arian mewn ffordd anarferol neu ormodol
 - trosglwyddo asedau ariannol i wlad arall

8.123. Mae gan yr OPG ddyletswydd i ymdrin ag unrhyw gwynion neu gynrychiolaethau eraill y mae'n eu derbyn am sut mae atwrnai'n cyflawni'u dyletswyddau. Mae pennod 23 yn amlinellu beth fydd yr OPG yn ei wneud.

8.124. Mae'r OPG yn gallu gwneud cais i'r Llys Gwarchod. Mae'r llys yn gallu dirymu (canslo) yr LPA neu (trwy'r OPG) yn gallu ei hatal rhag cael ei chofrestru, os bydd yn penderfynu:

- nad yw'r LPA yn bodloni'r gofynion cyfreithiol i greu LPA
- bod yr LPA wedi'i dirymu neu wedi dod i ben am unrhyw reswm arall
- defnyddiodd rhywun dwyll neu bwysau amhriodol i gael y rhoddwr i wneud yr LPA
- bod yr atwrnai wedi gwneud rhywbeth nad oes ganddynt yr awdurdod i'w wneud, neu
- fod yr atwrnai wedi ymddwyn neu'n bwriadau ymddwyn mewn ffordd nad yw er y budd gorau i'r rhoddwr.

8.125. Gallai'r llys yna ystyried a yw'r awdurdod a roddwyd yn flaenorol i atwrnai'n gallu cael ei reoli gan:

- y llys yn gwneud penderfyniad unigol, neu'n
- penodi dirprwy.

Senario: Pryderon am atwrnai cyllid

Cyflogodd Mr A arddwr, a daeth yn eithaf agos ato, gan benodi'r garddwr yn y pen draw fel ei atwrnai eiddo ac ariannol.

Roedd Mr A yn byw â dementia ond roedd yn gallu mentro allan yn eithaf da yng nghwmni rhywun arall. Roedd ei gymydog yn cyfarfod yn rheolaidd â Mr A am gwpanaid o de a dechreuodd bryderu pan glywodd Mr A yn siarad yn aml am ei arddwr a sut roedd Mr A wedi talu am ginio a the prynhawn nifer o weithiau. Dysgodd y cymydog hefyd fod y garddwr wedi ymgymryd â phrosiectau trwsio amrywiol i Mr A. Gofynnodd i Mr A a oedd y garddwr yn rhesymol ei bris am y gwaith trwsio, ac atebodd Mr A gan ddweud nad oedd yn gwybod gan ei fod wedi rhoi ei gerdyn debyd a'i PIN i'r garddwr i dynnu unrhyw arian oedd yn ofynnol am y tasgau.

Cynhyrfodd hyn gymydog Mr A gan y teimlai y gall Mr A fod yn agored i gamdriniaeth ariannol. Penderfynodd gysylltu â'r OPG i roi gwybod iddynt am ei bryderon.

Beth ddylai atwrnai ei wneud os byddant yn meddwl bod rhywun arall yn cam-drin y rhoddwr?

8.126. Dylai atwrnai sy'n meddwl bod rhywun arall yn cam-drin neu'n camfanteisio ar roddwr adrodd amdano wrth dîm diogelu eu hawdurdod lleol. Dylent gysylltu â'r heddlu os byddant yn amau camdriniaeth gorfforol neu rywiol, dwyn neu dwyll difrifol.

8.127. Mae pennod 23 yn rhoi mwy o wybodaeth am ddiogelu pobl sy'n agored i niwed rhag camdriniaeth, triniaeth wael neu esgeulustod. Mae'n trafod hefyd ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r asiantaethau amrywiol sy'n cymryd rhan, gan gynnwys yr OPG ac awdurdodau lleol. Yn benodol, mae'n drosedd (â chosb uchafswm o bum mlynedd o garchar, dirwy, neu'r ddau) i unrhyw un (gan gynnwys atwrneiod) esgeuluso'n fwriadol neu drin unigolyn yn wael yn eu gofal sydd â phrinder galluedd i wneud penderfyniadau am eu gofal drostynt eu hunain (o dan adran 44 y Ddeddf).

Beth yw EPA a sut mae'n wahanol i LPA?

8.128. Cyn i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ddod i rym yn 2007, roedd hi'n bosibl i rywun wneud Atwrneiaeth Barhaol (EPA). Mae EPA yn caniatáu i atwrnai wneud penderfyniadau am eiddo a chyllid ar ran rhoddwr. Dileodd y Ddeddf Galluedd Meddyliol y galluedd i wneud EPAau newydd a chreodd yr Atwrneiaeth Arhosol (LPA) yn ei lle, ond gellir parhau i ddefnyddio EPAau a gafodd eu gwneud cyn 1 Hydref 2007.

8.129. Mae nifer o wahaniaethau rhwng LPAau ac EPAau. Mae'r rhain yn cael eu crynhoi fel a ganlyn:

- Mae EPAau yn cynnwys eiddo a materion personol yn unig. Gall LPAau gynnwys lles personol hefyd.
- Gellir defnyddio EPAau cyn eu cofrestru â'r OPG. Mae'n rhaid i LPAau fod wedi'u cofrestru cyn y gellir eu defnyddio.
- Mae'n rhaid i EPAau fod wedi'u cofrestru â'r OPG pan na all y rhoddwr reoli'u materion eu hunain mwyach (neu pan fyddant yn dechrau colli galluedd).
- Mae gan atwrneiod sy'n gweithredu o dan LPA ddyletswydd gyfreithiol i ystyried y canllawiau yn y Cod Ymarfer hwn. Nid oes gan atwrneiod EPA ddyletswydd gyfreithiol. Ond bydd canllawiau'r Cod yn parhau i fod yn gymorth iddynt
- Mae rhai gwahaniaethau yn y deddfau a'r gweithdrefnau ar gyfer EPAau ac LPAau.

8.130. Mae rhywfaint o debygrwydd rhwng LPAau ac EPAau:

- Mae'n rhaid i atwrneiod sy'n gwneud penderfyniadau o dan EPA neu LPA wedi'u cofrestru ddilyn egwyddorion y Ddeddf a gweithredu er y budd gorau i'r rhoddwr.
- Mae'r ddyletswyddau o dan y ddeddf asiantaeth yn gymwys i atwrneiod EPAau ac LPAau (gweler paragraffau 8.101).
- Gall penderfyniadau mae'r llysoedd wedi'u gwneud am EPAau hefyd effeithio ar sut mae pobl yn defnyddio LPAau.

Beth yw'r sefyllfa gydag EPAau?

- 8.131. Creodd rhai rhoddwyr EPAau cyn i'r Ddeddf ddod i rym gyda'r disgwyliad y byddai eu hatwrneiod dewisedig yn rheoli eu heiddo a materion personol yn y dyfodol, p'un ai a oedd ganddynt y galluedd i wneud hynny eu hunain neu beidio.
- 8.132. Mae rhoddwyr EPA sydd â galluedd yn gallu diddymu'r EPA a gwneud LPA sy'n cynnwys eu heiddo a'u materion personol. Dylent hefyd hysbysu atwrneiod ac unrhyw un arall sy'n ymwybodol o'r EPA (er enghraifft, banc) eu bod wedi ei diddymu.
- 8.133. Mae rhai rhoddwyr yn dewis peidio â diddymu'u EPA neu gallant fod â phrinder galluedd i wneud hynny nawr. Yn y fath achosion, mae'r Ddeddf yn caniatáu i EPAau, p'un ai ydynt wedi'u cofrestru neu beidio, barhau i fod yn ddilys fel bod yr atwrneiod yn gallu bodloni disgwyliadau'r rhoddwr (Atodlen 4). Mae'n rhaid i EPA fod wedi'i chofrestru â'r OPG pan fydd yr atwrnai'n meddwl bod y rhoddwr â phrinder galluedd i reoli'u materion eu hunain neu eu bod yn dechrau bod â phrinder galluedd i wneud hynny.
- 8.134. Mae'n bosibl i unigolyn gael EPA ar gyfer eiddo a materion ariannol ac LPA (neu ddirprwyaeth) ar gyfer materion iechyd a lles. Os yw'r rolau hyn yn cael eu gwneud gan wahanol bobl, dylent gydweithredu ar faterion lle y gall eu cyfrifoldebau orgyrfwrdd.
- 8.135. Gall y canllawiau yn y bennod hon fod o gymorth i atwrneiod EPA. Yn benodol, mae'n rhaid i bob atwrnai gydymffurfio â'r dyletswyddau a ddisgrifir ym mharagraffau 8.101-8.115 uchod. Gall atwrneiod EPA hefyd fod yn atebol o dan adran 44 y Ddeddf, sy'n amlinellu'r troseddau newydd o driniaeth wael ac esgeulustod bwriadol. Gall canllawiau'r OPG fod o gymorth i atwrneiod EPA sy'n gweithredu o dan LPA.

9. Beth yw rôl dirprwyon a benodir gan y llys?

Mae'r bennod hon yn disgrifio rôl dirprwyon a benodir gan y llys a rôl Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG) mewn goruchwylio dirprwyon. Mae'n edrych ar sut mae'r llys yn penodi dirprwy (neu ddirprwyon) i weithredu a gwneud penderfyniadau ar ran rhywun sydd â phrinder galluedd i wneud y penderfyniadau hynny. Yn benodol, mae'n rhoi canllawiau ar ddyletswyddau dirprwy, eu goruchwyliaeth a'r canlyniadau o beidio â chyflawni'u dyletswyddau'n gyfrifol.

Mae'r OPG yn cynhyrchu canllawiau manwl i ddirprwyon. Edrychwch ar y wefan i gael manylion y cyhoeddiadau a sut i'w cael⁸⁷.

Yn y bennod hon, fel trwy'r Cod cyfan, mae galluedd unigolyn (neu brinder galluedd) yn cyfeirio'n benodol at eu galluedd i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen iddo gael ei wneud.

Crynodeb cyflym

Mae gan y Llys Gwarchod bwerau i benodi dirprwyon i wneud penderfyniadau dros bobl sydd â phrinder galluedd i wneud y penderfyniadau hynny, ac i ddiswyddo dirprwyon sy'n methu â chyflawni'u dyletswyddau.

- Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n gweithredu fel dirprwy ddilyn egwyddorion statudol y Ddeddf (gweler pennod 2) gan gynnwys:
 - ystyried a oes gan yr unigolyn allu i wneud penderfyniad penodol drostynt eu hunain. Os bydd ganddynt, dylai'r dirprwy eu caniatáu i wneud hynny oni bai bod yr unigolyn yn cytuno y dylai'r dirprwy wneud y penderfyniad
 - cymryd pob cam posibl i geisio helpu unigolyn i wneud y penderfyniad penodol
- gwneud penderfyniadau er y budd gorau i'r unigolyn bob amser ac ystyried canllawiau yn y Cod Ymarfer sy'n berthnasol i'r sefyllfa
- gwneud penderfyniadau'n unig maent wedi'u hawdurdodi i'w gwneud trwy orchymyn y llys
- cyflawni'u dyletswyddau at yr unigolyn o dan sylw (yn enwedig y dyletswydd gofal a dyletswyddau ymddiriedol i barchu'r raddfa o ymddiriedaeth a roddir iddynt gan y llys)
- cadw, cyfrifon cywir o'u holl gysylltiadau a thrafodion ar ran yr unigolyn a chyflwyno'r rhain yn rheolaidd i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus fel y cyfarwyddwyd, fel y gall yr OPG gyflawni'i swyddogaeth statudol o oruchwylio'r dirprwy.

⁸⁷Gwefan a chyhoeddiadau Swyddfa'r Gwarcheidwaid CyhoeddusOffice of the Public Guardian, ar gael ar: <https://www.gov.uk/government/organisations/office-of-the-public-guardian>

PryPryd all neu ddylai'r llys benodi dirprwy?

- 9.1. Mewn achosion o anghydfod difrifol, lle na fydd ffordd arall o ganfod datrysiad neu pan fydd angen awdurdod y llys er mwyn gwneud penderfyniad penodol neu weithredu'n benodol, gellir gofyn i'r llys wneud y penderfyniad er y budd gorau i'r unigolyn gan ddefnyddio'i bwerau o dan adran 16 y Ddeddf.
- 9.2. Fodd bynnag, os bydd angen pwerau penderfynu parhaol ac nad oes Atwrneiaeth Arhosol (LPA) nag Atwrneiaeth Barhaol (EPA) berthnasol (gweler pennod 8), gall y llys benodi dirprwy i wneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol. Bydd hefyd yn datgan pa benderfyniadau mae gan y dirprwy awdurdod i'w gwneud ar ran yr unigolyn.
- 9.3. Wrth benderfynu pa fath o orchymyn i'w wneud, mae'n rhaid i'r llys ddefnyddio egwyddorion y Ddeddf a'r rhestr wirio budd gorau (gweler pennod 5). Yn ogystal, mae'n rhaid iddo ddilyn dwy egwyddor arall, wedi'u bwriadu i wneud unrhyw ymyriad mor gyfyngedig â phosibl:
 - Pan y bo'n bosibl, dylai'r llys wneud y penderfyniad ei hun yn hytrach na phenodi dirprwy.
 - Os bydd angen penodi dirprwy, dylai'u penodiad fod mor gyfyngedig mewn cwmpas ac am gyfnod mor fyr â phosibl.
- 9.4. Weithiau nid yw'n ymarferol nac yn briodol i'r llys wneud datganiad unigol neu benderfyniad. Yn y fath achosion, os bydd y llys yn meddwl bod angen i rywun wneud penderfyniadau yn y dyfodol neu barhaus dros rywun y mae eu cyflwr yn golygu y bydd yn debygol y byddant â phrinder galluedd i wneud rhai penderfyniadau ychwanegol yn y dyfodol, gall benodi dirprwy i weithredu a gwneud penderfyniadau dros yr unigolyn hwnnw. Dylai awdurdod dirprwy fod mor gyfyngedig mewn cwmpas a hyd â phosibl er mwyn bod yn ffordd llai cyfyngol ymlaen.
- 9.5. Mater i'r llys yw penderfynu pwy i'w penodi fel dirprwy. Mae'n rhaid i'r penderfyniad hwn fod er y budd gorau i'r unigolyn sydd â phrinder galluedd. Gall sgiliau gwahanol fod yn ofynnol gan ddibynnu ar a fydd penderfyniadau'r dirprwy ynglŷn a lles unigolyn (gan gynnwys gofal iechyd), eu cyllid neu'r ddau. Bydd y llys yn penderfynu a fydd gan y dirprwy a gynigiwyd lefel briodol o sgîl a chymhwyster i gyflawni'r tasgau angenrheidiol.
- 9.6. Mewn llawer o achosion, mae'r dirprwy yn aelod o'r teulu neu'n rhywun sy'n adnabod yr unigolyn yn dda. Ond mewn rhai achosion, gall y llys benderfynu penodi dirprwy sy'n annibynnol o'r teulu (er enghraifft, lle mae materion neu anghenion gofal yr unigolyn yn arbennig o gymhleth). Gallai hyn fod, er enghraifft, yn ddeiliad swydd berthnasol yn yr awdurdod lleol perthnasol (ond gweler paragraff 9.17 isod) neu ddirprwy proffesiynol. Mae gan yr OPG banel o ddirprwyon

proffesiynol (cyfreithwyr yn bennaf sy'n arbenigo yn y maes hwn o gyfraith) y gellir eu penodi i ddelio ag eiddo a materion personol os bydd y llys yn penderfynu y byddai er y budd gorau i'r unigolyn, er enghraifft os na fydd neb arall i gymryd y rôl.

Pryd allai fod angen penodi dirprwy?

9.7. Bydd p'un ai a yw er y budd gorau i unigolyn sydd â phrinder galluedd i wneud penderfyniadau penodol i gael dirprwy wedi'i benodi yn dibynnu ar:

- amgylchiadau unigol yr unigolyn o dan sylw
- a yw penderfyniadau'r dyfodol neu barhaus yn debygol o fod yn angenrheidiol, ac
- a yw'r penodiad ar gyfer penderfyniadau ynghylch eiddo a materion personol neu les personol.

Eiddo a materion personol

9.8. Os na fydd unigolyn sydd â phrinder galluedd i wneud penderfyniadau am eiddo a materion personol wedi gwneud LPA neu EPA, mae cyflwyno ceisiadau i'r llys am benodi dirprwy yn angenrheidiol:

- i ganiatáu mynediad i'w hasedau (er enghraifft arian wedi'i gadw mewn cyfrif banc neu fuddsoddiadau)
- i werthu eiddo unigolyn, neu
- pan fydd gan yr unigolyn lefel o incwm neu gyfalaf mae'r llys yn meddwl bod angen i ddirprwy ei reoli.

9.9. Mewn achosion lle bydd yr OPG wedi gwneud cais i'r llys i ddiswyddo atwrnai neu ddirprwy a dirymu LPA neu ryddhau penodiad dirprwy, gall argymhell bod y llys yn penodi dirprwy i reoli eiddo a materion ariannol yr unigolyn a, lle bu camdriniaeth ariannol, i fynd ati i adfeddiannu'r arian. Bydd y llys yn penderfynu os bydd y fath benodiad yn angenrheidiol ac ar ba delerau.

9.10. Os mai unig incwm unigolyn sydd â phrinder galluedd yw budd-daliadau nawdd cymdeithasol ac nad oes ganddynt eiddo na chynilion, efallai na fydd angen i ddirprwy gael ei benodi. Mae hyn oherwydd y gellir rheoli budd-daliadau'r unigolyn gan benodai, wedi'i benodi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau⁸⁸ i dderbyn a delio â budd-daliadau unigolyn sydd â phrinder galluedd i wneud hyn eu hunain. Er nad yw'r rhai a benodir yn cael eu cynnwys gan y Ddeddf, mae ganddynt ddyletswyddau ymddiriedol at yr unigolyn y maent yn rheoli'i arian (gweler para 9.33) ac mae'n rhaid iddynt weithredu er y budd gorau i'r unigolyn. Os bydd y llys yn penodi dirprwy

⁸⁸ Manylion am 'Ddod yn benodai', ar gael ar: <https://www.gov.uk/become-appointee-for-someone-claiming-benefits>

eiddo a materion personol i rywun sydd â phenodai, byddai'r dirprwy yn dod yn gyfrifol am reoli budd-daliadau'r unigolyn.

Senario: Dim angen dirprwy

Mae Mr G yn byw mewn lleoliad byw â chymorth yn y gymuned. Mae cytundeb tenantiaeth newydd ar gyfer ei lety. Nid oes gan Mr G allu i wneud y penderfyniad i'w lofnodi ac felly mae angen i rywun wneud hynny ar ei ran.

Nid oes gan Mr G ddirprwy wedi'i benodi gan y llys ar gyfer eiddo a materion personol. Mae ganddo gynilion bach iawn, a'i unig incwm yw budd-daliadau sy'n dod o'r wladwriaeth.

Brawd Mr G yw ei benodai ar gyfer ei fudd-daliadau. Mae Mr G yn ystyried a oes angen dirprwyaeth ar gyfer eiddo a materion personol er mwyn lofnodi'r cytundeb tenantiaeth, ac mae'n penderfynu nad yw hyn yn briodol ac y byddai'n ddianghenraid o gyfyngol i'w frawd.

Mae brawd Mr G felly'n gwneud cais i'r Llys Gwarchod am orchymyn tenantiaeth sy'n rhoi'r awdurdod cyfreithiol iddo lofnodi'r denantiaeth ar ran Mr G. Mae'n parhau i weithredu fel penodai Mr G.

- 9.11. Bydd angen i unrhyw un sy'n cael ei ystyried i gael ei benodi fel dirprwy eiddo a materion personol lofnodi datganiad sy'n rhoi manylion o'u hamgylchiadau a'u gallu i reoli materion ariannol. Bydd y datganiad yn cynnwys manylion o'r tasgau a'r dyletswyddau y bydd yn rhaid i'r dirprwy'u cyflawni. Mae'n rhaid i'r dirprwy sicrhau'r llys fod ganddynt y sgiliau, gwybodaeth ac ymrwymiad i'w cyflawni.

Lles personol (gan gynnwys gofal iechyd)

- 9.12. Mae llai o ddirprwyon lles personol na dirprwyon eiddo a materion ariannol. Mae llawer o benderfyniadau ynglŷn â gofal a thriniaeth yn gallu cael eu gwneud trwy ddefnyddio'r broses a amlinellir yn adran 5 y Ddeddf (gweler pennod 6). Y llys yn unig all wneud rhai o'r penderfyniadau (gweler pennod 7), ac mae'n rhaid i'r llys ystyried yn gyntaf a ddylai wneud unrhyw benderfyniad perthnasol ei hun yn hytrach na phenodi dirprwy i wneud hynny.
- 9.13. Wrth benderfynu a ddylid penodi dirprwy lles personol, bydd y llys yn gofyn i'w hun a yw penodiad er y budd gorau i'r unigolyn⁸⁹. Bydd dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn ffurfio agwedd o'r penderfyniad hwnnw, er enghraifft os bydd yn amlwg

⁸⁹ Parthed Lawson, Mottram a Hopton (appointment of personal welfare deputies) [2019] EWCOP 22 - <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2019/22.html>

eu bod yn dymuno i aelod o'r teulu gael ei benodi i wneud penderfyniadau ar eu rhan.

9.14. Bydd y llys hefyd yn ystyried a oes tystiolaeth nad yw'r broses gwneud penderfyniadau ar y cyd a amlinellir yn adran 5 y Ddeddf wedi bod yn gweithio er y budd gorau i'r unigolyn. Gallai hyn gynnwys sefyllfaoedd megis:

- Anghydfodau o fewn teulu'r unigolyn sy'n cael effaith andwyol ar eu gofal a bydd yn parhau i wneud hynny oni bai fod un unigolyn penodol yn cael ei benodi i wneud penderfyniadau angenrheidiol.
- Unigolyn sydd â chyflwr meddygol penodol sy'n gofyn am asesu a/neu driniaeth fynych, lle ceir tystiolaeth glir nad oes ymgynghori priodol wedi bod ag aelod o'r teulu sydd mewn lle da i eirioli dros eu dymuniadau a'u teimladau a gwneud penderfyniadau ar eu rhan.
- Penderfyniadau parhaus ar ran yr unigolyn ynglŷn â chynllunio a gweithredu pecyn gofal wedi'i gyllido'n gyhoeddus, lle bydd tystiolaeth glir nad oes ymgynghori priodol wedi bod ag aelod o'r teulu sydd mewn lle da i eirioli dros eu dymuniadau a'u teimladau a gwneud penderfyniadau ar eu rhan.

Gwneud penderfyniadau lles personol gan ddirprwyon eiddo a materion personol

9.15. Gall fod amgylchiadau lle mae gofyn i ddirprwy eiddo a materion personol wneud penderfyniad ar ran yr unigolyn sydd â phrinder galluedd, sydd ag elfen lles personol. Mae dirprwy eiddo a materion personol yn y sefyllfa hon yn gallu gwneud y penderfyniad ar yr amod ei fod yn cael effaith ar eiddo a materion ariannol yr unigolyn sydd â phrinder galluedd ac nad oes rheswm arall pam nad yw'r dirprwy'n gallu gwneud y penderfyniad (er enghraifft, os bydd y gorchymyn dirprwyaeth yn ei atal yn benodol). Pan fydd y penderfyniad yn berthnasol i les personol yr unigolyn sydd â phrinder galluedd yn unig, mae'r Llys Gwarchod yn derbyn bod awdurdod cyffredinol dirprwy eiddo a materion personol yn ymestyn cyn belled â chaniatáu cais i'r Llys Gwarchod dynnu sylw'r llys at angen i ystyried mater lles⁹⁰.

⁹⁶ ACC ac Ors (property and affairs deputy; recovering assets costs for legal proceedings) [2020] EWCOP 9 (27 Chwefror 2020) - <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2020/9.html>

Senario: Rôl dirprwy eiddo a materion personol wrth wneud penderfyniad ariannol a lles hybrid

Mae gan Ms G anabledd dysgu ac nid yw'n gallu rheoli materion ariannol cymhleth. Mae ganddi ddirprwy eiddo a materion personol proffesiynol.

Mae Ms G yn etifeddu swm sylweddol o arian ac yn dymuno defnyddio'r cronfeydd i brynu eiddo i fyw ynddo. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan ei gweithiwr cymdeithasol ac eraill sy'n agos at Ms G.

O dan y gorchymyn dirprwyaeth, mae gan y dirprwy awdurdod i ddelio â'r holl elfennau ariannol ynglŷn â phrynu'r eiddo, sy'n cynnwys nodi eiddo posibl, cael asesiad anghenion gofal i sicrhau bod yr eiddo yn bodloni anghenion Ms G, delio ag elfennau cyfreithiol y pryniant, a nodi a threfnu unrhyw addasiadau sy'n ofynnol i'r eiddo.

Gall y dirprwy proffesiynol godi tâl am y gwaith hwn yn unol â thelerau'r gorchymyn dirprwyaeth.

Pwy sy'n gallu bod yn ddirprwy?

- 9.16. Mae adran 19(1) yn datgan bod yn rhaid i ddirprwyon fod yn o leiaf 18 oed. Mae dirprwyon â chyfrifoldeb dros eiddo a materion personol yn gallu bod naill ai'n unigolyn neu'n gorfforaeth ymddiriedolaeth (math arbennig o gwmni, yn aml yn cael ei redeg gan gwmni cyfreithiol). Ni fydd neb yn gallu cael ei benodi fel dirprwy heb eu cydsyniad.
- 9.17. Ni ddylai gweithwyr gofal cyflogedig ar gyfer yr unigolyn (er enghraifft rheolwyr cartrefi gofal) weithredu fel dirprwy'r unigolyn, oherwydd y gwrthdaro buddiannau posibl (lle gallai eu penderfyniadau neu'u camau gweithredu yn un o'r rolau gael eu dylanwadu gan eu safle yn y rôl arall) - oni bai bod amgylchiadau eithriadol (er enghraifft, os mai'r gweithiwr gofal yw unig berthynas agos yr unigolyn sydd â phrinder galluedd). Mae'r llys yn gallu penodi rhywun sydd mewn swydd benodol (er enghraifft, deiliad swydd yn yr awdurdod lleol perthnasol) fel dirprwy. Yn y sefyllfa hon, bydd angen i'r llys fod yn fodlon nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau cyn gwneud y fath benodiad (gweler paragraffau 9.39–9.42).
- 9.18. Cyn derbyn penodiad dylai dirprwy a gynigir ystyried a:
- oes ganddynt y sgiliau a'r galluedd i gyflawni dyletswyddau dirprwy
 - ydynt yn dymuno ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau

- 9.19. Gall y llys benodi dau ddirprwy neu fwy a nodi a ddylent weithredu 'ar y cyd', 'ar y cyd ac yn unigol' neu 'ar y cyd mewn perthynas â rhai materion ac ar y cyd ac yn unigol mewn perthynas ag eraill' (adran 19 (4) (c)):
- Mae'n rhaid i ddirprwyon ar y cyd weithredu gyda'i gilydd bob amser. Mae'n rhaid i bob un ohonynt gytuno ar benderfyniadau neu gamau gweithredu, a bod pob un ohonynt yn llofnodi unrhyw ddogfennau perthnasol.
 - Mae dirprwyon ar y cyd ac yn unigol yn gallu gweithredu gyda'i gilydd, ond maent hefyd yn gallu gweithredu'n annibynnol os byddant yn dymuno. Mae unrhyw weithred gan ddirprwy ar ei ben ei hun mor ddilys â phe byddai'n unig ddirprwy.
- 9.20. Gellir penodi dirprwyon i weithredu ar y cyd mewn rhai materion ac ar y cyd ac yn unigol ar gyfer rhai eraill. Er enghraifft, gallai dau ddirprwy gael eu penodi ar y cyd ac yn unigol ar gyfer y rhan fwyaf o benderfyniadau, ond gallai'r llys ddweud bod yn rhaid iddynt weithredu ar y cyd wrth werthu eiddo.

Senario: Gweithredu ar y cyd ac yn unigol

Mae Mr T yn cael damwain ffordd sy'n achosi anaf ymennydd ac anabledau corfforol. Mae'n derbyn iawndal ariannol sylweddol ond mae ganddo brinder galluedd i reoli'r swm hwn o arian neu i wneud penderfyniadau am ei ofal yn y dyfodol.

Mae rhieni Mr T wedi ysgaru a, thra bod y ddau'n awyddus i fod â rhan yn ei ofal, mae ganddynt safbwyntiau sy'n gwrthdaro am le ddylai Mr T fyw a sut y dylid defnyddio'i arian iawndal. Mae gan Mr T chwaer, y mae'n agos ati. Mae'n awyddus i gymryd rhan yn ei ofal, yn enwedig gan y gall anafiadau Mr T fod yn rhai gydol oes ac mae'n debygol o oroesi'i rieni. Mae chwaer Mr T yn bryderus er hynny am fod yn gyfrifol am reoli symiau mawr o arian.

Mae chwaer Mr T yn trafod y sefyllfa gyda'i rhieni ac yn gwneud cais i'r Llys Gwarchod ynglŷn â'r penderfyniadau sydd angen eu gwneud dros Mr T ynghylch ei lety ac anghenion ariannol presennol ac yn y dyfodol.

Mae'r llys yn penderfynu lle bydd Mr T yn byw. Mae hefyd yn penodi'i chwaer a chyfreithiwr fel dirprwyon ar y cyd ac yn unigol i reoli ei eiddo a'i faterion personol. Mae'i chwaer yn gwneud y penderfyniadau dydd i ddydd mae gan Mr T brinder galluedd i'w gwneud. Mae'r cyfreithiwr yn gwneud y penderfyniadau ariannol mwy cymhleth nad yw chwaer Mr T yn gallu eu gwneud.

Beth sy'n digwydd os na fydd dirprwy yn gallu cyflawni'u dyletswyddau mwyach?

- 9.21. Wrth benodi dirprwy, mae'r llys hefyd yn gallu penodi rhywun i fod yn ddirprwy olynol (rhywun i fabwysiadu dyletswyddau'r dirprwy mewn sefyllfa oedd penodol). Bydd y llys yn datgan yr amgylchiadau y byddai hyn yn digwydd ynddynt. Mewn rhai achosion, bydd hefyd yn datgan cyfnod o amser mae'r dirprwy olynol yn gallu gweithredu. Gallai penodi dirprwy olynol fod yn ddefnyddiol os bydd yr unigolyn a benodir fel dirprwy yn oedrannus eisoes ac mae'n dymuno sicrhau y bydd unigolyn penodol yn mabwysiadu'u dyletswyddau yn y dyfodol, os bydd angen. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, gall fod yn well gan y llys aros hyd nad yw'r dirprwy gwreiddiol yn gallu gweithredu mwyach cyn iddo ddewis dirprwy olynol.
- 9.22. Os na fydd dirprwy'n fodlon nac yn gallu cyflawni'u dyletswyddau mwyach, dylid gwneud cais i'r Llys Gwarchod er mwyn i'r dirprwy gael ei ryddhau'n ffurfiol a phenodi rhywun yn ei le.

Senario: Dirprwy proffesiynol

Mae Ms A â phrinder galluedd i reoli'i materion ariannol ac eiddo. Mae ganddi dri o blant sy'n oedolion. Mae un o feibion Ms A yn penderfynu mae ef sydd yn y sefyllfa orau i fod yn ddirprwy eiddo a materion personol i Ms A ac mae'n gwneud cais i'r Llys Gwarchod.

Fel rhan o'r broses mae'n rhaid i'r mab hysbysu'i frawd/chwaer am y cais. Nid yw'r brawd/chwaer yn cytuno â'r penodiad a gynigir ac maent yn herio'r cais am unig ddirprwyaeth. Mae'r tri brawd/chwaer yn cytuno y byddant yn cyfryngu i geisio datrys eu hanghydfod. Mae hyn yn arwain at gytundeb y byddai er y budd gorau i Ms A bod cyfreithiwr yn cael ei benodi fel dirprwy proffesiynol ac annibynnol i reoli eiddo a materion personol Ms A.

Mae'r Llys yn gwneud gorchymyn i'r perwyl hwnnw.

A yw'r llys yn gallu diogelu pobl sydd â phrinder galluedd rhag colled ariannol?

- 9.23. O dan adran 19(9)(a) y Ddeddf bydd y llys yn gofyn i ddirprwy eiddo a materion personol ddarparu rhyw fath o sicrwydd (er enghraifft, bond gwarant) i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i gynnwys unrhyw golled o ganlyniad i gamau gweithredu'r dirprwy wrth gyflawni'u rôl. Mae gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus gynllun i alluogi dirprwyon i gael mynediad at fath o fond sicrwydd, er ei bod yn bosibl sicrhau sicrwydd mewn ffyrdd eraill hefyd. Bydd costau darparu'r sicrwydd fel arfer yn daladwy allan o gronfeydd yr unigolyn mae'r dirprwy wedi'i benodi i'w

gynrychioli. Yn ogystal, bydd y llys fel arfer yn gofyn i ddirprwy ddarparu adroddiadau a chyfrifon i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, fel y gwêl yn addas.

Beth sy'n rhaid i'r dirprwy wneud?

- 9.24. Unwaith y bydd dirprwy wedi'i benodi gan y llys, bydd gorchymyn y penodiad (a adnabyddir fel gorchymyn dirprwyaeth) yn amlinellu eu pwerau penodol a chwmpas eu hawdurdod. Wrth ymgymryd â'r penodiad, bydd y dirprwy yn derbyn nifer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau a bydd gofyn iddo weithredu yn unol â safonau penodol. Gallai methu â chydymffurfio â'r dyletswyddau a amlinellir isod arwain at y llys yn dirymu'r gorchymyn sy'n penodi'r dirprwy ac, mewn rhai amgylchiadau, gallai'r dirprwy fod yn atebol yn bersonol i hawliadau am esgeulustod neu gyhuddiadau troseddol o dwyll.
- 9.25. Dylai dirprwyon roi gwybod bob amser i unrhyw drydydd parti maent yn delio â nhw (megis banciau a sefydliadau ariannol eraill i ddirprwy eiddo a materion ariannol a meddygon, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal neu gartref gofal i ddirprwy lles personol) bod y llys wedi'u penodi fel dirprwy. Bydd y llys yn rhoi dogfennau swyddogol i'r dirprwy i brofi eu penodiad a hyd a lled eu hawdurdod.
- 9.26. Bydd yn rhaid i ddirprwy weithredu pryd bynnag y bydd angen penderfyniad neu weithred ac mae'n rhan o'u dyletswyddau fel yr amlinellir yn y gorchymyn llys sy'n eu penodi. Gallai dirprwy sy'n methu â gweithredu o gwbl yn y fath sefyllfaoedd fod yn torri'i ddyletswydd.
- 9.27. Mae'n rhaid i ddirprwyon:
- ddilyn egwyddorion statudol y Ddeddf (gweler pennod 2) gan gynnwys cynorthwyo'r unigolyn i wneud eu penderfyniadau eu hunain lle bynnag y bo'n bosibl
 - os bydd yr unigolyn â phrinder galluedd i wneud penderfyniad penodol, gwneud penderfyniad neu weithredu er y budd gorau i'r unigolyn
 - ystyried y canllawiau yn y Cod Ymarfer hwn
 - gwneud penderfyniadau'n unig mae'r llys wedi rhoi awdurdod iddynt wneud.

Egwyddorion a budd gorau

- 9.28. Mae'n rhaid i ddirprwyon weithredu'n unol ag egwyddorion statudol y Ddeddf (adran 1, gweler pennod 2) ac yn benodol budd gorau'r unigolyn sydd â phrinder galluedd (mae'r camau i sefydlu budd gorau'n cael eu hamlinellu yn adran 4). Yn benodol, mae'n rhaid i ddirprwyon ystyried a oes gan yr unigolyn allu i wneud y penderfyniad drostynt eu hunain a'u cynorthwyo i wneud hynny lle bynnag y bo'n bosibl (gweler pennod 3).

9.29. Wrth wneud penderfyniadau am eiddo a materion personol unigolyn, mae'n rhaid i ddirprwyon ystyried budd gorau'r unigolyn yn gyffredinol. Dylai hyn gynnwys ystyried lles yr unigolyn.

Senario: Penderfyniad wedi'i gynorthwyo hyd yn oed â dirprwyaeth

Cafodd Ms J anaf trawmatig i'w hymennydd chwe blynedd yn ôl a'i rhieni yw ei dirprwyon iechyd a lles.

Roedd hi'n rhydd rhag ffitiau hyd yn ddiweddar pan gafodd hi ddau yn agos at ei gilydd. Rhoddodd ei hymgyngorydd meddygol ychydig iawn o wybodaeth ar dipyn o frys iddi yn yr apwyntiad dilynol a fynychodd Ms J gyda'i rhieni. Dywedodd mai achos y ffitiau mwy na thebyg oedd yr epilepsi ôl-drawmatig ac roedd i'w ddisgwyl. Argymhellodd bod Ms J yn cychwyn meddyginiaeth newydd ar unwaith.

Cytunodd Ms J â hyn, ond roedd ei rhieni'n gwybod mae 'iawn' oedd yr hymateb oedd yn well ganddi yn y mathau hyn o sefyllfaoedd gan fod Ms J yn hoffi cytuno a phlesio pobl. Eu barn oedd nad oedd Ms J wedi dangos gallu i wneud y penderfyniad roedd angen ei wneud.

Fel dirprwyon roedd y penderfyniad am feddyginiaeth Ms J yn un iddynt ei wneud os oedd gan Ms J brinder galluedd i wneud hynny, ond roedd rhieni Ms J eisiau cynorthwyo Ms J i wneud y penderfyniad os oedd hyn yn bosibl. Yn dilyn y cyfarfod cymerwyd sawl diwrnod ganddynt i ystyried a siarad am sgîl-ffeithiau'r feddyginiaeth gyda Ms J, nad oedd yr ymgynghorydd wedi esbonio mewn ffordd y gallai Ms J ddeall. Gofynnwyd am ail farn feddygol ganddynt ac aethant gyda Ms J i weld nyrs epilepsi. Esboniodd y nyrs y feddyginiaeth mewn ffordd roedd Ms J yn deall a siaradodd hefyd am y posibilrwydd o Farwolaeth Sydyn Annisgwyl o Epilepsi. Gyda'i gilydd gweithiodd y nyrs a rhieni Ms J trwy risgiau hyn gyda sgîl-ffeithiau posibl y feddyginiaeth gyda Ms J.

Wedi cael yr holl wybodaeth berthnasol am y feddyginiaeth, ac wedi cael cymorth i ddefnyddio a phwyso a mesur y wybodaeth, dangosodd Ms J bod ganddi'r gallu i wneud y penderfyniad. Penderfynodd gymryd y feddyginiaeth. Cynorthwyodd ei rhieni hi'n hytrach na defnyddio'u pwerau dirprwyaeth i wneud penderfyniadau.

Senario: Dirprwy panel

Mae Mr M yn byw yn y gymuned yn ei eiddo ei hun. Derbyniodd swm mawr o arian trwy iawndal o achos llys yn dilyn damwain car.

Mae gan Mr M brinder galluedd i reoli dyfarniad yr iawndal ac mae wedi sefydlu ymddiriedolaeth yn ei enw sy'n cael ei rheoli gan ei ddirprwy cyllid ac eiddo. Mae dirprwy Mr M yn ddirprwy panel, wedi'i benodi gan y Llys Gwarchod o banel dirprwyon y Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Mae'r dirprwy panel yn gweithio gyda chwmni rheoli achos Mr M i reoli materion ariannol Mr M er ei fudd gorau fel ei bod yn derbyn y gofal sydd ei angen arno yn y gymuned.

Y Cod Ymarfer

9.30. Yn ogystal â'r bennod hon, dylai atwrneiod roi sylw arbennig i'r canllawiau canlynol a amlinellir yn y Cod:

- pennod 2, sy'n amlinellu sut y dylai egwyddorion y Ddeddf gael eu defnyddio
- pennod 3, sy'n disgrifio'r camau y gellir eu cymryd i geisio helpu'r unigolyn i wneud y penderfyniadau drostynt eu hunain
- pennod 4, sy'n disgrifio diffiniad y Ddeddf o brinder galluedd ac sy'n rhoi canllawiau ar asesu galluedd, a
- phennod 5, sy'n rhoi canllawiau ar sefydlu budd gorau rhywun.

9.31. Mewn rhai amgylchiadau, gallai fod yn ddefnyddiol i atwrneiod gyfeirio at ganllawiau ym:

- mhennod 6, sy'n esbonio pan all atwrneiod sydd â chyfrifoldebau gofalu gael amddiffyniad rhag atebolrwydd ac sy'n rhoi canllawiau ar yr ychydig amgylchiadau pan fydd y Ddeddf yn caniatáu ataliaeth mewn perthynas â gofal a thriniaeth, a
- phennod 24, sy'n disgrifio ffyrdd i ddatrys anghytundebau.

Gwneud penderfyniadau'n unig y bydd y llys yn awdurdodi dirprwy i'w gwneud.

9.32. Mae gan ddirprwy ddyletswydd i weithredu o fewn cwrpas y pwerau gwirioneddol a roddir gan y llys yn unig, sy'n cael eu hamlinellu yn y drefn penodiad. Mae'n bosibl y bydd dirprwy'n meddwl nad yw eu pwerau'n ddigon iddynt gyflawni'u dyletswyddau'n effeithiol. Yn y sefyllfa hon, mae'n rhaid iddynt wneud cais i'r llys naill ai i:

- ofyn i'r llys wneud y penderfyniad o dan sylw, neu
- ofyn i'r llys newid pwerau'r dirprwy.

Beth yw dyletswyddau eraill dirprwy?

9.33. Mae adran 19(6) y Ddeddf yn datgan bod dirprwy i gael ei drin fel 'asiant' yr unigolyn sydd â phrinder galluedd pan fydd yn gweithredu ar eu rhan. Mae bod yn asiant yn golygu bod gan y dirprwy ddyletswyddau cyfreithiol (o dan y gyfraith asiantaeth) i'r unigolyn y maent yn ei gynrychioli. Mae'n golygu hefyd pan fyddant yn cyflawni tasgau o fewn eu pwerau, nid ydynt yn atebol yn bersonol i drydydd partion.

9.34. Mae'n rhaid i ddirprwyon gyflawni'u dyletswyddau'n ofalus ac yn gyfrifol. Cyfeirir at y rhain yn aml fel dyletswyddau ymddiriedol (gweler hefyd baragraff 9.38-9.42). Mae ganddynt ddyletswydd i:

- weithredu â gofal a sgîl dyledus (dyletswydd gofal)
- peidio â manteisio ar eu sefyllfa
- indemnio'r unigolyn yn erbyn atebolrwydd i drydydd partion wedi'i achosi gan
- esgeulustod y dirprwy
- peidio â dirprwyo dyletswyddau oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi i wneud hynny
- gweithredu'n ddidwyll
- parchu cyfrinachedd yr unigolyn, a
- chydymffurfio â chyfarwyddiadau'r Llys Gwarchod.

9.35. Mae gan ddirprwyon eiddo a materion personol hefyd ddyletswydd i:

- gadw cyfrifon, a
- chadw arian ac eiddo'r unigolyn ar wahân i'w cyllid eu hunain.

Dyletswydd gofal

9.36. Mae 'dyletswydd gofal' yn golygu defnyddio safon benodol o ofal a sgîl - sy'n dibynnu ar a yw'r dirprwy'n cael eu talu am eu gwasanaethau neu'n meddu ar gymwysterau proffesiynol perthnasol:

9.37. Mae'n rhaid i ddirprwyon nad ydynt yn cael eu talu ddefnyddio'r un gofal, sgîl a diwydrwydd ag y byddent yn eu defnyddio i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain neu'n rheoli eu materion eu hunain. Os na fyddant yn gwneud hynny, gallent gael eu dal yn atebol am weithredu'n esgeulus. Mae'n rhaid i ddirprwy sy'n honni bod ganddo sgiliau neu gymwysterau penodol ddangos mwy o sgîl yn y meysydd penodol hynny nag unigolyn nad ydynt wedi gwneud y fath honiadau.

9.38. Os bydd dirprwyon yn cael eu talu am eu gwasanaethau, disgwylir iddynt ddangos graddfa uwch o ofal neu sgîl wrth gyflawni'u dyletswyddau.

- 9.39. Mae'n rhaid i ddirprwyon y mae eu dyletswyddau'n ffurfio rhan o'u gwaith proffesiynol (er enghraifft, cyfreithwyr neu gyfrifwyr) ddangos cymhwysedd proffesiynol a dilyn rheolau a safonau eu galwedigaeth.
- 9.40. Mae'r OPG yn cyhoeddi manylion safonau dirprwy awdurdod proffesiynol a chyhoeddus sy'n amlinellu'r hyn a ddisgwylir gan y dirprwyon hyn ac yn cynnwys rhestr wirio o gamau gweithredu ac ymddygiad y dylent eu dilyn 91.

Dyletswydd ymddiriedol

- 9.41. Mae dyletswydd ymddiriedol yn golygu bod yn rhaid i ddirprwyon weithredu er y budd gorau i'r unigolyn maent yn gweithredu fel dirprwy iddo bob amser, a pheidio â manteisio ar eu sefyllfa.
- 9.42. Ni ddylai dirprwy fyth roi ei hun mewn sefyllfa lle mae eu buddiannau personol yn gwrthdaro â'u dyletswyddau. Er enghraifft, ni ddylai dirprwyon brynu eiddo y maent yn ei werthu ar ran yr unigolyn maent wedi'u penodi i'w gynrychioli. Ni ddylent chwaith dderbyn comisiwn trydydd parti mewn unrhyw drafodion. Ni allant ddefnyddio'u sefyllfa ar gyfer unrhyw fudd personol, yw ar gost yr unigolyn neu beidio.
- 9.43. Mewn llawer o achosion, bydd y dirprwy yn aelod o'r teulu. Mewn sefyllfaoedd penodol (er enghraifft os bydd y dirprwy a'r unigolyn y maent wedi'u penodi i'w gynrychioli'n berchen ar gyfrandaliadau mewn busnes teulu), gallai hyn arwain at wrthdaro buddiannau o bosibl. Wrth wneud penderfyniadau, dylai dirprwyon ddilyn egwyddorion statudol y Ddeddf, defnyddio'r rhestr wirio budd gorau a pheidio â chaniatáu i'w buddiannau personol eu hunain ddylanwadu ar y penderfyniad. Os bydd gwrthdaro buddiannau'n codi (er enghraifft os bydd y dirprwy'n dymuno defnyddio arian yr unigolyn i wneud benthyciadau ar gyfer ei hun neu aelodau eraill o'r teulu, neu'n cynnig buddsoddi arian yr unigolyn ym musnes y dirprwy) mae'n rhaid iddynt wneud cais i'r llys fel ei fod yn gwneud y penderfyniad.⁹²
- 9.44. Weithiau bydd y llys yn ystyried penodi deiliad swydd o'r awdurdod lleol perthnasol fel dirprwy. Bydd angen i'r llys fod yn fodlon bod gan yr awdurdod drefniadau i osgoi gwrthdaro buddiannau posibl. Er enghraifft, pan fydd gofyn i'r unigolyn y mae angen dirprwy ariannol arno dderbyn gwasanaethau gofal a chymorth gan yr awdurdod lleol, bydd y llys yn dymuno bod yn fodlon fod penderfyniadau am arian yr unigolyn yn cael eu gwneud er y budd gorau i'r unigolyn hwnnw, heb ystyried unrhyw oblygiadau am y gwasanaethau a ddarperir.⁴⁵
- 9.45. Gall fod gan ddirprwyon proffesiynol penodol megis cyfreithwyr, neu gorfforaethau ymddiriedolaeth y mae cwmnïau cyfreithiol yn berchen arnynt wrthdaro buddiannau

91 Safonau dirprwy awdurdod proffesiynol a chyhoeddus, ar gael ar:

<https://www.gov.uk/government/publications/office-of-the-public-guardian-deputy-standards>.

⁹² Parthed Buckley; Gwarcheidwad Cyhoeddus yn erbyn C [2013] EWHC 2965 (COP) (22 Ionawr 2013), ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2013/2965.html>.

os byddant hefyd yn darparu gwasanaethau eraill (megis cynnal achosion cyfreithiol) dros yr unigolyn sydd â phrinder galluedd. Yn y fath achosion dylai dirprwyon ystyried unrhyw ganllawiau mae'r llys wedi'u darparu ynghylch y camau y dylid eu cymryd i fynd i'r afael â'r fath wrthdaro⁹³. Mewn rhai achosion, i osgoi gwrthdaro buddiannau rhag codi, gall fod angen i'r dirprwy wneud cais i'r llys fel mai'r llys fydd yn gwneud y penderfyniad ar ran yr unigolyn.

Senario: Dirprwy awdurdod lleol

Mae Ms K yn byw yn ei chartref ei hun. Mae ganddi ddementia ac mae gofawyr yn ymweld â hi bob dydd sy'n ei chynorthwyo â thasgau bob dydd.

Mae pryderon nad yw Ms K yn gallu rheoli talu ei biliau mwyach ac mae ei meddyg teulu'n ei hasesu fel nad oes ganddi'r galluedd i wneud penderfyniadau ynghylch trafodion ariannol mawr neu eiddo. Nid oes gan Ms K unrhyw aelodau o'r teulu sy'n gallu gwneud y penderfyniadau hyn drosti.

Mae awdurdod lleol Ms K yn gwneud cais i'r Llys Gwarchod gael ei benodi'n ddirprwy i Ms K ar gyfer eiddo a materion personol.

Dyletswydd i beidio â dirprwyo

- 9.46. Gall dirprwy ofyn am gyngor proffesiynol neu arbenigol (er enghraifft, cyngor buddsoddi gan gynghorwr ariannol neu ail farn feddygol gan feddyg) ond nid ydynt yn gallu dirprwyo'r cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau ar ran yr unigolyn i unrhyw un arall, oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi gan y llys i wneud hynny. Er enghraifft, bydd y llys fel afer yn awdurdodi dirprwy i benodi rheolwr buddsoddi dewisol i wneud penderfyniadau am fuddsoddi asedau'r unigolyn o ddydd i ddydd.
- 9.47. Gall dirprwyon ddirprwyo tasgau gweinyddol penodol a rhai eraill na fyddai'r llys wedi disgwyl i'r dirprwy ymdrin â nhw'n bersonol. Er enghraifft, gall dirprwy ddefnyddio casglwr rhent i gasglu rhent am adeiladau y mae'r unigolyn yn berchen arnynt maent wedi'u penodi i'w cynrychioli. Pan fydd y dirprwy yn ddeiliad swydd yn yr awdurdod lleol perthnasol, neu'n gyfreithiwr, gallant ddirprwyo tasgau penodol i aelodau o'u staff, (megis talu biliau rheolaidd ar ran yr unigolyn). Nid yw dirprwyon fel arfer yn gallu dirprwyo unrhyw benderfyniadau sy'n dibynnu ar eu disgrisiwn. Hyd yn oed lle caniateir dirprwyo, bydd y dirprwy yn parhau i fod yn gyfrifol am unrhyw gamau gweithredu neu benderfyniadau a gymerir ac felly gellir ei ddal yn atebol am unrhyw wallau sy'n cael eu gwneud.

⁹³ Gweler Parthed ACC ac Eraill [2020] EWCOP 9, ar gael ar: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2020/9.html>

Dyletswydd didwylledd

9.48. Mae gweithredu'n ddidwyll yn golygu gweithredu gyda gonestrwydd ac uniondeb. Er enghraifft, ni ddylai dirprwy geisio cuddio gwrthdaro buddiannau a all fod ganddynt na gwneud penderfyniad ar ran yr unigolyn maent yn eu cynrychioli yn y gobaith o gael budd i'w hun.

Dyletswydd cyfrinachedd

9.49. Mae gan ddirprwyon ddyletswydd i gadw materion personol yr unigolyn yn gyfrinachol, oni bai:

- cyn iddynt golli'r galluedd i wneud hynny, cytunodd yr unigolyn y gallai gwybodaeth gael ei datgelu lle y bo angen
- bod rhyw reswm da arall i ryddhau gwybodaeth (er enghraifft, mae er budd cyhoeddus neu fudd gorau'r unigolyn sydd â phrinder galluedd, neu lle mae risg o niwed i'r unigolyn o dan sylw neu i bobl eraill).

9.50. Yn yr amgylchiadau olaf, mae'n ddoeth i'r dirprwy gysylltu â'r OPG am ganllawiau neu i gael cyngor cyfreithiol. Gweler pennod 25 i gael mwy o wybodaeth am ddatgelu gwybodaeth bersonol.

Dyletswydd i gydymffurfio â chyfarwyddiadau'r Llys Gwarchod

9.51. Gall y Llys Gwarchod roi cyfarwyddiadau penodol i ddirprwyon am sut y dylent ddefnyddio'u pwerau. Mae'n gallu gorchymyn hefyd i ddirprwyon ddarparu adroddiadau (er enghraifft, cyfrifon ariannol neu adroddiadau ar les yr unigolyn sydd â phrinder galluedd) i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar unrhyw adeg neu ar y fath gyfnodau o amser mae'r llys yn eu cyfarwyddo. Mae'n rhaid i ddirprwyon gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd gan y llys neu gais gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Dyletswydd i gadw cyfrifon ac i adrodd i'r OPG

9.52. Mae disgwyl i ddirprwy a benodir i reoli eiddo a materion personol gadw, a chyflwyno'n rheolaidd i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, gyfrifon cywir o'u holl gysylltiadau â thrafodion ar ran yr unigolyn. Mae'r OPG yn hysbysu pob dirprwy newydd a benodir am ba mor aml y gofynnir am adroddiad yn dilyn penodiad ac yn craffu ar adroddiadau i sicrhau bod y dirprwy yn cyflawni'u dyletswyddau'n gywir.

Dyletswydd i gadw arian ac eiddo'r unigolyn ar wahân

9.53. Dylai dirprwyon eiddo a materion personol gadw arian ac eiddo'r unigolyn ar wahân i'w rhai eu hunain neu rai unrhyw un arall. Mae hyn er mwyn osgoi unrhyw bosibilrwydd o gamgymeriadau neu ddryswch mewn trafod materion personol yr unigolyn.

Newidiadau manylion cyswllt

9.54. Dylai dirprwy hysbysu'r OPG ynghylch unrhyw newidiadau mewn manylion cyswllt neu amgylchiadau (i'r dirprwy neu i'r unigolyn maent yn gweithredu ar ei ran). Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gan yr OPG gofnodion cyfredol. Bydd hefyd yn caniatáu i'r llys ryddhau pobl nad ydynt bellach yn gymwys i weithredu fel dirprwyon.

Beth na all dirprwy ei wneud?

9.55. Mae adran 20 yn amlinellu rhai cyfyngiadau penodol ar bwerau dirprwy. Yn benodol nid oes awdurdod gan ddirprwy i wneud penderfyniadau neu weithredu:

- os byddant yn meddwl bod gan yr unigolyn o dan sylw allu i wneud y penderfyniad penodol drostynt eu hunain
- os byddant yn gwneud rhywbeth a fwriedir i atal yr unigolyn sydd â phrinder galluedd - ac eithrio o dan amgylchiadau penodol (mae canllawiau ar yr amgylchiadau pan ellid caniatáu ataliad yn cael eu nodi ym mhennod 6)
- os bydd eu penderfyniad yn mynd yn groes i benderfyniad a wneir gan atwrnai - os bydd pryder neu anghydfod am y ffordd mae atwrnai wedi gweithredu, mater i'r llys yw ystyried hynny.
- gwahardd cysylltiad rhwng yr unigolyn a rhywun arall (er y gallant gyfyngu ar gysylltiad)⁹⁴
- gwrthod y ddarpariaeth neu barhad triniaeth cynnal bywyd i
- unigolyn sydd â phrinder galluedd i gydsynio - mae'n rhaid i'r llys wneud y fath benderfyniadau
- gwneud ewyllys ar ran yr unigolyn - mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i wneud ewyllys gael ei wneud gan y llys.

9.56. Nid yw dirprwy chwaith yn gallu awdurdodi unrhyw beth a fyddai'n gyfystyr ag amddifadu'r unigolyn o'i ryddid. Bydd unrhyw amddifadu o ryddid yn gyfreithlon yn unig os bydd wedi'i awdurdodi'n gywir (gweler pennod 13).

9.57. Os bydd dirprwy'n meddwl nad yw eu pwerau'n ddigon iddynt gyflawni'u dyletswyddau'n effeithiol, gallant wneud cais i'r llys i newid eu pwerau. Gweler paragraff 7.22 isod.

Pryd all dirprwy wneud rhoddion neu daliadau tebyg?

9.58. Amlinellir y graddau y gall dirprwy ddefnyddio arian yr unigolyn i wneud rhoddion a thaliadau er budd eraill (gan gynnwys y dirprwy) yn y gorchymyn llys sy'n penodi'r

⁹⁴ PB yn erbyn RB ac Ors [2013] EWCOP B41, ar gael ar:
<https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2013/B41.html>

dirprwy. Mae anrhegion, megis anrhegion pen-blwydd neu Nadolig i berthnasau neu ffrindiau, yn cael eu caniatáu fel arfer os byddant o swm rhesymol a'i fod er y budd gorau i'r unigolyn i'w gwneud. Mae'r hyn sy'n "rhesymol" yn gallu dibynnu ar raddau asedau'r unigolyn ac unrhyw roddion a wnaethant pan roedd ganddynt y galluedd i wneud hynny. Mae taliadau eraill i gynnal aelodau o'r teulu (megis gŵr/gwraig, partner neu blant yr unigolyn) hefyd yn cael eu caniatáu fel arfer os byddant yn rhesymol a'u bod yn daliadau y gallai'r unigolyn eu hunain fod wedi eu gwneud pe byddai ganddynt y galluedd i wneud hynny. Mae gan yr OPG ganllawiau pellach ar yr amgylchiadau y gall dirprwyon wneud rhoddion⁹⁵.

9.59. Pan fydd aelod o'r teulu yn darparu gofal i unigolyn sydd â phrinder galluedd, gall fod er y budd gorau i'r unigolyn i'w gofalwr dderbyn rhyw daliad (fe'u gelwir yn aml yn "daliadau gofal teuluol") am y gofal hwnnw. Gallai hyn fod oherwydd ei bod er y budd gorau i'r unigolyn eu bod yn derbyn gofal gan aelod o'r teulu yn hytrach na gofalwr cyflogedig, neu gall fod i leddfu sefyllfa ariannol y gofalwr ei hun. Mae'r OPG wedi darparu canllawiau ar yr amgylchiadau lle mae dirprwy yn gallu gwneud taliadau gofal teuluol⁹⁶. Mae'r canllawiau hyn cynnwys:

- Os bydd y dirprwy yn weithiwr proffesiynol, maent yn gallu awdurdodi taliadau gofal teuluol ar yr amod eu bod yn fodlon eu bod er y budd gorau i'r unigolyn i wneud hynny. Os byddant yn amau a yw'r taliad er y budd gorau i'r unigolyn, dylent wneud cais i'r llys am arweiniad.
- Os mai'r dirprwy, neu aelod o'r teulu, fydd y gofalwr yna dylent wneud cais bob amser i'r llys am ganiatâd i wneud y taliadau.

Beth yw rôl y Gwarcheidwad Cyhoeddus a Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus?

9.60. Cafodd rôl Gwarcheidwad Cyhoeddus i Loegr a Chymru ei chreu o dan adran 57 y Ddeddf. Mae'r OPG yn asiantaeth weithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) ac yn cynorthwyo'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i gyflawni'i dyletswyddau/ddyletswyddau statudol.

9.61. Mae'r OPG yn gyfrifol am sefydlu a chynnal cofrestrau o LPAau, EPAau (gweler pennod 8 am ei rôl ynghylch LPAau ac EPAau) ac am bob gorchymyn llys sy'n penodi dirprwyon. Mae'n gyfrifol hefyd am oruchwylio dirprwyon ac am ymchwilio i bryderon a godir am gamau gweithredu dirprwyon.

⁹⁵ Canllawiau i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus OPG2 ar gael ar:
<https://www.gov.uk/government/publications/giving-gifts-a-guide-for-deputies-and-attorneys/opg2-giving-gifts-for-someone-else-web-version>

⁹⁶ Nodyn Ymarfer i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus SD14 ar gael ar:
<https://www.gov.uk/government/publications/public-guardian-practice-note-family-care-payments>

Goruchwyllo dirprwyon

- 9.62. Mae dirprwyon yn atebol i'r Llys Gwarchod. Mae gan yr OPG ddyletswydd statudol i oruchwyllo dirprwyon iechyd a lles yn ogystal ag eiddo a materion personol. Ei rôl yw sicrhau bod dirprwy yn cydymffurfio â'r gorchymyn llys pan gawsant eu penodi a'u bod yn gweithredu er y budd gorau i'r unigolyn sydd â phrinder galluedd. Mae'r OPG yn darparu canllawiau ar-lein (ar gov.uk⁹⁷) i ddirprwyon, i gynorthwyo gyda gwneud penderfyniadau a chynllunio i'r dyfodol.
- 9.63. Mae gan ddirprwyon ddyletswydd i adrodd i'r OPG. Yn dilyn penodiad, mae'r OPG yn cysylltu â'r dirprwy i drafod yr amllder a'r broses ar gyfer adroddiadau. Mae'r OPG yn archwilio pob adroddiad i sicrhau bod dirprwyon yn cyflawni'u dyletswyddau'n gywir ac i nodi unrhyw gymorth ychwanegol a all fod ei angen.

Senario: Cynorthwyo dirprwy newydd

Mae gan Ms E ddementia ac mae wedi symud i gartref gofal. Mae ei merch yn gwneud cais i gael ei phenodi'n ddirprwy iddi i reoli arian ac eiddo'i mam yn dilyn y symudiad.

Fel rhan o gymorth yr OPG i ddirprwyon newydd mae'n cysylltu â merch Ms E yn fuan ar ôl y penodiad i ateb unrhyw gwestiynau all fod ganddi ynglŷn â'i rôl.

Yn ystod y drafodaeth mae merch Ms E yn esbonio ei bod yn dymuno rhoi tŷ ei mam ar y farchnad i'w werthu, ond mae'n dweud ei bod yn ansicr a oes ganddi'r awdurdod i wneud hynny. Mae'r OPG yn gwirio telerau'r ddirprwyaeth am unrhyw gyfarwyddiadau mae'n ei chynnwys a yw dirprwy Ms E yn gallu gwerthu'r tŷ heb gyfarwyddiadau ychwanegol gan y llys. Mae swyddog yr OPG yna'n darparu canllawiau i ferch Ms E ar yr opsiynau sydd ar gael.

- 9.64. Os bydd gan yr OPG unrhyw bryderon ynghylch cynnwys yr adroddiad bydd yn ceisio datrys y rhain gyda'r dirprwy a gall gychwyn ymchwiliad os bydd yn pryderu y gall camdriniaeth ariannol neu les personol ddigwydd.
- 9.65. Dylai unrhyw un sy'n amau bod dirprwy yn camddefnyddio'u sefyllfa neu nad ydynt yn gweithredu er y budd gorau i'r unigolyn maent wedi'u penodi'n ddirprwy iddo gysylltu â'r OPG ar unwaith fel y gellir cynnal ymchwiliad.

⁹⁷ Canllawiau i'r Dirprwy: sut i wneud eich dyletswyddau, ar gael ar:
<https://www.gov.uk/government/publications/deputy-guidance-how-to-carry-out-your-duties>

- 9.66. Mae'r OPG yn gallu cyfarwyddo'r Llys Gwarchod i ymweld â dirprwy i ymchwilio i unrhyw fater o bryder. Gall hefyd wneud cais i'r llys i ddirymu penodiad dirprwy.
- 9.67. Bydd yr OPG yn ystyried unrhyw bryderon neu gwynion yn erbyn dirprwyon yn ofalus. Os bydd rhywun yn amau camdriniaeth rywiol neu gorfforol neu dwyll difrifol, dylent gysylltu â'r heddlu a/neu wasanaethau cymdeithasol ar unwaith, yn ogystal â hysbysu'r OPG. Mae pennod 23 yn rhoi mwy o wybodaeth am rôl yr OPG ynglŷn â diogelu pobl sydd â phrinder galluedd. Mae'n trafod hefyd amddiffyn pobl sydd â phrinder galluedd rhag camdriniaeth, triniaeth wael neu esgeulustod bwriadol a chyfrifoldebau'r asiantaethau amrywiol perthnasol.

Senario: Rôl ymwelydd y Llys Gwarchod

Mae gan Ms D allu i reoli trafodion ariannol syml dydd i ddydd yn unig. Mae ei mab wedi'i benodi i reoli arian ac eiddo arall Ms D.

Mae'r OPG yn nodi bod ansawdd wael yr adroddiad blynyddol mae mab Ms D wedi'i gyflwyno yn awgrymu ei fod wedi cael trafferth â'r agwedd hon o'i rôl fel dirprwy. Mae'r OPG yn nodi bod angen adolygu'r ddirprwyaeth.

I gynorthwyo'r broses hon mae'r OPG yn penodi ymwelydd annibynnol y Llys Gwarchod i gyfarfod â mab Ms D a chynnig rhywfaint o gymorth, gan sicrhau a yw'n deall ei ddyletswyddau fel dirprwy'n llawn. Fel rhan o'r ymweliad, mae'r ymwelydd yn cyfarfod â Ms D hefyd, i asesu ei lles a phennu a yw'n gallu cyflwyno unrhyw farn, dymuniadau a theimladau am ei mab sy'n gweithredu fel dirprwy.

Mae'r ymwelydd yn helpu mab Ms D i ddeall sut i gwblhau'i adroddiad blynyddol ac mae'n sefydlu bod Ms D yn awyddus i'w gadw fel ei dirprwy.

Mae mab Ms D wedyn yn gallu cyflwyno adroddiadau o ansawdd derbyniol.

Beth yw rôl yr OPG mewn darparu diogelwch?

- 9.68. Un o swyddogaethau statudol y Gwarcheidwad Cyhoeddus yw derbyn diogelwch a orchmynnir gan y llys, ac mae'n gwneud gwiriadau yn dilyn penodiad dirprwy i sicrhau bod hyn yn ei le.
- 9.69. Mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus hefyd yn gallu gwneud cais i'r llys orfodi diogelwch lle mae dirprwy yn torri'i ddyletswydd.
- 9.70. O dan reoliadau, mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gallu gwneud trefniadau i hwyluso darparu bondiau diogelwch, y mae'n ei wneud trwy benodi 'darparwr dewisol' sy'n darparu bondiau sicrwydd addas at ddibenion diogelwch yr holl

ddirprwyon sy'n cael eu penodi gan y llys. Nid yw dirprwyon wedi'u rhwymo i gytuno ag unrhyw drefniant o fewn y cynllun ac os byddant yn dymuno maent yn gallu gwneud eu trefniadau eu hunain.

DRAFT

10. Beth yw rôl yr Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA)?

Mae'r bennod hon yn disgrifio rôl yr Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA) ar gyfer penderfyniadau ynghylch triniaeth feddygol ddifrifol a llety o dan adrannau 37, 38 a 39 y Ddeddf, a rheoliadau a gyhoeddir o dan adran 41. Mae'r bennod hon hefyd yn disgrifio rôl yr IMCA o dan y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS).

Mae eiriolaeth yn ffordd o gefnogi unigolyn i gael dweud eu dweud a sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cynnal hyd yn oed os nad yw'r unigolyn yn gallu mynegi eu dymuniadau neu'u teimladau neu'u credoau. Mae IMCA yn gweithio gyda ac yn cefnogi pobl sydd â phrinder gallu perthnasol, ac yn cynrychioli eu barn i'r rhai sy'n gweithio er eu budd gorau. Mae'r bennod hon yn rhoi canllawiau ar gyfer IMCA ac ar gyfer unrhyw un a all fod angen cyfarwyddo IMCA. Mae'n egluro sut y dylid cyfarwyddo IMCA. Mae hefyd yn egluro dyletswyddau'r IMCA a'r sefyllfaoedd pan ddylid cyfarwyddo IMCA. Mae'n ofynnol i IMCA yn ogystal â'r gwneuthurwyr penderfyniad ystyried y Cod Ymarfer.

Diben yr IMCA o dan adrannau 37, 38 a 39 y Ddeddf yw eirioli dros a chefnogi pobl nad os ganddynt y gallu i wneud penderfyniadau pwysig ynghylch triniaeth feddygol ddifrifol a llety tymor hir sydd heb deulu na ffrindiau y byddai'n briodol ymgynghori â hwy wrth bennu budd gorau'r unigolyn.

Mae cynrychiolaeth a chefnogaeth hefyd yn fesurau diogelwch allweddol a gynigir gan yr LPS i sicrhau bod rhyddid unigolyn yn cael ei amddiffyn yn unol â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR). Mae gan IMCA ran allweddol yn hyn, gan helpu pobl sy'n cael eu hasesu ar gyfer yr LPS, neu'n ddarostyngedig iddo. Mewn rhai amgylchiadau, bydd IMCA hefyd yn cefnogi Person Priodol yr unigolyn i gynrychioli a chefnogi'r unigolyn. (Gweler mwy o wybodaeth am rôl y Person Priodol o dan yr LPS ym mhennod 15)

Yn y bennod hon, fel trwy'r Cod cyfan, mae gallu (neu brinder gallu) unigolyn yn cyfeirio'n benodol at eu gallu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg mae angen gwneud y penderfyniad.

Crynodeb cyflym

Deall rôl gwasanaeth yr IMCA mewn penderfyniadau am driniaeth feddygol ddifrifol neu lety (adran 37 - 39 yr MCA)

- Nod gwasanaeth yr ICMA yw darparu eiriolaeth a mesurau diogelwch annibynnol i bobl sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniadau pwysig penodol ac nad oes

ganddynt unrhyw un arall (heblaw staff cyflogedig) y byddai'n briodol ymgynghori â nhw i bennu'r hyn sydd er y budd gorau i'r unigolyn.

- Mae'n rhaid i IMCA allu gweithredu'n annibynnol o'r unigolyn neu'r corff sy'n eu cyfarwyddo.

Cyfarwyddo ac ymgynghori ag IMCA i wneud penderfyniadau am driniaeth feddygol ddifrifol neu lety (adran 37 - 39 yr MCA)

- Dim ond ar ôl i IMCA gael eu cyfarwyddo gan y corff priodol y gallant weithio gydag unigolyn. Ar gyfer penderfyniadau llety, yr awdurdod lleol neu gorff y GIG fydd yn gyfrifol am y trefniadau. Ar gyfer penderfyniadau triniaeth feddygol ddifrifol, corff y GIG fydd â chyfrifoldeb am driniaeth yr unigolyn.
- Mae'n rhaid i IMCA gael ei gyfarwyddo, ac yna ymgynghori ag ef, ar gyfer pobl sydd heb y galluedd meddyliol perthnasol nad oes ganddynt unrhyw un arall i ymgynghori â nhw (heblaw staff cyflogedig) i bennu budd gorau'r unigolyn, pryd bynnag:
 - bydd corff y GIG yn cynnig darparu triniaeth feddygol ddifrifol, neu
 - bydd corff y GIG neu awdurdod lleol yn cynnig trefnu llety (neu newid llety) yn yr ysbyty neu gartref gofal neu lety preswyl, a
 - o bydd yr unigolyn yn aros yn yr ysbyty yn hwy na 28 niwrnod, neu
 - o byddant yn aros yn y cartref gofal neu'r llety preswyl am fwy nag wyth wythnos
 - bydd corff y GIG neu awdurdod lleol yn cynnig adolygu trefniadau llety a ddarparwyd am fwy na 12 wythnos.

Sicrhau bod barn IMCA yn cael ei hystyried mewn penderfyniadau ynghylch triniaeth feddygol ddifrifol neu lety (adran 37 - 39 yr MCA)

- Rôl yr IMCA yw cynrychioli a chefnogi'n annibynnol yr unigolyn sydd heb y gallu perthnasol. Ni ddylai sut mae gwasanaeth yr ICMA yn cael ei ariannu ddylanwadu ar eu barn.
- Er mwyn cyflawni eu rôl, mae gan IMCA hawl i weld a chymryd copïau o gofnodion gofal iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol.
- Mae'n rhaid ystyried unrhyw wybodaeth neu adroddiadau a ddarperir gan IMCA wrth benderfynu a yw penderfyniad a gynigir er y budd pennaf i'r unigolyn.

Meini prawf i ddod yn IMCA o dan adran 37 - 39 yr MCA ac at ddibenion yr LPS

- Mae'n rhaid bod gan IMCA y profiad, yr hyfforddiant a'r cymeriad priodol, yn ogystal â gofynion eraill fel y nodir yn Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol) (Cyffredinol) 2006.
- Yn aml darperir gwasanaethau IMCA gan sefydliadau eirioli sy'n annibynnol o awdurdodau lleol, cyrff y GIG a byrddau iechyd.
- Mae rhai IMCA yn llawrydd a gall yr awdurdod lleol eu cymeradwyo i weithredu fel IMCA.

Penodi IMCA o dan yr LPS

- Mewn achosion lle na chaiff unrhyw Person Priodol ei nodi, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol, yn y rhan fwyaf o achosion, gymryd pob cam rhesymol i benodi IMCA i gynrychioli a chefnogi'r unigolyn.
- Mewn rhai amgylchiadau, penodir IMCA hefyd i gefnogi'r Person Priodol i sicrhau eu bod yn gallu cynrychioli a chefnogi'r unigolyn.
- Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau darpariaeth ddigonol o wasanaethau IMCA at ddibenion yr LPS (a'r MCA ehangach)

Deall rôl yr IMCA yn yr LPS

- Mewn rhai achosion, penodir IMCA yn ystod proses yr LPS. Nod yr IMCA o dan yr LPS yw cynrychioli a chefnogi unigolyn, neu eu Person Priodol, trwy gydol proses awdurdodi'r LPS a thra bo unrhyw awdurdodiad yr LPS mewn grym.
- Dylai'r IMCA sicrhau bod dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn cael eu deall a'u hystyried.
- Dylai'r IMCA sicrhau bod hawliau unigolyn yn cael eu cynnal.

Beth yw gwasanaeth yr IMCA o dan adran 37 - 39 yr MCA (penderfyniadau ynghylch triniaeth feddygol ddifrifol neu lety)?

- 10.1 Mae gan y mwyafrif o bobl sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniad penodol unigolion (heblaw staff cyflogedig) y gellir ymgynghori â nhw ynghylch eu budd pennaf (er enghraifft, aelodau o'r teulu neu ffrindiau sy'n ymddiddori yn eu lles). Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n pennu budd pennaf unigolyn ymgynghori â'r unigolion hyn, lle bo hynny'n ymarferol ac yn briodol, a chymryd eu barn i ystyriaeth (gweler pennod XX).

- 10.2 At ddibenion adrannau 37 i 39 y Ddeddf, mae IMCA yn darparu eiriolaeth a mesurau diogelwch i bobl sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei wneud ac nad oes ganddo unrhyw un (heblaw staff cyflogedig) y byddai'n briodol ymgynghori â nhw yn y broses o bennu'u budd pennaf.
- 10.3 Mae'n rhaid cyfarwyddo IMCA o dan yr amgylchiadau canlynol (gweler paragraffau XX i gael mwy o wybodaeth):
- darparu, atal neu roi'r gorau i driniaeth feddygol ddifrifol
 - symud unigolyn i ofal hirdymor yn yr ysbyty neu gartref gofal neu lety preswyl (gweler paragraff xx i gael diffiniad),
 - symud yr unigolyn i ysbyty, cartref gofal neu lety preswyl gwahanol, neu
 - adolygu trefniadau llety.
- 10.4 Nid yw'r ddyletswydd i gyfarwyddo IMCA yn berthnasol pan fo angen gwneud penderfyniad brys neu mewn achosion lle mae'r penderfyniad neu'r llety yn cael ei wneud o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.
- 10.5 Rhoddir mwy o fanylion am y sefyllfaoedd lle mae dyletswydd i gyfarwyddo IMCA ym mharagraffau xx – xx.

Pwy sy'n gymwys i gael IMCA o dan adran 37-39 yr MCA?

- 10.6 Mae'n rhaid cyfarwyddo IMCA ar gyfer pobl sydd:
- â phrinder gallu i wneud penderfyniad penodol ynghylch triniaeth feddygol ddifrifol neu lety hirdymor, a
 - heb unrhyw unigolyn (heblaw staff cyflogedig) y byddai'n briodol ymgynghori â nhw wrth bennu budd pennaf yr unigolyn, a
 - heb enwi rhywun yn flaenorol a allai helpu gyda phenderfyniad, a
 - heb wneud Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus berthnasol (gweler paragraff XX isod).
- 10.7 Efallai y bydd gan unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol ac sydd eisoes ag eiriolwr yn eu cynrychioli a'u cefnogi mewn perthynas â mater arall hawl i IMCA. Os nad yw'r eiriolwr wedi'i hyfforddi fel IMCA, efallai mai'r eiriolwr fydd yn parhau yn ei rôl a phenodir IMCA i weithio ochr yn ochr â nhw. Fel arall, gallai fod yn fwy priodol penodi eiriolwr newydd, sydd wedi'i hyfforddi fel IMCA, i gyflawni'r ddwy rôl. Dylid ystyried hyn fesul achos.
- 10.8 Nid yw'r ddyletswydd i gyfarwyddo IMCA yn berthnasol os:

- bydd yr unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol eisoes wedi enwi person y dylid ymgynghori â nhw ynghylch y penderfyniadau o dan sylw, ac mae'r ddau'n briodol ac yn barod i ymgynghori â nhw.
- bydd yr unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol wedi penodi atwrnai, o dan Atwrneiaeth Arhosol i wneud y penderfyniadau o dan sylw,
- bydd y Llys Gwarchod wedi penodi dirprwy i wneud y penderfyniadau o dan sylw.

Pwy sy'n 'briodol i ymgynghori ag ef' ar gyfer penderfyniadau budd gorau?

10.9 Mae'r IMCA yn eiriolwr dros y bobl hynny sydd â phrinder gallu, nad oes unrhyw un yn hygyrch iddynt 'y byddai'n briodol ymgynghori â nhw'. Mae'r eiriolaeth y mae IMCA yn ei darparu ar gyfer y bobl hynny sydd ag ychydig neu heb rwydwaith o gefnogaeth, megis teulu agos neu ffrindiau sy'n ymddiddori yn eu lles neu nad oes unrhyw un sy'n barod neu'n gallu ymgynghori'n ffurfiol â nhw mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

10.10 Gall y rhai a fyddai'n briodol ymgynghori â nhw gynnwys, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos, unrhyw un:

- sy'n cymryd rhan yn y gwaith o ofalu amdanynt, neu'n
- ymddiddori yn eu lles (gweler pennod XX).

10.11 Mae'n rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad bennu a yw'n briodol ymgynghori â'r bobl hyn mewn perthynas â'r penderfyniad penodol y mae angen ei wneud. Os nad yw'n briodol ymgynghori ag unrhyw un, dylid cyfarwyddo IMCA.

10.12 Efallai y bydd sefyllfaoedd lle mae gan unigolyn sydd â phrinder gallu deulu neu ffrindiau, ond nid yw'n briodol ymgynghori â nhw. Er enghraifft, gall aelod o'r teulu wrthod unrhyw un i ymgynghori ag ef, neu os nad oes ganddynt berthynas gadarnhaol a byddai'r ymgynghoriad yn arwain at ddirywiad pellach yn y berthynas honno.

Beth yw rôl IMCA mewn penderfyniadau ynghylch triniaeth feddygol ddifrifol neu lety (adrannau 37 i 39 yr MCA)?

10.13 Mae'n rhaid i'r gwneuthurwyr penderfyniad ystyried y wybodaeth y mae'r IMCA yn ei darparu pryd bynnag y maent yn pennu'r hyn sydd er y budd gorau i'r unigolyn. I gael mwy o wybodaeth am bwy yw'r gwneuthurwr penderfyniad, gweler pennod XX.

10.14 At ddibenion adrannau 37 i 39, mae IMCA yn gwneud y canlynol:

- mae'n rhaid iddo gadarnhau bod gan yr unigolyn sy'n eu cyfarwyddo yr awdurdod i wneud hynny

- pennu sut i gynrychioli a chefnogi'r unigolyn orau
- nodi'r gefnogaeth a ddarperir i'r unigolyn fel y gallant gymryd rhan mor llawn â phosibl mewn unrhyw benderfyniad perthnasol
- dylai gyfweld yr unigolyn, i'r graddau ei bod yn ymarferol ac yn briodol gwneud hynny
- gall gyfweld yr unigolyn yn breifat
- mae'n rhaid iddo weithredu yn unol ag egwyddorion y Ddeddf (fel y nodir yn adran 1 y Ddeddf a phennod XX y Cod) ac ystyried canllawiau perthnasol yn y Cod
- mae'n rhaid canfod maint y gefnogaeth y mae'r unigolyn wedi'i derbyn i'w helpu i gymryd rhan wrth wneud unrhyw benderfyniad ynghylch y mater o dan sylw
- dylent fodloni eu hunain bod asesiad ar alluedd wedi'i gynnal a bod y rhesymau dros y canlyniad wedi'u cofnodi'n glir
- gall herio canlyniad asesiad ar alluedd os bydd angen
- gall archwilio a chymryd copiâu o unrhyw gofnod iechyd, gwasanaethau cymdeithasol neu gofnod arall sydd gan y darparwr y mae'r unigolyn sy'n meddu ar y cofnod yn ei ystyried yn berthnasol i ymchwiliad yr IMCA
- canfod beth fyddai dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn debygol o fod, a'r credoau a'r gwerthoedd a fyddai'n dylanwadu ar yr unigolyn pe bai ganddo neu ganddi'r gallu perthnasol
- mae'n rhaid ymgynghori â'r gweithwyr proffesiynol a'r gweithwyr cyflogedig sy'n darparu gofal neu driniaeth i'r unigolyn sydd â phrinder gallu perthnasol, fel y bo'n ymarferol ac yn briodol
- mae'n rhaid ymgynghori ag unrhyw un arall a all roi gwybodaeth am ddymuniadau a theimladau, credoau neu werthoedd yr unigolyn sydd â phrinder gallu perthnasol, fel y bo'n ymarferol ac yn briodol
- mae'n rhaid cymryd pob cam ymarferol i gael unrhyw wybodaeth arall y maent yn ei hystyried yn angenrheidiol
- mae'n rhaid canfod pa opsiynau amgen sydd ar gael
- mae'n rhaid, mewn achosion perthnasol, ystyried a fyddai cael barn feddygol arall o fudd i'r unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol
- dylid cyfleu eu canfyddiadau wrth fynychu, cynrychioli a chefnogi'r unigolyn mewn cyfarfod budd gorau ynghylch y penderfyniad sydd angen ei wneud,
- mae'n rhaid iddynt baratoi adroddiad manwl ynghylch eu canfyddiadau, ar ran yr unigolyn, ar gyfer yr awdurdod lleol neu gorff y GIG a'u cyfarwyddodd.

10.15 Cyn belled ag y gellir canfod yn rhesymol, mae'n rhaid i'r gwneuthurwyr penderfyniad ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn y gorffennol a'r presennol. Dylai'r IMCA ddarparu cymaint o wybodaeth ag sy'n briodol i'r gwneuthurwr penderfyniad ynghylch dymuniadau a theimladau'r unigolyn. Gall yr adroddiad a roddant i'r awdurdod lleol neu gorff y GIG gynnwys cwestiynau am y weithred a gynigir neu gall gynnwys dewisiadau amgen a awgrymir.

10.16 Rhan bwysig o rôl yr IMCA yw cyfathrebu eu canfyddiadau. Dylai gwneuthurwyr penderfyniad gadarnhau'r ffordd fwyaf effeithiol i'w galluogi i wneud hyn. Mae angen ymateb cyflym iawn gan IMCA ar gyfer rhai penderfyniadau, bydd eraill yn caniatáu mwy o amser. Dylai'r IMCA ofyn am ohirio'r penderfyniad os byddant yn teimlo bod angen mwy o amser arnynt a'i bod yn rhesymol gohirio'r penderfyniad.

Senario: Mae IMCA yn herio asesiad ar alluedd

Mae gan Mr Q awtistiaeth ac mae wedi byw gyda chefnogaeth mewn tŷ am yr 20 mlynedd diwethaf. Mae'r tŷ'n cael ei werthu, ac mae'n rhaid i Mr Q symud. Mae'n osgoi siarad â phobl nad yw'n eu hadnabod. Pan fydd y gweithiwr cymdeithasol yn ymweld i drafod opsiynau, nid yw Mr Q yn ymgysylltu.

Ar ôl sawl ymweliad, daw'r gweithiwr cymdeithasol i'r casgliad nad oes gan Mr Q y gallu i benderfynu ble i fyw ac mae'n paratoi trefnu symud i uned annibynnol newydd ar gyfer dynion awtistig 10 milltir i ffwrdd. Mae'r IMCA yn cwrdd ag un o weithwyr cymorth Mr Q sy'n disgrifio i'r IMCA sut mae Mr Q yn mynegi ei hoff bethau a'i hoffterau, a ble a sut mae'n dangos ei fod yn teimlo'n ddiogel. Trwy'r gweithiwr cymorth mae Mr Q yn cyfleu ei ddymuniad i fyw gydag un neu ddau o bobl yn unig yng nghefn gwlad.

Mae'r IMCA yn amlinellu'r gwahanol ffyrdd y mae Mr Q yn cyfleu teimladau o ddiogelwch a hapusrwydd, trwy gyffwrdd, cyswllt llygad, distawrwydd ac ynysu yn ei ystafell a siarad. Mae'n nodi yn ei hadroddiad, gan gyfeirio at y meini prawf ar gyfer asesu gallu, sut mae Mr Q yn dangos ei allu i ddeall, defnyddio, ystyried a chadw gwybodaeth a chyfathrebu. Mae hi'n tynnu sylw bod angen cefnogaeth arno ond efallai y bydd ganddo'r gallu i benderfynu ar ei lety nesaf.

Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn gofyn am asesiad ar alluedd gan therapydd galwedigaethol sy'n arbenigo mewn anghenion synhwyrdd. Y casgliad yw bod gan Mr Q y gallu i benderfynu ble mae'n byw os bydd yn derbyn y gefnogaeth briodol i wneud hyn.

Cynrychioli a chefnogi'r person sydd â phrinder gallu perthnasol o dan adrannau 37 i 39 yr MCA

10.17 Mae'n rhaid i IMCA ystyried y canllawiau ym mhennod XX.

- Mae'n rhaid i IMCA gadarnhau i ba raddau y mae'r gwneuthurwr penderfyniad wedi rhoi pob cefnogaeth ymarferol a phriodol i helpu'r unigolyn i gymryd rhan wrth wneud unrhyw benderfyniad am y mater o dan sylw. Os oes gan yr unigolyn anawsterau cyfathrebu, dylai'r IMCA hefyd ganfod a yw'r gwneuthurwr

penderfyniad wedi cael unrhyw gymorth arbenigol a allai fod yn berthnasol (er enghraifft, gan therapydd lleferydd ac iaith).

- Weithiau gall IMCA ddod o hyd i wybodaeth i awgrymu y gallai unigolyn adennill y gallu perthnasol yn y dyfodol, naill ai fel y gallant wneud y penderfyniad eu hun neu fod â rhan yn y broses o wneud penderfyniad. Mewn sefyllfa o'r fath, dylai'r IMCA ystyried a yw'n briodol gofyn i'r gwneuthurwr penderfyniad ohirio'r penderfyniad.
- Dylai'r IMCA gael cymaint o wybodaeth â phosibl am y mater a rhaid iddo werthuso beth fyddai dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn debygol o fod, a'r credoau a'r gwerthoedd a fyddai'n debygol o ddylanwadu ar yr unigolyn pe bai ganddo'r gallu perthnasol. Mae hyn yn cynnwys crefydd yr unigolyn ac unrhyw ffactorau diwylliannol a allai ddylanwadu ar y penderfyniad.

10.18 Weithiau ni fydd gan gorff y GIG na'r awdurdod lleol amser i gyfarwyddo IMCA (er enghraifft os yw penderfyniad yn un brys). Os yw hyn yn wir, dylai corff y GIG neu'r awdurdod lleol gofnodi'r penderfyniad gyda'r rhesymau pam na chyfarwyddwyd IMCA. Pan fo'r penderfyniad yn ymwneud â symud llety, dylai corff y GIG neu'r awdurdod lleol benodi IMCA cyn gynted â phosibl wedi hynny. Weithiau ni fydd gan yr IMCA amser i gynnal ymchwiliadau hir. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae'n rhaid i'r IMCA lunio barn am yr hyn y gallant ei gyflawni yn yr amser sydd ar gael i gynrychioli a chefnogi'r unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol.

10.19 Weithiau efallai na fydd IMCA yn gallu canfod darlun clir o beth fyddai dymuniadau a theimladau'r unigolyn, a'i gredoau a'i werthoedd, pe bai ganddynt y gallu perthnasol. Dylai'r IMCA barhau i geisio sicrhau bod y gwneuthurwr penderfyniad yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol trwy:

- godi materion a chwestiynau perthnasol, a
- darparu gwybodaeth ychwanegol a pherthnasol i helpu i wneud y penderfyniad terfynol.

Canfod a gwerthuso gwybodaeth

10.20 Mae adran 35(6) yn rhoi pwerau penodol i IMCA i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y pŵer i gynnal cyfweiliad yn breifat gyda'r unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol, a'r
- pŵer i archwilio a chymryd copïau o unrhyw gofnod iechyd neu gofnod gwasanaethau cymdeithasol perthnasol neu gofnod arall sydd gan y darparwr a allai fod yn berthnasol i ymchwiliad yr IMCA

10.21 Mae'n rhaid i'r IMCA hefyd ymgynghori, cyn belled ag y bo'n ymarferol ac yn briodol gwneud hynny, â gweithwyr proffesiynol neu ofalwyr cyflogedig sy'n darparu gofal neu driniaeth i'r unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol. Gall y bobl hyn helpu i

asesu'r wybodaeth mewn cofnodion achos neu ffynonellau eraill. Gallant hefyd wneud sylwadau ar gamau gweithredu amgen posibl. Yn y pen draw, cyfrifoldeb y gwneuthurwr penderfyniad yw penderfynu a yw'r camau gweithredu a gynigir er y budd pennaf i'r unigolyn. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwneuthurwr penderfyniad ystyried yr adroddiadau a wnaed a'r wybodaeth a roddwyd gan yr IMCA. Yn y rhan fwyaf o achosion dylid gwneud penderfyniad ar fudd pennaf yr unigolyn yn dilyn trafodaeth sy'n cynnwys yr holl bobl berthnasol, gan gynnwys y rhai sy'n darparu gofal neu driniaeth, yn ogystal â'r IMCA.

Canfod dymuniadau a theimladau, credoau a gwerthoedd yr unigolyn

- 10.22 Mae'n rhaid i'r IMCA geisio canfod beth allai dymuniadau a theimladau'r unigolyn fod, a'r credoau a'r gwerthoedd a fyddai'n debygol o ddylanwadu ar yr unigolyn pe bai ganddynt y gallu perthnasol. Dylai'r IMCA geisio cyfathrebu ar lafar ac mewn dull dieiriau gyda'r unigolyn, fel sy'n briodol. Er enghraifft, gallai hyn olygu defnyddio lluniau neu ffotograffau. Ond bydd achosion lle na all yr unigolyn gyfathrebu o gwbl. Efallai y bydd yr IMCA hefyd yn siarad â gweithwyr proffesiynol eraill neu ofalwyr cyflogedig sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gofal neu driniaeth gyfredol neu yn y gorffennol er mwyn canfod dymuniadau a theimladau a chredoau a gwerthoedd yr unigolyn. Dylai'r IMCA hefyd archwilio unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig o ddewisiadau y gallai'r unigolyn fod wedi'u gwneud yn y gorffennol, tra bod y gallu ganddynt i wneud hynny.
- 10.23 I'r graddau ei bod yn ymarferol ac yn briodol, mae'n rhaid i'r IMCA hefyd archwilio cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol sy'n berthnasol i'r unigolyn.
- 10.24 Mae pennod XX yn cynnwys canllawiau pellach ynghylch canfod barn pobl sydd â phrinder gallu. Mae pennod XX yn cynnwys canllawiau pellach ar helpu rhywun i wneud eu penderfyniad eu hun.

Ystyried camau gweithredu amgen

- 10.25 Mae'n rhaid i'r IMCA wirio pa gamau gweithredu amgen sydd ar gael a dylai archwilio a yw'r gwneuthurwr penderfyniad wedi ystyried yr holl opsiynau posibl. Dylent hefyd ofyn a oes opsiwn a gynigir sy'n llai cyfyngol ar hawliau a rhyddid gweithredu unigolyn (pennod XX, egwyddor 5).
- 10.26 Efallai yr hoffai'r IMCA drafod opsiynau posibl gyda gweithwyr proffesiynol eraill neu ofalwyr cyflogedig sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gofal neu driniaeth i'r unigolyn. Ond mae'n rhaid iddynt barchu cyfrinachedd yr unigolyn maent yn ei gynrychioli.

Cael ail farn feddygol

- 10.27 Ar gyfer penderfyniadau ynghylch triniaeth feddygol ddifrifol, mae'n rhaid i'r IMCA ystyried a fyddai'r unigolyn yn elwa o ail farn feddygol, er enghraifft gan feddyg ag

arbenigedd priodol. Mae hyn yn helpu i roi'r unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol mewn sefyllfa gyfatebol i unigolyn sydd â'r gallu perthnasol, ac sy'n gallu gofyn am ail farn.

Senario: Rôl yr IMCA wrth gyfathrebu â'r unigolyn a'u cynorthwyo i fod yn rhan o benderfyniad

Mae Mr F yn byw gyda'i fodryb ac wedi mynegi'r awydd i fyw'n annibynnol, gan barhau i gael gofal proffesiynol 24 awr.

Mae natur nam Mr F o ganlyniad i anaf i'w ymennydd, ochr yn ochr â'i brofiad cyfyngedig o gael ei alluogi i wneud ei benderfyniadau ei hun, yn golygu ei fod yn bryderus iawn yn mynegi ei farn yn uniongyrchol, oherwydd pryder ynghylch cynhyrfu ei fodryb. Mae Mr F hefyd yn cael ei lethu mewn cyfarfodydd, gan deimlo ei fod yn cyffroi gormod a bod ofn arno. Felly ni all gymryd rhan yn llawn, gan dynnu ei ddymuniadau a fynegwyd yn ôl yn aml a nodi nad yw'n 'gwybod' beth y mae ei eisiau pan ofynnir iddo'n uniongyrchol.

Mae IMCA yn dechrau ymweld ag ef ar ei ben ei hun bob wythnos, i baratoi ar gyfer cyfarfod budd pennaf i drafod yr opsiynau ar gyfer ei lety. Mae Mr F yn cymharu'r opsiynau o ran yr hyn yr hoffai ynglŷn â byw ar ei ben ei hun o gymharu â byw gyda'i fodryb. Maent yn treulio amser yn creu tabl sy'n cynnwys ei farn, ei ddymuniadau i gadw cysylltiad â'i fodryb a'i hoffter am gyfleoedd newydd. Cytunir na fydd Mr F yn mynychu'r cyfarfodydd ffurfiol ac un unigolyn yn unig fydd yn rhoi adborth o'r canlyniad iddo, er mwyn peidio â'i lethu â manylion, ond yn hytrach trafod y cam nesaf.

Mae'r dull hwn yn caniatáu i'r cymhlethdod o gymryd y camau nesaf hynny (dod o hyd i eiddo, cynllunio ar gyfer newidiadau mewn trefniadau byw a'r ffordd y gall y ddarpariaeth ofal newid) ddigwydd. Mae'r IMCA yn sicrhau bod Mr F yn cymryd rhan yn y penderfyniad, yn sicrhau bod ei lais yn cael ei glywed ac yn caniatáu iddo gael ei gynrychioli heb fod yn rhaid iddo fynychu'r cyfarfod.

Pa benderfyniadau sy'n gofyn am IMCA o dan adrannau 37 i 39 yr MCA?

10.28 Mae dau fath o benderfyniad sy'n ei gwneud yn ofynnol i IMCA gael ei gyfarwyddo. Y rhain yw:

- penderfyniadau ynghylch triniaeth feddygol ddifrifol
- penderfyniadau ynghylch darparu llety neu newidiadau mewn llety

Penderfyniadau ynghylch triniaeth feddygol ddifrifol

10.29 Pan gynigir penderfyniad triniaeth feddygol ddifrifol, mae adran 37 y Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar gorff y GIG i gyfarwyddo IMCA os:

- nad oes gan yr unigolyn o dan sylw y gallu i wneud penderfyniad am y driniaeth, ac
- nad oes unrhyw un priodol i ymgynghori ag ef ynghylch a yw'r penderfyniad er y budd pennaf i'r unigolyn, ac eithrio staff gofal cyflogedig.

10.30 Mae rheoliadau yng Nghymru a Lloegr yn diffinio 'triniaeth feddygol ddifrifol' fel triniaeth sy'n cynnwys darparu, tynnu'n ôl neu atal triniaeth:

- os cynigir triniaeth sengl, mae cydbwysedd cynnil rhwng y buddion tebygol i'r claf a'r beichiau a'r risgiau i'r claf, neu
- mae gan benderfyniad rhwng dewis o driniaethau gydbwysedd cynnil, neu
- mae'r hyn a gynigir yn debygol o arwain at ganlyniadau difrifol i'r claf.

10.31 'Canlyniadau difrifol' yw'r rhai sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar y claf y mae'r penderfyniad budd pennaf yn cael ei wneud ar ei gyfer, naill ai o effeithiau'r driniaeth ei hun neu'i goblygiadau ehangach. Gall hyn gynnwys triniaethau sydd yn:

- achosi poen, trallod neu sgîl-effeithiau difrifol ac estynedig
- arwain at ganlyniadau difrifol o bosibl i'r claf (er enghraifft, rhoi terfyn ar driniaeth cynnal bywyd neu gael llawdriniaeth fawr megis llawfeddygaeth y galon), neu
- gael effaith ddifrifol ar ddewisiadau bywyd y claf yn y dyfodol (er enghraifft, ymyriadau ar gyfer cancer yr ofari).

10.32 Mae'n amhosibl nodi pob math o driniaethau sy'n debygol o arwain at ganlyniadau difrifol i'r claf, ac mewn llawer o achosion gall yr un driniaeth gael neu beidio â chael canlyniadau difrifol o bosibl gan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos. Dylai'r IMCA hefyd ystyried y buddion, y beichiau a'r risgiau i'r unigolyn o ganlyniad i'r driniaeth ac os ydynt yn gytbwys iawn gellir eu hystyried felly fel triniaeth feddygol ddifrifol.

10.33 Mae'r canlynol yn enghreifftiau o rai triniaethau a fydd yn arwain at ganlyniadau difrifol yn y rhan fwyaf o achosion:

- cemotherapi a llawfeddygaeth ar gyfer cancer
- therapi electrogynhyrfol
- sterileiddio therapiwtig:
- llawfeddygaeth fawr (megis llawdriniaeth ar y galon neu lawdriniaeth ymennydd/niwro-lawdriniaeth)
- trylliadau mawr (er enghraifft, colli braich neu goes)
- triniaethau a fydd yn arwain at golli clyw neu olwg yn barhaol

- atal neu stopio maeth a hydradiad artiffisial â chymorth clinigol
- terfynu beichiogrwydd

Senario: IMCA a thriniaeth feddygol ddifrifol

Mae Mr N yn cael ei fwrw oddi ar ei feic modur ac mae'n cael ei dderbyn i'r Uned Therapi Dwys mewn cyflwr lled-ymwybodol gydag anaf difrifol i'w ymennydd. O'i asesu, mae ei dîm clinigol yn credu mai ychydig iawn o siawns sydd ganddo y bydd ei gyflwr yn gwella'n sylweddol. Gan nad oes gan Mr N y gallu i fynegi'i hun neu wneud penderfyniad, a heb deulu agos, mae Ymddiriedolaeth y GIG yn cyfarwyddo IMCA ynghylch penderfyniad budd pennaf am ei driniaeth.

Dywed ffrindiau Mr N eu bod yn credu na fyddai am dderbyn maeth a hydradiad artiffisial clinigol (CANH) trwy borthiant PEG (gastrostomi endosgopig trwy'r croen) ac y byddai am i'r driniaeth gael ei hatal. Mae ei bartner busnes yn nodi y dylid 'rhoi cyfle' iddo, gan gredu na fyddai atal CANH yn foesebol, ond dywed na fyddai Mr N yn dymuno cael triniaeth barhaus pe bai'n golygu bod angen gofal 24 awr arno.

Mae'r IMCA yn cyflwyno ei chasgliadau i'r gwneuthurwr penderfyniad, ymgynghorydd niwro-adferiad. Mae dymuniadau a datganiadau Mr N yn y gorffennol yn glir o'r dystiolaeth, sef na fyddai'n dymuno cael triniaeth barhaus mewn sefyllfa o'r fath. Mae adroddiad yr IMCA hefyd yn cynnwys cyfeiriad at gyfraith achos sy'n amlinellu'r pwysigrwydd sydd i'w roi i ddymuniadau P. Mae hi'n tynnu sylw at ganllawiau'r BMA ar sut i fwrw ymlaen â phenderfyniadau ynghylch atal CANH yn ogystal â chanllawiau gan Goleg Brenhinol y Meddygon. Mae hefyd yn tynnu sylw at yr angen i fod yn ofalus wrth ystyried moeseg pobl eraill pan fyddant mewn cyferbyniad uniongyrchol â rhai Mr N.

Gwneir penderfyniad budd pennaf, gan ystyried adroddiad yr IMCA, cyfarwyddiadau niwro-adferiad annibynnol, a chyngor gofal lliniarol. Mae pawb sy'n ymwneud â gofal Mr N yn cytuno nad yw parhau gyda CNAH er ei fudd pennaf, felly nid oes angen cynnwys y llys.

Trosglwyddir Mr N i hosbis lle mae'r driniaeth yn cael ei hatal.

10.34 Dylid nodi y byddai'r llys, mewn llawer o'r achosion hyn, yn gwneud y penderfyniad er y budd pennaf (gweler pennod XX). Dylai sefydliadau barhau i gyfarwyddo IMCA yn yr achosion hyn. Gall IMCA neu'r Cyfreithiwr Swyddogol weithredu fel cyfaill cyfreitha i'r unigolyn os ydynt hefyd â phrinder gallu i gynnal unrhyw gyfreitha mewn perthynas â'r driniaeth a gynigir.

10.35 Yr unig sefyllfa lle nad oes angen dilyn y ddyletswydd i gyfarwyddo IMCA yw pan fydd angen darparu'r driniaeth ar frys (er enghraifft, er mwyn achub bywyd yr unigolyn). Dylai'r penderfyniad hwn gael ei gofnodi gyda'r rheswm dros beidio â

chyfeirio. Fodd bynnag, bydd angen i gyrrff y GIG gyfarwyddo IMCA o hyd ar gyfer unrhyw driniaeth feddygol ddifrifol sy'n dilyn y driniaeth frys.

- 10.36 Tra bydd y gwneuthurwr penderfyniad yn aros am adroddiad yr IMCA ynghylch y driniaeth feddygol ddifrifol a gynigir, mae'n rhaid iddynt barhau i weithredu er y budd pennaf i'r unigolyn ar gyfer gweithredoedd a phenderfyniadau eraill (er enghraifft, i roi triniaeth sy'n atal cyflwr yr unigolyn rhag gwaethygu ond nad yw'n driniaeth feddygol ddifrifol).

Senario: Defnyddio IMCA ar gyfer triniaeth barhaus

Cafodd Mr J gwmp a dioddef anafiadau difrifol i'w ben. Aed ag ef i'r ysbyty mewn cyflwr lled-ymwybodol. Roedd angen llawdriniaeth frys ar Mr J ac roedd ganddo brinder gallu ar y pryd i gydsynio i hyn. Er na allai staff yr ysbyty olrhain unrhyw deulu neu ffrindiau, ni oeddent wedi cynnwys IMCA yn y penderfyniad i weithredu, oherwydd bod angen cyflawni'r llawdriniaeth ar frys.

Ar ôl y llawdriniaeth roedd Mr J yn ymwybodol ac asesodd yr ysbyty ef fel un oedd yn parhau i fod â phrinder gallu i gydsynio i driniaeth feddygol bellach. Ar y pwynt hwn penododd yr ysbyty IMCA ar gyfer Mr J.

Cyfarfu'r IMCA â Mr J a llwyddodd i ganfod ei ddymuniadau a'i deimladau ynghylch triniaeth. Edrychodd yr IMCA hefyd ar nodiadau achos Mr J ac adolygodd yr opsiynau ar gyfer triniaeth gyda'r ymgynghorydd. Ystyriodd yr ymgynghorydd adroddiad yr IMCA wrth wneud penderfyniad ynghylch budd pennaf Mr Jones o ran y camau nesaf ar gyfer triniaeth.

- 10.37 Os yw claf yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983, ond bod angen penderfyniad am driniaeth feddygol ddifrifol, ni all cyrrff y GIG gyfarwyddo IMCA os:

- bydd y driniaeth ar gyfer anhwylder meddwl, ac
- fe'i rheolir gan Ran 4 neu 4A yr MHA

Yn yr achosion hyn, bydd y claf yn gymwys i gael gwasanaethau IMHA. Gweler Cod Ymarfer yr MHA perthnasol yng Nghymru neu Loegr i gael canllawiau pellach.

- 10.38 Os nad yw'r driniaeth feddygol ddifrifol a gynigir ar gyfer y claf sy'n cael ei gadw yn cael ei rheoleiddio gan y Ddeddf Iechyd Meddwl, yna mae gan y claf hawl i IMCA - os byddant yn bodloni gofynion y Ddeddf Galluedd Meddwl. Er enghraifft, fel rheol dylai claf sy'n cael ei gadw sydd â phrinder gallu i gydsynio i gemotherapi fod yn gymwys i gael IMCA fel arfer os nad oes teulu na ffrindiau y byddai'n briodol ymgynghori â nhw.

Penderfyniadau ynghylch darparu llety neu newid llety

10.39 Mae'r Ddeddf Galluedd Meddwl yn gosod dyletswyddau tebyg ar gyrff y GIG ac awdurdodau lleol sy'n cynnig trefniadau sy'n ymwneud â llety hirdymor neu newidiadau mewn llety o'r fath. Mae'r dyletswyddau hyn yn berthnasol pan fydd unigolyn yn cael ei symud i ysbyty, cartref gofal, neu unrhyw lety preswyl arall a ddarperir o dan:

- Ddeddf GIG 2006 neu Ddeddf GIG (Cymru) 2006
- Deddf Gofal 2014
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu
- Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983

10.40 Mae'r ddyletswydd i gyfarwyddo IMCA hefyd yn berthnasol pan fydd corff y GIG yn cynnig gwneud trefniadau:

- ar gyfer darparu llety ysbyty - neu symud yr unigolyn i ysbyty arall - am fwy na 28 niwrnod, neu
- ar gyfer darparu llety cartref gofal - neu eu symud i gartref gofal gwahanol - am yr hyn sy'n debygol o fod yn hwy nag wyth wythnos.
- Os yw'r llety am lai na 28 niwrnod mewn ysbyty neu lai nag 8 wythnos mewn cartref gofal, yna nid oes angen penodi IMCA.

10.41 Mae'r ddyletswydd hefyd yn berthnasol os yw awdurdod lleol yn cynnig gwneud trefniadau:

- ar gyfer darparu cartref gofal neu lety preswyl, sy'n debygol o fod yn hwy nag wyth wythnos, neu
- newid cartref gofal neu lety preswyl yr unigolyn am gyfnod sy'n debygol o fod yn hwy nag wyth wythnos.

10.42 Weithiau bydd y cyfnod yn y llety a ddarperir yn hwy na'r disgwyl. Dylai'r corff cyfrifol gynnwys IMCA cyn gynted ag y byddant yn cynnig y bydd yr arhosiad yn hwy na 28 niwrnod neu wyth wythnos (fel y bo'n berthnasol).

10.43 Nid yw'r ddyletswydd i benodi IMCA yn berthnasol os oes angen gwneud y trefniadau ar frys (er enghraifft, derbyniad brys i'r ysbyty neu fel ymateb i'r tebygolrwydd o fod yn ddigartref). Mae'n rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad gynnwys IMCA cyn gynted â phosibl ar ôl gwneud penderfyniad brys, os:

- bydd yr unigolyn yn debygol o aros yn yr ysbyty am fwy na 28 niwrnod, neu
- byddant yn aros mewn llety arall am fwy nag wyth wythnos.

10.44 Nid yw'r ddyletswydd i benodi IMCA yn berthnasol os yw'r unigolyn o dan sylw yn mynd i gael ei letya o ganlyniad i rwymedigaeth a osodwyd arnynt o dan Ddeddf

Iechyd Meddwl 1983. Gall hyn ddigwydd yn yr ysbyty neu yn y gymuned, er enghraifft o dan Orchymyn Triniaeth Gymunedol neu warcheidwaeth. Fodd bynnag, os yw unigolyn o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ond heb fod yn ddarostyngedig i rwymedigaeth o'r fath, gallai'r ddyletswydd i gyfarwyddo IMCA fod yn berthnasol (os byddant yn bodloni'r amodau arferol a nodir yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol).

Senario: Penderfyniad ynghylch llety

Mae gan Ms L awtistiaeth a hanes o broblemau iechyd meddwl ac mae wedi byw mewn cartref preswyl ers sawl blwyddyn. Mae ei chartref yn mynd i gau.

Mae Ms L yn dod yn bryderus iawn ynghylch hyn ond mae'n cael ei hasesu fel bod ganddi brinder gallu i wneud penderfyniad am ei llety yn y dyfodol. Felly mae angen penderfyniad budd pennaf.

Gan nad oes gan Ms L ffrindiau na theulu i'w chynrychioli na'i chefnogi, mae'r awdurdod lleol yn cyfarwyddo IMCA i eirioli drosti. Mae'r IMCA yn ymweld â Ms L ac yn siarad â hi am ei phryderon a'i dymuniadau ar gyfer ei chartref nesaf. Dywed Ms L ei bod yn poeni'n arbennig y bydd ei chartref nesaf yn swnllyd iawn fel oedd ei llety blaenorol. Mae hi hefyd yn poeni am y posibilrwydd o gael ei gwahanu oddi wrth breswlydd arall yn y cartref y mae'n agos ato. Mae'r IMCA yn dangos lluniau i Ms L o rai cartrefi posibl sydd ar gael ac yn eu trafod gyda hi. Mae'n trefnu ymweliadau â nhw ac yn nodi pa rai mae Ms L yn eu hoffi.

Mae'r IMCA hefyd yn siarad â staff sydd wedi bod yn gysylltiedig â gofal Ms L ac yn adolygu ei nodiadau achos cyn ysgrifennu adroddiad.

Cynhelir cyfarfod budd pennaf o weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â gofal Ms L i drafod lle gallai Ms L fyw o'r opsiynau sydd ar gael. Mae'r IMCA yn cyflwyno barn Ms L am y math o le y mae Ms L eisiau byw ynddo, y cartref penodol oedd yn well gan Ms L a pham, ynghyd â'i dymuniad i aros gyda'i ffrind os yn bosibl. Mae'r IMCA yn nodi y gallai Ms L a'i ffrind symud gyda'i gilydd os yw hefyd er budd y preswlydd arall a bod lleoedd ar gael. Mae'r IMCA hefyd yn cynghori, os nad yw'n bosibl cydfyw, y dylid hwyluso ymweliadau ar gyfer Ms L a'i ffrind, os yw er budd pennaf y ddwy. Byddai hyn yn helpu i leddfu pryderon Ms L a bod yn gyson â'i dymuniadau a'i theimladau.

Mae'r awdurdod lleol yn penderfynu y byddai er y budd pennaf i Ms L symud i'r cartref newydd oedd yn well ganddi.

A yw IMCA ar gael i bobl mewn carchardai?

10.45 Mae'n rhaid penodi IMCA ar gyfer pobl sydd yn y carchar os yw meini prawf eraill yn cael eu bodloni (gweler paragraff xx uchod), gan gynnwys bod prinder gallu ganddynt i wneud penderfyniadau am driniaeth feddygol ddifrifol.

Sut y cyfarwyddir IMCA ynghylch penderfyniadau am driniaeth feddygol ddifrifol neu lety (adran 37-39 yr MCA)?

10.46 Mae awdurdodau lleol neu sefydliadau'r GIG yn gyfrifol am gyfarwyddo IMCA i gynrychioli a chefnogi unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol o dan adrannau 37 i 39.

10.47 Ar gyfer penderfyniadau ynghylch triniaeth feddygol ddifrifol, lle mae'r unigolyn yn derbyn triniaeth y GIG, bydd yr IMCA yn cael ei gyfarwyddo gan gorff y GIG sy'n cynnig darparu neu sicrhau'r driniaeth honno. Ond os yw'r unigolyn mewn ysbyty sector annibynnol neu wirfoddol a bod triniaeth feddygol ddifrifol yn cael ei chynnig gan y GIG, bydd yr IMCA yn cael ei gyfarwyddo gan gorff y GIG sydd wedi sicrhau'r driniaeth honno, er enghraifft trwy ei threfnu, ei rhoi ar waith a'i hariannu. Dylai fod gan gorff y GIG drefniadau ar waith gyda'r ysbyty sector annibynnol neu wirfoddol i sicrhau bod IMCA yn cael ei benodi'n brydlon wrth sicrhau triniaeth gan y gwasanaethau hyn.

10.48 Ar gyfer penderfyniadau ynghylch derbyn i ysbyty am 28 niwrnod neu fwy, bydd yr IMCA yn cael ei gyfarwyddo gan gorff y GIG sy'n gwneud y trefniadau. Mae'n rhaid bod gan yr ysbyty annibynnol neu wirfoddol drefniadau ar waith gyda chorff y GIG i sicrhau y gellir penodi IMCA yn ddi-oed mewn achosion perthnasol. Os bydd y trefniadau'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid gall yr un IMCA hefyd gynrychioli a chefnogi'r unigolyn ar gyfer proses yr LPS, os byddant wedi derbyn yr hyfforddiant gofynnol.

10.49 Ar gyfer penderfyniadau ynghylch symud i lety hirdymor⁹⁸ (am wyth wythnos neu hwy), neu ynghylch newid llety, bydd yr IMCA yn cael ei gyfarwyddo naill ai gan gorff y GIG neu'r awdurdod lleol sy'n cynnig gwneud y trefniadau.

10.50 Weithiau bydd sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd ynglŷn â symud unigolyn i lety hirdymor. Yn yr achosion hyn, fel rheol y sefydliad sydd â chyfrifoldeb am gyfarwyddo'r IMCA sy'n gyfrifol yn y pen draw am y trefniadau llety o dan sylw.

⁹⁸ Gall hyn fod yn llety mewn cartref gofal, cartref nyrsio, cartref cyffredin a chartref gwarchod, cymdeithas dai neu'n dai cymdeithasol cofrestredig arall neu mewn tai sector preifata ddarperir gan awdurdod lleol neu mewn llety hostel.

10.51 Pan fydd awdurdod lleol neu gorff y GIG yn penderfynu defnyddio eu pŵer i gymhwyso rôl yr IMCA i adolygu'r trefniadau llety, y corff hwnnw fydd y sefydliad priodol i gyfarwyddo'r IMCA.

10.52 Rhoddir mwy o fanylion am benodi IMCA i weithredu o dan LPS ym mharagraffau XX i XX.

Beth yw dyletswyddau'r sefydliad sy'n cyfarwyddo'r IMCA o dan adran 37-39?

10.53 Mae'n

- *rhaid* i'r sefydliad, neu'r gwneuthurwr penderfyniad ar ran y sefydliad gyfarwyddo IMCA i gefnogi a chynrychioli unigolyn yn y sefyllfaoedd a nodir ym mharagraffau xx.
- *Gall* y sefydliad, neu'r gwneuthurwr penderfyniad ar ran y sefydliad benderfynu cyfarwyddo IMCA mewn sefyllfaoedd a ddisgrifir ym mharagraffau xx.
- Mae'n *rhaid* i'r sefydliad, neu'r gwneuthurwr penderfyniad ar ran y sefydliad, ym mhob amgylchiad pan gyfarwyddir IMCA, ystyried y wybodaeth y mae'r IMCA yn ei darparu wrth asesu a yw'r penderfyniad penodol er y budd gorau i'r unigolyn.

10.54 Dylai'r sefydliad hefyd gael gweithdrefnau, rhaglenni hyfforddi ac ymwybyddiaeth i sicrhau bod:

- yr holl staff perthnasol yn gwybod pryd bydd angen iddynt gyfarwyddo IMCA ac yn gallu gwneud hynny'n brydlon, cyn gwneud penderfyniad
- yr holl staff perthnasol yn gwybod sut i gysylltu â gwasanaeth yr IMCA a'r weithdrefn ar gyfer cyfarwyddo IMCA
- yr holl staff perthnasol yn cofnodi cyfranogiad IMCA mewn achos ac unrhyw wybodaeth y mae'r IMCA yn ei darparu i helpu i wneud penderfyniad
- yr holl staff perthnasol yn cofnodi sut mae gwneuthurwr penderfyniad wedi ystyried adroddiad a gwybodaeth yr IMCA fel rhan o'r broses asesu budd pennaf yr unigolyn (dylai hyn gynnwys rhesymau dros anghytuno â'r cyngor hwnnw, os y bo'n berthnasol)
- yr holl staff perthnasol yn darparu mynediad at gofnodion perthnasol pan ofynnir amdanynt gan IMCA
- yr IMCA yn derbyn gwybodaeth am newidiadau a all effeithio ar rôl yr IMCA
- gwneuthurwyr penderfyniad yn hysbysu'r holl bobl berthnasol pan gyfarwyddir IMCA, a
- gwneuthurwyr penderfyniadau yn hysbysu'r IMCA ynghylch y penderfyniad a wnaed a'r rheswm drosto.

- 10.55 Weithiau gallai IMCA a staff sy'n gweithio i'r sefydliad a gyfarwyddodd yr IMCA anghytuno. Os bydd hyn yn digwydd, dylent geisio datrys yr anghytundeb trwy drafod a gwneud hynny cyn gynted â phosibl. Os na allant wneud hyn, dylent ystyried y dull ffurfiol mwyaf priodol i leisio'u pryder. Gweler mwy o wybodaeth am reoli gwrthdaro ym mhennod XX.
- 10.56 Mewn rhai sefyllfaoedd, gall yr IMCA herio penderfyniad sefydliad, neu gallant helpu rhywun i herio penderfyniad (gweler mwy o wybodaeth ym mhennod XX). Os nad oes unrhyw ffordd arall o ddatrys yr anghytundeb, gellir herio'r penderfyniad yn y Llys Gwarchod.
- 10.57 Rhoddir gwybodaeth am ddyletswyddau'r Corff Cyfrifol sy'n penodi'r IMCA o dan LPS ym mharagraffau XX i XX.

Beth fydd yn digwydd os bydd IMCA sy'n gweithredu mewn penderfyniad ynghylch triniaeth feddygol ddifrifol neu lety yn anghytuno â'r gwneuthurwr penderfyniad (adran 37 - 39 yr MCA)?

- 10.58 Rôl yr IMCA yw eirioli dros, cynrychioli a chefnogi'r unigolyn. Gallant wneud hyn trwy ofyn cwestiynau, codi materion, cynnig gwybodaeth ac ysgrifennu adroddiad. Dylent fel arfer gymryd rhan mewn cyfarfod sy'n cynnwys staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol i benderfynu beth sydd er y budd pennaf i'r unigolyn. Weithiau bydd achosion pan fydd IMCA o'r farn nad yw gwneuthurwr penderfyniad wedi rhoi digon o sylw i'w adroddiad a gwybodaeth berthnasol arall ac yn poeni'n benodol am y penderfyniad a wnaed. Yna efallai y bydd angen iddynt ystyried herio'r penderfyniad.
- 10.59 Mae gan IMCA yr un hawliau i herio penderfyniad ag unrhyw unigolyn arall sy'n gofalu am yr unigolyn neu sy'n ymddiddori yn eu lles. Mae'r hawl hon i herio yn berthnasol i unrhyw fater, gan gynnwys penderfyniadau am brinder gallu a budd pennaf unigolyn, mewn perthynas â'r penderfyniad y mae'r IMCA wedi'i gyfarwyddo i ymdrin ag ef.
- 10.60 Mae Pennod XX yn nodi sut y gellir datrys anghytundebau. Bydd y dull yn amrywio, gan ddibynnu ar y math a pha mor frys yw'r anghytundeb. Gallai fod yn ddull ffurfiol neu'n anffurfiol.
- 10.61 Cyn defnyddio dulliau ffurfiol, dylai'r IMCA a'r gwneuthurwr penderfyniad drafod y meysydd y maent yn anghytuno arnynt - yn enwedig y rhai hynny a allai gael effaith ddifrifol ar yr unigolyn y mae'r IMCA yn ei gynrychioli a'i gefnogi. Dylai'r IMCA a'r gwneuthurwr penderfyniad wneud amser i wrando ar farn ei gilydd ac i ddeall y rheswm dros y gwahaniaethau. Weithiau gall y trafodaethau hyn helpu i ddatrys anghytundeb.

- 10.62 Efallai y bydd gan wasanaeth IMCA grŵp llywio, gyda chynrychiolwyr o sefydliadau'r GIG lleol ac awdurdodau lleol. Gall y cynrychiolwyr hyn drafod rhwng dwy farn wahanol neu egluro polisi ar fater penodol.
- 10.63 Pan na ellir datrys achos, efallai y bydd angen ei gyfeirio at y Llys Gwarchod i gael penderfyniad. Gall y Llys wneud penderfyniad er y budd pennaf i'r unigolyn sydd â'r prinder gallu i wneud penderfyniadau perthnasol (gweler pennod xx). Gall IMCA ofyn am ganiatâd i atgyfeirio achos i'r Llys Gwarchod i gael penderfyniad neu bydd y Llys yn gofyn iddo weithredu fel cyfaill cyfreitha.
- 10.64 Os bydd gan IMCA bryderon nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â chydymffuriad â'r MCA, er enghraifft pryder ynghylch y gofal iechyd neu'r gofal cymdeithasol a ddarperir i'r unigolyn y maent yn ei cefnogi, gallant ddefnyddio cwynion neu weithdrefnau diogelu yn ôl yr angen - a gallant fynd ar drywydd cwyn cyn belled â'r ombwdsmon perthnasol os oes angen. Efallai y bydd angen rhoi'r penderfyniad gerbron y llys i gael adolygiad barnwrol.
- 10.65 Mae Pennod xx yn nodi gweithdrefnau ar gyfer diogelu pobl a all fod â phrinder gallu i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Pwy sy'n gyfrifol am wasanaeth yr IMCA o dan adran 37 - 39 yr MCA, ac at ddibenion yr LPS?

- 10.66 Mae gwasanaeth yr IMCA ar gael yng Nghymru a Lloegr. Mae gan y ddwy wlad reoliadau ar gyfer sefydlu a rheoli'r gwasanaeth.
- 10.67 Yn Lloegr, darperir y gwasanaeth trwy awdurdodau lleol, sy'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau'r GIG. Felly mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaeth yr IMCA ar gyfer eu hardal leol. Mae gan bob sefydliad sy'n defnyddio IMCA yn Lloegr gyfrifoldeb ariannol am yr IMCA y maent yn eu cyfarwyddo a/neu'n eu penodi, er mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y gwaith comisiynu. Dylai awdurdodau lleol a gwasanaethau'r GIG weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y trefniadau cyllido priodol ar waith pan fydd sefydliadau'r GIG yn defnyddio IMCA.
- 10.68 Yng Nghymru darperir y gwasanaeth trwy fyrddau iechyd lleol, sydd â chyfrifoldeb ariannol am y gwasanaeth ac sy'n gweithio mewn partneriaeth ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a sefydliadau eraill y GIG.
- 10.69 Mae adran 35 y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol (LHBau) i sicrhau bod digon o IMCAu ar gael i gyflawni'r swyddogaethau a nodir yn y Ddeddf yn yr ardal leol. Dylai awdurdodau lleol yn Lloegr a LHBau yng Nghymru gyda Chyrff Cyfrifol eraill a darparwyr gwasanaeth IMCA yn eu hardal ystyried y galw lleol tebygol am IMCA o dan adran 37 i 39 yr

MCA ac o dan LPS i sicrhau darpariaeth ddigonol, gan gynnwys ar gyfer pobl nad ydynt fel arfer yn preswyllo yn eu hardal.

Pwy all fod yn IMCA o dan adran 37 - 39 yr MCA ac at ddibenion LPS?

10.70 Gall unigolyn weithredu fel IMCA os yw'n bodloni'r meini prawf a nodir yn Rheoliadau Deddf Galluedd Meddwl 2005 (Eiriolwyr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol) (Cyffredinol) 2006. Fel rheol, bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn comisiynu sefydliadau eiriolaeth annibynnol i ddarparu gwasanaeth yr IMCA. Dylai'r sefydliadau hyn weithio i safonau sefydliadol priodol a osodir trwy'r broses contractio/ comisiynu.

10.71 Mae'n rhaid i IMCA unigol:

- fod â phrofiad a hyfforddiant priodol
- bod yn onest a gyda chymeriad da, ac yn
- gallu gweithredu'n annibynnol o'r unigolyn neu'r corff sy'n eu cyfarwyddo.

10.72 Cyn ymgymryd ag unrhyw rolau IMCA, mae'n rhaid i'r gwasanaeth a gomisiynir sicrhau bod gan bob IMCA wiriad cofnod troseddol manwl trwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

10.73 Mae'n rhaid i IMCA allu gweithredu'n annibynnol. Ni ddylai pobl weithredu fel IMCA os byddant:

- yn darparu gofal neu driniaeth (mewn swydd gyflogedig) i'r unigolyn sy'n ymwneud â'r penderfyniadau o dan sylw, neu
- fod â chysylltiadau o'r fath â'r unigolyn sy'n eu cyfarwyddo, y gwneuthurwr penderfyniadau neu unigolion eraill sy'n ymwneud â gofal neu driniaeth yr unigolyn a all olygu na allant weithredu'n annibynnol.

Pryd y dylid penodi IMCA o dan yr LPS?

10.74 Rôl y Corff Cyfrifol yw penodi IMCA. Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol gymryd pob cam rhesymol i benodi IMCA ar gyfer yr unigolyn cyn gynted ag y bydd yr atgyfeiriad wedi'i dderbyn, os yw gofynion Atodlen AA1 yn berthnasol. Dyma'r gofynion:

- Nid yw'r Corff Cyfrifol yn fodlon bod Person Priodol yn cynrychioli a chefnogi'r unigolyn (gweler pennod 15 i gael mwy o wybodaeth am addasrwydd y Person Priodol), **a naill ai**;
- Mae gan yr unigolyn y gallu i gydsynio i benodi IMCA ac mae'n gwneud cais i'r Corff Cyfrifol; neu;

- Nid oes gan yr unigolyn y gallu i gydsynio i benodi IMCA, ac mae'r Corff Cyfrifol yn fodlon y byddai cael ei gynrychioli a'i gefnogi gan IMCA er eu budd pennaf.
- 10.75 Mewn rhai achosion, bydd y Corff Cyfrifol yn fodlon na fyddai cael ei gynrychioli a'i gefnogi gan IMCA er y budd pennaf i'r unigolyn. Prin iawn fydd sefyllfaoedd o'r fath, megis pan fydd yr unigolyn ar ddiwedd eu hoes ac nid yw'r unigolyn na'r teulu eisiau IMCA. Pan wneir y penderfyniad hwn dylid ei gofnodi'n briodol yng nghofnodion yr unigolyn.
- 10.76 Mae gan y Corff Cyfrifol ddyletswydd hefyd i benodi IMCA i gefnogi'r Person Priodol os yw gofynion paragraff Atodlen AA1 yn berthnasol. Darperir gwybodaeth bellach ym mharagraffau 10.107 – 10.116.
- 10.77 Pan fydd gan y Corff Cyfrifol reswm i gredu nad yw'r Person Priodol bellach yn addas oherwydd er enghraifft eu bod naill ai'n anfodlon neu'n methu â chyflawni'u swyddogaethau, ac na ellir dod o hyd i Person Priodol amgen, yna mae'n rhaid penodi IMCA i gynrychioli a chefnogi'r unigolyn yn ei le (os bodloni'r y meini prawf perthnasol).
- 10.78 Mewn rhai achosion, gellir penodi IMCA ond nodir unigolyn addas i gyflawni rôl y Person Priodol yn ddiweddarach yn y broses. Os mai dyma'r achos, dylai'r Corff Cyfrifol roi'r gorau i benodi'r IMCA a phenodi'r Person Priodol, os byddant yn cydsynio i'r penodiad. Yn yr un modd, mae'n bosibl nad oes gan y Person Priodol a benodir ar ddechrau'r broses bellach y gallu neu'n amharod i barhau â'r rôl. Os mai dyma'r achos, dylid penodi IMCA cyn gynted â phosibl (oni bai y gellir penodi Person Priodol).
- 10.79 Os yw IMCA yn rhan yn barod o dan adran 37 - 39 arall yr MCA, neu'n eiriolwr o dan ddeddfwriaeth arall, ac mae ganddynt y sgiliau gofynnol i gynrychioli a chefnogi'r unigolyn o dan yr LPS, gall IMCA wneud hynny ar yr amod bod ganddynt yr hyfforddiant priodol.
- 10.80 Os daw'r awdurdodiad i ben ar unrhyw adeg, yna bydd penodiad yr IMCA hefyd yn dod i ben.

Trefniadau y tu allan i'r ardal

- 10.81 Mewn rhai achosion, bydd Corff Cyfrifol yn gyfrifol am awdurdodi trefniadau ar gyfer rhywun mewn lleoliad sydd yn ardal Corff Cyfrifol arall. Gweler pennod 14 i gael mwy o wybodaeth am nodi'r Corff Cyfrifol cywir.
- 10.82 Os mai dyma'r achos, os bodlonir y meini prawf a nodir ym paragraff 10.74 uchod a bod yn rhaid felly penodi IMCA, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol sy'n awdurdodi'r trefniadau benodi'r IMCA. Dylai'r Corff Cyfrifol, cyn belled ag sy'n ymarferol ac yn

briodol, weithio gyda'r sefydliadau yn yr ardal y lleolir yr unigolyn er mwyn dod o hyd i IMCA yn yr ardal honno a fydd yn gallu cyfarfod â'r unigolyn yn haws.

Beth yw rôl IMCA o dan LPS?

- 10.83 Pan nad oes unigolyn addas ar gael i weithredu fel Person Priodol, a ddisgrifir ym pennod 15, ar gyfer yr unigolyn, yn y rhan fwyaf o achosion bydd IMCA yn cynrychioli ac yn cefnogi'r unigolyn trwy broses yr LPS. Er mwyn cynrychioli a chefnogi'r unigolyn, dylai IMCA ymgylchwyddo ag amgylchiadau'r unigolyn a chael a gwerthuso gwybodaeth berthnasol am yr unigolyn. Dylai IMCA gymryd pob cam ymarferol i ddarparu cefnogaeth i'r unigolyn fel y gallant gymryd rhan mor llawn â phosibl mewn unrhyw benderfyniadau perthnasol.
- 10.84 Mae rôl yr IMCA yn yr LPS yn un barhaus. Bydd IMCA yn cael ei benodi i'r unigolyn, oni bai bod rhywun addas ar gael i fod yn Person Priodol iddynt, ar ddechrau'r broses asesu. Bydd yr un IMCA, cyn belled ag y bo modd, yn parhau i gynrychioli a chefnogi'r unigolyn unwaith y bydd awdurdodiad ar waith, oni bai bod rhywun sy'n addas i weithredu fel y Person Priodol wedi'i nodi. Gweler paragraff XX isod i gael mwy o wybodaeth.
- 10.85 Mewn rhai achosion, efallai y bydd rhywun addas i weithredu fel y Person Priodol, ond mae angen cefnogaeth arnynt gan IMCA i gyflawni'r rôl honno. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid penodi IMCA hefyd i helpu'r Person Priodol i gynrychioli a chefnogi'r unigolyn. Mae rôl yr IMCA ar gyfer y Person Priodol hefyd yn un barhaus. Unwaith y bydd yr awdurdodiad wedi'i sefydlu nid oes rhaid i'r Person Priodol a'u IMCA fod mewn cysylltiad parhaus. Fodd bynnag, dylai'r Person Priodol allu cysylltu â'r IMCA i gael cefnogaeth trwy gydol yr awdurdodiad. Gweler paragraffau 10.107 – 10.116 isod i gael mwy o wybodaeth am rôl yr IMCA ar gyfer y Person Priodol.

Sut mae'r IMCA yn cefnogi ac yn cynrychioli'r unigolyn?

- 10.86 Unwaith y penodir yr IMCA, dylent ganfod sut y gallant gefnogi'r unigolyn orau cyn gynted â phosibl. Gall hyn gynnwys pennu dulliau cyfathrebu'r unigolyn, neu efallai pa adeg o'r dydd sydd orau i siarad â'r unigolyn.
- 10.87 Er y gellir pennu nad oes gan yr unigolyn y gallu i wneud penderfyniad ynghylch trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid, efallai y bydd yr unigolyn yn parhau i allu mynegi eu dymuniadau a'u teimladau cyfredol am y trefniadau er enghraifft, trwy'r hyn y maent yn eu dweud neu eu hymddygiad. Os gall yr unigolyn fynegi eu dymuniadau a'u teimladau cyfredol, dylai'r IMCA eu gwirio.
- 10.88 Mewn rhai achosion, efallai na fydd yr unigolyn yn gallu mynegi eu dymuniadau a'u teimladau cyfredol, neu ni ellir eu gwirio. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid i IMCA ganfod, hyd eithaf eu gallu, beth fyddai dymuniadau, teimladau, credoau a gwerthoedd yr unigolyn, pe bai ganddynt allu, o ran y trefniadau neu'r trefniadau a gynigir. Mae hefyd yn bwysig bod yr IMCA yn pennu dymuniadau a theimladau

blaenorol yr unigolyn am eu gofal neu driniaeth, oherwydd er y gall y rhain fod wedi newid, gallant fod yn berthnasol i'r trefniadau a gynigir o hyd.

- 10.89 Er mwyn gwneud hyn, dylai'r IMCA gyfarfod â'r unigolyn a'u helpu i ddeall proses yr LPS, y trefniadau a gynigir, a beth mae'r trefniadau hyn yn eu golygu, cyn belled ag sy'n bosibl. Yn ogystal, lle bo hynny'n ymarferol ac yn briodol, gall yr IMCA ymgynghori â'r rhai hynny sy'n gofalu am yr unigolyn, gan gynnwys mewn swyddogaeth broffesiynol, ac eraill sy'n debygol o adnabod yr unigolyn ac felly eu dymuniadau a'u teimladau'n dda.
- 10.90 Efallai na fydd rhai pobl yn gallu cyfleu eu dymuniadau a'u teimladau i'r IMCA. Yn y sefyllfaoedd hyn, dylai'r IMCA archwilio dulliau cyfathrebu amgen. Os na all yr unigolyn fynegi eu dymuniadau a'u teimladau ar fater yna dylai'r IMCA, cyn belled ag y bo modd, geisio canfod eu dymuniadau a'u teimladau tebygol drwy siarad ag ac arsylwi'r unigolyn, siarad â phobl eraill, cael mynediad at gofnodion a thrwy arsylwi. Gall yr unigolyn ddefnyddio dulliau ymddygiadol, neu ddulliau cyfathrebu eraill, i wneud eu dymuniadau am y trefniadau a'u teimladau'n hysbys.
- 10.91 Os nad yw'r unigolyn yn dymuno, neu ei bod yn rhesymol credu nad yw'r unigolyn yn dymuno, preswyllo yn y lle a gynigir neu dderbyn gofal a thriniaeth yn y man hwnnw, dylai'r IMCA sicrhau bod hyn yn cael ei gyfleu i'r Corff Cyfrifol cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn sbarduno'r ddyletswydd y dylai'r achos gael ei gyfeirio at AMCP yn y cam adolygu cyn-awdurdodi. Gweler pennod 18 i gael mwy o wybodaeth am AMCP.
- 10.92 Dylai'r IMCA fynd gyda'r unigolyn, i'w cefnogi a'u cynrychioli, pan fydd y Corff Cyfrifol yn ymgynghori â nhw. Gall hyn gynnwys cefnogi'r unigolyn i gyfathrebu, neu i ddeall yr hyn sy'n digwydd yn ystod y cyfarfodydd. Os na chynhelir yr ymgynghoriad wyneb yn wyneb, dylai'r IMCA ystyried sut y gallant ddarparu'r gefnogaeth a'r gynrychiolaeth hon yn effeithiol ac yn briodol. Dylai'r IMCA hefyd helpu'r unigolyn i enwi'r rhai y maent yn dymuno ymgynghori â nhw am y trefniadau a gynigir. Gweler pennod 17 i gael mwy o wybodaeth am yr ymgynghoriad.
- 10.93 Dylai'r IMCA hefyd fynd gyda'r unigolyn, i'w cefnogi a'u cynrychioli, yn ystod asesiadau'r unigolyn, oni bai y byddai'n well gan yr unigolyn fynd ar eu pen eu hunain.
- 10.94 Cyn yr ymgynghoriad neu'r asesiadau, dylai'r IMCA ystyried gyda'r unigolyn yr hyn y gallai fod eu hangen arnynt neu y byddant yn dymuno dweud wrth unrhyw un o'r aseswyr neu'r Corff Cyfrifol yn ystod y cyfarfodydd hynny. Dylai'r IMCA hefyd ystyried a oes ganddynt neu'r unigolyn unrhyw bryderon ynghylch sut y gweithredwyd y broses asesu neu ymgynghori a sut y dylent godi'r rhain gyda'r unigolion neu'r cyrff perthnasol. Efallai y bydd yn briodol gofyn am gwblhau asesiad arall.

- 10.95 Dylai'r IMCA gefnogi'r unigolyn i archwilio'r potensial am opsiynau llai cyfyngol na'r trefniadau a gynigir, a lle y bo angen, cyfleu'r rhain i'r Corff Cyfrifol.
- 10.96 Gall yr IMCA ysgrifennu adroddiad ar eu canfyddiadau ar gyfer y Corff Cyfrifol. Gall yr adroddiad gynnwys cyflwyniadau yr ystyrir eu bod yn briodol mewn perthynas â'r unigolyn a'r weithred neu'r penderfyniad a gynigir. Os awgrymir trefniadau amgen a all adlewyrchu dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn well, dylai'r IMCA gyfleu'r rhain i'r Corff Cyfrifol yn yr adroddiad.
- 10.97 Yn rhannol, rôl yr IMCA yw cynrychioli a chefnogi'r unigolyn yn eu perthynas â'r Corff Cyfrifol. Dylai'r IMCA ymdrechu i gael y canlyniad gorau i'r unigolyn a sicrhau bod yr holl opsiynau ar gyfer trefniadau'r unigolyn yn cael eu hystyried. Os na ellir dod i gytundeb, gall yr IMCA ofyn i AMCP ystyried yr achos. Rôl yr AMCP yw darparu haen ychwanegol o graffu i broses yr LPS. Nid yw rôl yr AMCP yn gyfystyr â rôl gyfryngu ffurfiol, ond mae'n ffordd o ddatrys gwahaniaeth barn rhwng yr unigolyn a'r rhai hynny sy'n cynnig y trefniadau. Ar ôl derbyn cais o'r fath gan yr IMCA, dylai'r Corff Cyfrifol ystyried yr egwyddorion a nodir ym mhennod 18 wrth benderfynu a yw'r achos yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ei atgyfeirio i wasanaeth yr AMCP. Fel gydag unrhyw achos, dylai tîm yr AMCP ystyried a ydynt yn credu bod y trothwy ar gyfer AMCP wedi'i fodloni cyn derbyn yr achos.
- 10.98 Mae gan IMCA hawl i:
- Ymgynghori â nhw ynghylch dymuniadau a theimladau'r unigolyn ynghylch y trefniadau.
 - Gwneud cyflwyniadau i aseswyr, fel y maent yn ystyried yn briodol, gan roi sylw i gyfraith diogelu data a dymuniadau a theimladau'r unigolyn.
 - Cyfarfod â'r unigolyn, gan gynnwys yn y man lle mae eu gofal neu driniaeth yn digwydd.
 - Derbyn copi o gofnod awdurdodi'r unigolyn.
 - Cyflwyno cais i'r Llys Gwarchod neu roi cymorth i'r unigolyn wneud hynny.
- 10.99 Dylai'r Corff Cyfrifol:
- Os yw'r IMCA wedi ysgrifennu adroddiad o'u canfyddiadau, drosglwyddo'r adroddiad i'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad ar angenrheidrwydd a chymesuredd. Mae hyn yn rhan o ddyletswydd barhaus y Corff Cyfrifol i ddatgelu gwybodaeth berthnasol i bawb sy'n cynnal asesiadau.
 - Rhoi copïau o'r asesiadau o dan yr LPS i'r IMCA.
 - Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r IMCA trwy gydol proses yr LPS.
 - Hysbysu'r IMCA o ganlyniad yr awdurdodiad a rhoi neu anfon copi o'r cofnod awdurdodi i'r IMCA yn ddi-oed

Sut mae'r IMCA yn parhau i gefnogi'r unigolyn ar ôl i awdurdodiad gael ei roi?

- 10.100 Ar ôl i'r trefniadau gael eu hawdurdodi, dylai'r IMCA gadw mewn cysylltiad â'r unigolyn trwy gydol cyfnod yr awdurdodiad cyn belled ag y bo'n ymarferol ac yn briodol gwneud hynny, ac yn benodol eu cynrychioli a'u cefnogi yn yr adolygiadau neu unrhyw adnewyddiadau i'r awdurdodiad.
- 10.101 Dylai'r IMCA weithio gyda'r unigolyn i bennu sut i barhau i'w cynrychioli a'u cefnogi orau. Mae'n rhaid i'r IMCA ystyried dymuniadau a theimladau canfyddadwy'r unigolyn wrth wneud y penderfyniad budd pennaf ynghylch pa mor aml i gyfarfod â nhw, os yw'r unigolyn â'r prinder gallu i benderfynu hyn ei hun.
- 10.102 Wrth gyfarfod â'r unigolyn, dylai'r IMCA sefydlu dymuniadau a theimladau'r unigolyn mewn perthynas â'r trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Dylai'r IMCA sicrhau bod y Corff Cyfrifol yn parhau i ddeall a pharchu'r trefniadau hyn.
- 10.103 Gall yr IMCA, lle bo hynny'n briodol, gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Corff Cyfrifol pan:
- Fydd yr unigolyn neu'r IMCA yn dymuno codi pryder.
 - Bydd yr unigolyn neu'r IMCA yn dymuno gofyn am adolygiad.
 - Bydd IMCA yn paratoi ar gyfer adolygiad wedi'i drefnu.

Os cyflwynir adroddiad, dylai'r Corff Cyfrifol roi ymateb ysgrifenedig amserol i'r IMCA i'r pwyntiau a godwyd, gan nodi'r camau gweithredu a awgrymir. Dylai'r Corff Cyfrifol hefyd sicrhau bod unrhyw adroddiad yn cael ei ffeilio yng nghofnodion iechyd neu ofal yr unigolyn.

- 10.104 Os oes gan yr IMCA neu'r unigolyn bryderon ynghylch yr awdurdodiad neu'r ffordd y deliodd y Corff Cyfrifol â'r achos, gall yr IMCA gefnogi'r unigolyn i gymryd camau penodol. Er enghraifft:
- Gwneud cwyn, er enghraifft, i'r darparwr gofal neu driniaeth neu'r Corff Cyfrifol.
 - Codi pryder ynghylch diogelu oedolyn.
 - Gofyn am adolygiad ar gyfer yr unigolyn lle mae awdurdodiad ar waith.
 - Gwneud cais i'r Llys Gwarchod.
- 10.105 Unwaith y bydd awdurdodiad ar waith, gall yr unigolyn a'u Person Priodol neu IMCA wneud cais i'r Llys Gwarchod, er enghraifft i herio'r awdurdodiad. Dylai'r IMCA, er enghraifft, ystyried a yw'r unigolyn yn hapus gyda'r trefniadau neu a hoffent eu herio yn y Llys ac, os felly, eu cefnogi i gyflwyno'r her hon. Hyd yn oed os nad yw'r unigolyn yn dymuno herio'r awdurdodiad, efallai y bydd angen cyflwyno'r trefniadau i'r Llys o hyd. Os mai dyma yw'r achos, dylai'r IMCA wneud y cais ei hun. Gweler

pennod XX i gael mwy o wybodaeth ar benderfynu a ddylid cyflwyno her i'r llys, a phennod XX i gael mwy o wybodaeth am y llys ei hun.

10.106 Dylai'r IMCA hefyd gynrychioli a chefnogi'r unigolyn trwy gydol unrhyw adolygiadau yn yr un modd ag yr oeddent yn eu cynrychioli a'u cefnogi trwy'r broses awdurdodi gychwynol. Os adnewyddir yr awdurdodiad, gall yr un IMCA barhau i gynrychioli a chefnogi'r unigolyn heb fod angen ei ailbenodi.

Sut mae'r IMCA yn cefnogi'r Person Priodol?

10.107 Mae'r Person Priodol yn cynrychioli ac yn cefnogi'r unigolyn, yn debyg i rôl yr IMCA. Fodd bynnag, mae rôl y Person Priodol yn ddi-dâl ac yn gyffredinol mae'n cael ei chyflawni gan rywun sy'n adnabod yr unigolyn yn dda, megis ffrind neu aelod o'r teulu. Gweler pennod 15 i gael mwy o wybodaeth am rôl y Person Priodol.

10.108 Mewn rhai achosion, gall y Person Priodol ofyn am gefnogaeth gan IMCA, er mwyn cefnogi a chynrychioli'r unigolyn orau. Mewn achosion eraill, gellir penderfynu y byddai er y budd gorau i'r unigolyn i'w Person Priodol gael cefnogaeth IMCA. Yn yr achos hwn, penodir IMCA i gefnogi'r Person Priodol i sicrhau eu bod yn gallu cefnogi a chynrychioli'r unigolyn, gan gynnwys sicrhau y deallir ac y cyflëir dymuniadau a theimladau'r unigolyn.

10.109 Gall yr IMCA hefyd er enghraifft gynorthwyo'r Person Priodol i ofyn am fynediad i'r wybodaeth berthnasol er mwyn cynrychioli a chefnogi'r unigolyn.

10.110 Cyn awdurdodi'r trefniadau, dylai'r IMCA gymryd pob cam ymarferol i gyfarfod â'r Person Priodol, i'w cefnogi i ddeall proses yr LPS, eu rôl fel Person Priodol, beth fyddai'r trefniadau a gynigir yn eu golygu i'r unigolyn a pha hawliau sydd gan yr unigolyn. Lle bo hynny'n berthnasol, gall yr IMCA hefyd gefnogi'r Person Priodol i chwilio am opsiynau sy'n llai cyfyngol i'r unigolyn. Dylai'r IMCA hefyd gefnogi'r Person Priodol i ganfod a deall dymuniadau a theimladau'r unigolyn ynghylch y trefniadau.

10.111 Gall yr IMCA ddarparu cefnogaeth i'r Person Priodol pan fyddant yn paratoi, gyda'r unigolyn, ar gyfer y broses ymgynghori. Gall hyn gynnwys, rhoi cyngor ar y ffordd orau i gefnogi'r unigolyn pan ymgynghorir â nhw. Gall yr IMCA hefyd gefnogi'r Person Priodol i nodi pobl y dylid ymgynghori â nhw a throsglwyddo'r wybodaeth hon i'r Corff Cyfrifol.

10.112 Dylai'r IMCA gefnogi'r Person Priodol trwy unrhyw gyfarfodydd a gynhelir gyda'r unigolyn sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi, gan gynnwys eu cefnogi i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau.

10.113 Efallai y bydd yr IMCA hefyd yn cefnogi'r Person Priodol i sicrhau eu bod yn cael mynediad at y cofnodion perthnasol y mae eu hangen arnynt i gyflawni'r rôl yn

effeithiol, ac i sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei chofnodi yn y cofnod awdurdodi.

10.114 Os bydd yr unigolyn neu'r Person Priodol yn anghytuno â'r Corff Cyfrifol, gall yr IMCA gefnogi'r Person Priodol i reoli'r anghytundeb hwnnw.

10.115 Ar unrhyw adeg, efallai y bydd y Person Priodol, neu'r unigolyn, am godi pryderon gyda'r Corff Cyfrifol ynghylch naill ai'r awdurdodiad neu'r broses. Yn yr achos hwn, gall yr IMCA gefnogi'r Person Priodol i, er enghraifft:

- Wneud cwyn i'r awdurdod rheoli neu'r Corff Cyfrifol.
- Codi pryder ynghylch diogelu oedolyn.
- Gwneud cais am adolygiad ar gyfer yr unigolyn lle mae awdurdodiad ar waith.
- Gwneud cais i'r Llys Gwarchod.

10.116 Unwaith y bydd yr awdurdodiad wedi'i sefydlu, gall yr unigolyn neu eu Person Priodol benderfynu gwneud cais i'r Llys Gwarchod, er enghraifft i herio'r trefniadau. Gall yr IMCA helpu'r Person Priodol i bennu a fyddai cais yn briodol ac os felly, gwneud cais. Gweler pennod 24 i gael mwy o wybodaeth ar benderfynu a ddylid cyflwyno her i'r llys.

A all yr IMCA gael mynediad i holl gofnodion iechyd a gofal yr unigolyn?

10.117 Yn yr un modd ag IMCA sy'n gweithredu o dan adran 37-39 yr MCA, gall IMCA sy'n gweithredu o dan yr LPS, ar bob adeg resymol, archwilio a chymryd copïau o—

- unrhyw gofnod iechyd,
- unrhyw gofnod awdurdod lleol, neu sydd gan awdurdod lleol ac a luniwyd mewn cysylltiad â swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol, ac
- unrhyw gofnod sydd gan unigolyn sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 Deddf Safonau Gofal 2000, pennod 2 o Ran 1 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 neu bennod 2 o Ran 1 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 y mae'r unigolyn sydd a'r cofnod o'r farn y gall fod yn berthnasol i ymchwiliad yr IMCA.

Beth yw'r rhyngwyneb rhwng IMCA sy'n gweithredu o dan yr MCA a'r LPS â mathau eraill o eiriolaeth?

10.118 Gallai rhywun sydd â'r prinder gallu perthnasol hefyd fod â hawl i fathau eraill o eiriolwr statudol. Mae'r rhain yn cynnwys Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHA) o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu eiriolwr annibynnol o dan Ddeddf Gofal 2014. Yng Nghymru, gallant fodloni'r gofynion ar gyfer eiriolaeth o dan Ran 10 y Codau Ymarfer ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

(Cymru) 2014 a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru). Os yw'r unigolyn yn blentyn sy'n derbyn gofal neu'n rywun sy'n gadael gofal yna mae ganddynt hawl i, a gallai fod ganddynt hefyd eiriolwr a benodir o dan adran 26A Deddf Plant 1989.

- 10.119 Bwriedir i'r eiriolwyr hyn weithio ar y cyd ag IMCA ond nid i gymryd eu lle. Efallai y bydd yr un eiriolwr yn gymwys i weithredu fel mwy nag un math o eiriolwr statudol, er eu bod yn rolau gwahanol.
- 10.120 Gall Eiriolwr Annibynnol a benodir o dan ddeddfwriaeth arall, megis Deddf Gofal (2014), hefyd fod yn IMCA i'r unigolyn ar gyfer yr LPS os byddant yn bodloni'r gofynion a amlinellir ym mharagraffau 10.70 – 10.73.

Mathau eraill o eiriolaeth (anstatudol)

- 10.121 Gall rhywun a all gael ei amddifadu o'u rhyddid fod, neu'n dymuno bod, yn aelod o grŵp neu wasanaeth hunan-eiriolaeth neu eiriolaeth cymheiriaid. Os mai dyma'r achos, dylid cefnogi eiriolaeth a ddarperir trwy'r grwpiau neu'r gwasanaethau hyn ochr yn ochr ag unrhyw eiriolaeth statudol, fel ffordd o gefnogi'r unigolyn i wneud penderfyniadau.

11. Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

Mae'r bennod hon yn esbonio beth i'w wneud pan fydd rhywun wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth. Mae'n nodi beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth 'benderfyniad ymlaen llaw' a chanllawiau ar wneud, diweddarau a chanslo penderfyniadau ymlaen llaw. Mae hefyd yn nodi sut i wirio a oes penderfyniad ymlaen llaw yn bodoli ac yn ddilys ac yn berthnasol o dan yr amgylchiadau, cyfrifoldebau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fydd penderfyniad ymlaen llaw yn bodoli a sut i ymdrin ag anghytundebau ynghylch penderfyniadau ymlaen llaw.

Yn y bennod hon, fel trwy'r Cod, mae gallu unigolyn (neu brinder gallu) yn cyfeirio'n benodol at eu gallu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei wneud.

Crynodeb cyflym

- Mae penderfyniad ymlaen llaw yn galluogi unrhyw un sy'n 18 oed neu'n hŷn, tra bod y gallu ganddynt, i wrthod triniaeth feddygol benodol am gyfnod yn y dyfodol pan fydd prinder gallu ganddynt o bosibl i gydsynio i'r driniaeth honno neu ei gwrthod.
- Mae'n rhaid i benderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth fod yn ddilys ac yn berthnasol i'r amgylchiadau cyfredol. Os ydyw, mae'n cael yr un effaith â phenderfyniad a wneir gan unigolyn sydd â gallu ac mae'n rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol barchu'r penderfyniad.
- Bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael eu hamddiffyn rhag atebolrwydd os ydynt:
 - yn rhoi terfyn ar neu'n atal triniaeth oherwydd eu bod yn credu'n rhesymol bod penderfyniad ymlaen llaw yn bodoli, a'i fod yn ddilys ac yn berthnasol

- yn trin unigolyn oherwydd, ar ôl cymryd pob cam ymarferol a phriodol i ganfod a yw'r unigolyn wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth, nid ydynt yn gwybod neu nid ydynt yn fodlon bod penderfyniad ymlaen llaw dilys a chymwys yn bodoli.
- Mae gofynion penodol yn berthnasol ar gyfer penderfyniadau ymlaen llaw sy'n gwrthod triniaeth cynnal bywyd.

Sut y gall rhywun wneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

Beth yw penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

- 11.1 Un o egwyddorion cyffredinol y gyfraith ac arfer meddygol yw bod gan bobl hawl i gydsynio i driniaeth neu i wrthod triniaeth. Mae'r llysoedd wedi cydnabod bod gan oedolion yr hawl i ddweud ymlaen llaw eu bod am wrthod triniaeth os byddant yn colli gallu yn y dyfodol - hyd yn oed os yw hyn yn arwain at eu marwolaeth. Mae gan benderfyniad dilys a pherthnasol ymlaen llaw i wrthod triniaeth yr un grym â phenderfyniad cyfoes. Mae adrannau 24–26 y Ddeddf yn nodi pryd y gall unigolyn wneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth. Mae hyn yn berthnasol os:
- bydd yr unigolyn yn 18 neu'n hŷn, a
 - bod ganddynt y gallu i wneud penderfyniad ymlaen llaw ynghylch triniaeth.
- 11.2 Ni all unigolyn ifanc (o dan 18 oed) wneud penderfyniad ymlaen llaw, fodd bynnag, gallant wneud datganiad ymlaen llaw (ysgrifenedig) yn nodi'u dewisiadau, y dylai unrhyw wneuthurwr penderfyniad ei ystyried.
- 11.3. Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol gofal iechyd barchu penderfyniad ymlaen llaw os yw'n ddilys ac yn berthnasol i'r amgylchiadau penodol. Os na fyddant yn gwneud hynny, gallent wynebu erlyniad troseddol (cael eu cyhuddo o gyflawni trosedd) neu atebolrwydd sifil (gallai rhywun eu herlyn am iawndal).
- 11.4. Gall penderfyniadau ymlaen llaw arwain at ganlyniadau difrifol i'r bobl sy'n eu gwneud. Gallant hefyd gael effaith bwysig ar deulu a ffrindiau, a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal. Cyn y gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ddefnyddio penderfyniad ymlaen llaw, mae'n rhaid cael prawf bod y penderfyniad:
- yn bodoli

- yn ddilys, ac
 - yn berthnasol o dan yr amgylchiadau presennol.
- 11.5. Mae'r profion hyn yn ofynion cyfreithiol o dan adran 25(1). Mae paragraffau 9.38–9.44 yn egluro safon y dystiolaeth y mae'r Ddeddf yn gofyn amdani.
- 11.6. Er gwaethaf canlyniadau difrifol penderfyniadau i wrthod triniaeth cynnal bywyd, mae penderfyniadau o'r fath yn ymgorffori'r hawl i hunan-benderfyniad, ac maent i'w

Senario: Penderfyniadau ymlaen llaw a chynllunio gofal

Mae Mr D yn derbyn diagnosis canser. Fel rhan o'r drafodaeth am ei ganser gyda'r clinigwyr, mae Mr D yn dysgu am y mathau o ofal neu driniaeth sydd ar gael a'u buddion, eu niweidiau a'u risgiau. Gofynnir iddo am yr hyn sydd yn well ganddo, ei ddymuniadau, ei gredoau, ei werthoedd a'i deimladau am ei salwch a'i brognosis, a'r mathau o benderfyniadau y gall fod angen eu gwneud ynghylch ei ofal a'i driniaeth yn y dyfodol. O ganlyniad i'r drafodaeth hon, gall Mr D ragweld sut y gall ei gyflwr effeithio arno yn y dyfodol. Mae'n cofnodi'i ddymuniadau am ei ofal a'i driniaeth trwy wneud cynllun gofal a chymorth ymlaen llaw.

Fel rhan o'r cynllun hwn mae Mr D yn gwneud Penderfyniad Ymlaen Llaw i Wrthod Triniaeth. Gall y rhai hynny sy'n gyfrifol am ofal neu driniaeth Mr D ei ddilyn (p'un ai a ydynt yn staff proffesiynol neu'n ofalwyr teuluol) os bydd yn colli'r gallu i benderfynu unwaith y bydd ei salwch yn gwaethygu.

parchu ar yr amod bod penderfyniadau o'r fath yn bodloni gofynion adrannau 25(5) a (6) y Ddeddf.

Pwy all wneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

- 11.7. Mater i unigolion yw penderfynu a ydynt am wrthod triniaeth ymlaen llaw. Mae ganddynt hawl i wneud hynny os ydynt yn dymuno, ond nid oes rhwymedigaeth i wneud hynny. Mae rhai pobl yn dewis gwneud penderfyniadau ymlaen llaw tra'u bod yn parhau i fod yn iach, hyd yn oed os nad oes arwydd o salwch. Gallai hyn fod oherwydd eu bod eisiau cadw rhywfaint o reolaeth dros yr hyn a allai ddigwydd iddynt yn y dyfodol.
- 11.8. Efallai y bydd eraill yn ystyried bod penderfyniad ymlaen llaw yn rhan o'u paratodau ar gyfer heneiddio (yn debyg i wneud Ewyllys). Neu gallent wneud penderfyniad ymlaen llaw ar ôl iddynt gael gwybod bod ganddynt glefyd neu gyflwr penodol, neu allu cyfnewidiol.

- 11.9 Mae'n well gan lawer o bobl beidio â gwneud penderfyniad ymlaen llaw, ac yn lle hynny maent yn caniatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol wneud penderfyniadau er eu budd pennaf ar yr adeg y mae angen gwneud penderfyniad. Dewis arall yw gwneud Atwrneiaeth Arhosol. Mae hyn yn caniatáu i aelod o'r teulu neu ffrind dibynadwy wneud penderfyniadau lles personol, megis y rhai sy'n ymwneud â thriniaeth, ar ran rhywun, ac er eu budd pennaf os byddant fyth yn colli'r gallu i wneud y penderfyniadau hynny drostynt eu hunain (gweler paragraff 9.33 isod a phennod 7).
- 11.10 Gall pobl wneud penderfyniadau ymlaen llaw yn unig os ydynt am wrthod triniaeth. Nid oes gan unrhyw un yr hawl gyfreithiol i fynnu triniaeth benodol, naill ai ar y pryd neu ymlaen llaw. Felly ni all unrhyw un fynnu (naill ai ar y pryd neu ymlaen llaw) cael triniaethau y mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn eu hystyried yn ddiangen yn glinigol, yn ofer neu'n amhriodol. Ond gall pobl wneud cais neu nodi'u dymuniadau a'u dewisiadau ymlaen llaw.
- 11.11. Yna dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ystyried y cais wrth benderfynu beth sydd er y budd pennaf i'r claf (gweler pennod 5) os yw'r claf â phrinder gallu.
- 11.12. Ni all neb ofyn am na derbyn gweithdrefnau sydd yn erbyn y gyfraith (er enghraifft, help i gyflawni hunanladdiad). Fel mae adran 62 yn nodi, nid yw'r Ddeddf yn newid unrhyw un o'r deddfau sy'n ymwneud â llofruddiaeth, dynladdiad neu hunanladdiad.

Y gallu i wneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth.

- 11.13. I'r mwyafrif o bobl, ni fydd unrhyw amheuaeth ynghylch eu gallu i wneud penderfyniad ymlaen llaw. Efallai y bydd gan hyd yn oed y rhai sydd â phrinder gallu i wneud rhai penderfyniadau y gallu i wneud penderfyniad ymlaen llaw. Efallai y byddai'n ddefnyddiol cael tystiolaeth o allu unigolyn i wneud y penderfyniad ymlaen llaw (er enghraifft, os oes posibilrwydd y gellir herio'r penderfyniad ymlaen llaw yn y dyfodol). Mae hefyd yn bwysig cofio y gall gallu newid dros amser, ac efallai y bydd rhywun sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniad nawr yn gallu ei wneud yn y dyfodol. Mae Pennod 3 yn esbonio sut i asesu gallu unigolyn i wneud penderfyniad.

Senario: Parchu'r gallu i wneud penderfyniad ymlaen llaw

Mae Ms L wedi dioddef o ganser y fron metastatig ers rhai blynyddoedd a dwy flynedd yn ôl gwnaeth benderfyniad ymlaen llaw ysgrifenedig ac a dystiwyd i wrthod triniaeth (ADRT). Mae'r ADRT yn nodi, os bydd y canser yn datblygu mewn ffordd sy'n golygu na all Ms L lyncu bwyd neu ddiod ar ei phen ei hun, nid yw am gael ei chadw'n fyw trwy gael ei bwydo trwy diwb neu ddrip. Mae hefyd yn dweud nad yw am dderbyn dadebru cardio-anadlol os bydd ei chalon a'i hysgyfaint yn rhoi'r gorau i weithio fel na all anadlu'n annibynnol.

Yn ddiweddarach, mae Ms L yn datblygu dementia fasgwlaidd ac yn symud i gartref gofal. Mae hi'n rhoi ei ADRT i staff y cartref gofal. Mae ei dementia yn gwaethgu'n raddol, ac mae'n colli'r gallu i wneud penderfyniadau am ei gofal a'i thriniaeth, o ran y canser ac yn fwy cyffredinol.

Ymhen amser mae canser Ms L hefyd yn datblygu. Mae staff y cartref gofal yn cysylltu â thîm meddygol Ms L fel bod ei phenderfyniadau fel y'u nodir yn yr ADRT yn cael eu dilyn ar yr adeg briodol.

- 11.14. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol bob amser ddechrau gyda'r rhagdybiaeth bod gan unigolyn sydd wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw y gallu i'w wneud, oni bai eu bod yn ymwybodol o seiliau rhesymol i amau hyn. Os yw gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ymwybodol o seiliau o'r fath dylent ystyried (fel arfer gyda chyngor cyfreithiol) a yw'n bosibl datrys yr amheuon hynny eu hunain (gweler para 9.71), neu a oes angen gofyn i'r Llys Gwarchod wneud penderfyniad a yw'r penderfyniad ymlaen llaw yn bodoli ai peidio. Gallant ddarparu triniaeth cynnal bywyd neu driniaeth sy'n ofynnol i atal dirywiad difrifol yng nghyflwr yr unigolyn tra bo unrhyw gais yn cael ei wneud i'r llys (gweler paragraff 9.76).
- 11.15. Efallai bod gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol bryderon penodol ynghylch gallu rhywun sydd â hanes o ymdrechion hunanladdiad neu feddyliau hunanladdol sydd wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw. Mae'n bwysig cofio nad yw gwneud penderfyniad ymlaen llaw a allai, os glynir wrtho, yn arwain at farwolaeth o reidrwydd yn golygu bod rhywun yn neu'n teimlo'n hunanladdol. Ac nid yw o reidrwydd yn golygu bod yr unigolyn â phrider gallu i wneud y penderfyniad ymlaen llaw. Gellir cysylltu ymddygiad hunanladdol â salwch seiciatryddol a all effeithio ar allu i wneud penderfyniadau. Os oes gan yr unigolyn fwriad hunanladdol clir ar yr adeg y mae'r gweithiwr proffesiynol yn ymgysylltu â nhw, gall hyn godi cwestiynau ynghylch eu gallu i wneud y penderfyniad ymlaen llaw ar yr adeg y'i gwnaethpwyd.

Beth ddylai pobl ei gynnwys mewn penderfyniad ymlaen llaw?

11.16. Nid oes unrhyw drefn ffurfiol ynghylch fformat penderfyniad ymlaen llaw. Gellir ei wneud yn ysgrifenedig neu ar lafar, oni bai ei fod yn ymdrin â thriniaeth cynnal bywyd, ac os felly mae'n rhaid ei ysgrifennu ac mae rheolau penodol yn berthnasol (gweler paragraffau 9.24-9.28 isod).

11.17. Mae'n

- rhaid i benderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth nodi'n union pa driniaeth sydd i'w gwrthod - nid yw datganiad sy'n rhoi awydd cyffredinol i beidio â chael triniaeth yn ddigonol.
- gall penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth nodi'r amgylchiadau pan ddylai'r gwrthodiad fod yn berthnasol - mae'n ddefnyddiol cynnwys cynifer o fanylion â phosibl.
- bydd penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth yn berthnasol yn unig ar adeg pan nad oes gan yr unigolyn y gallu i gydsynio neu wrthod y driniaeth benodol.
- dylai penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth gynnwys datganiad o werthoedd, er enghraifft efallai y byddai unigolyn eisiau nodi a yw'n bwysicach iddynt gael eu cadw'n rhydd o boen yn hytrach na'u cadw'n fyw.

11.18. Gall pobl ddefnyddio iaith feddygol neu iaith bob dydd yn eu penderfyniad ymlaen llaw. Ond rhaid iddynt egluro beth yw eu dymuniadau a pha driniaeth y maent yn dymuno ei gwrthod.

11.19. Gall penderfyniad ymlaen llaw sy'n gwrthod pob triniaeth mewn unrhyw sefyllfa (er enghraifft, lle y bo'r unigolyn yn egluro bod eu penderfyniad yn seiliedig ar eu crefydd neu'u credoau personol) fod yn ddilys ac yn berthnasol.

11.20. Efallai y bydd pobl sy'n ystyried gwneud penderfyniad ymlaen llaw yn dymuno ei drafod gyda:

- gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (er enghraifft, eu meddyg teulu neu'r unigolyn sy'n ymwneud fwyaf â gofal iechyd neu driniaeth gyfredol), neu
- sefydliad a all ddarparu cyngor ar amodau neu sefyllfaoedd penodol (efallai bod ganddynt eu fformat eu hunain ar gyfer cofnodi penderfyniad ymlaen llaw).

11.21. Yr unigolyn sydd i benderfynu a ydynt yn dymuno gwneud hyn ai peidio. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gofnodi manylion unrhyw drafodaeth yn y cofnodion gofal iechyd.

11.22. Efallai y bydd rhai hefyd eisiau derbyn cyngor cyfreithiol. Bydd hyn yn eu helpu i sicrhau eu bod yn mynegi eu penderfyniad yn glir ac yn gywir. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod pobl yn deall eu penderfyniad ymlaen llaw yn y dyfodol.

11.23. Mae'n syniad da ceisio cynnwys amgylchiadau posibl yn y dyfodol yn y penderfyniad ymlaen llaw. Er enghraifft, efallai y bydd merch eisiau nodi yn y penderfyniad ymlaen llaw a ddylai barhau i fod yn berthnasol ai peidio os bydd hi'n beichiogi'n hwyrach. Os nad yw'r ddogfen yn rhagweld newid mewn amgylchiadau, gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol benderfynu nad yw'n berthnasol os bydd yr amgylchiadau penodol hynny'n codi.

11.24. Os cofnodir penderfyniad ymlaen llaw ar gofnodion gofal iechyd claf, mae'n gyfrinachol. Bydd rhai cleifion yn dweud wrth eraill am eu penderfyniad ymlaen llaw (er enghraifft, gallent ddweud wrth weithwyr gofal iechyd proffesiynol, ffrindiau neu deulu). Ni fydd eraill yn gwneud. Bydd angen i bobl nad ydynt am i'w penderfyniad ymlaen llaw gael ei gofnodi ar eu cofnod gofal iechyd feddwl ble y dylid ei gadw a sut maent yn mynd i roi gwybod i bobl am eu penderfyniad.

Penderfyniadau ysgrifenedig ymlaen llaw

11.25. Gall dogfen ysgrifenedig fod yn dystiolaeth o benderfyniad ymlaen llaw. Mae'n ddefnyddiol dweud wrth eraill bod y ddogfen yn bodoli a'i lleoliad. Efallai y bydd rhywun eisiau ei chario gyda nhw rhag ofn y ceir argyfwng, neu gario cerdyn, breichled neu arwydd arall eu bod wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw ac egluro ble mae'n cael ei gadw.

11.26. Nid oes dull penodol ar gyfer penderfyniadau ysgrifenedig ymlaen llaw, oherwydd bydd y cynnwys yn amrywio gan ddibynnu ar ddymuniadau a sefyllfa'r unigolyn. Ond mae'n ddefnyddiol cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- manylion llawn yr unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad ymlaen llaw, gan gynnwys dyddiad geni, cyfeiriad cartref ac unrhyw nodweddion gwahaniaethol (rhag ofn bod angen i weithwyr gofal iechyd proffesiynol adnabod unigolyn anymwybodol, er enghraifft)
- enw a chyfeiriad meddyg teulu'r unigolyn ac a oes ganddynt gopi o'r ddogfen
- datganiad y dylid defnyddio'r ddogfen os bydd gallu'r unigolyn i wneud penderfyniadau ynghylch ei driniaeth yn methu
- datganiad clir o'r penderfyniad, y driniaeth i'w gwrthod a'r amgylchiadau pan fydd y penderfyniad yn berthnasol
- y dyddiad yr ysgrifennwyd y ddogfen
- y dyddiad y dylid adolygu'r ddogfen (ni ddylai'r ddogfen gynnwys dyddiad 'yn ddilys tan')
- llofnod yr unigolyn (neu llofnod rhywun y mae'r unigolyn wedi gofyn iddynt llofnodi'r ddogfen ar eu rhan ac maent yn dyst iddo)
- llofnod yr unigolyn sy'n dyst i'r llofnod, os oes un (neu ddatganiad yn cyfarwyddo rhywun i llofnodi ar ran yr unigolyn).

- 11.27. Gweler paragraffau 9.24-9.28 isod os yw'r penderfyniad ymlaen llaw yn ymdrin â thriniaeth cynnal bywyd.
- 11.28. Nid yw bod yn dyst i lofnod yr unigolyn yn hanfodol, ac eithrio mewn achosion lle mae'r unigolyn yn gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth sy'n cynnal bywyd. Ond os oes tyst, maent yn dyst i'r llofnod a'r ffaith ei fod yn cadarnhau'r dymuniadau a nodwyd yn y penderfyniad ymlaen llaw. Efallai y byddai'n ddefnyddiol rhoi disgrifiad o'r berthynas rhwng y tyst a'r unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad ymlaen llaw. Rôl y tyst yw tystio llofnod yr unigolyn, nid yw i ardystio bod gan yr unigolyn y gallu i wneud y penderfyniad ymlaen llaw - hyd yn oed os yw'r tyst yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol neu'n adnabod yr unigolyn.
- 11.29. Mae'n bosibl mai gweithiwr proffesiynol sy'n gweithredu fel tyst fydd yr un sy'n asesu gallu'r unigolyn hefyd. Os felly, dylai'r gweithiwr proffesiynol hefyd wneud cofnod o'r asesiad, oherwydd nid yw gweithredu fel tyst yn profi y cynhaliwyd asesiad.

Penderfyniadau ymlaen llaw ar lafar

- 11.30. Er ei bod yn well cael penderfyniad ysgrifenedig ymlaen llaw i wrthod triniaeth, mae'n bosibl cael penderfyniadau ymlaen llaw ar lafar hefyd. Nid oes fformat penodol ar gyfer penderfyniadau ymlaen llaw ar lafar. Mae hyn oherwydd y byddant yn amrywio gan ddibynnu ar ddymuniadau a sefyllfa'r unigolyn. Bydd angen i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ystyried a oes penderfyniad ymlaen llaw ar lafar yn bodoli ac a yw'n ddilys ac yn berthnasol (gweler paragraffau 9.38-9.44).
- 11.31. Lle bo modd, dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gofnodi penderfyniad ymlaen llaw ar lafar i wrthod triniaeth yng nghofnod gofal iechyd unigolyn. Bydd hyn yn cynhyrchu cofnod ysgrifenedig a allai atal dryswch ynghylch y penderfyniad yn y dyfodol. Dylai'r cofnod gynnwys:
- nodyn y dylai'r penderfyniad fod yn berthnasol os oes gan yr unigolyn brinder gallu i wneud penderfyniadau ynghylch triniaeth yn y dyfodol
 - nodyn clir o'r penderfyniad, y driniaeth i'w gwrthod a'r amgylchiadau pan fydd y penderfyniad yn berthnasol
 - manylion rhywun a oedd yn bresennol pan gofnodwyd y penderfyniad ymlaen llaw ar lafar a'r rôl oedd ganddynt wrth fod yn bresennol (er enghraifft, gweithiwr gofal iechyd proffesiynol neu aelod o'r teulu), a
 - ph'un ai a glywsant y penderfyniad, cymryd rhan ynddo neu eu bod yn ymwybodol ei fod yn bodoli.

Pa reolau sy'n berthnasol i benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd?

11.32. Mae'r Ddeddf yn gosod gofynion cyfreithiol a mesurau diogelwch penodol ynghylch gwneud penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd.

11.33. Mae adran 4(10) yn nodi bod triniaeth cynnal bywyd yn driniaeth y mae gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n darparu gofal i'r unigolyn yn ei hystyried fel bod yn angenrheidiol i gynnal bywyd. Ni fydd y penderfyniad hwn yn dibynnu ar y math o driniaeth yn unig. Bydd hefyd yn dibynnu ar yr amgylchiadau y mae'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ei roi. Er enghraifft, mewn rhai sefyllfaoedd gall gwrthfotigau gynnal bywyd, ond mewn sefyllfaoedd eraill, gellir eu defnyddio i drin cyflyrau nad ydynt yn peryglu bywyd.

11.34. Mae'n rhaid i benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd fodloni gofynion penodol:

- Mae'n rhaid eu cyflwyno'n ysgrifenedig. Os na all yr unigolyn ysgrifennu, dylai rhywun arall eu hysgrifennu ar eu rhan. Er enghraifft, gall aelod o'r teulu ysgrifennu'r penderfyniad ar eu rhan, neu gall gweithiwr gofal iechyd proffesiynol eu cofnodi yn nodiadau gofal iechyd yr unigolyn.
- Mae'n rhaid i'r unigolyn lofnodi'r penderfyniad ymlaen llaw. Os na allant wneud hyn, gallant gyfarwyddo rhywun i arwyddo ar eu rhan yn eu presenoldeb. Cyngor da yw nodi'n union yr hyn a wnaed i hwyluso llofnodi gan unigolyn arall.
- Mae'n rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad lofnodi ym mhresenoldeb tyst i'r llofnod. Yna mae'n rhaid i'r tyst lofnodi'r ddogfen ym mhresenoldeb yr unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad ymlaen llaw. Os na all yr unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad ymlaen llaw lofnodi, gall y tyst fod yn dyst iddynt gan gyfarwyddo rhywun arall i lofnodi ar eu rhan. Yna mae'n rhaid i'r tyst lofnodi i nodi eu bod wedi tystio'r unigolyn enwebedig yn llofnodi'r ddogfen o flaen yr unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad ymlaen llaw.
- Mae'n rhaid i'r penderfyniad ymlaen llaw gynnwys datganiad ysgrifenedig clir, penodol gan yr unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad ymlaen llaw bod y penderfyniad ymlaen llaw i fod yn berthnasol i'r driniaeth benodol hyd yn oed os yw eu bywyd mewn perygl.
- Os yw'r datganiad hwn yn cael ei wneud ar adeg wahanol neu mewn dogfen ar wahân i'r penderfyniad ymlaen llaw, mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad ymlaen llaw (neu rywun y maent wedi'u cyfarwyddo i'w lofnodi)) ei lofnodi ym mhresenoldeb tyst ac y mae'n rhaid iddynt hefyd ei lofnodi.

11.35. Mae maeth a hydradiad gyda chymorth clinigol (CANH) wedi'i gydnabod fel math o driniaeth feddygol. Mae CANH yn golygu defnyddio tiwbiau i ddarparu maeth a hylifau i rywun na all eu cymryd trwy'r geg. Mae'n osgoi'r gallu naturiol i lyncu ac mae angen monitro clinigol. Gall penderfyniad ymlaen llaw wrthod CANH. Mae

gwrthod CANH mewn penderfyniad ymlaen llaw yn debygol o arwain at farwolaeth yr unigolyn, os parchir y penderfyniad ymlaen llaw. Mae'n bwysig iawn trafod penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd gyda gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Ond nid yw'n orfodol. Gall gweithiwr gofal iechyd proffesiynol egluro:

- pa fathau o driniaeth a all fod yn driniaeth sy'n cynnal bywyd, ac o dan ba amgylchiadau a
- goblygiadau a chanlyniadau gwrthod triniaeth o'r fath (gweler hefyd, paragraff 9.14)

11.36. Efallai y bydd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol hefyd yn gallu darparu cadarnhad bod gan yr unigolyn y gallu i wneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd.

11.37. Ni all penderfyniad ymlaen llaw wrthod camau gweithredu sydd eu hangen i gadw unigolyn yn gyfforddus (a elwir weithiau'n ofal sylfaenol neu'n hanfodol). Mae enghreifftiau'n cynnwys cynhesrwydd, cysgod, camau gweithredu i gadw unigolyn yn lân a chynnig bwyd a dŵr trwy'r geg. Mae adran 5 y Ddeddf yn caniatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gyflawni'r camau gweithredu hyn er y budd pennaf i'r unigolyn sydd â phrinder gallu i gydsynio (gweler pennod 6).

Pryd ddylai rhywun adolygu neu ddiweddarau penderfyniad ymlaen llaw

11.38. Cynghorir unrhyw un sydd wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw i'w adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd yn ôl yr angen. Nid yw penderfyniadau a wneir ymhell ymlaen llaw yn annilys neu'n anghymwys yn awtomatig, ond gallant godi amheuon wrth benderfynu a ydynt yn ddilys ac yn berthnasol. Mae penderfyniad ysgrifenedig sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd yn fwy tebygol o fod yn ddilys ac yn berthnasol i'r amgylchiadau cyfredol - yn enwedig ar gyfer salwch datblygedig. Mae hyn oherwydd ei bod yn fwy tebygol o fod wedi ystyried newidiadau sydd wedi digwydd ym mywyd unigolyn ers iddynt wneud eu penderfyniad.

11.39. Gall safbwyntiau ac amgylchiadau newid dros amser. Efallai bydd cam newydd mewn salwch unigolyn, datblygiad triniaethau newydd neu newid mawr yn eu hamgylchiadau personol fod yn adeg briodol i adolygu a diweddarau penderfyniad ymlaen llaw. Fodd bynnag, mae'n hanfodol nad oes gan y penderfyniad ymlaen llaw ddyddiad 'yn ddilys tan'.⁹⁹

⁹⁹ Gweler *The X Primary Care Trust .yn erbyn. XB ac Anor* [2012] EWHC 1390 - <https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Fam/2012/1390.html>

Sut y gall rhywun dynnu penderfyniad ymlaen llaw yn ôl?

11.40. Mae adran 24(3) yn caniatáu i bobl ganslo neu ddiwygio penderfyniad ymlaen llaw ar unrhyw adeg tra bod ganddynt y gallu i wneud hynny o hyd. Nid oes unrhyw brosesau ffurfiol i'w dilyn. Gall pobl ganslo eu penderfyniad ar lafar neu'n ysgrifenedig, a gallant ddinistrio unrhyw ddogfen ysgrifenedig wreiddiol. Pan y bo'n bosibl, dylai'r unigolyn a wnaeth y penderfyniad ymlaen llaw ddweud wrth unrhyw un a oedd yn gwybod am eu penderfyniad ymlaen llaw ei fod wedi'i ganslo (gweler 9.41). Gallant wneud hyn ar unrhyw adeg. Er enghraifft, gallant wneud hyn ar eu ffordd i'r theatr lawdriniaeth neu'n union cyn cael anesthetig. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gofnodi bod yr unigolyn wedi canslo'r penderfyniad ymlaen llaw ar lafar yn y cofnodion gofal iechyd. Yna mae hyn yn ffurfio cofnod ysgrifenedig y gellir cyfeirio ato yn y dyfodol.

Sut y gall rhywun wneud newidiadau i benderfyniad ymlaen llaw?

11.41. Gall pobl wneud newidiadau i benderfyniad ymlaen llaw ar lafar neu'n ysgrifenedig (adran 24(3)) p'un ai a wnaed y penderfyniad ymlaen llaw yn ysgrifenedig ai peidio. Mae'n arfer da i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gofnodi newid penderfyniad yn nodiadau gofal iechyd yr unigolyn. Ond os yw'r unigolyn yn dymuno newid penderfyniad ymlaen llaw i gynnwys gwrthod triniaeth cynnal bywyd, mae'n rhaid iddynt ddilyn y gweithdrefnau a ddisgrifir ym mharagraffau 9.24-9.28.

Sut mae penderfyniadau ymlaen llaw yn gysylltiedig â rheolau eraill ynghylch gwneud penderfyniadau?

11.42. Mae penderfyniad ymlaen llaw dilys a pherthnasol i wrthod triniaeth yr un mor effeithiol â gwrthodiad a wneir pan fydd gan unigolyn allu. Felly, mae penderfyniad ymlaen llaw yn diystyru:

- penderfyniad unrhyw Atwrneiaeth Arhosol lles personol a wnaed cyn i'r penderfyniad ymlaen llaw gael ei wneud. Felly, ni all atwrnai roi caniatâd i driniaeth sydd wedi'i gwrthod mewn penderfyniad ymlaen llaw a wnaethpwyd ar ôl i'r Atwrneiaeth Arhosol gael ei llofnodi
- penderfyniad unrhyw ddirprwy a benodwyd gan y llys (felly ni all dirprwy roi caniatâd i driniaeth sydd wedi'i gwrthod mewn penderfyniad ymlaen llaw sy'n ddilys ac yn berthnasol)
- darpariaethau adran 5 y Ddeddf, a fyddai fel arall yn caniatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol roi triniaeth y maent yn credu sydd er y budd pennaf i unigolyn.

11.43. Bydd LPA a wneir ar ôl penderfyniad ymlaen llaw yn gwneud y penderfyniad ymlaen llaw yn annilys, os yw'r LPA yn rhoi'r awdurdod i'r atwrnai wneud

penderfyniadau am yr un driniaeth (gweler paragraff 9.40). Os bydd penderfyniad ymlaen llaw yn cael ei wneud ar ôl gwneud LPA, ni fydd yr atwrnai yn gallu diystyru'r hyn sydd wedi'i ysgrifennu yn y penderfyniad ymlaen llaw. Yn y sefyllfa hon, os bydd angen gwneud penderfyniad am rywbeth nad yw'r unigolyn wedi'i nodi yn y penderfyniad ymlaen llaw, yna bydd yr atwrnai yn gallu gweithredu o hyd.

- 11.44. Gall y Llys Gwarchod wneud datganiadau ynghylch bodolaeth, dilysrwydd a pherthnasedd penderfyniad ymlaen llaw, ond nid oes ganddo bŵer i ddiystyru penderfyniad ymlaen llaw dilys a pherthnasol i wrthod triniaeth.
- 11.45. Pan fydd penderfyniad ymlaen llaw yn cael ei ddilyn, nid yw'r egwyddor budd gorau (gweler pennod 5) yn berthnasol. Mae hyn oherwydd bod penderfyniad ymlaen llaw yn adlewyrchu penderfyniad oedolyn â gallu sydd wedi gwneud y penderfyniad drostynt eu hunain. Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol gofal iechyd ddilyn penderfyniad ymlaen llaw dilys a pherthnasol, hyd yn oed os byddant yn credu ei fod yn mynd yn groes i fuddiannau gorau'r unigolyn.

Penderfyniadau ymlaen llaw ynghylch triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol

- 11.46. Gall penderfyniadau ymlaen llaw wrthod unrhyw fath o driniaeth, p'un ai ar gyfer anhwylder corfforol neu feddyliol. Ond yn gyffredinol, gellir diystyru penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol os yw'r unigolyn yn cael ei gadw yn yr ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, pan ellid rhoi triniaeth yn orfodol o dan Ran 4 y Ddeddf honno. Fodd bynnag, hyd yn oed pan all clinigwyr drin claf yn gyfreithlon yn orfodol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, dylent, lle bo hynny'n ymarferol, geisio cydymffurfio â dymuniadau'r claf fel y'u mynegir yn y penderfyniad ymlaen llaw. Dylent, er enghraifft, ystyried a yw'n bosibl defnyddio math gwahanol o driniaeth na wrthodwyd gan y penderfyniad ymlaen llaw. Os nad ydyw, dylent esbonio pam i'r claf. Nid yw'r ffaith bod yr unigolyn yn cael ei gadw yn yr ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn effeithio ar benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth ar gyfer salwch neu gyflyrau eraill. I gael gwybodaeth bellach gweler pennod 13.

Sut y gall rhywun benderfynu ar fodolaeth, dilysrwydd a pherthnasedd penderfyniadau ymlaen llaw?

Penderfynu a oes penderfyniad ymlaen llaw yn bodoli

- 11.47. Cyfrifoldeb yr unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad ymlaen llaw yw sicrhau y bydd eu penderfyniad yn cael sylw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fydd angen. Bydd rhai pobl yn dymuno i'w penderfyniad gael ei gofnodi ar eu cofnodion gofal iechyd. Bydd angen i'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny ddod o hyd i ffyrdd eraill o dynnu sylw pobl eu bod wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw a lle bydd rhywun

yn dod o hyd i unrhyw ddogfen ysgrifenedig a thystiolaeth gefnogol¹⁰⁰. Mae rhai pobl yn cario cerdyn neu'n gwisgo breichled. Mae hefyd yn ddefnyddiol rhannu'r wybodaeth hon gyda theulu a ffrindiau, a all hysbysu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol am fodolaeth penderfyniad ymlaen llaw. Ond nid yw'n orfodol. Bydd darparu copi o'r ddogfen ysgrifenedig i feddyg teulu'r unigolyn yn caniatáu iddynt gofnodi'r penderfyniad yng nghofnodion gofal iechyd yr unigolyn.

11.48. Mae'n bwysig gallu sefydlu bod yr unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad ymlaen llaw yn 18 oed neu'n hŷn pan oeddent wedi gwneud y penderfyniad, a bod ganddynt y gallu i wneud y penderfyniad hwnnw pan oeddent wedi'i wneud, yn unol â'r prawf gallu a nodir ym mhennod 3. Ond fel yr eglurwyd ym mharagraffau 9.7–9.9 uchod, dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol bob amser ddechrau gyda'r rhagdybiaeth bod gan yr unigolyn y gallu i wneud y penderfyniad ymlaen llaw.

Penderfynu a yw penderfyniad ymlaen llaw yn ddilys

11.49. Mae'n rhaid i benderfyniad ymlaen llaw cyfredol fod yn ddilys o hyd ar yr adeg y mae angen ei roi ar waith. Mae'n rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ystyried y ffactorau yn adran 25 y Ddeddf cyn dod i'r casgliad bod penderfyniad ymlaen llaw yn ddilys. Dyma rai o'r sefyllfaoedd fyddai'n gwneud penderfyniad ymlaen llaw yn annilys:

- tynnodd yr unigolyn y penderfyniad yn ôl tra roedd ganddynt y gallu i wneud hynny
- ar ôl gwneud y penderfyniad ymlaen llaw, gwnaeth yr unigolyn Atwrneiaeth Arhosol (LPA) gan roi awdurdod i atwrnai wneud penderfyniadau ynghylch triniaeth sydd yr un fath â'r rhai a gynhwysir gan y penderfyniad ymlaen llaw (hefyd gweler paragraff 9.33)
- mae'r unigolyn wedi gwneud rhywbeth sy'n amlwg yn anghyson â'r penderfyniad ymlaen llaw sy'n awgrymu eu bod wedi newid eu meddwl. Efallai bod yr unigolyn wedi gwneud rhywbeth anghyson tra nad oedd unrhyw reswm i amau eu gallu i wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae geiriad y Ddeddf hefyd yn cynnwys sefyllfaoedd lle nad oes gan yr unigolyn bellach y gallu i dynnu eu penderfyniad yn ôl neu wneud penderfyniadau am driniaeth feddygol, ond mae'n dangos yn glir eu bod am gael triniaeth a gynhwysir gan y penderfyniad¹⁰¹.

¹⁰⁰ Gweler *GIG Cymbria CCG yn erbyn Rushton* [2018] EWCOP 41 - <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2018/41.html>

¹⁰¹ *Re QQ* [2016] EWCOP 22 - <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2016/22.html>

Senario: Asesu a yw penderfyniad ymlaen llaw yn ddilys

Mae Mr A yn gweld ffrind yn marw ar ôl cael triniaeth hir yn yr ysbyty. Mae Mr A yn gwneud penderfyniad ymlaen llaw wedi'i lofnodi a'i dystio i wrthod triniaeth (ADRT) i'w gadw'n fyw trwy beiriant anadlu os yw'n colli'r gallu i anadlu ar ei ben ei hun. Mae'r ADRT yn cynnwys datganiad y bydd hyn yn berthnasol hyd yn oed os bydd ei fywyd mewn perygl.

Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, mae Mr A yn cael ei anafu'n ddifrifol mewn damwain ffordd. Mae'n cael ei barlysu o'r gwddf i lawr ac ni all anadlu heb gymorth peiriant.

Mae ganddo'r gallu i gydsynio i gael ei drin ac mae'n cymryd rhan mewn rhaglen adsefydlu. Mae hefyd yn trafod gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, teulu a ffrindiau ei ddymuniadau a'i deimladau ynghylch parhau â thriniaeth i fanteisio i'r eithaf ar y siawns y bydd ei gyflwr yn gwella. Mae'n gofyn i'w chwaer fynd i'w gartref i archwilio sut y gellid ei addasu i'w alluogi i ddychwelyd i fyw yno yn y dyfodol ac i wneud trefniadau ar gyfer hyn.

Yn fuan wedi hynny, oherwydd cymhlethdodau annisgwyl yn deillio o'i anafiadau, mae Mr A yn colli ymwybyddiaeth. Ar hap, yn ei gartref mae ei chwaer yn dod o hyd i'w ADRT ysgrifenedig, nad oedd Mr A wedi sôn amdano wrthi.

Mae chwaer Mr A yn ymwybodol bod gweithredoedd Mr A cyn iddo golli ei allu i benderfynu ar ei driniaeth yn groes i'r ADRT. Mae hi'n dangos yr ADRT i aelodau eraill o'r teulu a'i dîm meddygol yn yr ysbyty. Maent yn cytuno bod gweithredoedd Mr A yn dilyn ei ddamwain yn rhoi seiliau rhesymol i amau dilysrwydd y penderfyniad ymlaen llaw.

Maent yn penderfynu ei bod er y budd pennaf i Mr A barhau i roi triniaeth iddo gan gynnwys cymorth gyda'i anadlu, a gwneud cais i'r Llys Gwarchod am benderfyniad mewn perthynas â'r ADRT.

Penderfynu a yw penderfyniad ymlaen llaw yn berthnasol

11.50. I fod yn berthnasol, mae'n rhaid i benderfyniad ymlaen llaw fod yn berthnasol i'r sefyllfa o dan sylw ac o dan yr amgylchiadau presennol. Yn gyntaf mae'n rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol bennu a oes gan yr unigolyn y gallu o hyd i dderbyn neu wrthod triniaeth ar yr adeg berthnasol (adran 25 (3)). Os oes gan yr unigolyn allu, gallant wrthod triniaeth yn y fan a'r lle. Neu gallant newid eu

penderfyniad a derbyn triniaeth. Nid yw'r penderfyniad ymlaen llaw yn berthnasol mewn sefyllfaoedd o'r fath.

11.51. Mae'n rhaid i'r penderfyniad ymlaen llaw hefyd fod yn berthnasol i'r driniaeth a gynigir. Nid yw'n berthnasol i'r driniaeth o dan sylw os (adran 25 (4)):

- nad y driniaeth a gynigir yw'r driniaeth a bennir yn y penderfyniad ymlaen llaw
- bydd yr amgylchiadau'n wahanol i'r rhai a all fod wedi'u nodi yn y penderfyniad ymlaen llaw, neu
- fod sail resymol dros gredu y bu newidiadau mewn amgylchiadau, a fyddai wedi effeithio ar y penderfyniad pe bai'r unigolyn wedi gwybod amdanynt ar yr adeg roeddent wedi gwneud y penderfyniad ymlaen llaw.

11.52. Felly wrth benderfynu a yw penderfyniad ymlaen llaw yn berthnasol i'r driniaeth a gynigir, mae'n rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ystyried:

- pa mor bell yn ôl cafodd y penderfyniad ymlaen llaw ei wneud,
- a fu newidiadau ym mywyd personol y claf (er enghraifft, mae'r unigolyn yn feichiog, ac ni ragwelwyd hyn pan roeddent wedi gwneud y penderfyniad ymlaen llaw) a allai effeithio ar ddilysrwydd y penderfyniad ymlaen llaw, ac
- a fu datblygiadau mewn triniaeth feddygol na ragwelodd yr unigolyn (er enghraifft, meddyginiaethau, triniaeth neu therapïau newydd).

11.53. Er mwyn i benderfyniad ymlaen llaw fod yn berthnasol i driniaeth cynnal bywyd, mae'n rhaid iddo fodloni'r gofynion a nodir ym mharagraffau 9.24-9.28.

Senario: Aseu a yw penderfyniad ymlaen llaw yn berthnasol

Mae gan Mr M ganser y prostad. Mae wedi cydsynio i driniaeth, ond mae hefyd wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaethau treial clinigol penodol, gan ddweud nad yw am fod yn 'arbrwf' i'r alwedigaeth feddygol. Bum mlynedd yn ddiweddarach, mae'n cael ei dderbyn i'r ysbyty yn ddifrifol wael, sy'n cynnwys colli ymwybyddiaeth.

Mae'r meddygon sy'n trin Mr M yn archwilio ei benderfyniad ymlaen llaw. Maent yn ymwybodol y bu datblygiadau mawr mewn triniaeth canser y prostad yn y cyfamser. Maent yn trafod hyn gyda phartner Mr M ac mae pob un ohonynt yn cytuno bod sail resymol i gredu y gall Mr M fod wedi newid ei benderfyniad ymlaen llaw pe bai wedi gwybod am opsiynau triniaeth fwy newydd yn dilyn treialon clinigol llwyddiannus. Felly, mae'r meddygon yn penderfynu nad yw'r penderfyniad ymlaen llaw yn berthnasol i'r triniaethau newydd, a bod rhoi'r driniaeth iddo er ei fudd pennaf.

Os bydd Mr M yn adennill y gallu i wneud penderfyniadau am ei driniaeth, gall ystyried ei benderfyniad ymlaen llaw a derbyn neu wrthod triniaeth yn y dyfodol.

Beth sy'n digwydd i benderfyniadau a wnaed cyn y daeth y Ddeddf i rym?

11.54. Gall penderfyniadau ymlaen llaw a wnaed cyn i'r Ddeddf ddod i rym fod yn ddilys ac yn berthnasol o hyd. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ddefnyddio'r rheolau yn y Ddeddf i hyrwyddo penderfyniadau a wnaed cyn i'r Ddeddf ddod i rym, yn ddarostyngedig i'r amddiffyniadau trosiannol a oedd yn berthnasol i benderfyniadau ymlaen llaw sy'n gwrthod triniaeth cynnal bywyd

Beth yw'r goblygiadau sydd gan benderfyniadau ymlaen llaw ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol?

Beth yw cyfrifoldebau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol?

11.55. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fod yn ymwybodol:

- gall claf y maent yn cynnig ei drin wedi gwrthod triniaeth ymlaen llaw,
- bod gan benderfyniadau ymlaen llaw dilys a pherthnasol i wrthod triniaeth yr un statws cyfreithiol â phenderfyniadau a wneir gan bobl â gallu ar adeg y driniaeth,

- bod penderfyniadau ymlaen llaw dilys a pherthnasol i wrthod triniaeth yn berthnasol ar ddechrau a thrwy gydol y driniaeth
- pan fydd claf yn derbyn triniaeth nad ydynt wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw i'w gwrthod, ond bod eu cyflwr yn newid ac yn gofyn am driniaeth wahanol, efallai eu bod wedi gwneud penderfyniad dilys a pherthnasol i wrthod y driniaeth honno.

11.56. Pan fo hynny'n briodol, wrth drafod opsiynau triniaeth gyda phobl sydd â gallu, dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ofyn a oes unrhyw fathau penodol o driniaeth nad ydynt am eu derbyn os nad oes ganddynt y gallu i gydsynio yn y dyfodol.

11.57. Os bydd rhywun yn dweud wrth weithiwr gofal iechyd proffesiynol bod penderfyniad ymlaen llaw yn bodoli ar gyfer claf sydd bellach â phrinder gallu i gydsynio, dylent wneud ymdrechion rhesymol i ganfod beth yw'r penderfyniad. Gallai ymdrechion rhesymol gynnwys cael trafodaethau gyda pherthnasau'r claf, edrych yn nodiadau clinigol y claf sydd gan yr ysbyty neu gysylltu â meddyg teulu'r claf.

11.58. Unwaith y byddant yn gwybod y gall penderfyniad ymlaen llaw ar lafar neu'n ysgrifenedig fod wedi'i wneud, mae'n rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol bennu a yw:

- yn bodoli, fel dogfen (os cafodd un ei chreu), yn ogystal â mater o gyfraith, h.y. bod gan yr unigolyn y gallu i'w wneud (gweler paragraff 11.47 – 11.48) -
- ei fod yn ddilys (gweler paragraff 11.49), a
- ei fod yn berthnasol i'r driniaeth a gynigir (gweler paragraffau 11.50-11.53).

11.59. Wrth sefydlu a yw penderfyniad ymlaen llaw yn berthnasol i'r amgylchiadau cyfredol, dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gymryd gofal arbennig os nad yw'n ymddangos bod y penderfyniad wedi'i adolygu neu'i ddiweddarau ers cryn amser. Os yw amgylchiadau presennol yr unigolyn yn sylweddol wahanol i'r rhai hynny pan gafodd y penderfyniad ei wneud, efallai na fydd y penderfyniad ymlaen llaw yn berthnasol. Efallai bydd pobl sy'n agos at yr unigolyn o dan sylw, neu unrhyw un a enwir yn y penderfyniad ymlaen llaw, yn gallu helpu i egluro dymuniadau blaenorol yr unigolyn.

11.60. Os bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn fodlon bod penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth yn ddilys ac yn berthnasol, mae'n rhaid iddynt ei ddilyn a pheidio â darparu'r driniaeth a wrthodwyd yn y penderfyniad ymlaen llaw.

11.61. Os na fydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn fodlon bod penderfyniad ymlaen llaw yn bodoli sy'n ddilys yn ogystal ag yn berthnasol, gallant drin yr unigolyn ond dylent fod yn ymwybodol y gallent gael eu cyhuddo o ymosod. Mae'n rhaid i'r driniaeth fod er y budd pennaf i'r unigolyn (gweler pennod 5). Yn achos amheuaeth ynghylch bodolaeth, dilysrwydd neu berthnasedd, dylai gweithwyr gofal iechyd

proffesiynol bob amser ystyried (gyda chynghor cyfreithiol fel arfer) a oes angen cyflwyno cais i'r Llys Gwarchod.

11.62. Gall y Llys Gwarchod ddatrys anghytundebau ynghylch bodolaeth, dilysrwydd neu berthnasedd penderfyniad ymlaen llaw. Mae adran 26 y Ddeddf yn caniatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol roi'r driniaeth angenrheidiol, gan gynnwys triniaeth cynnal bywyd, i atal cyflwr unigolyn rhag gwaethygu'n ddifrifol tra bydd y llys yn penderfynu.

11.63. Os nad yw penderfyniad ymlaen llaw yn ddilys neu'n berthnasol i'r amgylchiadau cyfredol:

- mae'n rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ystyried y penderfyniad ymlaen llaw fel rhan o'u hasesiad budd pennaf i'r unigolyn (gweler pennod 5) os oes ganddynt sail resymol i feddwl ei fod yn fynegiant cywir o ddymuniadau'r unigolyn
- mae'n rhaid iddynt beidio â chymryd yn ganiataol, oherwydd bod penderfyniad ymlaen llaw naill ai'n annilys neu nad yw'n berthnasol, y dylent bob amser ddarparu'r driniaeth benodol (gan gynnwys triniaeth cynnal bywyd) - mae'n rhaid iddynt seilio'r penderfyniad hwn ar yr hyn sydd er y budd pennaf i'r unigolyn.

A yw penderfyniadau ymlaen llaw yn berthnasol mewn achosion brys?

11.64. Mae'n rhaid i weithiwr gofal iechyd proffesiynol ddarparu triniaeth frys er y budd gorau i'r claf, oni bai eu bod yn fodlon bod penderfyniad ymlaen llaw sy'n:

- ddilys, ac
- yn berthnasol yn yr amgylchiadau

11.65. Ni ddylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol oedi triniaeth frys i chwilio am benderfyniad ymlaen llaw os nad oes arwydd clir bod un yn bodoli. Ond os yw'n amwg bod unigolyn wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw sy'n debygol o fod yn berthnasol, dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol asesu ei ddilysrwydd a'i berthnasedd cyn gynted â phosibl. Weithiau, gall hyn fod yn anodd pan fydd angen gwneud penderfyniadau brys ynghylch triniaeth,.

Pryd gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fod yn atebol?

11.66. Mae'n rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ddilyn penderfyniad ymlaen llaw os byddant yn fodlon ei fod yn bodoli, yn ddilys ac yn berthnasol i'w hamgylchiadau. Gallai methu â dilyn penderfyniad ymlaen llaw yn y sefyllfa hon arwain at hawliad am iawndal am guro neu gyhuddiad troseddol o ymosod.

11.67. Ond fe'u diogelir rhag atebolrwydd os na fyddant:

- yn ymwybodol o benderfyniad ymlaen llaw, neu

- eu bod yn fodlon bod penderfyniad ymlaen llaw yn bodoli, yn ddilys ac yn berthnasol i'r driniaeth benodol a'r amgylchiadau cyfredol (adran 26 (2)).

11.68. Unwaith y byddant yn ymwybodol o'r penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth, dylai'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ystyried a ddylid parhau â'r driniaeth.

11.69. Bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael eu hamddiffyn rhag atebolrwydd am fethu â darparu triniaeth os byddant yn 'credu'n rhesymol' bod penderfyniad ymlaen llaw dilys a pherthnasol i wrthod triniaeth yn bodoli. Ond mae'n rhaid iddynt allu dangos bod eu cred yn rhesymol (adran 26(3)) a chyfeirio at seiliau rhesymol sy'n dangos pam eu bod yn credu hyn. Gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol seilio'u penderfyniad yn unig ar y dystiolaeth sydd ar gael ar yr adeg mae angen iddynt ystyried penderfyniad ymlaen llaw.

11.70. Efallai y bydd rhai sefyllfaoedd yn ddigon ynddynt eu hunain i godi pryderon ynghylch bodolaeth, dilysrwydd neu berthnasedd penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth. Gallai'r rhain gynnwys sefyllfaoedd pan fydd:

- anghytundeb rhwng perthnasau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ynghylch a oedd sylwadau ar lafar yn benderfyniad ymlaen llaw mewn gwirionedd
- tystiolaeth am gyflwr meddwl yr unigolyn yn codi cwestiynau am eu gallu ar yr adeg roeddent wedi gwneud y penderfyniad (gweler paragraffau 9.7–9.9)
- tystiolaeth o newidiadau pwysig yn ymddygiad yr unigolyn cyn iddynt gollu gallu a allai awgrymu newid meddwl.

11.71. Mewn achosion lle erys amheuaeth ynghylch bodolaeth, dilysrwydd a/neu berthnasedd penderfyniad ymlaen llaw na ellir ei ddatrys mewn unrhyw ffordd arall, dylid dwyn y mater gerbron y llys cyn gynted â phosibl (gweler 9.75 i 9.78).

Beth os oes gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol wrthwynebiad cydwybodol i ddarparu neu roi terfyn ar driniaeth sy'n cynnal bywyd?

11.72. Efallai y bydd rhai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn anghytuno mewn egwyddor â hawliau cleifion i wrthod triniaeth cynnal bywyd. Nid oes rhaid iddynt wneud rhywbeth sy'n mynd yn groes i'w credoau. Ond mae'n rhaid iddynt beidio â throi cefn ar gleifion neu achosi i'w gofal ddiodef.

11.73. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gyfleu eu barn yn glir i'r claf a'r tîm gofal iechyd cyn gynted ag y bydd rhywun yn codi'r pwnc o atal, rhoi terfyn ar neu ddarparu triniaeth sy'n cynnal bywyd. Yna dylai cleifion sydd â gallu o hyd gael yr opsiwn i drosglwyddo eu gofal i weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, os yw'n bosibl gwneud hyn heb effeithio ar eu gofal.

11.74. Mewn achosion pan fydd gan y claf brinder gallu nawr ond mae wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw dilys a pherthnasol i wrthod triniaeth na all meddyg neu weithiwr iechyd proffesiynol gydymffurfio ag ef, am resymau cydwybod, dylai'r trefniadau i reoli gofal y claf gael eu trosglwyddo i weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall¹⁰². Pan na ellir cytuno ar drosglwyddiad, gall y Llys Gwarchod gyfarwyddo'r rhai hynny sy'n gyfrifol am ofal iechyd yr unigolyn (er enghraifft, ymddiriedolaeth, meddyg neu weithiwr iechyd proffesiynol arall) wneud trefniadau i gymryd cyfrifoldeb dros ofalu am iechyd yr unigolyn (adran 17 (1)(e)).

Beth fydd yn digwydd os bydd anghytundeb ynghylch penderfyniad ymlaen llaw?

11.75. Ar ddiwedd y dydd, cyfrifoldeb y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gyfrifol am ofal yr unigolyn pan fydd angen y driniaeth yw penderfynu a oes penderfyniad ymlaen llaw sy'n ddilys ac yn berthnasol o dan yr amgylchiadau. Os bydd anghytundeb ynghylch penderfyniad ymlaen llaw rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, neu rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac aelodau o'r teulu neu eraill sy'n agos at yr unigolyn, mae'n rhaid i'r uwch-glinigydd ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael. Mae hyn yn debygol o fod yn ymgynghorydd ysbyty neu'n feddyg teulu lle mae'r unigolyn yn cael ei drin yn y gymuned.

11.76. Efallai y bydd angen i'r uwch-glinigydd ymgynghori â chydweithwyr perthnasol ac eraill sy'n agos at y claf neu'n gyfarwydd ag ef. Dylai'r holl staff sy'n ymwneud â gofal yr unigolyn gael cyfle i fynegi eu barn. Os yw'r unigolyn yn yr ysbyty, efallai y bydd gan eu meddyg teulu wybodaeth berthnasol hefyd.

11.77. Ni ddylid cynnal trafodaethau o'r fath er mwyn ceisio diystyru penderfyniad ymlaen llaw yr unigolyn ond yn hytrach ceisio dod o hyd i dystiolaeth ynghylch ei ddilysrwydd a chadarnhau ei gwmpas a'i berthnasedd i'r amgylchiadau presennol. Dylid cofnodi manylion y trafodaethau hyn yng nghofnodion gofal iechyd yr unigolyn. Pan fydd gan yr uwch-glinigydd gred resymol bod penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth feddygol yn ddilys yn ogystal ag yn berthnasol, dylid cydymffurfio â phenderfyniad ymlaen llaw yr unigolyn.

Pryd gall rhywun wneud cais i'r Llys Gwarchod?

11.78. Gall y Llys Gwarchod wneud penderfyniad lle mae amheuaeth neu anghytundeb gwirioneddol ynghylch bodolaeth, dilysrwydd neu berthnasedd penderfyniad ymlaen llaw. Ond nid oes gan y llys y pŵer i wyrdroi penderfyniad ymlaen llaw dilys a pherthnasol.

¹⁰² *Re B (Adult: Refusal of Medical Treatment)* [2002] EWHC 429 (Fam) at paragraph 100(viii) - <https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Fam/2002/429.html>

11.79. Mae gan y llys ystod o bwerau (adrannau 16-17) i ddatrys anghydfodau ynghylch gofal personol a thriniaeth feddygol unigolyn sydd â phrinder gallu (gweler pennod 8). Gall benderfynu:

- a oes gan yr unigolyn y gallu i dderbyn neu wrthod triniaeth ar yr adeg y'i cynigir
- a oedd gan yr unigolyn y gallu i wneud y penderfyniad ymlaen llaw ar y pryd
- a yw penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth yn ddilys,
- a yw penderfyniad ymlaen llaw yn berthnasol i'r driniaeth a gynigir o dan yr amgylchiadau presennol.

11.80. Tra bydd y llys yn penderfynu, gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ddarparu triniaeth sy'n cynnal bywyd neu driniaeth i atal dirywiad difrifol yn eu cyflwr. Mae gan y llys weithdrefnau brys sy'n gweithredu 24 awr y dydd i ddelio ag achosion brys yn gyflym¹⁰³. Gweler pennod 8 i gael canllawiau ar wneud cais i'r llys.

11.81 Pan fydd y llys yn fodlon bod penderfyniad dilys ymlaen llaw i wrthod triniaeth yn bodoli ar gyfer y sefyllfa, ni all wedyn wneud penderfyniad budd pennaf am y driniaeth.

Sut mae datganiadau ymlaen llaw a chynlluniau gofal a chymorth ymlaen llaw yn wahanol i benderfyniadau ymlaen llaw?

11.82. Gellir gwneud datganiadau ymlaen llaw ynghylch unrhyw agwedd o ofal neu lety neu ffordd o fyw. Byddent yn cael eu hystyried fel tystiolaeth o ddymuniadau'r unigolyn pan fydd penderfyniad budd pennaf yn cael ei wneud (pennod 5), fodd bynnag, yn wahanol i benderfyniadau ymlaen llaw, nid yw datganiad ymlaen llaw yn rhwymol mewn cyfraith.

11.83. Defnyddir cynlluniau gofal a chymorth ymlaen llaw i gofnodi dymuniadau triniaeth a gofal fel y gellir eu hystyried pan fydd penderfyniad budd pennaf yn cael ei wneud. Yn debyg i ddatganiadau ymlaen llaw, nid ydynt yn rhwymol mewn cyfraith. Fodd bynnag, gallant gynnwys manylion unrhyw benderfyniad ymlaen llaw, datganiad ymlaen llaw neu LPA iechyd a lles.

¹⁰³ <https://www.gov.uk/emergency-court-of-protection>

12. Beth yw diffiniad Amddifadu o Ryddid?

Gellir defnyddio'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid (LPS) yn unig i awdurdodi trefniadau sy'n arwain at amddifadu o ryddid. Mae'r bennod hon yn cyflwyno ac yn egluro'r hyn a olygir wrth amddifadu o ryddid.

Dylid gofyn am awdurdodiad Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid yn unig os nad oes dewis arall llai cyfyngol ar gael. Felly, mae'n bwysig ystyried yn gyntaf a ellir rhoi trefniadau ar waith nad ydynt yn arwain at amddifadu o ryddid.

Efallai y bydd datblygiadau cyfreithiol pellach yn digwydd ar ôl i'r canllaw hwn gael ei gyhoeddi ac mae angen i staff iechyd a gofal cymdeithasol dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau cyfreithiol a all gael effaith ar eu hymarfer.

Crynodeb cyflym

Rhyddid i adael

- Mae 'rhyddid i adael' yn golygu'r gallu i adael yn barhaol, er enghraifft er mwyn byw lle maent yn dewis, a gyda phwy.

Goruchwyliaeth a rheolaeth barhaus

- Mae 'goruchwyliaeth a rheolaeth barhaus' yn golygu bod yr unigolyn yn cael ei atal rhag gwneud y pethau maent yn dymuno a pheidio â chael eu gadael ar eu pen eu hun am gyfnodau sylweddol yn ystod y dydd.

Cydsyniad a gallu

- *Mae'r prawf gallu lle mae'r trefniadau'n cael eu cynnal yng nghartref yr unigolyn ei hun yn debygol o leihau.*
- **Gellir rhoi caniatâd i amddifadu o ryddid ymlaen llaw mewn achosion lle mae caniatâd dilys wedi'i roi ac nad yw'r amgylchiadau wedi newid ers hynny.**

Triniaeth feddygol

- Ni fydd amddifadu o ryddid yn digwydd mewn achosion lle mae triniaeth feddygol ar gyfer anhwylder corfforol yn cael ei darparu, mewn unrhyw leoliad, sydd, yn y bôn, yr un fath â'r hyn a ddarperir i unigolyn heb anhwylder meddyliol

Beth yw'r tair elfen mewn amddifadu o ryddid?

12.1 Mae'r llysoedd wedi cadarnhau, mewn nifer o achosion, fod tair rhan i amddifadu o ryddid:

- mae'r unigolyn yn cael ei **gyfyngu** mewn man cyfyngedig am gyfnod o amser nad yw'n ddibwys ('yr elfen wrthrychol')
- nid yw'r unigolyn wedi **cydsynio'n** ddilys i'r cyfyngiad hwnnw ('yr elfen oddrychol'), ac
- mae'r wladwriaeth yn **gyfrifol** am y cyfyngiad ('cyflwr priodoli').¹⁰⁴

12.2 Bydd y bennod hon yn egluro ystyr pob un o'r rhain a sut, pan y'u hystyrir gyda'i gilydd, y gallant nodi a yw rhywun yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid. Mae'n bwysig cofio bod yn rhaid i'r tair elfen hon fod ar waith er mwyn i amddifadu o ryddid ddigwydd.

Pryd mae cyfyngu'n digwydd?

12.3 Er mwyn i unigolyn gael ei amddifadu o'u rhyddid, mae'n rhaid eu cyfyngu mewn man cyfyngedig am gyfnod o amser nad yw'n ddibwys .

12.4 Dylai'r man cychwyn wrth asesu a oes cyfyngu yn yr ystyr hwn bob amser fod yn "sefyllfa bendant" yr unigolyn. Bydd yn ofynnol ystyried ystod eang o feini prawf megis:

- **hyd** y mesurau,
- **effeithiau'r** mesurau, gan gynnwys unrhyw galedi y mae'r unigolyn wedi'i ddioddef o ganlyniad, a'r
- **math** o fesur a'r **dull** o'i weithredu, gan gynnwys y cyd-destun a'r amgylchiadau penodol.¹⁰⁵

12.5 Nid yw bodloni un o'r meini prawf hyn o reidrwydd yn golygu bod cyfyngiad, ond gall y cyfuniad o'r rhain wedi'u hystyried gyda'i gilydd ddod i'r canlyniad hwnnw. Fodd

¹⁰⁴ Er enghraifft, *Storck yn erbyn Germany* (2005) 43 EHRR 96 (Rhif Cais 61603/00) at [74] ac [89].

¹⁰⁵ Fel yr uchod.

bynag, os gweithredir un mewn ffordd arbennig o gyfyngol, gallai hyn olygu bod cyfyngiad yn digwydd.

- 12.6 Y gwahaniaeth rhwng cyfyngu a chyfyngu ar ryddid yw “dim ond un o radd neu ddwyster, ac nid un o natur na sylwedd”. Mewn geiriau eraill, nid yw'n ymwneud â natur y mesurau a ble maent yn digwydd; ond sut y'u cymhwysir. Mae adran 6 y Ddeddf yn datgan na fydd defnyddio ataliad - sy'n eithaf tebyg i gyfyngu - yn denu amddiffyniad rhag atebolrwydd oni bai bod yr unigolyn sy'n cymryd y camau'n credu'n rhesymol ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn atal niwed i'r unigolyn; mae'n rhaid i'r ataliad hefyd fod yn ymateb cymesur i'r tebygolrwydd o niwed a difrifoldeb y niwed hwnnw.

Sut mae hyd yn diffinio cyfyngu?

- 12.7 Er mwyn i amddifadu o ryddid ddigwydd, mae'n rhaid i unigolyn gael ei gyfyngu am fwy na chfnod dibwys o amser. Nid oes diffiniad sefydlog o ba mor hir fyddai cyfnod o'r fath; bydd yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau unigol. Gall unigolyn gael ei gyfyngu am gyfnod hir a pheidio â chael eu hamddifadu o'u rhyddid, ond gall cyfyngiad am gyfnod byr iawn gael ei ystyried yn amddifadu o ryddid.
- 12.8 Serch hynny, fel rheol gyffredinol, po hiraf y cyfyngiad, y cryfaf yw'r achos dros ganfod bod amddifadu o ryddid wedi digwydd; mae cyfnod byrrach yn dibynnu'n fwy ar ffactorau eraill.
- 12.9 Wrth benderfynu a fydd cyfyngu am gyfnod byr yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, bydd angen ystyried y ffactorau canlynol yn benodol. Bydd presenoldeb unrhyw un o'r rhain yn ei gwneud hi'n fwy tebygol bod, neu y bydd, amddifadu o ryddid yn digwydd:
- defnyddio neu fygwth grym neu orfodaeth,
 - dulliau o ataliad sy'n cael eu hystyried yn rhai sylweddol neu ddifrifol, a
 - chanlyniadau'r cyfyngiadau.
- 12.10 Os na fydd amddifadu o ryddid yn codi oherwydd bod hyd y cyfnod yn ddibwys, yna mae'n debygol mai cyfyngiad o ryddid yw'r weithred, a gallwch ddibynnu ar adran 6 y Ddeddf (gweler para 12.6), cyhyd ag y bydd y cyfyngiad yn angenrheidiol ac yn gymesur.
- 12.11 Mae'n bwysig nodi nad yw cyfraith achos erioed wedi awgrymu cyfnod penodedig o amser ar gyfer amddifadu o ryddid, ac mae bob amser wedi pwysleisio y bydd yn amrywio yn ôl amgylchiadau unigol.

Beth yw'r prawf ar gyfer cyfyngu?

12.12 Yr achos cyfreithiol domestig mwyaf blaenllaw ynghylch ystyr cyfyngu yw penderfyniad y Goruchaf Lys a elwir yn “Gorllewin Swydd Gaer¹¹. Roedd y penderfyniad hwn yn ymwneud â thri unigolyn, pob un ohonynt â phrinder gallu i gydsynio i'w trefniadau gofal, y mae eu sefyllfa wedi'i chrynhoi isod.

Mr P

Roedd Mr P, 37 oed, yn byw mewn byngalo â staff gyda dau o breswylwyr eraill. Fel rheol roedd dau aelod o staff ar ddyletswydd yn ystod y dydd ac un aelod o staff 'ar ddiun' yn ystod y nos. Roedd angen annog ac helpu Mr P i gyflawni'i holl weithgareddau bywyd bob dydd, symud o gwmpas, bwyta, hylendid personol ac hunanreolaeth. Weithiau roedd angen ymyrraeth arno pan oedd yn arddangos ymddygiad heriol, ond ni ragnodwyd unrhyw feddyginiaeth ymdawelu. Ni allai fynd i unrhyw le neu wneud unrhyw beth heb gefnogaeth un i un. Roedd lefel y gefnogaeth oedd ar gael yn golygu y gallai Mr P adael y cartref yn aml ar gyfer gweithgareddau ac ymweliadau.

MIG a MEG

Roedd MIG a MEG yn chwirydd ag anableddau dysgu, 18 ac 17 oed. Roedd gan MIG broblemau gyda'i golwg a'i chlyw, roedd yn cael anhawster i gyfathrebu, ac roedd angen help arni i groesi'r ffordd oherwydd nad oedd hi'n ymwybodol o berygl. Roedd hi'n byw gyda'i mam faeth roedd yn cyfeirio ati fel 'Mummy'. Roedd ei mam faeth yn rhoi cefnogaeth ddwys iddi gyda'r rhan fwyaf o agweddau ar fywyd bob dydd. Nid oedd MIG ar unrhyw feddyginiaeth. Ni chafodd ei hatal na'i chloi i mewn. Nid oedd hi erioed wedi ceisio gadael y cartref ar ei phen ei hun ac nid oedd wedi dangos unrhyw ddymuniad i wneud hynny, ond, pe bai wedi gwneud hynny, byddai ei mam faeth wedi'i hatal. Roedd MIG yn mynychu coleg addysg bellach bob dydd yn ystod y tymor ac roedd ei mam faeth yn mynd â hi ar deithiau a gwyliau.

Roedd MEG yn byw gyda thri arall mewn cartref preswyl bach y GIG. Roedd hi'n colli ar ei hun weithiau ac roedd ei hymddygiad yn heriol tuag at breswylwyr eraill ac weithiau roedd angen ei hatal yn gorfforol. Rhagnodwyd (a rhoddwyd) meddyginiaeth ymdawelu i MEG i reoli ei phryder. Nid oedd hi mewn amgylchedd o dan glo, ond roedd ganddi gefnogaeth un i un, ac weithiau dau i un. Roedd staff yn gwmni i MEG bob tro y byddai'n gadael y cartref preswyl. Mynychodd yr un coleg addysg bellach â'i chwaer yn ddyddiol yn ystod y tymor ac roedd ganddi fywyd cymdeithasol prysur. Nid oedd yn dangos unrhyw ddymuniad i fynd allan ar ei phen ei hun, felly nid oedd angen ei hatal rhag gwneud hynny. Ond derbyniwyd pe bai wedi ceisio gadael, byddai wedi cael ei hatal neu ei dwyn yn ôl er ei diogelwch ei hun.

¹¹ *P v Cheshire West and Chester Council y P v Surrey CC* [2014] UKSC 19, [2014] AC 896

12.13 Dyfarnodd y Goruchaf Lys gan fwyafrif fod Mr P, MIG a MEG i gyd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid. Wrth roi'r dyfarniad blaenllaw, nododd yr Arglwyddes Hale farn ar nodweddion allweddol y gyfraith achos berthnasol o ran ystyried "sefyllfa bendant" yr unigolyn. Cyfeiriodd at hyn fel y "prawf asid", a oedd yn cynnwys pennu a yw'r unigolyn o dan sylw (1) o dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus / gyson, ac (2) nad yw'n rhydd i adael. Mae'n rhaid bodloni'r ddau amod er mwyn i sefyllfa gael ei hystyried yn un sy'n amddifadu o ryddid.

12.14 Cadarnhaodd yr Arglwyddes Hale hefyd nad oedd y canlynol yn berthnasol i'r cwestiwn a yw unigolyn yn cael ei amddifadu o ryddid:

- **cydymffurfiad** yr unigolyn neu ddiffyg gwrthwynebiad,
- **normalrwydd** cymharol y lleoliad (beth bynnag yw'r gymhariaeth a wnaed), a'r
- **rheswm neu'r pwrpas** y tu ôl i leoliad penodol.

Rhyddid i adael

12.15 Er mwyn cael ei amddifadu o ryddid, mae'n rhaid i'r unigolyn beidio â bod yn rhydd i adael. Y man cychwyn ar gyfer pennu gallu'r unigolyn i adael ddylai fod a all yr unigolyn adael yn barhaol. Nid yw rhyddid i adael yn golygu'n unig y gallu i adael y lle o dan sylw at ddiben, er enghraifft, taith neu ymweld â'r siopau, er y gallai hyn fod yn berthnasol. Mae'n cyfeirio at adael yn yr ystyr bod yr unigolyn yn gallu symud eu hunain yn barhaol er enghraifft er mwyn byw ble a gyda phwy y maent yn dewis neu i symud eu hunain yn barhaol o rywle neu sefyllfa.

12.16 Mae'n bwysig peidio â chysylltu "rhyddid i adael" â "gallu i adael" neu "ymdrechion i adael". Mae hyn yn golygu, er enghraifft, os nad yw'r unigolyn yn ceisio gadael neu fynegi dymuniad i adael, nid yw'n golygu'n awtomatig eu bod yn rhydd i adael. Dylai'r canolbwynt yn lle hynny fod ar weithredoedd (neu gamau gweithredu a gynigir) y rhai hynny sy'n ymwneud â'r unigolyn, yn hytrach na'r unigolyn eu hunain. Er enghraifft, efallai y bydd angen i wneuthurwyr penderfyniad ystyried y cwestiynau canlynol:

- Beth mae cynllun gofal a chymorth yr unigolyn yn ei ddweud am yr hyn a fyddai'n digwydd pe bai'r unigolyn yn ceisio gadael neu'n mynegi dymuniad i adael, neu pe bai ffrind / perthynas eisiau symud yr unigolyn?
- A fyddai camau'n cael eu cymryd i atal yr unigolyn pe bai'n ceisio gadael y lle (gan gynnwys galw'r heddlu i'w dychwelyd)?
- A oes unrhyw gynlluniau pendant ar waith i ymdrin â sefyllfaoedd lle gallai ffrind neu deulu, er enghraifft, geisio cynorthwyo'r unigolyn i adael?
- Pa gymorth (os o gwbl) sydd ar gael i'r unigolyn i'w cynorthwyo i adael?

- A ddywedwyd wrth deulu neu ffrindiau am beidio â symud yr unigolyn o'r llety?
- A ddywedwyd wrth yr unigolyn na chaniateir iddynt fynd adref?

12.17 Bydd angen i chi hefyd ystyried yr opsiynau pendant ymarferol sydd ar gael, yn ogystal â threfn gofal bresennol yr unigolyn. Er enghraifft, os bydd yr unigolyn yn yr ysbyty, efallai y bydd angen ystyried ymarferoldeb dychwelyd gartref - gan gynnwys pa gymorth fyddai ar gael.

12.18 Efallai na fydd unigolyn hefyd yn cael ei ystyried yn rhydd i adael os yw'r opsiynau sydd ar gael iddynt wedi'u cyfyngu neu'u rhagnodi gan rywun arall. Er enghraifft, os yw preswlydd cartref gofal yn cael cynnig un neu fwy o leoliadau cartref gofal amgen yn unig, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu eu bod yn rhydd i adael yn yr ystyr y gallant ddewis byw lle maent yn dymuno. Ond mae hyn yn dibynnu ar a oes opsiynau amgen ar gael; os nad oes gan yr unigolyn "gartref", yna gall cynnig cartrefi gofal amgen olygu bod yr unigolyn mewn gwirionedd yn rhydd i adael.

12.19 Yng Ngorllewin Swydd Gaer, roedd yr anghydfod yn ymwneud â'r trefniadau byw hirdymor lle nad oedd unrhyw gwestiwn a oedd yr oedolion yn gallu gadael y llety ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, ni fydd pob amddifadu o ryddid yn cynnwys cwestiynau preswlio neu drefniadau byw, a bydd angen addasu rhan "gallu i adael" y prawf hwn yn unol â hynny. Er enghraifft, mewn perthynas â threfniadau cludiant bydd angen i chi ystyried a allai'r unigolyn wrthod y cludiant yn gyfan gwbl (h.y. cerdded i ffwrdd a pheidio â chael ei gludo). O ran trefniadau canolfannau dydd, bydd angen i chi ystyried a all yr unigolyn ddewis gadael y ganolfan a gwneud rhywbeth arall yn lle hynny.

12.20 Bydd penderfynu ar ryddid i adael hefyd yn arbennig o heriol pan fydd yr unigolyn yn byw yn eu cartref domestig neu deuluol eu hun, ac efallai, dyma lle maent wedi byw'n hapus am gyfnod sylweddol o amser. Mewn achosion o'r fath, efallai na fydd yn gwneud synnwyr ystyried a yw'n rhydd i adael eu cartref yn barhaol. Yn hytrach, dylid ystyried yr hyn a fyddai'n digwydd pe byddent yn ceisio gadael dros dro, er enghraifft a fyddent yn cael eu rhwystro er mwyn eu hatal rhag cerdded i mewn i'r ffordd a rhoi eu hunain mewn perygl.

Rhyddid i adael: senarios

Mae Mr W yn 21 oed ag anableddau dysgu difrifol, awtistiaeth ac anghenion cymhleth. Mae'n byw mewn cartref preswyl ac nid yw'n gwrthwynebu ei leoliad. Ni all Mr W gydnabod ac amsugno gwybodaeth sy'n ymwneud â'i lety na'i ofal a'i driniaeth. Oherwydd lefel uchel ei anghenion, ni all y teulu edrych ar ei ôl gartref ac nid oes lleoliad arall ar gael i fodloni'i anghenion cymhleth. Ni all adael ei gartref yn barhaol, gan na ellid bodloni'i anghenion mewn man arall. Mae'r cynllun gofal a chymorth yn nodi y byddai'n cael ei atal rhag gadael y cartref pe bai'n ceisio gadael, gan gynnwys ei atal. Nid yw Mr W yn rhydd i adael.

Mae Miss Y yn 22 oed ag anableddau dysgu. Mae'n byw mewn tŷ â chymorth ac nid yw'n gwrthwynebu ei lleoliad. Mae Miss Y hefyd wedi cael cynnig ystod o leoliadau amgen mewn cartrefi gofal, tai gofal ychwanegol a llety a rennir. Fodd bynnag, mae'n well ganddi fyw lle mae hi oherwydd lleoliad y llety (mae ger ei theulu a'r siopau) ac mae'n cyd-dynnu'n dda â'r preswylwyr eraill. Gall Miss Y adael ei llety a byddai'n cael cefnogaeth i symud i lety amgen pe bai am wneud hyn. Mae Miss Y yn rhydd i adael.

Goruchwyliaeth a Rheolaeth Barhaus

12.21 Er mwyn cael eu hamddifadu o'u rhyddid, mae'n rhaid i unigolyn fod o dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus. Mae'n rhaid i'r ddwy elfen fod yn bresennol er mwyn i gyfyngiad ddigwydd; os na, nid oes cyfyngiad.

12.22 Mae'n bwysig nodi bod cryn orgyffwrdd rhwng goruchwyliaeth a rheolaeth. Er enghraifft, yn aml diben yr oruchwyliaeth yw rheoli'r unigolyn (ac i'r gwrthwyneb). Gall y ddau gysyniad ryngweithio â'i gilydd hefyd; gall gradd fawr o un â llai o'r llall fod yn amddifadu o ryddid o hyd, megis os nad yw rhywun bob amser yn cael ei oruchwyllo ond eu bod yn parhau i fod o dan reolaeth lwyr.

12.23 Mewn rhai penderfyniadau, mae'r llysoedd yn cyfeirio at naill ai "parhaus" neu "gyson" mewn perthynas â goruchwyliaeth a rheolaeth; ond mewn penderfyniadau eraill, defnyddir y ddau derm yn gyfnewidiol (fel ym marn Gorllewin Swydd Gaer). Yn ymarferol, nid oes llawer o wahaniaeth ystyr rhwng "parhaus" a "cyson". Fel rheol gyffredinol, dylai gwneuthurwyr penderfyniad osgoi canolbwyntio ar un term ar draul y llall; er enghraifft, gallai edrych ar "barhaus" ar ei ben ei hun arwain at ffocws diangen a di-fudd ar gyfnodau o amser.

12.24 Mae'n bwysig iawn cofio na ddylid bychanu goruchwyliaeth a rheolaeth yn amhriodol fel cefnogaeth. Er enghraifft, o ran MIG (gweler senario uchod) roedd yr oruchwyliaeth a'r rheolaeth gyson/barhaus yn cynnwys mynd i'r coleg a mynd allan ar deithiau gyda chwmni. Gallai cefnogaeth un unigolyn olygu goruchwyliaeth a rheolaeth i rywun arall, a bydd llawer yn dibynnu a yw'r unigolyn yn cael cefnogaeth er mwyn hwyluso rhywbeth y maent wedi mynegi dymuniad i'w wneud (gweler paragraffau 12.36-12.38 i gael mwy o wybodaeth).

Beth yw goruchwyliaeth barhaus?

12.25 Ystyr goruchwyliaeth yw 'monitro' neu 'arsylwi' yr unigolyn er mwyn eu cadw'n ddiogel neu'u diogelu rhag niwed. Mae hyn yn cynnwys goruchwyliaeth 'gwyllo' uniongyrchol, neu oruchwyliaeth anuniongyrchol lle mae'r unigolyn yn cael ei fonitro 'o bell', a lle byddai ymyrraeth pe bai'n ymddangos bod yr unigolyn mewn perygl o niwed.

12.26 Un ffordd o ateb y cwestiwn a yw'r unigolyn yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth barhaus yw gofyn a oes gan yr unigolyn neu'r corff sy'n gyfrifol am yr unigolyn gynllun ar waith sy'n golygu:

- eu bod bob amser yn gwybod ble mae'r unigolyn, ac
- eu bod bob amser yn gwybod beth mae'r unigolyn yn ei wneud, a
- byddent yn ymyrryd i ddiogelu'r unigolyn pe bai mewn perygl o niwed.

12.27 Os yw'r tri yn ddilys, yna gall yr unigolyn fod o dan oruchwyliaeth barhaus. Mae hyn yn arbennig o debygol o fod yn wir os yw'r cynllun yn nodi'r hyn y bydd yr unigolyn neu'r corff sy'n gyfrifol am yr unigolyn yn ei wneud os nad ydynt yn gwybod ble mae'r unigolyn a beth maent yn ei wneud.

12.28 Gall y tri phwynt ym mharagraff 12.26 hefyd fod yn berthnasol o ran beth yw lefel y rheolaeth sydd dros yr unigolyn. Er enghraifft, os yw'r rhai sy'n gyfrifol am yr unigolyn bob amser yn gwybod beth mae'r unigolyn yn ei wneud, efallai mai dyma'r rheswm dros reoli'r hyn y mae'r unigolyn yn ei wneud. Gweler paragraffau 12.31-12.38 i gael mwy o wybodaeth am reolaeth barhaus.

12.29 Mae p'un a yw unigolyn yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth barhaus yn rhywbeth y bydd yn rhaid ei asesu fesul achos, ac wrth wneud hynny bydd yn berthnasol ystyried lleoliad yr unigolyn. Mewn cartref gofal, er enghraifft, bydd unrhyw un o'r canlynol yn aml yn berthnasol wrth asesu lefel yr oruchwyliaeth (yn ogystal â bod yn berthnasol o bosibl i reolaeth):

- A oes gan yr unigolyn amser ar ei ben ei hun yn ei ystafell pryd bynnag y mae eisiau?
- A ydynt yn rhydd i wneud dewisiadau am gamau gweithredu neu weithgareddau?
- A yw'r unigolyn wedi'i gloi dros dro yn ei ystafell?

- A yw'r unigolyn yn ddarostyngedig i gael ei wyllo'n rheolaidd (o leiaf unwaith bob hanner awr)?

12.30 Mewn lleoliadau domestig a chymunedol mae'n bwysig cofio realiti'r sefyllfa. Mae'n ddigon posibl y bydd unigolyn sy'n byw yn eu cartref yng nghwmni rhywun y rhan fwyaf o'r amser oherwydd natur cyd-fyw, ond nid yw hyn o reidrwydd yn gyfystyr â goruchwyliaeth barhaus. Yn benodol, efallai y bydd angen i wneuthurwyr penderfyniad ystyried a oes gan yr unigolyn amser ar ei ben ei hun mewn ystafell, er enghraifft ystafell wely neu ystafell fyw, os byddant yn mynd yno o'u gwirfodd ac a ydynt yn rhydd i adael yr ystafell honno a symud i ystafell arall os byddant yn dymuno. Os bydd yr ateb i'r cwestiynau hyn yn gadarnhaol, nid yw'r unigolyn o reidrwydd o dan oruchwyliaeth barhaus. Ar y llaw arall, os yw'r gofalwr/aelod o'r teulu yn yr un ystafell â'r unigolyn at ddibenion goruchwyliaeth, neu os yw'r gofalwr/aelod o'r teulu bob amser yn dilyn yr unigolyn pan fydd yn symud o un ystafell i'r llall, gallai hyn fod yr un peth â goruchwyliaeth barhaus.

Beth yw rheolaeth barhaus?

12.31 Gellir diffinio rheolaeth yn nhermau rhywun arall sy'n gwneud penderfyniadau o bwys ym mywyd yr unigolyn, gan gynnwys y lle maent yn byw, gweithgareddau y mae'r unigolyn yn ymgymryd â nhw, gyda phwy y maent mewn cysylltiad â nhw, a'u gofal a'u triniaeth. Gall yr unigolyn sy'n gwneud y penderfyniadau fod yn aelod o'r teulu, yn ofalwr cyflogedig neu ddi-dâl, neu'n weithiwr proffesiynol.

12.32 Yn benodol, dylid ystyried y canlynol.

- **Lleoliad:** a yw'r unigolyn wedi penderfynu (naill ai yn y gorffennol pan oedd ganddynt allu neu nawr) ble maent yn dymuno byw, neu wedi nodi eu bod yn hapus neu'n anhapus gyda lle maent yn byw?
- **Gweithgareddau:** Yn y lle maent yn byw, faint o lais sydd ganddynt ynghylch yr hyn maent yn ei wneud bob dydd?
- **Cyswllt:** a oes unrhyw gyfyngiadau ar bwys maent yn eu gweld ac yn ymweld â nhw?
- **Ataliad:** a ydynt yn derbyn **meddyginiaeth** neu'n **gorfforol** wedi'u hatal i raddau sy'n eu hamddifadu o'r gallu i gyflawni eu dymuniadau eu hunain dros fater penodol a chael rhyddid drosto?

12.33 Mewn rhai achosion, gall lefel y gofal y mae'r unigolyn yn ei dderbyn fod yn uniongyrchol gysylltiedig â lefel y rheolaeth. Er enghraifft, efallai y bydd angen gofal a help 24 awr ar unigolyn gyda phob gweithgaredd bywyd bob dydd, mynd o gwmpas, bwyta, hylendid personol ac hunanreolaeth.

12.34 Fodd bynnag, nid yw hyn ynddo'i hun yn golygu bod yr unigolyn yn cael ei reoli'n barhaus, os byddant yn gwneud penderfyniadau sy'n hwyluso eu dymuniadau a'u teimladau eu hunain, megis pryd i fwyta neu'r hyn y maent am ei wneud bob dydd.

Dylai gwneuthurwyr penderfyniad ystyried i ba raddau y maent yn cefnogi'r unigolyn i gyflawni'r tasgau hyn yn unol â barn a'r hyn a fyddai'n well gan yr unigolyn, yn hytrach na rheoli pryd, ble neu sut maent yn cyflawni'r tasgau hyn. Os bydd yr unigolyn yn derbyn cymorth er mwyn hwyluso rhywbeth y maent wedi mynegi dymuniad i'w wneud megis help i fynd ar wibdaith, yna efallai na fydd hyn ar ei ben ei hun yn rheolaeth barhaus.

- 12.35 Yn yr un modd, bydd gan y mwyafrif o amgylcheddau gofal amserlen a bennwyd ymlaen llaw fel rhan o ofal, er enghraifft, amser bwyd ac amser gwely penodol. Byddai'n annhebygol iawn y byddai unrhyw un o'r rhain ar eu pen eu hunain yn cyfrif fel rheolaeth, yn enwedig os oes gan yr unigolyn ryddid o amgylch y digwyddiadau hyn a drefnwyd. Fel rheol gyffredinol, ni ddylid ystyried mesurau sy'n berthnasol i'r holl breswylwyr ac y bwriedir iddynt hwyluso rheolaeth briodol y safle fel rheolaeth. Fodd bynnag, os yw rhannau helaeth o'r dydd wedi'u cau allan o ran y ffaith na chaniateir i'r unigolyn fynd allan neu na all ddewis gwneud rhywbeth gwahanol gyda'u diwrnod gan na fyddai unrhyw un ar gael i'w gwyllo, yna gallai hyn fod yn gyfystyr â rheolaeth.
- 12.36 Mae gallu'r unigolyn i fynd a dod o'u cartref dros dro - yn rheolaidd - weithiau'n gysylltiedig â lefel y rheolaeth sydd drostynt. Mae'n bwysig ystyried a ydynt yn rhydd i wneud eu dewisiadau eu hunain neu a ydynt o dan reolaeth un arall am rannau helaeth o'r diwrnod, ac nad ydynt yn gallu dewis gweithgareddau, lleoliadau ac amseru.
- 12.37 Efallai y bydd adegau pan na fydd gofalwr yn caniatáu i unigolyn adael er mwyn eu diogelwch eu hun, er enghraifft oherwydd bod yr unigolyn yn gysglyd o ganlyniad i gymryd meddyginiaeth. Ni fydd hyn o reidrwydd yn golygu bod yr unigolyn o dan reolaeth barhaus, a gall fod yn gyfyngiad yn unig ar ryddid yr unigolyn er eu budd pennaf. Dylid ystyried hyn fesul achos.
- 12.38 Fodd bynnag, gellir ystyried nad oes angen parhau i reoli rhywun sydd angen cymorth i adael lle ac a allai fod angen cymorth pan fyddant wedi gadael eu cartref. Er enghraifft, efallai na fydd unigolyn yn gallu gadael ar unwaith oherwydd nad oes gofalwr ar gael. Ni fyddai hyn o reidrwydd yn cael ei ystyried yn gyfyngiad, ond dylai gwneuthurwyr penderfyniad ystyried pa mor hir fyddai'r oedi a pha mor aml y byddai'r sefyllfa hon yn digwydd.

Rheolaeth barhaus: senarios

Mae Mrs B yn 83 oed ac mae ganddi ddementia. Mae'n byw mewn cartref preswyl ac nid yw'n gwrthwynebu ei lleoliad. Mae hi'n gofyn yn rheolaidd am fynd i'r siopau a bydd y staff gofal yn mynd gyda hi o leiaf unwaith ar adeg a gytunwyd â Mrs B a'r staff gofal.
Nid yw hyn ynddo'i hun yn rheolaeth barhaus

Mae Mr C yn ddyn 87 oed ac mae ganddo ddementia. Mae'n byw mewn cyfleuster byw â chymorth ac nid yw'n gwrthwynebu ei leoliad. Nid yw Mr C cael mynd allan heb ganiatâd ac mae'n rhaid iddo ddweud wrth staff ble mae'n mynd. Ar y cyfan, mae'n gallu mynd allan ddwy neu dair gwaith yr wythnos ar adeg a bennir gan staff. Pob adeg arall, ei ddewis ef yw sut mae'n treulio'i amser. Mae hyn yn rheolaeth ond nid yw'n gyfystyr â rheolaeth barhaus.

Dyfeisiau ar gyfer monitro anuniongyrchol

12.39 Ni fyddai technoleg a roddwyd ar waith i wella lles unigolyn fel arfer yn cael ei chyfrif ar eu pen eu hun yn oruchwyliaeth neu reolaeth. Enghreifftiau o'r dyfeisiau hyn fyddai:

- technoleg wisgadwy i fonitro iechyd yr unigolyn, e.e. gwirwyr cyfradd curiad y galon ac inswlin, a
- dyfeisiau monitro yn y gegin megis monitor oergell neu fonitor ffwrn/nwy.

12.40 Mewn achosion eraill, mae'n bosibl bod y dechnoleg wedi'i rhoi ar waith i oruchwyllo neu reoli rhywfaint ar yr unigolyn, a dylai gwneuthurwyr penderfyniad ystyried a yw hyn, yn amgylchiadau'r achos, yn gyfystyr â goruchwyliaeth a rheolaeth barhaus. Er enghraifft, mae'r canlynol - ar eu pen eu hunain - yn annhebygol o fod yn oruchwyliaeth a rheolaeth gyson:

- Mae teledu cylch cyfyng yn cael ei ddefnyddio mewn rhai rhannau o lety'r unigolyn,
- os bydd gan yr unigolyn draciwr GPS i fonitro ble maent, ond nid yw'n hysbys beth maent yn ei wneud;
- os bydd y traciwr GPS yn cael ei dynnu neu'i ddiffodd ar adegau penodol, neu os nad yw'r data'n cael eu hadolygu; neu
- os bydd larwm yn cael ei sbarduno pan fydd yr unigolyn yn gadael eu cartref.

12.41 Fodd bynnag, os mai pwrpas y teledu cylch cyfyng, y traciwr neu'r larwm fydd galluogi staff neu ofalwyr i ymateb ac ymyrryd os oedd yr unigolyn mewn perygl o niwed, yna mae hyn yn fwy tebygol o fod yn oruchwyliaeth a rheolaeth gyson.

12.42 Felly, dylai'r gwneuthurwyr penderfyniad bob amser ystyried pwrpas defnyddio technoleg. Mae gwir effaith dyfeisiau o'r fath ar ryddid yn dibynnu nid ar y wybodaeth sy'n cael ei rhoi, ond ar y camau a gymerir mewn ymateb iddynt. Er enghraifft, mae'r oruchwyliaeth a'r rheolaeth yn annhebygol o fod yn gyson os mai pwrpas y dyfeisiau yw sicrhau y gellir lleoli rhywun (heb orfodi eu bod yn dychwelyd), neu sicrhau, os byddant yn mynd i le sydd o berygl posibl, bod awdurdodau o leiaf yn ymwybodol o'r sefyllfa ac anogir yr unigolyn, er na chaiff ei orfodi, i dychwelyd.

Goruchwyliaeth a rheolaeth mewn lleoliadau domestig

12.43 Fel yn achos pennu lefel yr oruchwyliaeth (gweler uchod), mewn lleoliadau domestig a chymunedol mae'n bwysig cofio realiti'r sefyllfa. Mae'r senario ganlynol yn enghraifft lle mae'r unigolyn yn annhebygol o gael ei chyfyngu.

Mrs L

Mae Mrs L yn wraig 93 oed â chlefyd Alzheimer sydd wedi byw mewn fflat (y mae hefyd yn berchen arno) ers bron i 40 mlynedd. Mae ganddi ymdeimlad cryf o berthyn yn ei chartref. Mae trefniadau gofal a diogelwch wedi'u sefydlu ar ei chyfer gan ei merched sy'n oedolion a'r awdurdod lleol. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys:

- mae ffens a dwy giât wedi'u codi er mwyn amgáu ei gardd,
- mae'r drws ffrynt sy'n arwain i'r ardd, wedi'i gloi, ond gall Mrs L ei agor fel y gall fynd i'r ardd pan fydd yn dymuno,
- byddai synwryddion drws yn cael eu gweithredu pe bai Mrs L yn gadael yr eiddo gyda'r nos, a byddai larwm yn canu'n awtomatig yn nhŷ un o'i merched gerllaw ac, os nad oedd ar gael, yn cysylltu â'r gwasanaethau brys. Byddai hyn yn galluogi Mrs L i gael ei thywys yn ddiogel adref, a
- phhecyn gofal wedi'i drefnu gan awdurdod lleol sy'n cynnwys tri ymweliad y dydd gan ofalwyr dementia arbenigol

Mae gan Mrs L ddigon o amser i'w dreulio fel y mae'n dymuno, mae hi wedi'i lleoli yn ei chartref, ac mae amgylchedd ei chartref yn rhoi cryn bleser ac ysgogiad iddi. Mae'r gofalwyr yn ymweld am y lleiafswm sy'n angenrheidiol ar gyfer ei diogelwch a'i lles, sy'n ymwneud yn bennaf â sicrhau ei bod yn bwyta, cymryd hylifau ac yn ymdopi'n gyffredinol mewn agweddau eraill. Nid goruchwyliaeth a rheolaeth barhaus yw'r sefyllfa hon.

12.44 Wrth bennu achosion sy'n debyg i Mrs L, bydd angen i chi ystyried y ffaith bod yr unigolyn yn byw yn eu cartref eu hun fel ffactor perthnasol i'w ystyried. Hynny yw, dylai'r ffactor hwn fod yn un o'r ffactorau i'w hystyried wrth edrych ar sefyllfa bendant yr unigolyn.

Senarios: goruchwyliaeth a rheolaeth barhaus

Jennifer

Mae Jennifer yn ei 80au ac yn byw mewn cartref gofal. Mae ganddi ffurf ysgafn ar ddementia. Tra yn y cartref gofal, gall fynd a dod yn rhydd o fannau cymunedol ac i mewn i'w hystafell. Mae gan y cartref gofal staff sy'n cynnal gwiriad arferol o'r holl ardaloedd, ond nid oes aelod o staff yn bresennol bob amser. Mae gan y cartref gofal ardd fawr y gall Jennifer ei defnyddio fel mae'n dewis, er bod gan yr ardd larwm sy'n cael ei sbarduno os bydd preswlydd yn ceisio gadael yr adeilad. Mae Jennifer fel arfer yn mynd allan unwaith yr wythnos gydag aelod o'r teulu pan fyddant yn ymweld (heb ganiatâd staff) ac weithiau ar wibdeithiau a drefnir gan y cartref gofal.

Casgliad: Nid yw hyn - ynndo'i hun - yn amddifadu o ryddid: nid yw'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn berthnasol. Mae rhywfaint o oruchwyliaeth fel y byddai disgwyl mewn cartref gofal, ond nid yw'n barhaus yn yr ardaloedd cymunedol nac yn ei hystafell breifat. Mae hi hefyd yn gallu gadael dros dro.

Edward

Mae gan Edward ddementia difrifol ac mae'n byw mewn cartref nyrsio sydd wedi'i drefnu gan yr awdurdod lleol. Nid oes ganddo unrhyw le arall i fyw. Mae Edward ar ward o dan glo ac ni chaniateir iddo adael heb ganiatâd a chefnogaeth staff un i un. Mae'n treulio'r rhan fwyaf o'i ddiwrnod mewn ystafell ddydd gymunedol lle mae aelod o'r staff gofal bob amser yn bresennol. Mae'n mynd i'w ystafell wely weithiau yn ystod y dydd ac mae yn ei ystafell yn ystod y nos. Pan fydd yn ei ystafell wely, mae'r tîm gofal yn galw i mewn i'w weld bob rhyw hanner awr.

Casgliad: Nid yw Edward yn rhydd i adael, ac mae'n ddarostyngedig i oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus. Bodlonir y prawf asid a dylid defnyddio'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid.

Marsha

Mae Marsha yn wraig yn ei 40au sydd â sgitsoffrenia. Mae'r cartref gofal fel arfer yn ei chadw yn y cartref gofal tan ganol y bore i sicrhau nad yw'n mynd allan pan fydd hi'n rhy gysglyd neu'n ddryslyd yn dilyn cymryd ei meddyginiaeth yn y bore. Ar ôl yr adeg hon, gall fynd allan ar ei phen ei hun am ba mor hir mae'n dymuno, ar yr amod ei bod yn dychwelyd erbyn 9pm. Gellir dibynnu arni i gadw at yr amod, ond pe na bai'n dychwelyd byddai'r cartref gofal yn hysbysu'r teulu i weld a oeddent yn gwybod lle roedd hi a byddent yn dod â hi adref. Os na wyddys ble oedd hi, byddent yn hysbysu'r heddlu.

Casgliad: Nid yw hyn - ynndo'i hun - yn amddifadu o ryddid ac nid yw'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid yn berthnasol. Nid yw Marsha yn cael ei goruchwyllo'n barhaus, ac nid yw'n ddarostyngedig i reolaeth lwyr. Mae peidio â chael mynd allan ar ôl 11am yn gyfyngiad (er lles ei diogelwch) yn hytrach nag yn amddifadu o ryddid.

Jack

Mae gan Jack ddementia ac mae'n byw mewn cartref gofal. Mae'n dewis treulio tua hanner y dydd yn ei ystafell lle mae'n hoffi gwyllo ffilmiau clasurol. Fel arall, mae'n aros yn yr ystafell fyw neu fwyta, lle mae staff yn mynd i mewn ac allan i gadw llygad ar y preswylwyr. Gall fynd allan i'r ardd, ond os bydd yn ceisio gadael yr ardd bydd yn cael ei dywys yn ôl. Mae'n mynd ar wibdaith grŵp unwaith yr wythnos. Nid oes unrhyw le arall iddo fyw ac ni chaniateir iddo symud allan yn barhaol.

Casgliad: Nid yw Jack yn rhydd i adael yr ardd, ond yn bwysig, nid yw lefel ei oruchwyliaeth yn barhaus. Ni fodlonir y prawf asid

Karim

Mae Karim yn 30 oed ac mae ganddo awtistiaeth, parlys yr ymennydd, nam ar y clyw a'r golwg ac anabledd dysgu. Mae'n byw mewn fflat wedi'i addasu un ystafell wely gyda chefnogaeth 1:1 barhaus. Mae'r staff yn gofalu amdano yno i sicrhau nad yw'n peryglu ei hun. Mae angen caniatâd arno i fynd allan ac mae'n rhaid bod aelod o staff gyda fe drwy'r amser pan fydd yn mynd allan (mae cymorth o'r fath ar gael fel rheol ddau neu dri phrynhawn bob wythnos). Er ei fod yn fodlon yn ei fflat, byddai'n well gan Karim symud yn ôl i fyw gyda'i rieni. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol yn credu bod hyn yn briodol yn bennaf oherwydd na fyddai'i rieni'n gallu ymdopi, ac nid yw'n barod i ddarparu llety arall.

Casgliad: Gan fod Karim o dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus ar sail 1:1 bob amser, ac nid yw'n rhydd i adael yn barhaol, mae'n cael ei amddifadu o'i ryddid a bydd angen y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid arno.

Tom

Mae Tom yn ddyn 30 oed ag anabledd dysgu. Mae'n mynd i'r coleg dri diwrnod yr wythnos. Mae gofalwr yn ei hebrwng ac yn ei gasglu, ond nid yw'n aros gydag ef. Pan fydd yn ei lety a rennir, mae'n aml yng nghwmni ei ofalwr, ond nid yw'n cael ei oruchwyllo trwy'r amser ac mae ganddo fynediad i'w ystafell wely ac i ystafelloedd yn y tŷ lle mae ar ei ben ei hun. Yn y coleg mae'n cael ei oruchwyllo tra yn y dosbarth, ond mae ganddo amser rhydd yn ystod egwyliau.

Casgliad: Nid yw hyn - ynndo'i hun - yn amddifadu o ryddid ac nid yw gweithdrefnau amddiffyn rhyddid yn berthnasol. Mae hyn oherwydd nad yw Tom yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth neu reolaeth barhaus, gan ei fod yn gallu dewis ble i fynd a beth i'w wneud y tu mewn a'r tu allan i'r tŷ.

Jake

Mae Jake yn byw gyda'i wraig, ac mae ganddo ddementia. Mae'r drws ffrynt bob amser wedi'i gloi i'w atal rhag crwydro allan i'r ffordd. Pan fydd ei wraig yn mynd i'r siopau mae hi'n gadael Jake gartref, gyda'r drws wedi'i gloi, ond mae'n gallu crwydro o amgylch y tŷ o hyd. Mae'n ceisio trefnu hyn gyda phryd y bydd gofalwr yn dod i ymweld ag ef. Ond nid yw hyn bob amser yn bosibl. Yn ystod y dydd, gall Jake ddewis beth i'w wneud yn y tŷ, ac er enghraifft mae'n hoffi paentio a darlunio. Nid yw Jake yn gallu mynd allan yn aml, yn bennaf oherwydd nad yw ei wraig yn teimlo y gall edrych ar ei ôl pan fydd y tu allan. Nid yw'r awdurdod lleol yn barod i ddarparu gofalwyr ychwanegol.

Casgliad: Mae Jake yn gaeth i rywfaint o reolaeth ond nid yw'n ddarostyngedig i oruchwyliaeth barhaus. Felly ni fodlonir y prawf asid.

Mina

Mae Nina yn 71 oed ac mae ganddi ddementia. Mae'n byw mewn cartref gofal ac mae angen cymorth arni gyda phob agwedd o'i gofal a'i thriniaeth. Mae'n gallu defnyddio'r ardd fel y mae'n dymuno, ac nid oes unrhyw ddrysau wedi'u cloi nac unrhyw rwystrau eraill i'w hatal rhag gadael y cartref gofal. Ar y mwyafrif o wibdeithiau cymunedol mae staff yn ei hebrwng. Caniateir iddi fynd allan ar ei phen ei hun i siopa neu wneud pethau eraill am oddeutu 30 munud y dydd, gyda chytundeb rheolwr y cartref gofal cyn belled â'i bod yn ddiogel gwneud hynny. Mae Miss K hefyd yn treulio dwy noson yr wythnos gyda'i merch bob pythefnos. Mae'n anhapus yn y cartref gofal ac mae eisiau dychwelyd i'w chartref; mae ei theulu, staff y cartref gofal a'r gweithwyr proffesiynol eraill yn gytûn na all ofalu am ei hun gartref.

Casgliad: Nid yw Mina yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth a rheolaeth gyson, ac felly nid yw'n cael ei hamddifadu o'i rhyddid.

Pobl ifanc a'r prawf asid

12.45 Mae'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid yn berthnasol i bobl ifanc 16 a 17 oed, yn ogystal ag oedolion 18 oed a hŷn. Mae cyfraith achos wedi nodi, o ran pobl ifanc 16 a 17 oed, yn aml y bydd angen defnyddio gwahanol ystyriaethau pan ddaw at y prawf asid; sef, nad yw'r cymharydd ar gyfer yr unigolyn ifanc yn oedolyn aeddfed yn llawn, ond yn hytrach yn unigolyn o'r un oed ac aeddfedrwydd cymharol nad oes ganddo anabledd.¹² Fodd bynnag, yn ymarferol, bydd unigolyn ifanc 16 neu 17 oed o'r un oed ac aeddfedrwydd yn debyg iawn, at ddibenion y cymharydd, fel oedolyn - ac felly efallai mai ychydig iawn o wahaniaeth sydd mewn gwirionedd rhwng yr agwedd tuag at bobl ifanc ac oedolion. Ond mae'n bwysig bwrw ymlaen fesul achos, gan ystyried amgylchiadau gwirioneddol yr unigolyn ifanc.

¹² *Re D (A Child)* [2019] UKSC 42.

Jason

Mae Jason yn byw gartref gyda'i rieni. Mae ganddo anabledd dysgu ac mae'n mynychu ysgol ddydd arbennig o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae ym mlwyddyn 11 yn yr ysgol, ac mae newydd gael ei ben-blwydd yn 16 oed. Yn yr ysgol, mae gan Jason anghenion sy'n gofyn am oruchwyliaeth drwy'r amser pan fydd yn yr ysgol. Mae'n aros gyda gweithiwr cymorth yn ystod amseroedd egwyl, sydd hefyd yn goruchwyllo pobl ifanc eraill, ac felly'n cyfyngu ar sut y gall Jason dreulio ei egwyl. Nid yw'n gallu mynd i ysgol wahanol hefyd, gan nad oes ysgol arall yn ei ardal leol yn gallu bodloni'i anghenion.

Gartref, nid yw rhieni Jason yn ei oruchwyllo trwy'r amser. Mae Jason yn gallu symud o gwmpas ei dŷ fel y mae'n dymuno a gwneud yr hyn y mae ei eisiau, er enghraifft mae'n aml yn penderfynu gwyllo'r teledu yn ei ystafell wely. Ni chaniateir iddo adael y tŷ ar ei ben ei hun, yn wahanol i'w frawd sy'n 15 oed ac nad oes ganddo anabledd dysgu.

Casgliad: Mae Jason yn cael ei amddifadu o'i ryddid yn yr ysgol, gan ei fod bellach yn 16 oed byddai angen awdurdodiad LPS. Gartref, nid yw Jason yn cael ei amddifadu o'i ryddid. Er na all fynd allan ar ei ben ei hun, nid yw ei rieni'n goruchwyllo'r hyn y mae'n ei wneud yn y tŷ yn barhaus.

Sophia

Mae Sophia yn 17 oed ac yn byw gyda'i theulu maeth, y mae wedi byw gyda nhw ers 5 mlynedd. Mae ganddi anabledd dysgu a phroblem niwrolegol sy'n cyfyngu ar ei symudiad corfforol. Felly mae'n rhaid i rieni maeth Sophia fod gyda hi bob amser, er mwyn sicrhau eu bod wrth law os oes angen rhywbeth arni. Weithiau, mae ei rhieni maeth yn gwneud rhywbeth arall tra maent hefyd yn ei gwyllo, megis coginio cinio neu helpu eu plant maeth eraill, ac felly nid yw Sophia yn gallu symud o un ystafell i'r llall na dewis gwneud rhywbeth arall. Mae rhieni maeth Sophia wedi gofalu amdani ers amser hir, ac felly wedi datblygu i fod yn deulu i Sophia. Maent hefyd wedi'u hyfforddi i ofalu am Sophia. Byddai'n bosibl symud Sophia i leoliad maeth arall, ond byddai'n aflonyddu ar ei gofal ac mae'n hapus gyda'i theulu maeth.

Fodd bynnag, bob pythefnos, mae Sophia yn mynd i gyfleuster gofal seibiant preswyl am benwythnos hir. Yn y cyfleuster gofal seibiant, mae gan Sophia ofalwr ymroddedig sy'n ei chynorthwyo dros y Sul. Mae'r gofalwr hwn gyda Sophia bob amser, fodd bynnag, gall dreulio ei hamser fel y mae'n dewis a byddai'r gofalwr yn ei chynorthwyo i newid gweithgaredd neu ystafelloedd yn ôl ei dymuniad. Ni all Sophia wrthod gofal seibiant, ac ni fyddai hawl ganddi i fynd adref pryd bynnag y byddai'n dewis.

Casgliad: Er y gallai Sophia adael y lleoliad maeth, byddai'n cael ei rhoi mewn lleoliad maeth arall ac felly nid yw'n rhydd i adael. Mae hi hefyd yn cael ei goruchwyllo a'i rheoli'n barhaus gartref. Felly mae Sophia'n cael ei hamddifadu o'i rhyddid gartref.

Pan fydd Sophia'n ymweld â'r gwasanaethau seibiant, nid yw'n rhydd i adael. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei rheoli'n barhaus gan y gall ddewis sut mae'n dymuno treulio ei diwrnod. Felly nid yw Sophia yn cael ei hamddifadu o'i rhyddid yn ei gwasanaeth seibiant.

Beth yw ystyr rhoi cydsyniad dilys?

- 12.46 Dylai'r rhan hon o'r canllaw gael ei darllen ar y cyd â phennod 4 ar asesu gallu (gan gynnwys y drafodaeth ar allu cyfnewidiol).
- 12.47 Gellir ystyried unigolyn wedi'i amddifadu o'i ryddid yn unig os nad ydynt wedi darparu "cydsyniad dilys" i'r cyfyngiad o dan sylw. Mae'r llysoedd wedi ystyried, os nad oes gan unigolyn alluedd meddyliol i gydsynio i'r cyfyngiad, yna ni all yr unigolyn roi cydsyniad.¹³
- 12.48 Mae'n rhaid i'r unigolyn ei hun roi'r cydsyniad; felly er enghraifft ni all derbynnydd o dan atwrneiaeth arhosol, neu ddirprwy a benodir gan y Llys Gwarchod, gydsynio i'r trefniadau ar ran yr unigolyn. Mae'n bwysig sicrhau bod caniatâd wedi'i roi yn rhydd ac nad yw'r unigolyn wedi cael ei orfodi na'i roi dan bwysau i'w roi. Pryd bynnag y bo modd, dylid cefnogi'r unigolyn i wneud y penderfyniad drostynt eu hunain.
- 12.49 Ni all rhiant gydsynio i drefniadau a fyddai fel arall yn gyfystyr ag amddifadu plentyn 16 neu 17 oed o'u rhyddid.¹⁴ Mewn achosion o'r fath, fel rheol byddai angen cyflwyno cais i'r llys neu ddefnyddio'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid i awdurdodi'r amddifadu o ryddid.
- 12.50 O ran asesu gallu unigolyn i gydsynio â'r trefniadau, mae'n rhaid i wneuthurwyr penderfyniad roi adrannau 2 a 3 y Ddeddf Galluedd Meddyliol ar waith, a'r egwyddorion yn adran 1. Mae Adran 2 yn nodi
- “... bod unigolyn â phrinder gallu mewn perthynas â mater os nad yw'n gallu gwneud penderfyniad drosto'i hun ar y pryd mewn perthynas â'r mater oherwydd nam ar y meddwl neu'r ymennydd, neu aflonyddwch yng ngweithrediad y meddwl.”
- 12.51 Mae adran 3 yn nodi na all unigolyn wneud penderfyniad os nad yw'n gallu:
- deall y wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad,
 - cadw'r wybodaeth honno,
 - defnyddio neu bwysu a mesur y wybodaeth honno fel rhan o'r broses o wneud y penderfyniad, neu

¹³ *HL yn erbyn UK* (2005) 40 EHRR 32 (App No 45508/99).

¹⁴ *Parthed D (A Child)* [2019] UKSC 42.

- gyfleu eu penderfyniad.

12.52 Felly mae'n bwysig gallu nodi'r wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad er mwyn cydsynio i'r trefniadau o dan sylw. Mae'n rhaid i wneuthurwyr penderfyniad hefyd roi neu ddarparu'r wybodaeth i'r unigolyn ei hun. O ran trefniadau, y man cychwyn fyddai'r wybodaeth ganlynol:

- pa fath o drefniadau sy'n cael eu cynnig,
- pwy fydd yn cyflawni'r trefniadau,
- ble a sut y gweithredir y trefniadau, a
- beth fydd yn digwydd pe na weithredir y trefniadau.

12.53 O ran trefniadau sy'n cael eu cynnal yng nghartref yr unigolyn ei hun, bydd y prawf gallu fel arfer yn llai beichus o'i gymharu â - er enghraifft - trefniadau a wneir mewn ysbyty neu gartref gofal. Yn enwedig, efallai y bydd angen ystyried y pwyntiau canlynol:

- mewn llawer o achosion gall yr unigolyn gydnabod y mathau o drefniadau, gan y byddant yn debyg iawn i'r rhai sydd wedi bod ar waith ers cryn dipyn o amser,
- yn aml bydd yr unigolyn eisoes yn adnabod y rhai sy'n cyflawni'r trefniadau, er enghraifft eu hanwyliaid neu ofalwyr preifat hirdymor.
- gall ble a sut y gweithredir y trefniadau fod yn debyg iawn i'r rhai sydd wedi bod ar waith ers cryn dipyn o amser, a
- gallai'r syniad o'r hyn a fydd yn digwydd pe na weithredir y trefniadau, fod yn llai perthnasol i'w hystyried mewn lleoliad domestig, oni bai bod cynlluniau pendant ar gyfer trefniadau amgen megis lleoliad cartref gofal.

12.54 Felly, o ran lleoliadau domestig, efallai bod yr unigolyn yn fwy tebygol o allu cydsynio i'r trefniadau. Gallai'r dull hwn hefyd fod yn berthnasol mewn lleoliadau eraill, megis cartref gofal neu gartref â chymorth, lle roedd yr unigolyn wedi dewis byw yn y llety cyn iddynt gollu eu gallu i gydsynio a lle maent wedi byw am gyfnod o amser a lle maent wedi dangos ymdeimlad cryf o berthyn.

Cydsyniad ymlaen llaw

12.55 Nid yw amddifadu o ryddid yn digwydd os oes gan yr unigolyn y gallu i gydsynio i'r trefniadau gofal neu driniaeth ac yn cydsynio. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os oes gan yr unigolyn brinder gallu i wneud penderfyniadau ynghylch materion eraill. Fel rheol darperir cydsyniad o'r fath ar yr adeg y mae angen rhoi'r trefniadau ar waith. Ond mewn rhai achosion, gall unigolyn gydsynio ymlaen llaw i drefniadau penodol a fyddai fel arall yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Cyfeirir at hyn yn aml fel cydsyniad ymlaen llaw.

- 12.56 Os rhoddwyd cydsyniad ymlaen llaw, yna nid yw'r unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid. Yn unol â hynny, nid yw'n ofynnol i'r Corff Cyfrifol awdurdodi'r trefniadau trwy'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid.
- 12.57 Dylai'r gallu i roi cydsyniad ymlaen llaw bob amser fod yn agwedd bwysig ar gynllunio gofal. Mae'n sicrhau y gall yr unigolyn gynllunio ymlaen llaw a rhoi eu barn ynghylch y ddarpariaeth a wneir ar gyfer eu gofal neu'u triniaeth yn y dyfodol, ac osgoi gwneud asesiadau diangen a allai beri gofid.
- 12.58 Nid oes cyfyngiad ar ddefnyddio cydsyniad ymlaen llaw mewn lleoliadau penodol, er bod rhai lleoliadau lle gallai fod yn fwy priodol, megis gofal diwedd oes. Byddai hefyd, er enghraifft, yn bosibl defnyddio cydsyniad ymlaen llaw ar gyfer y canlynol:
- cyfres o drefniadau ar gyfer gofal a thriniaeth iechyd meddwl yn yr ysbyty, a fyddai'n golygu y gellid ystyried derbyn anffurfiol i'r ysbyty yn unol ag adran 131 Deddf Iechyd Meddwl 1983, a'r
 - cyfnod yn dilyn llawdriniaeth ddewisol o dan anesthetig cyffredinol, er mwyn ymdrin â chyfnod o ddeliriwm ôl-lawdriniaethol tebygol.
- 12.59 Efallai y gall yr unigolyn golli gallu dros dro, neu fod eu gallu'n gyfnewidiol. Yn yr achosion hyn, mae'n bosibl i'r unigolyn gydsynio i gael eu hamddifadu o'u rhyddid pan fyddant yn colli gallu, cyhyd â bod y cydsyniad wedi'i ddarparu tra bod ganddynt y gallu perthnasol. Pan fo hynny'n briodol, dylid cynorthwyo'r unigolyn i wneud y penderfyniad hwn. Fodd bynnag, ni ddylai awdurdodiad LPA fod ar waith pan fydd gan unigolyn y gallu i roi cydsyniad dilys.

Penderfynu a yw'r cydsyniad ymlaen llaw yn ddilys

- 12.60 Gall unrhyw unigolyn 16 oed neu hŷn sydd â'r gallu i gydsynio i'r trefniadau, roi cydsyniad ymlaen llaw. Er mwyn rhoi cydsyniad ymlaen llaw, dylai'r unigolyn fynegi'r trefniadau penodol y mae'n cydsynio iddynt yn glir. Ni fyddai'r cydsyniad ymlaen llaw yn ddilys pe bai'r unigolyn, er enghraifft, yn gwneud datganiad cyffredinol eu bod yn cydsynio i unrhyw drefniadau gofal neu driniaeth yn y dyfodol a fyddai'n arwain at amddifadu o ryddid.
- 12.61 Mae'r gallu i gydsynio, fel y'i diffinnir gan y Ddeddf, yn benodol i benderfyniad. Mae hyn yn golygu y bydd y gallu i gydsynio i amddifadu o ryddid yn amrywio gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Er enghraifft, mae'r penderfyniad i barhau i fyw mewn amgylchedd cartref, er bod cyfyngiadau ar waith megis bod y drws yn cael ei gloi dros nos yn benderfyniad llai beichus na phenderfyniad i symud yn barhaol i gartref gofal neu ysbyty. Dylai'r gwneuthurwyr penderfyniad felly ystyried natur y penderfyniad wrth bennu a oes gan unigolyn y gallu i gydsynio i'r trefniadau ai peidio.
- 12.62 Dylid darparu tystiolaeth i ddangos bod cydsyniad wedi'i roi ymlaen llaw. Dylid cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- manylion llawn yr unigolyn sy'n darparu cydsyniad ymlaen llaw, gan gynnwys dyddiad geni, a chyfeiriad cartref;
- enw a chyfeiriad y gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol sy'n ymwneud â gofal neu driniaeth yr unigolyn ac a oes ganddynt gopi o'r ddogfen;
- datganiad y dylid defnyddio'r ddogfen os bydd fyth gan yr unigolyn brinder gallu i gydsynio i'r trefniadau o dan sylw;
- datganiad clir o'r trefniadau y mae'r cydsyniad yn berthnasol iddynt, a'r amgylchiadau y bydd yn berthnasol iddynt;
- y dyddiad yr ysgrifennwyd y ddogfen (neu y'i hadolygwyd);
- llofnod yr unigolyn (neu llofnod rhywun y mae'r unigolyn wedi gofyn i'w lofnodi ar eu rhan ac yn eu presenoldeb);
- llofnod yr unigolyn sy'n dyst i'r llofnod, os oes un (neu ddatganiad sy'n cyfarwyddo rhywun i lofnodi ar ran yr unigolyn) yn cadarnhau bod gan yr unigolyn allu ar yr adeg honno i wneud y penderfyniad ymlaen llaw.

12.63 Os yw'r unigolyn wedi rhoi cysyniad ymlaen llaw i drefniadau penodol ar yr adeg honno, ni fydd yn parhau i fod yn ddilys os:

- bydd yr unigolyn yn tynnu eu cydsyniad yn ôl pan fydd ganddynt y gallu i wneud hynny;
- bydd sail resymol i gredu bod amgylchiadau'n bodoli nad oedd yr unigolyn yn eu rhagweld ar yr adeg y rhoddwyd cydsyniad ymlaen llaw ac a fyddai wedi effeithio ar eu penderfyniad pe bai ef neu hi wedi'u rhagweld;
- bydd yr unigolyn yn gwneud unrhyw beth arall sy'n amlwg yn anghyson â'r cydsyniad ymlaen llaw gan lynu wrth eu penderfyniad sefydlog. Gan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos, gallai hyn gynnwys lle bydd yr unigolyn wedi gwneud datganiad pellach sy'n amlwg yn anghydnaws â'r cydsyniad ymlaen llaw, neu lle mae'r trefniadau'n amlwg yn achosi lefel o bryder i'r unigolyn; neu
- daw tystiolaeth i'r amlwg sy'n dangos bod yr unigolyn wedi'i orfodi neu o dan bwysau i roi cydsyniad ymlaen llaw.

12.64 Mae angen ystyried pa mor bell yn ôl y rhoddwyd y cydsyniad ac a fu unrhyw newid sylweddol yn amgylchiadau'r unigolyn. Dylai gwneuthurwyr penderfyniad hefyd fodloni na roddwyd pwysau ar yr unigolyn i roi cydsyniad. Nid oes rhaid ysgrifennu cydsyniad a roddir ymlaen llaw o reidrwydd, ond ni ellir ei awgrymu na'i dybio.

12.65 Yn ogystal, ni fyddai cydsyniad ymlaen llaw yn ddilys os yw'r cydsyniad ymlaen llaw yn cynnwys cyfnod amser y mae'n ddilys ynddo, a bod y cyfnod hwnnw wedi dod i ben. Er enghraifft, gall yr unigolyn gydsynio ymlaen llaw i drefniadau penodol mewn ysbyty am hyd at wythnos, er mwyn adlewyrchu hyd disgwylidig y driniaeth. Byddai'r cydsyniad ymlaen llaw yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod a nodwyd.

Penderfynu a yw'r cydsyniad ymlaen llaw yn berthnasol

- 12.66 Yr unig dro y mae cydsyniad ymlaen llaw yn berthnasol yw os gwnaed y trefniadau pan nad oedd gan yr unigolyn a roddodd y cydsyniad y gallu i roi neu atal cydsyniad. Mae'n rhaid i'r trefniadau ddod o fewn y paramedrau a bennir gan y cydsyniad ymlaen llaw.
- 12.67 Gellir defnyddio cydsyniad ymlaen llaw'n unig ar gyfer trefniadau sy'n galluogi darparu gofal neu driniaeth ac a fyddai fel arall yn arwain at amddifadu o ryddid. Ni all, er enghraifft, wasanaethu fel cydsyniad i driniaeth neu driniaethau meddygol penodol na galw am fath penodol o ofal neu driniaeth.
- 12.68 Byddai gan y Llys Gwarchod y pŵer o dan adran 15(1)(c) y Ddeddf i ddatgan a yw cydsyniad ymlaen llaw yn bodoli, yn ddilys, neu'n berthnasol i drefniadau penodol, naill ai wedi'u cynnig neu wedi'u rhoi ar waith.

Atwrneiaeth arhosol a dirprwyon a benodwyd gan y llys

- 12.69 O dan y Ddeddf, ni all derbynnydd o dan atwrneiaeth arhosol, neu ddirprwy a benodir gan y Llys Gwarchod, gydsynio ar ran unigolyn i drefniadau sy'n arwain at drefniadau a fyddai fel arall yn amddifadu'r unigolyn hwnnw o ryddid. Fodd bynnag, gallai atwrneiaeth arhosol neu ddirprwyaeth gydfodoli â chydsyniad ymlaen llaw. Felly, gallai derbynnydd neu ddirprwy gydsynio ar ran yr unigolyn i'w derbyn i'r lleoliad gofal perthnasol. Os byddai'r unigolyn hefyd wedi rhoi cydsyniad dilys ymlaen llaw a oedd yn berthnasol i'r trefniadau a wnaed ar gyfer eu gofal neu'u triniaeth, ni fyddai unrhyw gyfyngu roeddent yn ddarostyngedig iddo yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, ac ni fyddai angen ei awdurdodi o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid.

Monitro

- 12.70 Pan fydd gwneuthurwr penderfyniad yn dibynnu ar gydsyniad ymlaen llaw mewn amgylchiadau lle byddai fel arall yn gwneud cais am awdurdodiad o dan LPS, dylai hysbysu'r corff a fyddai fel arall yn Gorff Cyfrifol ar unwaith. Mewn achosion lle mae corff gwahanol yn ymwneud â threfnu'r gofal neu'r driniaeth, dylid hysbysu'r corff hwnnw ar yr un pryd. Dylai'r Corff Cyfrifol sicrhau y cynhelir adolygiadau rheolaidd o ofal a thriniaeth yr unigolyn, i fodloni ei hun bod y cydsyniad ymlaen llaw yn parhau'n ddilys ac yn berthnasol. Os bydd gan staff neu aelodau teulu/ffrindiau bryderon ynghylch camdefnyddio cydsyniad ymlaen llaw mewn achosion unigol, dylent gysylltu â'r awdurdod lleol i ddechrau ymchwiliad diogelu o dan adran 42 y Ddeddf Gofal, adran 47 Deddf Plant 1989, neu adran 126 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cyfrifoldeb y Wladwriaeth

12.71 Mae'n rhaid i gyfyngu fod yn briodoladwy i'r Wladwriaeth er mwyn i amddifadu o ryddid ddigwydd. Mae hyn yn golygu bod gan y Wladwriaeth, i ryw raddau, yn yr achos hwn, gorff y GIG, awdurdod lleol, ryw lefel o gyfrifoldeb am y cyfyngiad hwnnw. Bydd y Wladwriaeth yn uniongyrchol gyfrifol os bydd y cyfyngu'n digwydd mewn ysbyty neu gartref gofal sy'n cael ei redeg gan awdurdod cyhoeddus (megis y GIG), neu os yw'r unigolyn wedi'i roi mewn cartref gofal gan gorff megis awdurdod lleol.

12.72 Ond gall cyfrifoldeb y Wladwriaeth godi hyd yn oed heb hyn.

- Yn gyntaf, bydd yn digwydd os bydd achos llys yn cael ei gynnal ac nad yw'r llys o dan sylw wedi cymhwyso Erthygl 5 yr ECHR yn iawn, ac
- Yn ail, o dan Erthygl 5 bod rhwymedigaeth gadarnhaol ar y Wladwriaeth i amddiffyn ei holl ddinasyddion rhag ymyrraeth â'u rhyddid, boed hynny gan gyrff cyhoeddus neu gan unigolion preifat. Felly mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus weithredu i amddiffyn unigolion, gan gynnwys camau rhesymol i atal amddifadu o ryddid y mae neu y dylai'r awdurdodau fod â gwybodaeth amdano.¹⁵

12.73 Mae hyn yn golygu y gall y trefniadau fod yn briodoladwy i'r Wladwriaeth o ganlyniad naill ai o "gyfranogiad uniongyrchol" y Wladwriaeth wrth gadw'r unigolyn neu o rwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth i amddiffyn yr unigolyn rhag ymyrraeth â'u rhyddid a gyflawnir gan unigolion preifat (h.y. cyfrifoldeb anuniongyrchol). Isod mae enghraifft o gyfrifoldeb anuniongyrchol y wladwriaeth ar gyfer amddifadu o ryddid.

Mr K

Mae Mr K yn 38 oed ac o ganlyniad i ddamwain ffordd, cafodd anaf sylweddol i'w ymennydd ac anabledau eraill. Nid oes ganddo'r gallu i wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'i ofal a'i driniaeth, a materion ariannol. Dyfarnwyd iawndal sylweddol i Mr K a gymeradwywyd gan y llys mewn achos sifil. Penodwyd dirprwy (corfforaeth ymddiriedolaeth) gan y Llys Gwarchod i reoli cyllid Mr K a gwneud pob penderfyniad ynghylch ei eiddo a'i faterion personol.

Mae angen cymorth ar Mr K gyda phob agwedd o ofal personol a bywyd pob dydd. Mae angen gofal a chymorth 24 awr arno saith niwrnod yr wythnos. Mae ei allu i gyfathrebu'n gyfyngedig iawn. Mae ei drefn gofal 24 awr - gan gynnwys addasu'i lety - wedi cael ei threfnu gan ei ddirprwy ac mae'n golygu ei fod o dan oruchwyliaeth a rheolaeth gyson ac yn methu â gadael ei gartref.

¹⁵ *Storck yn erbyn Germany* (2006) 43 EHRR 6 (App No 61603/00) at [102].

Trefnwyd ei becyn llety a gofal ac fe'i darperir heb unrhyw fewnbwn gan yr awdurdod lleol na'r GIG. Goruchwylir y gofal gan reolwr achos anaf ymennydd arbenigol preifat ac fe'i darperir gan ofalwyr preifat. Nid yw'r awdurdod lleol na'r corff GIG yn ymwybodol o'r sefyllfa.

12.74 Yn yr achos hwn mae'r Wladwriaeth yn gyfrifol yn anuniongyrchol am y cyfyngiad. Mae hyn oherwydd cyfranogiad y llys wrth ddyfarnu iawndal, y Llys Gwarchod wrth benodi'r dirprwy, a rôl y dirprwy.

12.75 Ni fydd y trefniadau'n briodoladwy i'r wladwriaeth, lle nad yw'r wladwriaeth yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r trefniadau neu pan nad yw'n ymwybodol (neu na ddylai fod yn ymwybodol) o'r cyfyngiad. Mae hyn yn fwy tebygol o ddigwydd mewn lleoliadau domestig preifat lle mae'r trefniadau'n cael eu gwneud heb yn wybod i awdurdodau cyhoeddus.

Beth ddylai awdurdodau cyhoeddus ei wneud os cânt wybod am achosion o amddifadu o ryddid "preifat"?

12.76 Pan fydd corff y GIG neu awdurdod lleol yn gwybod neu y dylai wybod bod unigolyn yn ddarostyngedig i gyfyngiadau a allai arwain at amddifadu o ryddid, yna caiff ei rwymedigaethau cadarnhaol o dan Erthygl 5 eu sbarduno. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- ymchwilio i'r sefyllfa a phenderfynu a oes, mewn gwirionedd, achos o amddifadu o ryddid,
- os felly, mae'n rhaid iddo gymryd mesurau rhesymol a chymesur i ddod â'r sefyllfa honno i ben (er enghraifft trwy ddarparu gwasanaethau), ac
- os na all ddod â'r amddifadu o ryddid i ben, dylid ystyried y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid.¹⁶

Triniaeth feddygol ar gyfer problemau iechyd corfforol

12.77 Ni fydd amddifadu o ryddid yn digwydd os yw'r unigolyn yn cael triniaeth am salwch corfforol a bod y driniaeth yn cael ei rhoi o dan drefniadau sydd yr un fath ag a fyddai wedi bod ar waith ar gyfer unigolyn nad oedd ganddo anhwylder meddwl. Hynny yw, mae'r cyfyngiadau ar yr unigolyn yn cael eu hachosi gan broblemau iechyd corfforol a'r driniaeth sy'n cael ei darparu. Gwraidd unrhyw amddifadu o ryddid yw'r cyflwr corfforol, nid unrhyw gyfyngiadau a osodir gan eraill (er enghraifft gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol). Dylai'r dull hwn gael ei gymhwyso i unrhyw fath o driniaeth feddygol ar gyfer problemau iechyd corfforol ac ym mha leoliad bynnag y mae'r driniaeth yn cael ei darparu. Ni ddylid ei gyfyngu i ysbytai, ond gallai gynnwys unrhyw leoliad lle mae triniaeth feddygol yn cael ei darparu.

¹⁶ *Awdurdod Lleol yn erbyn A* [2010] EWHC 978 (Fam).

12.78 Mae'r senarios canlynol yn enghreifftiau o le na ddylid ystyried bod rhywun yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid.

Ms F

Mae gan Ms F anableddau dysgu difrifol. Yn dilyn dirywiad difrifol yn ei hiechyd corfforol, fe'i derbyniwyd i'r ysbyty a'i thrin am niwmonia a phroblemau'r galon. Pan waethygodd ei chyflwr trosglwyddwyd hi i uned gofal dwys yr ysbyty. Roedd rhaid rhoi tiwb iddi, rhoi cyffuriau tawelu iddi a'i rhoi ar beiriant anadlu mecanyddol. Mae hi'n gwisgo maneg ar un llaw i'w hatal rhag tynnu'r tiwb.

Ms K

Mae gan Ms K ddementia a chafodd ei rhoi mewn cartref gofal yn dilyn strôc ddifrifol. Mae ganddi brinder gallu i gydsynio i'w gofal a'i thriniaeth. Mae tŷn a chryfder ei chyhyrau yn cael ei wanhau gan strôc, ac felly mae angen cymorth cyson un i un arni i'w helpu i symud. Mae staff yn bresennol i wirio ei chynnydd trwy gydol y dydd. Ni chaniateir iddi adael y cartref gofal oni bai bod aelod o staff ar gael. Mae hi hefyd yn cymryd meddyginiaeth gryf i'w hatal rhag cael strôc yn y dyfodol. Mae hyn yn gwneud iddi deimlo'n swrth ac yn flinedig.

12.79 Yn yr achosion hyn, gellid categoreiddio'r cyfyngiadau ar yr unigolyn fel "cyfyngiadau sy'n digwydd yn aml ar symudiad" a gan fod y driniaeth yr un fath ag un a fyddai wedi'i darparu i rywun heb anhwylder meddwl, mae'n annhebygol o fod yn achos o amddifadu o ryddid.

12.80 Bydd angen i wneuthurwyr penderfyniad ystyried yn ofalus y gwir reswm dros wneud y trefniadau:

- A ydynt o ganlyniad i roi triniaeth feddygol ar gyfer cyflwr iechyd corfforol?
- A fyddent yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer unrhyw unigolyn arall, heb anhwylder meddwl?

Os mai ateb cadarnhaol a geir i'r cwestiynau uchod, nid yw'r unigolyn yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid. Os mai ateb negyddol a geir i unrhyw un o'r atebion, yna gall fod yn achos o amddifadu o ryddid.

12.81 Os oes angen triniaeth ar gyfer cyflwr iechyd corfforol yr unigolyn, ond oherwydd eu hanhwylder meddwl mae angen cyfyngiadau sylweddol ychwanegol arnynt - na fyddai'n cael eu darparu i eraill nad oes ganddynt anhwylder meddwl - yna mae'n bosibl eu bod yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid a bydd angen awdurdodiad o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid. Mae'r senarios canlynol yn debygol o fod yn achosion o amddifadu o ryddid.

DRAFT

13. yw'r broses ar gyfer awdurdodi trefniadau o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid?

Mae'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid yn broses lle'r ystyrir trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid i ofal neu driniaeth unigolyn.

Mae proses yr LPS yn cynnig nifer o drefniadau diogelwch pwysig i'r unigolyn, i amddiffyn eu hawliau Erthygl 5 o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae hyn yn cynnwys, yr hawl i eiriolaeth, yr hawl i asesiadau priodol, a'r hawl i herio'r trefniadau yn y llys. Gall trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid ddigwydd mewn unrhyw leoliad lle mae'r unigolyn yn derbyn gofal neu driniaeth, gan gynnwys eu cartref eu hunain. Mae'r LPS felly'n ymdrin â threfniadau ym mhob lleoliad, gan gynnwys unrhyw gludiant rhwng gwahanol leoliadau.

Crynodeb cyflym

Sut i adnabod yr angen am awdurdodiad LPS a sut i sbarduno'r broses.

- Os yw'r trefniadau a gynigir o ran gofal neu driniaeth yr unigolyn yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, dylid sbarduno proses yr LPS. Os yw'r unigolyn yn ymgymryd â chynllunio iechyd a gofal arall, gall rhywun arall o fewn y Corff Cyfrifol sbarduno'r broses hon. Neu gall rhywun sy'n darparu gofal neu driniaeth yr unigolyn hysbysu'r Corff Cyfrifol.

Sut mae'r LPS yn rhyngweithio â chynllunio iechyd a gofal arall.

- Os yw gofal neu driniaeth yr unigolyn yn cael ei drefnu o dan fframwaith cyfreithiol gwahanol, mae'n bosibl y dylid cynnal asesiadau ac adolygiadau'r LPS ar y cyd â phrif brosesau cynllun iechyd neu ofal a chymorth yr unigolyn.

Y gweithredoedd sy'n ofynnol gan y Corff Cyfrifol unwaith y mae'r LPS wedi'u sbarduno.

- Unwaith y mae'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid wedi'u sbarduno, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol; ystyried a oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw'r LPS yn berthnasol, penderfynu ai'r Corff Cyfrifol cywir ydyw, a phenodi naill ai Person Priodol neu Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA).
- Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol hefyd gomisiynu asesiadau a phenderfyniadau meddygol, gallu angenrheidiol a chymesur, a chyflawni'r ddyletswydd ymgynghori.
- Unwaith y mae'r ymgynghoriad a'r asesiadau a'r penderfyniadau wedi'u cwblhau, mae'n rhaid cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi. Dilynir yr adolygiad cyn-awdurdodi gan yr awdurdodiad terfynol, a gynhelir gan y Corff Cyfrifol.

Unwaith y mae awdurdodiad ar waith

- Mae adegau cyfyngedig lle gall y Corff Cyfrifol amrywio awdurdodiad, lle nad yw'r trefniadau eu hunain yn newid yn sylfaenol. Cyn y gellir amrywio, mae'n rhaid cynnal ymgynghoriad.
- Mae'n rhaid nodi amserlen ar gyfer adolygiadau yn y cofnod awdurdodiadau, ond os bydd amgylchiadau'n newid, gellir cynnal adolygiadau nad ydynt wedi'u trefnu. Mewn sefyllfaedd penodol, mae'n rhaid i AMCP gynnal yr adolygiad, os nad ydynt wedi bod ynghlwm â'r achos yn flaenorol.
- Gellir adnewyddu awdurdodiadau, lle bo hynny'n briodol, am y tro cyntaf am hyd at 12 mis. Wedi hynny, gellir adnewyddu awdurdodiad am gyfnod hyd at 36 mis.

Cyn sbarduno'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid

- 13.1 Mae'n rhaid i wneuthurwyr penderfyniad a'r rhai hynny sy'n gweithio â'r unigolyn ddilyn egwyddorion craidd Deddf Galluedd Meddyliol 2005, gan gynnwys cyn yn ogystal ag yn ystod proses yr LPS. Os yw'r unigolyn yn cael ei asesu ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd a/neu gymdeithasol, megis y rhai hynny o dan y ddeddfwriaeth a nodir ym mharagraff XX, dylid cynorthwyo'r unigolyn i wneud eu penderfyniadau eu hunain am y gofal a'r driniaeth yn ogystal â'r trefniadau o'i

amgylch. Cyn belled ag y bo modd a lle bo'n briodol, dylid gwneud penderfyniadau am ofal a thriniaeth, a'r trefniadau perthnasol, ar y cyd.

- 13.2 Ni ddylid rhagdybio bod gan yr unigolyn brinder gallu i wneud y penderfyniad am drefniadau ynghylch eu gofal neu'u triniaeth. Dylai gwneuthurwyr penderfyniad a'r rhai hynny sy'n gweithio â'r unigolyn, cyn belled ag y bo modd yn ymarferol, gynorthwyo'r unigolyn i wneud eu penderfyniad eu hunain am y trefniadau gofal neu driniaeth. I gynorthwyo'r unigolyn i wneud eu penderfyniad eu hunain os yw hynny'n bosibl, dylai'r bobl sy'n gweithio â'r unigolyn geisio eu helpu i ddeall y penderfyniad gofynnol, pam bod ei angen, a beth yw'r goblygiadau. Gweler pennod XX i gael mwy o wybodaeth am gefnogi gwneud penderfyniad a'r camau i gynorthwyo'r unigolyn i wneud eu penderfyniadau eu hunain.
- 13.3 Hyd yn oed pan nad yw'r unigolyn yn cael ei asesu ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol, dylai'r bobl sy'n gweithio â'r unigolyn alluogi cefnogi gwneud penderfyniadau cyn belled ag y bo'n bosibl cyn sbarduno proses yr LPS.
- 13.4 Os bydd yr unigolyn yn gallu cydsynio i'r trefniadau, yna nid yw proses yr LPS yn berthnasol. Os bydd ganddynt y gallu i gydsynio, ond na fyddant yn cydsynio, yna nid yw proses yr LPS yn berthnasol a dylid ystyried trefniadau amgen.
- 13.5 Os bydd rhesymau i ystyried nad oes gan yr unigolyn y gallu perthnasol, er gwaethaf y cymorth a roddir i wneud penderfyniad, dylid ystyried asesiad ar alluedd. Os asesir yr unigolyn fel bod â'r prinder gallu perthnasol i wneud y penderfyniad, dylid gwneud penderfyniad budd pennaf ar gyfer gofal neu driniaeth yr unigolyn. Os yw'r trefniadau a gynigir o ran gofal neu driniaeth yr unigolyn yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, dylid sbarduno proses yr LPS.

Nodi'r angen am awdurdodiad LPS a sbarduno'r broses

- 13.6 Dylai cyrff cyfrifol a darparwyr gofal bob amser geisio atal amddifadu o ryddid ac ystyried a ellir gwneud trefniadau amgen i atal amddifadu o ryddid. Yn hytrach na dibynnu ar hysbysiadau gan drydydd partiön yn unig, dylai fod gan Gyrff Cyfrifol ddulliau ar waith i helpu i nodi pryd y gall trefniadau o fewn y gwasanaethau y maent yn eu comisiynu fod yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid.
- 13.7 Os nodir y gall trefniadau sydd ar waith ar gyfer gofal neu driniaeth unigolyn fod yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid ac nad yw'r unigolyn yn gallu cydsynio i'r trefniadau, dylid sbarduno proses yr LPS yn y rhan fwyaf o achosion.
- 13.8 Efallai bydd yr amddifadu o ryddid posibl yn cael ei nodi yn ystod asesiad, neu wrth gynllunio neu adolygu gofal neu driniaeth unigolyn. Mewn rhai achosion, gellir cynnal y rhain gan rywun sy'n gweithio o fewn yr un sefydliad â'r Corff Cyfrifol. Er enghraifft, efallai bydd gweithiwr gofal cymdeithasol neu weithiwr cymdeithasol mewn awdurdod lleol (LA) sy'n trefnu gofal yr unigolyn o dan Ddeddf Gofal 2014 neu Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dod yn

ymwybodol bod y gofal a'r cymorth a gynnigir o bosibl yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Ar y pwynt hwnnw, dylid hysbysu swyddogaeth rhan berthnasol Corff Cyfrifol y sefydliad er mwyn sbarduno'r broses. Gweler paragraffau XX i XX i gael mwy o wybodaeth am y rhyngwyneb rhwng LPS a chynllunio gofal a chymorth arall.

- 13.9 Mewn rhai achosion, efallai na fydd yr unigolyn wedi'i gynnwys yn y fframweithiau cyfreithiol a restrir ym mharagraff XX, er enghraifft, os eu bod nhw neu'u teulu wedi trefnu'u gofal neu driniaeth yn breifat. Pan mai dyma'r achos, fel arfer bydd angen hysbysu'r Corff Cyfrifol am unrhyw drefniadau a all fod yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid er mwyn sbarduno proses yr LPS.
- 13.10 Gall unrhyw un o amgylch yr unigolyn hwnnw hysbysu'r Corff Cyfrifol. Er enghraifft, efallai bydd staff cartref gofal neu aelodau o'r teulu sy'n gofalu am yr unigolyn yn dod yn ymwybodol bod angen gwneud trefniadau o ran eu gofal neu'u triniaeth a allai fod yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, neu fod trefniadau sydd eisoes ar waith yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid.
- 13.11 Efallai bydd yr unigolyn eu hunain, eu teulu, neu'r rhai hynny sy'n ymddiddori yn lles yr unigolyn, yn mynegi pryderon cyffredinol am y ffordd y darperir gofal a thriniaeth. Gallai hyn hefyd ysgogi'r Corff Cyfrifol i bennu a yw amddifadu o ryddid yn digwydd ac a ddylid sbarduno proses yr LPS, neu a oes angen mesur amgen.
- 13.12 Mae'n rhaid i Gyrrff Cyfrifol gyhoeddi gwybodaeth sy'n nodi sut i'w hysbysu am amddifadu o ryddid. Dylai'r Corff Cyfrifol sicrhau bod y wybodaeth hon mewn fformatau hygyrch. Mae Pennod XX yn nodi'r holl wybodaeth y mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol ei chyhoeddi.

Hysbysu'r Corff Cyfrifol y gallai fod angen awdurdodiad LPS

- 13.13 Os bydd iechyd neu anghenion gofal a chymorth unigolyn yn cael eu hasesu neu os yw eu cynllun gofal a chymorth yn cael ei drefnu neu'i adolygu o dan un o'r fframweithiau a amlinellir ym mharagraff XX, mae'n debygol y bydd y prosesau hyn yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn sbarduno'r broses. Mewn sawl achos, y Corff Cyfrifol hefyd fydd y corff sy'n asesu, cynllunio neu adolygu ac felly gall gyrchu'r wybodaeth hon yn uniongyrchol. Fodd bynnag, os nad yw'r unigolyn wedi bod mewn cyswllt â'r gwasanaethau perthnasol cyn i broses yr LPS gael ei sbarduno, mae'n bosibl y bydd angen casglu'r wybodaeth er mwyn sbarduno proses yr LPS.
- 13.14 Cyn belled ag y bo'n bosibl ac yn briodol, dylai'r unigolyn sy'n hysbysu'r Corff Cyfrifol gynnwys y wybodaeth ganlynol:
 2. enw a dyddiad geni'r unigolyn,

3. yr amgylchiadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid, os ydynt yn wyddys,
4. ble mae'r unigolyn ac a ydynt yn derbyn unrhyw wasanaethau gofal neu iechyd (neu'r ddau),
5. ac enw a manylion cyswllt unrhyw deulu neu ffrindiau sy'n ymddiddori yn lles yr unigolyn.

Os yn bosibl, dylai'r unigolyn sy'n hysbysu'r Corff Cyfrifol hefyd ystyried a yw'n rhesymol credu bod yr unigolyn yn dymuno preswyllo neu dderbyn gofal neu driniaeth yn y lle a gynigir neu beidio a hysbysu'r Corff Cyfrifol. Gweler pennod XX i gael mwy o wybodaeth ar yr adeg mae'n rhesymol credu nad yw'r unigolyn yn dymuno preswyllo neu dderbyn gofal neu driniaeth yn y lle.

- 13.15 Efallai bydd rhai pobl, gan gynnwys darparwyr gofal, yn gallu darparu gwybodaeth ychwanegol a all fod yn berthnasol wrth hysbysu'r Corff Cyfrifol am drefniadau a all fod yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Er enghraifft, gwybodaeth am a yw'r unigolyn wedi gwneud a/neu gofnodi unrhyw benderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth (ADRT), datganiad ymlaen llaw ysgrifenedig, neu gydsyniad ymlaen llaw i drefniadau a all fod yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, a thystiolaeth o benderfyniadau budd pennaf perthnasol sy'n ymwneud â threfniadau gofal a thriniaeth yr unigolyn. Gallai'r materion hyn fod yn berthnasol i benderfyniadau y bydd angen i'r Corff Cyfrifol eu gwneud fel rhan o broses y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid. Gweler mwy o wybodaeth am yr hyn a ystyrir fel amddifadu o ryddid ym mhennod XX, a mwy o wybodaeth am y rhyngweithio â gwneud penderfyniadau budd pennaf ym mhennod XX.
- 13.16 Mae'n bosibl y bydd sefyllfaoedd hefyd lle y gwyddys ymlaen llaw y bydd angen rhoi trefniadau ar waith i unigolyn yn y dyfodol, ac y gallai'r trefniadau hyn fod yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Er enghraifft, unigolyn ifanc sy'n byw mewn lleoliad addysg preswyl sydd â threfniadau penodol ar waith sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid na fyddant yn newid pan fyddant yn 16 oed. Pan mai dyma'r achos, mae'n bosibl y bydd y Corff Cyfrifol yn gallu paratoi am y broses awdurdodi ymlaen llaw, gyda'r rhai hynny sy'n ymwneud â gofal yr unigolyn a'r unigolyn eu hunain, a'r llys lle bo hynny'n briodol. Os bydd cynllun gofal a chymorth ymlaen llaw yn cael ei wneud, dylid ystyried a yw'r trefniadau'n parhau i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur ar gyfer yr unigolyn ac a ddylid parhau â'r trefniadau cyn i broses yr LPS gael ei sbarduno.

Sut mae'r LPS yn rhyngweithio â chynllunio iechyd a gofal statudol arall?

- 13.17 Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod lleol, yr ysbyty, grwpiau comisiynu clinigol (CCG), neu fwrdd iechyd lleol yn asesu anghenion unigolyn ac yn trefnu gwasanaethau o dan fframwaith cyfreithiol penodol. Mae'r fframweithiau cyfreithiol hyn yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i):

6. Ddeddf Gofal 2014
7. Deddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
8. Deddf GIG 2006
9. Deddf GIG (Cymru) 2006
10. Deddf Plant 1989
11. Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1989 (MHA)
12. Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010
13. Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

- 13.18 Wrth asesu a chynllunio gofal a thriniaeth unigolyn sydd â phrinder galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau perthnasol, mae'n rhaid i wneuthurwyr penderfyniad fod yn wylidwrus ynghylch unrhyw gyfyngiadau a all olygu y byddai'r unigolyn yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid. Dylai gwneuthurwyr penderfyniad bob amser ystyried ffyrdd amgen sydd ar gael o fodloni anghenion yr unigolyn er mwyn osgoi'r angen am amddifadu o ryddid.
- 13.19 Os bydd iechyd neu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn yn cael eu hasesu neu os bydd eu cynllun gofal a chymorth yn cael ei drefnu o dan un o'r fframweithiau a restrir ym mharagraff XX, efallai y bydd hi'n dod yn amlwg bod y trefniadau neu'r trefniadau a gynigir yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Os felly, mae'n bosibl y bydd angen gwneud atgyfeiriad i'r Corff Cyfrifol i sbarduno proses yr LPS. Mewn achosion o'r fath, dylid cynnal proses yr LPS ar y cyd â phrosesau asesu a chynllunio eraill cyn belled ag y bo'n ymarferol ac yn briodol.
- 13.20 Os bydd gan yr unigolyn gynllun iechyd neu ofal a chymorth eisoes ar waith, ond bod trefniadau newydd yn ofynnol a all fod yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, dylid adolygu'r cynllun a chynnal proses yr LPS ar y cyd â'r adolygiad i bennu a yw'r trefniadau newydd yn bodloni amodau awdurdodi'r LPS. Gweler paragraff XX i gael mwy o wybodaeth ynghylch yr amodau awdurdodi.
- 13.21 Pan fydd proses yr LPS yn cael ei chynnal ar y cyd â phrosesau asesu a chynllunio eraill, os bydd asesiad yn ofynnol ar gyfer y ddwy broses (megis yr asesiad ar alluedd), dylid gwneud hyn unwaith. Yn achos yr asesiad ar angenrheidrwydd a chymesuredd, dylid gwneud hyn tra bod trefniadau gofal a thriniaeth yr unigolyn yn cael eu cynllunio. Gall fod yn weithiwr proffesiynol sy'n bodloni'r gofynion i gynnal yr asesiad ar angenrheidrwydd a chymesuredd a phenderfyniad fel bod yr LPS yn gallu cynnal yr holl brosesau perthnasol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion efallai na fydd hyn yn bosibl, ac efallai bydd angen i ymarferydd nad yw'n bodloni'r anghenion gynnal rhai o'r prosesau. Gweler pennod XX i gael mwy o wybodaeth am yr asesiadau ar gyfer LPS, gan gynnwys beth sy'n digwydd pan fydd ymarferydd nad yw'n bodloni'r gofynion yn gwneud rhywfaint o'r broses asesu.

- 13.22 Cyn belled ag y bo'n ymarferol ac yn bosibl, dylid cynnal yr asesiad ar gyfer LPS a chynllunio iechyd a gofal arall gan yr un unigolyn. Bydd hyn yn sicrhau bod pecyn gofal neu driniaeth cyfan yr unigolyn wedi'i alinio'n agos.
- 13.23 Cyn dechrau trefnu'r cynllun iechyd neu ofal a chymorth, neu adolygu'r cynllun, dylai'r gwneuthurwr penderfyniad ystyried a yw'r unigolyn yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain am eu gofal neu'u triniaeth neu a oes ganddynt y gallu i wneud hynny. Mae'n rhaid i'r aseswr ddilyn egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 er mwyn pennu p'un ai a yw'r unigolyn â phrinder gallu i wneud penderfyniadau o'r fath. Os asesir yr unigolyn fel bod â phrinder gallu i wneud penderfyniadau am eu gofal neu'u triniaeth, yna efallai bydd angen gwneud penderfyniad budd pennaf o ran eu gofal neu'u triniaeth.
- 13.24 Mewn sawl achos bydd gan unigolyn sy'n cael eu hasesu ar gyfer yr LPS yr hawl i Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA) i'w cynrychioli a'u cynorthwyo. Pan fydd gan unigolyn eiriolwr annibynnol eisoes er enghraifft, o dan Ddeddf Gofal 2014 neu Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gallai'r eiriolwr hwn ymgymryd â rôl yr IMCA LPS os byddant yn gymwys i wneud hynny. I gael mwy o fanylion am rôl yr IMCA, gweler pennod XX. Os na fyddant yn gymwys i wneud hynny, mae'n bosibl bod modd penodi eiriolwr newydd sy'n gymwys i wneud y ddau fath o waith eirioli, i alluogi un eiriolwr i gynorthwyo'r unigolyn.
- 13.25 Cyn belled ag y bo modd, dylid alinio adolygiadau awdurdodiad LPS gydag adolygiadau o gynlluniau iechyd a gofal a chymorth eraill. Bydd hyn yn sicrhau bod yr unigolyn yn derbyn dull cydlynol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gweler paragraffau XX ynghylch adolygiadau.

Gweithredoedd sy'n ofynnol gan y Corff Cyfrifol unwaith y mae'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid wedi'u sbarduno

- 13.26 Unwaith y mae'r LPS wedi'u sbarduno, mae tair tasg y dylai'r Corff Cyfrifol eu cyflawni'n syth:
- Ystyried a oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw LPS yn berthnasol, gan gynnwys a ddylid defnyddio fframwaith cyfreithiol amgen, megis y Ddeddf Iechyd Meddwl (MHA). Os bydd fframwaith cyfreithiol arall yn fwy priodol, dylid ailgyfeirio achos yr unigolyn mor gyflym â phosibl. Os nad yw hyn yn wyddys yn syth, dylai'r Corff Cyfrifol fod yn wylidwrus ynghylch unrhyw wybodaeth sy'n awgrymu bod hyn yn wir, ar unrhyw adeg yn ystod y broses, a bod yn barod i ddod â'r broses i ben a gwneud atgyfeiriadau fel y bo'n briodol.
 - Penderfynu ai'r Corff Cyfrifol cywir ydyw i awdurdodi'r trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Os na, o dan yr egwyddor 'dim drws anghywir', dylid cyfeirio'r achos gan y corff a dderbyniodd yr atgyfeiriad i'r

Corff Cyfrifol cywir barhau ag ef. I gael mwy o wybodaeth am sut i benderfynu pa gorff cyfrifol yw'r un cywir a'r 'egwyddor dim drws anghywir', a beth i'w wneud os bydd anghytundeb, gweler pennod XX.

- Ystyried cynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn: gwirio os bydd angen Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA) neu os oes unigolyn addas i'w benodi fel y Person Priodol.

13.27 Pan fydd atgyfeiriad wedi'i wneud gan unigolyn neu sefydliad allanol, os bydd y Corff Cyfrifol yn fodlon mai'r Corff Cyfrifol cywir ydyw, a bod proses yr LPS yn berthnasol, dylai gydnabod derbyn yr hysbysiad wrth yr atgyfeiriwr o fewn pum niwrnod gwaith. Os dylid ystyried fframwaith cyfreithiol arall, neu os bydd angen i Gorff Cyfrifol arall oruchwylio'r achos, yna dylai'r Corff Cyfrifol hysbysu'r unigolyn a wnaeth yr atgyfeiriad cyn gynted â phosibl. Nodir rôl a chyfrifoldebau'r Corff Cyfrifol yn fanwl ym mhennod xx.

Cynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn

- 13.28 Mae'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid yn rhoi'r hawl i'r unigolyn i gynrychiolaeth a chymorth gan IMCA neu Person Priodol drwy gydol y broses asesu, ac yna drwy gydol y cyfnod y mae unrhyw awdurdodiad yn parhau.
- 13.29 Pan fodlonir y meini prawf, dyletswydd y Corff Corfforol yw sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei gynrychioli a'i gynorthwyo gan naill ai IMCA, neu lle ceir Person Priodol, fel unigolyn addas. Mae'n bosibl bod gan y Person Priodol yr hawl i gefnogaeth gan IMCA, mewn rhai sefyllfaoedd.
- 13.30 I gael mwy o wybodaeth am y rôl, addasrwydd, a phenodi Person Priodol, gweler pennod XX, ac i gael mwy o wybodaeth am y rôl a phenodi IMCA, gweler pennod XX.

Asesiadau a Phenderfyniadau'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid gofynnol

- 13.31 Unwaith y mae proses yr LPS wedi'i sbarduno, dylai'r Corff Cyfrifol bennu a yw'r amodau awdurdodi yn cael eu bodloni, ac felly p'un ai i awdurdodi'r trefniadau a gynigir. Er mwyn pennu a yw'r amodau'n cael eu bodloni, mae'n rhaid cwblhau tri asesiad a phenderfyniad.
- 13.32 Yr asesiadau a'r penderfyniadau yw:
- yr asesiad a'r penderfyniad ar alluedd ynghylch a oes gan yr unigolyn y galluedd meddyliol perthnasol i gydsynio i'r trefniadau,
 - yr asesiad a'r penderfyniad meddygol i weld a oes gan yr unigolyn anhwylder iechyd meddwl, ac

- asesiad a phenderfyniad i weld a yw'r trefniadau'n angenrheidiol i atal niwed i'r unigolyn ac yn gymesur o ran tebygolrwydd a difrifoldeb o niwed i'r unigolyn.

13.33 Mae'r rheoliadau perthnasol yn Lloegr a Chymru'n pennu pa weithwyr proffesiynol sy'n gallu cynnal yr asesiadau a'r penderfyniadau hyn. Gweler manylion pellach am y tri asesiad a'r penderfyniad gofynnol hyn, a phwy sy'n gallu eu cynnal, ym mhennod XX.

Ymgynghori

- 13.34 Cyn belled ag y bo'n ymarferol ac yn briodol, dylai dymuniadau a theimladau'r unigolyn hysbysu'r trefniadau o amgylch eu gofal a'u triniaeth. Ymgynghori yw'r broses sy'n helpu i sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i ddeall dymuniadau a theimladau'r unigolyn am y trefniadau a gynigir.
- 13.35 Mae'n rhaid ymgynghori â'r unigolyn, a rhai eraill, cyn belled ag y bo'n ymarferol ac yn briodol. Prif bwrpas yr ymgynghoriad yw ceisio canfod dymuniadau a theimladau'r unigolyn.
- 13.36 Yn ddarostyngedig i gyfraith diogelu data, dylai'r unigolyn sy'n cynnal yr ymgynghoriad sicrhau bod y rhai hynny yr ymgynghorir â nhw'n deall natur y trefniadau a gynigir a sut bydd awdurdodiad LPS yn effeithio'r unigolyn. Bydd hyn yn eu galluogi i wybod rhagor am beth fyddai dymuniadau a theimladau'r unigolyn am y trefniadau hynny.
- 13.37 Mae ymgynghori'n rhan bwysig o broses y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid ac mae'n rhaid ei gynnal yn ystod yr awdurdodiad cychwynnol a phan ystyrir adnewyddu awdurdodiad.
- 13.38 Pan fo ymgynghoriad yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses asesu gychwynnol, dylai'r Corff Cyfrifol ofyn i'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad a'r penderfyniad ar angenrheidrwydd a chymesuredd gynnal yr ymgynghoriad ar ei ran. Gweler pennod XX i gael mwy o wybodaeth am yr asesiad a'r penderfyniad ar angenrheidrwydd a chymesuredd.
- 13.39 Gweler paragraffau XX i XX i gael mwy o wybodaeth am ymgynghoriadau yn ystod y cam adnewyddu. Gweler pennod XX i gael mwy o wybodaeth am ymgynghori a phwy y dylid ymgynghori â nhw i fodloni gofynion y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid.

Y Broses Awdurdodi

- 13.40 Unwaith y mae'r ymgynghoriad a'r asesiadau a phenderfyniadau wedi'u cynnal, mae'n rhaid dilyn dwy broses er mwyn rhoi awdurdodiad.
- 13.41 Y cyntaf yw'r adolygiad cyn-awdurdodi sy'n pennu a yw'n rhesymol i'r Corff Cyfrifol gredu bod yr amodau awdurdodi'n cael eu bodloni. Pan fydd Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol yn cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi, byddant yn penderfynu a yw'r amodau awdurdodi'n cael eu bodloni ac yn hysbysu'r Corff Cyfrifol.
- 13.42 Yr ail gam yw'r awdurdodiad terfynol. Dyma'r penderfyniad terfynol i roi'r awdurdodiad ai peidio. Os bydd hyn yn peri i'r trefniadau gael eu hawdurdodi, gall yr awdurdodiad ddod i rym yn syth neu unrhyw bryd yn ystod y 28 niwrnod nesaf.

Pwy sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi mewn achosion nad ydynt yn rhai AMCP?

- 13.43 Nid oes angen i'r unigolyn sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi mewn achosion nad ydynt yn rhai AMCP fod yn weithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol. Fodd bynnag, dylai fod ganddynt ddealltwriaeth gymhwysol o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a phroses yr LPS.
- 13.44 Yn ogystal, mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi beidio â:
- bod yn rhan o ofal bob dydd yr unigolyn,
 - bod yn rhan o ddarparu unrhyw driniaeth i'r unigolyn, neu
 - fod â chyswllt, wedi'i ragnodi o fewn rheoliadau, â chartref gofal (mewn achosion perthnasol sy'n ymwneud â chartrefi gofal).
- 13.45 Yn y bôn, y Corff Cyfrifol sy'n penderfynu sut i strwythuro'i sefydliad, gan gynnwys pwy sy'n cynnal adolygiadau cyn-awdurdodi (heblaw pan fydd AMCP yn gwneud hynny). Gweler paragraffau XX i gael mwy o wybodaeth am adolygiadau cyn-awdurdodi.
- 13.46 Fodd bynnag, mae'r Corff Cyfrifol yn gyfrifol am amddiffyn hawliau dynol Erthygl 5 yr unigolyn. Felly, dylai ystyried annibyniaeth yr aseswr, yr adolygydd cyn-awdurdodi, a rolau'r awdurdodwr. Mae'n bwysig bod gan y rolau hyn rywffaint o annibyniaeth o'i gilydd i sicrhau nad oes unrhyw duedd yn y broses.
- 13.47 Felly, ni ddylai'r un unigolyn gyflawni pob un o'r tair rôl hyn. Mae hefyd yn annhebygol o fod yn briodol i'r un unigolyn gyflawni asesiad a phenderfyniad a'r adolygiad cyn-awdurdodi. Mae hefyd yn berthnasol pan fydd yr unigolyn yn cael ei asesu neu'i adolygu ar gyfer cynlluniau iechyd neu ofal a chymorth a amlinellir ym mharagraffau XX.

13.48 Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd hi'n briodol i'r unigolyn sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi roi'r awdurdodiad terfynol hefyd. Gweler paragraffau XX i gael gwybodaeth bellach.

Pryd mae'n rhaid i'r adolygiad cyn-awdurdodi gael ei gynnal gan AMCP?

13.49 Mae'n rhaid i AMCP gynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi yn yr amgylchiadau penodol canlynol:

- os yw'n rhesymol credu nad yw'r unigolyn yn dymuno byw yn y lle a gynigir,
- os yw'n rhesymol credu nad yw'r unigolyn yn dymuno derbyn gofal neu driniaeth yn y lle a gynigir,
- os yw'r trefniadau i'w hawdurdodi mewn ysbyty annibynnol yn bennaf,
- unrhyw achos lle mae'r Corff Cyfrifol yn atgyfeirio at AMCP, ac mae'r AMCP yn derbyn.

13.50 Ni ddylai'r Corff Cyfrifol benderfynu pa AMCP sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi. Yn Lloegr, dylai gwasanaeth yr AMCP benderfynu pwy sy'n cynnal yr adolygiadau cyn-awdurdodi. Yng Nghymru, bydd gan ardaloedd lleol ddulliau eu hunain o atgyfeirio. Y Corff Cyfrifol sy'n gyfrifol am benderfynu pwy sy'n cyflawni'r asesiad a phenderfyniadau a phwy sy'n rhoi'r awdurdodiad terfynol. Gweler pennod XX i gael gwybodaeth bellach am wasanaeth yr AMCP.

13.51 Os bydd AMCP wedi cyflawni unrhyw un o asesiadau neu benderfyniadau'r unigolyn o dan rôl wahanol, yna dylent gynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi.

13.52 Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd hi'n briodol i'r AMCP sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi roi'r awdurdodiad terfynol hefyd. Dylai'r Corff Cyfrifol ac unrhyw wasanaeth AMCP perthnasol ystyried didueddrwydd yr AMCP, a hawliau dynol Erthygl 5 yr unigolyn wrth benderfynu a fydd yr AMCP hefyd yn rhoi'r awdurdodiad. Efallai bydd craffu ychwanegol gan unigolyn arall cyn ymgynghori'n arbennig o fuddiol ar gyfer y sefyllfaoedd cymhleth y mae AMCPau yn eu hystyried yn nodweddiadol. Gweler gwybodaeth bellach ynghylch AMCPau ym mhennod XX.

Beth yw adolygiad cyn-awdurdodi?

13.53 Mae'r adolygiad cyn-awdurdodi'n ystyried yr asesiadau a'r penderfyniadau, gwybodaeth o'r ymgynghoriad, a thystiolaeth arall, i bennu a yw'r amodau awdurdodi'n cael eu bodloni neu ei bod yn rhesymol i'r Corff Cyfrifol ddod i'r casgliad bod yr amodau awdurdodi'n cael eu bodloni. Yr amodau awdurdodi yw:

- bod gan yr unigolyn brinder gallu i gydsynio i'r trefniadau,
- bod gan yr unigolyn anhwylder iechyd meddwl, a
- bod y trefniadau'n angenrheidiol i atal niwed i'r unigolyn ac yn gymesur mewn perthynas â'r tebygolrwydd a'r difrifoldeb o niwed i'r unigolyn.

- 13.54 Dylai'r unigolyn sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi graffu ar y dystiolaeth a gyflwynwyd, gan sicrhau bod digon o dystiolaeth iddynt wneud penderfyniad. Os yw'r unigolyn sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi'n credu bod angen tystiolaeth bellach, dylent ofyn am y dystiolaeth hon gan yr unigolyn a gyflawnodd yr asesiad a'r penderfyniad perthnasol. Er enghraifft, efallai nad oes digon o fanylion gan yr asesiad a'r penderfyniad ar angenrheidrwydd a chymesuredd am y perygl o niwed, ac felly gallai'r unigolyn sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi ofyn i weld copi o'r asesiad risg a lywiodd y penderfyniad.
- 13.55 Os na fydd yn cael ei gynnal gan AMCP, nid oes rhaid i'r unigolyn sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi gyfarfod â'r unigolyn neu gynnal ymgynghoriad. Fodd bynnag, efallai bydd y camau hyn yn briodol os bydd yr unigolyn yn penderfynu bod y dystiolaeth o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ystod y cam asesu'n aneglur.
- 13.56 Pan fydd AMCP yn cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi, mae'n rhaid iddynt gyfarfod â'r unigolyn ac ymgynghori â phobl berthnasol eraill, os yw'n ymarferol ac yn briodol gwneud hynny, cyn dilyn y camau a amlinellir ym mharagraffau XX i XX.
- 13.57 Os bydd yr unigolyn sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi wedi casglu'r dystiolaeth berthnasol, dylent ystyried hyn yn erbyn yr amodau awdurdodi. Os na fydd yr adolygiad cyn-awdurdodi'n cael ei gynnal gan AMCP, mae'n rhaid i'r unigolyn ystyried a yw'n Rhesymol i'r Corff Cyfrifol bennu a yw'r amodau awdurdodi'n cael eu bodloni.
- 13.58 Os yw'r adolygiad cyn-awdurdodi'n cael ei gynnal gan AMCP, mae'n rhaid i'r AMCP bennu a yw'r amodau awdurdodi'n cael eu bodloni. Mae gan AMCPau wybodaeth arbenigol ac maent wedi dilyn hyfforddiant perthnasol er mwyn gwneud y penderfyniad hwn. Fodd bynnag, y Corff Cyfrifol sy'n gwneud y penderfyniad terfynol i awdurdodi'r trefniadau. Gweler pennod XX i gael mwy o wybodaeth am rôl AMCP, a pharagraffau XX i gael mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd wrth awdurdodi.
- 13.59 Os bydd asesiad blaenorol neu gyfatebol wedi'i ddefnyddio, ac nad yw'r unigolyn sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi'n fodlon ei bod hi'n briodol dibynnu ar hyn, ni fyddant yn gallu dod i'r casgliad bod yr amodau awdurdodi'n cael eu bodloni neu ei bod yn rhesymol i'r Corff Cyfrifol ddod i'r casgliad hwn. Os bydd hyn yn digwydd, ni ellir rhoi awdurdodiad, ac mae'n bosibl y bydd angen i'r Corff Cyfrifol ystyried a ddylid trefnu asesiad newydd.
- 13.60 Unwaith y bydd yr unigolyn sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi (gan gynnwys lle mai AMCP sy'n gyfrifol) wedi gwneud y penderfyniad priodol bod yr amodau awdurdodi'n cael eu bodloni neu ei bod hi'n rhesymol i'r Corff Cyfrifol ddod i'r casgliad hyn, dylent greu'r cofnod awdurdodi drafft. Os nad yw'r dystiolaeth yn awgrymu bod yr amodau awdurdodi'n cael eu bodloni, dylid dod â'r broses i ben, ac nid oes angen cofnod awdurdodi drafft.

13.61 Dylai'r cofnod awdurdodi drafft amlinellu'r trefniadau a pham y maent yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Dylai hefyd ddangos pam ei bod hi'n rhesymol i'r Corff Cyfrifol bennu bod yr amodau awdurdodi'n cael eu bodloni, gan gynnwys crynodeb o'r asesiadau a'r penderfyniad. Mae'n rhaid i'r cofnod awdurdodi drafft ddisgrifio'r trefniadau sydd i'w hawdurdodi, ond nid oes angen iddo nodi pob elfen o'r trefniadau hynny. Dylid ystyried manylder y cofnod awdurdodi drafft yn ôl pob achos unigol, gan ystyried amodau perthnasol ynghylch yr achos, lefel y cyfyngiadau, a dymuniadau a theimladau'r unigolyn am y trefniadau.

13.62 Dylai'r cofnod awdurdodi drafft hefyd nodi:

- Hyd amser yr awdurdodiad. Gall awdurdodiadau cyntaf ac ail unigolyn fod hyd at 12 mis, ac ar ôl hynny gall awdurdodiadau barhau am hyd at 36 mis. Dylid pennu ar hyd pob awdurdodiad yn ôl amgylchiadau unigol yr unigolyn. Er enghraifft, gall fod yn briodol ar gyfer unigolyn sydd â phrinder gallu parhaol ac mae eu trefniadau'n bodloni'u dymuniadau a'u teimladau i gael awdurdodiad hwy nag y byddai ar gyfer rhywun nad yw eu trefniadau'n bodloni'u dymuniadau a'u teimladau.
- Yr amodau ar gyfer yr awdurdodiad. Er enghraifft, efallai dylai'r cofnod drafft nodi trefniadau cysylltu, materion sy'n berthnasol i ddiwylliant yr unigolyn neu unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud ag amddifadu o ryddid a fyddai'n golygu – os nad ydynt yn cael eu trafod – na fyddai'r amddifadu o ryddid wedi'i gyfiawnhau.
- Rhaglen ar gyfer adolygiadau. Gall y rhaglen nodi er enghraifft bod adolygiad sydd wedi'i drefnu'n digwydd ar ddyddiadau penodol neu y bydd adolygiadau'n cael eu cynnal ar gyfnodau penodol. Gweler paragraffau XX i gael mwy o wybodaeth am adolygiadau.

13.63 Dylai'r cofnod awdurdodi drafft hefyd nodi pwy sy'n cynrychioli ac yn cynorthwyo'r unigolyn yn ystod yr awdurdodiad, naill ai Person Priodol neu IMCA, a sut i gysylltu â nhw.

13.64 Unwaith bydd yr awdurdodiad drafft wedi'i gwblhau, dylid ei roi i'r Corff Cyfrifol. Penderfyniad y Corff Cyfrifol yw cytuno â'r cofnod hwn ai peidio. Gweler paragraffau XX isod.

13.65 Os yw'r dystiolaeth yn dangos nad yw'r amodau awdurdodi'n cael eu bodloni, ni all y broses awdurdodi barhau. Er enghraifft, os nad oes gan yr unigolyn anhwylder meddyliol, neu os nad oes ganddynt y prinder gallu perthnasol, yna nid yr LPS yw'r fframwaith cywir ar gyfer eu trefniadau gofal neu driniaeth. Efallai bydd fframwaith amgen yn fwy priodol, megis Deddf Gofal 2014.

13.66 Os nad yw'r trefniadau a gynigir yn angenrheidiol a/neu'n gymesur, efallai gall y gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi awgrymu trefniadau

eraill y gellir eu hawdurdodi. Fodd bynnag, os yw'r unigolyn o dan un o'r fframweithiau eraill ym mharagraff XX, yn y bôn y corff comisiynu perthnasol fydd yn ystyried hyn ac, yn y cyfamser, efallai y bydd angen parhau â'r broses awdurdodi. Fel arall, os nad yw'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad a'r penderfyniad yn credu y byddai amddifadu o ryddid yn angenrheidiol ac yn gymesur, yna dylent nodi hyn yn eglur yn y cofnodion perthnasol.

Awdurdodi'r amddifadu o ryddid

- 13.67 Unwaith y mae'r adolygiad cyn-awdurdodi wedi'i gwblhau a bod y penderfyniad priodol yn cael ei wneud, gall y Corff Cyfrifol awdurdodi'r trefniadau. Mewn rhai achosion, efallai bydd yr unigolyn sy'n awdurdodi'r trefniadau ar ran y Corff Cyfrifol yr un unigolyn â'r sawl a gynhaliodd yr adolygiad cyn-awdurdodi. Fodd bynnag, mae'n rhaid bod yr unigolyn yn gallu dangos rhywfaint o wahanu rhwng y rolau, gan weithredu'n annibynnol wrth gynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi ac fel y Corff Cyfrifol wrth awdurdodi. Pan y bo hynny'n ymarferol, dylai'r Corff Cyfrifol geisio sicrhau bod unigolion gwahanol yn cyflawni'r rôl hon.
- 13.68 Rôl yr awdurdodwr yw penderfynu a ddylai'r Corff Cyfrifol awdurdodi'r trefniadau a gynigir. Mae'r awdurdodwr felly'n gweithredu fel y Corff Cyfrifol yn y rôl hon, gan ei gwneud yn rôl wahanol yn sylfaenol i'r adolygydd cyn-awdurdodi. Er y gall yr un unigolyn gyflawni'r ddwy rôl, mae'n rhaid eu bod yn gallu gwahaniaethu eu penderfyniadau yn ystod pob cam er mwyn i'r ddwy broses fod yn ddiuedd o'i gilydd. Er enghraifft, yn ystod y cam adolygu cyn-awdurdodi, os bydd yr unigolyn wedi penderfynu ei bod hi'n rhesymol i'r Corff Cyfrifol ddod i'r casgliad bod yr amodau awdurdodi wedi'u bodloni, pan fyddant yn gweithredu fel awdurdodwr, dylent ystyried o safbwynt y Corff Cyfrifol a oes cyfiawnhad digonol i roi'r awdurdodiad.
- 13.69 Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol benderfynu p'un ai i awdurdodi'r trefniadau a gynigir ai peidio. Nid yw'r ffaith bod unigolyn sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi wedi penderfynu bod yr amodau awdurdodi'n cael eu bodloni yn gorfodi'r Corff Cyfrifol i awdurdodi'r trefniadau. Dylai'r Corff Cyfrifol bob amser ystyried trefniadau llai cyfyngol o ran gofal a thriniaeth yr unigolyn.
- 13.70 Dylai'r Corff Cyfrifol adolygu'r cofnod awdurdodi drafft sydd wedi'i gyflwyno gan yr unigolyn sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi. Os yw'r Corff Cyfrifol yn cytuno â'r cofnod awdurdodi drafft, ac y dylid rhoi awdurdodiad, dylai awdurdodi'r trefniadau. Dylid llofnodi a dyddio'r cofnod awdurdodi. Unwaith bydd y trefniadau wedi'u hawdurdodi, daw'r cofnod awdurdodi drafft yn gofnod awdurdodi.
- 13.71 Os bydd y Corff Cyfrifol yn penderfynu peidio ag awdurdodi'r trefniadau, gall camau gweithredu pellach gynnwys ail-edrych ar unrhyw benderfyniad budd pennaf am ofal a thriniaeth ar frys, a dechrau ymholiad diogelu.

- 13.72 Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol sicrhau bod copi o'r cofnod awdurdodi'n cael ei drefnu i'w roi neu'i anfon heb oedi at yr unigolyn a'r AP neu'r IMCA (neu'r ddau). Os nad yw hyn yn digwydd o fewn 72 awr, mae'n rhaid i'r corff cyfrifol adolygu a chofnodi pam. Dylid rhannu'r wybodaeth hon hefyd gyda'r unigolyn a'u IMCA neu Berson Priodol.
- 13.73 Mae'n rhaid i'r cofnod nodi'r dyddiad y bydd y trefniadau'n dod i rym. Mae'n rhaid i'r trefniadau ddechrau o fewn 28 niwrnod calendr o ddyddiad yr awdurdodiad.
- 13.74 Dylid cynnwys y cofnod awdurdodi yng nghynllun iechyd neu ofal cymdeithasol a chymorth cyfredol yr unigolyn. Os bydd materion neu wasanaethau eraill wedi'u cynnwys yng ngweddill cynllun gofal neu driniaeth yr unigolyn nad ydynt yn gysylltiedig â'r amddifadu o ryddid, ni ellir eu hawdurdodi o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid ac ni ddylid eu cynnwys yn y cofnod awdurdodi drafft (neu yn y rhan honno o'r cynllun gofal a chymorth).

Beth sy'n digwydd os bydd y Corff Cyfrifol yn anghytuno â'r adolygiad cyn-awdurdodi?

- 13.75 Os bydd unigolion gwahanol wedi cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi ac wedi ystyried y trefniadau, efallai byddant yn anghytuno ar rannau o'r cofnod awdurdodi drafft neu a yw amddifadu o ryddid yn digwydd mewn gwirionedd. Yn y bôn, bydd yn rhaid i'r Corff Cyfrifol fodloni bod y trefniadau a gynigir yn bodloni'r meini prawf sy'n galluogi awdurdodiad i gael ei wneud a bod tystiolaeth ar eu cyfer yn y cofnod awdurdodi, cyn rhoi awdurdodiad.
- 13.76 Gall y sefyllfa hon ddigwydd, er enghraifft, os bydd yr unigolyn sy'n rhoi'r awdurdodiad yn anghytuno ag un o'r amodau a argymhellir ar gyfer y trefniadau. Mewn sefyllfa fel hon, dylai'r unigolyn sy'n cynnal yr awdurdodiad siarad â'r unigolyn a gynhaliodd yr adolygiad cyn-awdurdodi i ddeall y rhesymau am eu hargymhellion ac ystyried hyn cyn gwneud penderfyniad terfynol. Pan fydd y Corff Cyfrifol yn penderfynu gwneud newidiadau i'r cofnod awdurdodi drafft, dylai'r newidiadau gael eu nodi'n eglur a'u cyfiawnhau/esbonio ar y cofnod. Mae hyn yn bwysig er mwyn i'r Person Priodol neu'r IMCA ddeall y penderfyniad terfynol, ac ystyried er y gorau sut i gynorthwyo a chynrychioli'r person.
- 13.77 Os bydd y Corff Cyfrifol yn anghytuno y dylid rhoi'r awdurdodiad, mae ganddo'r hawl i gymryd unrhyw gamau ychwanegol y mae'n teimlo sy'n angenrheidiol. Gall hyn gynnwys gofyn am asesiadau pellach neu ddod â'r broses awdurdodi i ben. Pan fydd AMCP wedi cynnal adolygiad cyn-awdurdodi, dylai'r unigolyn sy'n ystyried yr achos ar ran y Corff Cyfrifol barchu statws proffesiynol yr AMCP a thrafod yr achos â nhw cyn cymryd unrhyw gamau pellach.

Pryd bydd awdurdodiad yn dod i ben?

- 13.78 Bydd awdurdodiad yn dod i ben am un o'r rhesymau canlynol:

- Mae'n ddiwedd y cyfnod awdurdodi a nodwyd gan y Corff Cyfrifol ar adeg yr awdurdodiad ac nid yw wedi'i adnewyddu.
 - Mae'n gynt na diwedd yr awdurdodiad neu'r cyfnod adnewyddu gwreiddiol, ond mae'r Corff Cyfrifol wedi penderfynu y dylai'r awdurdodiad ddod i ben.
 - Nid yw amodau'r awdurdodiad yn cael eu bodloni mwyach.
 - Mae'r trefniadau'n rhai iechyd meddwl ac nid ydynt yn unol â gofynion iechyd meddwl – gweler pennod XX.
- 13.79 Mae'r darparwr neu'r unigolyn sy'n rhoi'r trefniadau ar waith yn gallu dibynnu ar awdurdodiad y Gweithdrefnau Diogelu Rhyddid yn unig os byddant yn credu bod yr amodau o hyd yn cael eu bodloni. Os bydd unrhyw amheuaeth am hyn, dylai'r unigolyn neu rywun sy'n gweithredu ar eu rhan, megis rheolwr, hysbysu'r Corff Cyfrifol ac, er enghraifft, awgrymu dod â'r awdurdodiad i ben neu ofyn am adolygiad.
- 13.80 Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol wneud pob ymdrech i sicrhau bod unrhyw unigolyn sy'n debygol o gynnal y trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid yn cael eu hysbysu bod yr awdurdodiad wedi dod i ben (yn ogystal ag eraill sy'n rhoi'r trefniadau ar waith), fel nad yw'r unigolyn yn cael eu hamddifadu o ryddid yn anghyfreithlon.
- 13.81 Unwaith y mae awdurdodiad wedi peidio â chael effaith, nid oes modd ei adnewyddu. Os bydd angen awdurdodiad eto, mae'n rhaid sbarduno proses yr LPS eto o'r cychwyn.

Herio Awdurdodiad

- 13.82 Gall yr unigolyn neu'u Person Priodol neu IMCA, neu unrhyw un arall, geisio herio awdurdodiad LPS yn y Llys Gwarchod. Gall hyn fod oherwydd bod yr unigolyn ei hun yn dymuno herio neu reswm arall, megis bod hawliau Erthygl 5 yr unigolyn mewn perygl, neu ei fod er y budd pennaf i'r unigolyn. Gweler pennod XX i gael gwybodaeth bellach am herio trefniadau.

Amrywiad

- 13.83 Mae adegau cyfyngedig lle y gall y Corff Cyfrifol amrywio awdurdodiad. Gellir defnyddio amrywiad i wneud newidiadau i awdurdodiad nad ydynt yn gyfystyr â newid trefniadau. Er enghraifft, os bydd newid yn y trefniadau comisiynu'n arwain at newid yn y Corff Cyfrifol ond mae'r trefniadau eu hunain yn aros yr un peth yn gyffredinol. Gellid defnyddio amrywiad hefyd i dynnu trefniadau o awdurdodiad neu i wneud addasiadau bach i'r trefniadau, megis a fydd angen aelod ychwanegol o staff i hebrwng unigolyn i fynd am dro'n ddyddiol. Nid oes modd defnyddio amrywiad i ychwanegu lleoliadau newydd at awdurdodiad, neu i awdurdodi trefniadau newydd heb ddefnyddio'r broses gyfreithiol briodol – ac felly tanseilio hawliau Erthygl 5 yr unigolyn.

- 13.84 Fel rheol, lle y gellir rhagweld newidiadau lleoliad yn rhesymol, naill ai yn y tymor byr neu'n hirdymor, megis seibiant rheolaidd, neu gynllunio i symud, gellir cynnwys y rhain yn y cofnod awdurdodi. Trwy gynnwys y lleoliadau gwahanol yn yr awdurdodiad, bydd hyn yn osgoi'r angen i roi awdurdodiadau newydd bob tro y mae'r unigolyn yn symud lleoliad. Er enghraifft, os bydd unigolyn sy'n byw mewn cartref gofal o dan drefniant Gofal Iechyd Parhaus, sy'n golygu mai'r CCG felly yw'r Corff Cyfrifol, a bod ganddynt arhosiad yn yr ysbyty wedi'i gynllunio, gellir cynnwys hyn yn yr awdurdodiad gan y CCG. Yn y sefyllfa hon, ni fyddai angen i reolwr yr ysbyty roi awdurdodiad newydd ar gyfer cyfnod yr unigolyn yn yr ysbyty, a dylai staff fod yn ymwybodol o hyn cyn gynted â phosibl.
- 13.85 Os bydd unigolyn yn newid lleoliad yn annisgwyl neu nad yw hyn wedi'i gynnwys yn y trefniadau a ddisgrifir yn y cofnod awdurdodi, megis cael eu derbyn i ysbyty'r GIG yn annisgwyl, byddai angen awdurdodiad newydd ar gyfer amddifadu o ryddid i alluogi gofal a thriniaeth yn y lleoliad newydd. Yn yr enghraifft hon, byddai'r Corff Cyfrifol yn newid i Reolwr yr Ysbyty (Ymddiriedolaeth y GIG neu Fwrdd Iechyd Lleol) ar gyfer yr awdurdodiad hwn.
- 13.86 Os y bo'n briodol, gellir oedi'r awdurdodiad sydd ar waith ar gyfer y lleoliad gwreiddiol a'i barhau pan fydd yr unigolyn yn dychwelyd, cyhyd â bod amodau'r awdurdodiad o hyd yn cael eu bodloni ac nad oes unrhyw newidiadau i'r trefniadau. Bydd yr awdurdodiad gwreiddiol yn parhau tan ei fod yn dod i ddiwedd y cyfnod awdurdodi, neu fe'i terfynir ond byddai i bob pwrpas yn cael ei atal. Dylai'r Corff Cyfrifol ar gyfer yr awdurdodiad hwnnw ddod â'r awdurdodiad hwnnw i ben os bydd yn dod yn eglur y bydd angen newid y trefniadau pan fo'r unigolyn yn dychwelyd i'r lleoliad gwreiddiol.
- 13.87 Yn yr un modd, os bydd yn rhaid i unigolyn symud o'u cartref teuluol i gartref gofal am gyfnod o ofal a thriniaeth, heb ei gynllunio, oherwydd bod gofalwr teuluol wedi mynd yn sâl, ac nad oedd modd i'r unigolyn aros gartref, mae'n bosibl y bydd angen awdurdodiad newydd, er na fyddai'r Corff Cyfrifol yn newid. Fel yr uchod, os y bo'n briodol, gellir i bob pwrpas atal yr awdurdodiad gwreiddiol tan fod modd ei ailsefydlu (os y bo hynny'n briodol).
- 13.88 Gellir gwneud amrywiadau'n unig os bydd yn rhesymol gwneud hynny ac os yr ymgynghorir â'r rhai hynny yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod y broses awdurdodi gychwynnol, ac unrhyw bobl berthnasol eraill, am ddymuniadau a theimladau'r unigolyn.
- 13.89 Os cynigir amrywiad o'r awdurdodiad, dylid cynnal adolygiad. Os na fydd amser i gynnal yr adolygiad cyn y gwneir yr amrywiad, mae'n rhaid ei gynnal cyn gynted ag y bo'n ymarferol unwaith y bydd amrywiad wedi'i wneud i'r awdurdodiad.

Adolygiadau

- 13.90 I sicrhau bod y trefniadau yn parhau i fod yn briodol ar gyfer yr unigolyn, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol adolygu'r awdurdodiad yn unol â'r rhaglen a nodir yn y cofnod awdurdodi. Bydd natur a nifer yr adolygiadau'n dibynnu ar nifer o wahanol ffactorau unigol, rhai a fydd yn wyddys pan roddir awdurdodiad, ac eraill a fydd yn codi yn ystod yr awdurdodiad.
- 13.91 Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol greu amserlen ar gyfer adolygiadau yn y cofnod awdurdodi. Mae'r unigolyn sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi'n gyfrifol am ddrafftio'r rhaglen adolygiadau yn y cofnod awdurdodi drafft. Dylai'r unigolyn sy'n creu'r amserlen hon ystyried pa mor gyfyngol yw'r trefniadau, unrhyw amodau ar yr awdurdodiad, dymuniadau a theimladau'r unigolyn, hyd yr awdurdodiad, ac a oes unrhyw bosibilrwydd o newidiadau yn ymddygiad neu gyflwr yr unigolyn. Dylai'r Corff Cyfrifol ystyried hyn pan fydd yn penderfynu p'un ai i awdurdodi'r trefniadau. Os bydd y Corff Cyfrifol yn penderfynu peidio â gweithredu'r rhaglen o adolygiadau a nodir yn y cofnod awdurdodi drafft, dylai nodi'r rhesymau'n ysgrifenedig wrth yr unigolyn a gynhaliodd yr adolygiad cyn-awdurdodi.
- 13.92 Os bydd gan yr unigolyn gynllun iechyd neu ofal a chymorth hefyd, megis y rhai hynny a wneir o dan y ddeddfwriaeth a restrir ym mharagraff XX, yna dylai'r Corff Cyfrifol geisio cynnal adolygiad yr awdurdodiad fel rhan o unrhyw adolygiadau o'r cynllun. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod y cynllun gofal neu driniaeth cyfan, gan gynnwys y ddarpariaeth iechyd neu ofal a'r trefniadau o amgylch hynny, wedi'i alinio. Bydd hyn yn helpu i roi gwasanaeth cyson a chynhwysfawr i'r unigolyn.

Pryd y gellir cynnal adolygiad nad yw'n rhan o'r rhaglen reolaidd yn y cyfnod awdurdodi?

- 13.93 Mewn rhai achosion, yn ystod yr awdurdodiad, gall rhywbeth ddigwydd sy'n golygu bod angen i'r Corff Cyfrifol drefnu adolygiad nad oedd wedi'i amlinellu yn y cofnod awdurdodi. Yr amgylchiadau hyn yw:
- ar amrywiad (mwy o wybodaeth am amrywiadau ym mharagraff XX),
 - gwneir cais rhesymol gan rywun sy'n ymddiddori yn y trefniadau,
 - mae'r unigolyn yn dod yn ddarostyngedig i drefniadau iechyd meddwl (e.e. maent yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl),
 - mae'r unigolyn yn dod yn ddarostyngedig i ofynion iechyd meddwl (e.e. byddai'r LPS yn anghyson â chyflwr yng Ngorchymyn Triniaeth Gymunedol yr unigolyn o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl),
 - nid yw'r unigolyn yn dymuno preswyllo na derbyn gofal neu driniaeth yn y lle hwnnw ac nid yw AMCP wedi adolygu'r achos hwn
 - mae'r Corff Cyfrifol yn dod yn ymwybodol o newid arwyddocaol i amodau neu amgylchiadau'r unigolyn.

- 13.94 Gall unrhyw un gysylltu â'r Corff Cyfrifol perthnasol i esbonio pam eu bod yn meddwl bod angen adolygiad. Yna, dylai'r Corff Cyfrifol adolygu'r wybodaeth berthnasol a gyflwynir gan yr unigolyn a gododd yr adolygiad, i bennu a yw'r cais yn un rhesymol neu a yw un o'r amgylchiadau a restrir uchod, yn berthnasol. Os felly, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol gynnal adolygiad. Dylai Cyrff Cyfrifol sicrhau bod ganddynt ffyrdd priodol a hygyrch i rywun ofyn am adolygiad, ac yr ystyrir pob cais.
- 13.95 Dylai'r Corff Cyfrifol sicrhau bod ffyrdd priodol a hygyrch i rywun godi pryderon am drefniadau'r unigolyn, gan gynnwys a ydynt yn alinio â dymuniadau a theimladau'r unigolyn. Pan nad yw'r unigolyn yn dymuno preswyllo na derbyn gofal neu driniaeth yn y lleoliad, ac nad yw AMCP wedi bod ynghlwm â'r achos yn flaenorol, dylid cyfeirio'r adolygiad at AMCP a ddylai gynnal yr adolygiad ac mae'n rhaid iddo hefyd bennu a yw amodau'r awdurdodiad yn cael eu bodloni (gweler paragraffau XX isod i gael mwy o wybodaeth).
- 13.96 Pan fo un o'r amgylchiadau a amlinellir ym mharagraff XX yn digwydd, dylai'r Corff Cyfrifol hysbysu'r unigolyn, eu IMCA neu Berson Priodol, ac unrhyw unigolyn arall sy'n ymwneud â'r adolygiad, bod yr adolygiad yn cael ei gynnal.

Beth sy'n digwydd mewn adolygiad?

- 13.97 Mae fformat yr adolygiad yn dibynnu ar y rheswm dros yr adolygiad. Er enghraifft, mae adolygiad o natur mwy difrifol, megis pan nad yw'r unigolyn yn dymuno preswyllo yn y lleoliad, yn debygol o fod angen adolygiad mwy manwl. Mae hyn yn debygol o gynnwys cyfarfod wyneb yn wyneb neu gynhadledd achos. Mae'n bosibl na fydd adolygiad i wirio cynnydd rhai amodau o'r awdurdodiad yn cynnwys y camau gweithredu hyn.
- 13.98 Dylai'r Corff Cyfrifol o leiaf siarad â'r rhai hynny sy'n ymwneud â'r mater sy'n cael ei adolygu, a'r unigolyn eu hunain os y bo'n briodol, i ddeall sut mae'r trefniadau'n effeithio ar yr unigolyn. Er enghraifft, os bydd awdurdodiad yr unigolyn yn cael ei amrywio i alluogi iddynt gael eu cludo rhwng cartref gofal a chartref eu teulu, dylai'r Corff Cyfrifol siarad â rheolwr y cartref gofal, y cwmni cludo, a theulu'r unigolyn. Dylai'r adolygydd benderfynu a oes angen cynhadledd achos hefyd.
- 13.99 Pan fo'r Corff Cyfrifol yn adolygu mater cymhleth neu fwy difrifol gyda'r awdurdodiad, dylai geisio siarad â chynifer o bobl sy'n ymwneud â gofal yr unigolyn â phosibl, gan gynnwys yr unigolyn eu hunain. Dylid trefnu cynhadledd achos hefyd, sy'n cynnwys yr unigolyn, yr IMCA neu'u Person Priodol, unrhyw un y byddai'r unigolyn yn dymuno iddynt fod yn bresennol, a'r rhai hynny sy'n ymwneud â gofal a thriniaeth yr unigolyn ac sy'n cyflawni'r trefniadau. Dylai'r adolygydd gadeirio'r cyfarfod a gwneud cofnod ohono i'w rannu ag eraill. Mae'n bosibl y gall fod yn briodol ac yn angenrheidiol hefyd gwneud asesiad pellach i bennu a yw amodau'r awdurdodiad yn parhau i gael eu bodloni, er enghraifft, os yw galluedd meddyliol yr unigolyn wedi newid.

- 13.100 Unwaith y mae'r Corff Cyfrifol wedi cynnal yr adolygiad, dylai ystyried a oes angen newid yr awdurdodiad. Gall newidiadau amrywio o amrywiad i'r awdurdodiad i atal yr awdurdodiad os na fydd amodau'r awdurdodiad yn cael eu bodloni mwyach. Os na fydd angen unrhyw newidiadau i'r awdurdodiad, gall yr awdurdodiad barhau. Beth bynnag yw canlyniad yr adolygiad, dylid nodi'r penderfyniad ar y ddogfennaeth ar gyfer yr adolygiad a dylid rhannu copïau â phawb a dderbyniodd y copi cychwynnol.
- 13.101 Os na fydd amodau'r awdurdodiad yn cael eu bodloni mwyach, gall y camau gweithredu ddibynnu ar sut mae'r amodau wedi newid. Os na asesir bod gan yr unigolyn anhwylder meddyliol mwyach neu eu bod wedi adennill gallu, mae'n rhaid dod â'r awdurdodiad i ben yn syth. Yn yr un modd, os na ystyrir y trefniadau'n angenrheidiol ac yn gymesur mwyach, ac nad yw'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad a phenderfyniad yn credu y byddai unrhyw drefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid yn angenrheidiol ac yn gymesur hefyd, dylid dod â'r awdurdodiad i ben. Fodd bynnag, os nad yw'r trefniadau'n angenrheidiol ac yn gymesur mwyach, ond mae trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid o hyd yn angenrheidiol, mae'n bosibl y bydd angen awdurdodiad newydd.
- 13.102 Yn y sefyllfa hon, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol drefnu unrhyw asesiadau newydd sy'n angenrheidiol a sicrhau bod yr adolygiad cyn-awdurdodi'n cael ei gynnal cyn ystyried awdurdodiad newydd.
- 13.103 Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol benderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i gynnal yr adolygiad a ph'un ai a ddylai'r unigolyn fod yn annibynnol, er enghraifft, o'r Corff Cyfrifol a'r darparwyr gofal a thriniaeth. Efallai bydd AMCP yn briodol i gynnal yr adolygiad mewn sawl achos. Fel arall, efallai bydd rhywun sy'n ymwneud â gofal neu driniaeth yr unigolyn yn briodol i gynnal yr adolygiad. Pwy bynnag sy'n cynnal yr adolygiad, dylai'r Corff Cyfrifol fod yn fodlon bod yr adolygiad wedi'i gynnal yn briodol ac yn gyfreithlon.

Pryd dylid gwneud atgyfeiriad at AMCP ar gyfer adolygiad a beth yw rôl AMCP mewn adolygiad?

- 13.104 Os bydd y Corff Cyfrifol yn dod yn ymwybodol nad yw'r unigolyn yn dymuno preswyllo na derbyn gofal neu driniaeth yn y lleoliad unwaith y mae'r awdurdodiad ar waith, ac na chafodd yr adolygiad cyn-awdurdodi ei gyflawni gan AMCP, mae'n rhaid cynnal adolygiad. Bydd yn rhaid cynnal adolygiad hefyd os bydd unigolyn sy'n ymwneud â gofalu am yr unigolyn neu sy'n ymddiddori yn eu lles yn hysbysu'r Corff Cyfrifol nad yw'r unigolyn yn dymuno preswyllo na derbyn gofal neu driniaeth yn y lleoliad unwaith y mae'r awdurdodiad ar waith, ac yn gwneud cais rhesymol am adolygiad.

- 13.105 Yn yr achos cyntaf, dylai'r Corff Cyfrifol ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn, gan gynnwys eu dymuniadau a'u teimladau yn y gorffennol cyhyd ag eu bod yn berthnasol.
- 13.106 Yn ogystal, yn yr achos cyntaf uchod, dylai'r Corff Cyfrifol ystyried yr amgylchiadau o amgylch y trefniadau, gan gynnwys unrhyw newidiadau, i lwyr ddeall sut mae'r unigolyn yn teimlo. Er enghraifft, efallai bod yr unigolyn yn preswyllo mewn ward iechyd meddwl mewn ysbyty ac yn hapus pan gafodd y trefniadau eu hawdurdodi gyntaf, ond ers yr awdurdodiad mae mwy o bobl wedi symud i'r ward ac wedi gwneud i'r unigolyn deimlo'n anghyfforddus.
- 13.107 Dylai'r AMCP gynnal yr adolygiad, gan adolygu'r awdurdodiad, cyfarfod â'r unigolyn cyn belled ag y bo'n briodol ac yn ymarferol, ac ymgynghori â phawb yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod y broses awdurdodi gychwynnol, os y bo hynny'n briodol ac yn ymarferol. Efallai bydd yr AMCP hefyd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol ymgynghori ag unigolion eraill na ymgynghorwyd â nhw cyn y rhoddwyd yr awdurdodiad.
- 13.108 Unwaith y mae'r adolygiad wedi'i gwblhau, mae'n rhaid i'r AMCP bennu a yw amodau'r awdurdodiad yn parhau i gael eu bodloni. Gweler mwy o wybodaeth ynghylch sut mae AMCPau yn cynnal adolygiadau ym mhennod XX.

Adnewyddu

- 13.109 Cyfnod cychwynnol uchafswm awdurdodiad yw hyd at 12 mis. Pan fo diwedd y cyfnod awdurdodi cychwynnol yn agosáu, gellir gwneud penderfyniad ar gyfer adnewyddu. Gellir adnewyddu'r awdurdodiad am y tro cyntaf am hyd at 12 mis. Wedi hynny, gellir adnewyddu awdurdodiad am gyfnod hyd at 36 mis. Byddai adnewyddu am 36 mis fel arfer yn briodol yn unig pan ei bod hi'n eglur bod amgylchiadau, dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn annhebygol o newid.
- 13.110 Pan adnewyddir awdurdodiad, parheir yr awdurdodiad cyfredol, ac ymestynnir y dyddiad dod i ben. Dylai'r Corff Cyfrifol ddiweddarau'r cofnod awdurdodi a rhannu hyn â'r un bobl a dderbyniodd y cofnod cychwynnol, ac unrhyw bartïon perthnasol eraill.

Sut y mae'r Corff Cyfrifol yn penderfynu pan fydd adnewyddu'n briodol?

- 13.111 Pan fydd y cyfnod awdurdodi'n dod i ben, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol ystyried a yw adnewyddu'n briodol ac a oes angen cymryd unrhyw gamau gweithredu eraill.
- 13.112 Er mwyn adnewyddu awdurdodiad, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol fodloni bod yr amodau awdurdodi'n parhau i gael eu bodloni. Mewn rhai achosion, pan fydd trefniadau'r unigolyn wedi bod yn sefydlog am gyfnod ac nad yw eu cyflwr wedi newid, efallai bydd y Corff Cyfrifol yn hyderus bod yr amodau'n cael eu bodloni

heb gamau gweithredu pellach. Pan fo hynny'n wir, nid oes angen asesiadau pellach.

- 13.113 Os bydd gallu'r unigolyn wedi dirywio neu wedi aros yr un peth, mae'n bosibl na fydd angen cynnal asesiad pellach ar alluedd, oherwydd nad ydynt wedi adennill y gallu perthnasol.
- 13.114 Fodd bynnag, mewn rhai achosion, bydd rhesymau i gredu nad yw amodau'r awdurdodiad yn cael eu bodloni mwyach, er enghraifft, os adroddir bod gan yr unigolyn y gallu i gydsynio i'r trefniadau bellach. Gall hyn olygu nad yw'r Corff Cyfrifol yn sicr mwyach bod yr amodau awdurdodi'n parhau i gael eu bodloni. Pan mai dyma'r achos, dylai'r Corff Cyfrifol drefnu cyflawni asesiadau a phenderfyniadau pellach er mwyn penderfynu a yw'r amodau yn parhau i gael eu bodloni ac felly a ellir adnewyddu'r un awdurdodiad.
- 13.115 Os bydd yr amodau awdurdodi'n cael eu bodloni, ond gyda newidiadau sylweddol i'r awdurdodiad, yna nid oes modd parhau â'r awdurdodiad. Mae'n rhaid dod â'r awdurdodiad i ben a sbarduno proses yr LPS eto, er mwyn rhoi awdurdodiad newydd ar waith yn dilyn yr holl asesiadau a phenderfyniadau perthnasol.
- 13.116 P'un ai a yw asesiadau pellach yn cael eu cynnal ai peidio, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol gynnal ymgynghoriad â phawb yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod y broses awdurdodi gychwynnol ac unrhyw bobl berthnasol eraill, pan y bo hynny'n ymarferol ac yn briodol. Mae ymgynghori yn ystod y cam adnewyddu'n bwysig ymysg materion eraill i weld a yw dymuniadau a theimladau'r unigolyn wedi newid mewn perthynas â'r trefniadau.
- 13.117 Os bydd dymuniadau a theimladau'r unigolyn wedi newid, efallai na fydd y trefniadau'n angenrheidiol ac yn gymesur mwyach. Efallai bydd hi'n briodol felly i gynnal asesiad a phenderfyniad ar angenrheidrwydd a chymesuredd.
- 13.118 Os bydd gan yr unigolyn gynllun iechyd neu ofal cymdeithasol a chymorth, er enghraifft o dan y ddeddfwriaeth a amlinellir ym mharagraff XX, dylai'r Corff Cyfrifol geisio cynnal yr ymgynghoriad i adnewyddu fel rhan o unrhyw adolygiad cynllun iechyd neu ofal a chymorth lle bo hynny'n briodol ac yn bosibl. Bydd hyn yn symleiddio prosesau perthnasol drwy gadw awdurdodiad LPS yr unigolyn wedi'i gysylltu'n agos â'u cynllun iechyd neu ofal a chymorth a bydd hefyd yn lleihau'r nifer o brosesau y mae angen i'r unigolyn ymgymryd â nhw.

14. Beth yw rôl Corff Cyfrifol ym mhroses y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid?

Pan fydd trefniadau ar gyfer gofal a chymorth unigolyn yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, mae'n rhaid i Gorff Cyfrifol bennu p'un ai i awdurdodi'r trefniadau hyn.

Mae'r bennod hon yn disgrifio cyfrifoldebau Corff Cyfrifol ac yn rhoi gwybodaeth am sut i benderfynu pa sefydliad yw'r Corff Cyfrifol. Mae'r bennod hon hefyd yn rhoi gwybodaeth am drefniadau a wneir o ran ffiniau traws-genedlaethol ar gyfer oedolion yn y Deyrnas Unedig.

Nodir manylion proses gyffredinol yr LPS ym mhennod 13. Mae'r bennod hon yn rhoi gwybodaeth ynghylch rôl y Corff Cyfrifol o fewn system yr LPS.

Crynodeb Cyflym

Pa sefydliadau sy'n gallu bod yn Gorff Cyfrifol?

- Mae'r term "Corff Cyfrifol" yn cyfeirio at sefydliad, yn hytrach nag unigolyn, er y gall pobl unigol a gyflogir gan y Corff Cyfrifol fod yn gweithredu ar ei ran.
- Mae enghreifftiau o sefydliadau sy'n gymwys i fod yn Gyrff Cyfrifol yn cynnwys: Ymddiriedolaeth y GIG neu Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG, Awdurdod Lleol, Grŵp Comisiynu Clinigol (CCG), Bwrdd Iechyd Lleol neu eraill.

Sut i sefydlu pwy yw'r Corff Cyfrifol.

- Un Corff cyfrifol sy'n gallu bodoli'n unig ar gyfer unrhyw awdurdodiad. Gellir dod o hyd i'r rhestr hierarchaidd a chanllawiau pellach ar gyfer sefydlu pwy yw'r Corff Cyfrifol mewn lleoliad penodol isod.
- Mae'r egwyddor 'Dim Drws Anghywir' yn golygu os bydd unigolyn neu ddarparwr iechyd neu ofal yn cysylltu â Chorff Cyfrifol am drefniadau a all fod yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, ac nad y sefydliad hwnnw yw'r un cywir i weithredu fel y Corff Cyfrifol, dylai'r sefydliad drosglwyddo'r atgyfeiriad hwn i'r Corff Cyfrifol cywir.

Dyletswydd y Corff Cyfrifol i ddarparu gwybodaeth.

- **Mae gan bob corff cyfrifol ddyletswydd gyffredinol i gyhoeddi gwybodaeth am y canlynol:**
 - effaith awdurdodiad
 - y broses ar gyfer awdurdodi trefniadau
 - pryd y dylid penodi IMCA
 - rôl y Person Priodol
 - pryd y gallai Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol (AMCP) ymwneud ag achos
 - yr hawl i wneud cais i'r Llys Gwarchod
 - adolygiadau awdurdodiad.

Pa sefydliadau sy'n gallu bod yn Gorff Cyfrifol?

14.1 Yn y rhan fwyaf o achosion, un o'r canlynol fydd y Corff Cyfrifol:

- Ymddiriedolaeth y GIG neu Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG
- Awdurdod Lleol
- Grŵp Comisiynu Clinigol (yn Lloegr)
- Bwrdd Iechyd Lleol (yng Nghymru)

14.2 Mewn rhai achosion, gallai'r Corff Cyfrifol hefyd fod yn:

- Awdurdod Iechyd Arbennig
- Yr Ysgrifennydd Gwladol
- Gweinidogion Cymru

Sut i sefydlu pa sefydliad yw'r Corff Cyfrifol

14.3 Un Corff Cyfrifol sy'n gallu bodoli'n unig ar gyfer unrhyw awdurdodiad. Mae Atodlen AA1 Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (MCA) yn sefydlu rhestr hierarchaidd er mwyn pennu pwy yw'r Corff Cyfrifol. Mewn sawl achos, bydd hyn yn syml. Mewn achosion eraill, megis pan fydd yr awdurdodiad yn cynnwys gwahanol leoliadau, mae angen sefydlu pwy yw'r Corff Cyfrifol drwy gyfeirio at y meini prawf yn Atodlen AA1 yr MCA. Darperir y rhestr o gwestiynau isod i helpu i sefydlu pwy yw'r Corff Cyfrifol. Dylid darllen y cwestiynau, gan ddechrau ar y brig, ac unwaith rydych yn ateb "ydynt", mae'r Corff Cyfrifol wedi'i nodi. Mae'r cwestiynau hyn fel a ganlyn:

1. A yw'r trefniadau'n cael eu cynnal yn bennaf mewn ysbyty'r GIG? Os felly, yn Lloegr, y Corff Cyfrifol yw Ymddiriedolaeth y GIG neu Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG. Yng Nghymru, y Bwrdd Iechyd Lleol yw'r Corff Cyfrifol.
2. A yw'r trefniadau'n cael eu cynnal yn bennaf mewn ysbyty annibynnol yn Lloegr? Os felly, y Corff Cyfrifol yw naill ai'r awdurdod lleol sy'n bodloni anghenion yr unigolyn neu'r awdurdod lleol lle mae'r ysbyty wedi'i leoli.
3. A yw'r trefniadau'n cael eu cynnal yn bennaf mewn ysbyty annibynnol yng Nghymru? Os felly, y Corff Cyfrifol yw'r Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer yr ardal lle mae'r ysbyty annibynnol wedi'i leoli.
4. A yw'r trefniadau'n cael eu cynnal yn bennaf drwy ddarpariaeth Gofal Iechyd Parhaus y GIG yn Lloegr neu Ofal Iechyd Parhaus y GIG yng Nghymru? Os felly, y Corff Cyfrifol yw'r Grŵp Comisiynu Clinigol (CCG) yn Lloegr neu'r Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru.
5. Mewn pob achos arall, y Corff Cyfrifol yw'r awdurdod lleol

Beth yw ystyr "yn bennaf"?

- 14.4 Mewn rhai achosion, bydd sefydlu pwy yw'r Corff Cyfrifol yn dibynnu ar ble mae'r trefniadau'n cael eu cynnal "yn bennaf", neu sut mae anghenion gofal neu driniaeth yr unigolyn yn cael eu cynnal "yn bennaf". Bydd ystyr y gair "yn bennaf" yn arbennig o berthnasol pan fydd y trefniadau sy'n cael eu hawdurdodi'n berthnasol mewn lleoliadau gwahanol.
- 14.5 Wrth ystyried ystyr "yn bennaf", dylid rhoi pwyslais ar ystyriaethau amser a lle mae'r trefniadau'n cael eu cynnal am y rhan fwyaf o'r amser. Er enghraifft, os bydd y trefniadau sy'n cael eu hawdurdodi'n cael eu comisiynu fel rhan o gynllun gofal a chymorth o dan Ddeddf Gofal 2014 neu Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn cynnwys unigolyn sy'n byw mewn cartref gofal saith niwrnod yr wythnos, a drefnwyd gan awdurdod lleol, ond eu bod yn ymweld â'r ysbyty i gael triniaeth reolaidd ddau fore'r wythnos, yr awdurdod lleol fyddai'r Corff Cyfrifol.

Pwy yw'r Corff Cyfrifol ar gyfer trefniadau mewn Ymddiriedolaeth y GIG neu Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG neu Fwrdd Iechyd Lleol?

- 14.6 Ar gyfer pob achos lle mae trefniadau'n cael eu cynnal yn bennaf mewn ysbyty'r GIG, y Corff Cyfrifol yw "rheolwr ysbyty" yr ysbyty hwnnw. Rhoddir ystyr benodol i'r term hwn at ddibenion y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid. Yn Lloegr, yn y rhan

fwyaf o achosion, mae'n golygu Ymddiriedolaeth y GIG neu Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG sy'n gyfrifol am yr ysbyty hwnnw. Yng Nghymru, yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n golygu'r Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer yr ysbyty hwnnw yng Nghymru.

Pwy yw'r Corff Cyfrifol ar gyfer trefniadau mewn Ysbyty Annibynnol?

- 14.7 Yn Lloegr, os yw'r trefniadau'n bennaf mewn ysbyty annibynnol, awdurdod lleol yw'r Corff Cyfrifol. Yn gyffredinol, naill ai'r awdurdod lleol sy'n bodloni anghenion yr unigolyn neu awdurdod lleol yr ardal lle mae'r ysbyty, neu brif ardal yr ysbyty os yw ar draws dau ardal awdurdod lleol neu fwy. Mae hyn hefyd yn berthnasol pan fydd unigolyn mewn lleoliad ysbyty annibynnol, hyd yn oed os yw'r gwasanaeth yn cael ei gyllido neu'i gomisiynu gan y GIG, ac mewn achosion o esgyll neu adeiladau preifat ar safleoedd y GIG.
- 14.8 Yng Nghymru, y Corff Cyfrifol bob tro ar gyfer ysbytai annibynnol yw'r Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer yr ardal lle mae'r ysbyty annibynnol hwnnw wedi'i leoli, neu brif ardal yr ysbyty os yw ar draws dau ardal awdurdod lleol neu fwy. Eto, mae hyn hefyd yn berthnasol pan fydd unigolyn mewn lleoliad ysbyty annibynnol, hyd yn oed os bydd y gwasanaeth yn cael ei gyllido neu'i gomisiynu gan y GIG, ac mewn achosion o esgyll neu adeiladau preifat ar safleoedd y GIG. Mae hyn at ddibenion LPS yn unig.

Pa awdurdod lleol yw'r Corff Cyfrifol pan fydd unigolyn mewn ysbyty annibynnol?

- 14.9 Yn Lloegr, pan fydd y trefniadau'n bennaf mewn ysbyty annibynnol, y Corff Cyfrifol fydd yr awdurdod lleol sy'n bodloni anghenion yr unigolyn o dan y ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol perthnasol. I oedolion, y cynllun Addysg, Iechyd a Gofal (EHC) fydd hyn, o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 neu anghenion gofal a chymorth o dan Ran 1 Deddf Gofal 2014. I bobl ifanc yn Lloegr, cynllun EHC fydd hyn, llety o dan adran 20 Deddf Plant 1989, neu pan fydd yr unigolyn yn ddarostyngedig i orchymyn gofal neu orchymyn gofal dros dro o dan Ddeddf Plant 1989.
- 14.10 Os bydd mwy nag un awdurdod lleol yn bodloni anghenion unigolyn am ofal a chymorth o dan Ran 1 Deddf Gofal 2014, y Corff Cyfrifol yw'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y mae'r unigolyn fel arfer yn preswyllo ynddi at ddibenion y Rhan honno o'r Ddeddf honno.

Pwy yw'r Corff Cyfrifol ar gyfer Hosbis?

- 14.11 Bydd y rhan fwyaf o hosbisau'n bodloni diffiniad perthnasol ysbyty annibynnol. Pan mai dyma'r achos yn Lloegr, yr awdurdod lleol fyddai'r Corff Cyfrifol; yng Nghymru, y Bwrdd Iechyd Lleol fyddai'r Corff Cyfrifol.

14.12 Mae nifer o wasanaethau hosbis a gwasanaethau diwedd oes yn cael eu darparu y tu allan i hosbisau ac ysbytai, er enghraifft mewn cartrefi gofal, ac yng nghartrefi pobl eu hunain. Yn yr achosion hyn, y Corff Cyfrifol fyddai'r CCG yn Lloegr neu'r Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru.

Pwy yw'r Corff Cyfrifol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus yn Lloegr a Gofal Iechyd Parhaus y GIG yng Nghymru?

Pwy yw'r Corff Cyfrifol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus yn Lloegr?

- 14.13 Yn Lloegr, y CCG yw'r Corff Cyfrifol pan fydd y trefniadau'n cael eu cynnal yn bennaf drwy ddarpariaeth Gofal Iechyd Parhaus y GIG (NHS CHC). Y CCG sy'n comisiynu'r NHS CHC yw'r Corff Cyfrifol, lle bynnag mae'r unigolyn yn byw.
- 14.14 Mae'r NHS CHC yn becyn gofal a drefnir ac a gyllidir gan y gwasanaeth iechyd yn Lloegr yn unig i unigolyn 18 oed neu'n hŷn, i fodloni anghenion iechyd corfforol neu iechyd meddwl sydd wedi codi o ganlyniad i anabledd, damwain neu salwch.
- 14.15 Os asesir bod yr unigolyn yn gymwys ar gyfer NHS CHC, y GIG sy'n gyfrifol am gomisiynu pecyn gofal sy'n bodloni anghenion iechyd sylfaenol ac anghenion gofal cymdeithasol cysylltiedig yr unigolyn, gan gynnwys llety, os bydd hynny'n rhan o'r angen cyffredinol. Mewn achosion o'r fath, y CCG sy'n gyfrifol am ddarpariaeth CHC NHS fydd y Corff Cyfrifol.
- 14.16 Os bydd yr unigolyn yn derbyn NHS CHC a bod angen iddynt ymweld â'r ysbyty'n rheolaidd i gael triniaeth hefyd, byddai'r Corff Cyfrifol yn dibynnu ar ble mae'r trefniadau'n cael eu cynnal yn bennaf. Os na fydd y trefniadau'n cael eu cynnal yn bennaf mewn ysbyty, y CCG fyddai'r Corff Cyfrifol. Er enghraifft, os bydd yr unigolyn yn byw mewn cartref gofal sy'n cael ei ddarparu o dan CHC bedwar diwrnod yr wythnos ond bydd angen iddynt aros mewn ysbyty dros nos dair gwaith yr wythnos, y CCG fyddai'r Corff Cyfrifol.
- 14.17 Mae'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus yn nodi cyfrifoldebau'r GIG ac awdurdodau lleol o ran Gofal Iechyd Parhaus y GIG a phecynnau gofal iechyd a chymdeithasol ar y cyd. I gael mwy o wybodaeth am Ofal Iechyd Parhaus y GIG, gweler y fframwaith, sydd ar gael ar GOV.UK.

Pwy yw'r Corff Cyfrifol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG yng Nghymru?

- 14.18 Y GIG yng Nghymru sy'n gyfrifol am Ofal Iechyd Parhaus yng Nghymru (sy'n cyfateb i NHS CHC yn Lloegr), a ddarperir trwy Fyrddau Iechyd Lleol (LHBs). Sefydlir y trefniadau hyn gan Weinidogion Cymru drwy *Ofal Iechyd Parhaus y GIG - Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu yng Nghymru*.

14.19 Os asesir bod unigolyn yn gymwys am Ofal Iechyd Parhaus y GIG, y GIG sy'n gyfrifol am gomisiynu pecyn gofal sy'n bodloni anghenion iechyd ac anghenion gofal cymdeithasol cysylltiedig yr unigolyn, gan gynnwys llety, os bydd hynny'n rhan o'r angen cyffredinol. Mewn achosion o'r fath, yr LHB fydd yn gyfrifol am ddarparu Gofal Iechyd Parhaus y GIG fydd y Corff Cyfrifol.

14.20 Mae'r fframwaith yn nodi bod gan LHB y prif gyfrifoldeb ar gyfer CHC yn eu hardal leol. Mae'n rhaid iddynt, fodd bynnag, weithio ag awdurdodau lleol, sefydliadau eraill y GIG a phartneriaid sector annibynnol/gwirfoddol i sicrhau bod y Fframwaith yn gweithredu'n effeithiol. Felly, y Corff Cyfrifol fydd yr LHB.

Pwy yw'r Corff Cyfrifol pan fydd unigolyn yn derbyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG neu Ofal Iechyd Parhaus y GIG y tu allan i'r ardal?

14.21 Pan fydd, er mwyn bodloni anghenion gofal parhaus unigolyn, CCG neu Fwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru'n trefnu i ddarparu ar eu cyfer:

- llety mewn cartref gofal; ac
- o leiaf un gwasanaeth gofal iechyd wedi'i gynllunio (heblaw am ofal nyrsio wedi'i gyllido gan y GIG (NHS FNC)) sydd wedi'i gysylltu â darpariaeth y llety hwnnw,

yna mae'r CCG neu Fwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru yn cadw'r cyfrifoldeb comisiynu ar gyfer yr unigolyn hwnnw, o ran y gwasanaethau hynny, pa feddyg teulu bynnag y mae'r unigolyn wedi cofrestru â nhw. Mae hyn yn parhau am gyhyd ag y bo angen pecyn gofal parhaus ar yr unigolyn (hynny yw, eu bod yn aros fel preswylydd mewn llety ac yn parhau i fod angen gwasanaethau arnynt), p'un ai a yw hyn wedi'i ddarparu yn yr un lleoliad ffisegol neu lleoliad arall. Mewn achosion o'r fath, y CCG neu'r Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru sy'n lleoli yw'r Corff Cyfrifol.

Pwy yw'r Corff Cyfrifol pan fydd anghenion unigolyn yn cael eu bodloni gan fwy nag un sefydliad?

14.22. Os bydd rhywun yn derbyn NHS CHC, fel arfer y CCG fyddai'n gyfrifol am y pecyn gofal cyfan. Y rheswm dros hyn yw ei fod yn gyfrifol am anghenion iechyd ac anghenion gofal cymdeithasol cysylltiedig yr unigolyn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai awdurdod lleol barhau i fodloni anghenion gofal cymdeithasol yr unigolyn "nad ydynt yn gysylltiedig"; hynny yw, anghenion nad ydynt yn gysylltiedig ag anghenion iechyd sylfaenol yr unigolyn. Er enghraifft, mae'n bosibl bod gan yr unigolyn anghenion cymorth ychwanegol a allai fod yn briodol i'r awdurdod lleol fynd i'r afael â nhw drwy addasiadau yn yr adeilad.

14.23. Mewn pob achos, y prawf cyfreithiol yw a yw'r trefniadau'n cael eu cynnal yn bennaf drwy ddarpariaeth yr NHS CHC. O ystyried bod gan yr unigolyn angen iechyd sylfaenol ac yn derbyn NHS CHC, mae bron yn ôl diffiniad yn dilyn mai'r CCG neu'r LHB fyddai'r Corff Cyfrifol mewn achosion o'r fath.

14.24. Os na fydd unigolyn yn gymwys am NHS CHC, mae'n bosibl y byddant yn derbyn pecyn gofal iechyd a chymdeithasol ar y cyd. Dyma ble mae pecyn gofal neu gymorth unigolyn yn cael ei gyllido gan y GIG yn ogystal â'r awdurdod lleol. Yn yr achosion hyn, y Corff Cyfrifol yw'r awdurdod lleol.

14.25. Os na fydd unigolyn yn gymwys am NHS CHC ond bydd angen gofal arnynt gan nyrs gofrestrdig ac y byddai eu hanghenion cyffredinol yn cael eu bodloni'n y ffordd fwyaf priodol mewn cartref gofal gyda nyrsio, mae'n bosibl y byddant yn gymwys am Ofal Nyrsio a gyllidir gan y GIG. Gall pob angen gofal arall fod yn ddarostyngedig i asesiad o dan ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol megis y Ddeddf Gofal. P'un ai a yw eu hanghenion yn cael eu hasesu neu'u bodloni ai peidio gan awdurdod lleol, mewn achosion o'r fath, y Corff Cyfrifol fydd yr awdurdod lleol (gan dybio nad yw'r trefniadau'n cael eu cynnal yn bennaf mewn ysbyty'r GIG).

Pwy yw'r Corff Cyfrifol ar gyfer pob sefyllfa arall?

14.26 Ym mhob sefyllfa arall, lle nad yw'r trefniadau'n cael eu cynnal yn bennaf mewn ysbyty neu drwy NHS CHC, awdurdod lleol fydd y Corff Cyfrifol. Yn gyffredinol, bydd pa awdurdod lleol yw'r Corff Cyfrifol yn dibynnu ar a yw anghenion gofal a chymorth yr unigolyn yn cael eu bodloni gan awdurdod lleol a pha awdurdod lleol sy'n bodloni anghenion yr unigolyn.

14.27 Os bydd unigolyn yn 18 oed neu'n hŷn, y Corff Cyfrifol fydd:

- Os bydd cynllun EHC, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y cynllun hwnnw (Lloegr);
- Os bydd Cynllun Datblygu Unigol (IDP), yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y cynllun hwnnw (Cymru);
- Fel arall, os bydd gan yr unigolyn anghenion sy'n cael eu bodloni o dan Ddeddf Gofal 2014 neu Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (SSWBA), yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am fodloni'r anghenion hynny.

14.28 Os bydd unigolyn, 18 oed neu'n hŷn, yn cyllido eu gofal eu hunain neu wedi'i gyllido'n breifat yn llwyr, ac nad oes ganddynt gynllun EHC neu IDP ar waith nac yn cael eu hanghenion wedi'u bodloni gan Ddeddf Gofal 2014, y SSWBA neu Ddeddf Plant 1989, ac mae'r trefniadau'n gofyn iddynt breswyllo mewn ardal awdurdod lleol, y Corff Cyfrifol fydd yr awdurdod lleol lle mae'r unigolyn yn preswyllo.

14.29 Os bydd yr unigolyn yn 16 neu 17 oed, ac mae eu gofal yn cael ei gyllido gan awdurdod lleol, mae penderfynu pa awdurdod lleol yw'r Corff Cyfrifol yn wahanol. Y Corff Cyfrifol fydd:

- Os bydd cynllun EHC (yn Lloegr), yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y cynllun hwnnw;

- Os bydd IDP (yng Nghymru), yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y cynllun hwnnw;
- Os na fydd cynllun EHC nac IDP ar waith, ac y darperir llety i'r unigolyn o dan adran 20 Deddf Plant 1989, neu adran 76 y SSWBA, yr awdurdod lleol sy'n darparu'r llety hwnnw.

Fel arall, os bydd yr unigolyn yn ddarostyngedig i orchymyn gofal neu orchymyn gofal dros dro o dan Ddeddf Plant 1989, yr awdurdod lleol â chyfrifoldeb rhiant o dan y gorchymyn ar gyfer gofal yr unigolyn hwnnw.

14.30 Mewn pob achos arall (ar gyfer pob oedran), y Corff Cyfrifol yw:

- Os bydd y trefniadau'n darparu ar gyfer yr unigolyn i breswyllo mewn un lle, yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle lleolir y man hwnnw;
- Os bydd y trefniadau'n darparu ar gyfer yr unigolyn i breswyllo mewn mwy nag un lle, yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle lleolir y prif le preswyl, neu;
- Mewn unrhyw achos arall, yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle mae'r trefniadau'n cael eu cynnal yn bennaf.

14.31 Mewn rhai achosion, gall awdurdod lleol bennu bod anghenion unigolyn ond yn gallu cael eu bodloni mewn llety penodol. Er enghraifft, llety cartref gofal, tai â chymorth a chysylltu bywydau yn Lloegr a llety cartref gofal yng Nghymru. Mewn achosion o'r fath, bydd yr awdurdod lleol cyntaf yn parhau i fodloni anghenion yr unigolyn a byddant fel arfer yn parhau fel y Corff Cyfrifol.

Pwy yw'r Corff Cyfrifol pan fydd mwy nag un awdurdod lleol yn gysylltiedig â bodloni anghenion?

14.32 Os bydd mwy nag un awdurdod lleol yn bodloni anghenion yr unigolyn o dan naill ai Deddf Gofal 2014 (i Loegr) neu'r SSWBA, yr ardal y mae'r unigolyn fel arfer yn preswyllo ynddi fydd y Corff Cyfrifol.

14.33 Os bydd mwy nag un awdurdod lleol yn bodloni anghenion yr unigolyn o dan Ddeddf Gofal 2014 (i Loegr) a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, y Corff Cyfrifol yw:

- Os bydd y trefniadau'n gofyn bod yr unigolyn yn preswyllo mewn un lle, yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle lleolir y man hwnnw;
- Os bydd y trefniadau'n gofyn bod yr unigolyn yn preswyllo mewn mwy nag un lle, yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle lleolir y prif le preswyl, neu;
- Mewn unrhyw achos arall, yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle mae'r trefniadau'n cael eu cynnal yn bennaf.

Beth yw'r egwyddor 'Dim Drws Anghywir'?

- 14.34 Os bydd unigolyn neu ddarparwr iechyd neu ofal yn cysylltu â Chorff Cyfrifol am drefniadau a all fod yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, ac nid y sefydliad hwnnw yw'r un cywir i weithredu fel y Corff Cyfrifol, dylai'r sefydliad drosglwyddo'r atgyfeiriad hwn i'r Corff Cyfrifol cywir. Dylai'r Corff Cyfrifol hysbysu'r unigolyn neu'r sefydliad a gysylltodd â nhw bod yr atgyfeiriad wedi'i drosglwyddo i'r Corff Cyfrifol cywir.
- 14.35 Dylai'r Corff Cyfrifol cywir gydnabod ei fod wedi derbyn yr atgyfeiriad i'r unigolyn neu'r sefydliad a wnaeth yr atgyfeiriad o fewn pum niwrnod gwaith o ddyddiad yr atgyfeiriad gwreiddiol. Dylai'r Corff Cyfrifol cywir ddechrau cyn gynted â phosibl gan gymryd y camau perthnasol i bennu a oes angen awdurdodiad a phenodi IMCA neu Berson Priodol.

Beth y dylid ei ystyried yn ystod gweithio trawsffiniol?

- 14.36. Gall y fframweithiau cyfreithiol sy'n llywodraethu lleoliadau trawsffiniol y DU fod yn gymhleth a gallant amrywio rhwng awdurdodaethau. Pan ystyrir defnyddio'r LPS, mae'n bwysig, fel ym mhob achos trawsffiniol, sicrhau y defnyddir dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy gydol y broses, a dylai awdurdodau weithio ar y cyd.
- 14.37 Mae Llywodraethau'r DU wedi cytuno y dylid defnyddio nifer o egwyddorion i bob lleoliad trawsffiniol. Gellir dod o hyd i ganllawiau ynghylch lleoliadau trawsffiniol ym Mhennod 21 y Canllawiau Gofal a Chymorth Statudol (y cytunwyd arnynt gan bedair Llywodraeth y DU) ac yn y SSWBA, Rhan 11 y Cod Ymarfer (Amrywiol a Chyffredinol).
- 14.38 Ar gyfer arfer da ar weithio trawsffiniol, mae'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE) wedi cyhoeddi canllawiau y cytunwyd arnynt ar draws y pedair llywodraeth. Mae'r canllawiau Lleoliadau Trawsffiniol ar gael ar eu gwefan <https://www.scie.org.uk>.
- 14.39 Mae paragraffau 14.3 yn nodi canllawiau ynghylch sefydlu pwy yw'r Corff Cyfrifol o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid. Wrth sefydlu pwy yw'r Corff Cyfrifol, mae'n bosibl y bydd angen i wneuthurwyr penderfyniad ystyried trefniadau trawsffiniol, er enghraifft rhwng Lloegr a Chymru.
- 14.40 Er enghraifft, mae'n bosibl bod awdurdod lleol yn Lloegr wedi asesu unigolyn o dan Ddeddf Gofal 2014 ac wedi penderfynu bod eu hanghenion gofal a chymorth ond yn gallu cael eu bodloni drwy lety o fath penodol (megis cartref gofal) ac mae'n cynnig darparu'r llety hwnnw yng Nghymru ac o dan amgylchiadau a all fod yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Mewn achos o'r fath, yr awdurdod lleol yn Lloegr fydd y Corff Cyfrifol.

- 14.41 Gall y Corff Cyfrifol drafod â'r awdurdod lleol a chorff y GIG neu'r LHB ar gyfer yr ardal y mae'r unigolyn wedi symud iddi, i weld a allai staff lleol gynnal asesiadau LPS a/neu adolygiadau ar ei ran. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd hyn yn briodol os bydd y Corff Cyfrifol yn Lloegr neu Gymru'n bell o'r ardal y bydd yr unigolyn yn byw ynddi neu'n byw ynddi ar hyn o bryd.
- 14.42 I AMCPau, mae rheoliadau gwahanol yn Lloegr a Chymru sy'n amlinellu'r gofynion cymhwysedd er mwyn ymarfer fel AMCP. Fodd bynnag, mae AMCPau yn gymwys i ymarfer fel AMCP naill ai yn Lloegr neu yng Nghymru os byddant yn bodloni'r anghenion i fod yn gymwys i'w cymeradwyo ac i ymarfer yn y wlad arall (naill ai yn Lloegr neu yng Nghymru). Er enghraifft, os bydd AMCP o Gymru'n dymuno cael ei gymeradwyo i gyflawni'r rôl gan awdurdod lleol yn Lloegr, bydd angen iddynt ddangos gwybodaeth o'r ddeddfwriaeth berthnasol yn Lloegr. I gael mwy o wybodaeth am AMCPau, gweler pennod 18.

Beth fydd yn digwydd pan fydd unigolyn o Loegr yn symud i wasanaeth yng Nghymru?

Cartrefi gofal yng Nghymru (wedi'u cyllido gan yr awdurdod lleol neu wedi'u hunan-gyllido)

- 14.43 Mae'n bosibl y bydd awdurdod lleol yn Lloegr yn penderfynu o dan Ddeddf Gofal 2014 (neu Ddeddf Plant 1989) bod anghenion gofal a chymorth unigolyn ond yn gallu cael eu bodloni drwy lety cartref gofal yng Nghymru ac y bydd y trefniadau'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Mewn achosion o'r fath, bydd yr awdurdod lleol yn Lloegr fel arfer yn parhau fel y Corff Cyfrifol.
- 14.44 Mewn rhai achosion, gall yr egwyddor hon hefyd fod yn berthnasol i bobl sy'n "hunan-gyllido". Er enghraifft, os bydd unigolyn sy'n hunan-gyllido eu gofal neu'n cael eu cyllido'n breifat yn symud o Loegr i wasanaeth yng Nghymru, a bod eu gofal a chymorth yn cael eu trefnu gan awdurdod lleol yn Lloegr, bydd yr awdurdod lleol yn Lloegr fel arfer yn parhau i weithredu fel y Corff Cyfrifol.
- 14.45 Os bydd unigolyn o Loegr sy'n "hunan-gyllido" ac sydd â'r prinder gallu perthnasol yn cael ei symud i gartref gofal yng Nghymru gan eu teulu heb wybodaeth na'r awdurdod lleol yn cymryd rhan, yr awdurdod lleol yng Nghymru lle bydd lleoliad y cartref fydd y Corff Cyfrifol os bydd gofal yr unigolyn hwnnw'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid.

Cartref eu hunain/lleoliadau domestig/tai â chymorth/tai â gofal ychwanegol/cysylltu bywydau yng Nghymru

- 14.46 Pan fydd oedolyn wedi symud o Loegr i dŷ â chymorth neu lety cysylltu bywydau yng Nghymru, weithiau bydd yr awdurdod lleol yn Lloegr yn parhau i weithredu fel y Corff Cyfrifol. Dyma fydd y sefyllfa os bydd yr awdurdod lleol yn Lloegr, wrth asesu,

wedi penderfynu y gellir bodloni eu hanghenion yn unig drwy dŷ â chymorth neu drefniant cysylltu bywydau yng Nghymru.

- 14.47 Ni fyddai'r trefniant hwn yn berthnasol pan fydd yr unigolyn yn symud neu'n cael eu symud o Loegr i leoliad domestig, lleoliad teuluol neu dŷ gofal ychwanegol (nad yw'n dŷ â chymorth neu'n drefniant cysylltu bywydau) yng Nghymru. Yn yr amgylchiadau hyn, y Corff Cyfrifol fydd yr awdurdod lleol neu'r LHB yng Nghymru. Felly bydd yn hanfodol bod pob awdurdod perthnasol yn Lloegr ac yng Nghymru'n cydweithio'n agos pan ystyrir symud ac awdurdodi.

Cartrefi gofal yng Nghymru (a drefnir gan drefniadau NHS CHC ac a gyllidir gan CCG yn Lloegr)

- 14.48 Pan fydd y trefniadau gofalu'n cael eu cynnal yn bennaf drwy'r NHS CHC, yn cael eu cyllido gan CCG yn Lloegr, ond eu darparu yng Nghymru (e.e. drwy gyllido llety'r unigolyn yng Nghymru), y CCG fydd y Corff Cyfrifol fel arfer. Dyma'r sefyllfa pan fydd trefniadau'n cynnwys y llety ac o leiaf un gwasanaeth gofal iechyd wedi'i gynllunio (heblaw am NHS FNC yn unig) sy'n gysylltiedig â darpariaeth y llety hwnnw. Mewn rhai achosion, ni fydd hyn yn berthnasol, er enghraifft, pan fydd yr LHB wedi cytuno i fod yn gyfrifol am yr achos neu bod yr awdurdod lleol wedi trefnu i'r unigolyn symud. I gael mwy o wybodaeth, dylid cyfeirio at y canllawiau 'Pwy sy'n Talu?' perthnasol.

Ysbytai'r GIG yng Nghymru

- 14.49 Mewn achosion lle mae'r trefniadau'n cael eu cynnal yn bennaf mewn ysbyty'r GIG yng Nghymru, yr LHB yn yr ardal lle lleolir yr ysbyty yng Nghymru fyddai'r Corff Cyfrifol. Bydd hyn fel arfer yn berthnasol hyd yn oed os bydd yr unigolyn yn byw yn Lloegr neu wedi'i leoli yn yr ysbyty hwnnw gan Ymddiriedolaeth y GIG neu Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG yn Lloegr.

Ysbytai annibynnol yng Nghymru

- 14.50 Os bydd y trefniadau'n cael eu cynnal yn bennaf mewn ysbyty annibynnol yng Nghymru, yr LHB yn yr ardal lle lleolir yr ysbyty yw'r Corff Cyfrifol. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw un o Loegr sy'n cael eu lleoli mewn ysbyty annibynnol yng Nghymru.

Beth fydd yn digwydd pan fydd unigolyn o Gymru'n symud i wasanaeth yn Lloegr?

Cartrefi gofal yn Lloegr (wedi'u cyllido gan yr awdurdod lleol neu wedi'u hunan-gyllido)

- 14.51 Pan fydd unigolyn sydd wedi cael ei asesu gan awdurdod lleol yng Nghymru fel un y mae ganddynt anghenion sydd ond yn gallu cael eu bodloni o dan y SSWBA 2014

o fewn llety cartref gofal yn Lloegr, yr awdurdod lleol yng Nghymru yw'r Corff Cyfrifol.

- 14.52 Os bydd unigolyn o Gymru sy'n "hunan-gyllido" ac sydd â'r prinder gallu perthnasol yn cael ei symud i gartref gofal yn Lloegr gan eu teulu heb wybodaeth na'r awdurdod lleol yn cymryd rhan, yr awdurdod lleol yn Lloegr lle lleolir y cartref fydd y Corff Cyfrifol os bydd gofal yr unigolyn hwnnw'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid.

Cartref eu hunain/lleoliadau domestig/tai â chymorth/tai â gofal ychwanegol/cysylltu bywydau yn Lloegr

- 14.53 Pan fydd unigolyn yn symud neu'n cael ei symud o Gymru i leoliad domestig, lleoliad teuluol, tŷ gofal ychwanegol, tŷ â chymorth neu drefniant cysylltu bywydau yn Lloegr, ac mae angen amddifadu eu rhyddid, y Corff Cyfrifol fydd yr awdurdod lleol yn Lloegr (gan dybio nad ydynt yn derbyn NHS CHC), neu'r LHB yng Nghymru. Felly mae'n hanfodol bod pob awdurdod perthnasol yn Lloegr a Chymru'n cydweithio'n agos pan ystyrir y symud a'r awdurdodi.

Cartrefi gofal yn Lloegr (wedi'u cyllido gan Ofal Parhaus y GIG)

- 14.54 Os cynhelir y trefniadau'n bennaf drwy'r hyn sy'n cyfateb â Gofal Iechyd Parhaus y GIG, a gyllidir gan LHB yng Nghymru ac sy'n cael eu darparu yn Lloegr (e.e. ysbyty neu gartref gofal yn Lloegr), yr LHB sy'n cyllido'r trefniant preswyl fydd y Corff Cyfrifol fel arfer.

Ysbytai'r GIG yn Lloegr

- 14.55 Ym mhob achos lle mae'r trefniadau'n cael eu cynnal yn bennaf mewn ysbyty'r GIG yn Lloegr, "rheolwr yr ysbyty" (fel arfer Ymddiriedolaeth y GIG neu Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG sy'n gyfrifol am yr ysbyty hwnnw) yw'r Corff Cyfrifol, ni waeth pwy bynnag sy'n cyllido'r gwasanaethau yn ysbyty'r GIG neu os bydd yr unigolyn yn byw yng Nghymru.

Ysbytai annibynnol yn Lloegr

- 14.56 Yn yr achos pan fydd unigolyn o Gymru'n cael ei amddifadu o'i ryddid yn bennaf mewn ysbyty annibynnol yn Lloegr, awdurdod lleol yn Lloegr fydd y Corff Cyfrifol. Yr awdurdod lleol sy'n bodloni anghenion yr unigolyn neu'r awdurdod lleol 'cynnal', hynny yw, yr awdurdod lleol yn Lloegr ar gyfer yr ardal lle mae'r ysbyty wedi'i leoli, fydd y Corff Cyfrifol fel arfer.

Beth fydd yn digwydd pan fydd unigolyn o'r Alban neu Ogledd Iwerddon yn symud i wasanaeth yn Lloegr neu yng Nghymru?

- 14.57 Os bydd unigolyn o naill ai'r Alban neu Ogledd Iwerddon yn cael ei symud i Loegr neu Gymru a bydd angen ei amddifadu o'i ryddid er mwyn iddynt dderbyn gofal neu

driniaeth, yna gellir ystyried y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid. Mae'r un rheolau ar gyfer sefydlu pwy yw'r Corff Cyfrifol yn berthnasol i unrhyw unigolyn o'r fath sy'n symud o'r Alban neu Ogledd Iwerddon. Er enghraifft, os bydd y trefniadau'n cael eu cynnal mewn ysbyty'r GIG, y Corff Cyfrifol fydd "rheolwyr yr ysbyty (fel arfer Ymddiriedolaeth y GIG neu Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG yn Lloegr, neu LHB yng Nghymru, sy'n gyfrifol am yr ysbyty hwnnw). Os bydd y trefniadau'n cael eu cynnal y tu allan i ysbyty ac nad yw'r unigolyn yn gymwys am NHS CHC, yr awdurdod lleol fyddai'r Corff Cyfrifol, fel arfer yr awdurdod 'cynnal' naill ai yn Lloegr neu yng Nghymru – hynny yw yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle cynhelir y trefniadau.

- 14.58 Dylai'r Corff Cyfrifol weithio'n agos â'r awdurdod lleoli, a fydd yn debygol o adnabod yr unigolyn yn dda. Gall hyn gynnwys defnyddio aseswyr neu, os y bo'n angenrheidiol, gweithiwr proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi fel AMCP o'r awdurdod lleoli yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Bydd angen i aseswyr ac AMCPau fodloni'r gofynion fel a nodwyd yn y rheoliadau perthnasol yn naill ai Lloegr neu Gymru. Bydd angen cymeradwyo AMCPau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd gan awdurdod lleol yn Lloegr neu Gymru, a bydd yn rhaid bod ganddynt wybodaeth berthnasol am drefniadau gofal yn Lloegr neu Gymru. I gael mwy o wybodaeth, gweler pennod 16 am asesiadau ac 18 ar gyfer AMCPau.

Beth fydd yn digwydd pan fydd unigolyn o Loegr neu Gymru'n symud i wasanaeth yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon?

- 14.59 Os bydd unigolyn yn ddarostyngedig i awdurdodiad LPS yn cael ei symud o Loegr neu Gymru i wasanaeth yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon, ni fydd yr LPS yn berthnasol mwyach. Pan mai dyma'r achos, dylai'r awdurdod lleol a gwasanaethau'r GIG sy'n ymwneud â gofal neu driniaeth yr unigolyn gysylltu â'r gwasanaethau perthnasol yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon i sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith.
- 14.60 Cyfeirier at y ddeddfwriaeth a'r prosesau perthnasol ar gyfer pobl sydd â phrinder galluedd meddyliol yn y wlad berthnasol.

Sut dylid datrys anghydfod?

- 14.61 Mewn rhai achosion, efallai na fydd yn eglur pwy yw'r Corff Cyfrifol cywir, ac mae'n bosibl y bydd dau sefydliad neu fwy'n anghytuno ar ba un yw'r Corff Cyfrifol. Pan mai dyma'r achos, mae'n hanfodol nad yw'r unigolyn o dan anfantais wrth i'r anghytundeb gael ei ddatrys. Felly, dylai'r Corff Cyfrifol a dderbyniodd yr atgyfeiriad gwreiddiol (gan dybio eu bod yn rhan o'r anghydfod) neu'r Corff Cyfrifol cyntaf sy'n rhan o'r anghydfod a dderbyniodd yr atgyfeiriad ddechrau proses yr LPS. Mae hyn yn cynnwys sefydlu a oes rhywun addas i weithredu fel y Person Priodol neu, os na,

penodi IMCA i alluogi'r unigolyn i gael ei gynrychioli a'i gynorthwyo cyn gynted â phosibl. Gweler mwy o wybodaeth am y Person Priodol ym mhennod 15 a mwy o wybodaeth am IMCA ym mhennod 10.

14.62 Mae'n bosibl y bydd angen comisiynu asesiadau hefyd os gall yr anghydfod gymryd peth amser i'w ddatrys. Yn yr achos hwn, dylai'r Corff Cyfrifol a dderbyniodd yr atgyfeiriad gyntaf ac sy'n rhan o'r anghydfod gomisiynu'r asesiadau hyn. I gael mwy o wybodaeth am asesiadau, gweler pennod 17.

14.63 Er mwyn datrys anghytundeb ynghylch pa Gorff Cyfrifol yw'r un cywir, dylai'r corff a dderbyniodd yr atgyfeiriad gyntaf ac sy'n rhan o'r anghydfod:

- Nodi unigolyn a fydd yn gweithredu fel y pwynt cyswllt o fewn y Corff Cyfrifol hwnnw mewn perthynas â'r anghydfod a rhoi manylion cyswllt yr unigolyn hwnnw i'r Cyrff Cyfrifol eraill.
- Casglu tystiolaeth am ble mae'r unigolyn yn derbyn gofal neu driniaeth, a pha sefydliadau sy'n comisiynu a/neu'n talu am y gofal neu'r driniaeth honno. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth gan y sefydliadau arweiniol yn ogystal â phob sefydliad arall sy'n gysylltiedig.
- Rhannu'r holl dystiolaeth â phob sefydliad sy'n gysylltiedig.
- Hyrwyddo trafodaeth rhwng y sefydliadau perthnasol i drafod y dystiolaeth a chytuno ar ganlyniad terfynol.
- Cyflwyno datganiad ysgrifenedig i'r unigolyn a'u Person Priodol neu IMCA i'w hysbysu am y sefyllfa derfynol.

14.64 Dylai pob sefydliad sy'n gysylltiedig ymgysylltu â'r broses anghydfod gan gynnwys darparu'r holl dystiolaeth berthnasol pan ofynnir, a chymryd rhan mewn trafodaeth adeiladol i ddod i gasgliad. Os bydd y dystiolaeth y gofynnwyd amdani'n newid unrhyw bryd yn ystod y broses, yna dylid hysbysu'r sefydliadau arweiniol yn syth.

14.65 Mae gan bob sefydliad gyfrifoldeb, er mwyn cynnal hawliau dynol yr unigolyn, i sicrhau bod unrhyw anghydfod yn cael ei ddatrys cyn gynted â phosibl.

14.66 Os na ellir datrys anghydfod gan y sefydliadau sy'n gysylltiedig, mae'n bosibl y bydd angen datrys y mater yn y llys.

14.67 Os cytunir y bydd sefydliad newydd yn mabwysiadu rôl y Corff Cyfrifol o'r sefydliad cychwynnol a dderbyniodd yr atgyfeiriad, dylid trosglwyddo'r costau sy'n gysylltiedig ag asesiadau ac eiriolaeth i'r Corff Cyfrifol newydd.

Beth yw dyletswydd y Corff Cyfrifol i gyflwyno gwybodaeth?

14.68 Mae gan bob corff cyfrifol ddyletswydd gyffredinol i gyhoeddi gwybodaeth am y canlynol:

- **Effaith awdurdodiad.** Dylai gwybodaeth o dan y gofyniad hwn gynnwys y mathau o drefniadau gofal a thriniaeth, cyfyngiadau a chamau gweithredu y gellir eu rhoi ar waith o dan awdurdodiad, a'r amgylchiadau yr ystyrir bod unigolyn yn cael ei amddifadu o'u rhyddid. Gallai hyn gynnwys enghreifftiau o'r trefniadau ar gyfer gofal neu driniaeth a all fod yn gyfystyr ag amddifadu o rhyddid ac y gellir eu hawdurdodi gan awdurdodiad LPS.
- **Y broses ar gyfer awdurdodi trefniadau.** Dylai gwybodaeth o dan y gofyniad hwn nodi'r broses y mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol ei ddilyn i asesu a yw'r unigolyn yn cael ei amddifadu o'u rhyddid. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am yr asesiadau a'r penderfyniadau, ymgynghori, a'r camau adolygu cyn-awdurdodi. Dylai hefyd egluro sut y gellir gwneud atgyfeiriadau.
- **Pryd y dylid penodi IMCA.** Dylai gwybodaeth o dan y gofyniad hwn nodi'r sefyllfaoedd y gallai fod angen cynorthwyo naill ai'r unigolyn neu'u Person Priodol gan IMCA. Dylai Cyrff Cyfrifol hefyd ystyried cynnwys gwybodaeth am rôl IMCA a'r hyn y gall yr unigolyn neu'u Person Priodol ddisgwyl gan wasanaeth yr IMCA. I gael mwy o wybodaeth am IMCA, gweler pennod 10.
- **Rôl y Person Priodol.** Dylai gwybodaeth o dan y gofyniad hwn nodi beth y disgwylir i Person Priodol ei wneud drwy gydol proses yr LPS, pwy all weithredu fel y Person Priodol, ac adnoddau defnyddiol i'r Person Priodol wella eu gwybodaeth o broses yr LPS a'u rôl. I gael mwy o wybodaeth am y Person Priodol, gweler pennod 15.
- **Pryd y gall Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol (AMCP) ddod yn gysylltiedig ag achos.** Mae AMCP yn darparu goruchwyliaeth uwch i'r achosion hynny sydd ei hangen fwyaf. Dylai gwybodaeth o dan y gofyniad hwn nodi rôl yr AMCP a phryd y gall neu bryd y mae'n rhaid neu y gall Corff Cyfrifol atgyfeirio achos at AMCP. Dylai'r Corff Cyfrifol hefyd ystyried cynnwys gwybodaeth am ba gamau y gallant eu cymryd cyn atgyfeirio achos at AMCP. I gael mwy o wybodaeth am AMCP, gweler pennod 18.
- **Yr hawl i wneud cais i'r Llys Gwarchod.** Dylai gwybodaeth o dan y gofyniad hwn esbonio hawliau'r unigolyn ac eraill i wneud ceisiadau i'r Llys Gwarchod. Dylai hefyd gynnwys cyngor am sut i wneud cais, pa fath o benderfyniadau all fod yn bwnc cais, beth yw pwerau'r llys a sut i gael cymorth cyfreithiol.

- **Adolygiadau awdurdodiad.** Dylai gwybodaeth o dan y gofyniad hwn nodi sut y mae'n rhaid trefnu adolygiadau yng nghofnod awdurdodi'r unigolyn, sut y gall rhywun ofyn am adolygiad awdurdodiad unigolyn, a'r sefyllfaoedd lle mae'n rhaid cynnal adolygiad heb ei drefnu. Dylai hefyd gynnwys beth fydd yn digwydd pan gynhelir adolygiad, yr hyn y gall yr unigolyn ac eraill ei ddisgwyl o ran ymgysylltiad a'r math o benderfyniadau y gellir eu gwneud yn dilyn adolygiad. Dylai hefyd nodi yr hyn y mae adolygiad yn ei olygu a phryd y bydd angen i AMCP fod yn gysylltiedig.

14.69 Dylai Cyrff Cyfrifol ystyried gweithio ar y cyd i gynhyrchu gwybodaeth o'r fath a deunyddiau i'w hardal leol. Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol gyhoeddi hyn mewn lle a fformat sy'n hygyrch ac yn briodol ar gyfer anghenion yr unigolyn a'u Person Priodol. Dylai'r Corff Cyfrifol hefyd sicrhau bod manylion cyswllt priodol ynghylch y materion hyn o fewn y Corff Cyfrifol yn cael eu cyhoeddi ynghyd â'r wybodaeth hon, a'u bod yn gywir.

14.70 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl derbyn atgyfeiriad, mae gan y Corff Cyfrifol ddyletswydd i gymryd camau ymarferol i sicrhau bod yr unigolyn ac unrhyw Person Priodol yn deall natur y trefniadau a gynigir a'r materion a restrir ym mharagraff xx fel y maent yn berthnasol i'r unigolyn. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth a ddarperir mewn fformat sy'n hygyrch i'r unigolyn a'u Person Priodol, neu gyfarfod wyneb yn wyneb os bydd hynny'n briodol ac yn ymarferol. Dylai'r Corff Cyfrifol hefyd sicrhau bod gan yr unigolyn ac unrhyw Person Priodol y cyfle i ofyn cwestiynau am y wybodaeth hon. Dylai'r broses hon hefyd gael ei chynnal os penodir Person Priodol ar unrhyw adeg yn ystod y broses asesu neu pan fo awdurdodiad wedi'i roi.

14.71 Nid yw'r ddyletswydd i gymryd camau ymarferol mewn perthynas â mater penodol yn berthnasol os na fydd y camau angenrheidiol yn ymarferol. Er enghraifft, os na fydd gan yr unigolyn y gallu i ddeall y wybodaeth mewn unrhyw ffordd briodol, yna mae'n bosibl na fydd yn addas i gymryd camau o'r fath fel a ddisgrifir uchod.

14.72 Mae pennod 24 yn rhoi mwy o wybodaeth am hawliau gwybodaeth yr unigolyn.

Beth yw rôl y Corff Cyfrifol wrth sicrhau bod rhannu data'n gyfreithlon?

14.73 Mae'n rhaid i Gyrrff Priodol ystyried a bodloni'u dyletswyddau o dan bob deddfwriaeth rhannu gwybodaeth a diogelu data perthnasol, dyletswyddau cyfraith gwlad a chanllawiau perthnasol wrth rhannu data fel rhan o broses yr LPS. Dylai Cyrff Cyfrifol hefyd sicrhau bod y Person Priodol, yr AMCP a'r IMCA yn ymwybodol ac yn deall eu cyfrifoldebau data.

14.74 Mae gan Gyrrff Cyfrifol nifer o ddyletswyddau statudol a chyfraith gyffredin a rhwymedigaethau o ran rhannu gwybodaeth (gan gynnwys Deddf Diogelu Data

2018, GDPR y DU a dyletswydd cyfrinachedd cyfraith gwlad) ac mae'n rhaid iddynt ystyried pob cais i rannu data yn unol â dyletswyddau o'r fath.

14.75 Yn ogystal â'r pwerau a'r dyletswyddau sydd eisoes gan Gorff Cyfrifol i rannu gwybodaeth (megis at ddibenion gofal uniongyrchol, ar sail budd pennaf neu o dan ddeddfwriaeth berthnasol megis adran 251B Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, fel y'i diwygiwyd). Mae Atodlen AA1 yr MCA yn rhoi'r awdurdod i'r Corff Cyffredin rannu dogfennau perthnasol ar sail a awgrymir. Cyhyd â bod rhannu'n briodol, yn gymesur ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol ym mhob achos, byddai hyn yn cynnwys rhannu, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, :

- gwybodaeth berthnasol i sicrhau bod y Person Priodol yn deall y trefniadau a gynigir;
- yr asesiadau, penderfyniadau a chanlyniad yr adolygiad cyn-awdurdodi gyda'r Person Priodol, cyhyd â bod cam o'r fath yn cael ei ystyried yn ymarferol a bod y wybodaeth yn hygyrch ac yn briodol i'w hanghenion;
- y wybodaeth y mae'r Corff Cyfrifol yn dibynnu arni er mwyn pennu a yw'r amodau awdurdodi'n cael eu bodloni, gyda'r AMCP yn ystod y cam adolygu cyn-awdurdodi;
- y wybodaeth berthnasol sydd ei hangen ar yr AMCP a benodwyd i'w hystyried er mwyn iddynt gynnal adolygiad.

Sut mae'r Corff Cyfrifol yn rhyngweithio â'r Llys Gwarchod?

14.76 Y Corff Cyfrifol sy'n atebol i'r llysoedd yn y pen draw. Gall y Corff Cyfrifol weithredu ei ddyletswyddau, neu beidio â'u gweithredu, o dan broses yr LPS a'i benderfyniadau awdurdodi a gellir ei herio yn y llys.

14.77 Pan fo achos wedi'i ystyried gan y Llys Gwarchod, dylai'r Corff Cyfrifol sicrhau bod y rhai hynny sy'n ymwneud â'r trefniadau'n ymwybodol o unrhyw benderfyniad gan y llys sy'n newid y trefniadau sydd wedi'u hawdurdodi neu sy'n dod â'r awdurdodiad i ben.

14.78 I gael mwy o fanylion am y Llys Gwarchod, gweler pennod 7.

Beth yw rôl y Corff Cyfrifol wrth fonitro ac adrodd?

14.79 Mae Corff Cyfrifol yn gyfrifol am hysbysu'r cyrff monitro perthnasol yn rheolaidd am faterion penodol sy'n ymwneud â'r LPS, megis pan fydd awdurdodiad yn cael ei roi a phryd mae'n dod i ben. Gweler pennod 20 i gael mwy o wybodaeth ar y ddyletswydd hysbysu a'r cyrff monitro.

14.80 Mae'n bosibl y bydd angen mynediad ar y cyrff monitro hefyd i gofnodion sy'n gysylltiedig â gofal a thriniaeth unigolion sy'n ddarostyngedig i awdurdodiad LPS gan y Corff Cyfrifol.

DRAFT

15. Beth yw rôl y Person Priodol yn y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid?

Mae'r bennod hon yn disgrifio rôl y Person Priodol yn y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid.

Mae'r Person Priodol yn rôl wirfoddol, a luniwyd i gynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn o fewn proses y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid. Mae hon yn rôl allweddol wrth sicrhau barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn am eu gofal, triniaeth a chymorth.

Fel rheol, cyflawnir rôl y Person Priodol gan rywun sy'n agos at yr unigolyn. Pan fo unigolyn yn cael ei nodi ar gyfer y rôl, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol perthnasol bennu a yw'r unigolyn yn addas ar gyfer y rôl cyn eu penodi.

Crynodeb Cyflym

Pwy all fod yn Person Priodol?

- Rôl y Corff Cyfrifol yw pennu a oes rhywun addas i gyflawni gofynion rôl y Person Priodol. Mae'n rhaid i'r unigolyn o dan sylw gydsynio i ymgymryd â'r rôl cyn iddynt gael eu penodi.
- Mae'n rhaid i'r unigolyn gydsynio i'r sawl sy'n cael eu penodi i rôl y Person Priodol. Os bydd ganddynt brinder gallu i gydsynio, dylai'r Corff Cyfrifol wneud penderfyniadau budd pennaf ar gyfer yr unigolyn.
- Os na fydd unigolyn addas i ymgymryd â rôl y Person Priodol, yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol benodi Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA).

Beth yw rôl y Person Priodol?

- Bydd angen i'r Person Priodol ddeall proses yr LPS i helpu i sicrhau bod llais yr unigolyn yn aros yn ganolog i'r broses asesu ac awdurdodi. Mae gan y Person Priodol yr hawl i gael mynediad at wybodaeth benodol i'w helpu â hyn.
- Mae'r Person Priodol yn rhoi cynrychiolaeth a chymorth i'r unigolyn ac yn eu cynorthwyo drwy gydol proses yr LPS. Dylai'r Person Priodol sicrhau, cyn

belled ag y bo'n bosibl, bod yr unigolyn yn rhan o bob cam, a'u bod yn cael eu cynorthwyo i ddeall camau gwahanol y broses awdurdodi a'r awdurdodiad ei hun. Mae nifer o ffyrdd y gallant gynorthwyo'r unigolyn a cheir y manylion yn y bennod hon.

Hawliau'r Person Priodol.

Mae gan y Person Priodol hefyd yr hawl, mewn amgylchiadau penodol, i gael eu cynorthwyo yn y rôl gan IMCA ac mae gan y Corff Cyfrifol gyfrifoldeb i'w cynorthwyo.

Pwy all fod yn Person Priodol?

- 15.1. Unigolyn addas yw'r Person Priodol sy'n gallu cynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn ac, yn bwysig, yn cydsynio i ymgymryd â'r rôl. Mae'n rôl ddi-dâl, ac mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n ymgymryd â hi beidio â chymryd rhan mewn darparu gofal neu driniaeth i'r unigolyn mewn swyddogaeth broffesiynol. Mae swyddogaeth broffesiynol yn golygu unrhyw un a delir i ymgymryd â gofal neu driniaeth yr unigolyn, naill ai wedi'i gyllido'n breifat neu'n gyhoeddus. Mae'n annhebygol y bydd ffrindiau neu aelodau teuluol yn darparu gofal mewn swyddogaeth broffesiynol, hyd yn oed os byddant yn derbyn arian am y gofal y maent yn ei roi, er enghraifft drwy lwfans gofalwr.
- 15.2. Bydd y berthynas rhwng y Person Priodol a'r unigolyn yn amrywio ym mhob achos. Fodd bynnag, gall y bobl sy'n debygol o weithredu fel Person Priodol gynnwys y canlynol (ond nid yw'n gyfyngedig) i'r canlynol:
 - Aelod o'r teulu
 - Ffrind i'r unigolyn
 - Gofalwr/gofalwyr yr unigolyn nad ydynt yn cael eu talu
 - Gwirfoddolwr sy'n darparu cymorth i'r unigolyn mewn rôl nad yw'n broffesiynol (gall hyn gynnwys trwy sefydliadau sy'n darparu ac nad ydynt yn darparu gofal neu driniaeth i'r unigolyn)
 - Atwrnai sy'n gweithredu o dan Atwrneiaeth Arhosol neu Ddirprwy a Benodir gan y Llys.
- 15.3. Mewn rhai achosion, yr unigolyn mwyaf addas ar gyfer y rôl hon fydd gwirfoddolwr sy'n rhoi cymorth i'r unigolyn ac sy'n adnabod yr unigolyn yn dda. Er enghraifft, gall ymwelydd gwirfoddol o gynllun cyfeillio lleol sydd wedi ymweld â'r unigolyn sawl gwaith, ac felly'n eu hadnabod yn dda, fod yn addas a chytuno i ymgymryd â'r rôl. Fel arall, mae'n bosibl y bydd hi'n briodol i benodi eiriolwr neu helpwr mewn canolfan dydd neu glwb y mae'r unigolyn yn ei fynychu. Mewn achosion o'r fath, gellid penodi unigolion os nad ydynt yn gysylltiedig â gwneud y trefniadau sy'n

gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Gweler paragraff 15.23 i gael mwy o wybodaeth am pan fydd y sawl sy'n cael ei ystyried ar gyfer rôl y Person Priodol yn byw gyda'r unigolyn.

- 15.4. Ni ddylid penodi atwrnai o dan atwrneiaeth arhosol na dirprwy a benodir gan y llys i rôl y Person Priodol os byddant yn ddirprwy neu'n atwrnai proffesiynol. Yr unig eithriad i hyn fyddai os bydd yr unigolyn wedi nodi, pan oedd ganddynt y gallu i wneud hynny, eu bod yn dymuno i'r sawl sydd bellach yn gweithredu fel eu dirprwy neu atwrnai proffesiynol fod yn Person Priodol iddynt. Gallai hyn, er enghraifft, gael ei gofnodi yn yr atwrneiaeth arhosol neu ddogfen arall a lofnodwyd ac a ddyddiwyd gan yr unigolyn.
- 15.5. Ni ddylai'r atwrnai neu'r dirprwy fod yn gysylltiedig â'r trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid, er enghraifft, cytuno i leoliad cartref gofal lle bydd yr unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid. Ni ellir talu'r atwrnai neu ddirprwy i ymgymryd â rôl y Person Priodol. Mae'n rhaid iddynt hefyd fodloni'r meini prawf eraill sydd wedi'u nodi yn y paragraffau canlynol.
- 15.6. Yn y pen draw, rôl y Person Priodol yw cynorthwyo ymgysylltiad yr unigolyn ym mhroses y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid (LPS) a chynrychioli'r unigolyn, a'u dymuniadau a'u teimladau, i sicrhau bod eu hawliau dynol yn cael eu hamddiffyn. Mae angen i'r Person Priodol felly allu gweithredu'n hollol annibynnol o'u buddiannau eraill yng ngofal yr unigolyn.
- 15.7. Dylai'r Person Priodol adnabod yr unigolyn yn dda ac, yn y rhan fwyaf o achosion, ddeall eu dull cyfathrebu – er enghraifft lleferydd, iaith arwyddion ac iaith y corff. Mae hyn yn bwysig er mwyn gallu cynorthwyo'r unigolyn i fynegi eu safbwyntiau ac i gynghori'r Corff Cyfrifol am anghenion cyfathrebu'r unigolyn – er enghraifft argymell defnyddio dehonglwyr a fformatau amgen ar gyfer gwybodaeth. Fodd bynnag, os nad dyma'r achos, ni ddylai hyn atal unrhyw un rhag ymgymryd â'r rôl a dysgu mwy am yr unigolyn i'w cynrychioli a'u cynorthwyo.
- 15.8. Os bydd rhywun yn cael ei ystyried fel unigolyn addas i fod yn Person Priodol, nid oes rhaid iddynt ymgymryd â'r rôl hon. Bydd yn rhaid iddynt gydsynio'n benodol i gael eu penodi. Dylai'r Corff Cyfrifol roi'r holl wybodaeth berthnasol i'r unigolyn o dan sylw ynghylch LPS a rôl y Person Priodol fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am a ydynt am ymgymryd â'r rôl. Dylai'r Corff Cyfrifol fod yn fodlon bod yr unigolyn yn gallu ac yn fodlon ymgymryd â'r rôl hon cyn iddynt gael eu penodi.
- 15.9. Dylai'r Corff Cyfrifol ystyried yr anghenion cymorth a all fod gan y Person Priodol ac a fydd angen cymorth arnynt i ymgymryd â'r rôl. Os felly, dylai'r Corff Cyfrifol ystyried sut y gall eu cefnogi yn y rôl orau. Os byddai unigolyn yn addas i gael ei benodi fel rôl y Person Priodol, ond bydd angen cymorth neu hyfforddiant

ychwanegol arnynt, dylai'r Corff Cyfrifol ystyried sut ac a ellir ei ddarparu. Gweler paragraffau 15.63 i 15.67 i gael mwy o wybodaeth.

Sut mae'r Corff Cyfrifol yn pennu a oes unigolyn addas i weithredu fel y Person Priodol?

15.10. Er mwyn penodi rhywun fel y Person Priodol, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol fodloni bod yr unigolyn yn addas i gynrychioli a chynorthwyo'r person. Mae nifer o bethau y bydd angen i'r Corff Cyfrifol eu hystyried wrth wneud y penderfyniad hwn.

15.11. Ni ellir ystyried unigolyn yn addas oni bai:

- Bod gan yr unigolyn allu i gydsynio i gael ei gynrychioli a'i gynorthwyo gan y sawl sy'n addas, ac yn cydsynio, neu
- fod gan y sawl sydd â phrinder gallu i gydsynio i gael ei gynrychioli a'i gynorthwyo gan yr unigolyn hwnnw, a byddai cael ei gynrychioli a'i gynorthwyo gan yr unigolyn er y budd pennaf i'r sawl sydd a phrinder gallu.

15.12. Mae hyn yn golygu mai'r peth pwysicaf wrth benodi Person Priodol yw dymuniadau a theimladau'r unigolyn (os bydd gan yr unigolyn y gallu perthnasol i gydsynio i'w penodiad neu beidio). Dylai'r Corff Cyfrifol gymryd pob cam ymarferol i ganfod safbwyntiau'r unigolyn ynghylch pwy ddylai gael eu penodi fel eu Person Priodol. Os bydd yr unigolyn yn gallu mynegi safbwynt am bwy y maent yn dymuno i'w cynrychioli, dylai'r Corff Cyfrifol ystyried yr unigolyn hwn.

15.13. Os bydd gan yr unigolyn atwrnai neu ddirprwy ag awdurdod perthnasol, dylid gofyn iddynt enwebu rhywun i fod yn Person Priodol (gan gynnwys eu hunain os y bo hynny'n briodol).

15.14. Dylai'r Person Priodol gael eu hystyried yn addas yn unig os:

- byddant yn 16 oed neu'n hŷn;
- byddant yn gallu cadw mewn cysylltiad â'r unigolyn;
- na fydd ganddynt ddiddordeb ariannol yn y darparwyr gofal a thriniaeth sy'n cyflawni'r trefniadau;
- nad ydynt yn perthyn i'r unigolyn sydd â diddordeb ariannol yn y darparwyr hynny;
- nad ydynt wedi'u cyflogi gan, neu'n darparu gwasanaethau i, ddarparwyr gofal a thriniaeth yr unigolyn sy'n gwneud y trefniadau; ac;
- nad ydynt wedi'u cyflogi i weithio yn y Corff Cyfrifol mewn unrhyw rôl arall sy'n ymwneud ag achos yr unigolyn.

15.15. Wrth ddewis y Person Priodol, bydd yn rhaid i'r Corff Cyfrifol ystyried:

- A oes gan yr unigolyn sgiliau boddhaol sy'n berthnasol ar gyfer cyflawni'r rôl?
- A oes gan yr unigolyn unrhyw brofiad perthnasol i gyflawni'r rôl, megis cyflawni rôl eiriolaeth ffurfiol neu anffurfiol debyg o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, Deddf Gofal 2014 neu Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014?
- A oes gan yr unigolyn opsiwn sy'n well ganddo, os oes mwy nag un yn addas?
- A oes datganiad ysgrifenedig sy'n nodi'r opsiwn sy'n well ganddynt?
- A fydd y sawl a gynigir yn gallu cadw mewn cysylltiad â'r unigolyn ac, os byddant yn cael eu penodi, yn cynnal y cyswllt hwnnw?
- A yw'r unigolyn yn ymddangos fel petaent yn ymddiried yn y Person Priodol a gynigir ac yn teimlo'n gyfforddus gyda nhw?
- A fyddai'r Person Priodol a gynigir yn gallu cynrychioli'r unigolyn yn effeithiol?
- A fydd y Person Priodol a gynigir yn debygol o gydymffurfio â'r dyletswyddau o fod yn Person Priodol, gan gynnwys cynrychioli'r unigolyn a'u cynorthwyo i gymryd rhan ym mhroses yr LPS?

15.16. Mae'n bosibl bod yr unigolyn wedi mynegi'r safbwynt hwn ac wedi cydsynio i rywun penodol weithredu fel eu Person Priodol pan oedd ganddynt y galluedd meddyliol i wneud hynny. Os mai dyma'r achos, dylai'r Corff Cyfrifol ystyried hyn wrth wneud y penderfyniad budd pennaf (gweler paragraff XX).

15.17. Disgwylir i'r Person Priodol gynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn a hwyluso'u hymgysylltiad ym mhroses yr LPS. Mae'n bosibl na fydd rhai unigolion yn gallu cyflawni'r rôl hon yn hawdd, er enghraifft aelod o'r teulu sy'n byw'n bell ac sydd ond yn cysylltu â'r unigolyn yn achlysurol, partner priod sydd hefyd yn ei chael hi'n anodd deall prosesau'r awdurdod lleol, neu ffrind sy'n mynegi barn gref eu hunain (am anghenion gofal yr unigolyn) cyn canfod anghenion yr unigolyn o dan sylw. Nid yw'n ddigonol i adnabod yr unigolyn yn dda neu'u caru'n angerddol; rôl y Person Priodol yw cynorthwyo ymgysylltiad yr unigolyn â phrosesau'r LPS a'u cynrychioli'n effeithiol.

15.18. Mae gan Gyrrff Cyfrifol rôl ddiogelu, ac felly dylent ystyried a oes unrhyw bryderon diogelu am yr unigolyn cyn penodi. Dylai'r Corff Cyfrifol fod yn wylidwrus ynghylch unrhyw ffactorau a all ddangos nad yw'r unigolyn yn teimlo'n gyfforddus, neu'n teimlo bod y Person Priodol yn rhy bwerus, megis newid yn eu hymddygiad neu gyfathrebiad pan y bo'n bresennol. Dylai'r Corff Cyfrifol barhau i ystyried pryderon

diogelu drwy gydol y broses o benodi Person Priodol, oherwydd gallai newid i'w perthynas â'r unigolyn ddigwydd unrhyw bryd.

- 15.19. Fel y nodwyd uchod, ni all rhywun sy'n ymwneud â gofal neu driniaeth unigolyn yn broffesiynol fod yn Berson Priodol (e.e. meddyg, nyrs, gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr cymorth, cynorthwy-ydd personol etc.). Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal rhywun sy'n gweithio i ddarparu'r iechyd neu ofal ond nad ydynt yn darparu gofal neu driniaeth broffesiynol yn benodol i'r unigolyn rhag dod yn Berson Priodol iddynt. Efallai bydd unigolyn o'r fath yn parhau i fod yn addas i gyflawni'r rôl, cyhyd â'u bod yn fodlon gwneud hynny, yn bodloni'r gofynion a nodwyd ym mharagraff XX, ac nad yw'r Corff Cyfrifol yn gweld unrhyw wrthdaro buddiannau yn eu hachos.
- 15.20. Ni all y Person Priodol fod yn rhywun a fyddai'n derbyn budd ariannol gan yr unigolyn sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn lleoliad penodol. Er enghraifft, petai aelod o'r teulu'n elwa'n ariannol o werthu cartref yr unigolyn petaent yn symud i gartref gofal lle byddent yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid, ni fyddai'r aelod hwnnw o'r teulu'n addas i weithredu fel y Person Priodol. Ni fyddai hyn yn eithrio aelodau o'r teulu sy'n gwerthu'r eiddo i dalu am ofal cymdeithasol ac nad ydynt yn elwa'n uniongyrchol o'r gwerthiant rhag bod yn Berson Priodol.
- 15.21. Fel yr amlinellir ym mharagraff XX, mae'n rhaid i'r Person Priodol allu gweithredu'n hollol annibynnol o'u safbwyntiau neu fuddiannau eu hunain yng ngofal yr unigolyn. Er enghraifft, os bydd unigolyn yn cael ei roi mewn lleoliad ac nid dyma eu cartref arferol a bod y Person Priodol posibl yn cytuno â'r trefniadau neu fod y Person Priodol posibl yn gysylltiedig â darparu gofal sy'n cynnwys ataliad arwyddocaol, dylai'r Corff Cyfrifol fod yn ofalus wrth ystyried eu haddasrwydd ar gyfer y rôl.
- 15.22. Os bydd y trefniadau a gynigir yn cael eu cynnal yn bennaf yng nghartref arferol yr unigolyn, ac aelod o'r teulu yw'r prif ofalwr, mae'n bosibl y byddant o hyd yn addas i gyflawni rôl y Person Priodol. Dylai'r Corff Cyfrifol ystyried a fyddai er y budd pennaf i'r unigolyn hwnnw fod yn Berson Priodol, gan gynnwys a oes unrhyw bryderon diogelu gyda'r unigolyn hwnnw'n cyflawni'r rôl.
- 15.23. Mewn rhai amgylchiadau, disgwylir i'r Person Priodol herio'r trefniadau yn y Llys Gwarchod, felly dylai'r Corff Cyfrifol fodloni y byddai'r unigolyn yn gallu cyflwyno'r her hon pe bai'n ofynnol, cyn eu penodi.
- 15.24. Os bydd gan y Corff Cyfrifol reswm i gredu efallai nad oes gan yr unigolyn y gallu i gydsynio i benodi'r Person Priodol, yna mae'n rhaid iddynt gynnal asesiad ar alluedd. Os bydd canlyniad yr asesiad hwnnw'n dangos nad oes gan yr unigolyn y gallu i gydsynio i'r penodiad, gall y Corff Cyfrifol barhau i benodi'r Person Priodol os bydd er y budd pennaf i'r unigolyn wneud hynny. Gweler pennod XX i gael gwybodaeth bellach am benderfyniadau budd pennaf.

A oes angen i'r unigolyn o dan sylw gydsynio i'w penodi fel y Person Priodol?

- 15.25. Er mwyn cael eu penodi fel Person Priodol, mae'n rhaid cydsynio i gynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn. Os na fydd y Person Priodol yn cydsynio neu fod ganddynt brinder gallu i gydsynio i ymgymryd â'r rôl, dylai'r Corff Cyfrifol bennu a oes unrhyw un arall sy'n addas ac a fydd yn cydsynio i ymgymryd â'r rôl. Os na fydd unigolyn arall sy'n addas i ymgymryd â rôl y Person Priodol, yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol benodi Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA). Mae IMCA'n eiriolwr proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi mewn deddfwriaeth Galluedd Meddyliol, gan gynnwys LPS, gweler pennod XX i gael mwy o wybodaeth am rôl IMCA. Gweler mwy o wybodaeth am IMCA ym mhennod XX.
- 15.26. Ni ddylai Corff Cyfrifol fyth roi pwysau ar unigolyn i gydsynio i wneud y rôl hon. Dylid ei gwneud yn eglur bob amser y gellir gwrthod cydsynio, ac ni fydd hyn yn effeithio ar eu hawliau eraill, er enghraifft bod yn gysylltiedig â gofal a thriniaeth yr unigolyn ac i ymgynghori â nhw cyn awdurdodiad.
- 15.27. Er mwyn i'r unigolyn roi cydsyniad dilys, dylid rhoi'r wybodaeth berthnasol iddynt am rôl y Person Priodol, fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus. Mae'r wybodaeth berthnasol yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:
- Yr hyn mae amddifadu o ryddid yn ei olygu a'r effaith ar yr unigolyn,
 - Rôl y Person Priodol a'r hyn a ddisgwylir gan yr unigolyn sy'n ymgymryd â'r rôl (gweler paragraffau XX i XX isod i gael mwy o wybodaeth),
 - Sut i gyflawni'r rôl, megis cyfarfod â'r unigolyn yn rheolaidd a herio gwneuthurwyr penderfyniadau,
 - Hawliau'r Person Priodol i gael cymorth, gan gynnwys gan IMCA,
 - Gwybodaeth am hawliau'r unigolyn a'r Person Priodol i herio awdurdodiad a sut i herio.
- 15.28. Ni ellir penodi rhywun sydd â phrinder gallu i gydsynio i gynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn fel y Person Priodol. Fodd bynnag, ni ddylai Corff Cyfrifol drin yr unigolyn fel nad ydynt yn gallu gwneud y penderfyniad hwn heblaw bod pob cam ymarferol yn cael eu cymryd i'w helpu i wneud hynny heb lwyddiant. Ni ddylid eithrio unigolyn rhag gwneud y rôl yn seiliedig ar y ffaith bod ganddynt anawsterau iechyd meddwl neu eu bod wedi dioddef o broblemau iechyd meddwl yn y gorffennol, os bydd ganddynt allu i gydsynio i'w penodi ac fel arall yn addas ar gyfer y rôl. Mae'n bosibl y bydd yn briodol iddynt gael eu cynorthwyo gan IMCA er mwyn eu galluogi i gyflawni'r rôl. Gweler paragraffau XX i gael mwy o wybodaeth am IMCA yn cynorthwyo'r Person Priodol.

Pwy sy'n nodi a oes Person Priodol ar gael?

- 15.29. Mae'n ofynnol i'r Corff Cyfrifol bennu a oes rhywun addas i gyflawni gofynion y Person Priodol, a'u bod yn fodlon ymgymryd â'r rôl honno.
- 15.30. Mae nifer o ffyrdd y gall y Corff Cyfrifol nodi unigolyn posibl i gyflawni rôl y Person Priodol. Gellir nodi rhywun drwy broses iechyd a gofal cymdeithasol arall megis asesiadau ac adolygiadau o dan Ofal Iechyd Parhaus/Gofal Parhaus y GIG, Deddf Plant 1989, Deddf Gofal 2014, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.
- 15.31. Os bydd gofal yr unigolyn yn cael ei gyllido'n breifat ac nad oes ganddo unrhyw berthynas â gwasanaethau iechyd a gofal, efallai na fydd yn amlwg yn syth a oes Person Priodol posibl. Mewn achosion o'r fath, efallai bydd yr unigolyn sy'n codi'r achos â'r Corff Cyfrifol yn gallu nodi unigolion posibl (gan gynnwys eu hunain, os y bo hynny'n briodol) i ymgymryd â'r rôl hon. Dylai'r Corff Cyfrifol ymchwilio a oes unrhyw un a argymhellir, neu unrhyw un arall, yn addas ar gyfer y rôl.
- 15.32. Efallai yr ystyriwyd unigolyn gan y Corff Cyfrifol ac yna wedi'i nodi fel bod yn anaddas i fod yn Person Priodol neu nad yw'n gallu neu'n fodlon ymgymryd â'r rôl. Pan mai dyma'r achos, efallai byddant yn gallu awgrymu rhywun arall a all fod yn Person Priodol.
- 15.33. Os bydd unigolyn yn cael ei nodi ac yn cydsynio i fod yn Person Priodol ond nad yw'r Corff Cyfrifol wedi'i fodloni eu bod yn addas, dylid cofnodi'r penderfyniad hwn, a nodi'r rhesymau'n eglur. Efallai bydd yr unigolyn neu rywun arall yn penderfynu herio'r penderfyniad hwn a dylai'r Corff Cyfrifol gael sianeli priodol ar waith ar gyfer y fath heriau. Dylai'r Corff Cyfrifol allu dangos sail eu penderfyniad yn eglur.

Pryd y penodir Person Priodol?

- 15.34. Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol bennu a oes rhywun sy'n addas i'w benodi fel Person Priodol cyn gynted ag y bo'r broses LPS yn cael ei sbarduno, er enghraifft pan fydd wedi'i nodi yn ystod y broses cynllunio gofal bod amddifadu o ryddid o bosibl yn angenrheidiol ar gyfer gofal neu driniaeth yr unigolyn. Mae hyn yn sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei gynrychioli a'i gynorthwyo o gychwyn y broses.
- 15.35. Mewn rhai achosion, ni fydd y Corff Cyfrifol yn gallu nodi rhywun sy'n addas i ymgymryd â rôl y Person Priodol ar gychwyn y broses. Os mai dyma'r achos, mae'n bosibl y penodir IMCA i gychwyn tra bod y Corff Cyfrifol yn pennu a oes Person Priodol addas. Os oes, gall y Person Priodol gymryd lle'r IMCA. Ni ddylai fod unrhyw oedi rhwng diwedd penodiad yr IMCA a dechrau penodiad y Person Priodol. Gallai hyn ddigwydd unrhyw bryd, naill ai yn ystod y broses awdurdodi gychwynnol neu unwaith y mae'r awdurdodiad ar waith.

15.36. Os na all y Corff Cyfrifol ddod o hyd i rywun addas sy'n cydsynio i ymgymryd â rôl y Person Priodol, yn y rhan fwyaf o'r achosion, mae'n rhaid iddo benodi IMCA i gynorthwyo a chynrychioli'r unigolyn. Gweler mwy o wybodaeth am IMCA ym mhennod XX.

Beth all rywun ei wneud os penodir IMCA neu Berson Priodol ond eu bod yn credu bod rhywun arall mwy addas i fod yn Berson Priodol?

15.37. Os bydd rhywun yn credu y byddent, neu unrhyw un arall, yn fwy addas i fod yn Berson Priodol, ond nad ydynt wedi cael eu hystyried, gallant godi hyn gyda'r Corff Cyfrifol. Dylai'r Corff Cyfrifol ystyried addasrwydd yr unigolyn o dan sylw i ymgymryd â'r rôl. Gall hyn ddigwydd unrhyw bryd yn ystod y broses, gan gynnwys unwaith y mae awdurdodiad ar waith.

15.38. Unwaith y mae'r Corff Cyfrifol yn dod yn ymwybodol bod rhywun arall a all gyflawni rôl y Corff Cyfrifol, dylent benderfynu a ddylid penodi'r unigolyn hwnnw. Yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir i hyn gael ei ddatrys drwy drafod â'r unigolyn, y Person Priodol cyfredol a'r Person Priodol a gynigir.

15.39. Dylai'r Corff Cyfrifol ddilyn y camau a amlinellir ym mharagraff XX i bennu a yw'r unigolyn a gynigir yn addas. Os felly, dylai ystyried ffactorau perthnasol pob unigolyn i bennu pa un fyddai fwyaf addas i barhau yn y rôl. Yn y pen draw, dylai'r penderfyniad ganolbwyntio ar yr hyn sydd orau i'r unigolyn ac, yn hollbwysig, yr hyn mae'r unigolyn ei hun yn dymuno, neu'r hyn a fyddent yn ei ddymuno, petai ganddynt y gallu i gydsynio.

15.40. Os bydd y Corff Cyfrifol yn penderfynu mai'r unigolyn newydd yw'r unigolyn mwyaf addas i fod yn Berson Priodol, dylid penodi'r unigolyn hwnnw cyhyd â'u bod yn cydsynio a bod yr unigolyn yn cydsynio. Os na fydd gan yr unigolyn y gallu i gydsynio, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol benderfynu a yw'r penodiad er eu budd pennaf cyn ei wneud.

15.41. Petai IMCA wedi'i benodi cyn y cafodd y Person Priodol ei nodi, bydd y Person Priodol yn cymryd lle'r IMCA. Pe bai angen, dylid eu cynorthwyo gan yr IMCA wrth iddynt drosglwyddo i'w rôl newydd, gyda bwriad i benderfynu'n ddiweddarach a oes angen IMCA am gyfnod hwy.

Beth y gellir ei wneud os bydd rhywun yn credu nad yw'r Person Priodol yn cynrychioli barn yr unigolyn y maent yn ei gynrychioli?

15.42. Mae gan y Corff Cyfrifol ddyletswydd barhaus i sicrhau bod y Person Priodol yn parhau i fod yn addas yn y rôl. Os bydd pryderon yn codi nad yw'r Person Priodol yn cynrychioli ac yn cynorthwyo'r unigolyn, neu efallai bod gwrthdaro buddiannau nad oedd wedi'i nodi'n flaenorol, dylai'r Corff Cyfrifol gysylltu â'r Person Priodol i egluro'r rôl cyn penderfynu ar y camau nesaf. Efallai na fydd y Person Priodol wedi sylweddoli nad oeddent yn cyflawni'u rôl yn effeithiol ac efallai byddent yn gallu

newid eu dull i gynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn yn fwy effeithiol. Mewn rhai achosion, byddai'r Person Priodol yn gymwys i dderbyn cymorth gan IMCA (gweler paragraffau xx). Fel arall, efallai bydd angen penodi Person Priodol arall neu IMCA i gynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn.

15.43. Mewn rhai achosion, efallai bydd y Person Priodol yn anghytuno â phenderfyniad y Corff Cyfrifol. Yn ddelfrydol, bydd y mater yn cael ei ddatrys drwy drafod â'r partïon perthnasol. Os bydd y Person Priodol yn anhapus â phenderfyniad y Corff Cyfrifol, yn y pen draw, efallai bydd angen datrys hyn yn y llys.

Cadarnhau'r Penodiad i'r Person Priodol

15.44. Pan fo'r Corff Cyfrifol yn nodi ac yn penodi Person Priodol, dylai hysbysu'r Person Priodol yn ysgrifenedig. Dylai'r llythyr hwn ddarparu pwynt cyswllt, gydag enw a manylion cyswllt os bydd ganddynt unrhyw gwestiynau am y broses neu'n dymuno cyfathrebu â'r Corff Cyfrifol.

15.45. Dylid cofnodi'r penodiad yn eglur yng nghofnodion yr unigolyn, fel os bydd unrhyw un sy'n cyflawni rôl o fewn y broses awdurdodi, megis asesiad, yn gallu cysylltu â nhw pe bai angen. Os rhoddir awdurdodiad, dylid cofnodi'r Person Priodol ar y cofnod awdurdodi i sicrhau bod y rhai hynny sy'n ymwneud â gofal a thriniaeth yr unigolyn yn ymwybodol o'r penodiad ac, er enghraifft, yn gallu cysylltu â'r Person Priodol os bydd problem i'w thrafod ynghylch achos yr unigolyn.

Beth yw rôl y Person Priodol?

15.46. Mae'r Person Priodol yn rhoi cynrychiolaeth a chymorth i'r unigolyn ac yn eu cynorthwyo drwy gydol proses yr LPS. Mae'n rôl barhaus, sy'n golygu bod yn rhaid i'r Person Priodol ddarparu cynrychiolaeth a chymorth drwy gydol y cyfnod tra bod yr unigolyn yn cael ei asesu, ac yn ystod y cyfnod awdurdodi. Gall hyn gynnwys cynrychioli'r unigolyn yn ystod cyfarfod adolygu a chynorthwyo'r unigolyn i godi cwestiwn am yr awdurdodiad. Bydd hyn yn golygu bod mewn cyswllt rheolaidd â'r unigolyn a chysylltu â gwneuthurwyr penderfyniad i'w helpu i ddeall amgylchiadau'r unigolyn, a'u dymuniadau a'u teimladau am y trefniadau.

15.47. Bydd hyn yn golygu deall proses yr LPS a beth yw hawliau'r unigolyn, a fydd yn cael eu cynnwys o fewn y wybodaeth y mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol ei darparu i'r Person Priodol. Gweler pennod XX am restr lawn o'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol ei darparu.

15.48. Er mwyn cynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn yn y broses yn briodol, bydd angen i'r Person Priodol drafod y broses a'r trefniadau a gynigir gyda'r unigolyn, a chyn belled ag y bo'n bosibl, eu helpu i ddeall yr hyn sy'n cael ei gynnig. Mae'n bwysig i'r Person Priodol ganfod a yw'r unigolyn yn deall pam y mae'r trefniadau'n cael eu cynnig, a beth fyddai hyn yn golygu os cânt eu hawdurdodi. Dylai'r Person Priodol

gynorthwyo'r unigolyn i ddeall y wybodaeth hon cyn belled â phosibl, fel eu bod yn gallu mynegi eu barn os byddant yn gallu gwneud hynny.

- 15.49. Dylai'r unigolyn bob amser fod yn ganolog i broses yr LPS, i sicrhau bod eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu hystyried yn drylwyr wrth benderfynu awdurdodi'r trefniadau ai peidio. Mae'n rhaid i'r Person Priodol sicrhau felly, cyn belled ag y bo'n bosibl, bod yr unigolyn yn rhan o bob cam, a'u bod yn cael eu cynorthwyo i ddeall gwahanol gamau'r broses awdurdodi a'r awdurdodiad ei hun. Dylai'r Person Priodol sicrhau eu bod mewn cyswllt rheolaidd â'r unigolyn ac, os y bo'n bosibl ac yn briodol, gyfarfod â nhw wyneb i wyneb.
- 15.50. Yn ystod proses yr LPS ei hun, bydd sawl tro lle y bydd angen i weithwyr proffesiynol gyfarfod â'r unigolyn. Mae hyn yn cynnwys asesiadau, ymgynghori ac adolygiadau o'r awdurdodiad. Rôl y Person Priodol yw sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei gynrychioli a'i gynorthwyo yn ystod y cyfarfodydd hyn gyda gweithwyr proffesiynol. Mewn rhai achosion, efallai na fydd y Person Priodol yn bresennol yn ystod yr asesiadau (er enghraifft os bydd yr unigolyn yn dymuno cyfarfod â'r gweithiwr proffesiynol ar ei ben ei hun). Os mai dyma'r achos, gall y Person Priodol barhau i fod â rôl bwysig, er enghraifft drwy sicrhau bod gan y Corff Cyfrifol, neu'u cynrychiolydd, ddealltwriaeth dda o anghenion cymorth yr unigolyn (er enghraifft, dulliau cyfathrebu). Yn ogystal, dylai'r Person Priodol herio unrhyw ragdybiaethau a wneir ynghylch yr unigolyn i sicrhau, er enghraifft, bod yr asesiadau a wneir yn deg a bod y gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad a phenderfyniad yn deall yr unigolyn a'u dymuniadau a'u teimladau'n gywir.
- 15.51. Os na all yr unigolyn gyfathrebu'u dymuniadau a'u teimladau, dylai'r Person Priodol sicrhau, cyn belled ag y bo'n bosibl, bod y Corff Cyfrifol yn ymwybodol ohonynt. Er enghraifft, os bydd y rheswm na all yr unigolyn gyfathrebu eu dymuniadau a'u teimladau oherwydd nad yw gweithiwr proffesiynol sy'n cyflawni asesiad a phenderfyniad yn gallu deall dulliau cyfathrebu'r unigolyn, gallai'r Person Priodol gynorthwyo'r unigolyn yn y cyfarfod i rannu eu barn. Fel arall, efallai bydd y Person Priodol am ysgrifennu at y Corff Cyfrifol i gyflwyno cofnod o ddymuniadau a theimladau'r unigolyn.
- 15.52. Tra bod yr awdurdodiad yn cael ei ystyried gan y Corff Cyfrifol, lle y bo hynny'n berthnasol, dylai'r Person Priodol gefnogi'r unigolyn neu ofyn i'r Corff Cyfrifol a'r bobl sy'n darparu gofal yr unigolyn ystyried dewisiadau llai cyfyngol. Mae'n bosibl y bydd y Person Priodol hefyd am gysylltu â'r gweithiwr proffesiynol sy'n cyflawni'r asesiad a'r penderfyniad ar angenrheidrwydd a chymesuredd i'w gwneud yn ymwybodol o unrhyw opsiynau llai cyfyngol neu i annog yr aseswr i'w hystyried.
- 15.53. Os bydd gan yr unigolyn bryder am y trefniadau a gynigir neu'r broses ar unrhyw adeg, neu os bydd gan y Person Priodol reswm i gredu y byddai'r unigolyn yn dymuno iddynt godi pryder, dylai'r Person Priodol gynorthwyo'r unigolyn i wneud hynny neu gynrychioli dymuniadau a theimladau'r unigolyn. Dylid codi'r pryder

gyda'r partïon perthnasol, megis aseswr, gweithiwr penodedig yr unigolyn, neu'r Corff Cyfrifol yn uniongyrchol. Os bydd y pryder yn ymwneud ag ansawdd y gofal, dylid dweud wrth y rheolydd perthnasol cyn gynted â phosibl. Os bydd yn rhesymol credu nad yw'r unigolyn yn dymuno preswyllo neu dderbyn gofal neu driniaeth yn y lle y cânt eu hamddifadu o'u rhyddid, ac mae'r trefniadau'n darparu ar gyfer hynny, yna bydd angen i'r Person Priodol sicrhau bod y Corff Cyfrifol yn ymwybodol oherwydd byddai hyn yn sbarduno'r ddyletswydd i atgyfeirio'r achos at Weithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol (AMCP). Gweler pennod XX i gael mwy o wybodaeth am AMCP a phennod XX i gael mwy o wybodaeth am yr adolygiad cyn-awdurdodi.

- 15.54. Mae'n bosibl y gallai dymuniadau a theimladau'r unigolyn ynghylch a ydynt yn dymuno preswyllo neu dderbyn gofal neu driniaeth yn y lleoliad newid unrhyw bryd, naill ai yn ystod y cam asesu neu unwaith y mae awdurdodiad ar waith. Felly, mae angen i'r Person Priodol fod yn wylidwrs ynghylch newidiadau yn nymuniadau a theimladau'r unigolyn, a phan fyddant yn codi, hysbysu'r Corff Cyfrifol. Pan mai dyma'r achos, unwaith y bydd awdurdodiad ar waith, byddai hyn yn sbarduno adolygiad, a fyddai'n cael ei gynnal gan AMCP.
- 15.55. Unwaith y mae awdurdodiad wedi cael ei roi, mae'r Person Priodol yn gallu gwneud cais i adolygu'r awdurdodiad unrhyw bryd. Os bydd cais yn cael ei wneud a'i fod yn un rhesymol, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol gynnal adolygiad. Dylai'r Corff Cyfrifol gynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn drwy unrhyw adolygiad, i sicrhau bod eu dymuniadau a'u teimladau'n parhau i gael eu deall gan wneuthurwyr penderfyniad. Gall hyn gynnwys cyfarfod â'r adolygydd a chynorthwyo'r unigolyn drwy asesiadau ac ymgynghoriad pellach.
- 15.56. Gall y Person Priodol hefyd wneud cais i'r Llys Gwarchod, er enghraifft i herio'r awdurdodiad. Mae'n bosibl y bydd angen iddynt gefnogi'r unigolyn sy'n ceisio herio'r awdurdodiad yn y llys hefyd, er enghraifft, drwy eu helpu i esbonio'u safbwyntiau i'w cynrychiolydd cyfreithiol, gan sicrhau bod y cynrychiolydd cyfreithiol yn deall dymuniadau a theimladau'r unigolyn, cefnogi'r unigolyn yn y llys, a'u cynrychioli yn y llys. Mae'n bosibl y bydd angen iddynt weithredu fel cyfaill cyfreitha mewn rhai achosion hefyd. Gweler mwy o wybodaeth am herio trefniadau ym mhennod XX.
- 15.57. Mae rôl y Person Priodol yn helpu i sicrhau bod hawliau Erthygl 5 yr unigolyn o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn cael eu hamddiffyn a'u cynnal gan y Corff Cyfrifol a'r rhai hynny sy'n cynnal y trefniadau. Mae Erthygl 5 yn amddiffyn hawl unigolyn i ryddid a diogelwch ac yn rhoi'r hawl i'r unigolyn herio eu bod yn cael eu cadw, ac i'r llys benderfynu ar hyn yn gyflym. Gweler pennod xx i gael mwy o wybodaeth am rôl y Llys Gwarchod a phennod xx i gael gwybodaeth am herio trefniadau.
- 15.58. Cyn i'r cofnod awdurdodi gael ei lofnodi, dylai'r Person Priodol sicrhau bod y Corff Cyfrifol wedi nodi amserlen ar gyfer adolygiadau yn ystod y cyfnod awdurdodi. Bydd

yr amserlen honno'n adlewyrchu amgylchiadau unigol yr achos, a dylai'r Person Priodol weithio â'r Corff Cyfrifol i benderfynu pa mor aml i adolygu'r awdurdodiad. Unwaith y mae adolygiadau'n cael eu hamserlennu, dylai'r Person Priodol sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn ôl yr amserlen, a lle y bo'n briodol, gynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn yn ystod yr adolygiad. Gweler mwy o wybodaeth am adolygiadau ym mhennod XX.

Beth yw hawliau'r Person Priodol?

- 15.59. Mae gan y Person Priodol yr hawl i gael eu hysbysu am broses yr LPS a natur y trefniadau penodol a gynigir ar gyfer yr unigolyn. Mae'n rhaid i'r wybodaeth a ddarperir fod yn hygyrch ac yn briodol i anghenion y Person Priodol ac mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol gymryd camau i sicrhau bod y Person Priodol yn deall y materion perthnasol fel y'u nodwyd yn y paragraffau uchod (e.e. effeithiau awdurdodiad, proses yr awdurdodiad etc.). Gweler pennod XX ynghylch y wybodaeth y mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol ei chyflwyno.
- 15.60. Dylid diweddarau'r Person Priodol am achos yr unigolyn. Os bydd unrhyw ddatblygiadau yn achos yr unigolyn a fyddai'n effeithio ar awdurdodiad trefniadau, dylid hysbysu'r Person Priodol cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn cynnwys unrhyw bryderon a godir gan rywun sy'n ymgysylltu neu sy'n ymddiddori yng ngofal neu driniaeth yr unigolyn, neu unrhyw wybodaeth a all olygu bod yr achos yn cael ei gyfeirio at AMCP.
- 15.61. Os bydd unigolyn yn cytuno i rôl y Person Priodol, mae ganddynt yr hawl i gael eu cefnogi i gyflawni'r rôl. Mae hyn yn amrywio o gefnogaeth i gyfathrebu i gefnogaeth ffurfiol gan IMCA. Gweler paragraffau XX isod i gael mwy o wybodaeth.

Pa gymorth sydd ar gael i'r Person Priodol?

- 15.62. Dylai'r Corff Cyfrifol ystyried anghenion cyfathrebu'r Person Priodol, megis yr iaith a siaredir neu iaith Arwyddion Prydain. Cyn belled ag y bo'n bosibl yn ymarferol, dylai'r Corff Cyfrifol ddarparu'r wybodaeth berthnasol yn null cyfathrebu gofynnol y Person Priodol. Dylai'r Corff Cyfrifol hefyd ystyried fformat y ddogfennaeth y mae'n ei gyflwyno er mwyn iddi fod yn hygyrch ac yn briodol i anghenion yr unigolyn yn ogystal â'r Person Priodol.
- 15.63. Mae gan y Person Priodol yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i gael eu cynorthwyo yn y rôl gan IMCA.
- 15.64. Os hoffai'r Person Priodol gael ei gynorthwyo gan IMCA, gallant wneud cais i'r Corff Cyfrifol benodi un. Mae gan y Corff Cyfrifol ddyletswydd i gymryd camau rhesymol i benodi IMCA ar gyfer Person Priodol os bydd ganddynt allu i gydsynio i gael eu cefnogi gan IMCA ac y byddant yn gwneud cais. Mae'n bosibl y gellir penodi IMCA i

gefnogi'r Person Priodol am gyfnod(au) byr o amser neu gyfnod llawn y broses asesu ac unrhyw gyfnod awdurdodi wedi hynny.

- 15.65. Os bydd y Corff Cyfrifol yn credu bod angen cymorth IMCA ar Berson Priodol, ond nad ydynt wedi gwneud cais, gallant siarad â'r Person Priodol am y buddion y byddai IMCA yn eu cynnig iddynt wrth gynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn.
- 15.66. Os na fydd gan y Person Priodol allu i gydsynio i gael eu cefnogi gan IMCA, dylid penodi IMCA os byddai hyn er y budd pennaf i'r unigolyn. Byddai'n annhebygol y byddai Person Priodol yn addas i gyflawni'r rôl hon pe na baent yn gallu cydsynio i gael eu cefnogi gan IMCA. Fodd bynnag, pan mai dyma'r achos, bydd yn bwysig i'r Corff Cyfrifol fonitro'r sefyllfa a sicrhau bod y Person Priodol yn cyflawni'u rôl yn effeithiol ac yn ymgysylltu â chefnogaeth eirioli. Os bydd y Person Priodol yn gwrthod gweithio â'r IMCA, er ei fod er y budd pennaf i'r unigolyn, yna ni fyddent yn addas i gyflawni'r rôl.

Pa wybodaeth sydd gan y Person Priodol fynediad iddi?

- 15.67. Nid yw rôl y Person Priodol yn eu galluogi i gael mynediad at holl gofnodion iechyd a gofal yr unigolyn. Fodd bynnag, gan fod y Person Priodol yn cynorthwyo ac yn cynrychioli'r unigolyn ym mhroses yr LPS, bydd angen iddynt ddeall natur y trefniadau, effaith yr awdurdodiad fel a nodwyd yn y cofnod awdurdodi, a gwybodaeth berthnasol am broses yr LPS. Felly, dylai fod gan y Person Priodol fynediad at wybodaeth berthnasol. Mae hyn yn cynnwys canlyniadau unrhyw asesiadau a phenderfyniadau, neu ymgynghoriad, er mwyn sut i ddeall y broses a'r effeithiau orau ar yr unigolyn. Mae hyn yn fesur diogelwch pwysig i amddiffyn hawliau Erthygl 5 yr unigolyn o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae hyn hefyd yn berthnasol pryd bynnag y mae adolygiad neu adnewyddiad yn cael ei wneud, pan fo asesiadau neu ymgynghoriad pellach yn cael eu cynnal.
- 15.68. Mae'r wybodaeth y dylai fod gan y Person Priodol fynediad iddi'n cynnwys yr asesiad a'r penderfyniadau. Mae hyn er mwyn galluogi'r Person Priodol i ddeall y rhesymau dros y trefniadau a wneir ac unrhyw awdurdodiadau wedi hynny. Mae hyn yn sicrhau bod y Person Priodol yn gallu cynorthwyo a chynrychioli'r unigolyn yn effeithiol i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau o ran y trefniadau neu'u mynegi ar ran yr unigolyn. Dylid gofyn am gydsyniad yr unigolyn yn gyntaf cyn rhannu'r ddogfennaeth hon â'r Person Priodol. Fodd bynnag, ni ddylai'r ffaith bod gan yr unigolyn brinder gallu i gydsynio i rannu'r wybodaeth berthnasol atal rhannu'r wybodaeth hon.
- 15.69. Mae gan yr unigolyn yr hawl i wrthod caniatâd i'r Person Priodol dderbyn gwybodaeth benodol. Os bydd gan yr unigolyn brinder gallu i wneud penderfyniad o'r fath, dylid rannu gwybodaeth, y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol er mwyn i'r Person Priodol gyflawni eu swyddogaethau, ar sail budd pennaf.

15.70. Yn ystod yr ymgynghoriad, mae'n bosibl na fydd yr unigolyn yn dymuno i'r Person Priodol weld rhai datganiadau a wnaed ganddynt. Dylai'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr ymgynghoriad fod yn ymwybodol o hyn, ac efallai bydd yn penderfynu peidio â chofnodi pwyntiau o'r fath mewn dogfennau a fydd yn cael eu rhannu, neu'n golygu dogfennau o'r fath fel y bo angen. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod y ffaith nad yw'r unigolyn yn dymuno rhannu gwybodaeth berthnasol â'r Person Priodol yn dangos yr angen i ail-ystyried a yw'r Person Priodol yn parhau i fod yn addas yn y rôl.

15.71. Mae'n bosibl y bydd rhai achosion lle na fydd gweithwyr proffesiynol yn dewis rhannu gwybodaeth gyfrinachol gyda Pherson Priodol. Yn yr achos hwn, gall y Person Priodol ofyn i'r Corff Cyfrifol drefnu rhannu'r wybodaeth berthnasol. Gall y Corff Cyfrifol wneud hynny os ystyrir bod hyn yn gyfreithlon ac er y budd pennaf i'r unigolyn i wneud hynny. Os na ystyrir ei fod yn gyfreithlon neu er y budd pennaf i'r unigolyn i'r wybodaeth gael ei rhannu â'r Person Priodol, gallant ofyn am gefnogaeth gan IMCA, sydd â'r hawl i gael mynediad at gofnodion penodol fel a nodwyd mewn rheoliadau a gallant ddefnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi'r unigolyn hyd yn oed os na fyddant yn ei rhannu â'r Person Priodol.

15.72. Os na fydd proses yr LPS yn mynd i gael ei chwblhau o fewn 21 niwrnod calendr, dylai'r Person Priodol gael eu hysbysu am hyn cyn gynted ag y bo'r Corff Cyfrifol wedi penderfynu nad yw'n bosibl. Dylai'r Corff Cyfrifol hefyd gofnodi'r cyfnod o amser y mae'r broses awdurdodi wedi'i chymryd a'r rhesymau dros hyn, a rhannu hyn gyda'r Person Priodol cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

15.73. Os bydd yr unigolyn sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi'n gofyn bod gwaith pellach yn cael ei wneud, dylid rhannu'r ffaith hon a manylion o'r hyn sy'n ofynnol gyda'r Person Priodol. Dylai hyn ddigwydd ar yr un adeg ag y mae'r rhai sy'n rhan o gyflawni'r asesiadau a'r penderfyniadau ac ymgynghoriad a'r rhai sy'n darparu'r trefniadau a gynigir yn derbyn y wybodaeth.

15.74. Unwaith y bydd y trefniadau wedi'u hawdurdodi, daw'r cofnod awdurdodi drafft yn gofnod awdurdodi. Mae gan y Corff Cyfrifol ddyletswydd i ddarparu copi o'r cofnod awdurdodi i'r Person Priodol a'r unigolyn heb oedi. Os na fydd hyn yn cael ei wneud o fewn 72 awr, mae angen i'r Corff Cyfrifol gofnodi'r rheswm dros hyn. Dylid rhannu'r wybodaeth hon hefyd gyda'r unigolyn a'u IMCA neu Person Priodol.

15.75. Os na fydd y trefniadau a gynigir yn cael eu hargymell i'w hawdurdodi, dylid rhannu'r rhesymau dros hyn gyda'r Person Priodol ar yr un adeg â'r rhai hynny sy'n gysylltiedig â darparu'r trefniadau a gynigir.

Beth fydd yn digwydd os bydd y Person Priodol yn penderfynu na allant gyflawni'r rôl hon mwyach?

15.76. Os bydd Person Priodol yn dymuno neu angen diswyddo o'u rôl am unrhyw reswm, gallant wneud hynny unrhyw bryd. Dylent hysbysu'r Corff Cyfrifol cyn gynted â

phosibl fel bod modd gwneud penderfyniad am a oes unigolyn arall i gyflawni'r rôl hon, neu a fyddai angen IMCA. Os bydd yn bosibl cael cyfnod trosglwyddo, byddai hyn yn galluogi parhad o ran cynrychiolaeth a chymorth i'r unigolyn. Gall cyfnod trosglwyddo gynnwys y Person Priodol yn cyflwyno'r unigolyn i'r IMCA a'u cyfarfod gyda'i gilydd ychydig o weithiau er mwyn i'r unigolyn ddod i adnabod yr IMCA. Dylai'r Person Priodol hefyd sicrhau bod yr IMCA yn deall yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys gwybodaeth am y trefniadau a dymuniadau a theimladau'r unigolyn.

15.77. Os bydd y Person Priodol yn dod yn ymwybodol o wrthdaro buddiannau a all olygu nad ydynt yn addas i gyflawni'r rôl mwyach (gweler paragraffau XX uchod), dylent ddweud wrth y Corff Cyfrifol fel bod modd dod o hyd i Person Priodol neu IMCA arall a'u penodi. Gall hyn ddigwydd unrhyw bryd yn ystod y broses neu yn ystod y cyfnod awdurdodi. Os bydd Person Priodol yn ansicr a oes gwrthdaro buddiannau, dylent ei drafod â'r IMCA, os byddant yn cael eu cefnogi gan un, neu gyda'r Corff Cyfrifol os na, fel bod modd eu cynghori o ran a ddylent roi'r gorau i'r rôl.

16. Beth yw'r asesiadau a'r penderfyniadau sydd eu hangen ar gyfer y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid?

Mae tri asesiad a phenderfyniad y mae'n rhaid eu gweithredu i benderfynu a fodlonir yr amodau. Mae angen y wybodaeth hon ar y Corff Cyfrifol pan fydd yn ystyried p'un ai awdurdodi achos neu beidio.

Mae Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Cymhwysra i Gynnal Asesiadau a Gwneud Penderfyniadau) (Lloegr) a Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Cymhwysra i Gynnal Asesiadau, Gwneud Penderfyniadau a Chynnal Adolygiadau Cyn-Awdurdodi) (Cymru) yng Nghymru ("y Rheoliadau Asesu a Phenderfynu") yn nodi'r cymwysterau a'r profiad y mae eu hangen ar weithiwr proffesiynol er mwyn ymgymryd â phob un o'r tri asesiad.

Mae asesiad yn asesu'r unigolyn yn erbyn y meini prawf ar gyfer pob asesiad. Penderfyniad yw lle gwneir penderfyniad ar yr asesiad bod yr unigolyn yn bodloni'r amod berthnasol ar gyfer awdurdodi o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid (LPS).

Crynodeb cyflym

Asesiadau LPS ac asesiadau ac adolygiadau Gofal neu Driniaeth.

- Gall unigolyn a asesir o dan yr LPS hefyd fod yn gymwys ar gyfer asesiad neu adolygiad o dan ddeddfwriaeth arall. Dylid dilyn fframweithiau cyfreithiol eraill ochr yn ochr ag asesiadau a phenderfyniadau'r LPS lle y bo'n bosibl.

Yr asesiadau a'r penderfyniadau sydd eu hangen ar gyfer yr LPS

- Mae'n rhaid cynnal tri asesiad a phenderfyniad gan ddim llai na dau weithiwr proffesiynol cyn y gall Corff Cyfrifol ystyried awdurdodiad i amddifadu rhywun o'u rhyddid. Y rhain yw:
 - yr asesiad a'r penderfyniad ar allu a oes pronder gallu gan yr unigolyn i gydsynio â'r trefniadau,
 - yr asesiad a'r penderfyniad meddygol a oes gan yr unigolyn anhwylder meddyliol, ac

- asesiad a phenderfyniad a yw'r trefniadau'n angenrheidiol i atal niwed i'r unigolyn ac yn gymesur mewn perthynas â'r tebygolrwydd a'r difrifoldeb o niwed i'r unigolyn.
- **Er mwyn i Gorff Cyfrifol roi awdurdodiad, mae'n rhaid bodloni'r amodau hyn.**
- Ceir rhai enghreifftiau lle y gall fod yn briodol defnyddio asesiad a phenderfyniad meddygol blaenorol yn ogystal ag ar allu, neu asesiad cyfatebol.

Beth sy'n digwydd i asesiadau adeg adnewyddu neu pan geir newid arwyddocaol yn amgylchiadau'r unigolyn?

- Pan fydd y cyfnod awdurdodi'n dod i ben ac os bydd y Corff Cyfrifol yn fodlon y parheir i fodloni'r amodau awdurdodi, gellir adnewyddu'r awdurdodiad heb asesiadau pellach. Fodd bynnag, os, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos, nad yw'r Corff Cyfrifol yn fodlon y parheir i fodloni'r amodau awdurdodi, mae'n bosibl y bydd angen asesiadau pellach.
- Mae'n rhaid cynnal adolygiad os bydd y Corff Cyfrifol yn dod yn ymwybodol bod cyflwr neu amgylchiadau unigolyn wedi newid yn arwyddocaol, mae'n bosibl y bydd angen awdurdodiad newydd.

Asesiadau LPS ac asesiadau ac adolygiadau Gofal neu Driniaeth

16.1 Gall unigolyn a asesir o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid (LPS) hefyd fod yn gymwys ar gyfer asesiad neu adolygiad o dan fframweithiau deddfwriaethol eraill, megis:

- asesiad neu adolygiad anghenion o dan Ddeddf Gofal 2014, neu Ddeddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,
- asesiad o dan y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010,

- asesiad neu adolygiad o dan Ofal Iechyd Parhaus (Lloegr) neu Ofal Parhaus y GIG (Cymru),
- asesiad neu adolygiad cymhwyster ar gyfer gofal nyrsio a gyllidir gan y GIG,
- asesiad neu adolygiad o dan adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983, neu,
- asesiad neu adolygiad o dan Ddeddf Plant 1989 (Lloegr).

- 16.2 Dylid ystyried opsiynau gofal a thriniaeth yn ofalus, gyda'r nod o leihau cyfyngiadau os yn bosibl, cyn ystyried trefniadau sy'n golygu amddifadu o ryddid. Wrth gynnal unrhyw asesiad neu adolygiad o dan y fframweithiau deddfwriaethol hyn, lle y bo'n berthnasol, mae'n rhaid dilyn egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ("yr MCA") bob amser. Mae hyn yn cynnwys cymryd pob cam ymarferol i helpu'r unigolyn i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.
- 16.3 Lle y bo'n bosibl, dylid gwneud asesiadau, penderfyniadau, adolygiadau ac adnewyddiadau'r LPS yn rhan annatod o'r prosesau asesu ac adolygu a gynhelir o dan y fframweithiau deddfwriaethol eraill hyn. Er enghraifft, bydd yn arbennig o bwysig i gynnal yr asesiad a'r penderfyniad angenrheidiol a chymesur o dan yr LPS, fel rhan o asesiad neu adolygiad gofal iechyd neu gymdeithasol perthnasol. Mae hyn oherwydd bod y ddwy broses yn edrych ar anghenion yr unigolyn a'r trefniadau angenrheidiol ar gyfer eu gofal neu driniaeth, a dylid eu gwneud yn gydnaws cyn belled â phosibl. Bydd gwneud y prosesau'n rhan annatod yn lleihau cyfanswm y prosesau ffurfiol y mae'n rhaid i'r unigolyn ymwneud â nhw. Bydd hefyd yn integreiddio'r LPS i mewn i brosesau gofal a thriniaeth prif ffrwd yr LPS, gan arwain at gynlluniau gofal a thriniaeth mwy cynhwysfawr.
- 16.4 Efallai bod gan yr unigolyn yn barod asesiad cyfatebol sy'n bodloni'r un gofynion tystiolaeth ar gyfer yr asesiad a'r penderfyniad meddygol neu ar alluedd o dan yr LPS, er enghraifft o ganlyniad i'r broses cynllunio gofal neu driniaeth yn cychwyn cyn y sbardunwyd proses yr LPS, neu oherwydd bod gan yr unigolyn gynllun gofal a chymorth yn barod. Lle bo hyn yn wir, a'i bod yn rhesymol dibynnu ar yr asesiad a'r penderfyniad hwnnw, gellir defnyddio'r asesiad a'r penderfyniad hwnnw at ddibenion yr LPS. Mae adrannau perthnasol y bennod hon (paragraff xx ar gyfer asesiadau meddygol, paragraff xx ar gyfer asesiadau ar alluedd) yn rhoi gwybodaeth bellach ar yr adeg y byddai'n rhesymol defnyddio'r asesiadau hyn.
- 16.5 Ni ellir defnyddio asesiad cyfatebol ar gyfer asesiad a phenderfyniad angenrheidiol a chymesur.
- 16.6 Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ynghylch y trefniadau ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed ym mhennod 21. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ynghylch y broses gyffredinol ym mhennod 13.

Yr asesiadau a'r penderfyniadau sydd eu hangen ar gyfer yr LPS

16.7 Er mwyn i gorff cyfrifol roi awdurdodiad, mae'n rhaid bodloni'r amodau awdurdodi. Mae tri asesiad a phenderfyniad ffurfiol sy'n sefydlu a fodlonir yr amodau awdurdodi ai peidio. Y rhain yw:

- asesiad a phenderfyniad ar alluedd meddyliol bod yr unigolyn â phrinder gallu i gydsynio i'r trefniadau,
- asesiad meddygol, a'r penderfyniad bod anhwylder meddyliol gan yr unigolyn, ac;
- asesiad a phenderfyniad angenrheidiol a chymesur bod y trefniadau'n angenrheidiol i atal niwed i'r unigolyn ac yn gymesur mewn perthynas â'r tebygolrwydd a'r difrifoldeb o niwed i'r unigolyn.

16.8 I sicrhau nad yw penderfyniadau a wneir ynghylch amddifadu o ryddid yn fympwyol, ni ddylai fod llai na dau weithiwr proffesiynol yn ymwneud â chynnal y tri asesiad a phenderfyniad sy'n ofynnol o dan yr LPS. Er enghraifft:

- gallai gweithiwr cymdeithasol sy'n ymwneud â gofal unigolyn ymgymryd â'r asesiadau a'r penderfyniadau angenrheidiol a chymesur ar allu, a gallai meddyg ddarparu'r asesiad a'r penderfyniad meddygol, neu
- mewn ysbyty, gallai meddyg gynnal yr asesiadau a'r penderfyniadau meddygol ac ar allu, a gallai therapydd galwedigaethol ddarparu'r asesiad a'r penderfyniad angenrheidiol a chymesur, neu
- gellid cynnal y tri asesiad a phenderfyniad i gyd gan dri gweithiwr proffesiynol gwahanol.

16.9 Dylai fod gan y gweithwyr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiadau a'r penderfyniadau radd o annibyniaeth oddi wrth ei gilydd. Bydd yn fater i Gyrrff Cyfrifol benderfynu'r trefniadau manwl i sicrhau annibyniaeth yn seiliedig ar amgylchiadau unigol yr achos, ond dylid ystyried yr egwyddorion canlynol:

- ni ddylai unigolyn sy'n cynnal asesiad a phenderfyniad fod yn ymwneud â'r un fenter busnes ag un arall sy'n cynnal asesiad a phenderfyniad, gan gynnwys bod yn bartner, cyfarwyddwr, deiliad swydd arall, neu brif randdeiliad; ac
- ni ddylai unigolyn sy'n cynnal asesiad a phenderfyniad gyfarwyddo'r gwaith neu gyflogi un arall sy'n cynnal asesiad a phenderfyniad; ac
- ni ddylai'r rhai hynny sy'n cynnal asesiad a phenderfyniad fod yn aelodau o'r un tîm sy'n gweithio gyda'i gilydd at ddibenion clinigol yn rheolaidd. Er enghraifft, gallent weithio yn yr un ysbyty, ond ni ddylent weithio ar yr un ward yn rheolaidd.

16.10 Mae'r Rheoliadau Asesu a Phenderfynu'n nodi'r gofynion perthnasol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n cynnal pob asesiad a phenderfyniad. Ar gyfer pob un o'r tri asesiad a phenderfyniad mae'n rhaid i Gyrff Cyfrifol fod yn fodlon:

- bod gan y gweithiwr proffesiynol sy'n eu cynnal yswiriant mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd a allai godi mewn cysylltiad â chynnal yr asesiad;
- bod gan y gweithiwr proffesiynol sy'n eu cynnal y sgiliau a'r profiad priodol i gynnal yr asesiad, gan gynnwys gwybodaeth gymhwysol o'r MCA a'r Cod Ymarfer cysylltiedig, a'r gallu i gadw cofnodion priodol ac i ddarparu adroddiadau clir a rhesymegol yn unol â gofynion cyfreithiol ac arfer da;
- bod gan y gweithiwr proffesiynol sy'n eu cynnal dystysgrif cofnod troseddol manylach neu dystysgrif cofnod troseddol rhagnodedig arall;
- nad yw'r gweithiwr proffesiynol sy'n eu cynnal yn perthyn i'r unigolyn y mae'r asesiad yn cael ei gynnal yn ei gylch;
- nad oes gan y gweithiwr proffesiynol sy'n eu cynnal fudd ariannol yng ngofal yr unigolyn; ac
- nad yw'r gweithiwr proffesiynol sy'n eu cynnal yn perthyn i'r unigolyn sy'n ymddiddori'n ariannol yng ngofal yr unigolyn.

16.11 Nodir gofynion pellach ynghylch pwy all gynnal pob asesiad a phenderfyniad yn adrannau perthnasol y bennod hon, yn ogystal ag yn y Rheoliadau Asesu a Phenderfynu eu hunain.

16.12 Mae'n rhaid i'r asesiad a'r penderfyniad gael eu cynnal gan weithiwr proffesiynol sy'n bodloni'r gofynion cymhwysedd perthnasol ar gyfer yr asesiad penodol. Fodd bynnag, gall y gweithiwr proffesiynol hwnnw ofyn i weithiwr proffesiynol neu ymarferydd arall gynnal rhai neu bob un o elfennau'r asesiad a'r penderfyniad hwnnw ar eu rhan. Yn y pen draw, bydd y gweithiwr proffesiynol hwnnw'n parhau i fod yn atebol yn gyfreithiol ynghylch yr asesiad a'r penderfyniad, gan gynnwys yr elfennau hynny a gyflawnir gan eraill. Er enghraifft, gall yr aseswr ofyn i weithiwr cymdeithasol nad yw wedi cymhwyso gynnal rhai elfennau o'r asesiad a'r penderfyniad angenrheidiol a chymesur ar eu rhan.

16.13 Ceir rhai enghreifftiau lle y gall fod yn briodol dibynnu ar asesiad a phenderfyniad meddygol blaenorol yn ogystal ag ar allu. Rhoddir mwy o wybodaeth ynghylch defnyddio asesiadau blaenorol yn adrannau perthnasol y bennod hon.

16.14 Mae'n bosibl hefyd fod asesiad blaenorol wedi'i gynnal gan unigolyn nad yw'n gymwys o dan yr LPS, er enghraifft asesiad meddygol a gynhaliwyd gan nyrs. Er

nad yw'n gymwys fel asesiad blaenorol LPS, gellir ei ystyried gan yr aseswr sy'n darparu'r asesiad a'r penderfyniad.

- 16.15 Yn dilyn cwblhau pob asesiad, mae'n rhaid penderfynu a yw'r unigolyn yn bodloni'r amod berthnasol ar gyfer awdurdodi o dan yr LPS. Pan fo asesiad newydd wedi'i gynnal, dylai'r aseswr fel rheol wneud penderfyniad ar yr asesiad maent wedi'i gynnal. Yn achos asesiadau angenrheidiol a chymesur, mae'n rhaid i'r aseswr wneud y penderfyniad bob amser.
- 16.16 Yn unol â'r fframwaith cyfreithiol yn Neddf Gofal 2014, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Plant 1989 a 2004, a chanllawiau statudol cysylltiedig, dylai gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gydag oedolion a phlant fod yn wyladwrus ynghylch unrhyw faterion diogelu posibl. Os bydd unrhyw bryderon amddiffyn posibl yn codi pan fydd gweithiwr proffesiynol yn cynnal asesiadau a phenderfyniadau'r LPS, dylid uwchgyfeirio'r rhain o dan y gweithdrefnau diogelu lleol ar gyfer oedolion neu blant. Yng Nghymru, mae'n rhaid dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru cenedlaethol.
- 16.17 Mae nifer o ofynion eraill y mae'n rhaid eu cadarnhau cyn y gall Corff Cyfrifol awdurdodi trefniadau'r unigolyn o dan yr LPS. Gweler pennod xx ynghylch y Broses Gyffredinol i gael mwy o wybodaeth am y ffactorau ychwanegol hyn.

Beth sy'n digwydd i asesiadau adeg adnewyddu neu pan geir newid yn amgylchiadau'r unigolyn?

- 16.18 Pan fydd y cyfnod awdurdodi'n dod i ben ac os bydd y Corff Cyfrifol yn fodlon y parheir i fodloni'r amodau awdurdodi, gellir adnewyddu'r awdurdodiad. Mewn rhai achosion, efallai na fydd angen cynnal asesiadau a phenderfyniadau newydd at y diben hwn. Er enghraifft, gall fod gan unigolyn ddementia difrifol, nid yw eu gallu wedi newid, ac mae'r trefniadau a'u sefyllfa yr un peth neu wedi'u hamrywio ychydig. Os bydd y Corff Cyfrifol yn hyderus y parheir i fodloni'r amodau awdurdodi, yna mae'n bosibl adnewyddu'r awdurdodiad heb fod angen cynnal asesiadau a phenderfyniadau newydd.
- 16.19 Yn ystod y cam adnewyddu, nid oes unrhyw ofyniad i gynnal asesiadau a phenderfyniadau pellach os yw'r Corff Cyfrifol yn fodlon bod yr amodau awdurdodi yn parhau i gael eu bodloni ac mae'n annhebygol y bydd unrhyw newid sylweddol yng nghyflwr yr unigolyn yn ystod y cyfnod adnewyddu a fyddai'n effeithio a yw'r amodau awdurdodi'n cael eu bodloni. Fodd bynnag, os, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos, nad yw'r Corff Cyfrifol yn fodlon y parheir i fodloni'r amodau awdurdodi, mae'n bosibl y bydd angen asesiadau a phenderfyniadau pellach. Yn y cam adnewyddu, mae'n rhaid cynnal ymgynghoriad, a gall ddod yn amlwg y gallai cyflwr neu amgylchiadau'r unigolyn fod wedi newid, ac felly mae'n bosibl y bydd angen asesiadau pellach. Darperir gwybodaeth bellach am y broses ym mharagraffau xx ynghylch ymgynghoriad.

Fel arall, gellir cynnal adolygiad i benderfynu a yw'r amodau awdurdodi'n parhau i gael eu bodloni neu a oes angen asesiadau a phenderfyniadau pellach. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ynghylch y broses adnewyddu ym mhennod XX.

- 16.20 Os bydd y Corff Cyfrifol yn dod yn ymwybodol bod cyflwr neu amgylchiadau unigolyn wedi newid yn arwyddocaol, er enghraifft mae eu hiechyd wedi dirywio neu wella neu bod angen mwy neu lai o gyfyngiadau i atal niwed i'r unigolyn, mae'n rhaid cynnal adolygiad. Dylai'r Corff Cyfrifol hefyd ystyried a oes angen trefnu un neu fwy o asesiadau a phenderfyniadau. Os bydd yr adolygiad neu'r asesiad(au) a'r penderfyniad(au) yn nodi nad yw'r amodau awdurdodi'n cael eu bodloni mwyach, yna mae'n rhaid i'r awdurdodiad ddod i ben.
- 16.21 Os bydd yr adolygiad yn nodi, neu os oes gan y Corff Cyfrifol reswm i gredu, bod angen newid y trefniadau, (er enghraifft, os oes angen symud yr unigolyn i leoliad newydd), yna efallai y bydd angen awdurdodiad newydd. Os felly, dylid comisiynu asesiadau a phenderfyniadau newydd, oni bai y gellir defnyddio asesiadau blaenorol neu gyfatebol. Rhoddir mwy o wybodaeth ynghylch defnyddio asesiadau blaenorol a chyfatebol yn adrannau perthnasol y bennod hon.

Asesiad a Phenderfyniad y Galluedd Meddyliol

- 16.22 Mae'n rhaid cwblhau asesiad a phenderfyniad nad oes gan yr unigolyn y galluedd i gydsynio i'r trefniadau a gynigir cyn y gellir rhoi awdurdod. Gweler pennod XX ynghylch y Diffiniad o Amddifadu o Ryddid i gael gwybodaeth am yr egwyddorion i'w hystyried wrth asesu gallu i gydsynio.
- 16.23 Mae asesiadau a phenderfyniadau ar alluedd meddyliol ar gyfer yr LPS yn cael eu cynnwys o dan y fframwaith a sefydlwyd gan adrannau 1 i 3 yr MCA. Dylid eu cynnal gan gyfeirio at adrannau 2 a 3 yr MCA, ac mae'n rhaid dilyn egwyddorion yr MCA. Un o'r prif wahaniaethau ar gyfer asesiad a phenderfyniad ar allu a gynhelir o dan yr LPS - yn wahanol i asesiadau gallu eraill a gynhelir o dan yr MCA - yw bod yn rhaid iddynt gael eu cynnal gan weithiwr proffesiynol sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau Asesu a Phenderfynu. I gael gwybodaeth ynghylch asesiadau ar allu o dan yr MCA gweler pennod xx.
- 16.24 Mae asesiadau ar gyfer galluedd meddyliol yn benodol o ran penderfyniad yn ogystal ag amser. Felly, mae'n rhaid i asesiad a phenderfyniad ar alluedd meddyliol a gynhelir fel rhan o broses yr LPS fod yn benodol i'r trefniadau a gynigir neu sydd ar waith ar gyfer gofal neu driniaeth yr unigolyn sy'n arwain at amddifadu o ryddid. Mewn rhai achosion, bydd y trefniadau a gynigir yn cynnwys nifer o leoliadau a threfniadau, lle dylai'r Corff Cyfrifol ystyried a oes angen mwy nag un asesiad a phenderfyniad ar allu. Wrth wneud y penderfyniad hwn, dylai'r Corff Cyfrifol ystyried ffactorau megis a yw'r trefniadau sydd ar waith ar draws

sawl lleoliad yn sylweddol wahanol, ac a yw'r gyd-ddibyniaeth rhwng y gwahanol drefniadau'n golygu bod un asesiad yn briodol. Bydd gan bob achos ei amgylchiadau unigryw ei hun. Mae'n rhaid i'r penderfyniad hwn fyth fod yn seiliedig ar ystyriaethau adnoddau neu gyfleustra gweinyddol.

16.25 Os penderfynir bod angen asesiadau a phenderfyniadau ar wahân ar allu, gellir cynnal y rhain ar yr un pryd a gan yr un gweithiwr proffesiynol os ystyrir bod hyn yn briodol. Dylai'r gwneuthurwyr penderfyniad sicrhau bod asesiadau a phenderfyniadau unigol ar allu yn gyson ac yn gydlynol ac nad ydynt yn gwrthddweud ei gilydd.

Pwy all gynnal yr asesiad a'r penderfyniad ar alluedd meddyliol o dan yr LPS?

16.26 Rôl y Corff Cyfrifol yw penderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i gynnal yr asesiad a'r penderfyniad ar allu. Mae'r Rheoliadau Asesu a Phenderfynu'n nodi'r gofynion perthnasol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n cynnal pob asesiad a phenderfyniad. I gynnal yr asesiad a'r penderfyniad ar allu, mae'n rhaid i unigolyn fodloni'r gofynion a nodir ym mharagraff xx, ac mae'n rhaid iddo fod yn un o'r canlynol:

- ymarferydd meddygol
- nyrs
- therapydd galwedigaethol
- gweithiwr cymdeithasol
- seicolegydd
- therapydd lleferydd ac iaith

16.27 Mae'n rhaid i'r aseswr fod wedi'i gofrestru gyda'i reoleiddiwr proffesiynol fel sy'n cael ei nodi yn y Rheoliadau Asesu a Phenderfynu a gall fod yn weithiwr proffesiynol cofrestredig mewn unrhyw ran o'r DU. Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol fodloni nad yw'r unigolyn wedi'i wahardd o'r gofrestr sy'n berthnasol i alwedigaeth yr unigolyn.

Galluedd meddyliol cyfnewidiol

16.28 Mae pennod XX yn rhoi cyngor ar yr hyn i'w wneud pan ailadroddir y broses o wneud penderfyniad ynghylch unigolyn sydd â galluedd meddyliol cyfnewidiol. Wrth asesu a phenderfynu a oes gan yr unigolyn y galluedd meddyliol perthnasol i gydsynio i amddifadu o ryddid, a gall eu galluedd meddyliol fod yn gyfnewidiol, dylid defnyddio'r egwyddorion ar gyfer ailadrodd y broses o wneud penderfyniadau.

16.29 Os oes gan y gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad a'r penderfyniad gred resymol bod gallu'r unigolyn yn gyfnewidiol y tro cyntaf y byddant yn cyfarfod,

dylai'r gweithiwr proffesiynol drefnu cyfarfod â'r unigolyn ar sawl achlysur. Gellir sefydlu'r gred hon yn ystod yr asesiad ei hun neu, trwy dystiolaeth bellach a ddarperir gan y rhai sy'n agos at neu'n gweithio gyda'r unigolyn. Dylai'r gweithiwr proffesiynol, cyn belled ag y bo modd, drefnu ymweliadau pellach yn unol â threfn arferol yr unigolyn, er enghraifft os yw'r unigolyn yn tueddu i fod â mwy o allu i wneud penderfyniadau yn y bore na gyda'r nos ac felly byddai'n briodol asesu eu gallu ar y ddwy adeg.

- 16.30 Lle nad yw unigolyn yn debygol o adennill gallu'n aml, neu os byddant yn adennill gallu mae'n debygol o ddigwydd am gyfnod byr yn unig, gall fod yn briodol symud ymlaen ar y sail bod y prinder gallu perthnasol ganddynt. Fodd bynnag, os yw'r unigolyn yn debygol o adennill gallu'n amlach nag nad oes ganddynt allu, a/neu y bydd ganddynt allu am gyfnodau hwy, gall fod yn fwy priodol symud ymlaen ar y sail bod gan yr unigolyn y gallu perthnasol at ddibenion yr LPS.
- 16.31 Efallai, os yw'r unigolyn yn debygol o adennill gallu'n aml, byddai cyfnod awdurdodi byrrach yn briodol neu o leiaf dylid ystyried adolygiadau rheolaidd. Gall hyn olygu bod angen asesiad a phenderfyniad newydd ar allu'n rheolaidd er mwyn dod â'r awdurdodiad cyfredol i ben a, lle bo angen, rhoi awdurdodiad newydd ar waith. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ynghylch awdurdodiadau ar gyfer pobl sydd â galluedd meddyliol cyfnewidiol ym mhennod xx.
- 16.32 Efallai y bydd yn briodol dibynnu ar asesiad a phenderfyniad blaenorol bod gan yr unigolyn alluedd meddyliol cyfnewidiol. Fodd bynnag, byddai hyn yn briodol yn unig os bydd gallu cyfnewidiol yr unigolyn yn debygol o fod yn gyson ac yn rhagweladwy. Gweler mwy o ganllawiau ynghylch defnyddio asesiadau a phenderfyniadau blaenorol isod ym mharagraffau xx.

Beth ddylid ei gynnwys yng nghofnod terfynol yr asesiad a'r penderfyniad ar allu?

- 16.33 Wrth gofnodi'r asesiad a phenderfyniad ar allu ar gyfer y Corff Cyfrifol, dylai'r aseswr esbonio'r holl gamau ymarferol a gymerwyd i gynorthwyo'r unigolyn gyda gwneud eu penderfyniad. Dylai'r aseswr hefyd roi manylion yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen ar yr unigolyn i ddeall, cadw neu ddefnyddio a phwysu a mesur gwybodaeth ar gyfer y penderfyniad, neu nad oedd yr unigolyn yn gallu cyfathrebu eu penderfyniad. Dylai'r cofnod hefyd gynnwys tystiolaeth o nam neu aflonyddwch ar feddwl neu ymennydd yr unigolyn a sut mae hyn yn achosi diffyg galluedd meddyliol perthnasol yr unigolyn yn uniongyrchol, ac unrhyw dystiolaeth arall y mae'r aseswr yn teimlo sy'n angenrheidiol.
- 16.34 Os bydd yr aseswr o'r farn bod yr amod awdurdodi wedi'i fodloni ond bod yr unigolyn yn debygol o brofi gallu cyfnewidiol, dylent ystyried a chofnodi barn ynghylch a fydd gallu'r unigolyn yn gyfnewidiol yn aml, pa mor hir y mae'r cyfnodau anallu yn debygol o barhau ac a yw'r cyfnodau o allu'n debygol o ddigwydd yn fwy aml na'r cyfnodau o anallu, neu i'r gwrthwyneb. Bydd hyn yn

cynorthwyo'r Corff Cyfrifol i bennu hyd yr awdurdodiad a pha mor aml y dylid cynnal yr adolygiadau.

- 16.35 Fel yr amlinellwyd ym mharagraff xx, dylid gwneud cofnod o'r asesiad ar allu'r unigolyn i wneud y penderfyniad. Dylai hyn gynnwys a all yr unigolyn ddeall, cadw, a defnyddio neu bwyso a mesur y wybodaeth i wneud y penderfyniad perthnasol, a chyfathrebu eu penderfyniad. Gellir asesu bod yr unigolyn â phrinder gallu perthnasol os bydd yr asesiad yn dangos nad ydynt yn gallu gwneud unrhyw un o'r pethau hyn ac mae hyn yn ganlyniad uniongyrchol i nam neu aflonyddwch yng ngweithrediad y meddwl neu'r ymennydd.
- 16.36 Un o brif egwyddorion yr LPS yw cadw'r unigolyn yn ganolog i'r broses, felly, lle mae gan yr unigolyn ddymuniadau a theimladau y gwyddys amdanynt, dylid dogfennu'r rhain yn glir.
- 16.37 Yn ogystal â darparu adroddiad i'r Corff Cyfrifol, gall y rhai sy'n cynnal yr asesiad a'r penderfyniad gofnodi manylion y canlyniad yng nghofnodion iechyd neu ofal cymdeithasol yr unigolyn os y bo'n briodol.

Pryd y bydd yn briodol dibynnu ar asesiad gallu blaenorol neu asesiad gallu a gynhaliwyd at ddiben gwahanol?

- 16.38 Gan fod gallu'n benodol o ran penderfyniad yn ogystal ag amser, yn y mwyafrif o achosion bydd angen cwblhau asesiad a phenderfyniad newydd ar allu.
- 16.39 Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, bydd yn bosibl i'r Corff Cyfrifol ddibynnu ar asesiad a phenderfyniad blaenorol neu asesiad a gynhaliwyd at ddiben arall. Nid yw'n bosibl rhoi rhestr ragnodol o achosion o'r fath, gan y bydd llawer o ffactorau sy'n benodol i achosion i'w hystyried. Wrth ystyried a yw'n rhesymol dibynnu ar asesiad blaenorol neu gyfatebol, dylai'r Corff Cyfrifol, o leiaf:
- Roi sylw i raddau'r anallu; po agosaf at y ffin, y lleiaf rhesymol mewn egwyddor fydd dibynnu ar yr asesiad hwnnw.
 - Gwirio pwy a gynhaliodd yr asesiad, a'i fod wedi'i gwblhau gan unigolyn sy'n bodloni'r gofynion cymhwysedd a nodir yn y Rheoliadau Asesu a Phenderfynu a pharagraffau xx.
 - Ystyried pa mor hir yn ôl y cynhaliwyd yr asesiad. Er na roddir terfyn amser penodol, mae'n fwy tebygol yr hiraf yn ôl y gwnaed yr asesiad, y lleiaf tebygol y bydd yn ddilys.
 - Sicrhau bod y wybodaeth berthnasol (h.y. y ffactorau y mae angen eu deall, eu defnyddio a'u pwyso a mesur er mwyn dod i benderfyniad) yr un fath neu'n sylweddol debyg i'r wybodaeth berthnasol yn yr asesiad blaenorol. O ystyried mai asesiad yw hwn sy'n penderfynu ar allu unigolyn i gydsynio i'r trefniadau a gynigir, oni bai bod yr asesiad yn gysylltiedig â'r trefniadau hynny neu drefniadau o natur a gradd sylweddol debyg, ni ellir dibynnu arno.

- Ystyried a fu newid ers y cynhaliwyd yr asesiad yng nghyflwr neu ymddygiad yr unigolyn, neu a fu dirywiad neu welliant mewn iechyd corfforol neu feddyliol yr unigolyn. Os bu newid sy'n dangos posibilrwydd o welliant mewn gallu, mae'n annhebygol y bydd yr asesiad blaenorol yn dderbyniol.
- Gwirio a yw'r unigolyn, ers yr asesiad diwethaf, wedi derbyn neu wedi bod yn derbyn unrhyw feddyginiaeth, triniaeth, adsefydlu, addysg neu gymorth a allai wella ei gyflwr neu'i allu yn rhesymol.
- Gwirio a fynegodd yr aseswr blaenorol farn ar y tebygolrwydd y bydd yr unigolyn yn adennill gallu, yn enwedig ym maes perthnasol gallu.

16.40 Ni ellir dibynnu ar asesiad blaenorol neu gyfatebol ar allu at ddibenion y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid os yw wedi'i gwblhau gan unigolyn nad yw'n bodloni'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau Asesu a Phenderfynu.

16.41 Os nad yw'r adolygydd cyn-awdurdodi yn fodlon ei bod yn briodol dibynnu ar asesiad blaenorol neu gyfatebol, ni fyddant yn gallu dod i'r casgliad bod yr amodau awdurdodi wedi'u bodloni neu ei bod yn rhesymol i'r Corff Cyfrifol ddod i'r casgliad hwn. Os bydd hyn yn digwydd ni ellir rhoi awdurdodiad, ac mae'n bosibl y bydd angen i'r Corff Cyfrifol ystyried a ddylid trefnu asesiad newydd. Darperir canllawiau pellach ym mhennod xx ynghylch y Broses Gyffredinol.

Yr Asesiad a'r Penderfyniad Meddygol ynghylch Anhwylder Meddyliol

16.42 Mae Deddf Iechyd Meddwl (1983) ("yr MHA") yn diffinio anhwylder meddwl fel unrhyw anhwylder neu anabledd y meddwl. Rhoddir yr un ystyr i anhwylder meddyliol o dan yr LPS ag anhwylder meddyliol o dan yr MHA. O dan yr LPS, gofynnir am asesiad a phenderfyniad meddygol i sefydlu a oes gan yr unigolyn anhwylder meddyliol cyn y gellir rhoi awdurdodiad.

16.43 Y penderfyniad a wneir ar asesiad meddygol yw a oes gan yr unigolyn anhwylder meddyliol fel y'i diffinnir o dan yr MHA. Fodd bynnag, nid yw'r eithriad anabledd dysgu sy'n berthnasol i adrannau penodol o'r MHA yn berthnasol i'r asesiadau meddygol o dan yr LPS. Mae hyn yn golygu y gellir awdurdodi amddifadu unigolyn sydd ag anabledd dysgu o ryddid, hyd yn oed os nad yw'r anabledd dysgu hwnnw'n gysylltiedig ag 'ymddygiad sy'n anarferol o ymosodol' neu 'ymddygiad anghyfrifol difrifol', o dan yr LPS, ar yr amod bod yr amodau awdurdodi eraill yn berthnasol. Gweler pennod XX i gael mwy o wybodaeth am y rhyngwyneb rhwng Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid a'r MHA.

Pwy all gynnal yr asesiad a'r penderfyniad meddygol?

- 16.44 Rôl y Corff Cyfrifol yw penderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i gynnal yr asesiad a'r penderfyniad meddygol. Mae'r Rheoliadau Asesu a Phenderfynu'n nodi'r gofynion perthnasol ar gyfer aseswr i gynnal asesiad meddygol. Gellir cynnal asesiadau a phenderfyniadau meddygol yn unig gan ymarferydd meddygol cofrestredig neu seicolegydd cofrestredig sy'n bodloni amodau'r rheoliadau hyn. Dylai'r un gweithiwr proffesiynol gynnal yr asesiad yn ogystal â'r penderfyniad fel rheol.
- 16.45 Dylai'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad a'r penderfyniad meddygol ystyried ymgynghori â gweithwyr proffesiynol eraill wrth sefydlu a oes gan yr unigolyn anhwylder meddyliol ai peidio, mewn achosion lle gallai fod yn anos ei adnabod.
- 16.46 Gall y Corff Cyfrifol ddibynnu ar asesiad a phenderfyniad meddygol blaenorol os yw'n rhesymol gwneud hynny. Er enghraifft, os yw asesiad blaenorol wedi pennu bod anhwylder meddyliol yr unigolyn yn debygol o fod yn barhaol neu'n datblygu'n raddol. Gweler gwybodaeth bellach am ddefnyddio asesiadau blaenorol isod.

Asesiad a phenderfyniad meddygol ynghylch asesiad meddygol

- 16.47 Mae ystyr anhwylder meddyliol yn hynod eang a bydd yn cynnwys cyflyrau megis sgitsoffrenia, anhwylder deubegynol, dementia, anabledd dysgu, awtistiaeth, a'r mwyafrif o fathau o anafiadau i'r ymennydd. Er mwyn awdurdodi trefniadau o dan yr LPS, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol fodloni bod gan yr unigolyn anhwylder meddyliol.
- 16.48 Yn y rhan fwyaf o achosion, sefydlir hyn yn syml trwy dderbyn diagnosis o gyflwr penodol. Bydd llythyr diagnosis, wedi'i lofnodi gan feddyg, fel arfer yn bodloni'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer yr asesiad a'r penderfyniad. Pan fydd gan yr unigolyn ddiagnosis, neu bydd yn bosibl derbyn diagnosis yn y fframau amser perthnasol i'r LPS, yna dylai'r Corff Cyfrifol ofyn am lythyr yn cadarnhau'r diagnosis. Os nad yw'r Corff Cyfrifol yn ymwybodol bod diagnosis blaenorol wedi'i wneud, dylai'r Corff Cyfrifol gysylltu â chlinigydd sy'n goruchwyllo gofal yr unigolyn yn y lle cyntaf i ofyn am y wybodaeth hon (gall hyn er enghraifft fod yn feddyg teulu, seicolegydd neu seiciatrydd). Os nad oes gan yr unigolyn ddiagnosis yn barod, dylai'r Corff Cyfrifol ofyn am ddiagnosis o gyflwr yr unigolyn trwy'r clinigwr sy'n goruchwyllo gofal yr unigolyn.
- 16.49 Mewn rhai achosion, lle na wnaed diagnosis yn barod, mae'n bosibl na fydd gwneud diagnosis o gyflwr manwl gywir yn syml a gall gymryd cryn dipyn o amser. Os nad yw'n bosibl derbyn diagnosis terfynol cyn bod angen rhoi awdurdodiad, naill ai o fewn y ffrâm amser o 21 diwrnod ar gyfer cwblhau awdurdodiadau LPS, neu o fewn ffrâm amser fyrrach ar gyfer achosion brys,

mae'n bosibl y bydd angen rhoi awdurdodiad cyn bod diagnosis terfynol wedi'i wneud. Mewn achosion o'r fath gellir parhau i roi awdurdodiad cyn belled â bod yr asesiad a'r penderfyniad meddygol wedi dod i'r casgliad bod gan yr unigolyn anhwylder meddyliol, ond na ellir cadarnhau'r union ddiagnosis ar hyn o bryd. Yn y fath amgylchiadau, gall diagnosis rhagarweiniol fod yn briodol. Dylai'r Corff Cyfrifol, lle bo hynny'n briodol, ofyn am ddiagnosis manwl o gyflwr yr unigolyn cyn gynted â phosibl a diweddarau'i gofnodion o ganlyniad. Mewn rhai achosion, dylai'r Corff Cyfrifol ystyried a fyddai awdurdodiad am gyfnod byrrach neu adolygiadau rheolaidd yn briodol os nad yw'r union ddiagnosis wedi'i gadarnhau eto.

Beth ddylid ei gynnwys yng nghofnod terfynol yr asesiadau a'r penderfyniadau meddygol?

- 16.50 Dylai'r asesiad a'r penderfyniad meddygol nodi'n glir a oes gan yr unigolyn anhwylder meddyliol.
- 16.51 Dylai'r cofnod o asesiad a phenderfyniad meddygol gael ei ategu gyda thystiolaeth atodol fel y bo'n briodol, megis cofnod o bryd a ble y cafodd y claf ei gyfweld neu farn gweithwyr proffesiynol eraill.
- 16.52 Os nad oes unrhyw ddiagnosis manwl gywir yn bosibl, dylai'r gweithiwr meddygol proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad a'r penderfyniad gofnodi'n glir bod gan yr unigolyn anhwylder meddyliol o fewn yr asesiad a'r penderfyniad. Dylent hefyd nodi pam nad oedd yn bosibl derbyn diagnosis mwy manwl gywir.
- 16.53 Yn ychwanegol, dylai'r aseswr ystyried a yw'n bosibl darparu gwybodaeth hefyd ynghylch a yw diagnosis yr unigolyn yn debygol o newid yn y dyfodol (er enghraifft rhywun ag anaf tymor byr ar yr ymennydd), neu a yw diagnosis yr unigolyn yn annhebygol o newid, megis rhywun a anwyd ag anabledd dysgu. Os yw'n bosibl darparu'r wybodaeth hon, dylid ei chofnodi hefyd ar yr asesiad a'r penderfyniad meddygol.

Pryd y bydd yn briodol dibynnu ar asesiad meddygol blaenorol neu gyfatebol neu asesiad meddygol a gynhaliwyd at ddiben gwahanol?

- 16.54 Mae'n bosibl bod asesiad wedi'i gynnal yn barod. Er enghraifft, asesiad cyfatebol o dan fframwaith arall neu pan fydd unigolyn wedi'i gynnwys o dan awdurdodiad LPS yn barod, ond mae eu hamgylchiadau wedi newid yn sylweddol a arweiniodd at ddod â'r awdurdodiad hwnnw i ben ac mae angen awdurdodiad newydd.
- 16.55 Wrth ystyried dibynnu ar asesiad neu benderfyniad blaenorol neu gyfatebol, dylai'r Corff Cyfrifol o leiaf:

- Wirio pwy a gynhaliodd yr asesiad a'r penderfyniad – a oedd wedi'i gwblhau gan unigolyn sy'n bodloni'r gofynion cymhwysedd a nodir yn y Rheoliadau Asesu a Phenderfynu a pharagraffau xx a xx?
- Gwirio pa mor hir yn ôl y cynhaliwyd yr asesiad a'r penderfyniad. Er nad oes terfyn amser penodol ar gyfer defnyddio asesiadau a phenderfyniadau blaenorol, gan ddibynnu ar gyflwr yr unigolyn, efallai mai'r hiraf yn ôl y cwblhawyd yr asesiad, y lleiaf tebygol y bydd yn parhau i fod yn berthnasol.
- Gwirio a fu newid yng nghyflwr yr unigolyn ers y cynhaliwyd yr asesiad. Os yw'r unigolyn wedi gwella ers hynny, mae'n bosibl nad oes ganddynt anhwylder meddyliol mwyach. Er enghraifft, gall unigolyn sydd ag iselder wella dros amser.

16.56 Os yw'r asesiad blaenorol wedi nodi na fydd anhwylder meddyliol yr unigolyn yn newid, yna gall fod yn rhesymol i'r Corff Cyfrifol ddibynnu ar hyn. Oni bai bod y dystiolaeth yn glir, neu bod rheswm i gredu nad oes gan yr unigolyn anhwylder meddyliol bellach o bosibl, bydd angen asesiad a phenderfyniad newydd.

16.57 Os nad yw'r adolygydd cyn-awdurdodi'n fodlon ei bod yn briodol dibynnu ar asesiad a phenderfyniad blaenorol, ni fyddant yn gallu dod i'r casgliad y bodlonir yr amodau awdurdodi neu ei bod yn rhesymol i'r Corff Cyfrifol ddod i'r casgliad hwn. Os bydd hyn yn digwydd, ni ellir rhoi awdurdodiad, ac mae'n bosibl y bydd angen i'r Corff Cyfrifol ystyried a ddylid trefnu asesiad a phenderfyniad newydd. Darperir canllawiau pellach ynghylch yr adolygiad cyn-awdurdodi ym mhennod xx ynghylch y Broses Gyffredinol.

Yr Asesiad a'r Penderfyniad Angenrheidiol a Chymesur

16.58 Gellir awdurdodi trefniadau amddifadu o ryddid yn unig o dan yr LPS os yw'r trefniadau'n angenrheidiol i atal niwed i'r unigolyn yn ogystal â bod yn gymesur mewn perthynas â thebygolrwydd a difrifoldeb y niwed hwn. Mae'n rhaid cwblhau asesiad, a gwneud penderfyniad ar yr asesiad hwnnw y bodlonir yr amod awdurdodi hwn.

16.59 Ar gyfer yr awdurdodiad cyntaf o drefniadau, mae'n rhaid cwblhau asesiad a phenderfyniad angenrheidiol a chymesur newydd. Ni ellir defnyddio asesiad cyfatebol ar gyfer yr asesiad a'r penderfyniad angenrheidiol a chymesur. Ar adeg adnewyddu, os bydd y corff cyfrifol yn fodlon y parheir i fodloni'r amod hwn, gallai fod yn briodol defnyddio asesiad a phenderfyniad angenrheidiol a chymesur blaenorol.

Pwy all gyflawni'r rôl asesu angenrheidiol a chymesur?

- 16.60 Yn wahanol i'r asesiadau gallu a meddygol lle gall yr aseswr fod yn wahanol i'r unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad, mae'n rhaid i'r aseswr ar gyfer yr asesiad angenrheidiol a chymesur wneud y penderfyniad hefyd.
- 16.61 Mae'n rhaid i'r asesiad a'r penderfyniad angenrheidiol a chymesur gael eu cwblhau gan weithiwr proffesiynol sy'n bodloni'r gofynion cymhwysedd yn y Rheoliadau Asesu a Phenderfynu, fel y nodir ym mharagraff xx, ac mae'n rhaid iddo fod yn un o'r canlynol:
- ymarferydd meddygol
 - nyrs
 - therapydd galwedigaethol
 - gweithiwr cymdeithasol
 - seicolegydd
 - therapydd lleferydd ac iaith.
- 16.62 Mae'n rhaid i'r unigolyn fod wedi'i gofrestru yn ei alwedigaeth, mewn unrhyw genedl yn y DU. Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol fod yn fodlon nad yw'r unigolyn wedi'i wahardd o'r gofrestr sy'n berthnasol i alwedigaeth yr unigolyn.
- 16.63 Dylid cynnal yr asesiad, pryd bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol, fel rhan o unrhyw asesiadau neu adolygiadau gofal a thriniaeth eraill o dan ddeddfwriaeth arall sy'n digwydd ar yr un pryd, fel yr amlinellir ym mharagraff xx. Dylai'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal asesiad neu adolygiad gofal cymdeithasol neu iechyd lle gall y trefniadau a gynigir arwain at amddifadu o ryddid, pan fo hynny'n bosibl ac yn briodol, hefyd gynnal yr asesiad angenrheidiol a chymesur ar gyfer yr LPS, ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau Asesu a Phenderfynu. Dylai Cyrff Cyfrifol ystyried hyn wrth drefnu asesiad gofal cymdeithasol, neu asesiad iechyd neu adolygiad.
- 16.64 Os na fydd yr unigolyn sy'n cynnal yr asesiad neu'r adolygiad gofal neu iechyd yn bodloni'r gofynion, yna dylai rhywun sy'n gallu cynnal yr asesiad angenrheidiol a chymesur, lle y bo'n bosibl ac yn briodol, gynnal y ddau asesiad. Ceir gwybodaeth bellach am y rhyngwyneb rhwng LPS a chynllunio iechyd a gofal cymdeithasol ym mhennod xx.

Beth y mae angen i'r aseswr ystyried?

- 16.65 Er mwyn pennu a yw'r amodau'n angenrheidiol ac yn gymesur, dylai'r aseswr:
- ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn,
 - ystyried a oes opsiynau llai cyfyngol, ac
 - ystyried a fydd y trefniadau'n gwella iechyd a lles yr unigolyn.

16.66 Dylai'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad a'r penderfyniad ganfod ac ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn ar hyn o bryd ac yn y gorffennol, a pha mor gryf maent yn teimlo am y trefniadau a gynigir. Mae ystyried y ddau faen prawf yn arbennig o bwysig lle mae'r trefniadau a gynigir yn groes i ddymuniadau a theimladau'r unigolyn, ac mae hyn yn debygol o wneud y trefniadau hyd yn oed yn fwy cyfyngol. Er enghraifft, mewn rhai achosion bydd yn eglur bod yr unigolyn yn gwrthwynebu'r trefniadau'n bendant, felly mae'n rhaid bod cyfiawnhad cryf dros bennu bod y trefniadau'n aros yn angenrheidiol ac yn gymesur. Bydd yn rhaid i'r aseswr ystyried faint o bwyslais y dylid ei roi i ddymuniadau a theimladau'r unigolyn; po fwyaf y bwlch rhwng dymuniadau a theimladau'r unigolyn a'r trefniadau a gynigir, y mwyaf yw'r angen am gyfiawnhad clir a chadarn ar gyfer y trefniadau hynny.

16.67 Er mwyn canfod dymuniadau a theimladau'r unigolyn, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol ymgynghori â'r unigolyn a'r rhai hynny sy'n ymwneud â'u gofal neu'n agos at yr unigolyn. Gan y byddai angen i'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad a'r penderfyniad angenrheidiol a chymesur hefyd siarad â phobl sy'n ymwneud â gofal yr unigolyn er mwyn caffael dealltwriaeth dda o amgylchiadau'r unigolyn, dylai'r Corff Cyfrifol ofyn i'r gweithiwr proffesiynol gynnal yr ymgynghoriad gofynnol ar ei ran. Mae pennod xx yn rhoi canllawiau pellach ynghylch ymgynghori at ddibenion LPS.

16.68 Mae'n rhaid i'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad a'r penderfyniad ystyried a yw'r trefniadau'n angenrheidiol i atal niwed i'r unigolyn ac yn gymesur mewn perthynas â'r tebygolrwydd a'r difrifoldeb o niwed i'r unigolyn. Er enghraifft, gall trefniadau a gynigir sy'n angenrheidiol i atal niwed i'r unigolyn beidio â bod yn gymesur mewn perthynas â'r tebygolrwydd gwirioneddol o niwed yn digwydd, yn enwedig os yw'r unigolyn yn gwrthwynebu'r trefniadau'n gryf.

16.69 Dylai'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad a'r penderfyniad ystyried y pwyntiau canlynol a sicrhau eu bod wedi'u cofnodi'n gywir o fewn yr asesiad a'r penderfyniad.

- Ydy'r trefniadau a gynigir yn arwain at amddifadu o ryddid ac os felly, sut?
- Pa niwed allai ddigwydd os na roddir yr amddifadu o ryddid ar waith?
- Oes tystiolaeth o niwed blaenorol ac, os felly, beth yw'r tebygolrwydd o hyn yn digwydd eto?
- Beth yw natur y niwed hwnnw; pa mor debygol y mae o ddigwydd, a beth yw difrifoldeb y niwed petai'n digwydd?
- A yw'r trefniadau a gynigir yn atal y niwed hwn?

16.70 Wrth ystyried y risg o niwed i'r unigolyn, dylai'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad a'r penderfyniad ystyried sut y byddai'r risg honno'n cael ei lleihau gan y trefniadau. Er mwyn i'r trefniadau fod yn angenrheidiol, eu nod yw lleihau'r risg

o niwed i'r unigolyn. Os byddant yn annhebygol o wneud hyn, yna mae'n annhebygol eu bod yn angenrheidiol.

- 16.71 Os bydd yr unigolyn yn risg o niwed i eraill, gall fod yn bosibl o hyd i bennu bod y trefniadau'n angenrheidiol ac yn gymesur i awdurdodi'r trefniadau i atal niwed i'r unigolyn y gofali'r amdano. Byddai penderfyniad o'r fath yn briodol yn unig os, o ganlyniad o fod yn risg i eraill, bod yr unigolyn ei hun hefyd mewn risg o niwed. Er enghraifft, os bydd unigolyn mewn cartref gofal yn debygol o niweidio preswlydd arall, a all wedyn dalu'r pwyth yn ôl a niweidio'r unigolyn, gall fod yn angenrheidiol a chymesur i amddifadu'r unigolyn o'u rhyddid. Fodd bynnag, po fwyaf y risg i unigolyn arall - yn hytrach na'r unigolyn ei hun - y mwyaf yw'r angen i ystyried fframweithiau cyfreithiol amgen eraill megis yr MHA. Mae pennod xx yn rhoi mwy o wybodaeth am y rhyngwyneb gyda'r MHA.
- 16.72 Dylai'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad a'r penderfyniad angenrheidiol a chymesur bob amser ystyried a wnaethpwyd penderfyniad budd pennaf ynghylch y gofal a thriniaeth y bwriedir i'r amddifadu o ryddid ei alluogi. Byddai'r trefniadau'n angenrheidiol a chymesur yn unig lle gwnaethpwyd penderfyniad budd pennaf cyfreithlon ynghylch y gofal a'r driniaeth. Darperir canllawiau ym mharagraffau xx -xx.
- 16.73 Dylai'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad a'r penderfyniad ystyried ai amddifadu o ryddid yw'r unig ffordd ymarferol i alluogi gofal neu driniaeth i gael eu darparu. Er enghraifft, os mai'r unig ffordd i gadw rhywun ar ddrip IV yw eu cyfyngu i'r gwely gan ddefnyddio grisiau, eu hatal rhag gadael a'u rhoi o dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus i'w hatal rhag ei dynnu allan, gallai hyn fod yn angenrheidiol ac yn gymesur.
- 16.74 Dylai'r aseswr ystyried a oes trefniadau llai cyfyngol ar gael er mwyn darparu gofal neu driniaeth yr unigolyn. Er enghraifft, a yw'r GIG a/neu'r awdurdod lleol yn cynnig pecynnau gofal amgen neu, os yw'r unigolyn yn cyllido'i hun, pa wasanaethau eraill fyddai'n bosibl eu prynu ar eu rhan er enghraifft gan eu teulu neu atwrnai. Os oes opsiynau amgen - ac mae'r rhain yn opsiynau sydd ar gael - yna dylid cofnodi'r rhain o fewn yr asesiad angenrheidiol a chymesur, a dylid eu pwysu a'u mesur yn erbyn ei gilydd wrth wneud y penderfyniad. Wrth wneud hyn, dylai'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad a'r penderfyniad hefyd fod yn barod i holi'r cyrff comisiynu'n gadarn a chanfod a ydynt yn barod i gyllido unrhyw wasanaethau ychwanegol neu amgen a allai fod yn fwy cymesur. Os na fydd y gwasanaethau ychwanegol neu amgen yn parhau ar gael yn dilyn ymholiadau'r gweithiwr proffesiynol, dylid cofnodi'r rhesymau a roddir am hyn yn glir gan y corff comisiynu.
- 16.75 Dylai'r gweithiwr proffesiynol hefyd ystyried llwybr gofal neu iechyd yr unigolyn at y trefniadau presennol a gynigir. Mae hyn yn cynnwys edrych ar unrhyw drefniadau gofal neu iechyd eraill sydd wedi bod mewn grym yn flaenorol ar gyfer

yr unigolyn, a allai neu na allai fod wedi arwain at amddifadu o ryddid. Bydd hyn yn helpu'r gweithiwr proffesiynol i ddeall hanes gofal ac iechyd yr unigolyn. Bydd hefyd yn eu helpu i ystyried a oes trefniadau amgen mwy cymesur neu lai cyfyngol neu i nodi opsiwn sy'n fwy unol â dymuniadau a theimladau'r unigolyn.

- 16.76 Dylai'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad a'r penderfyniad hefyd ystyried os bydd amddifadu o ryddid yn golygu mwy o fuddiannau i iechyd neu les yr unigolyn na phe bai trefniant llai cyfyngol yn cael ei roi ar waith nad oedd yn golygu amddifadu o ryddid. Dylai'r gweithiwr proffesiynol hefyd ystyried a oes trefniadau llai cyfyngol y gellid eu rhoi ar waith hyd yn oed os byddant yn golygu amddifadu o ryddid o hyd. Mae'n bwysig nodi beth yw buddion y trefniadau a gynigir ar gyfer yr unigolyn wrth gynnal yr asesiad a'r penderfyniad angenrheidiol a chymesur (e.e. mewn diogelwch, iechyd a lles).
- 16.77 Dylai'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad a'r penderfyniad hefyd fod yn ymwybodol y ceir rhai achosion lle mae trefniadau ar waith o dan yr MHA yn golygu na ellir rhoi awdurdodiad LPS. Ceir gwybodaeth bellach am y rhyngwyneb rhwng LPS a'r MHA ym mhennod 22.
- 16.78 Mae angen i'r aseswr ystyried yr holl drefniadau a gynigir ac a ydynt yn angenrheidiol ac yn gymesur. Gall hyn gynnwys cysylltu â gwahanol leoliadau a sicrhau bod gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr eraill yn ymwybodol o'r trefniadau a gynigir ac yn fodlon eu gweithredu yn unol â'r cofnod awdurdodi.
- 16.79 Yn ystod yr asesiad a'r penderfyniad angenrheidiol a chymesur, mae'n bosibl y bydd yr aseswr yn dod yn ymwybodol o drefniadau newydd y mae angen eu hystyried. Unwaith y byddant wedi'u nodi, dylai'r aseswr gysylltu â'r Corff Cyfrifol i sicrhau eu bod yn hapus i ystyried y trefniadau newydd hyn a hysbysu'r lleoliadau. Darperir gwybodaeth bellach ym mhennod 16.

Yr asesiad angenrheidiol a chymesur a budd pennaf

- 16.80 Ni ddylid gwneud penderfyniad bod y trefniadau'n angenrheidiol a chymesur oni bai bod y gweithiwr proffesiynol yn fodlon bod penderfyniad budd pennaf cyfreithlon wedi'i wneud ynghylch gofal neu driniaeth yr unigolyn. Dylai hyn fod wedi'i wneud yn unol ag adran 4 yr MCA, gweler pennod 5 i gael manylion pellach ynghylch penderfyniadau budd pennaf.
- 16.81 Felly, os penodwyd atwrnai o dan LPA neu ddirprwy gydag awdurdod priodol ac nad yw wedi cytuno i'r gofal neu'r driniaeth ar ran yr unigolyn, yna ni fodlonir yr amod angenrheidiol a chymesur. Yn yr un modd, os gwnaethpwyd penderfyniad ymlaen llaw a byddai'r trefniadau a gynigir yn gwrthdaro â hyn, yna ni fodlonir yr amod angenrheidiol a chymesur.
- 16.82 Lle bydd proses yr LPS yn cael ei chynnal ar yr un adeg â phroses cynllunio iechyd neu ofal arall, gall yr un gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad budd

pennaf hefyd gynnal yr asesiad angenrheidiol a chymesur, ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion cymhwysedd ar gyfer y rheoliadau perthnasol. Mae'n rhaid i'r gweithiwr proffesiynol gynorthwyo'r unigolyn sydd i'w gynnwys yn y penderfyniad cyn belled ag y bo'n rhesymol yn ymarferol. Lle mai dyma'r achos, dylai'r gweithiwr proffesiynol gofnodi'n glir y camau a gymerwyd i wneud y penderfyniad budd pennaf, ac yna'n ddiweddarach pam bod y trefniadau'n angenrheidiol ac yn gymesur i alluogi'r gofal neu driniaeth.

DRAFT

17. Beth yw'r ddyletswydd i ymgynghori yn y broses Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid?

Lluniwyd y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid i gadw'r unigolyn yn ganolog i'r broses. Prif ddiben y ddyletswydd i ymgynghori felly yw canfod dymuniadau a theimladau'r unigolyn mewn perthynas â'r trefniadau a gynigir sy'n golygu amddifadu o ryddid. Yn ystod camau amrywiol proses yr LPS, dylid ymgynghori â'r unigolyn ac unrhyw bobl sy'n ymddiddori yn lles yr unigolyn cyn belled ag y bo'n ymarferol a phriodol i hysbysu eu trefniadau gofal a thriniaeth.

Mae gan y Corff Cyfrifol ddyletswydd hefyd i gyhoeddi gwybodaeth am y broses ymgynghori, ac i sicrhau bod yr unigolyn a'u Person Priodol, lle y bo'n berthnasol, yn deall gwybodaeth benodol.

Crynodeb cyflym

- Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol ymgynghori â'r unigolyn ac unrhyw bobl sy'n ymddiddori yn lles yr unigolyn, yn ogystal ag eraill, yn ystod proses asesu awdurdodiad cychwynnol, lle ystyrir amrywiad ar gyfer awdurdodiad, a lle yr ystyrir awdurdodiad cyn adnewyddu. Dylai'r Corff Cyfrifol ofyn i'r aseswr angenrheidiol a chymesur wneud hyn ar ei ran.
- Yn ogystal, lle bydd AMCP yn cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi, yna mae'n rhaid iddynt hefyd ymgynghori â'r unigolyn ac unrhyw bobl sy'n ymddiddori yn lles yr unigolyn, yn ogystal ag eraill.
- Gall IMCA neu unigolyn priodol gynorthwyo'r unigolyn yn ystod yr ymgynghoriad. Maen nhw, neu aelod o'r teulu neu ffrind, o bosibl yn gallu cynghori sut i gyfathrebu orau â'r unigolyn yn ystod y broses ymgynghori.
- Dylid cofnodi'r dystiolaeth a geir o'r ymgynghoriad ac mae'n rhaid ei hystyried pan fydd y Corff Cyfrifol yn penderfynu p'un ai awdurdodi'r trefniadau ai peidio.

Â phwy y dylid ymgynghori ynghylch y trefniadau a gynnigir a dymuniadau a theimladau'r unigolyn y gofalir amdano?

- 17.1 Fel rhan o broses yr LPS, mae dyletswydd gan y Corff Cyfrifol i gynnal ymgynghoriad cyn awdurdodiad cychwynnol, pan argymhellir amrywiad neu cyn unrhyw adnewyddu. Mae gan Weithwyr Proffesiynol Galluedd Meddyliol a Gymeradwywyd (AMCP) ddyletswydd lle bydd un yn cynnal adolygiad cyn awdurdodi, i gynnal ymgynghoriad ychwanegol ar yr adeg honno.
- 17.2 Mae'n rhaid ymgynghori â'r canlynol, os y bo'n rhesymol ac yn ymarferol:
- yr unigolyn
 - unrhyw un a enwir gan yr unigolyn fel rhywun i ymgynghori ag ef ynghylch trefniadau o'r math o dan sylw
 - unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am yr unigolyn neu'n ymddiddori yn lles yr unigolyn
 - unrhyw roddwr atwrneiaeth arhosol neu atwrneiaeth barhaus o unrhyw fath, a roddwyd gan yr unigolyn
 - unrhyw ddirprwy a benodwyd ar gyfer yr unigolyn gan y llys
 - unrhyw Berson Priodol
 - unrhyw Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA) sydd ynghlwm
- 17.3 Dylai'r unigolyn sy'n cynnal yr ymgynghoriad sicrhau bod yr unigolyn yn ymwybodol y gallant ofyn i ymgynghori ag unrhyw un ar unrhyw adeg y mae'r ddyletswydd i ymgynghori'n gymwys, ac y rhoddir cyfleoedd iddynt wneud cais. Dylai'r unigolyn sicrhau bod cymorth priodol ar waith i helpu'r unigolyn i gyfathrebu eu dymuniadau a'u teimladau. Dylai'r unigolyn hefyd mewn achosion priodol, archwilio gyda ffrindiau a'r rhai hynny sy'n ymwneud â gofal yr unigolyn a oes unrhyw un arall yr hoffai'r unigolyn ymgynghori ag ef.
- 17.4 Gall yr unigolyn fod wedi enwi unigolion penodol (nail ai yn ystod ymgynghori neu'n flaenorol) eu bod yn dymuno yr ymgynghorir â nhw, pan oedd gallu ganddynt. Pan mai dyma'r achos, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol sicrhau yr ymgynghorir â phawb y mae'r unigolyn wedi'u henwi, cyn belled ag y bo'n ymarferol ac yn briodol.
- 17.5 Gallai unigolion "sy'n ymddiddori yn lles yr unigolyn" gynnwys unrhyw un sydd â pherthynas gyda'r unigolyn. Er enghraifft, unigolion o'u cymuned, gan gynnwys y rhai o'u cymuned ffydd, ffrindiau, gwirfoddolwyr o elusennau lleol, neu athrawon. Gall yr unigolyn fod yn aelod o grŵp eiriolwr cymheiriaid, a gall aelodau'r grŵp eu hadnabod yn dda.
- 17.6 Mae'n bosibl y ceir adegau pan na fydd yn briodol ymgynghori ag unigolyn penodol, a/neu na all fod yn ymarferol. Er enghraifft, os yw'r unigolyn i ymgynghori ag ef

mewn perthynas gamdriniol â'r unigolyn, a gallai'r ymgynghori roi'r unigolyn mewn risg o niwed pellach wrth wneud yr unigolyn yn ymwybodol o'r fan lle maent yn preswyllo. Mewn achosion o'r fath, gall y ddyletswydd i ymgynghori â nhw beidio â bod yn gymwys.

- 17.7 Yn ogystal, gall yr unigolyn ofyn na ymgynghorir â rhywun penodol. Os yw'r unigolyn hwnnw'n rhywun a fyddai wedi'i gynnwys fel arall, mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n cynnal yr ymgynghoriad ystyried a yw'n briodol ymgynghori â'r unigolyn. Wrth wneud hynny, dylai'r unigolyn ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn, eu rhesymu dros beidio â dymuno ymgynghori â'r unigolyn, a'u hawliau Erthygl 8, ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill.
- 17.8 Yn y naill senario a nodir ym mharagraff 17.6 neu 17.7, dylai'r unigolyn sy'n cynnal yr ymgynghoriad gofnodi pam na ymgynghorwyd â'r unigolyn hwnnw a'r rhesymau dros hyn. Dylid rhannu'r wybodaeth hon gyda'r unigolyn, eu Person Priodol neu IMCA.
- 17.9 Nid yw'r ddyletswydd i ymgynghori'n berthnasol os nad yw'n ymarferol gwneud hynny. Gall hyn fod yr achos, er enghraifft os yw perthynas wedi mynd ar wyliau hir ac na ellir cysylltu ag ef yn uniongyrchol, ac mae angen awdurdodi'r trefniadau ar frys. Mewn achosion o'r fath, dylid dogfennu ymdrechion i wneud hynny, a dylid hysbysu'r Corff Cyfrifol. Yn y pen draw, bydd angen i'r Corff Cyfrifol neu'r AMCP fodloni bod yr ymgynghoriad yn ddigonol o dan amgylchiadau'r achos
- 17.10 Os bydd unigolyn na ymgynghorwyd ag ef yn teimlo y dylid bod wedi ymgynghori â nhw, gallant wneud cwyn wrth y Corff Cyfrifol. Dylai'r Corff Cyfrifol felly sicrhau bod ganddo weithdrefn cwynion hygyrch i alluogi unigolyn i godi pryderon o'r fath.

Pwy ddylai gynnal yr ymgynghoriad a phryd y dylid ei gynnal?

- 17.11 Dylai'r Corff Cyfrifol benodi rhywun i gynnal yr ymgynghoriad ar eu rhan. Pan gynhelir asesiad a phenderfyniad angenrheidiol a chymesur, dylai'r Corff Cyfrifol ofyn i'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad a'r penderfyniad i gynnal yr ymgynghoriad hefyd.
- 17.12 Os na chynhelir asesiad angenrheidiol a chymesur, er enghraifft, pan nad oes angen i'r asesiad gael ei adnewyddu, gall y Corff Cyfrifol drefnu, er enghraifft, i rywun o fewn y sefydliad neu rywun sy'n ymwneud â gofal yr unigolyn ei gynnal.
- 17.13 Dylai'r Corff Cyfrifol bob amser hysbysu'r unigolyn a'u IMCA neu Person Priodol a fydd yn cynnal yr ymgynghoriad.
- 17.14 Pan fydd AMCP yn cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi, mae'n rhaid iddynt gyfarfod â'r unigolyn ac eraill a restrir ym mharagraff 17.2. Mewn rhai achosion, os bydd

AMCP yn dod yn rhan o adolygiad awdurdodiad gallant hefyd benderfynu ei bod yn angenrheidiol cynnal ymgynghoriad pellach.

Beth yw'r ddyletswydd i ymgynghori yn y broses Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid?

- 17.15 Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol ymgynghori â phawb a enwir ym mharagraff 17.2, oni bai nad yw'n ymarferol neu'n briodol. Mae'n rhaid i hyn ddigwydd yn ystod y broses asesu awdurdodiad cychwynnol, pan yr ystyrir amrywiad ar gyfer awdurdodiad, a phan yr ystyrir awdurdodiad cyn ei adnewyddu. Mewn rhai amgylchiadau, bydd Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol (AMCP) yn cynnal adolygiad cyn-awdurdodi. Pan mai dyma'r achos, mae'n rhaid i'r AMCP hwnnw hefyd ymgynghori â'r rhai a enwir ym mharagraff 17.2 os y bo'n briodol ac yn ymarferol gwneud hynny. Gweler pennod 18 i gael mwy o wybodaeth am rôl AMCP, a phennod 13 i gael mwy o wybodaeth am amrywiadau a'r broses gyffredinol.
- 17.16 Lluniwyd y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid i sicrhau bod yr unigolyn yn ganolog i'r broses. Un o agweddau pwysicaf y broses, felly, yw'r ymgynghoriad. Prif ddiben yr ymgynghoriad yw canfod dymuniadau a theimladau'r unigolyn mewn perthynas â'r trefniadau a gynigir sy'n golygu amddifadu o ryddid. Os ystyrir adnewyddu'r awdurdodiad, dylai'r ymgynghoriad hefyd bennu a yw dymuniadau a theimladau'r unigolyn wedi newid. Dylai'r unigolyn sy'n cynnal yr ymgynghoriad sicrhau bod y rhai yr ymgynghorir â nhw'n deall mai dyma yw prif bwrpas yr ymgynghoriad.
- 17.17 Mae gan bob Corff Cyfrifol ddyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth am y broses ymgynghori a sut mae'n gweithio yn y maes hwnnw. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael mewn fformatiau hygyrch ac yn ogystal â chyhoeddi'r wybodaeth hon. Gweler pennod 14 i gael mwy o wybodaeth ynghylch y wybodaeth y mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol ei chyhoeddi.
- 17.18 Dylai'r sawl sy'n cynnal yr ymgynghoriad hysbysu'r unigolyn a'u Person Priodol neu IMCA yr ymgynghorir ag ef neu unrhyw un nad oedd y Corff Cyfrifol yn gallu cysylltu ag ef. Bydd hyn hefyd yn galluogi'r unigolyn neu'u Person Priodol, lle bo hynny'n berthnasol, i enwi unrhyw un arall y dylid ymgynghori ag ef neu godi pryderon am y rhai sydd eisoes wedi'u henwi.
- 17.19 Efallai y bydd angen ymgynghori â rhai pobl fwy nag unwaith o dan broses yr LPS, weithiau gan wahanol unigolion. Dylai'r sawl sy'n cynnal yr ymgynghoriad fod yn ymwybodol o hyn a'r effaith a allai ei gael ar yr unigolyn. Mae'n bosibl y byddant yn blino â'r ymgynghoriad os ymgynghorir â nhw'n rhy aml, a allai effeithio ar ansawdd yr ymgynghoriad. Dylai'r unigolyn felly geisio casglu'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt mewn cyn lleied o ymgynghoriadau ag sy'n angenrheidiol.

Sut yr ymgynghorir â'r unigolyn?

- 17.20 Mae'n bosibl y bydd yr unigolyn yn dymuno cael eu cefnogi gan eu Person Priodol neu IMCA, os oes ganddynt un, yn ystod eu hymgyngoriad. Dylai'r unigolyn sy'n cynnal yr ymgynghoriad geisio egluro beth yw dymuniadau a theimladau'r unigolyn ynglŷn â chael eu cefnogi yn ystod eu hymgyngoriad. Os na all yr unigolyn fynegi eu dymuniadau a'u teimladau, dylai'r unigolyn wneud penderfyniad budd pennaf ar ran yr unigolyn.
- 17.21 Os bydd yr unigolyn yn gofyn i'r ymgynghoriad gael ei gynnal ar eu pen eu hun, yna dylai'r unigolyn sy'n cynnal yr ymgynghoriad ystyried y cais hwn a, lle bo angen, drafod hyn gyda'r Corff Cyfrifol. Yn y mwyafrif o achosion, dylid parchu hyn. Fodd bynnag, efallai y bydd achosion lle y bydd yn briodol i'r Person priodol neu'r IMCA ymuno â'r ymgynghoriad.
- 17.22 Os bydd yr unigolyn yn anhapus gyda'r Person Priodol yn eu cefnogi, efallai bod mater ehangach a all olygu nad yw'r unigolyn yn addas i gynrychioli a chefnogi'r unigolyn. Gall hyn fod yn berthnasol hefyd os yw'r unigolyn yn anhapus gyda'u IMCA yn eu cefnogi. Gall yr unigolyn ddangos hyn trwy arwyddion llafar neu ymddygiadol. Dylai'r Corff Cyfrifol fod yn ymwybodol o faterion o'r fath, a lle bo hyn yn wir, ystyried a oes angen iddynt gymryd unrhyw gamau mewn perthynas â phenodiad y Person Priodol neu'r IMCA.
- 17.23 Dylai'r unigolyn sy'n cynnal yr ymgynghoriad bob amser ystyried sut mae'r unigolyn yn dymuno cynnal yr ymgynghoriad, gall hyn fod wyneb yn wyneb neu wrth ffonio, er enghraifft. Cyn yr ymgynghoriad, dylai'r unigolyn archwilio a oes dull sy'n well gan yr unigolyn ynghylch sut y byddent yn dymuno cynnal yr ymgynghoriad neu unrhyw anghenion cyfathrebu penodol. Mae'n bosibl y bydd Person Priodol neu IMCA yr unigolyn, neu aelod o'r teulu neu ffrind, yn gallu cynghori ynghylch y modd gorau i gyfathrebu â'r unigolyn. Fel arall, gall fod gan yr unigolyn "basbort cyfathrebu" neu grynodedeb o'u technegau cyfathrebu, a fydd yn amlinellu'r ffyrdd gorau i gyfathrebu â nhw.
- 17.24 Os bydd gan yr unigolyn angen cyfathrebu penodol (gan gynnwys dulliau llafar, dieiriau ac ymddygiadol), dylai'r unigolyn sy'n cynnal yr ymgynghoriad sicrhau eu bod, lle y bo'n rhesymol, wedi rhoi'r mesurau priodol ar waith i allu cyfathrebu â'r unigolyn yn ystod yr ymgynghoriad.
- 17.25 Dylai'r unigolyn sy'n cynnal yr ymgynghoriad esbonio'r trefniadau a gynigir ar gyfer yr unigolyn mewn lefel briodol o fanylder. Dylai'r sawl sy'n cynnal yr ymgynghoriad ofyn i'r unigolyn beth yw eu dymuniadau a'u teimladau mewn perthynas â'r trefniadau. Pan fydd AMCP yn cynnal yr ymgynghoriad, dylai'r AMCP wirio bod yr unigolyn wedi derbyn yr holl wybodaeth berthnasol am y trefniadau yn yr ymgynghoriad cychwynnol.

- 17.26 Os nad oes gan yr unigolyn y galluedd meddyliol perthnasol i ddeall y trefniadau a gynigir, neu os na all fynegi eu dymuniadau a'u teimladau, efallai y bydd angen i'r unigolyn sy'n cynnal yr ymgynghoriad lunio'r ymgynghoriad yn wahanol. Mae'n bosibl pennu dymuniadau a theimladau'r unigolyn trwy ofyn cwestiynau megis, "beth sy'n bwysig i chi?", "sut ddiwrnod yw diwrnod da/gwael?", neu "sut roeddech yn byw eich bywyd yn y gorffennol?". Dylai'r unigolyn ystyried y trefniadau penodol a gynigir ac anghenion yr unigolyn er mwyn pennu'r cwestiynau gorau. Mae'n bosibl y bydd Person Priodol neu IMCA yr unigolyn, neu aelod o'r teulu neu ffrind, yn gallu rhoi mewnwleidiad ynghylch y ffordd orau i helpu'r unigolyn i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau.
- 17.27 Gall cyflwr yr unigolyn olygu eu bod yn cyfathrebu neu'n ymddwyn mewn ffordd benodol. Ni ddylai'r sawl sy'n cynnal yr ymgynghoriad dybio bod ganddo ddealltwriaeth lawn o gyflwr yr unigolyn a sut y gallai effeithio arnynt. Felly, gall fod yn ddefnyddiol cael cymorth rhywun sy'n arbenigwr yng nghyflwr yr unigolyn.

Sut yr ymgynghorir ag eraill?

- 17.28 Mae'n bwysig yr anogir y rhai hynny sy'n adnabod yr unigolyn, lle y bo'n briodol, i gymryd rhan mewn ymgynghoriad gan mai nhw yw'r bobl sydd yn fwyaf tebygol o fod yn gallu deall a disgrifio dymuniadau a theimladau'r unigolyn i'r Corff Cyfrifol.
- 17.29 Dylai'r unigolyn sy'n cynnal yr ymgynghoriad esbonio diben yr ymgynghoriad o fewn y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid i'r rhai maent yn ymgynghori â nhw. Dylai'r unigolyn hefyd bwysleisio pwysigrwydd nodi dymuniadau a theimladau'r unigolyn hyd yn oed os nad yw'r un yr ymgynghorir ag ef yn rhannu'r dymuniadau a'r teimladau hyn.
- 17.30 Mae angen i'r ymgynghoriad fod yn ystyrllon. Felly, dylai fod gan y rhai yr ymgynghorir â nhw ddealltwriaeth o'r trefniadau a gynigir, er mwyn pennu beth yw dymuniadau a theimladau'r unigolyn amdanynt neu beth fyddent. Fodd bynnag, dylai cyflwyno gwybodaeth fel bod yr ymgynghoriad yn ystyrllon fod yn gyfyngedig i'r manylion amlwg er mwyn bodloni prif ddiben y ddyletswydd i ymgynghori.
- 17.31 Gallai'r unigolyn fod wedi sôn am eu dymuniadau a'u teimladau ynghylch eu gofal neu driniaeth yn y gorffennol. Tra bod y rhain yn bwysig i'w hystyried, a gallant fod yn berthnasol i broses yr LPS, mae'n bwysig cofio hefyd y gall dymuniadau a theimladau'r unigolyn fod wedi newid. Dylai'r Corff Cyfrifol neu AMCP geisio canolbwyntio ar ddymuniadau a theimladau presennol yr unigolyn cyn belled â phosibl.
- 17.32 Mae'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer gofal neu driniaeth yr unigolyn, nid y gofal neu'r driniaeth ei hun. Dylai'r ymgynghoriad, cyn belled â phosibl, ganolbwyntio ar y trefniadau. Fodd bynnag, mewn sawl achos, mae'n bosibl na fydd gwahaniad clir rhwng y gofal neu driniaeth a'r trefniadau. Lle

mai dyma'r achos, gall fod yn briodol siarad am y pecyn gofal neu driniaeth cyfan er mwyn pennu dymuniadau a theimladau'r unigolyn.

- 17.33 Dylai'r sawl sy'n cynnal yr ymgynghoriad ystyried sut y byddai'n well gan yr unigolyn ymgynghori ag ef. Nid oes gwahaniaeth ym mha fformat y cynhelir yr ymgynghoriad, cyhyd ag y bo'r sawl sy'n cynnal yr ymgynghoriad yn gallu caffael dealltwriaeth dda o ddymuniadau a theimladau'r unigolyn. Gall fod, er enghraifft, ei bod yn bosibl y bydd yn gweddu i'r unigolyn yr ymgynghorir ag ef ddefnyddio technoleg i gynnal yr ymgynghoriad, gan gynnwys galwadau fideo neu ffôn. Fel arall, gall unigolyn ddymuno gymryd rhan yn yr ymgynghoriad naill ai drwy e-bost neu ohebiaeth ysgrifenedig. Fodd bynnag, gall hyn gyfyngu'r unigolyn rhag cael y cyfle a roddir gan yr ymgynghoriad i ofyn cwestiynau pellach ac ymchwilio i unrhyw faterion penodol, ac felly dylid ystyried ymarferoldebau hyn ar sail achos wrth achos.
- 17.34 Yn ychwanegol, gall fod gan eraill yr ymgynghorir â nhw anghenion cyfathrebu penodol, megis braille neu iaith arwyddion. Dylai'r rhai sy'n cynnal yr ymgynghoriad sicrhau eu bod yn deall sut i gyfathrebu orau gyda'r unigolyn yr ymgynghorir ag ef a sicrhau lle y bo'n rhesymol fod digon o gymorth ganddynt yn ystod yr ymgynghoriad.
- 17.35 Gall fod gan y rhai yr ymgynghorir â nhw wybodaeth ddefnyddiol am yr hyn y mae'r unigolyn yn ei fwynhau neu ddim yn ei hoffi neu syniadau ynghylch y gallai newid bach i'r trefniadau fod yn well i'r unigolyn ac yn fwy cydnaws â'u dymuniadau a'u teimladau. Er enghraifft, os gwyddys bod yr unigolyn yn glawstroffobig, ac yn hoffi bod y tu allan, byddai hyn yn helpu i hysbysu dealltwriaeth well o'r unigolyn ac felly eu dymuniadau a'u teimladau tebygol ynghylch y trefniadau. Gall hyn ddylanwadu ar y trefniadau a gynigir a, lle y bo'n ymarferol a phriodol, dylai'r Corff Cyfrifol geisio gwneud addasiadau rhesymol i wneud y trefniadau'n gydnaws â dymuniadau a theimladau'r unigolyn cyn belled â phosibl.

Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth ar ôl ymgynghori?

17.36 Dylai'r cofnod o gasgliadau o'r ymgynghoriad gynnwys:

- Pwy yr ymgynghorwyd ag ef,
- Beth a ofynnwyd ymhob ymgynghoriad ac ymatebion yr unigolyn,
- Os nad oedd rhywun ar gael neu'n briodol i ymgynghori ag ef, rhesymau dros hyn,
- Y casgliad cyffredinol ynghylch dymuniadau a theimladau'r unigolyn ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

17.37 Gall y dystiolaeth ynghylch dymuniadau a theimladau'r unigolyn o'r ymgynghoriad (gan ddibynnu ar yr adeg y'i cynhelir a gan bwy) hysbysu'r asesiad a'r penderfyniad angenrheidiol a chymesur. Mae'r asesiad hwn yn pennu a yw'r trefniadau a gynigir

yn angenrheidiol i atal niwed i'r unigolyn yn ogystal ag yn gymesur i'r risg o niwed. Fel rhan o'r asesiad a'r penderfyniad hwn, ystyrir dymuniadau a theimladau'r unigolyn ynghylch y trefniadau. Gweler gwybodaeth bellach ynghylch yr asesiad a'r penderfyniad angenrheidiol a chymesur, a sut mae'r ymgynghoriad yn dylanwadu ar hyn, ym mhennod 16.

- 17.38 Os, yn ystod yr ymgynghoriad, mae'n dod yn glir mai dymuniadau a theimladau'r unigolyn yw nad ydynt yn dymuno preswyllo neu dderbyn gofal neu driniaeth mewn man penodol, yna byddai hyn yn sbarduno'r ddyletswydd i wneud atgyfeiriad at Weithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol (AMCP). Gall yr unigolyn ei hun beidio â datgan nad ydynt yn dymuno preswyllo neu dderbyn gofal a thriniaeth yn y man a gynigir, gall hyn ddod oddi wrth eraill yr ymgynghorir â nhw. Gall hyn barhau i sbarduno'r ddyletswydd i atgyfeirio at AMCP, os bydd yn rhesymol i'r Corff Cyfrifol gredu nad yw'r unigolyn yn dymuno preswyllo neu dderbyn gofal neu driniaeth yn y man. Gweler mwy o wybodaeth am rôl AMCP ym mhennod 18.
- 17.39 Yn ystod cam adolygu cyn-awdurdodi, os bydd AMCP yn ei weithredu, diben yr ymgynghoriad y bydd yr AMCP yn ei gynnal yw sicrhau bod y trefniadau'n angenrheidiol ac yn gymesur. Gall yr AMCP ddefnyddio'r dystiolaeth o'u hymgynghoriad, a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Corff Cyfrifol, i nodi lle ceir trefniadau amgen a all fod yn fwy priodol.
- 17.40 Os na chynhelir yr adolygiad cyn-awdurdodi gan AMCP, gall yr unigolyn hwnnw barhau i ddymuno ymgynghori â'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw eto, os byddant yn teimlo bod angen mwy o dystiolaeth ynghylch dymuniadau a theimladau'r unigolyn. Gweler mwy o wybodaeth am adolygiadau cyn-awdurdodi ym mhennod 13.
- 17.41 Os cynhelir yr ymgynghoriad cyn adnewyddiad, ei brif ddiben yw pennu a yw dymuniadau a theimladau'r unigolyn wedi newid. Os na fyddant, ac nad yw'r trefniadau hefyd heb newid, a bod y Corff Cyfrifol yn credu y parheir i fodloni'r amodau awdurdodi, gall y Corff Cyfrifol adnewyddu awdurdodiad heb gymryd unrhyw gamau pellach. Os byddant, yna mae'n bosibl y bydd angen i'r Corff Cyfrifol gymryd camau pellach. Gweler pennod 13 i gael gwybodaeth bellach ynghylch adnewyddu.
- 17.42 Os bydd yr unigolyn yr ymgynghorir ag ef wedi gofyn na rennir gwybodaeth benodol gyda'r unigolyn, neu'r Person Priodol neu IMCA, dylai'r Corff Cyfrifol ystyried a fyddai er budd pennaf yr unigolyn i'w rhannu.

18. Beth yw rôl Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol ?

Mae rôl y Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol (AMCP) yn un arbenigol sy'n cyflwyno trosolwg uwch ar gyfer y rhai hynny sydd ei angen fwyaf.

Cyn y gall Corff Cyfrifol benderfynu p'un ai awdurdodi trefniadau sy'n arwain at amddifadu o ryddid, mae'n rhaid cynnal adolygiad cyn-awdurdodi o achos yr unigolyn a'r penderfyniad priodol a wnaethpwyd. Mewn rhai amgylchiadau atgyfeirir yr achos i dîm AMCP, a oruchwylir fel arfer gan yr awdurdod lleol, a bydd AMCP yn penderfynu a fodlonir yr amodau awdurdodi sydd eu hangen i gymeradwyo amddifadu o ryddid. Yng Nghymru mae'n bosibl y bydd tîm yr AMCP wedi'i leoli yn y Bwrdd Iechyd Lleol.

Gofynnir i AMCP, os y bo'n briodol ac yn ymarferol, gyfarfod â'r unigolyn ac ymgynghori â'r rhai sy'n ymwneud â'u gofal neu driniaeth a'r rhai sy'n ymddiddori yn lles yr unigolyn, megis aelodau'r teulu. Mewn rhai achosion, disgwylir i AMCP ystyried a yw'n bosibl rhoi trefniadau amgen ar waith sy'n lleihau'r cyfyngiadau a roddir ar yr unigolyn a/neu'n atal amddifau o ryddid. Mewn rhai amgylchiadau, bydd AMCP hefyd yn cynnal adolygiadau o awdurdodiadau.

Crynodeb cyflym

Pryd dylid gwneud atgyfeiriad at AMCP?

- **Dylid atgyfeirio achos at AMCP os:**
 - ceir cred resymol nad yw unigolyn yn dymuno preswyllo neu dderbyn gofal neu driniaeth mewn man
 - yw'r trefniadau'n cael eu cynnal yn bennaf mewn ysbyty annibynnol
 - atgyfeirir achos at yr AMCP, a bod yr AMCP yn derbyn

Rôl AMCP a'r hyn y maent yn ei wneud.

- Lle y bodlonir y meini prawf atgyfeirio, mae'n rhaid atgyfeirio'r achos at AMCP. Os bydd AMCP yn derbyn yr achos, byddant yn edrych ar yr asesiadau a'r ymgynghoriad i bennu a fodlonir yr amodau awdurdodi. Byddant hefyd yn cyfarfod â'r unigolyn ac unrhyw un yr ymgynghorwyd â nhw a chymryd unrhyw gamau gweithredu pellach maent yn eu hystyried yn angenrheidiol, gan gynnwys cynnig trefniadau llai cyfyngol.

- Unwaith y bydd AMCP wedi asesu'u hachos, byddant yna'n cynghori'r Corff Cyfrifol a fodlonir yr amodau awdurdodi ai peidio.
- Bydd AMCP hefyd yn cynnal adolygiadau pan fydd yn glir, ar ôl rhoi awdurdodiad, nad yw'r unigolyn yn dymuno preswyllo neu dderbyn gofal neu driniaeth yn y man.

Dyletswydd yr awdurdod lleol i gymeradwyo AMCP a sicrhau bod digon o AMCPau ar gyfer ei ardal.

- **Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i sicrhau bod digon o AMCPau ar gyfer yr achosion yn eu hardal. Dylai ardaloedd lleol, weithio gyda'i gilydd i bennu faint o AMCPau y mae'n debygol y bydd eu hangen ar bob Corff Cyfrifol, fel bod Awdurdodau Lleol yn cynllunio.**

Pwy sy'n gymwys i fod yn AMCP, a gofynion hyfforddi?

- Y gweithwyr proffesiynol a all fod yn AMCP yw:
 - Nyrsys
 - Gweithwyr Cymdeithasol
 - Seicolegwyr
 - Therapyddion Lleferydd ac Iaith
 - Therapyddion Galwedigaethol.
- Gofynnir i AMCP gwblhau hyfforddiant cychwynnol ac mae'n rhaid gofyn am gymeradwyaeth gan awdurdod lleol cyn y gallant ddechrau ymarfer. Unwaith y byddant wedi'u cymeradwyo, mae'n rhaid i AMCP gwblhau 18 awr o hyfforddiant pellach y flwyddyn i barhau cymeradwyaeth.

Dyletswydd yr awdurdod lleol i gymeradwyo AMCP

- 18.1 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i wneud trefniadau ar gyfer cymeradwyo unigolion i ymarfer fel AMCP. Er mwyn cymeradwyo neu ailgymeradwyo unigolyn fel AMCP, mae'n rhaid bod yr awdurdod lleol yn fodlon bod yr AMCP yn bodloni'r gofynion cymhwyster a hyfforddiant a nodir yn y Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Hyfforddiant a Meini Prawf ar gyfer Cymeradwo fel Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol) (Lloegr) 2021 a'r Rheoliadau Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol (Cymru) 2021 yng Nghymru. Yn y bennod hon cyfeirir at y rheoliadau hyn fel "Rheoliadau'r AMCP". Gweler paragraffau 18.15-18-17 i gael mwy o wybodaeth ynghylch pwy sy'n gallu bod yn AMCP.

- 18.2 Cyflogir AMCP fel arfer gan Gorff Cyfrifol (awdurdod lleol, ymddiriedolaeth ysbytai'r GIG, bwrdd iechyd lleol neu CCG). Pwy bynnag yw eu cyflogwr, mae'n rhaid cymeradwyo pob AMCP gan awdurdod lleol.
- 18.3 Dylai'r awdurdod lleol sydd wedi cymeradwyo'r AMCP reoli eu cymeradwyaeth a pharhad eu cymeradwyaeth. Dylid cymeradwyo AMCP gan un awdurdod lleol ar y tro'n unig, er y gallant weithredu i awdurdodau lleol eraill, a Chyrff Cyfrifol eraill o fewn yr awdurdodau lleol hynny, gyda chytundeb eu hawdurdod lleol sy'n eu cymeradwyo.
- 18.4 Dylai'r awdurdod lleol a'r AMCP gytuno disgwyliaid ar gyfer y cyfartaledd o achosion mae'r AMCP yn gweithredu mewn achosion ar gyfer awdurdodau lleol eraill, fodd bynnag bydd y rhan fwyaf o achosion lle mae'r AMCP yn gweithredu yn fwyaf tebygol o fewn ardal eu hawdurdod lleol sy'n rheoli'u cymeradwyaeth.
- 18.5 Os bydd AMCP yn dymuno cael ei gymeradwyo gan awdurdod lleol arall, er enghraifft oherwydd ei fod wedi symud i ardal newydd, dylent yn gyntaf hysbysu'r awdurdod lleol newydd i wneud cais y trosglwyddir eu cymeradwyaeth o'u hawdurdod lleol blaenorol. Dylai'r AMCP hefyd hysbysu'r awdurdod lleol blaenorol bod y cais hwn wedi'i wneud. Mae'n rhaid i'r ddau awdurdod lleol gytuno i drosglwyddo'r gymeradwyaeth. Dylai'r AMCP ddarparu gwybodaeth benodol i'r awdurdod lleol newydd i gefnogi'u cais, megis eu portffolio ymarfer ac adolygiadau perfformiad. Darperir gwybodaeth bellach am barhau cymeradwyaeth ym mharagraff 18.20.

Dyletswydd yr awdurdod lleol i sicrhau bod digon o AMCPau ar gyfer ei ardal

- 18.6 Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod digon o AMCPau ar gael ar gyfer ei ardal, gan gynnwys ar gyfer achosion lle nad yr AMCP yw'r Corff Cyfrifol, e.e. lle mai ysbyty'r GIG, CCG neu Fwrdd Iechyd Lleol yw'r Corff Cyfrifol. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod digon o AMCPau ar gael i gwmpasu pob achos yn eu hardal, gan gynnwys achosion lle mae'r unigolyn wedi'i leoli neu fel arall yn preswyllo tu allan i'w hardal ond bod y Corff Cyfrifol lleol yn parhau i fod yn gyfrifol amdano. Dylai'r awdurdod lleol weithio gyda'r holl Gyrrff Cyfrifol yn eu hardal i bennu faint o AMCPau sy'n ofynnol.
- 18.7 Yng Nghymru, gall Awdurdodau Lleol gydweithredu â'i gilydd a chyrff y GIG fel y bônt yn ystyried yn briodol er mwyn gwneud trefniadau ar gyfer cymeradwyo AMCPau ac i sicrhau bod ganddynt ddigon o AMCPau i ateb y galw yn eu hardal.
- 18.8 Dylai cyrrff y GIG gydweithredu'n llawn ag awdurdodau lleol wrth bennu nifer yr AMCPau y bydd eu hangen. Dylai cyrrff y GIG bob amser sicrhau eu bod yn cyflwyno nifer digonol o weithwyr proffesiynol i ddod yn AMCPau.

18.9 Mewn achosion pan fydd unigolyn yn byw y tu allan i'r ardal, ond bod y Corff Cyfrifol yn parhau i fod yn gyfrifol amdano, gall AMCP yn ardal yr awdurdod lleol newydd gynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi neu adolygiad o'r achos. Cyn i AMCP weithredu mewn 'achos y tu allan i'r ardal', mae'n rhaid i'r AMCP sicrhau bod yr awdurdod lleol sy'n rheoli eu cymeradwyaeth yn cytuno.

Beth yw gwasanaeth AMCP?

18.10 Rôl yr AMCP yw darparu haen ychwanegol o graffu at broses yr LPS. Er mwyn sicrhau annibyniaeth AMCPau, dylai awdurdodau lleol sefydlu strwythurau rheoli clir ar gyfer AMCPau yn eu hardal i gynnal ac atgyfnerthu'u rôl wrth weithredu ar ran yr unigolyn, nid y sefydliad.

18.11 Model a awgrymir fyddai, yn Lloegr, i bob Corff Cyfrifol mewn ardal leol ddarparu AMCPau i'r "gwasanaeth AMCP" canolog. Yng Nghymru, pennir y trefniadau hyn yn lleol, yn unol â strategaeth y gweithlu cenedlaethol.

18.12 Lle dilynir y model hwn, dylid penodi uwch reolwr neu ymarferydd â chyfrifoldeb cyffredinol am faterion megis ymddygiad, perfformiad a dyraniad AMCPau. Yn ychwanegol, dylai awdurdodau lleol sefydlu system ddyletswydd ganolog ar gyfer atgyfeiriadau AMCP, gan gynnwys atgyfeiriadau tu allan i oriau.

18.13 Gall fod yn briodol i Gyrff Cyfrifol sefydlu eu gwasanaeth AMCP eu hunain yn hytrach na gweithio gyda Chyrff Cyfrifol yn eu hardal. Mewn achosion o'r fath dylai'r Corff Cyfrifol ymgynghori â'u hawdurdod lleol yn gyntaf (os nad yw'r Corff Cyfrifol eu hunan yn awdurdod lleol). Os cytunir i sefydlu gwasanaeth AMCP mewn Corff Cyfrifol arall, yna dylid rhoi'r un strwythur rheoli ar waith ag a nodwyd ym mharagraff XX.

Pwy all fod yn AMCP?

18.14 Mae'r Rheoliadau AMCP yn nodi y gall y gweithwyr proffesiynol canlynol fod yn AMCP, ar yr amod eu bod wedi'u cofrestru yn y DU a bod ganddynt o leiaf ddwy flynedd o brofiad ôl-gofrestru yn eu galwedigaeth:

- Nyrsys
- Gweithwyr Cymdeithasol
- Seicolegwyr
- Therapyddion Lleferydd ac Iaith
- Therapyddion Galwedigaethol

18.15 Mae Rheoliadau'r AMCP hefyd yn nodi gofynion eraill y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gall awdurdod lleol gymeradwyo AMCP. Y rhain yw:

- bod gan yr unigolyn y sgiliau sy'n angenrheidiol i dderbyn, gwerthuso a dadansoddi tystiolaeth gymhleth a safbwyntiau gwahanol ac i'w pwysu a'u mesur yn briodol wrth wneud penderfyniadau, a bod ganddynt wybodaeth am arfer gorau mewn perthynas â threfniadau yn Lloegr neu yng Nghymru,
- bod yr unigolyn wedi cwblhau hyfforddiant priodol, yn unol â Rheoliadau'r AMCP (gweler paragraffau 18.18-18.20),
- nad yw'r unigolyn wedi'i wahardd o'r gofrestr ar gyfer eu galwedigaeth,
- bod gan yr unigolyn drefniant indemniad digonol a phriodol, a
- bod gan yr unigolyn y dystysgrif(tystysgrifau) cofnod troseddol gofynnol.

18.16 Lle cyflogir AMCP gan sefydliad megis Corff Cyfrifol, dylai'r sefydliad drefnu trefniant indemniad priodol.

Hyfforddiant ar gyfer Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol

18.17 Er mwyn dod yn AMCP, mae'n rhaid i unigolyn gyflawni cwrs hyfforddi cychwynnol, sydd wedi'i gymeradwyo gan Social Work England neu Ofal Cymdeithasol Cymru. Yn ogystal, ym mhob blwyddyn o gymeradwyaeth mae'n rhaid i AMCP gyflawni o leiaf 18 awr o hyfforddiant pellach. Mae'r hyfforddiant pellach hwn yn rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus AMCP. Mae'n rhaid i'r holl hyfforddiant gael ei gymeradwyo.

Parhau cymeradwyaeth

18.18 Er mwyn i AMCP barhau i gael ei gymeradwyo, ym mhob blwyddyn o gymeradwyaeth mae'n rhaid bodloni gofynion penodol. Y rhain yw:

- bod yr AMCP wedi bod yn cyflawni eu swyddogaethau i safon briodol. Mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol deimlo'n fodlon ynghylch hyn, e.e. trwy adolygiadau perfformiad blynyddol. Os yw'r AMCP wedi gweithredu mewn achosion y tu allan i'w ardal, gall yr awdurdod lleol ystyried a fyddai tystiolaeth o berfformiad yn yr achosion hyn yn cynorthwyo i ganfod bod yr AMCP yn bodloni'r safon briodol.
- Nad yw'r AMPC, heb gytundeb yr awdurdod lleol sy'n cymeradwyo, wedi cyflawni swyddogaethau AMCP mewn perthynas ag awdurdod lleol arall.

- Bod yr AMCP wedi cwblhau o leiaf 18 awr o hyfforddiant pellach yn y flwyddyn gymeradwyo honno, wedi'i gymeradwyo gan Social Work England neu Weinidogion Cymru.

Gwahardd neu ddod â chymeradwyaeth unigolyn i ben fel AMCP pan nad yw AMCP bellach yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo

- 18.19 Mae'n rhaid i AMCPau hysbysu'r awdurdod lleol sy'n cymeradwyo os nad ydynt bellach yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo a nodir ym mharagraff XX a dylent roi'r gorau i weithredu fel AMCP.
- 18.20 Os atalir AMCP o'r gofrestr sy'n berthnasol i'w galwedigaeth, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sy'n cymeradwyo atal eu cymeradwyaeth AMCP. Mae'n rhaid iddynt beidio â chyflawni swyddogaethau AMCP tra bo'r ataliad ar waith.
- 18.21 Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sy'n rheoli eu cymeradwyaeth ddod â chymeradwyaeth unigolyn i ben fel AMCP os na fyddant yn bodloni'r meini prawf cymeradwyo a nodir ym mharagraffau XX mwyach. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol hefyd ddod â chymeradwyaeth yr AMCP i ben os bydd yr AMCP yn gwneud cais i hyn ddigwydd.

Eithriad dros dro o'r gofynion i barhau cymeradwyaeth

- 18.22 Gall AMCP wneud cais i'r awdurdod lleol perthnasol eu heithrio dros dro o'r gofynion ar gyfer parhau cymeradwyaeth. Gall hyn fod, er enghraifft, i alluogi seibiant mamolaeth, neu o achos afiechyd neu resymau personol eraill.
- 18.23 Os bydd yr awdurdod lleol yn credu bod rheswm da, dylid caniatáu'r eithriad. Dylai'r AMCP a'r awdurdod lleol gytuno ar gyfnod y gwaharddiad. Tra'i fod wedi'i wahardd, mae'n rhaid i'r unigolyn beidio â chyflawni unrhyw swyddogaethau AMCP.
- 18.24 Pan fydd yr AMCP yn dymuno dychwelyd i ymarfer, mae'n rhaid eu bod wedi cyflawni 18 awr o hyfforddiant pellach yn ystod y 12 mis blaenorol cyn y gallant ailafael yn eu swyddogaethau fel AMCP.
- 18.25 Mae blwyddyn newydd cymeradwyo'r AMCP yn dechrau ar y dyddiad y maent yn ailafael yn eu swyddogaethau fel AMCP.

Beth yw rôl yr AMCP yn yr adolygiad cyn-awdurdodi?

- 18.26 Cyn y gall Corff Cyfrifol benderfynu p'un ai awdurdodi trefniadau sy'n arwain at amddifadu o ryddid, mae'n rhaid cynnal adolygiad cyn-awdurdodi o achos yr unigolyn a'r penderfyniad priodol yn cael ei wneud. Mewn amgylchiadau penodol mae'n rhaid cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi gan AMCP. Mewn achosion o'r fath dylid atgyfeirio'r achos i wasanaeth yr AMCP, a bydd y tîm yna'n ystyried a fodlonir y trothwy ar gyfer AMCP.

Meini prawf atgyfeirio ar gyfer AMCP a phryd y gall AMCP wrthod achos

18.27 Rôl AMCP yw cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi o achos yr unigolyn os bydd:

- yn rhesymol credu nad yw'r unigolyn yn dymuno preswyllo yn y man a gynigir yn y trefniadau,
- yn rhesymol credu nad yw'r unigolyn yn dymuno derbyn gofal neu driniaeth yn y man a gynigir yn y trefniadau,
- y trefniadau a gynigir i'r unigolyn dderbyn gofal neu driniaeth yn bennaf mewn ysbyty annibynnol, neu
- y Corff Cyfrifol yn atgyfeirio'r achos at AMCP, a bod yr AMCP yn derbyn yr atgyfeiriad.

18.28 Byddai'n rhesymol credu na fydd unigolyn yn dymuno preswyllo neu dderbyn gofal neu driniaeth mewn man, os bydd tystiolaeth ddilys i gefnogi'r gred hon. Lle bo modd, dylid cyflwyno hyn yn ysgrifenedig i'r AMCP gan y Corff Cyfrifol. Nid oes angen sicrwydd llwyr ynghylch hyn, ond bydd angen tystiolaeth dda i ddangos pam y credir y bodlonir y maen prawf o dan sylw. Darperir enghreifftiau o'r mathau o dystiolaeth y dylid eu hystyried ym mharagraffau XX a XX.

18.29 Byddai ond yn rhesymol credu nad yw unigolyn yn dymuno preswyllo neu dderbyn gofal neu driniaeth mewn man os bydd y gred yn seiliedig ar amgylchiadau unigol yr achos a bod penderfyniadau wedi'u gwreiddio mewn tystiolaeth. Er enghraifft, ni fyddai'n rhesymol dod i'r casgliad bod yn rhaid i AMCP ystyried achos unigolyn mewn cartref gofal ar sail y rhagdybiaeth na fyddai unrhyw un yn dymuno preswyllo mewn cartref gofal.

18.30 Mae'n amherthnasol a yw dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn rhesymol ai peidio. Dylai'r canolbwynt fod ar y ffaith nad yw'r unigolyn yn dymuno, neu y canfyddir nad yw'n dymuno, preswyllo neu dderbyn gofal neu driniaeth yn y man a gynigir yn y trefniadau.

18.31 Dylai'r canolbwynt fod ar ddymuniadau a theimladau'r unigolyn ar hyn o bryd. Byddai'r ddyletswydd i atgyfeirio'r achos at AMCP yn berthnasol pe bai'r unigolyn yn ceisio gadael y man y maent yn byw ynddo hyd yn oed pe byddent yn y gorffennol (pan roedd ganddynt y gallu perthnasol) wedi nodi y byddent yn fodlon byw yno.

18.32 Dylid ystyried dymuniadau ac amgylchiadau'r gorffennol yn unig cyhyd â'u bod yn berthnasol i'r canfyddiad o ddymuniadau'r unigolyn ar hyn o bryd. Gallai'r ddyletswydd i atgyfeirio'r achos at AMCP godi os nad oedd y'r unigolyn (ers colli gallu) yn mynegi nad oeddent am breswyllo na derbyn gofal neu driniaeth mewn lle, ond wedi mynegi'n flaenorol nad oeddent yn dymuno derbyn y trefniadau penodol hynny.

18.33 Wrth ystyried a fodlonir y meini prawf atgyfeirio perthnasol, dylid bob amser ystyried:

- Unrhyw ddatganiadau a wnaethpwyd gan yr unigolyn am eu dymuniadau a'u theimladau mewn perthynas â'r trefniadau.
- Unrhyw fynegiannau o'i gyflwr/chyflwr emosiynol.
- Pa mor aml y mae'r unigolyn yn mynegi dymuniadau a theimladau nad ydynt yn dymuno preswyllo na derbyn gofal neu driniaeth mewn man.
- Cysondeb ei ddymuniadau/dymuniadau a fynegir neu gyflwr emosiynol
- Y rhesymau amgen posibl dros ei ddymuniadau/dymuniadau a fynegir neu gyflwr emosiynol.

18.34 Wrth ystyried a yw'n rhesymol credu nad yw'r unigolyn yn cytuno â'r trefniadau, dylid ystyried:

- Ymddygiad llafar a heb fod yn llafar.
- Y rhesymau posibl dros ymddygiad yr unigolyn.
- A yw'r unigolyn yn derbyn meddyginiaeth ar gyfer iselder neu'n derbyn tawelyddion.
- A yw'r unigolyn yn gwrthwynebu'yn weithredol (e.e. ceisio gadael y lle).
- A yw'r unigolyn yn cymryd camau paratoadol i adael (e.e. pacio bagiau).
- Ymarweddiad a pherthynas yr unigolyn â'r rhai sy'n gyfrifol am weithredu'r trefniadau.
- Unrhyw gofnodion o ymddygiad heriol a sbardunau i'r fath ymddygiad.
- A yw ymddygiad yr unigolyn yn ymateb i agweddau penodol o'r trefniadau gofal neu i'r holl drefniadau hynny.

18.35 Gall unrhyw un godi pryderon nad yw'r unigolyn yn dymuno preswyllo neu dderbyn gofal neu driniaeth mewn man, gan gynnwys yr unigolyn ei hun neu gan rywun arall ar eu rhan. Cyn adolygiad ffurfiol cyn-awdurdodi'r AMCP, dylai Cyrff Cyfrifol geisio datrys unrhyw anghydfodau sy'n ymwneud â'r trefniadau a gynigir trwy gydol y broses. Gall hyn gynnwys ystyried trefniadau amgen y byddai'r unigolyn yn dymuno eu rhoi ar waith, neu nad yw'n mynegi ei fod yn anghytuno â hwy. Fodd bynnag, lle na fydd yn bosibl i'r Corff Cyfrifol ddatrys y materion hyn, mae adolygiad cyn-awdurdodi'r AMCP yn rhoi cyfle ychwanegol i ystyried a mynd i'r afael ag anghydfodau cyn y gwneir penderfyniad ar awdurdodi. Nid yw rôl yr AMCP yn

gyfystyr â rôl cyfryngu ffurfiol, ond mae'n ffordd o ddatrys gwahaniaeth barn rhwng yr unigolyn a'r rhai sy'n cynnig y trefniadau.

18.36 Fel a gyflwynwyd ym mharagraff XX, pan nad yw'r ddyletswydd i AMCP gynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi'n berthnasol, ond mae'r Corff Cyfrifol serch hynny'n credu y byddai achos yn elwa ar gyngor ac arbenigedd arbenigol, gall gyfeirio'r achos at AMCP. Yna mae'n rhaid i wasanaeth yr AMCP benderfynu a ddylid derbyn yr achos. Dylid ystyried yr egwyddorion canlynol gan y Corff Cyfrifol wrth benderfynu pa achosion i'w hatgyfeirio i wasanaeth yr AMCP:

1. Effaith y cyfyngiad ar yr unigolyn.
 - Er enghraifft, pan gynnigir lefel uchel o ataliaeth (gan gynnwys corfforol a/neu gemegol) (p'un ai a yw'r unigolyn yn mynegi nad yw'n dymuno bod yn ddarostyngedig i'r ataliaeth ai peidio).
2. Os yw'r achos yn achos ffiniol.
 - Er enghraifft, pan fydd achos ar y ffin rhwng yr MCA a Deddf Iechyd Meddwl 1983 (MHA). Hynny yw, lle nad yw'n glir a yw'r unigolyn yn gwrthwynebu ei dderbyn i'r ysbyty am anhwylder meddyliol neu am driniaeth feddygol ar gyfer yr anhwylder hwnnw. Gweler pennod XX i gael cyngor pellach ynghylch rhyngwyneb yr MCA-MHA.
 - Er enghraifft, os, ar adeg yr adolygiad cyn-awdurdodi, bydd yr unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad ar ran y Corff Cyfrifol yn adolygu'r asesiadau/penderfyniadau ac yn penderfynu y byddai'r achos yn elwa o arbenigedd AMCP e.e oherwydd ei gymhlethdod.

Rhoddir y senarios hyn fel enghreifftiau o'r adegau y gallai fod angen atgyfeirio achosion at AMCP, ac nid ydynt yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o achosion y dylid eu cyfeirio i wasanaeth AMCP.

18.37 Bydd yn fater i dîm yr AMCP benderfynu a ddylid derbyn yr atgyfeiriad. Dylai tîm yr AMCP ystyried a ydynt yn credu bod y trothwy ar gyfer AMCP wedi'i fodloni cyn derbyn yr achos. Gall tîm yr AMCP ddewis gwrthod achos am nifer o resymau, gall y rhain gynnwys:

18.38 Os nad yw tîm yr AMCP yn credu y bodlonir y trothwy bod angen AMCP. Hynny yw, nad ydynt yn meddwl ei bod yn rhesymol credu nad yw'r unigolyn yn dymuno preswyllo neu dderbyn gofal neu driniaeth yn y man a gynnigir yn y trefniadau.

18.39 Os yw tîm yr AMCP yn credu bod Corff Cyfrifol yn atgyfeirio achosion yn rheolaidd at AMCP na chynhwysir yn y meini prawf a nodir yn y Ddeddf neu'r Cod. Yn yr amgylchiadau hyn, dylent esbonio'r meini prawf, a dylai'r gwasanaethau prif ffrwd ddelio â'r achosion hynny.

- 18.40 Os bydd y Corff Cyfrifol a thîm yr AMCP yn anghytuno a oes angen arbenigedd AMCP ar yr achos, dylent drafod amgylchiadau'r achos, gan ystyried y meini prawf cyfreithiol ar gyfer atgyfeirio a'r egwyddorion a nodir yn y bennod hon. Dylai'r Corff Cyfrifol a thîm yr AMCP geisio dod i gytundeb ynghylch pwy fydd yn delio â'r achos. Os bydd tîm yr AMCP yn gwrthod achos gan eu bod yn credu na fodlonir y trothwy, dylai'r Corff Cyfrifol barhau i brosesu'r achos oni bai eu bod yn gallu rhoi tystiolaeth bellach bod angen AMCP. Dylai'r Corff Cyfrifol bwysu a mesur y buddion posibl o chwilio am y dystiolaeth ychwanegol hon gyda'r risgiau o ohirio proses yr LPS i wneud hynny. Os ceir tystiolaeth, dylent yna atgyfeirio'r achos i dîm yr AMCP. Os bydd y Corff Cyfrifol a thîm yr AMCP yn parhau i anghytuno, dylid ystyried camau gweithredu eraill, ac mewn rhai amgylchiadau, gallai fod yn briodol gofyn am farn gan y Llys Gwarchod. Gweler pennod XX i gael mwy o wybodaeth ynghylch gwneud cais i'r Llys.
- 18.41 Os cytunir y bodlonir y trothwy ar gyfer atgyfeirio achos at AMCP, bod gwasanaeth yr AMCP yn derbyn atgyfeiriad, neu fod y ddyletswydd i benodi AMCP yn berthnasol, mae'n rhaid nad oes gan yr AMCP a benodir wrthdaro buddiannau yn yr achos. Mae hyn yn golygu na allant fod yn rhan o ofal dyddiol yr unigolyn, yn darparu unrhyw driniaeth i'r unigolyn, ac ni allant fod â chysylltiad rhagnodedig â chartref gofal fel y nodir yn y Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu Rhyddid: Cymhwysra i Gynnal Asesiadau a Gwneud Penderfyniadau) 2022 Lloegr a Chymru ("Rheoliadau'r Asesiad a'r Penderfyniad"). Hefyd, ni ddylai AMCP fod wedi cynnal unrhyw un o'r asesiadau/penderfyniadau a gynhaliwyd ar gyfer yr unigolyn hwnnw wrth ddod i gasgliad y bodlonir yr amodau awdurdodi. Dylai gwasanaeth yr AMCP ystyried y ffactorau hyn wrth benodi AMCP i achosion.

Beth sy'n digwydd pan fydd AMCP yn cynnal adolygiad cyn-awdurdodi?

- 18.42 Gellir dod o hyd i ganllawiau ynghylch adolygiadau cyn-awdurdodi na chynhelir gan AMCP, a sut mae pob adolygiad cyn-awdurdodi'n rhyngweithio â rhoi awdurdodiad, ym Mhennod XX ynghylch y Broses Gyffredinol.
- 18.43 Prif rôl yr AMCP yw pennu a fodlonir yr amodau awdurdodi. Wrth wneud hynny, mae'r AMCP yn darparu adolygiad annibynnol o'r cyfiawnhad ynghylch amddifadu o ryddid.
- 18.44 Mae'r AMCP hefyd yn cyflawni rôl ddiogelu hanfodol. Wrth adolygu achos, dylai'r AMCP fod yn chwilio am unrhyw faterion posibl sy'n peri pryder neu ddangosyddion materion sy'n peri pryder, megis trefniadau sy'n orgyfyngol, cam-drin ac esgeulustod, ac amddifadu o ryddid anghyfreithlon. Dylai'r AMCP ddelio â materion o'r fath gyda'r difrifoldeb y maent yn eu haeddu, gan gynnwys gwneud atgyfeiriadau ffurfiol i dimau diogelu perthnasol. Mae hyn yn amdiffyn yr unigolyn ymhellach mewn achosion lle mae'r cais yn anghyflawn neu heb fod mor drylwyr ag y dylai fod.

18.45 Pan fydd AMCP yn cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi, maent mewn gwirionedd yn tystio y bodlonir yr amodau ar gyfer awdurdodiad. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r AMCP graffu ar yr asesiadau/penderfyniadau. Dylai'r AMCP hefyd adolygu'r wybodaeth arall y mae'r Corff Cyfrifol yn dibynnu arni, megis tystiolaeth:

- Bod y trefniadau a gynigir yn golygu amddifadu o ryddid.
- Y cynhaliwyd ymgynghoriad priodol gyda'r unigolyn a'r rhai sy'n pryderu am eu lles (e.e. teulu a ffrindiau).
- Y cydymffurfiwyd ag unrhyw ddyletswydd i benodi IMCA, neu y ceir Person Priodol.
- Bod y wybodaeth berthnasol wedi'i chyflwyno i'r unigolyn a'u Person Priodol.
- Bod y penderfyniad gofal neu driniaeth sylfaenol y mae'r amddifadu o ryddid yn berthnasol iddo er y budd pennaf i'r unigolyn.

18.46 Rôl yr AMCP yw adolygu'r dystiolaeth, gan gynnwys yr asesiadau a'r penderfyniadau sydd wedi'u cynnwys yn yr atgyfeiriad. Nid yw'r AMCP yn gweithredu fel aseswr, ac nid oes ganddynt awdurdod i gyfarwyddo gweithwyr proffesiynol o'r Corff Cyfrifol neu o unman arall, i gynnal asesiadau. Dylai'r asesiadau gael eu cynnwys yn yr atgyfeiriad, ac os byddant ar goll neu'n annigonol, dylai'r AMCP ofyn amdanynt, a gwrthod derbyn yr atgyfeiriad os na chânt eu cyflwyno.

18.47 Disgwylir i'r AMCP ystyried materion gan ddefnyddio eu barn broffesiynol eu hunain a dylent ystyried y dystiolaeth yn yr asesiadau a gwirio a oes tystiolaeth newydd wedi dod i'r amlwg. Os na fydd yr AMCP yn cymeradwyo'r trefniadau, dylent roi rhesymau ysgrifenedig i'r Corff Cyfrifol a disgrifio unrhyw gamau y gallai'r Corff Cyfrifol eu cymryd er mwyn derbyn cymeradwyaeth. I osgoi oedi, gallai'r AMCP nodi'n anffurfiol nad ydynt yn bwriadu cymeradwyo'r trefniadau a gwneud argymhellion sut i ddatrys y materion heb fod yn rhaid iddynt ailgyflwyno atgyfeiriad i'r AMCP.

18.48 Bydd yn arbennig o bwysig i'r AMCP graffu'n ofalus a yw'r trefniadau'n angenrheidiol ac yn gymesur o'r wybodaeth a gynhwysir yn yr asesiad a'r penderfyniad ai peidio. Er enghraifft, efallai bod awdurdod lleol yn cynnig gosod unigolyn mewn lleoliad preswyl penodol a bod eu teulu'n cefnogi lleoliad arall, neu fod yr awdurdod lleol wedi nodi amrywiaeth o opsiynau ac yn datgan bod y lleoliad a gynigir ganddynt wedi'i ystyried fel bod yn seiliedig ar fodloni budd pennaf yr unigolyn. Yn y ddau achos, byddai'n ofynnol i'r AMCP adolygu'r asesiad sydd wedi pennu bod y trefniadau'n angenrheidiol ac yn gymesur, yn ogystal ag a yw'r penderfyniad ynghylch y lleoliad gwreiddiol wedi'i lywio'n briodol gan ddymuniadau a theimladau'r unigolyn. Er enghraifft, efallai y bydd angen i'r AMCP ystyried a ystyriwyd y ddyletswydd i fodloni dewis unigolyn am lety penodol o dan naill ai

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer Cymru neu Ddeddf Gofal 2014 ar gyfer Lloegr.

- 18.49 Yn ogystal ag adolygu'r asesiadau, y penderfyniadau a thystiolaeth arall, pan fydd AMCP yn cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi, mae'n rhaid iddynt gyfarfod â'r unigolyn, os yw'n briodol ac yn ymarferol. Bydd cyfarfod o'r fath, ymhlith materion eraill, yn galluogi'r AMCP i gael dealltwriaeth o ddymuniadau a theimladau'r unigolyn.
- 18.50 Byddai'n anghyffredin i'r AMCP beidio â chyfarfod â'r unigolyn. Gallai enghreifftiau o ble na fyddai'n briodol neu'n ymarferol gyfarfod â'r unigolyn gynnwys adegau pan allai fod yn niweidiol i les yr unigolyn, megis ar ddiwedd oes ac mae'r unigolyn yn sicr nad ydynt am weld AMCP, neu pan fydd risg i ddiogelwch personol yr AMCP ac ni ellir mynd i'r afael â'r mater gydag AMCP gwahanol yn ymweld. Ym mhob achos o'r fath, dylai'r AMCP gofnodi'r rhesymau dros beidio â chyfarfod â'r unigolyn yn glir.
- 18.51 Mae'n ofynnol hefyd i AMCP ymgynghori â'r canlynol os yw'n ymddangos ei bod yn briodol ac yn ymarferol gwneud hynny:
- Unrhyw un y mae'r unigolyn yn ei enwi fel un y dylid ymgynghori ag ef.
 - Unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am yr unigolyn neu'n ymddiddori yn eu lles (gan gynnwys teulu/frindiau a staff gofal).
 - Unrhyw roddwr atwrneiaeth arhosol neu atwrneiaeth barhaus.
 - Unrhyw ddirprwy a benodir gan lys.
 - Unrhyw Berson Priodol (os oes un).
 - Unrhyw IMCA (os oes un).
- 18.52 Gall yr AMCP hefyd gymryd unrhyw gamau gweithredu eraill os yw'n ymddangos ei bod yn briodol ac yn ymarferol gwneud hynny. Gallai hyn gynnwys ymgynghori ag unrhyw unigolyn arall na chynhwysir yn y rhestr uchod neu gyrchu asesiadau blaenorol neu rybuddio gwasanaethau eraill am achosion, gan gynnwys timau diogelu a chyrrff monitro perthnasol.
- 18.53 Gall yr AMCP wneud argymhellion i'r Corff Cyfrifol. Dylai'r Corff Cyfrifol ystyried argymhellion yr AMCP. Mae enghreifftiau'n cynnwys:
- Awgrymu rhaglen cymorth i alluogi'r unigolyn i wneud eu penderfyniad eu hun.
 - Archwilio addasrwydd cyfnod prawf gyda chymorth perthnasol, gwell gartref.

- Awgrymu dulliau cyfathrebu newydd neu wahanol i wella cyfranogiad yr unigolyn.
- Herio un neu fwy o'r asesiadau a chynghori'r Corff Cyfrifol y comisiynir asesiadau a phenderfyniadau newydd.
- Awgrymu ail farn ar gyfer un neu fwy o'r asesiadau.
- Adolygu gwybodaeth arall, gan gynnwys cofnodion hanesyddol ynghylch gofal a thriniaeth neu bryderon diogelu'r unigolyn.
- Ymweld â'r lleoliad a gweld sut y gallai'r trefniadau weithio, ac archwilio a ellid eu gwneud yn llai cyfyngol, a/neu'n fwy derbyniol i'r unigolyn.
- Awgrymu opsiynau llai cyfyngol.

18.54 Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd yr AMCP yn teimlo y gallai'r unigolyn elwa ar rai newidiadau yn eu cynllun gofal, neu gallent bennu y bodlonir yr amodau awdurdodi yn unig os gwneir newidiadau penodol. Er enghraifft, ni fyddai'r trefniadau'n angenrheidiol ac yn gymesur oni bai y gwneir newidiadau penodol. Os mai dyma'r achos, dylai'r AMCP hysbysu'r Corff Cyfrifol a'r sefydliad comisiynu, lle maent yn wahanol, i ddod o hyd i ateb cyn parhau â'r sefydliad. Efallai y gellir cynnig rhai trefniadau amgen, y gall yr AMCP eu hystyried yn eu lle, unwaith y bydd asesiadau a phenderfyniadau newydd wedi'u cynnal.

18.55 Unwaith y bydd yr AMCP wedi cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi, dylent greu'r cofnod awdurdodi drafft. Dylai'r cofnod awdurdodi drafft amlinellu'r trefniadau a pham y maent yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Dylai hefyd ddangos rhesymeg pam ei bod yn rhesymol i'r Corff Cyfrifol bennu y bodlonir yr amodau awdurdodi, gan gynnwys crynodeb o'r asesiadau a'r penderfyniad. Dylai'r AMCP hefyd awgrymu hyd y cyfnod awdurdodi ac amserlen adolygu.

18.56 Mae'n rhaid i'r cofnod awdurdodi drafft ddisgrifio'r trefniadau sydd i'w hawdurdodi, ond nid oes rhaid iddo nodi pob elfen. Dylid ystyried manylder y cofnod awdurdodi drafft ar sail achos wrth achos, gan ystyried amodau perthnasol ar yr achos, lefel y cyfyngiadau, a dymuniadau a theimladau'r unigolyn am y trefniadau.

18.57 Os bydd yr AMCP yn penderfynu gosod amodau ar yr awdurdodiad (megis y rhai sy'n gysylltiedig â materion cyswllt, materion diwylliannol, neu sicrhau y gall yr unigolyn adael y lleoliad yn rheolaidd), dylid cynnwys y rhain yn y cofnod awdurdodi drafft. Wrth benderfynu awdurdodi'r trefniadau, dylai'r Corff Cyfrifol ystyried y wybodaeth yn y cofnod awdurdodi drafft a bod yn ymwybodol y bydd gwrthod neu amrywio'r amodau hyn yn effeithio ar y penderfyniad y bodlonir yr amodau awdurdodi.

18.58 Mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad awdurdodi ar ran y Corff Cyfrifol adolygu'r cofnod awdurdodi drafft a phenderfynu a ddylid awdurdodi'r trefniadau a gynigir ai peidio. Os bydd y dystiolaeth yn dangos na fodlonir yr amodau awdurdodi, mae'n rhaid i'r broses awdurdodi beidio â pharhau. Darperir canllawiau pellach ynghylch y cofnod awdurdodi drafft ac awdurdodi trefniadau ym mhennod xx ynghylch y Broses Gyffredinol.

18.59 Unwaith y rhoddir yr awdurdodiad, mae'n rhaid rhannu'r cofnod awdurdodi gyda'r unigolyn a'u Person Priodol neu IMCA. Os bu unrhyw anghydfod neu drafodaeth ynghylch yr argymhellion neu'r amodau a awgrymwyd gan yr AMCP, dylid nodi'r rhain yn glir ar y cofnod terfynol a rennir.

A all yr AMCP weithredu'r awdurdodiad?

18.60 Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd yn briodol i'r AMCP sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi roi'r awdurdodiad terfynol hefyd. Dylai gwasanaeth yr AMCP a'r Corff Cyfrifol ystyried didueddrwydd yr AMCP, a hawliau dynol Erthygl 5 yr unigolyn wrth benderfynu a fydd yr AMCP hefyd yn rhoi'r awdurdodiad. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried cymhlethdodau'r achosion y mae'r AMCPau yn eu hystyried. Mae'n bosibl y bydd craffu ychwanegol gan unigolyn yn fwy priodol cyn ei awdurdodi.

18.61 Os bydd yr AMCP yn cynnal yr awdurdodiad, dylent weithredu'n annibynnol o'u rôl fel AMCP. Rôl yr awdurdodwr yw penderfynu a ddylai'r Corff Cyfrifol awdurdodi'r trefniadau a gynigir. Mae'r awdurdodwr felly'n gweithredu fel y Corff Cyfrifol yn y rôl hon, gan ei gwneud yn rôl sylfaenol wahanol i'r adolygydd cyn-awdurdodi. Er y gall yr un unigolyn gyflawni'r ddwy rôl, mae'n rhaid eu bod yn gallu gwahaniaethu'u penderfyniadau yn ystod pob cam er mwyn i'r ddwy broses aros yn ddiuedd o'i gilydd. Er enghraifft, os pennodd yr unigolyn yn ystod y cam adolygu cyn-awdurdodi ei bod yn rhesymol i'r Corff Cyfrifol ddod i'r casgliad y bodlonir yr amodau awdurdodi, yna mae'n rhaid iddynt ystyried hefyd o safbwynt y Corff Cyfrifol a oes cyfiawnhad digonol i roi'r awdurdodiad.

18.62 Nid yw rôl yr AMCP yn disodli rôl y Corff Cyfrifol. Tra bod yr AMCP yn cwblhau'r adolygiad cyn-awdurdodi, yn pennu y bodlonir yr amodau awdurdodi ac yn drafftio'r cofnod awdurdodi drafft, mae'r Corff Cyfrifol yn gyfrifol am y penderfyniad i awdurdodi'r trefniadau.

Beth yw Rôl yr AMCP mewn Adolygiadau?

18.63 Os daw'n amlwg ei bod yn rhesymol credu nad yw'r unigolyn yn dymuno preswyllo neu dderbyn gofal neu driniaeth mewn man, mae'n rhaid cynnal adolygiad. Os na ystyriwyd yr achos yn flaenorol gan AMCP, yn y rhan fwyaf o achosion, dylai'r Corff Cyfrifol atgyfeirio'r achos at AMCP i gynnal yr adolygiad a hefyd i bennu a fodlonir yr amodau awdurdodi. Wrth bennu a yw'r unigolyn yn dymuno preswyllo, neu

dderbyn triniaeth mewn man penodol, dylai'r Corff Cyfrifol ystyried yr holl amgylchiadau cyhyd ag y gwyddys eu bod yn rhesymol gan gynnwys ymddygiad, dymuniadau, teimladau, safbwyntiau, credoau a gwerthoedd yr unigolyn. Dylid ystyried amgylchiadau o'r gorffennol cyhyd â'u bod yn briodol i'w hystyried o hyd. Mae'n bosibl y bydd yn angenrheidiol i'r Corff Cyfrifol ystyried dymuniadau a theimladau, safbwyntiau, credoau a gwerthoedd yr unigolyn yn y gorffennol cyhyd â'u bod yn berthnasol, i bennu a oes angen atgyfeiriad at AMCP.

- 18.64 Yn ogystal, dylai'r Corff Cyfrifol ystyried amgylchiadau'r trefniadau, gan gynnwys unrhyw newidiadau, i gael dealltwriaeth lawn o sut mae'r unigolyn yn teimlo. Er enghraifft, efallai bod yr unigolyn yn preswyllo mewn ward iechyd meddwl ysbyty ac yn hapus pan awdurdodwyd y trefniadau i gychwyn, fodd bynnag, ers yr awdurdodiad mae mwy o bobl wedi symud i'r ward ac wedi gwneud i'r unigolyn deimlo'n anghyfforddus.
- 18.65 Os yw rhywun sy'n rhan o ofal unigolyn, neu sy'n ymddiddori yn ei les yn credu bod eu dymuniadau a'u teimladau wedi newid, ac nad ydynt bellach yn dymuno preswyllo neu dderbyn gofal neu driniaeth mewn man, gallant ofyn am adolygiad. Yn y sefyllfa hon, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol adolygu'r cais ac os yw'n gais rhesymol, gallant ei atgyfeirio at AMCP i'w ystyried. Os bydd AMCP yn derbyn yr atgyfeiriad, dylent gwblhau'r adolygiad a phennu a fodlonir yr amodau awdurdodi.
- 18.66 Dylai'r AMCP gynnal yr adolygiad, gan adolygu'r awdurdodiad, cyfarfod â'r unigolyn cyn belled ag y bo'n briodol ac yn ymarferol, ac ymgynghori â phawb yr ymgynghorwyd â nhw yn y broses awdurdodi gychwynnol, os yw hynny'n briodol ac yn ymarferol. Efallai bydd yr AMCP hefyd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol ymgynghori ag unigolion eraill na ymgynghorwyd â nhw cyn y rhoddwyd yr awdurdodiad.
- 18.67 Os bydd yr AMCP yn penderfynu bod angen asesiad a phenderfyniadau pellach, dylent gynghori'r Corff Cyfrifol a all benderfynu comisiynu asesiadau a phenderfyniadau pellach.
- 18.68 Unwaith y cwblheir yr adolygiad, mae'n rhaid i'r AMCP bennu a yw amodau'r awdurdodiad yn parhau i gael eu bodloni. Ceir gwybodaeth bellach ynghylch adolygiadau ym mhennod 13.

Adegau eraill pan all AMCP gyfrannu

- 18.69 Gan fod yr AMCP yn rôl arbenigol, gall gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ymgynghori â nhw i gael cyngor arbenigol. Gall AMCPau ddarparu gwybodaeth a chynghor gwerthfawr, ynghylch ystyr amddifadu o ryddid a phroses yr LPS yn fwy cyffredinol.

- 18.70 Mae AMCPau yn gallu cwblhau asesiadau gallu ac asesiadau angenrheidiol a chymesur, ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion a nodir mewn rheoliadau, ond dylent eu cyflawni hyn o dan eu prif rôl broffesiynol yn hytrach nag fel AMCP.
- 18.71 Os bu rhan fawr gan AMCP yn cynghori'r rhai hynny sy'n ymwneud â'r achos, neu wrth gynnal unrhyw un o'r asesiadau, ni ddylent gynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi. Dylid gofyn i AMCP gwahanol, nad yw yn yr un gadwyn rheoli llinell, wneud hyn i sicrhau barn annibynnol ac osgoi gwrthdaro buddiannau.

DRAFT

19. Beth yw adran 4B?

Oni bai mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n anghyfreithlon gosod cyfyngiadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid ar unigolyn cyn y mae penderfyniad i awdurdodi trefniadau o'r fath wedi'i wneud gan y Corff Cyfrifol neu y mae penderfyniad perthnasol yn cael ei wneud gan y llys. Amgylchiadau eithriadol yw amgylchiadau lle mae'n angenrheidiol gwneud penderfyniad i wneud triniaeth cynnal bywyd neu weithred hanfodol i atal dirywiad difrifol yng nghyflwr yr unigolyn. Eglurir y telerau hyn yn fanylach yn y bennod hon.

Os bodlonir amodau penodol, mae adran 4B Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (yr MCA) yn darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer gwneuthurwyr penderfyniad i gymryd camau i osod cyfyngiadau ar unigolyn. Mae'r bennod hon yn nodi'r amodau y mae'n rhaid iddynt eu defnyddio cyn y gellir dibynnu ar adran 4B.

Crynodeb Cyflym

- Mae'n rhaid bodloni pedwar amod er mwyn dibynnu ar awdurdod cyfreithiol adran 4B. Y rhain yw:
 - bod y camau'n cynnwys, neu at ddibenion, rhoi triniaeth cynnal bywyd neu wneud gweithred hanfodol,
 - bod y camau'n angenrheidiol er mwyn rhoi'r driniaeth cynnal bywyd neu wneud y weithred hanfodol,
 - bod y gwneuthurwr penderfyniad yn credu bod yr unigolyn â phrinder gallu i gydsynio i'r camau a gymerwyd, ac
 - y gofynnir am benderfyniad perthnasol gan y llys, mae Corff Cyfrifol yn pennu p'un ai awdurdodi trefniadau o dan yr LPS ai peidio, neu fod argyfwng.
- Mae Adran 4B yr MCA yn rhoi'r sail gyfreithiol i wneuthurwyr penderfyniad gymryd camau i osod cyfyngiadau ar unigolyn yn y sefyllfaoedd hyn.
- Gellir dibynnu ar yr awdurdod cyfreithiol a ddarperir gan adran 4B mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn yn unig ac ni ddylid ei ddefnyddio fel mater o drefn.
- Mae Adran 4B yn galluogi camau i gael eu cymryd yn unig i roi triniaeth cynnal bywyd neu weithred hanfodol. At ddibenion adran 4B, mae'n anghyfreithlon os bydd camau'n cael eu cymryd sy'n amddifadu'r unigolyn o ryddid nad ydynt at ddibenion rhoi triniaeth cynnal bywyd neu weithred hanfodol.

Pryd y gellir dibynnu ar adran 4B?

- 19.1 Mae Adran 4B yn darparu sail gyfreithiol ar gyfer gwneuthurwyr penderfyniad i gymryd camau sy'n amddifadu unigolyn o ryddid os byddant yn dilyn y pedwar amod canlynol yn unig.

Amod 1: mae'n rhaid i'r camau fod yn hollol neu'n rhannol:

- at *ddiben* rhoi'r driniaeth cynnal bywyd neu unrhyw weithred hanfodol

Er enghraifft, atal unigolyn i alluogi triniaeth feddygol i gael ei rhoi a fyddai'n helpu i gynnal bywyd yr unigolyn, megis dialysis.

neu

- yn cynnwys rhoi'r driniaeth cynnal bywyd neu'r weithred hanfodol

Er enghraifft, defnyddio meddyginiaeth gwrthseicotig gydag effaith dawelyddol i atal dirywiad difrifol yn nementia'r claf a'u hatal rhag gadael yr ysbyty a gwrthod y driniaeth.

Amod 2: mae'n rhaid i'r camau fod yn angenrheidiol er mwyn rhoi'r driniaeth cynnal bywyd neu wneud y weithred hanfodol.

Amod 3: mae'n rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad gredu'n rhesymol bod yr unigolyn â phrinder gallu i gydsynio i'r camau.

Amod 4: mae un o'r canlynol yn berthnasol:

- gofynnir am benderfyniad perthnasol gan y llys (e.e. penderfyniad sy'n ymwneud ag a yw gwneuthurwr penderfyniad wedi'i awdurdodi i amddifadu'r unigolyn o ryddid),
- mae Corff Cyfrifol yn pennu awdurdodi'r trefniadau o dan yr LPS ai peidio, neu
- mae argyfwng.

Os bydd y pedwar amod hwn yn berthnasol, gall gwneuthurwr penderfyniad gymryd camau wedyn sy'n amddifadu'r unigolyn o'u rhyddid.

- 19.2 Mae Amod 4 yn golygu na ellir dibynnu ar adran 4B unwaith y mae awdurdodiad LPS ar waith. Unwaith y mae awdurdodiad ar waith, os bydd angen cyfyngiadau ychwanegol sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid, ac nad yw'r rhain wedi'u cynnwys o fewn telerau'r awdurdodiad, dylai'r gwneuthurwr penderfyniad neu rywun arall wneud y Corff Cyfrifol yn ymwybodol. Bydd hyn yn sbarduno adolygiad brys o'r awdurdodiad, pe bai angen. Rhoddir canllawiau pellach ar gofnodion awdurdodi ym mhennod 13.

- 19.3 Mae'r awdurdod cyfreithiol a ddarperir gan adran 4B yn berthnasol yn unig i'r camau angenrheidiol ar gyfer y driniaeth cynnal bywyd neu'r weithred hanfodol o dan sylw. Nid yw'n bŵer 'parhaus'. Er enghraifft, os bydd unigolyn yn ceisio gadael ysbyty a bydd angen ei atal, ac mae hyn yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, mae'r sail gyfreithiol a ddarperir gan y pŵer yn berthnasol i'r weithred honno o atal yn unig (cyhyd ag y bo'r amodau eraill yn cael eu bodloni). Os bydd gweithred hanfodol bellach yn ofynnol a bod angen atal yr unigolyn, mae'n rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad wneud penderfyniad newydd ynghylch a yw'r camau wedi'u hawdurdodi o dan delerau adran 4B, a dylid dogfennu hyn ar wahân o geisiadau cynt o'r pŵer (gweler paragraffau 19.39-19.44 ynghylch cadw cofnodion). Gweler paragraffau 19.8-19.15 hefyd i gael mwy o wybodaeth ar yr hyn y mae gweithred hanfodol a thriniaeth cynnal bywyd yn eu golygu.
- 19.4 Os na fydd yn argyfwng (gweler paragraffau 19.16 19.19), ac nid oes penderfyniad perthnasol yn cael ei ystyried gan lys, nid oes modd dibynnu ar adran 4B tan fod proses yr LPS yn cael ei sbarduno. Darperir gwybodaeth am y llwybrau gwahanol y gellir sbarduno proses yr LPS ym mhennod xx. Unwaith y mae'r broses wedi dechrau, mae'r gwneuthurwyr penderfyniad wedi'u hawdurdodi i gymryd camau sy'n amddifadu unigolyn o ryddid o dan adran 4B os bydd yr amodau eraill yn berthnasol.
- 19.5 Er enghraifft, gallai unigolyn sydd â dementia symud i gartref gofal a sbardunir proses yr LPS fel bod modd awdurdodi trefniadau ar gyfer gofal yr unigolyn. Gan fod angen symud ar frys, nid yw proses yr LPS wedi'i chwblhau cyn i hyn ddigwydd. Tra bod y Corff Cyfrifol yn ystyried awdurdodi'r trefniadau ai peidio, mae'r unigolyn yn ceisio gadael y cartref gofal i ddychwelyd i'w cartref blaenorol. Mae gadael y cartref gofal ar ei ben ei hun a heb oruchwyliaeth yn rhoi'r unigolyn mewn perygl o niwed a gofid difrifol, a bydd hyn yn arwain at ddirywiad difrifol yn eu cyflwr. Mae Adran 4B yn rhoi'r awdurdod cyfreithiol i'r gwneuthurwr penderfyniad yn y cartref gofal gymryd y camau i amddifadu'r unigolyn o'u rhyddid, yn yr achos hwn drwy ddefnyddio ataliad, er mwyn atal yr unigolyn rhag gadael y cartref gofal.

Penderfyniadau y gofynnir amdanynt gan y llysoedd

- 19.6 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y Corff Cyfrifol yn gwneud y penderfyniad i awdurdodi trefniadau o dan LPS. Tra ei bod yn bosibl i'r Llys Gwarchod roi awdurdodiadau, mae'n debygol y bydd eu hangen mewn amgylchiadau cyfyngedig yn unig. Darperir gwybodaeth bellach am rôl y Llys Gwarchod ym mhennod 7.
- 19.7 Mae'r awdurdod cyfreithiol a ddarperir gan adran 4B yn berthnasol os gofynnir am benderfyniad perthnasol gan y llys. Mae 'penderfyniad perthnasol' yn golygu penderfyniad sy'n berthnasol i'r cwestiwn a yw'r gwneuthurwr penderfyniad wedi'i awdurdodi i amddifadu'r unigolyn o ryddid.

Beth yw triniaeth cynnal bywyd?

19.8 Mae triniaeth cynnal bywyd yn golygu unrhyw driniaeth feddygol y mae'r sawl sy'n darparu gofal iechyd ar gyfer yr unigolyn o dan sylw'n ystyried sy'n angenrheidiol i gynnal bywyd. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft:

- cymorth anadlu artiffisial i alluogi anadlu,
- dadebru cardio-anadlol,
- meddyginiaeth i ysgogi'r galon i weithredu,
- maeth a hydradiad artiffisial i'r rhai hynny nad ydynt yn gallu llyncu, a
- thrallwysiad gwaed.

Beth yw gweithred hanfodol?

19.9 Mae gweithred hanfodol yn golygu unrhyw weithred lle bo'r unigolyn sy'n ei gwneud yn ei hystyried ei bod yn angenrheidiol er mwyn atal dirywiad difrifol yng nghyflwr yr unigolyn.

19.10 Dylai'r weithred hanfodol fod yn gymesur mewn perthynas â'r tebygolrwydd a'r difrifoldeb o niwed i'r unigolyn ac ni ddylai osod trefniadau cyfyngol diangen ar yr unigolyn.

19.11 Gan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos, mae enghreifftiau o weithredoedd hanfodol yn cynnwys:

- darparu triniaeth feddygol,
- mesurau atal hunanladdiad,
- ataliad,
- darparu gofal a chymorth,
- ymyrraeth therapiwtig.

19.12 Nid yw gweithredoedd hanfodol wedi'u cyfyngu i leoliadau penodol ac mae'n bosibl y bydd angen eu gweithredu mewn lleoedd megis cartrefi gofal, sefydliadau addysg, lleoliadau cysylltu bywydau a chanolfannau adsefydlu. Er enghraifft, mewn canolfan adsefydlu, mae'n bosibl y bydd angen triniaeth ar unigolyn yn ystod cam penodol o'u hadferiad a byddai oedi'n lleihau effeithiolrwydd y driniaeth hon ac yn effeithio ar eu hiechyd yn negyddol. Mae'n bosibl bod rhai trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid yn angenrheidiol er mwyn darparu'r driniaeth hon i'r unigolyn yn syth er mwyn atal dirywiad difrifol yn eu cyflwr.

- 19.13 Mae'n bwysig cofio nad natur y weithred ei hun sy'n pennu a fyddai adran 4B yn berthnasol, ond yn hytrach diben y weithred. Mae'n rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad allu cyfiawnhau'r weithred ar y sail eu bod yn credu'n rhesymol ei bod yn angenrheidiol i atal dirywiad difrifol yng nghyflwr yr unigolyn.
- 19.14 Ym mhob achos, mae'n rhaid i ddiben y weithred fod er mwyn atal dirywiad difrifol yng nghyflwr yr unigolyn. Yn fras, mae'n rhaid i lefel y dirywiad tebygol fod yn ddifrifol ac yn aciwt, ac nid yn ddibwys. Mae'n bosibl mai'r weithred hanfodol yw cymryd camau i atal niwed i'r unigolyn, neu eraill, petai niwed o'r fath yn achosi dirywiad difrifol yng nghyflwr yr unigolyn.
- 19.15 Er enghraifft, mae'n bosibl mewn rhai amgylchiadau y byddai modd dibynnu ar awdurdod adran 4B i weithredu camau i atal unigolyn rhag dychwelyd i'w cartref teuluol o ofal seibiant os bydd hyn yn rhoi teulu'r unigolyn mewn perygl. Mae'n rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad gredu'n rhesymol bod y prinder gallu perthnasol gan yr unigolyn a bod y camau'n angenrheidiol er mwyn atal dirywiad difrifol yng nghyflwr yr unigolyn. Yn yr achos hwn, mae teulu'r unigolyn mewn perygl o gael eu hanafu gan yr unigolyn, ac o ganlyniad byddant yn atal yr unigolyn a all yna beri niwed iddo. Os na fydd y teulu wedi'i hyfforddi'n broffesiynol mewn arferion ataliad, gall canlyniadau hyn achosi dirywiad difrifol yng nghyflwr yr unigolyn. Yn yr enghraifft hon, diben y weithred hanfodol yw atal niwed i'r unigolyn ac eraill.

Sefyllfaoedd argyfwng

- 19.16 At ddibenion adran 4B, mae'r sefyllfaoedd a fyddai'n cael eu hystyried fel argyfwng fel a ganlyn:
- mae'r gwneuthurwr penderfyniad yn credu'n rhesymol bod angen brys i gymryd y camau i amddifadu'r unigolyn o'u rhyddid er mwyn rhoi'r driniaeth cynnal bywyd neu wneud gweithred hanfodol ac
 - nid yw'n ymarferol yn rhesymol, cyn cymryd y camau hynny i wneud cais i'r llys, i sbarduno proses awdurdodi'r LPS neu i wneud cais o dan Ddeddf Lechyd Meddwl 1983 (MHA).
- 19.17 Mae'n rhaid i wneuthurwyr penderfyniad gofio er mwyn dibynnu ar y pŵer hwn mewn sefyllfaoedd argyfwng, bod yn rhaid i'r unigolyn sy'n darparu'r gofal gredu'n rhesymol bod prinder galluedd meddyliol gan yr unigolyn i gydsynio i'r camau.
- 19.18 Er mwyn cymryd camau mewn argyfwng, dylai'r gwneuthurwr penderfyniad gredu'n rhesymol y bydd angen gwneud cais i'r llys, awdurdodiad o dan yr LPS, neu atgyfeiriad am asesiad o dan yr MHA. Mae'n debygol y bydd argyfyngau o'r fath ond yn parhau am gyfnod byr iawn. Dylid sbarduno proses yr LPS, gwneud cais i'r llys, neu wneud atgyfeiriad am asesiad o dan yr MHA cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r argyfwng ddod i ben. Mewn achosion prin, mae'n bosibl na fydd angen gwneud

hyn ar ôl yr argyfwng wedi'r cyfan. Os mai dyma'r achos, dylid cofnodi hyn gan y gwneuthurwr penderfyniad.

19.19 Os bydd y gwneuthurwr penderfyniad yn penderfynu bod angen atgyfeiriad am asesiad o dan yr MHA a bod atgyfeiriad yn cael ei wneud, ni allant ddibynnu ar adran 4B i gael unrhyw amddifadu o ryddid pellach er mwyn cynnal triniaeth cynnal bywyd neu wneud gweithred hanfodol. Mae'r MHA yn darparu pwerau amrywiol y gellir eu defnyddio yn ystod argyfyngau mewn rhai achosion. Mae'r rhain yn cynnwys pwerau dal a'r gallu i gadw'r unigolyn mewn lle diogel i'w asesu. Darperir gwybodaeth bellach yn yr MHA a Chod Ymarfer yr MHA. Darperir gwybodaeth am y rhyngwyneb rhwng yr MCA a'r MHA ym mhennod 22.

A yw'r camau'n angenrheidiol ac yn gymesur?

19.20 Mae'n rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad gredu'n rhesymol bod y weithred yn hanfodol i roi triniaeth cynnal bywyd neu wneud unrhyw weithred hanfodol pan fydd y weithred yn cael ei chynnal, ar sail y wybodaeth sydd ar gael iddynt. Mae'n bosibl nad yw cred resymol yng nghyd-destun argyfwng yn gred resymol mwyach pan geir rhagor o amser i archwilio ac ystyried.

19.21 Yn ogystal â bod yn angenrheidiol, mae'n rhaid i'r camau hefyd fod yn gymesur mewn perthynas â'r tebygolrwydd a'r difrifoldeb o niwed i'r unigolyn.

19.22 Er enghraifft, gallai unigolyn sydd â dementia sydd fel arfer yn byw gartref fynd i'r ysbyty i gael triniaeth heb ei chynllunio ar gyfer cyflwr corfforol. Mae dementia'r unigolyn yn achosi iddo golli'i gof a theimlo'n ddryslyd. Mae'r gwneuthurwr penderfyniad yn credu bod y trefniadau a gynigir i alluogi gofal a thriniaeth yr unigolyn yn angenrheidiol, fodd bynnag cyn y gellir sbarduno proses yr LPS, mae'r unigolyn yn ceisio tynnu'u canwla mewnwythiennol a gadael yr ysbyty. Ar yr adeg honno, mae'r gwneuthurwr penderfyniad yn credu'n rhesymol ei bod yn angenrheidiol cymryd camau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid er mwyn darparu'r weithred hanfodol. Yn yr achos hwn, y weithred hanfodol yw atal yr unigolyn fel na fydd dirywiad difrifol yn eu cyflwr a achosir gan iddynt adael yr ysbyty ar eu pen eu hunain, ac o ganlyniad i beidio â derbyn triniaeth feddygol. Gan mai argyfwng ydyw, ac mae'r gwneuthurwr penderfyniad yn credu'n rhesymol y bydd angen awdurdodiad LPS a bod yr amodau eraill yn cael eu bodloni, mae awdurdod cyfreithiol adran 4B yn eu galluogi i gymryd y camau hyn.

Penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth

19.23 Os bydd unigolyn wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth, ni ellir cyflawni'r driniaeth hon o dan awdurdod adran 4B. Gweler pennod 11 i gael manylion pellach am benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth.

Beth yw'r rhyngweithiad rhwng Cyrff Cyfrifol a'r defnydd o adran 4B?

- 19.24 Fel a nodwyd ym mhennod 14, dylai'r Cyrff Cyfrifol bob amser sicrhau bod penderfyniad yr awdurdodiad yn cael ei gymryd o fewn 21 niwrnod o dderbyn yr atgyfeiriad. Os bydd y Corff Cyfrifol yn dod yn ymwybodol y dibynnir ar adran 4B gan wneuthurwyr penderfyniad yn aml, dylai flaenoriaethu'r achos hwnnw i sicrhau bod y penderfyniad awdurdodi'n cael ei wneud ar frys.
- 19.25 Ni ddylai Cyrff Cyfrifol fyth ddibynnu ar ddefnyddio adran 4B er mwyn peidio â blaenoriaethu achosion neu gyfiawnhau oedi yn y broses asesu. Bwriedir dibynnu ar adran 4B yn y tymor byr neu mewn argyfwng yn unig, ac yn arbennig nid yw'n cynnig yr un mesurau diogelwch ag y mae proses yr LPS. Felly nid yw'n briodol dibynnu ar hyn yn y tymor canolig neu'n hirdymor.
- 19.26 Er enghraifft, os bydd darparwyr gofal, IMCA neu Berson Priodol yn mynd yn bryderus am y ddibyniaeth amhriodol ar adran 4B, dylent godi hyn gyda'r Corff Cyfrifol cyn gynted â phosibl. Os bydd pryderon am les yr unigolyn, mae'n bosibl y bydd hefyd angen codi pryder diogelu gyda'r awdurdod perthnasol. Os na fydd modd dod i ddatrysiad drwy'r llwybrau hyn, mae'n bosibl y bydd angen gofyn i'r llys am benderfyniad.

Pwy y dylid eu hysbysu pan dibynnir ar adran 4B?

- 19.27 Mae adran 4B yn bŵer cyfyngol, felly dylai'r gwneuthurwr penderfyniad wneud sefydliadau ac unigolion penodol yn ymwybodol os bydd camau o dan awdurdod adran 4B wedi'u cymryd.
- 19.28 Er enghraifft, bydd angen y wybodaeth hon ar Gyrrff Cyfrifol fel eu bod yn gallu ei hystyried yn ystod proses yr LPS, a dylid hysbysu Person Priodol neu IMCA'r unigolyn fel eu bod wedi'u diweddarau ynghylch achos yr unigolyn.

Gwneuthurwyr penderfyniad sy'n gweithredu mewn swyddogaeth broffesiynol

- 19.29 Mae'r adran hon yn berthnasol i wneuthurwyr penderfyniad sy'n gweithio mewn swyddogaeth broffesiynol. Mae swyddogaeth broffesiynol yn golygu unrhyw un a delir i ymgymryd â gofal neu driniaeth yr unigolyn, naill ai wedi'i gyllido'n breifat neu'n gyhoeddus. Mae paragraffau 19.38 yn darparu gwybodaeth ar gyfer gwneuthurwyr penderfyniad nad ydynt yn gweithredu mewn swyddogaeth broffesiynol, er enghraifft aelodau o'r teulu.
- 19.30 Mae gan bob gweithiwr proffesiynol, y rhai hynny sydd â dyletswydd gofal a chyrrff cyhoeddus ddyletswyddau cyfreithiol neu broffesiynol a/neu ofynion i rannu gwybodaeth berthnasol â chyrrff neu bobl briodol, fel y bo'n addas. Mae'r

dyletswyddau a/neu ofynion cyfreithiol neu broffesiynol hyn yn berthnasol o dan LPS.

- 19.31 Nid oes dyletswydd neu ddisgwyliad ychwanegol, y tu hwnt i ddyletswyddau a/neu ofynion cyfreithiol neu broffesiynol eraill y gwneuthurwr penderfyniad i rannu gwybodaeth berthnasol, sy'n gofyn i'r gwneuthurwr penderfyniad hysbysu'r Corff Cyfrifol bob tro y defnyddir awdurdod adran 4B. Fodd bynnag, dylai'r gwneuthurwr penderfyniad hysbysu'r Corff Cyfrifol pan ddibynnir ar adran 4B am y tro cyntaf.
- 19.32 Y tu hwnt i'r defnydd cyntaf o 4B, ni fydd angen i'r gwneuthurwr penderfyniad hysbysu'r Corff Cyfrifol bob tro y dibynnir ar y pŵer. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd y gwneuthurwr penderfyniad yn ei ystyried yn bwysig i hysbysu'r Corff Cyfrifol bod 4B wedi'i defnyddio. Er enghraifft, os oedd y camau o dan awdurdod adran 4B yn cael eu defnyddio nifer sylweddol o weithiau o fewn cyfnod byr neu os oedd y weithred o atal yn arwyddocaol. Mae'n bosibl y bydd y gwneuthurwr penderfyniad hefyd yn ystyried rhesymau eraill i hysbysu'r Corff Cyfrifol, megis pryd y byddai er y budd pennaf i'r unigolyn. Mae'n bosibl bydd y gwneuthurwr penderfyniad yn dymuno gofyn am gyngor cyfreithiol ar faterion o'r fath fel y bo'n briodol, megis pan fyddant yn gysylltiedig ag achosion cyfreithiol.
- 19.33 Dylid rhannu gwybodaeth am ddefnyddio adran 4B cyn gynted â phosibl o fewn 72 awr. Os defnyddir y camau o dan awdurdod adran 4B nifer o weithiau mewn cyfnod byr, gall y gwneuthurwr penderfyniad hysbysu'r Corff Cyfrifol am y rhain mewn un cyfathrebiad. Dylid gwneud hyn o fewn 72 awr o'r tro cyntaf y dibynnwyd ar adran 4B yn ystod y cyfnod hwn.
- 19.34 Os bydd Corff Cyfrifol yn pennu awdurdodi trefniadau unigolyn o dan yr LPS ai peidio, dylid hysbysu'r Corff Cyfrifol cyn gynted â phosibl os bydd camau i amddifadu'r unigolyn hwnnw o ryddid wedi'u cymryd o dan awdurdod 4B. Mae hyn oherwydd y gallai fod yn berthnasol i'r trefniadau a'r amgylchiadau y mae'n eu hystyried, a'r flaenoriaeth a roddwyd i'r atgyfeiriad. Dylai'r gwneuthurwr penderfyniad hefyd rannu gwybodaeth am yr amgylchiadau a arweiniodd at y camau'n cael eu gweithredu.
- 19.35 Mae'n bosibl bod y penderfyniad y gofynnir amdano gan Gorff Cyfrifol yn ymwneud â threfniadau nad ydynt yn gysylltiedig â'r driniaeth cynnal bywyd neu'r weithred hanfodol. Gellir bodloni amod 4 o hyd os mai dyma'r achos. Dylai gwneuthurwr penderfyniad hysbysu'r Corff Cyfrifol bod camau wedi'u cymryd o dan awdurdod adran 4B a rhoi manylion am y camau sydd wedi'u cyflawni. Dylai gwneuthurwr penderfyniad a'r Corff Cyfrifol ystyried a ddylid newid y trefniadau gwreiddiol a gynigiwyd i gynnwys y trefniadau ychwanegol hyn.
- 19.36 Os bydd Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA) neu Berson Priodol wedi'u penodi, dylai'r gwneuthurwr penderfyniad hysbysu'r IMCA neu'r Person Priodol y dibynnwyd ar adran 4B ar yr un pryd ag y maent yn hysbysu'r Corff Cyfrifol.

19.37 Byddai gwybodaeth am ddefnyddio adran 4B a'r cyd-destun lle y gwnaed hyn yn debygol o gael ei hystyried yn y llys mewn unrhyw achosion lle y byddai'n berthnasol at ddibenion yr achosion hynny, megis unrhyw gais yn unol ag adran 4B(7)(a) yr MCA.

Gwneuthurwyr penderfyniad nad ydynt yn weithwyr proffesiynol

19.38 Pan nad yw'r gwneuthurwr penderfyniad yn gweithredu'n broffesiynol neu â thâl, er enghraifft maent yn aelod o'r teulu, nid yw'r gofynion sy'n hysbysu'r Corff Cyfrifol bob tro y mae awdurdod adran 4B yn cael ei ddefnyddio, a amlinellir ym mharagraffau 19.29 – 19.37 yn berthnasol. Fel rhan o proses yr LPS, mae'n rhaid cynnal asesiad a phenderfyniad ar angenrheidrwydd a chymesuredd. Dylai'r aseswr ddefnyddio'r broses asesu a phenderfynu hon i ganfod a ddibynnwyd ar adran 4B gan wneuthurwr penderfyniad nad ydynt yn gweithredu'n broffesiynol neu â thâl.

Cadw a rhannu cofnodion

19.39 Wrth ystyried a oes gan yr unigolyn allu i gydsynio i'r camau gofynnol i alluogi'r driniaeth cynnal bywyd neu gynnal y weithred hanfodol, dylai gwneuthurwyr penderfyniad sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei chofnodi a'i rhannu'n briodol yn unol â'u dyletswyddau a/neu ofynion proffesiynol arferol i gymryd camau o'r fath, gan gynnwys gyda'r tîm gofal ehangach, yr IMCA ac unrhyw ddirprwy neu atwrnai.

19.40 Dylid hefyd ystyried rhannu gwybodaeth berthnasol ag aelodau teulu'r unigolyn, eu Person Priodol ac eraill sy'n ymddiddori yn eu lles lle bo'n gyfreithlon ac yn gymesur i wneud hynny.

19.41 Dylai gwneuthurwyr penderfyniad gadw cofnodion o benderfyniadau am y pedwar amod (gweler paragraff 19.1) am rannu gwybodaeth berthnasol yn briodol yn unol â dyletswyddau a phwerau'r darparwr neu'r gweithiwr proffesiynol i wneud hynny. Dylai gwybodaeth o'r fath gynnwys:

- y rhesymau dros benderfynu bod y pedwar amod wedi'u bodloni,
- y rhesymau dros y camau'n cael eu cymryd i amddifadu'r unigolyn o'u rhyddid, hynny yw, y weithred hanfodol neu'r driniaeth cynnal bywyd angenrheidiol, a'r
- union gamau a gymerwyd.

19.42 Mewn achosion brys, dylai gwneuthurwyr penderfyniad barhau i gadw cofnod cywir o'r materion a restrir uchod, yn ogystal â materion perthnasol eraill. Dylid cwblhau hyn cyn gynted â phosibl ar ôl yr ymyrraeth frys.

19.43 Mae'r gofyniad i gadw cofnodion yn berthnasol yn unig i wneuthurwyr penderfyniad sy'n gweithio mewn swyddogaeth broffesiynol.

19.44 Darperir canllawiau pellach ar rannu gwybodaeth i ofalwyr teuluol a gofalwyr eraill, dirprwyon ac atwrneiod, sy'n gofalu am neu'n cynrychioli rhywun sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniadau penodol, ac yn arbennig, â phrinder gallu i ganiatáu i wybodaeth amdanynt gael ei datgelu, ym mhennod xx.

DRAFT

20. Monitro ac Adrodd am y cynllun Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid

Mae amddifadu unigolyn o'i ryddid yn broblem sylweddol. Mae'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid (LPS) wedi'u cynllunio i sicrhau bod pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn unig os bydd yn angenrheidiol ac yn gymesur ac yn cael eu darparu gyda mesurau diogelu i amddiffyn eu hawliau. Er mwyn darparu sicrwydd bod yr LPS yn cael eu gweithredu'n gywir, mae'n bwysig bod trefn effeithiol ar waith i fonitro defnydd y gweithdrefnau.

Crynodeb o'r Bennod hon

Pwy yw'r cyrff sy'n gyfrifol am fonitro ac adrodd am y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid (LPS) yn Lloegr a Chymru.

- Y cyrff sy'n gyfrifol am fonitro ac adrodd am yr LPS yn Lloegr yw'r Comisiwn Ansawdd Gofal, CQC (i oedolion) a'r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau a Sgiliau Plant, Ofsted (i bobl 16-17 oed).
- Yng Nghymru, y cyrff yw Arolygiaeth Iechyd Cymru (HIW) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW). O ran lleoliadau addysg, gwneir hyn gan Estyn hefyd.
- Cyfeirir at y cyrff hyn ar y cyd at ddibenion LPS fel y 'cyrff monitro'.

Pwy y mae'n rhaid iddynt ddarparu data i'r cyrff monitro a beth ddylai hyn ei gynnwys er mwyn cyflawni'u dyletswyddau monitro ac adrodd.

- Mae gan y cyrff monitro ddyletswydd i fonitro ac adrodd am gamau gweithredu'r LPS. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae'n ofynnol i'r Cyrff Cyfrifol hysbysu'r cyrff monitro'n rheolaidd pan fyddant wedi derbyn atgyfeiriad LPS ac yn ystyried awdurdodi'r trefniadau ai peidio.
- Dylent hefyd hysbysu'r Corff Cyfrifol yn rheolaidd pan fo awdurdodiad yn cael ei roi, heb ei gymeradwyo, ei adnewyddu neu'n dod i ben.

Y pwerau sydd gan y cyrff monitro sy'n eu galluogi i gyflawni'u cyfrifoldebau monitro ac adrodd.

- Mae gan y cyrff monitro'r pwerau canlynol y gallant eu defnyddio o ran awdurdodiadau LPS i gyflawni'u cyfrifoldebau monitro:

- Ymweld â lleoliadau lle y cyflawnir amddifadu o ryddid awdurdodedig. Mae'n bosibl bydd angen cydsyniad perthnasol ar y cyrff monitro i ymweld â'r lle.
 - Cyfarfod â'r unigolyn y mae awdurdodiad yr LPS yn berthnasol iddo. Bydd angen cydsyniad yr unigolyn ar y cyrff monitro er mwyn cyfarfod â nhw, neu os bydd y prinder gallu perthnasol ganddynt i gydsynio, yna mae'n bosibl y bydd angen penderfyniad budd pennaf yn unol ag adran 4 Deddf Galluedd Meddyliol (2005).
 - Gofyn am fynediad ac archwilio cofnodion sy'n gysylltiedig â gofal a thriniaeth yr unigolyn cyn, yn ystod ac ar ôl iddynt ymweld â'r lleoliad. Gallant ofyn am gofnodion gan y Corff Cyfrifol a awdurdododd yr amddifadu neu'r lleoliad lle mae'r awdurdodiad yn digwydd.
 - Cyfarfod â'r sawl sy'n gysylltiedig â gofalu am unigolyn y mae awdurdodiad yr LPS yn berthnasol iddo, neu'r rhai sy'n ymddiddori yn eu lles.
- **Bydd y cyrff monitro'n adrodd yn flynyddol, gan grynhoi eu gweithgareddau a'u canfyddiadau am gamau gweithredu'r LPS.**

Beth yw'r nodau monitro ac adrodd am y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid?

20.1 Nod cynllun monitro ac adrodd yr LPS yw:

- Monitro'r ffordd y mae'r LPS yn cael ei gweithredu.
- Adrodd am a nodi tueddiadau yng nghanau gweithredu'r LPS (Gweler paragraff 25.19 i gael mwy o fanylion).
- Helpu i atal camdriniaeth ac esgeulustod a/neu amddifadu o ryddid heb awdurdodiad, cyn belled ag y bo'n bosibl drwy sicrhau bod y cynllun yn cael ei oruchwylio. (Mae'n bwysig nodi bod rôl y cyrff monitro'n wahanol i rôl y Corff Cyfrifol. Er enghraifft, rôl y Corff Cyfrifol yw ystyried p'un ai awdurdodi trefniadau

sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid a chadw trefniadau awdurdodedig o dan adolygiad. Gweler pennod 13 ynghylch Cyrff Cyfrifol i gael mwy o fanylion).

Pwy fydd yn monitro'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid?

- 20.2 Mae rheoliadau'n rhoi'r cyfrifoldeb am fonitro ac adrodd am gamau gweithredu'r LPS yn Lloegr ar y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) a Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau a Sgiliau Plant (Ofsted).¹⁰⁶
- 20.3 O dan y rheoliadau yn Lloegr, mae CQC yn gyfrifol am fonitro ac adrodd am y cynllun mewn perthynas ag oedolion 18 oed neu'n hŷn ac Ofsted ar gyfer pobl 16-17 oed. Bydd achosion lle mae unigolyn 16-17 oed mewn lleoliad y mae'r CQC eisoes yn ei arolygu a/neu'n ei reoleiddio (e.e. unigolyn 16 oed sydd wedi'i amddifadu o ryddid mewn ysbyty), ac yn yr un modd pan fo oedolyn mewn lleoliad y mae Ofsted yn ei arolygu a/neu'n ei reoleiddio (e.e. unigolyn 18 oed mewn ysgol arbennig). Mae'r rheoliadau'n darparu bod Ofsted a CQC yn gallu gofyn am gymorth gan ei gilydd wrth gyflawni'u dyletswyddau monitro ac adrodd mewn sefyllfaoedd o'r math hwn, er na fydd hyn yn effeithio ar eu cyfrifoldebau cyfreithiol sylfaenol.
- 20.4 Yng Nghymru, Gweinidogion Cymru sy'n monitro camau gweithredu'r LPS. Cyflawnir y swyddogaethau hyn ar eu rhan gan Arolygiaeth Iechyd Cymru (HIW) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW). O ran lleoliadau addysg, gwneir hyn gan Estyn hefyd.
- 20.5 At ddibenion y bennod hon, cyfeirir at y cyrff yn Lloegr a Chymru sydd â'r ddyletswydd statudol i fonitro ac adrodd am yr LPS ar y cyd fel y 'cyrff monitro'. Mae'n bosibl y bydd achosion lle bydd amddifadu o ryddid yn cael eu hawdurdodi gan Gorff Cyfrifol yn Lloegr ar gyfer gofal a thriniaeth rhywun sy'n byw yng Nghymru, ac i'r gwrthwyneb. Yn yr achosion hyn, dylai'r cyrff monitro yng Nghymru a Lloegr wneud trefniadau i weithio ar y cyd.

Pa bwerau sydd gan y cyrff monitro a beth maent yn ei wneud?

- 20.6 Mae gan y cyrff monitro ddyletswydd i fonitro ac adrodd am gamau gweithredu'r LPS. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae'n ofynnol i'r Cyrff Cyfrifol hysbysu'r cyrff monitro am faterion penodol yn rheolaidd (eglurir dyletswydd hysbysu'r LPS yn fanylach ym mharagraff 25.17).
- 20.7 O dan y rheoliadau, mae gan y cyrff monitro'r pwerau canlynol y gallant eu cyflawni o ran awdurdodiadau LPS:

¹⁰⁶Yn fanwl, mae'r rheoliadau'n rhoi'r cyfrifoldeb ar 'Y Comisiwn' a Phrif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg, Gwasanaethau a Sgiliau Plant (HMCI). Ofsted yw 'swyddfa'r' HMCI.

- Ymweld â lleoliadau lle mae amddifadu o ryddid awdurdodedig yn cael ei gynnal (mae'n bosibl y bydd ymweliadau o'r fath yn gofyn i'r cyrff monitro gael y cydsyniad perthnasol, a eglurir yn fanylach isod yn yr adran – Cynnal ymweliadau).
- Cyfarfod â'r unigolyn y mae awdurdodiad yr LPS yn berthnasol iddo (naill ai yn y lleoliadau lle mae'r trefniadau awdurdodedig yn cael eu cynnal, neu rywle arall). Bydd angen cydsyniad yr unigolyn ar y cyrff monitro er mwyn cyfarfod â nhw, neu os oes y prinder gallu perthnasol gan yr unigolyn, mae'n bosibl y bydd angen penderfyniad budd pennaf, eglurir hyn yn fanylach isod yn yr adran – Cyfarfod â'r unigolyn sy'n ddarostyngedig i awdurdodiad LPS.
- Gofyn am fynediad i ac archwilio cofnodion sy'n gysylltiedig â gofal a thriniaeth yr unigolyn hwnnw. Gall y cyrff monitro ofyn am gofnodion gan y Corff Cyfrifol a awdurdododd yr amddifadu o ryddid, yn ogystal â lleoliad lle mae awdurdodiad ar waith cyn, yn ystod neu ar ôl iddynt ymweld â'r lleoliad.
- Cyfarfod ag unrhyw unigolyn sy'n gysylltiedig â gofalu am, neu sy'n ymddiddori yn lles yr unigolyn y mae awdurdodiad yr LPS yn berthnasol iddo. Gallai hyn gynnwys er enghraifft gweithiwr gofal, neu nyrs neu ofalwr teuluol yr unigolyn. Bydd angen cydsyniad yr unigolyn ar y cyrff monitro er mwyn cyfarfod â nhw a dylent hefyd ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn y mae awdurdodiad yr LPS yn berthnasol iddo. Pan fydd prinder gallu perthnasol gan yr unigolyn, mae'n bosibl y bydd angen penderfyniad budd pennaf. Mae'n rhaid gwneud y penderfyniad hwn yn unol ag adran 4 y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a dylid ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn y mae awdurdodiad yr LPS yn berthnasol iddo.

20.8 Er mwyn cyflawni'u dyletswydd i fonitro'r LPS, gall y cyrff monitro ddefnyddio rhai o'u pwerau, os y bo'n briodol, ar sail samplu achos.

20.9 Bydd y cyrff monitro i gyd yn adrodd yn flynyddol, gan grynhoi eu gweithgarwch a'u canfyddiadau am gamau gweithredu'r LPS. Yn Lloegr, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu paratoi ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, ac yng Nghymru, bydd yr adroddiad yn cael ei baratoi ar gyfer Gweinidogion Cymru.

Cyfarfod â'r unigolyn sy'n ddarostyngedig i awdurdodiad LPS

20.10 Er mwyn i'r cyrff monitro gyfarfod â'r unigolyn y mae'r awdurdodiad LPS yn berthnasol iddo, mae'n rhaid bod gan yr unigolyn hwnnw allu i gydsynio i'r cyfarfod a rhoi cydsyniad, neu mae'n rhaid pennu bod cyfarfod o'r fath er budd pennaf yr unigolyn yn unol ag adran 4 Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (MCA).

20.11 Mae'n rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniad budd pennaf fod yn atwrnai o dan Atwrneiaeth Arhosol neu'n ddirprwy a benodwyd gan y Llys Gwarchod, sydd â'r awdurdod perthnasol i wneud penderfyniad budd pennaf dilys am y cyfarfod. Os na fydd unigolyn o'r fath, gall unrhyw un sy'n gysylltiedig â gofalu am les yr unigolyn,

neu sy'n ymddiddori yn lles yr unigolyn, wneud y penderfyniad budd pennaf, gan gynnwys y cyrff monitro. I gael rhagor o wybodaeth am bwy all fod yn wneuthurwr penderfyniad a gwneud penderfyniad budd pennaf, gweler pennod X Cod Ymarfer yr MCA.

20.12 Gellir cynnal cyfarfodydd o'r fath yn y lle y mae'r awdurdodiad yn cael ei gyflawni neu mewn unrhyw le arall y cytunwyd arno gyda'r unigolyn. Os bydd gan yr unigolyn sy'n ddarostyngedig i awdurdodiad yr LPS allu i gydsynio i'r cyfarfod ac yn gofyn am gyfarfod preifat, dylai'r cyrff monitro gynnal y cyfarfod â'r unigolyn yn breifat, lle y bo'n briodol. Gallai cyfarfod fod wyneb yn wyneb er enghraifft, neu os y bo'n briodol, drwy ddefnyddio cyfleusterau cynadledda sain neu fideogynadledda. Wrth ystyried p'un ai i gynnal cyfarfod wyneb yn wyneb neu ddefnyddio cyfleusterau cynadledda sain neu fideogynadledda, dylai'r cyrff monitro ystyried anghenion cyfathrebu'r unigolyn. Dylid hefyd ofyn am farn y rhai hynny sy'n gofalu am yr unigolyn neu'r bobl sy'n ymddiddori yn lles yr unigolyn, lle bo hynny'n ymarferol ac yn briodol.

Cynnal ymweliadau

20.13 Gall monitro LPS gael ei wneud fel rhan o arolygiadau rheolaidd y cyrff monitro. Er enghraifft, gallai'r CQC fonitro'r LPS fel rhan o'u harolygiadau rheolaidd o gartrefi gofal. Yn yr un modd, er enghraifft, gallai Ofsted wneud yr un peth fel rhan o'u harolygiadau o gartrefi plant a lleoliadau addysg. Yn Lloegr, disgwylir i gyrff monitro ymateb yn briodol i bryderon sy'n codi mewn lleoliadau lle mae awdurdodiad LPS ar waith. Gall hyn gynnwys gwneud atgyfeiriadau priodol yn unol â pholisïau diogelu'r corff monitro a/neu atgyfeirio'r achos at y Corff Cyfrifol perthnasol.

20.14 Bydd gan gyrff monitro fframweithiau a pholisïau rheoliadol sydd eisoes yn bodoli a fydd yn berthnasol i'w harolygiadau rheolaidd. Wrth gynnal arolygiadau, bydd eisoes yn ofynnol i gyrff monitro barchu hawliau Erthygl 8 yr unigolyn i fywyd preifat a theuluol, o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Wrth wneud eu dyletswydd i fonitro ac adrodd, dylai cyrff monitro ystyried defnyddio neu addasu'r un safonau nid yn unig i leoliadau rheoledig, ond i bob lleoliad lle mae awdurdodiadau'n digwydd.

20.15 Er mwyn ymweld â chartrefi preifat neu rannau o adeiladau a ddefnyddir fel cartrefi preifat, dylai'r cyrff monitro ofyn am gydsyniad i ymweld â nhw. Gall cydsyniad o'r fath fod gan rywun heblaw'r unigolyn y mae awdurdodiad yr LPS yn berthnasol iddo gan ddibynnu ar y trefniadau byw, megis y perchnogion, deiliaid neu reolwyr y lle.

20.16 Nodir rhai enghreifftiau o'r mathau o sefyllfaoedd lle mae cydsyniad yn ofynnol a gan bwy ym mharagraff 20.17 isod. Fodd bynnag, bydd angen i gyrff monitro ystyried ac asesu amgylchiadau unigol yr achos, gan gynnwys a oes pobl eraill heblaw am yr unigolyn y mae awdurdodiad yr LPS yn berthnasol iddo sydd fel arfer yn byw yn yr eiddo hwnnw neu'n berchen arno.

- Ni ddylai gwrthod ymweliad godi pryder diogelu'n awtomatig. Er enghraifft, mae'n bosibl bod rhesymau dilys dros yr unigolyn y mae angen eu cydsyniad yn gwrthod ymweliad (megis i leihau gofid i'r unigolyn y mae awdurdodiad yr LPS yn berthnasol iddo).
- Pan fo gwrthodiad yn sbarduno pryder diogelu ar gyfer y corff monitro, dylai atgyfeirio at yr awdurdod lleol perthnasol lle bo hynny'n briodol, a lle nad yr awdurdod lleol yw'r Corff Cyfrifol, y Corff Cyfrifol. Er enghraifft, gallai hyn fod yn atgyfeiriad at awdurdod lleol sydd â dyletswydd statudol i archwilio achosion posibl o gamdriniaeth neu esgeulustod ar gyfer oedolyn ag anghenion gofal a chymorth (neu niwed arwyddocaol o ran pobl 16 a 17 oed). Gall y corff monitro barhau i gyfarfod â'r unigolyn y mae awdurdodiad yr LPS yn berthnasol iddo gyda'u cydsyniad mewn lleoliad arall yn unol â pharagraff 25.10.

20.17 Os bydd y corff monitro'n dod ar draw achos yn ystod eu harolygiadau lle byddant yn teimlo bod amddifadu o ryddid yn digwydd heb awdurdodiad, dylent hysbysu'r Corff Cyfrifol perthnasol cyn gynted â phosibl. Fel rhan o'u dyletswydd i adrodd am gamau gweithredu'r LPS, dylai'r cyrff monitro ystyried adrodd am niferoedd yr achosion hyn y maent yn dod ar eu traws yn eu hadroddiadau blynyddol.

System hysbysu

20.18 O dan yr LPS, mae gan Cyrff Cyfrifol ddyletswydd i hysbysu'r cyrff monitro'n rheolaidd ynghylch pan fyddant wedi derbyn atgyfeiriad LPS ac yn ystyried awdurdodi'r trefniadau ai peidio. Dylent hefyd hysbysu'r Corff Cyfrifol pan fydd awdurdodiadau'n cael eu rhoi, heb eu cymeradwyo, eu hadnewyddu neu'n dod i ben.¹⁰⁷

20.19 Dylid anfon hysbysiadau i'r corff monitro perthnasol yn rheolaidd ar sail oedran yr unigolyn yn unol â pharagraff 25.3. I sicrhau cysondeb o ran adrodd ar draws pob Corff Cyfrifol, mae gweinyddiaeth y cynllun hysbysu ar gyfer Cyrff Cyfrifol yn ddarostyngedig i gytundeb cenedlaethol yn Lloegr. Yng Nghymru, nodir hyn yn Strategaeth Monitro ac Adrodd cenedlaethol Cymru.

20.20 Pan fo cyrff monitro'n nodi tueddiadau sy'n peri pryder yn y data o ran y ffordd y mae Cyrff Cyfrifol unigol yn rhyddhau eu swyddogaethau o dan yr LPS, dylent gyfeirio'r pryderon hyn at y Corff Cyfrifol yn gyntaf. Er enghraifft, gall y cyrff monitro nodi nifer bach iawn o awdurdodiadau LPS gan un Corff Cyfrifol.

20.21 Pan na fydd y Corff Cyfrifol yn ymateb i'r pryderon hyn neu na fydd yn ymateb yn ddigonol, gall y cyrff monitro ofyn am fynediad i gofnodion sydd gan y Corff Cyfrifol,

¹⁰⁷ Mae hyn yn disodli'r ddyletswydd ar ddarparwyr i hysbysu CQC yn uniongyrchol ynghylch awdurdodiad o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Amddifadu o Ryddid (y system y gwnaeth LPS ei disodli).

a/neu ddefnyddio'r data i hysbysu gweithgarwch arolygu. Os bydd y corff monitro'n parhau i bryderu, gallant gyfeirio eu pryderon at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol (os bydd y pryderon yn berthnasol i CQC), yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg (os bydd y pryderon yn berthnasol i Ofsted) neu Gweinidog perthnasol yng Nghymru (os bydd y pryderon yn berthnasol i gyrff monitro yng Nghymru). Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried a ddylid cychwyn unrhyw bwerau sydd eisoes yn bodoli mewn ymateb i hyn.

DRAFT

21. Sut mae'r Ddeddf yn berthnasol i blant a phobl ifanc?

Mae'r bennod hon yn esbonio safbwynt pobl ifanc 16 ac 17 oed o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, gan gynnwys manylion am sut bydd y cynllun Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid (LPS) yn berthnasol i bobl 16 a 17 oed. Mae'r bennod hon hefyd yn edrych ar rai rhannau o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a all effeithio ar blant o dan 16 oed.

O fewn y Cod Ymarfer hwn, mae 'plant' yn cyfeirio at bobl o dan 16 oed. Mae 'pobl ifanc' yn cyfeirio at bobl 16 a 17 oed. Mae hyn yn wahanol i Ddeddf Plant 1989, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r gyfraith yn fwy cyffredinol, lle y defnyddir y term 'plentyn' i gyfeirio at bobl o dan 18 oed.

Mewn rhai rhannau, mae'r bennod hon hefyd yn cyfeirio at y system Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (SEND) ar gyfer pobl hyd at 25 oed. Bydd yn trafod defnydd y Cynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal (cynllun EHC) yn Lloegr¹⁰⁸, a Chynlluniau Datblygu Unigol (IDP) yng Nghymru¹⁰⁹.

Nid yw'r bennod hon yn ymdrin ag ymchwil, a drafodir ym mhennod 11.

Yn y bennod hon, fel drwy gydol y Cod, mae gallu (neu brinder gallu) unigolyn yn cyfeirio'n benodol at eu gallu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg pan fo angen ei wneud.

Crynodeb cyflym

Pobl ifanc 16–17 oed

¹⁰⁸Mae Adran 37 Deddf Plant a Theuluoedd 2014 yn nodi bod asesiad anghenion Addysg, Iechyd a Gofal (EHC) yn sicrhau bod anghenion plentyn neu unigolyn ifanc yn cael eu hasesu mewn ffordd gydlynol. Mae'n rhaid creu cynlluniau EHC gan yr awdurdod lleol ar y cyd â rhieni, plant a phobl ifanc ac mae'n rhaid iddynt fod yn seiliedig ar ddull cydgysylltiedig i ddarparu gwasanaethau ar draws addysg, iechyd a gofal, a gefnogir gan ddyletswydd i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau ar y cyd. Gall cynlluniau EHC barhau i fod ar waith o enedigaeth i 25 oed, ac maent yn canolbwyntio'n glir ar ganlyniadau, gan gynnwys y gefnogaeth y bydd ei hangen ar blentyn neu unigolyn ifanc i'w cyflawni – <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/6/section/37/enacted>

¹⁰⁹Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn sefydlu system statudol yng Nghymru ar gyfer bodloni anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc. Mae Adran 10 yn darparu ar gyfer cynlluniau datblygu unigol (IDPau). Mae IDP yn ddogfen sy'n cynnwys disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol yr unigolyn, disgrifiad o'r ddarpariaeth dysgu ychwanegol y mae ei hangen ar gyfer anhawster neu anabledd dysgu'r unigolyn, ac unrhyw beth arall sy'n ofynnol neu sydd wedi'i awdurdodi o dan Ddeddf 2018 - <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2018/2/section/10>.

- Mae'r rhan fwyaf o'r Ddeddf yn berthnasol i bobl ifanc 16–17 oed, a all fod â phrinder gallu o fewn adran 2(1) i wneud penderfyniadau penodol.
- Mae tri eithriad:
 - Pobl 18 oed neu'n hŷn yn unig sy'n gallu gwneud Atwrneiaeth Arhosol (LPA).
 - Pobl 18 oed neu'n hŷn yn unig sy'n gallu gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth feddygol.
 - Gall y Llys Gwarchod wneud ewyllys statudol yn unig ar gyfer unigolyn 18 oed neu'n hŷn.

Gofal neu driniaeth ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed

- **Mae'r un egwyddorion a dull sy'n berthnasol i oedolion yn berthnasol i bennu'r buddion pennaf o ran gofal neu driniaeth unigolyn ifanc sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniad. Mae hyn yn golygu ystyried y ffactorau a nodwyd yn y rhestr wirio budd pennaf (gweler pennod XX) i ganfod yr hyn sy'n iawn ar gyfer yr unigolyn ifanc pan fo angen gwneud y penderfyniad.**
- **Efallai bydd gweithwyr proffesiynol yn ei ystyried yn fwy priodol, oherwydd amgylchiadau'r achos, i ddibynnu ar gydsyniad unigolyn â chyfrifoldeb rhiant o ran gofal a thriniaeth yr unigolyn ifanc. Dylai gweithwyr proffesiynol fod yn eglur am ba fframwaith sy'n briodol a pham.**

Plant o dan 16 oed

- Nid yw'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn berthnasol i bobl o dan 16 oed yn gyffredinol.
- Mae dau eithriad:
 - Gall y Llys Gwarchod wneud penderfyniadau am eiddo neu arian plentyn (neu benodi dirprwy i wneud y penderfyniadau hyn) os bydd prinder gallu gan y plentyn i wneud penderfyniadau o'r fath o fewn adran 2(1) y Ddeddf ac yn debygol na fydd ganddynt y gallu i wneud penderfyniadau ariannol pan fyddant yn 18 oed (adran 18(3)).
 - Gall troseddau megis camdriniaeth neu esgeulustod bwriadol unigolyn sydd â phrinder gallu o fewn adran 2(1) hefyd fod yn berthnasol i ddiodefwrwyr sy'n iau nag 16 oed (adran 44).

Y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid (LPS)

- Mae'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid (LPS) yn darparu fframwaith cyfreithiol i ystyried a yw'r gofal a/neu driniaeth a gynllunnir ar gyfer unigolyn sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniadau penodol am y gofal a/neu driniaeth hon yn gyfystyr â'u hamddifadu o'u rhyddid. Mae hefyd yn galluogi, lle

bo'n briodol gwneud hynny, gwneud awdurdodiad i alluogi darparu'r gofal a/neu'r driniaeth hon. Mae'r gweithdrefnau hyn, ynghyd â darpariaethau eraill yr MCA, yn berthnasol i unrhyw unigolyn sy'n 16 oed neu'n hŷn.

- Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar brosesau'r LPS wrth iddynt effeithio ar bobl ifanc a'r rhai hynny rhwng 18 a 25 oed. Mae hefyd yn ystyried y berthynas rhwng LPS a fframweithiau cyfreithiol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau oedran hyn, megis Deddf Plant 1989 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n nodi rôl y rhai hynny â chyfrifoldeb rhiant wrth gefnogi unigolyn ifanc, rôl gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio gyda phobl ifanc, a'r broses ar gyfer defnyddio LPS i bobl ifanc.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a phobl 16 a 17 oed

- 21.1 Mae rhan fwyaf y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn berthnasol i bobl 16 a 17 oed sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniad penodol, yn unol â diffiniad y Ddeddf o brinder gallu a ddisgrifir ym mhennod 4.
- 21.2 Mae'n bosibl y bydd sefyllfaoedd lle mae naill ai'r Ddeddf Galluedd Meddyliol neu Ddeddf Plant 1989 yn berthnasol, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau penodol (gweler bellach baragraffau [xx] isod). Fodd bynnag, mae'n bosibl bod sefyllfaoedd hefyd lle na fydd un o'r Deddfau hyn yn rhoi ateb priodol. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl ei bod hi'n briodol i edrych ar y pwerau sydd ar gael o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 neu bwerau cynhenid yr Uchel Lys i ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phobl ifanc.

Deddfwriaeth ychwanegol ar gyfer pobl 16 a 17 oed

- 21.3 Dylai oedolion sy'n cefnogi pobl ifanc sy'n agored i niwed fod yn gyfarwydd â'u hawliau, a nodir mewn deddfwriaeth ddomestig a rhyngwladol, gan gynnwys Deddf Plant 1989, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Plant a Theuluoedd 2014, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018¹¹⁰, Deddf Addysg 1996, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, Deddf Cleifion Cronig a Phobl Anabl 1970, yn ogystal â Deddf Hawliau Dynol 1998. Dylid hefyd ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- 21.4 Yn Lloegr, mae'r 'cod ymarfer SEND 0 i 25 oed' statudol yn nodi dyletswyddau'r awdurdodau lleol, cyrff iechyd, ysgolion a cholegau i ddarparu ar gyfer y rhai hynny ag anghenion addysgol arbennig o dan ran 3 Deddf Plant a Theuluoedd 2014¹¹¹.

A oes unrhyw ran o'r Ddeddf nad yw'n berthnasol i bobl ifanc 16 neu 17 oed?

Atwrneiaethau Arhosol

- 21.5 Pobl 18 oed neu'n hŷn yn unig sy'n gallu gwneud Atwrneiaeth Arhosol (LPA) (adran 9(2)(c)).

Gwneud penderfyniadau ymlaen llaw ar gyfer pobl 16 a 17 oed

- 21.6 Ni all pobl ifanc 16 a 17 oed wneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth feddygol (gweler pennod xx).
- 21.7 Gall pobl ifanc 16 a 17 oed wneud datganiad ysgrifenedig ymlaen llaw, sy'n gallu trafod unrhyw agwedd o'u gofal iechyd neu gymdeithasol yn y dyfodol. Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i wneuthurwyr penderfyniad ei ystyried wrth wneud penderfyniad budd pennaf (gweler pennod xx).

Gwneud ewylllys

- 21.8 Yn gyffredinol, nid yw'r gyfraith yn caniatáu i unrhyw un o dan 18 oed wneud ewylllys. Mae Adran 18(2) yn cadarnhau bod y Llys Gwarchod yn gallu gwneud ewylllys statudol yn unig ar ran y rhai hynny sy'n 18 oed neu'n hŷn.

¹¹⁰ Tan fod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn dod i rym [disgwylir iddi ddechrau dod i rym o ddiwedd 2021], mae rhan IV Deddf Addysg 1996 (a Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig dros Gymru) yn darparu ar gyfer darpariaeth datganiadau anghenion addysgol arbennig yng Nghymru.

¹¹¹ <https://www.gov.uk/government/publications/send-code-of-practice-0-to-25>

Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am ofal neu driniaeth pobl ifanc 16 neu 17 oed?

- 21.9 Mae'r gyfraith yn berthnasol i bobl 16 a 17 oed yn wahanol i'r ffordd y mae'n berthnasol i oedolion mewn dwy ffordd bwysig yng nghyd-destun penderfyniadau am ofal a thriniaeth:
- 21.10 Gellir gwneud penderfyniadau mewn perthynas â phobl 16 a 17 oed sydd â phrinder gallu mewn sawl achos naill ai drwy gyfeirio at y Ddeddf Galluedd Meddyliol neu drwy gyfeirio at Ddeddf Plant 1989 a gweithredu cyfrifoldeb rhiant¹¹². Gall gweithwyr proffesiynol felly ddewis pa drefn i'w gweithredu, ond dylent fod yn eglur ynghylch pa un maent yn ei defnyddio.
- 21.11 Fel y nodir uchod, nid oes gan bobl 16 a 17 oed yr hawl lwyr i wrthod triniaeth feddygol. Gall llys ddiystyru eu gwrthodiad, hyd yn oed os nad oes unrhyw amheuan am eu gallu i wneud penderfyniadau.

Defnyddio'r Ddeddf

- 21.12 Gellir defnyddio'r un egwyddorion a dulliau sy'n berthnasol i oedolion wrth ystyried gallu unigolyn ifanc i wneud penderfyniadau. Yn gyffredinol, gall gweithiwr proffesiynol weithredu ar gydsyniad unigolyn ifanc i unrhyw driniaeth lawfeddygol, meddygol neu ddeintyddol os byddant yn credu'n rhesymol bod gan yr unigolyn ifanc y gallu i roi'r cydsyniad hwnnw¹¹³.
- 21.13 Gellir defnyddio'r un egwyddorion a dulliau sy'n berthnasol i oedolion i benderfynu beth sydd er y budd pennaf unigolyn ifanc sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniad, o dan adran 2(1) y Ddeddf. Mae hyn yn golygu ystyried y ffactorau yn y rhestr wirio budd pennaf (gweler pennod XX) i ganfod yr hyn sy'n iawn ar gyfer yr unigolyn ifanc pan fo angen gwneud y penderfyniad.
- 21.14 Pan fo'n ymarferol ac yn briodol gwneud hynny, mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol ddysgu, y gorau y gallant, beth yw dymuniadau a theimladau'r unigolyn ifanc, ynghyd â safbwyntiau unrhyw un sy'n ymddiddori yn eu gofal a'u lles, ac ystyried y safbwyntiau hyn yn ofalus wrth ddod i benderfyniad. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai hyn gynnwys rhieni'r unigolyn ifanc neu eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant am yr unigolyn ifanc. Dylid bod yn ofalus i beidio â thorri hawl yr unigolyn ifanc i gyfrinachedd yn anghyfreithlon (gweler pennod 25).
- 21.15 Os bydd unigolyn ifanc wedi dweud nad ydynt yn dymuno i'w rhieni gael eu hymgyngori, mae'n bosibl na fydd yn briodol i'w cynnwys (er enghraifft, pan gafwyd honiadau o gamdriniaeth). Os bydd anghytundeb rhwng y bobl sy'n

¹¹²Mae'r cysyniad o gyfrifoldeb rhiant yn Neddf Plant 1989 yng nghyd-destun cydsyniad yn cael ei roi ar ran rywun yn berthnasol yng Nghymru yn ogystal â Lloegr - <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/section/3>

¹¹³Adran 8 Deddf Diwygio Cyfraith Teulu 1969-<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1969/46/section/8>

ymwneud â gofal yr unigolyn ifanc o ran yr hyn sydd er y budd pennaf iddynt, yna dylid dilyn y camau a nodwyd ym mhennod.

Senario: Canfod beth yw budd gorau unigolyn ifanc

Mae Ms M yn 16 oed ac mae ganddi Syndrom Down. Mae ei mam yn mynd â hi at y deintydd ac yn dweud wrth y deintydd ei bod hi'n credu y dylai Ms M gael triniaeth ddeintyddol nad yw'n angenrheidiol yn feddygol ond y bydd yn gwella sut mae dannedd Ms M yn edrych.

Mae'n rhaid i'r deintydd benderfynu gwneud y driniaeth gosmetig ai peidio. I gael ei hamddiffyn o dan adran 5 y Ddeddf (amddiffyniad rhag atebolrwydd), mae'n rhaid iddi ystyried a oes gan Ms M allu i gytuno i'r driniaeth ac, os na, beth fyddai er y budd pennaf iddi. Mae'r deintydd yn siarad â Ms M ac yn ei hasesu fel bod â phrinder gallu i ddeall yr hyn sydd ynghlwm â'r driniaeth neu'r goblygiadau posibl, ac felly â phrinder gallu i wneud y penderfyniad.

Fodd bynnag, mae arsylwi a siarad â Ms M yn dangos ei bod hi'n hunan-ymwybodol iawn am ei dannedd ac mae wedi bod yn ofidus am sylwadau y mae pobl wedi gwneud amdanynt. Mae'n dweud ei bod yn dymuno i'w dannedd edrych yn well.

Mae'r deintydd yn ystyried dymuniadau Ms M wrth benderfynu a yw'r driniaeth er y budd pennaf i Ms M. Mae hi hefyd yn ymgynghori â rhieni Ms M yn ogystal â'i hathro a'i meddyg teulu i weld a oes unrhyw ffactorau perthnasol eraill i'w hystyried. Mae'r athro'n cadarnhau bod Ms M yn hunan-ymwybodol am ei hedrychiad, ac mae'r meddyg teulu'n dweud na fyddai unrhyw broblemau meddygol yn codi o'r driniaeth.

Mae'r deintydd yn penderfynu bod y driniaeth yn debygol o wella hyder a hunan-barch Ms M ac mae er ei budd pennaf.

Y gyfraith gyffredin: cyfrifoldeb rhiant

- 21.16 Pan fydd gan unigolyn ifanc y prinder gallu perthnasol o dan adran 2(1) y Ddeddf, gall gweithwyr proffesiynol, lle bo amgylchiadau'n dangos ei bod yn briodol gwneud hynny, ddewis gofyn am gydsyniad y rhai hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant yn hytrach na dibynnu ar y darpariaethau budd pennaf o fewn yr MCA a nodir ym mhennod 5. Pan fo unigolyn â chyfrifoldeb rhiant yn rhoi cydsyniad neu'n ei wrthod, bydd yn rhaid iddynt wneud penderfyniad yn seiliedig ar yr hyn sydd er y budd pennaf i'r unigolyn ifanc.
- 21.17 Os bydd y gweithwyr proffesiynol yn ystyried nad yw'r unigolyn â chyfrifoldeb rhiant yn gweithredu er budd pennaf yr unigolyn ifanc, ac os na fyddant yn gallu cytuno â'r

unigolyn hwn o ran yr hyn y dylid ei wneud, yna bydd angen iddynt wneud cais i'r llys. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os bydd y gweithwyr proffesiynol yn ystyried bod yr unigolyn â chyfrifoldeb rhiant yn gwrthod rhoi cydsyniad i driniaeth benodol ar ran yr unigolyn ifanc ac nad yw hyn er y budd pennaf i'r unigolyn ifanc.

21.18 Pan na fydd unrhyw un wedi'u nodi fel bod ganddynt gyfrifoldeb rhiant am unigolyn ifanc sydd â phrinder gallu, mae'n rhaid defnyddio fframwaith yr MCA i wneud penderfyniadau.

Y gyfraith gyffredin: pobl ifanc y tu allan i gwmpas y Ddeddf Galluedd Meddyliol

21.19 Mae'n bosibl bydd rhai pobl ifanc yn ymddangos fel nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniad penodol, ond efallai na fydd yn eglur a yw hyn oherwydd nam neu amhariad ar weithrediad eu meddwl neu ymennydd. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddant yn ymddangos fel petaent wedi'u gorlethu gan effeithiau'r penderfyniad, gan na fu rhaid iddynt wneud penderfyniad o'r fath yn y gorffennol. Mewn sefyllfa o'r fath, dylid eu cefnogi gyda chymaint o amser, lle ac esboniad ag sy'n ymarferol i'w galluogi i wneud y penderfyniad. Pan fo'n bosibl, dylid gofyn am gymorth arbenigol er mwyn nodi a yw anallu'r unigolyn ifanc i wneud y penderfyniad yn deillio o nam neu amhariad i weithrediad y meddwl neu'r ymennydd na ellir ei adnabod.

21.20 Os na fydd yr unigolyn ifanc yn gallu gwneud y penderfyniad hyd yn oed gyda chefnogaeth, ac nad yw'r rhai hynny sydd ynghlwm yn ystyried yn rhesymol bod gan yr unigolyn ifanc brinder gallu sy'n berthnasol o fewn adran 2(1) y Ddeddf, bydd y gyfraith gyffredin yn berthnasol. Yn yr amgylchiadau hyn, gellid gofyn am gydsyniad gan unigolyn â chyfrifoldeb rhiant, neu, fel arall ac yn eithriadol, gallai athrawiaeth angenrheidiol fod yn berthnasol. Byddai hyn yn darparu amddiffyniad ar gyfer unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen yn syth i ddiogelu buddiannau'r unigolyn¹¹⁴. Os bydd y penderfyniad yn ymwneud â sefyllfa barhaus (er enghraifft ael eu derbyn ac aros yn yr ysbyty), dylai'r unigolyn ifanc barhau i gael chefnogaeth, a dylid parhau i adolygu eu gallu i wneud penderfyniadau.

Pa lysoedd sy'n ystyried achosion sy'n cynnwys pobl ifanc?

21.21 Gallai gwahanol lysoedd/tribiwnlysoedd fod yn rhan o bennu materion sy'n ymwneud ag unigolyn ifanc sydd â'r prinder gallu perthnasol. Er enghraifft, gallai'r Llys Teulu fod yn gysylltiedig i adolygu defnydd awdurdod lleol o ddarpariaeth o fewn Deddf Plant 1989 neu Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gallai'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Anghenion Addysgol Arbennig ac

¹¹⁴ Mae'n bosibl y bydd hefyd yn angenrheidiol gwneud cais i'r Uchaf Lys o dan ei awdurdodaeth gynhenid i bennu'r hyn ddylai ddigwydd.

Anabledd (Lloegr) neu'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)¹¹⁵ fod yn gysylltiedig â phenderfyniad sy'n ymwneud â darpariaeth addysgol. Bydd natur yr her neu'r gwrthwynebiad yn pennu pa lys sy'n gallu pennu'r mater.

Y gydberthynas rhwng y Llys Teulu a'r Llys Gwarchod

- 21.22 Gellir gwranddo ar achos sy'n ymwneud ag unigolyn ifanc sydd â phrinder galluedd meddyliol i wneud penderfyniad penodol yn y Llys Teulu (mwy na thebyg yn Is-adran Deuluol yr Uchaf Lys) neu yn y Llys Gwarchod. Bydd hyn yn dibynnu ar a ellir diogelu buddiannau'r unigolyn ifanc yn fwy effeithiol o fewn y Llys Gwarchod neu o dan y Ddeddf Plant¹¹⁶. Os yw'n debygol y bydd achos yn gofyn am benderfyniadau parhaus (oherwydd disgwylir y bydd yr unigolyn ifanc yn parhau i fod â phrinder gallu pan fyddant yn 18 oed), mae'n bosibl y bydd yn fwy priodol i'r Llys Gwarchod wrando ar yr achos. Ar gyfer achosion untro nad ydynt yn ymwneud ag eiddo neu faterion ariannol, gall yr Is-adran Deuluoedd fod yn fwy priodol.
- 21.23 Mae'r Llys Teulu ac Adran Deuluol yr Uchaf Lys yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â chyfraith teulu gyhoeddus (a phreifat) – mae'r rhain yn achosion lle mae awdurdod lleol yn ymwneud â gofal plentyn hyd at 18 oed oherwydd pryderon diogelu neu les sy'n ymwneud â'r plentyn hwnnw.
- 21.24 Mewn rhai achosion, hyd yn oed os bydd materion o dan yr MCA yn cael eu hystyried, mae'n bosibl mai'r Llys Teulu fydd y llys mwy priodol i ystyried yr achos. Bydd y llysoedd yn penderfynu ar hyn yn y pen draw.

¹¹⁵ [o fis Medi 2021 – Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig dros Gymru (SENTW) ar hyn o bryd] - <https://specialeducationalneedstribunal.gov.wales/>

¹¹⁶ B (Awdurdod Lleol) yn erbyn RM ac Ors [2010] EWHC 3802 (Teulu) - <https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Fam/2010/3802.html>

21.25 Fel bod y llys priodol yn gwranddo ar achos, gall y Llys Gwarchod drosglwyddo achosion i'r llys teulu, ac i'r gwrthwyneb. Mae Gorchymyn Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Trosglwyddo Achosion) yn nodi pryd y gellir trosglwyddo achosion yn y Llys Gwarchod i lys ag awdurdodaeth o dan y Ddeddf Plant, ac i'r gwrthwyneb, a sut i ymdrin ag achosion.

Senario: Gwranddo ar achosion yn y llys priodol

Mae Ms S yn 17 oed. Mae ganddi anableddau dysgu ac mae wedi byw gyda'i mam ers i'w rhieni ysgaru sawl blwyddyn yn ôl.

Mae tad Ms S yn poeni nad yw ei mam yn ei galluogi i ddatblygu sgiliau bywyd ac annibyniaeth i'w llawn botensial, ac mae'n dweud y byddai'n well i Ms S symud i lety preswyl lle y bydd hi'n cael ei chynorthwyo i ddysgu i fyw'n fwy annibynnol fel oedolyn. Mae mam Ms S yn anghytuno ac yn dweud ei bod hi am barhau i ofalu am Ms S gartref. Mae prinder gallu gan Ms S i benderfynu lle y dylai fyw, ond mae'n mynegi ei dymuniadau i barhau i fyw gyda'i mam.

Mae tad Ms S yn siarad â'r awdurdod lleol gan fynegi'i farn am le y dylai Ms S fyw. Gan nad oes modd datrys yr anghytundeb â mam Ms S, mae tad Ms S yn gwneud cais i'r Llys Gwarchod am orchymyn i benderfynu ble y dylai Ms S fyw. (Gellid gwneud gorchymyn gan y llys teulu o dan Ddeddf Plant 1989 ond byddai hyn yn dod i ben ar ben-blwydd Ms S yn 18 oed ac felly ni fyddai'n briodol ar gyfer achos Ms S.) Gall gorchymyn y Llys Gwarchod barhau i'r adeg pan fydd Ms S yn oedolyn.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a phlant o dan 16 oed

21.26 Mae adran 2(5) y Ddeddf yn nodi, ag eithrio adran 2(6), nid oes modd defnyddio unrhyw bwerau o dan y Ddeddf ar gyfer unrhyw blentyn o dan 16 oed.

21.27 Mae adran 2(6) yn gwneud eithriad ar gyfer rhai penderfyniadau am eiddo a materion ariannol plentyn. Gall y Llys Gwarchod wneud penderfyniadau am eiddo a materion personol y rhai sydd o dan 16 oed mewn achosion lle disgwylir i'r unigolyn barhau i fod â phrinder gallu i wneud penderfyniadau ariannol ar ôl cyrraedd 18 oed. Bydd penderfyniad y llys yn parhau'n berthnasol pan fydd yr unigolyn yn cyrraedd 18 oed, sy'n golygu na fydd angen achosion llys pellach unwaith y bydd yr unigolyn yn cyrraedd 18 oed.

21.28 Gall y Llys Gwarchod:

- wneud gorchymyn (er enghraifft, o ran buddsoddi iawndal ar gyfer y plentyn), a/neu
- benodi dirprwy i reoli eiddo a materion personol y plentyn a gwneud penderfyniadau ariannol parhaus ar ran y plentyn.

21.29 Wrth wneud penderfyniad, mae'n rhaid i'r llys ddilyn egwyddorion y Ddeddf a phenderfynu er y budd pennaf i'r plentyn fel a nodwyd ym mhennod 5.

21.30 Mae troseddau fel camdriniaeth neu esgeulustod bwriadol o unigolyn sydd â phrinder gallu o fewn adran 44 y Ddeddf hefyd yn berthnasol i unigolyn o unrhyw oedran, gan gynnwys plentyn (gweler ymhellach ym mhennod XX).

Sut y mae'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid yn berthnasol i Bobl Ifanc?

21.31 Mae'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid (LPS) yn darparu fframwaith cyfreithiol i'w ddefnyddio i ystyried ac, os y bo'n briodol, awdurdodi trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid er mwyn darparu gofal neu driniaeth i unigolyn nad oes ganddo'r galluedd meddyliol perthnasol i gydsynio i'r trefniadau hynny. Os bydd trefniadau o bosibl yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, ac nad yw'r unigolyn ifanc y mae'r trefniadau wedi'u trefnu ar eu cyfer yn gallu cydsynio i'r trefniadau a gynigir, hyd yn oed â chymorth, yna mae'n bosibl y bydd yn angenrheidiol sbarduno proses asesu'r LPS. Gweler pennod 13 am broses gyffredinol yr LPS.

21.32 Dylai amddifadu o ryddid fod am y cyfnod amser priodol byrraf ac mae'n rhaid iddo fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Dylid ystyried opsiynau llai cyfyngol bob tro cyn rhoi trefniadau ar waith sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Gweler pennod 12 i gael diffiniad amddifadu o ryddid.

21.33 Mae egwyddorion y Ddeddf yn berthnasol unwaith y mae unigolyn ifanc yn troi'n 16 oed. Felly, ni all awdurdodiad LPS ddod i rym cyn pen-blwydd unigolyn ifanc yn 16 oed. Fodd bynnag, gellir rhoi awdurdodiad LPS hyd at 21 niwrnod cyn iddo ddod i rym. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl ei bod hi'n briodol i awdurdodi'r trefniadau o dan LPS cyn pen-blwydd yr unigolyn ifanc yn 16 oed, er mwyn i'r awdurdodiad ddod i rym ar y diwrnod hwnnw. Pan mai dyma'r achos, dylid nodi hyn yn glir o fewn cofnodion yr unigolyn ifanc.

21.34 Efallai bod yr unigolyn ifanc wedi bod o dan drefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid cyn iddynt fod yn 16 oed. Os bydd trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid yn ofynnol cyn i'r unigolyn ifanc droi'n 16 oed, dylai fod gan y trefniadau hyn yr awdurdodiad priodol er mwyn bod yn gyfreithlon. Er enghraifft, gorchymyn gan yr Uchaf Lys neu o dan gynllun statudol priodol, fel adran 25 Deddf Plant 1989 neu Ddeddf Iechyd Meddwl 1989. Os bydd disgwyliad rhesymol y bydd y trefniadau hyn yn parhau i fod yn angenrheidiol unwaith y bydd unigolyn ifanc yn troi'n 16 oed,

dylid cynllunio ar gyfer hyn ymhell ymlaen llaw. Ni ddylai gwneuthurwyr penderfyniad aros i'r unigolyn ifanc droi'n 16 oed i ffurfioli'r fath drefniadau.

21.35 Dylid cefnogi'r unigolyn ifanc cyn belled â phosibl i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau am broses yr LPS a'r trefniadau a gynigir. Wrth wneud hynny, dylai ymarferwyr drafod a chytuno ar y dulliau cyfathrebu mwyaf priodol â'r rhai hynny sy'n ymwneud â gofal yr unigolyn. Os bydd yr unigolyn ifanc yn mynegi nad ydynt yn dymuno preswyllo neu dderbyn gofal neu driniaeth mewn lle yn ystod y broses asesu, bydd yn rhaid i'r Corff Cyfrifol gyfeirio'r achos at Weithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol. Gweler pennod 18 i gael mwy o wybodaeth am AMCP.

Beth yw'r rhyngweithiad rhwng yr LPS a Chynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal a Chymorth yn Lloegr, neu Gynlluniau Datblygu Unigol yng Nghymru?

21.36 Bydd gan nifer o bobl ifanc sy'n ddarostyngedig i awdurdodiad LPS anghenion addysgol arbennig cymhleth (yn Lloegr) neu anghenion dysgu ychwanegol cymhleth (yng Nghymru) ac felly bydd ganddynt hefyd gynllun EHC neu IDP yn y drefn honno. Ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â chynlluniau EHC, dylid dechrau cynllunio ar gyfer bod yn oedolyn o flwyddyn 9 yn yr ysgol, yn unol â'r disgwyliadau a nodwyd yng Nghod Ymarfer SEND¹¹⁷. Yn yr un modd, dylai'r dull hwn hefyd gael ei ddefnyddio ar gyfer plant a phobl ifanc ag IDP yng Nghymru yn unol â disgwyliadau a nodwyd yng Nghod yr ALN.

21.37 Pan fo'r unigolyn ifanc o dan drefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid, dylai adolygiadau o 14 oed ymlaen ystyried a ydynt yn parhau'n angenrheidiol ac yn gymesur, gan gynnwys ystyried dewisiadau llai cyfyngol.

21.38 Yn yr un modd, os bydd yr unigolyn ifanc yn symud i leoliad newydd neu os bydd eu cynllun yn newid yn y fath ffordd a all olygu bod trefniadau newydd ar gyfer gofal neu driniaeth yr unigolyn yn ofynnol a all fod yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, yna dylid ystyried hyn wrth adolygu. Mae'n arbennig o bwysig bod awdurdodau lleol yn mynychu adolygiadau blwyddyn 9 i archwilio'r angen posibl ar gyfer awdurdodiad LPS yn 16 oed.

21.39 Os bydd trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid yn ofynnol unwaith y bydd yr unigolyn ifanc wedi troi'n 16 oed, yn y rhan fwyaf o achosion, dylai proses yr LPS gael ei sbarduno ar adeg briodol cyn eu pen-blwydd yn 16 oed.

21.40 Dylai ymarferwyr a gwneuthurwyr penderfyniad sy'n gysylltiedig â phroses yr LPS fod yn ymwybodol o sut mae'n rhyngweithio â'r ddarpariaeth addysg arbennig ychwanegol a nodwyd yng nghynllun EHC yr unigolyn ifanc, neu'r ddarpariaeth

¹¹⁷ Gweler ymhellach *Cod Ymarfer SEND: 0 i 25 oed* (2015), paragraffau 8.9-8.12 <https://www.gov.uk/government/publications/send-code-of-practice-0-to-25>

dysgu ychwanegol a nodwyd yn IDP yr unigolyn ifanc. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ynn Nghod Ymarfer SEND neu God yr ALN.

- 21.41 Unwaith y mae proses yr LPS yn cael ei sbarduno, dylid dilyn y broses a nodir ym mhennod XX. Lle bo'n briodol, a chyn belled â phosibl, dylid gwneud unrhyw asesiadau neu ymgynghoriadau ar gyfer proses yr LPS ar y cyd ag ymgynghoriadau neu asesiadau ar gyfer unrhyw newidiadau i gynllun yr unigolyn ifanc. Gweler gwybodaeth am ddyletswydd ymgynghori'r LPS ym mhennod 17 ac asesiadau'r LPS ym mhennod 16.
- 21.42 Bydd gweithwyr proffesiynol addysg, iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cynorthwyo'r unigolyn ifanc a'u teulu fel rhan o broses gynllunio'r EHC neu IDP yn adnabod yr unigolyn ac yn ymwybodol o'u dymuniadau a'u teimladau orau, ac felly dylid ymgynghori â nhw fel rhan o broses asesu'r LPS.
- 21.43 Pan fydd y Corff Cyfrifol yn rhoi awdurdodiad LPS ar gyfer trefniadau gofal a thriniaeth unigolyn ifanc, bydd cofnod awdurdodi'n cael ei roi i'r unigolyn ifanc a'u Person Priodol neu Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA). Mae cofnod awdurdodi'r LPS yn annibynnol o gynlluniau EHC (yn Lloegr) neu IDPau (yng Nghymru). Fodd bynnag, dylid cynnwys unrhyw wybodaeth mewn cofnod awdurdodi LPS sy'n berthnasol i fodloni anghenion dysgu arbennig unigolyn ifanc yn eu cynllun EHC neu IDP.
- 21.44 Mae cofnodion awdurdodi'r LPS yn ymwneud yn benodol â'r trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid, amserlen adolygiadau, hyd awdurdodiad, a'r gymorth a'r gynrychiolaeth ar gyfer yr unigolyn. Tra bo cynllun EHC neu IDP yn nodi anghenion dysgu addysgol arbennig/anghenion dysgu arbennig yr unigolyn ifanc a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i fodloni'r anghenion hynny i gyflawni gwell canlyniad. Gan fod cysylltiadau agos rhwng y cofnod awdurdodi a chynllun EHC neu IDP, dylai awdurdodau lleol (lle mai nhw yw'r Corff Cyfrifol) ystyried cysylltu adolygiadau o awdurdodiadau LPS a chynlluniau EHC neu IDPau. Bydd camau o'r fath yn sicrhau bod trafodaeth gydgysylltiedig yn cael ei chynnal am sut i fodloni anghenion yr unigolyn ifanc orau, ac i'w cynorthwyo i baratoi ar gyfer bod yn oedolyn.
- 21.45 Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd yr unigolyn ifanc neu eraill, megis eu rhieni, yn apelio at y Tribiwnlys SEND Haen Gyntaf yn erbyn yr EHCP. Gall hyn gynnwys apêl yn erbyn yr ysgol neu sefydliad arall a nodir yn yr EHCP. Os bydd awdurdodiad LPS ar waith ar gyfer y lleoliad gwreiddiol, a bod y Tribiwnlys yn cyfarwyddo bod yr unigolyn ifanc yn cael ei roi mewn lleoliad gwahanol, mae'n bosibl y bydd angen adolygu'r awdurdodiad a/neu ddod ag ef i ben. Os bydd trefniadau gofynnol yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid yn y lleoliad newydd, yna dylid sbarduno proses yr LPS eto.

Beth yw'r gydberthynas rhwng cynlluniau gofal a chymorth (ar gyfer plant sy'n derbyn gofal) ac awdurdodiadau LPS?

- 21.46 Nid yw awdurdodiad LPS yn bŵer i roi unigolyn ifanc mewn lleoliad penodol: mae'n awdurdodi'r trefniadau o fewn y lleoliad hwnnw ar gyfer gofal a thriniaeth yr unigolyn ifanc sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid.
- 21.47 Oni bai bod yr unigolyn ifanc yn cael ei amddifadu o ryddid yn bennaf mewn ysbyty'r GIG, y Corff Cyfrifol ar gyfer plentyn sy'n ddarostyngedig i LPS sy'n derbyn gofal fydd yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb ar gyfer yr unigolyn ifanc hwnnw fel arfer. Bydd hyn hefyd yn wir pan fo plentyn sy'n derbyn gofal yn glaf mewn ysbyty cyn eu pen-blwydd yn 16 oed, ac y mae'n debygol y bydd y trefniadau hynny'n parhau.
- 21.48 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddatblygu cynllun gofal (yn Lloegr) neu gynllun gofal a chymorth (yng Nghymru) ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal. Bydd y cynllun hwn yn amlinellu anghenion datblygiadol y plentyn hwnnw ac yn nodi sut y byddant yn cael eu bodloni. Pan fo'r awdurdod lleol yn dechrau gofalu am blentyn yn 16 neu'n 17 oed, ac mae'n debygol y bydd angen awdurdodiad LPS, dylid cynnal proses yr LPS ar y cyd â'r cynllun gofal cychwynnol.
- 21.49 Yn yr un modd, os bydd y plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol cyn eu pen-blwydd yn 16 oed, a'i bod yn ymddangos y bydd angen awdurdodiad LPS ar y plentyn, dylai'r awdurdod lleol gynllunio ar gyfer hyn cyn gynted â phosibl. Gall hyn gynnwys adolygu trefniadau gofal yr unigolyn ifanc i bennu a ydynt yn angenrheidiol ac yn gymesur neu a fyddai trefniadau newydd yn fwy priodol. Dylai gwneuthurwyr penderfyniad bob amser ystyried opsiynau llai cyfyngol cyn belled â phosibl. Pan fydd trefniadau'n cael eu hadolygu, dylid cynnal proses yr LPS ar y cyd â hyn lle y bo'n berthnasol.
- 21.50 Dylid ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn ifanc o fewn proses yr LPS a'r broses cynllunio gofal. Cyn belled ag y bo'n bosibl yn ymarferol, dylai'r awdurdod lleol gynnal yr ymgynghoriad ar gyfer LPS ar y cyd â'r broses i ganfod dymuniadau a theimladau'r unigolyn o ran y gofal. Yn yr un modd, wrth wneud trefniadau o dan y cynllun gofal a chymorth, dylid gwneud yr asesiad a'r penderfyniad ar angenrheidrwydd a chymesuredd ar yr un pryd. Gweler pennod XX ar gyfer ymgynghoriadau a phennod XX ar gyfer asesiadau a phenderfyniadau.
- 21.51 Mae'n bosibl bod gan yr unigolyn ifanc EHC neu IDP hefyd. Gweler Cod Ymarfer SEND, Lloegr, a Chod Ymarfer yr ALN, Cymru, i gael mwy o wybodaeth am ryngweithiad y cynlluniau hyn.
- 21.52 Dylid gwneud adolygiadau o awdurdodiadau LPS ar y cyd ag adolygiadau o gynllun gofal a chymorth LAC yr unigolyn ifanc (Lloegr) neu gynllun gofal a chymorth (Cymru), cyn belled ag y bo'n bosibl yn ymarferol.

Cartrefi Plant Diogel ac anghymeradwyaeth Adran 25 o dan Ddeddf Plant 1989 ac Adran 119 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

- 21.53 Pan fydd awdurdod lleol wedi awdurdodi trefniadau o dan LPS ar gyfer unigolyn ifanc mewn llety megis cartref plant diogel, ni fydd adran 25 (Lloegr) neu adran 119 (Cymru) yn berthnasol. I gael mwy o wybodaeth am adran 25 o dan Ddeddf Plant 1989, gweler y canllawiau cynorthwyol ar gyfer y ddeddfwriaeth hon¹¹⁸.
- 21.54 Pan fo unigolyn ifanc yn cael ei roi mewn llety diogel o dan LPS, dylai Cyrff Cyfrifol adolygu'r trefniadau hyn yn yr un modd ag y byddent yn cael eu hadolygu o dan adran 25 neu adran 119. Mae hyn yn golygu y dylid adolygu trefniadau un mis ar ôl iddynt ddechrau, ac yna'n rheolaidd o hynny ymlaen gyda thri mis rhwng pob adolygiad ar y mwyaf.

Pwy sy'n addas i fod yn Berson Priodol ar gyfer unigolyn ifanc?

- 21.55 Gall rhiant unigolyn ifanc ymgymryd â'r rôl hon, os byddant yn addas (gweler paragraffau XX i XX ynghylch rôl y rhiant, a mwy o wybodaeth am benodi Person Priodol ym mhennod XX).
- 21.56 Fodd bynnag, ni all rhywun sy'n gysylltiedig â gofal neu driniaeth unigolyn yn broffesiynol neu'n cael eu talu fod yn Berson Priodol (e.e. meddyg, nyrs, gweithiwr cymdeithasol etc.). Ar gyfer achosion pobl ifanc mewn gofal maeth, mae hyn yn golygu na all y gofaluwr maeth ymgymryd â'r rôl hon. Gan fod plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal yn grŵp o bobl ifanc sy'n agored i niwed, mae eu cynrychiolaeth drwy broses yr LPS yn hynod bwysig. Os nad oes unigolyn addas i ymgymryd â rôl Person Priodol, mae'n rhaid penodi IMCA. I gael gwybodaeth bellach am benodi IMCA, gweler pennod XXX.
- 21.57 Mae'n bosibl bod gan yr unigolyn ifanc eiriolwr o dan ddeddfwriaeth arall, megis Deddf Plant 1989 neu Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Os bydd yr eiriolwr hwnnw hefyd wedi'i hyfforddi fel IMCA LPS, gellir hefyd eu penodi i weithredu fel IMCA yr unigolyn ifanc. Fel arall, os na fyddant wedi'u hyfforddi fel IMCA LPS, efallai eu bod yn addas i ymgymryd â rôl y Person Priodol, ar yr amod eu bod yn fodlon ymgymryd â'r rôl.

Pwy yw'r Corff Cyfrifol cywir?

- 21.58 Y Corff Cyfrifol yw'r sefydliad sy'n gyfrifol am broses yr LPS. Mae hyn yn cynnwys comisiynu'r asesiadau a phenderfyniadau, cynnal ymgynghoriadau, penderfynu p'un ai awdurdodi trefniadau ai peidio, ac adolygu awdurdodiadau.
- 21.59 Yn Lloegr, mae Cyrff Cyfrifol yn cynnwys awdurdodau lleol, Rheolwyr Ysbyty Ymddiriedolaethau'r GIG a Grwpiau Comisiynu Clinigol. Yng Nghymru, mae Cyrff

¹¹⁸<https://www.gov.uk/government/publications/children-act-1989-court-orders--2>

Cyfrifol yn cynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Ar gyfer pobl ifanc, yn y rhan fwyaf o achosion, yr awdurdod lleol fydd y Corff Cyfrifol cywir. Mae Pennod XX yn rhoi gwybodaeth bellach am rôl y Corff Cyfrifol a nodi'r Corff Cyfrifol priodol mewn sefyllfaoedd gwahanol.

Pa leoliadau all awdurdodiadau LPS eu defnyddio ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed?

21.60 Gellir rhoi awdurdodiad LPS lle bynnag y bo trefniadau ynghylch gofal neu driniaeth yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid. I bobl ifanc, gall hyn olygu bod awdurdodiad yn cynnwys un neu'r cyfan o'r lleoliadau canlynol:

- eu cartref domestig,
- ysgol neu goleg yn ystod y dydd neu breswyl, gan gynnwys unrhyw weithgareddau cyn neu ar ôl ysgol a drefnwyd gan yr ysgol,
- cartref plant,
- lleoliad gofal maeth,
- egwyl byr neu ddarpariaeth seibiant arall,
- ac arhosiad yn yr ysbyty a gynlluniwyd.

21.61 Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd yr unigolyn ifanc yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid wrth gael eu cludo rhwng lleoliadau. Gall awdurdodiad LPS hefyd gynnwys trefniadau o'r fath.

21.62 Er mwyn i awdurdodiad yr LPS gynnwys lleoliadau gwahanol, mae'n rhaid ei bod hi'n wyddys y bydd yr unigolyn ifanc yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn y lleoliadau hynny ar adeg y broses asesu. Os bydd gan yr unigolyn ifanc awdurdodiad ar waith, a bod trefniadau newydd yn cael eu cynnig, mae'n bosibl y bydd angen awdurdodiad newydd. Gweler pennod XX i gael mwy o wybodaeth am amrywiadau i awdurdodiad.

21.63 Dylai'r Corff Cyfrifol weithio gyda'r holl leoliadau sy'n gysylltiedig, neu unrhyw un a all fod o bosibl yn ymwneud â gofal yr unigolyn ifanc i gytuno ar y trefniadau gorau ar gyfer yr unigolyn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y darparwr yn gallu ac yn fodlon gweithredu'r trefniadau a gynigir yn awdurdodiad yr LPS.

Amddifadu o Ryddid gartref

21.64 Gall awdurdodiad LPS gynnwys nifer o leoliadau, ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu y bydd yr unigolyn ifanc yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid ym mhob lleoliad y maent yn treulio amser ynddo. Mewn sawl achos, mae'n bosibl na fydd yn angenrheidiol a chymesur i amddifadu unigolyn ifanc o ryddid gartref, hyd yn oed os byddant o dan drefniadau o'r fath yn yr ysgol, er enghraifft. Dylai gwneuthurwyr penderfyniad ystyried y trefniadau mwyaf priodol ar gyfer pob lleoliad, yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn ifanc.

Pobl ifanc sy'n gleifion mewnol mewn ysbytai iechyd meddwl

21.65 Os bydd angen i unigolyn ifanc gael eu derbyn i'r ysbyty i gael gofal a thriniaeth seiciatrïg, mae'n bosibl y bydd angen gwneud penderfyniad o ran a yw Deddf Iechyd Meddwl 1983 neu'r LPS yn drefn fwy priodol. I gael manylion llawn am y rhyngwyneb, a phryd i ddefnyddio pob fframwaith deddfwriaethol, gweler pennod XX.

Goblygiadau ar gyfer lleoliadau addysg

21.66 Os bydd gan unigolyn ifanc gynllun EHC neu IDP, sy'n nodi eu hanghenion addysgol, yna ystyrir eu haddysg fel rhan o ofal yr unigolyn hwnnw. Felly, os bydd unigolyn ifanc sydd â phrinder galluedd meddyliol perthnasol o dan drefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid o fewn lleoliad addysgol, yna bydd awdurdodiad LPS yn ofynnol.

21.67 Mae Pennod XX yn nodi diffiniad amddifadu o ryddid. Yr egwyddor allweddol i'w chofio i ystyried a yw unigolyn ifanc wedi'u hamddifadu o'u rhyddid, yw sut y mae eu trefniadau'n cymharu â phobl ifanc eraill o'r un oedran nad oes ganddynt anhwylder iechyd meddwl. O ran lleoliadau addysg, lle nad yw plant a phobl ifanc yn gyffredinol yn "rhydd i adael" o'u gwirfodd ac yn "cael eu goruchwyllo'n gyson", mae hyn yn arbennig o bwysig. Er enghraifft, o ran rhyddid i adael, dylai gwneuthurwyr penderfyniad ystyried a allai pobl ifanc o'r un oedran ac aeddfedrwydd cymharol a heb anhwylder iechyd meddwl, ofyn i symud i ysgol wahanol. Neu, o ran goruchwyliaeth a rheolaeth, a fyddent yn gallu gadael yr ysgol yn ystod yr awr ginio. Os bydd y trefniadau'n fwy cyfyngol yn yr ysgol nag y byddent ar gyfer cyfoedion yr unigolyn ifanc o'r un oedran ac aeddfedrwydd ac sydd heb anabledd, mae'n bosibl bod y trefniadau'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid ac y byddai angen awdurdodiad LPS.

21.68 Os bydd gan leoliad addysg (er enghraifft, ysgol neu goleg arbennig) reswm i amau bod yr unigolyn ifanc yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid, dylai'r lleoliad hysbysu'r Corff Cyfrifol yn syth. Dylent hefyd ystyried a oes trefniadau llai cyfyngol y gellir eu rhoi ar waith yn lle hynny.

21.69 I gael mwy o wybodaeth am leihau ataliad ac ymyrraeth gyfyngol mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol a lleoliadau addysg arbennig, gweler y canllawiau anstatudol¹¹⁹ a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Canllawiau ar leihau'r angen am ataliad ac ymyrraeth gyfyngol mewn ysgolion arbennig a lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol). Efallai bydd canllawiau Ofsted i arolygwyr (Amgylcheddau Cadarnhaol Lle y Gall Plant Ffyfnu¹²⁰) am sut i fynd i'r afael â'r defnydd o ymyrraeth gorfforol, ataliad ac

¹¹⁹<https://www.gov.uk/government/publications/reducing-the-need-for-restraint-and-restrictive-intervention>

¹²⁰[https://www.gov.uk/government/publications/positive-environments-where-children-can-flourish\(2018\)](https://www.gov.uk/government/publications/positive-environments-where-children-can-flourish(2018))

amddifadu o ryddid mewn lleoliadau gofal cymdeithasol ac ysgolion hefyd o ddiddordeb i leoliadau.

Beth yw rôl a hawliau rhieni neu'r rhai hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant yn system yr LPS?

- 21.70 Mae gan rieni neu'r rhai hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant (rhieni) rôl hanfodol mewn magu, a gofalu am, eu plant, ac mae'r rôl hon yn dod hyd yn oed yn fwy hanfodol pan na fydd gan eu plentyn y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am eu gofal a chymorth.
- 21.71 Ni all rhieni unigolyn ifanc gydsynio i drefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid ar ran yr unigolyn ifanc. Mae'n bosibl felly bod awdurdodiad LPS yn ofynnol os bydd trefniadau'r unigolyn ifanc ar gyfer eu gofal neu driniaeth yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, ac na all yr unigolyn ifanc gydsynio i'r trefniadau.
- 21.72 Fodd bynnag, mae gan rieni rôl hanfodol o hyd ym mhroses yr LPS. Oni bai nad yw'n ymarferol neu'n briodol, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol ymgynghori â rhieni yn ystod proses y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid ar gyfer awdurdodi. Yn ogystal, mewn sawl achos, bydd rhieni'n aml yn ymgymryd â rôl y Person Priodol, sy'n rôl i gynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn trwy broses yr LPS cyn ac yn ystod awdurdodiad. Gweler pennod 15 i gael mwy o wybodaeth am rôl y Person Priodol.
- 21.73 Fel arfer, dylai'r Corff Cyfrifol gynnwys y rhieni wrth wneud penderfyniadau am y trefniadau ar gyfer yr unigolyn ifanc, lle y bo'n briodol gwneud hynny. I gael mwy o wybodaeth am rôl y Corff Cyfrifol, gweler pennod 14.

Sut y mae'r rhieni'n cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad?

- 21.74 Mae gan ymgynghori rôl hanfodol ym mhroses awdurdodi'r LPS. Prif ddiben yr ymgynghoriad yw pennu dymuniadau a theimladau'r unigolyn am y trefniadau a gynigir. Oni bai na fydd yn ymarferol ac yn briodol gwneud hynny, mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol ymgynghori ag unrhyw un sy'n gofalu am neu sy'n ymddiddori yn lles yr unigolyn ifanc. Bydd hyn yn aml yn cynnwys rhieni'r unigolyn ifanc. I gael mwy o wybodaeth am ymgynghori, gweler pennod X.
- 21.75 Mewn rhai achosion, efallai na fydd hi'n briodol ymgynghori â'r rhieni. Er enghraifft, pan fo unigolyn ifanc yn ddarostyngedig i orchymyn gofal, mae'n bosibl bydd gwrthdaro buddiannau o ran lles y plentyn i ymgynghori â'r rhieni. Pan mai dyma'r achos, dylai'r Corff Cyfrifol gofnodi hyn yn briodol. Dylai'r Corff Cyfrifol ystyried a oes aelodau o'r teulu neu ffrindiau eraill y dylid ymgynghori â nhw. Er enghraifft, eiriolwr a benodwyd i gynorthwyo'r unigolyn ifanc o dan un o'r dyletswyddau eiriolaeth statudol (megis yr SSWBA neu Ddeddf Plant 1989), brodyr neu chwiorydd hŷn, neiniau a theidiau, neu aelodau o'r teulu neu ffrindiau eraill.

21.76 Noder ei bod yn bosibl bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ymgynghori â rhieni o ran gofynion deddfwriaethol eraill, megis cynllun yr EHC neu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Lle mai'r awdurdod lleol yw'r Corff Cyfrifol, gallant gyfuno'r ddwy broses ymgynghori.

Rôl y Person Priodol

21.77 Un o'r rolau allweddol y gall rhiant ei chyflawni o fewn awdurdodiad yr LPS yw gweithredu fel Person Priodol. Gall rhieni ymgymryd â'r rôl hon os byddant yn addas i wneud hynny. I gael gwybodaeth lawn am y Person Priodol, gweler pennod 15.

21.78 Dylid nodi lle na fydd y Person Priodol yn rhiant, dylid ymgynghori â nhw o hyd yn ystod proses awdurdodi'r LPS, oni bai na fydd hyn yn ymarferol neu'n briodol. Dylai'r Person Priodol neu IMCA weithio'n agos â'r rhiant yn ystod pob cam. Hyd yn oed pan fo'r unigolyn yn 18 oed, mae'n debygol iawn y bydd y rhan fwyaf o rieni yn parhau i ymwneud yn fawr â gofal a thriniaeth eu plentyn sy'n oedolyn.

Beth sy'n digwydd os bydd rhiant neu unigolyn ifanc yn bryderus am y trefniadau?

21.79 Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol, cyn belled ag y bo'n bosibl yn ymarferol, sicrhau bod yr unigolyn ifanc a'u Person Priodol (lle bo hynny'n berthnasol) yn deall y trefniadau a gynigir a gwybodaeth berthnasol arall sy'n ymwneud â phroses yr LPS. Gweler pennod XX am yr holl wybodaeth y mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol ei chyhoeddi.

21.80 Os y rhiant yw'r Person Priodol ar gyfer yr unigolyn ifanc a'u bod yn anghytuno â'r Corff Cyfrifol, dylent geisio datrys hyn cyn belled â phosibl drwy sgwrsio cyn i'r awdurdodiad gael ei roi. Os na fydd hyn yn bosibl, gall y Person Priodol hefyd wneud cais i'r Llys Gwarchod. Gweler pennod XX i gael gwybodaeth bellach am sut i godi pryderon a herio unrhyw drefniadau ar ran yr unigolyn.

21.81 Hyd yn oed os nad y rhiant yw'r Person Priodol, mae ganddynt yr hawl o hyd i godi pryderon am broses yr LPS neu'r trefniadau. Os bydd gan y rhiant unrhyw bryderon am sut y deliwyd â'r broses, gallant, yn y lle cyntaf, godi hyn gyda'r Corff Cyfrifol. Dylai fod gan y Corff Cyfrifol weithdrefn gwyno briodol a dylid ymdrin â phob mater yn briodol.

21.82 Os, na fydd yr unigolyn ifanc yn fodlon â'r trefniadau unwaith y bo awdurdodiad ar waith, neu os bydd y rhiant yn teimlo bod rhyddid yr unigolyn yn cael ei gyfyngu'n annheg, mae ganddynt yr hawl i wneud cais i'r Llys Gwarchod. Gweler pennod 24 i gael mwy o wybodaeth am herio proses a threfniadau'r LPS.

Beth sy'n digwydd os yw rhiant unigolyn ifanc o dan Ddeddf Plant 1989 neu Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwrthwynebu'r trefniadau?

21.83 Pan ofalir am unigolyn ifanc gan eu hawdurdod lleol o dan adran 20 Deddf 1989 neu adran 75 Deddf 2014, bydd yr awdurdod lleol wedi gweithio'n agos â'r rhiant i

bennu'r hyn sydd er y budd pennaf i'r unigolyn ifanc hwnnw. Gall trefniadau ar gyfer yr unigolyn ifanc gael eu rhoi ar waith yn unig os bydd y rhiant yn cytuno. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr awdurdod lleol a rhieni'n gallu dod i gytundeb ynghylch y trefniadau hyn.

- 21.84 Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhieni'n cytuno â'r lleoliad mewn egwyddor, ond yn gwrthwynebu trefniadau a gynigir gan yr awdurdod lleol lle maent yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Mewn achosion o'r fath, dylai'r awdurdod lleol weithio â'r rhiant i geisio mynd i'r afael â'u pryderon, cyn belled â phosibl. Pan nad oes modd dod i gytundeb, bydd angen i'r awdurdod lleol bennu a yw'r ddyletswydd i gyfeirio'r achos at AMCP yn cael ei sbarduno. Er enghraifft, mae'n bosibl ei bod hi'n rhesymol credu nad yw'r unigolyn ifanc yn dymuno byw yn y lle, yn seiliedig ar bryderon eu rhiant. Byddai'r ystyriaeth hon yn berthnasol hefyd yn ystod adolygiad lle nad oedd AMCP wedi bod yn gysylltiedig â'r awdurdodiad cychwynnol.
- 21.85 Pan ofalir am unigolyn ifanc yn barod gan awdurdod lleol o dan un o'r ddwy Ddeddf, gallai rhieni dynnu eu cydsyniad i'r llety a drefnwyd gan yr ALI. Pan mai dyma'r achos, gallant benderfynu tynnu'r unigolyn ifanc o'r llety¹²¹. Gall hyn olygu na all yr ALI barhau â'r lleoliad.
- 21.86 Pan fo rhiant yn tynnu eu plentyn o lety a drefnwyd gan awdurdod lleol, gall hyn olygu nad yw'n gallu rhoi awdurdodiad yr LPS ar waith. Pan fo pryderon difrifol am les yr unigolyn ifanc yn y llety newydd, gall yr awdurdod lleol ystyried defnyddio pwerau gwarchod plant (megis o dan Ddeddf Plant 1989) i ddatrys unrhyw bryderon diogelu. Ceir canllawiau pellach yn Neddf Plant 1989: Canllawiau statudol Gorchmynion Llys.¹²²

Hyd awdurdodiadau LPS, amllder adolygiadau ac adnewyddu ar gyfer pobl ifanc

- 21.87 I gael gwybodaeth lawn am hyd awdurdodiad o dan LPS, pa mor aml y dylid cynnal adolygiadau a'r broses ar gyfer adnewyddu awdurdodiad, gweler pennod XXX.
- 21.88 Dylai Cyrff Cyfrifol ystyried hyd priodol awdurdodiad, ac amllder adolygiadau o fewn y cyfnod hwnnw. I bobl ifanc, mae'n bosibl y bydd hi'n briodol awdurdodi trefniadau am gyfnod byrrach neu drefnu adolygiadau mwy aml. Mae ffactorau y gall fod angen i Gyrrff Cyfrifol eu hystyried yn cynnwys:

¹²¹ O dan adran 20(11) Deddf Plant 1989, ni fydd gwrthwynebiadau rhieni i leoliad eu plant 16 neu 17 oed yn berthnasol pan fo'r unigolyn ifanc yn cytuno i dderbyn gofal. Fodd bynnag, bydd gwrthwynebiad rhieni'n berthnasol i'r bobl ifanc hynny sydd heb allu.

¹²²<https://www.gov.uk/government/publications/children-act-1989-court-orders--2>

- unrhyw gynlluniau i newid ysgol neu goleg, neu symud i lety preswyl gwahanol, lle mae'r rhain yn wyddys ymlaen llaw gellir eu cynnwys yn y trefniadau awdurdodedig;
- mae pobl 16-17 oed o bosibl yn datblygu eu galluoedd o hyd i wneud penderfyniadau ynghyd â phriodoleddau corfforol ac emosiynol eraill, ac felly gall eu gallu i gydsynio i'r trefniadau newid dros amser;
- os yw trosglwyddo'r unigolyn ifanc i wasanaethau oedolion yn cael ei gynllunio, gall hyn olygu bod angen adolygiad, amrywiad neu awdurdodiad LPS newydd o bosibl er mwyn cynnwys y trosglwyddo hwn;
- gofynion adolygiadau eraill o dan fframweithiau a chynlluniau statudol ar gyfer yr unigolyn ifanc, megis EHCP, IDP neu gynlluniau gofal a chymorth neu ofal a thriniaeth eraill.

Trosglwyddo pobl ifanc i wasanaethau oedolion

- 21.89 Mae'r cyfnod pontio i fod yn oedolyn yn gyfnod hollbwysig ar gyfer pob unigolyn ifanc, yn enwedig i'r rhai hynny sydd â phrinder galluedd meddyliol. Gall olygu symud i leoliad addysg gwahanol neu adael addysg yn gyfan gwbl. Gall olygu symud llety, naill ai i leoliad addysg gwahanol neu i lety â chymorth. Dylid dechrau cynllunio ar gyfer y pontio'n ddelfrydol ym mlwyddyn 9 yn Lloegr.
- 21.90 Dylai pob pontio ar gyfer pobl ifanc sydd â'r prinder galluedd meddyliol perthnasol gael ei gynllunio a'i reoli'n ofalus, yn unol â'r fframweithiau ac egwyddorion statudol perthnasol. Dylai'r timau perthnasol o fewn yr awdurdod lleol weithio ar y cyd i sicrhau pontio heb brobelm, gan gynnwys ystyried a yw trefniadau'r unigolyn ifanc yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid.

22. Beth yw'r berthynas rhwng y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Deddf Iechyd Meddwl 1983?

Mae'r bennod hon yn esbonio'r berthynas rhwng Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (MCA) a Deddf Iechyd Meddwl 1983 (MHA). Mae'n disgrifio sut y gallai'r MCA o bosibl fod yn gymwys i bobl sydd â'r prinder gallu perthnasol sydd hefyd yn ddarostyngedig i'r MHA; yn esbonio pan nad yw meddygon yn gallu rhoi triniaethau penodol i rywun sydd â phrinder gallu i gydsynio iddynt; ac yn amlinellu'r sefyllfa mewn perthynas â'r MHA.

Nid yw'r bennod hon yn darparu disgrifiad llawn o'r MHA. Mae gan yr MHA ei Godau Ymarfer ei hun, ar gyfer Lloegr yn ogystal â Chymru, i gyfarwyddo pobl ynglŷn â sut i'w defnyddio¹²³.

Pan fydd y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid a Deddf Iechyd Meddwl 1983 (MHA) yn cyfarfod, mae rhyngwyneb. Gall fod angen i wneuthurwyr penderfyniad benderfynu pa un yw'r drefn fwyaf priodol i amddifadu unigolyn o'i ryddid ynddi, neu os yw'r unigolyn yn ddarostyngedig i adrannau penodol o'r MHA a oes angen awdurdodiad LPS hefyd. Mae'r rhyngwyneb rhwng y ddwy drefn hon yn digwydd mewn nifer fach iawn o achosion penodol yn unig.

Yn y bennod hon, fel trwy'r Cod cyfan, mae gallu (neu brinder gallu unigolyn) yn cyfeirio'n benodol at eu gallu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg mae angen iddo gael ei wneud.

Crynodeb cyflym

- Mae pobl sydd â'r prinder gallu perthnasol yn dioddef problemau iechyd meddwl fel pawb arall a gall fod angen iddynt dderbyn triniaeth o dan yr MHA. Mae'r MCA yn gymwys i bobl sy'n ddarostyngedig i'r MHA yn yr un modd ag y mae'n gymwys i unrhyw un arall, gyda phedwar eithriad.

¹²³ Ar gyfer Lloegr, gweler <https://www.gov.uk/government/publications/code-of-practice-mental-health-act-1983>. Ar gyfer Cymru, gweler <https://gov.wales/mental-health-act-1983-code-practice>

- os bydd rhywun yn cael ei gadw o dan yr MHA, nid yw gwneuthurwyr penderfyniad fel arfer yn gallu dibynnu ar y MCA i roi triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol na gwneud penderfyniadau am y driniaeth honno ar ran yr unigolyn hwnnw
- os bydd rhywun yn gallu cael ei drin am eu hanhwylder meddyliol heb eu cydsyniad oherwydd eu bod wedi'u cadw o dan yr MHA, bydd staff gofal iechyd yn gallu, gyda rhai eithriadau sy'n ymwneud â thriniaethau mwy mewnwithiol, roi triniaeth iddynt hyd yn oed os bydd yn mynd yn groes i benderfyniad ymlaen llaw i wrthod y driniaeth honno.
- os bydd unigolyn yn ddarostyngedig i warcheidiaeth o dan yr MHA, mae gan y gwarcheidwad yr hawl lwyr i wneud penderfyniadau penodol, gan gynnwys ble mae'r unigolyn i fyw, ac
- nid oes rhaid i Eiriolwyr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol fod yn rhan o benderfyniadau am driniaeth feddygol ddifrifol na llety tymor hir, os bydd y penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud o dan yr MHA.
- Nid yw staff gofal iechyd yn gallu rhoi seicolawdriniaeth (h.y. niwrolawdriniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol) neu, heblaw am mewn argyfwng, therapi electro-ddirdynol, i unigolyn sydd â phrinder gallu i gytuno i'r driniaeth. Mae hyn yn gymwys a yw'r unigolyn yn ddarostyngedig fel arall neu beidio i'r MHA.

Y rhyngwyneb rhwng LPS a'r MHA mewn Ysbytai

- Mewn rhai sefyllfaoedd, gellid dibynnu ar naill ai'r LPS neu'r MHA i amddifadu unigolyn o'u rhyddid pan fyddant yn cael eu derbyn i'r ysbyty. Er mwyn i hyn fod yn wir, ochr yn ochr ag amodau eraill, mae'n rhaid i'r unigolyn beidio â gwrthwynebu'r trefniadau neu'r gofal neu'r driniaeth, ac mae'n rhaid iddi fod yn bosibl gwneud cais o dan adran 2 neu 3 yr MHA.
- Pan fydd y rhain, ac amodau perthnasol eraill, yn cael eu bodloni, mae'n rhaid i benderfyniad gael ei wneud rhwng yr MHA a'r LPS. Dylai'r penderfyniad hwn gael ei seilio ar amgylchiadau'r achos.

Cleifion cymunedol MHA a'r LPS

- Gall rhai pobl fod o dan drefniadau cymunedol o dan yr MHA, lle gall yr LPS fod yn gymwys o hyd.
- Os bydd yr unigolyn o dan absenoldeb adran 17 ac nad yw o dan warchodaeth rhywun ar gyfer yr absenoldeb hwnnw, yna gallai'r LPS gael ei ddefnyddio i awdurdodi trefniadau ynglŷn â'i ofal yn y gymuned, os byddant yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid.
- Yn yr un modd, os bydd yr unigolyn o dan orchymyn triniaeth gymunedol a bod angen rhoi trefniadau ar waith sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid, gellid defnyddio'r LPS i awdurdodi'r trefniadau hynny.

Eithriad anableddau dysgu'r MHA a'r LPS

- Mewn rhai achosion, mae unigolyn ag anableddau dysgu yn cael ei eithrio rhag adrannau penodol yr MHA. Fodd bynnag, nid yw'r eithriad hwn yn gymwys i'r LPS.

DRAFT

I bwy mae'r MHA yn gymwys?

- 22.1 Mae'r MHA yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer yr asesiad, cadw a thrin pobl pan fydd ganddynt anhwylder meddyliol difrifol sy'n eu rhoi nhw neu bobl eraill mewn perygl. Mae'r MHA yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cleifion sifil a'r rhai hynny sy'n mynd i'r ysbyty trwy benderfyniadau a wneir yn y system cyfiawnder troseddol.
- 22.2 Mae ei darpariaethau'n cynnwys pwerau ar gyfer pan fydd pobl ag anhwylderau meddyliol yn gallu cael eu cadw mewn ysbyty ar gyfer asesiad neu driniaeth; a phan bydd modd rhoi triniaeth i bobl sy'n cael eu cadw am eu hanhwylder meddyliol heb eu cydsyniad.
- 22.3 Mae'n darparu hefyd ar gyfer y gweithdrefnau sydd gan bobl, gan gynnwys hawliau i apelio i driwlynlys annibynnol ac am ail farn glinigol am driniaeth, a sut y gellir rhyddhau pobl; eu rhoi o dan warcheidiaeth; eu rhyddhau'n amodol; neu eu rhoi ar Orchymyn Triniaeth Gymunedol (CTO).
- 22.4 Yn gyffredinol, nid yw'r MHA yn gwahaniaethu rhwng pobl sydd â'r gallu i wneud penderfyniadau a phobl sydd heb. Mae gan lawer o bobl sy'n ddarostyngedig i'r MHA y gallu i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hunain. Ni fydd y rhan fwyaf o bobl sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniadau am eu triniaeth fyth yn ddarostyngedig i'r MHA, hyd yn oed os bydd angen triniaeth arnynt am anhwylder meddyliol.
- 22.5 Ond mae achosion lle bydd angen i wneuthurwyr penderfyniad benderfynu defnyddio'r MHA neu MCA, neu'r ddwy, i fodloni anghenion pobl â phroblemau iechyd meddwl sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniadau am eu triniaeth eu hunain.

Beth yw terfynau'r MCA?

- 22.6 Mae adran 5 yr MCA yn darparu amddiffyniad cyfreithiol i bobl sy'n gofalu am neu'n trin rhywun sydd â phrinder gallu (gweler pennod 6). Ond mae'n rhaid iddynt ddilyn egwyddorion y Ddeddf ac yn gallu gweithredu'n unig er y budd pennaf i'r unigolyn (gweler pennod 5). Mae hyn yn berthnasol i ofal neu driniaeth ar gyfer cyflyrau corfforol a meddyliol. Felly mae'n gallu bod yn berthnasol i bobl ag anhwylderau meddyliol, pa mor ddifrifol bynnag y bo'r anhwylderau hynny.
- 22.7 Mae gan Adran 5 derfynau. Er enghraifft, mae adran 6 yn egluro bod gan rywun sy'n defnyddio ataliad amddiffyniad yn unig os bydd yr ataliad yn:
- angenrheidiol i ddiogelu'r unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol rhag niwed, ac
 - yn gymesur â thebygolrwydd a difrifoldeb y niwed hwnnw.
- 22.8 Nid oes amddiffyniad o dan adran 5 i weithredoedd sy'n amddifadu unigolyn o'u rhyddid (gweler pennod 6 am ganllawiau. Nid yw'r MCA yn caniatáu rhoi triniaeth sy'n mynd yn groes i benderfyniad ymlaen llaw dilyn a pherthnasol i wrthod triniaeth (gweler pennod 9). Mae'r MHA ar y cyfan yn caniatáu hyn ond mae'n gwneud eithriad ar gyfer therapi electro-ddirdynnol.

- 22.9 Gall yr MHA felly fod yn briodol i ystyried a yw'r unigolyn wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw dilys a pherthnasol i wrthod triniaeth seiciatryddol mewn ysbyty.

Senario: Defnyddio'r MHA

Mae gan Mr O anabledd dysgu ac mae'n byw mewn llety byw â chymorth. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae wedi dioddef o iselder o dro i dro, a chafodd driniaeth ddwywaith ar ei gyfer mewn ysbyty seiciatryddol. Mae ganddo iselder difrifol nawr ac mae ei weithwyr gofal yn pryderu am y dirywiad yn ei gyflwr.

Mae ymgynghorydd Mr O wedi cynyddu ei feddyginiaeth. Mae'r ymgynghorydd yn meddwl y bydd y cynllun gofal a chymorth hwn yn gweithio'n unig os bydd Mr O yn cael ei gadw yn yr ysbyty. Bydd hyn yn caniatáu iddo gael ei arsylwi'n agos. Mae'r ymgynghorydd yn meddwl y dylai cais gael ei wneud o dan adran 3 yr MHA. Byddai hyn yn golygu y gallai Mr O gael ei gadw'n gyfreithlon ac na fyddai'n cael gadael yr ysbyty.

Mae'r ymgynghorydd hefyd yn siarad â pherthynas agosaf Mr O, fel a nodir o dan yr MHA, ei fam. Mae hi'n gofyn pam bod angen y driniaeth ar Mr O, ac i gael ei gadw, pan nad oedd angen hyn arno yn y gorffennol. Ond ar ôl iddi leisio'i phryderon â'r ymgynghorydd, a gwrando ar ei atebion, nid yw'n gwrthwynebu'r cais. Mae hi, gyda'r ymgynghorydd, yn esbonio wrth Mr O beth fydd yn digwydd a pham. Mae'n ymddangos ei fod yn gwrando ond nid yw'n dangos ymateb gweladwy.

Mae gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy yn gwneud y cais ac mae'n cael dau argymhelliad meddygol. Mae Mr O wedyn yn cael ei gadw yn yr ysbyty er mwyn i'w driniaeth newydd ar gyfer iselder allu cychwyn.

- 22.10 Bydd rhai achosion lle nad yw unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol yn gallu cael ei drin o dan yr MHA na'r MCA - hyd yn oed os yw'r driniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol.

Senario: Penderfynu p'un ai defnyddio'r MHA neu'r MCA

Mae Mrs Carter yn ei 80au ac mae ganddi ddementia. Mae rhywun yn dod o hyd iddi'n crwydro yn y stryd, yn ddryslyd iawn ac yn ddig. Mae cymydog yn mynd â hi adref ac yn galw'i meddyg. Gartref, mae'n edrych fel petai hi wedi bod yn chwalu pethau'n fwriadol. Mae sawl cwt ar ei dwylo a'i breichiau, ond nid yw'n caniatáu i'r meddyg eu cyffwrdd, ac nid yw wedi bod yn cymryd ei meddyginiaeth.

Mae ei meddyg am iddi gael ei derbyn i'r ysbyty i'w hasesu. Mae Mrs Carter yn mynd yn ddig ac mae'n dweud na fyddant fyth yn ei chadw hi mewn ysbyty. Felly mae'r meddyg yn meddwl y gallai fod yn angenrheidiol defnyddio'r MHA. Mae'n trefnu i weithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy ymweld, sy'n canfod bod Mrs Carter yn disgwyl ei mab y bore hwn, ond nid yw wedi cyrraedd.

Maent yn canfod y bydd yn hwyr, ond nid oedd yn gallu ffonio oherwydd bod plwg teleffon Mrs Carter wedi'i ddatgysylltu.

Pan ddywedir wrthi bod ei mab ar ei ffordd, mae Mrs Carter yn sirioli. Mae hi'n caniatáu i'r meddyg drin ei chwtau - y mae'r meddyg yn meddwl sydd er ei budd pennaf i'w wneud cyn gynted â phosibl. Pan mae mab Mrs Carter yn cyrraedd, mae'r gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy yn esbonio bod y meddyg yn bryderus iawn, yn enwedig oherwydd nad yw Mrs Carter yn cymryd ei meddyginiaeth, Mae'r mab yn esbonio y bydd yn helpu ei fam i'w chymryd yn y dyfodol. Cytunir y bydd yr MCA yn ei ganiatáu i wneud hynny. Mae'r gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy'n trefnu dychwelyd wythnos yn ddiweddarach ac mae'n ffonio'r meddyg i ddweud ei bod yn meddwl bod Mrs Carter yn gallu cael y gofal sydd ei angen arni heb gael ei chadw o dan yr MHA. Mae'r meddyg yn cytuno.

Sut mae'r MCA yn gymwys i glaf sy'n ddarostyngedig i warcheidiaeth o dan yr MHA?

- 22.11 Mae gwarcheidiaeth yn rhoi'r hawl unigryw i rywun (fel arfer adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol) i benderfynu ble ddylai unigolyn fyw - ond wrth wneud hyn nid ydynt yn gallu amddifadu'r unigolyn o'u rhyddid. Bydd y gwarcheidwad hefyd yn gallu gofyn bod yr unigolyn yn mynychu ar gyfer triniaeth, gwaith, hyfforddiant neu addysg ar adegau ac mewn manau penodol, a gallant fynnu bod gan feddyg, gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy neu unigolyn perthnasol arall fynediad at yr unigolyn lle bynnag y maent yn byw. Mae gwarcheidiaeth yn gallu bod yn berthnasol p'un ai a oes gan y claf y gallu i wneud penderfyniadau am ofal a thriniaeth neu beidio. Nid yw'n rhoi'r hawl i unrhyw un drin yr unigolyn heb eu caniatâd neu gydsynio i driniaeth ar eu rhan.
- 22.12 Gellir gwneud cais ar gyfer unigolyn sydd ag anhwylder meddyliol i gael ei dderbyn i warcheidiaeth o dan adran 7 yr MHA pan:

- fydd y sefyllfa'n bodloni'r amodau a grynhoir ym mharagraff 13.18
 - bydd y bobl berthnasol yn cytuno y dylid gwneud cais am warcheidiaeth (fel arfer dau feddyg a gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy), ac
 - nad yw perthynas agosaf yr unigolyn yn gwrthwynebu.
- 22.13 Gellir gwneud cais mewn perthynas ag unrhyw unigolyn sy'n 16 oed neu drosodd os:
- bydd y claf yn dioddef o anhwylder meddyliol o natur neu raddfa sy'n gwarantu eu derbyn i mewn i warcheidiaeth, a'i
 - fod yn angenrheidiol, er budd lles y claf neu er mwyn diogelu unigolion eraill, y dylai'r claf gael ei dderbyn felly.
- 22.14 Bydd angen i ymgeiswyr (fel arfer gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy) a meddygon sy'n cefnogi'r cais bennu a allent gyflawni eu nodau heb warcheidiaeth. I gleifion sydd a'r prinder gallu perthnasol, y dewis amgen amlwg fydd cymryd camau o dan yr MCA.
- 22.15 Ond nid y ffaith fod yr unigolyn â phrinder gallu i wneud penderfyniad perthnasol yw'r unig ffactor sydd angen i'r ymgeiswyr ei ystyried. Mae angen iddynt ystyried holl amgylchiadau'r achos. Gallent ddod i'r casgliad mai gwarcheidiaeth yw'r opsiwn gorau i unigolyn ag anhwylder meddyliol sydd â phrinder gallu i wneud y penderfyniadau hynny os, er enghraifft:
- eu bod yn meddwl ei bod hi'n bwysig y dylai un unigolyn neu awdurdod fod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau am ble dylai'r unigolyn fyw (er enghraifft, lle bu anghytundebau parhaus neu anodd am ble dylai'r unigolyn fyw)
 - eu bod yn meddwl y bydd yr unigolyn yn debygol o ymateb yn dda i awdurdod a sylw gwarcheidwad, ac felly'n fwy parod i dderbyn triniaeth ar gyfer yr anhwylder meddyliol (a ydynt yn gallu cydsynio iddi neu ei bod yn cael ei darparu iddynt o dan yr MCA), neu
 - fod angen awdurdod penodol arnynt i ddychwelyd yr unigolyn i'r man lle maent i fyw (er enghraifft, cartref gofal) pe byddent yn mynd yn absennol (er y gallai hyn hefyd gael ei ddarparu o dan yr LPS).
- 22.16 Mae'n rhaid i wneuthurwyr penderfyniad beidio fyth ag ystyried gwarcheidiaeth fel ffordd i osgoi defnyddio'r MCA.
- 22.17 Mae gan warcheidwad yr hawl lwyr i benderfynu lle mae unigolyn yn byw, sy'n golygu nad yw'n gyfreithlon i unigolyn arall ddefnyddio'r MCA i drefnu i'r unigolyn fyw rhywle arall. Gall rhywun sy'n helpu unigolyn yn fwriadol i adael y man lle mae'r gwarcheidwad yn gofyn iddynt aros fod yn cyflawni trosedd o dan yr MHA. Mae gan warcheidwad y pŵer llwyr hefyd i ofyn i'r unigolyn fynyachu triniaeth, galwedigaeth, addysg neu hyfforddiant ar adegau a manau penodol. Nid yw hyn yn atal pobl eraill rhag defnyddio'r MCA i wneud trefniadau tebyg neu drin yr unigolyn er eu budd pennaf. Ond nid yw pobl yn gallu defnyddio'r MCA mewn unrhyw ffordd sy'n gwrthdaro â phenderfyniadau mae gwarcheidwad wedi eu gwneud yn gyfreithlon o dan yr MHA. Gweler paragraff 13.16 uchod i gael gwybodaeth gyffredinol am bwerau gwarcheidwad.

Senario: Rhyngwyneb rhwng yr MHA a'r MCA pan fydd rhywun o dan warcheidiaeth

Mae'n ofynnol i Mr B breswyllo yn ei lety cysgodol, ac i roi mynediad i'w dîm iechyd meddwl cymunedol, fel amod o warcheidiaeth a wnaed o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Pob mis mae'n cyflwyno'i hun yn y clinig ar gyfer pigiad gwrthseicotig sy'n rhyddhau'n araf, ond, er gwaethaf llawer o ymdrechion nid oes ganddo'r gallu i ddeall beth ydyw na beth yw ei ddiben.

O ystyried eu hasesiadau parhaus bod Mr B a phrinder gallu i gydsynio i'r pigladau, ond eu bod er ei fudd pennaf, mae'r tîm cymunedol yn defnyddio awdurdod yr MCA i'w rhoi.

Sut mae'r MCA yn gymwys i glaf sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Triniaeth Gymunedol (CTO) o dan yr MHA?

- 22.18 Pan fydd pobl yn cael eu rhyddhau o'u cadw ar gyfer triniaeth feddygol o dan yr MHA, gall eu clinigydd cyfrifol benderfynu i'w rhoi ar CTO. Y clinigydd cyfrifol yw'r unigolyn a gymeradwyir ar gyfer y rôl o dan yr MHA sy'n uniongyrchol gyfrifol am ofal claf. Mae'n rhaid i feddyg arall a gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy gefnogi'u cais.
- 22.19 Mae CTO yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli gofal yn y gymuned, mae'n gofyn bod y claf yn sicrhau eu bod ar gael ar gyfer archwiliad, yn darparu ar gyfer cyflyrau eraill yn ôl y gofyn, ac yn rhoi'r pŵer i'r clinigydd cyfrifol alw'r claf yn ôl i'r ysbyty am driniaeth os bydd angen.
- 22.20 Cleifion sy'n cael eu cadw mewn ysbyty ar gyfer triniaeth o dan adran 3 yr MHA, neu sy'n gleifion rhan 3 anghyfyngedig yn unig, sy'n gallu cael eu hystyried ar gyfer CTO. Nid yw cleifion sydd wedi'u cadw mewn ysbyty ar gyfer asesiad o dan adran 2 yr MHA yn gymwys.
- 22.21 Mae CTO yn opsiwn yn unig i gleifion sy'n bodloni'r meini prawf a amlinellir yn yr MHA, sef bod:
- Y claf yn dioddef o anhwylder meddyliol o natur neu raddfa sy'n ei gwneud yn briodol iddynt dderbyn triniaeth feddygol
 - Mae'n angenrheidiol ar gyfer iechyd neu ddiogelwch y claf neu er mwyn diogelu eraill fod y claf yn derbyn y fath driniaeth.
 - Yn amodol bod y claf yn atebol i gael ei alw'n ôl fel y crybwyllir isod, gellir darparu'r fath driniaeth heb i'r claf barhau i gael ei gadw mewn ysbyty
 - Mae'n angenrheidiol y dylai'r clinigydd cyfrifol allu ymarfer y pŵer o dan adran 17E(1) yr MHA i alw claf yn ôl i'r ysbyty, a bod
 - Triniaeth feddygol briodol ar gael i'r claf. Gall fod gofyn i'r unigolyn fyw mewn lle penodedig (lle gellir mynd â nhw a'u dychwelyd, os bydd angen)

22.22 Gellir defnyddio CTOau a yw'r unigolyn â phrinder gallu i wneud penderfyniadau perthnasol neu beidio. Ond os bydd unigolyn â phrinder gallu, bydd angen i wneuthurwyr penderfyniad benderfynu a allai gweithredu o dan yr MCA gyflawni eu hamcanion cyn gwneud cais. Mae'r mathau o achosion lle gallai CTOau gael eu hystyried ar gyfer cleifion sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth eu hun yn debyg i'r rhai hynny ar gyfer gwarcheidiaeth. Nid yw CTOau ynddynt eu hunain yn caniatáu amddifadu o ryddid, er eu bod yn caniatáu amodau i gael eu gosod y dylai pobl lynu atynt.

Senario: Rhyngwyneb rhwng yr MHA a'r MCA pan fydd rhywun o dan Orchymyn Triniaeth Gymunedol

Mae'n ofynnol i Ms F aros mewn cartref gofal o dan Orchymyn Triniaeth Gymunedol y Ddeddf Iechyd Meddwl. Fel Mr B (senario blaenorol), mae'n fodlon derbyn pigiad gwrthseicotig sy'n rhyddhau'n araf bob mis ond mae'n brin o allu i gydsynio iddo.

Penderfynwyd bod y pigiad er ei budd pennaf ac mae'n cael ei roi o dan yr MCA. Mae Ms F, weithiau, wedi dangos gwrthwynebiad i'r pigiad, ac mae'n debygol o fod angen ataliad y tu hwnt i'r hyn a ddarperir o dan yr MCA. Felly, gelwir hi'n ôl i'r ysbyty ac yn y pen draw mae'n ei dderbyn o dan awdurdod yr MHA.

Ar ôl cyfnod, mae tîm gofal Ms F yn cytuno bod angen rhagor o oruchwyliaeth arni i'w chadw'n ddiogel pan fydd y tu allan, gan ei bod yn dangos ychydig iawn o ymwybyddiaeth o draffig a pheryglon eraill ac mae hi'n agored i gamfanteisio. Mae'r tîm yn cytuno y gall hyn gael ei ddarparu yn y modd lleiaf cyfyngol os bydd Ms F yn aros yn y cartref gofal, ac fel y cyfryw nid oes rheswm i'w galw'n ôl i'r ysbyty i ddirymu'r CTO.

Gan y gall yr oruchwyliaeth agosach fod yn gyfystyr â goruchwyliaeth gyson, gall Ms F gael ei hamddifadu o'i rhyddid os yw hi'n bodloni'r meini prawf eraill a amlinellir ym mhennod ##. Os felly, byddai angen i asesiad Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid gael ei drefnu i ystyried darparu awdurdod trwy ddarpariaethau'r LPS, fyddai'n rhedeg yn gyfochrog â CTO yr MHA.

Sut mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn effeithio ar bobl a gynhwysir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl?

22.23 Nid oes rheswm i ragdybio bod unigolyn â phrinder gallu i wneud eu penderfyniadau eu hun oherwydd eu bod yn ddarostyngedig (o dan yr MHA) i:

- gael eu cadw
- gwarcheidiaeth, neu
- CTO

22.24 Mae pobl sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniadau penodol yn parhau i gael eu diogelu gan yr MCA hyd yn oed os byddant yn ddarostyngedig i'r MHA (mae hyn yn cynnwys pobl sy'n ddarostyngedig i'r MHA o ganlyniad i achos llys). Ond mae pedwar eithriad pwysig:

- os bydd rhywun yn agored i gael ei gadw o dan yr MHA, nid yw gwneuthurwyr penderfyniad fel arfer yn gallu dibynnu ar yr MCA i roi triniaeth iechyd meddwl neu wneud penderfyniadau ynglŷn â'r driniaeth honno ar ran rhywun
- os bydd modd rhoi triniaeth iechyd meddwl i rywun heb eu cydsyniad oherwydd eu bod yn agored i gael eu cadw o dan yr MHA, mae modd rhoi triniaeth iechyd meddwl iddynt hefyd sy'n mynd yn groes i benderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth, gan eithrio therapi electro-ddirdynnol oni bai y ceir argyfwng.
- os bydd unigolyn yn ddarostyngedig i warcheidiaeth, mae gan y gwarcheidwad yr hawl lwyr i gymryd penderfyniadau penodol, gan gynnwys ble mae'r unigolyn i fyw, ac nid oes rhaid i Eiriolwyr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol gymryd rhan mewn penderfyniadau am driniaeth feddygol ddifrifol neu lety, os bydd y penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud o dan yr MHA.

Beth yw'r goblygiadau i bobl sydd angen triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol?

22.25 Yn ddarostyngedig i amodau penodol, mae Rhan 4 yr MHA yn cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu i feddygon roi triniaeth i gleifion sy'n ddarostyngedig i'r MHA ar gyfer anhwylderau meddyliol heb eu cydsyniad. Fel y datganwyd uchod yn 13.2, nid yw'r MHA yn gyffredinol yn gwahaniaethu rhwng a oes gan unigolyn y gallu i roi'r cydsyniad hwnnw neu beidio. Mae paragraff 13.26 isod yn rhestru ychydig o eithriadau pwysig.

22.26 Pan fydd Rhan 4 yr MHA yn gymwys, ni ellir defnyddio'r MCA i roi triniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol i gleifion sydd â phrinder gallu i gydsynio. Ni chaiff unrhyw un arall, megis atwrnai neu ddirprwy, roi cydsyniad ar gyfer y driniaeth honno o dan yr MCA chwaith. Mae Rhan 4 yr MHA yn caniatáu i glinigwyr yn barod, os byddant yn cydymffurfio â'r rheolau perthnasol, roi triniaeth feddygol i gleifion ar gyfer anhwylder meddyliol, yn y rhan fwyaf o achosion, er bod ganddynt brinder gallu i gydsynio. Yn y cyd-destun hwn, mae triniaeth feddygol yn cynnwys nyrsio, ymyrraeth seicolegol, ac adferiad iechyd meddwl arbenigol, adferiad a gofal.

22.27 Ni fydd clinigwyr sy'n trin pobl ar gyfer anhwylder meddyliol o dan yr MHA fodd bynnag yn gallu anwybyddu gallu unigolyn i gydsynio i driniaeth. Fel mater o arfer da, ac fel yr amlinellir o fewn Cod Ymarfer yr MHA, bydd angen iddynt asesu a chofnodi bob amser:

- a oes gan gleifion allu i gydsynio i driniaeth, ac,
- os felly, a ydynt wedi cydsynio i neu wrthod y driniaeth honno.

22.28 Mae Rhan 4 yr MHA yn ymdrin yn bennaf â thriniaeth pobl sy'n agored i gael eu cadw mewn ysbyty, gan gynnwys cleifion sydd wedi cael eu galw'n ôl i'r ysbyty o CTOau a rhyddhad amodol. Nid yw cleifion sy'n ddarostyngedig i gael eu cadw fel achos brys ac am gyfnod byr yn gyffredinol yn ddarostyngedig i ran 4 yr MHA.

- 22.29 Gan nad yw'r MHA yn caniatáu triniaeth y cleifion hynny ar ôl cyfnod o dri mis heb eu cydsyniad, neu ail farn feddygol, mae'r MCA yn berthnasol yn y ffordd arferol, hyd yn oed os bydd y driniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol.
- 22.30 Hyd yn oed pan fydd yr MHA yn caniatáu i gleifion gael eu trin ar gyfer anhwylderau meddyliol, mae'r MCA yn berthnasol yn y ffordd arferol i driniaeth ar gyfer anhwylderau corfforol. Ond weithiau gall staff gofal iechyd benderfynu canolbwyntio'n gyntaf ar drin anhwylder meddyliol claf sy'n cael ei gadw yn y gobaith y byddant yn adennill y gallu i wneud penderfyniad am driniaeth ar gyfer yr anhwylder corfforol.
- 22.31 Pan fydd pobl yn ddarostyngedig i warcheidiaeth neu CTO o dan yr MHA, mae'r MCA yn berthnasol fel arfer i bob triniaeth. Nid yw gwarcheidiaeth a CTOau yn rhoi'r hawl i bobl drin cleifion heb gydsyniad. Gall claf ar CTO fodd bynnag gael ei alw'n ôl i'r ysbyty os bydd angen triniaeth feddygol arnynt.

Senario: Defnyddio'r MCA i drin claf sy'n cael ei gadw o dan yr MHA

Mae gan Mr P sgitsoffrenia paranoid, rhithdybiau, rhithwelediadau ac anhwylder meddwl. Mae'n cael ei gadw mewn ysbyty o dan adran 3 yr MHA ac mae'n derbyn triniaeth o dan Ran 4 yr MHA. Mae ei gyflyrau'n golygu ei fod yn gwrthod triniaeth feddygol mae'n ei hystyried yn ymwithiol neu'n fygythiol.

Mae Mr P yn datblygu gwaed yn ei wrin ac, ar ôl trafod â staff yr ysbyty, mae'n cytuno i gael sgan uwchsain. Mae'r sgan yn datgelu carcinoma arenol a amheuir.

Mae ymgynghorydd Mr P yn ei gynghori bod angen sgan CT diagnostig arno ac wedyn triniaeth ar gyfer y carcinoma fydd yn cael ei gwneud o dan anesthetig cyffredinol. Mae Mr P yn gwrthod cydsynio i'r anesthetig a gweithdrefnau meddygol dilynol.

Mae'r ymgynghorydd yn asesu Mr P fel bod â phrinder gallu i gydsynio i driniaeth o dan yr MCA. Nid yw'r MHA yn berthnasol oherwydd nad yw'r sgan CT yn rhan o driniaeth Mr Peters ar gyfer ei anhwylder meddyliol.

O dan adran 5 yr MCA, gan fod Mr P â phrinder gallu i gydsynio i driniaeth, mae'r ymgynghorydd yn gallu'i darparu heb gydsyniad os bydd yn dilyn egwyddorion y Ddeddf. Yn ogystal ag ystyried anghenion meddygol Mr P ynglŷn â thriniaeth y carcinoma, mae'n ymgynghori â theulu Mr P a gofawyr yn yr ysbyty. Mae hyn yn ei arwain at benderfynu bod symud ymlaen â'r sgan a'r driniaeth er y budd pennaf i Mr P. Mae'r ymgynghorydd a thîm seiciatryddol Mr P a'i deulu'n gweithio gyda'i gilydd i esbonio iddo beth fydd yn digwydd a pham, mewn ffordd briodol ac ar adeg briodol. Maent hefyd yn ateb cwestiynau a phryderon Mr P, fel nad yw'n teimlo o dan fygythiad gan y triniaethau meddygol arfaethedig.

Sut mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn effeithio ar benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

- 22.32 Nid yw'r MHA yn gyffredinol yn effeithio ar benderfyniad ymlaen llaw gan unigolyn i wrthod triniaeth, er bod Rhan 4 yr MHA yn golygu bod yr unigolyn yn gallu cael ei drin ar gyfer anhwylder meddyliol heb eu cydsyniad. Yn y sefyllfa hon gall staff gofal iechyd drin cleifion ar gyfer eu hanhwylder meddyliol, hyd yn oed os byddant wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod y fath driniaeth, gydag eithriad therapi electro-ddirdynnol lle mae'n anghyfreithlon i roi'r driniaeth hon pe byddai'n groes i ddatganiad ymlaen llaw, ac eithrio mewn argyfwng.
- 22.33 Yn gyffredinol, mae penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol yn gallu cael ei ddirymu os bydd yr unigolyn yn cael ei gadw mewn ysbyty o dan yr MHA a bod triniaeth yn cael ei rhoi yn orfodol o dan Ran 4. Fodd bynnag dylai staff gofal iechyd geisio ystyried dymuniadau'r unigolyn fel yr amlinellir mewn penderfyniad ymlaen llaw dilys cyn belled â phosibl. Er enghraifft, dylent ystyried a allent ddefnyddio math gwahanol o driniaeth nad yw'r claf wedi'i gwrthod ymlaen llaw. Os na fydd staff gofal iechyd yn dilyn penderfyniad ymlaen llaw, dylent gofnodi yn nodiadau'r claf pam eu bod wedi dewis peidio â'i ddilyn.
- 22.34 Hyd yn oed os bydd claf yn cael ei drin heb eu cydsyniad ar gyfer anhwylder meddyliol o dan Ran 4 yr MHA, mae penderfyniad dilys ymlaen llaw i wrthod ffurfiau o driniaeth ar gyfer iechyd corfforol neu ar gyfer agwedd arall o driniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol yn parhau'n rhwymol. Nid yw bod yn ddarostyngedig i warcheidiaeth neu CTO neu ryddhad amodol yn effeithio ar benderfyniad ymlaen llaw mewn unrhyw ffordd. Gweler pennod 9 i gael canllawiau pellach ynghylch penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth.

Senario: Penderfynu a ddylid parchu penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth

Mae Ms K yn dioddef o iselder o bryd i'w gilydd ac mae ganddi hen anafiadau corfforol sy'n achosi poen iddi. Nid yw'n hoffi sgîl-ffeithiau'r feddyginiaeth, ac mae'n rheoli ei hiechyd trwy ddeiet ac ymarfer corff. Mae hi'n gwybod y gallai staff gofal iechyd amau ei gallu i wneud penderfyniadau pan fydd hi'n isel ei hysbryd. Felly mae'n gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod pob meddyginiaeth ar gyfer ei phoen corfforol a'i hiselder.

Flwyddyn yn ddiweddarach, ma'n dioddef o iselder difrifol ac mae'n cael ei chadw o dan yr MHA. Mae ei meddyg teulu'n hysbysu'i hymgyngorydd yn yr ysbyty am ei phenderfyniad ymlaen llaw.

Mae cyflwr Ms K yn dirywio cymaint fel ei bod yn gwrthod trafod triniaeth. Mae'r ymgynghorydd yn penderfynu rhagnodi meddyginiaeth ar gyfer ei hiselder, er gwaethaf ei phenderfyniad ymlaen llaw. Mae hyn yn bosibl oherwydd bod Ms K yn cael ei chadw o dan yr MHA.

Mae'r ymgynghorydd hefyd yn asesu Ms K fel bod â phrinder gallu i gydsynio i feddyginiaeth ar gyfer ei phoen corfforol. Mae'n ystyried dilysrwydd y penderfyniad ymlaen llaw i wrthod meddyginiaeth ar gyfer y poen corfforol, ac mae meddyg teulu Ms K yn dweud bod Ms K yn iach pan wnaeth y penderfyniad a dangosodd allu i ddeall beth roedd yn ei olygu. Ym marn y meddyg teulu, roedd gan Ms K y gallu i wneud penderfyniad ymlaen llaw. Mae'r ymgynghorydd yn penderfynu bod y penderfyniad ymlaen llaw yn ddilys ac yn berthnasol, ac nid yw'n rhagnodi meddyginiaeth ar gyfer poen Ms K - er ei fod yn meddwl y byddai er ei budd pennaf.

Pan fydd cyflwr Ms K yn gwella, mae'r ymgynghorydd yn trafod â hi a hoffai newid ei meddwl ynglŷn â thriniaeth ar gyfer ei phoen corfforol.

Sut mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn effeithio ar gydsyniad ymlaen llaw i unigolyn gael ei dderbyn i'r ysbyty? ¹²⁴

22.35 Mae unigolyn yn gallu rhoi cydsyniad ymlaen llaw i gyfres o drefniadau a fyddai fel arall yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Pe byddai unigolyn wedyn yn colli'r gallu perthnasol a bod angen iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty ar gyfer triniaeth am anhwylder meddyliol,

¹²⁴ Cwestiwn ymgynghoriad ar bapur gwyn y Ddeddf Iechyd Meddwl (cyhoeddwyd Ionawr 2021): Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r hawl i roi cydsyniad o flaen llaw i dderbyn cleifion i ysbyty iechyd meddwl yn anffurfiol gael ei nodi yn y Ddeddf Iechyd Meddwl (MHA) a chod ymarfer yr MHA i'w gwneud yn glir bod yr hawl hon ar gael i unigolion?

<https://www.gov.uk/government/consultations/reforming-the-mental-health-act/reforming-the-mental-health-act>

byddai'u cydsyniad yn aros yn ddilys ac ni fyddai hyn yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Yn y fath achosion ni fyddai'r LPS ar gael ond gallai'r MHA fod yn opsiwn. Gweler pennod xx i gael mwy o fanylion.

A yw'r MHA yn effeithio ar ddyletswyddau atwrneiod a dirprwyon?

- 22.36 Yn gyffredinol, nid yw'r MHA yn effeithio ar bwerau atwrneiod a dirprwyon. Ond mae dau eithriad:
- nid ydynt yn gallu cydsynio ar ran claf ar gyfer triniaeth o dan Ran 4 yr MHA, lle mae'r claf yn atebol i gael ei gadw o dan yr MHA (gweler 13.28–13.34 uchod), ac
 - nid ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau:
 - am ble dylai unigolyn sy'n ddarostyngedig i warcheidiaeth fyw, neu
 - sy'n groes i benderfyniadau mae gan warcheidwad hawl gyfreithiol i'w gwneud.
- 22.37 Nid yw bod yn ddarostyngedig i'r MHA yn atal cleifion rhag creu Atwrneiaeth Arhosol newydd (os bydd ganddynt y gallu i wneud hynny). Nid yw'n atal y Llys Gwarchod chwaith rhag penodi dirprwy iddynt.
- 22.38 Mewn achosion penodol, gall fod yn ofynnol i bobl sy'n ddarostyngedig i'r MHA fodloni amodau penodol sy'n gysylltiedig â:
- chaniatâd absenoldeb o'r ysbyty
 - CTO, neu
 - ryddhad amodol.
- 22.39 Mae amodau'n amrywio o achos i achos, ond gallai gynnwys gofyniad i:
- fyw mewn man penodol
 - cadw cysylltiad â gwasanaethau iechyd, neu
 - osgoi ardal benodol.
- 22.40 Os bydd atwrnai neu ddirprwy yn gwneud penderfyniad sy'n mynd yn erbyn un o'r amodau hyn, ystyrir y bydd y claf wedi mynd yn erbyn yr amod. Mae'r MHA yn amlinellu'r gweithredoedd a allai gael eu cymryd yn y fath amgylchiadau. Yn achos caniatâd absenoldeb neu ryddhad amodol, gallai hyn gynnwys y claf yn cael ei alw'n ôl i'r ysbyty.
- 22.41 Mae atwrneiod a dirprwyon yn gallu arfer hawliau cleifion o dan yr MHA ar eu rhan, os bydd ganddynt yr awdurdod perthnasol. Yn enwedig, gall rhai atwrneiod a dirprwyon lles personol wneud cais i'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl (MHRT) i ryddhau'r claf o gael ei gadw, gwarcheidiaeth neu ôl-ofal o dan oruchwyliaeth.
- 22.42 Mae'r MHA hefyd yn rhoi hawliau amrywiol i berthynas agosaf claf. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i:

- fynnu bod adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yn cyfarwyddo gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy i ystyried a ddylai'r claf gael ei wneud yn ddarostyngedig i'r MHA
- gwneud cais i'r claf gael ei dderbyn i'r ysbyty neu warcheidiaeth
- gwrthwynebu cais am fynediad i driniaeth
- gorchymyn rhyddhau'r claf o'r ysbyty (yn amodol ar amodau penodol) a
- gorchymyn rhyddhau'r claf o warcheidiaeth.

22.43 Mae'n bosibl na all atwrneiod a dirprwyon arfer yr hawliau hyn, oni bai mai nhw eu hunain yw'r perthynas agosaf. Os bydd y perthynas agosaf ac atwrnai neu ddirprwy'n anghytuno, gall fod o gymorth iddynt drafod y mater gyda chymorth clinigwyr neu weithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy'r claf. Ond yn y pen draw mae ganddynt rolau gwahanol ac mae'n rhaid i'r ddau weithredu fel y maent yn ystyried sydd orau. Mae'n rhaid i atwrnai neu ddirprwy weithredu er y budd pennaf i'r claf.

22.44 Mae'n arfer da i glinigwyr ac eraill sy'n cymryd rhan mewn asesu neu drin cleifion o dan yr MHA geisio canfod a oes gan yr unigolyn atwrnai neu ddirprwy. Os bydd angen gallant gysylltu â'r OPG i ddod o hyd i'r wybodaeth hon. Er mwyn sicrhau bod clinigwyr ac eraill sy'n cymryd rhan yn gwybod bod gorchymyn LPA neu ddirprwyaeth ar waith, dylai atwrneiod a dirprwyon gysylltu â naill ai:

- y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gyfrifol am driniaeth y claf (a adnabyddir fel arfer fel clinigydd cyfrifol y claf)
- rheolwyr yr ysbyty lle mae'r claf yn cael ei gadw
- gwarcheidwad yr unigolyn (fel arfer adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol), neu
- oruchwyliwr yr unigolyn (os bydd y claf yn ddarostyngedig i ôl-ofal o dan oruchwyliaeth).

22.45 Fel arfer, mae gan ysbytai sy'n trin cleifion wedi'u cadw swyddfa gweinyddwr Deddf Iechyd Meddwl, a all fod yn bwynt cyswllt cyntaf defnyddiol.

A yw'r MHA yn cael effaith pan fydd yn rhaid rhoi cyfarwyddyd i Eiriolwyr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol?

22.46 Fel yr esboniwyd ym mhennod 10, nid oes dyletswydd i gyfarwyddo Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA) ar gyfer penderfyniadau ynghylch triniaeth feddygol ddifrifol sydd i gael ei rhoi o dan Ran 4 yr MHA. Nid oes dyletswydd chwaith i wneud hynny ynghylch symud i mewn i lety, neu newid llety, os bydd yn ofynnol i'r unigolyn o dan sylw fyw ynddo oherwydd rhwymedigaeth o dan yr MHA. Gallai'r rhwymedigaeth honno fod yn amod caniatâd absenoldeb neu ryddhad amodol o'r ysbyty neu ofyniad a osodir gan warcheidwad neu oruchwyliwr.

- 22.47 Fodd bynnag, mae'r rheolau ar gyfer cyfarwyddo IMCA i gleifion yn amodol ar yr MHA a allai dderbyn triniaeth feddygol ddifrifol nad yw'n gysylltiedig â'u hanhwylder meddyliol yr un peth ag i unrhyw glaf arall.
- 22.48 Byddai'r dyletswydd i gyfarwyddo IMCA hefyd yn berthnasol fel arfer os bydd llety'n cael ei gynllunio fel rhan o'r ôl-ofal o dan adran 117 yr MHA yn dilyn rhyddhau'r unigolyn o gael ei gadw (ac nad yw'n mynd i fod yn ofynnol i'r unigolyn fyw ynddo fel amod o CTO). Mae hyn oherwydd nad oes rhaid i'r unigolyn dderbyn y llety hwnnw.

Beth yw Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHAau) a sut maent yn wahanol i Eiriolwyr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCAau)?

- 22.49 Mae gwasanaethau IMHA yn darparu gweithdrefn i gleifion sy'n ddarostyngedig i'r MHA. Mae IMHAau yn eiriolwyr arbenigol sydd wedi'u hyfforddi'n benodol i weithio o fewn fframwaith yr MHA ac i alluogi cleifion i gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau, er enghraifft, trwy annog cleifion i fynegi'u barn a'u cynorthwyo i gyfathrebu eu barn. Maent yn cael eu comisiynu gan yr awdurdod lleol perthnasol. Dylai IMHAau fod yn annibynnol o unrhyw unigolyn sydd wedi cymryd rhan yn broffesiynol yn nhriniaeth feddygol y claf.
- 22.50 Nid yw gwasanaethau IMHA yn lle unrhyw wasanaethau eirioli a chymorth eraill sydd ar gael i gleifion, gan gynnwys IMCAau, ond fe'u bwriedir i weithredu'n gytûn â'r gwasanaethau hynny.
- 22.51 Gall yr un eiriolwr fod yn gymwys i weithredu fel IMHA ac IMCA, er bod y rhain yn rolau gwahanol.

Beth yw effaith adran 57 y Ddeddf Iechyd Meddwl ar yr MCA?

- 22.52 Mae adran 57 yr MHA yn datgan bod seicolawdriniaeth (niwrolawdriniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol) yn gofyn am:
- gydsyniad y claf, a
 - chymeradwyaeth meddyg annibynnol a dau unigolyn arall a benodir gan Gomisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl.
- 22.53 Seicolawdriniaeth yw unrhyw lawdriniaeth sy'n dinistrio meinweoedd yr ymennydd neu weithrediad meinweoedd yr ymennydd.
- 22.54 Mae'r un rheolau'n gymwys i driniaethau eraill a amlinellir mewn rheoliadau o dan adran 57. Ar hyn o bryd, yr unig driniaeth sy'n cael ei chynnwys mewn rheoliadau yw mewnblianiad llawfeddygol o hormonau i leihau ysfa rywiol dyn.
- 22.55 Effaith gyfunol adran 57 yr MHA ac adran 28 yr MCA yw, i bob pwrpas, na fydd unigolyn sydd â phrinder gallu i gydsynio i un o'r triniaethau hyn ar gyfer anhwylder meddyliol fyth yn ei chael o bosibl. Nid yw staff gofal iechyd yn gallu defnyddio'r MCA fel ffordd amgen o roi'r mathau hyn o driniaeth. Ni all atwrnai neu ddirprwy chwaith roi caniatâd iddynt ar ran unigolyn.

Beth sy'n digwydd pan fydd angen i unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol gael ei amddifadu o ryddid mewn ysbyty ar gyfer asesiad neu driniaeth anhwylder meddyliol?

- 22.56 Mae'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid yn darparu'r awdurdod cyfreithiol ar gyfer amddifadu unigolyn o ryddid mewn unrhyw leoliad (gan gynnwys ysbytai), lle mae'r unigolyn hwnnw â'r prinder gallu meddyliol perthnasol. Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 (MHA), mewn telerau ehangach, yn darparu ar gyfer cadw unigolyn mewn ysbyty ar gyfer asesu neu drin eu hanhwylder meddyliol, ac ar gyfer gofal o dan oruchwyliaeth a thriniaeth yn y gymuned.
- 22.57 Mae rhyngwyneb felly pan fydd trefniadau'r MHA a'r LPS yn dod at ei gilydd. Er enghraifft, pan fydd angen amddifadu unigolyn o'u rhyddid mewn ysbyty ar gyfer asesu neu drin eu hanhwylder meddyliol ac y gallai'r naill drefn neu'r llall gael ei defnyddio, neu lle gellir defnyddio'r ddwy drefn ochr yn ochr â'i gilydd yn y gymuned. Mae'r adran hon yn disgrifio'r rhyngwyneb, gan gynnwys mewn achosion perthnasol, yr ystyriaethau y mae'n rhaid neu y dylai ymarferwyr eu dilyn wrth benderfynu pa drefn yw'r un fwyaf priodol. Mae'n bwysig cofio bod y rhyngwyneb yn gymwys i nifer gymharol fach o achosion yn unig.

Derbyn i'r ysbyty ar gyfer trin anhwylder meddyliol yn feddygol

- 22.58 Mewn sefyllfaoedd penodol, gellid dibynnu ar yr LPS yn ogystal â'r MHA i amddifadu unigolyn o'u rhyddid pan gânt eu derbyn i'r ysbyty. Mae'n rhaid bodloni nifer o amodau er mwyn i hyn fod yn wir. Os bydd unigolyn yn 16 oed neu'n hŷn ac:
- yn dioddef o anhwylder meddyliol (o fewn ystyr yr MHA¹²⁵), a bod angen iddo gael ei asesu/neu ei drin mewn lleoliad ysbyty ar gyfer yr anhwylder hwnnw (gan gynnwys ar gyfer cyflyrau corfforol sy'n gysylltiedig â'r anhwylder hwnnw) (ac yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cais am gael ei dderbyn o dan adrannau 2 neu 3 yr MHA – gweler mwy o wybodaeth ym mharagraffau XX),
 - â phrinder gallu i gydsynio i gael lle yn yr ysbyty perthnasol at ddiben derbyn triniaeth feddygol ar gyfer yr anhwylder meddyliol, ac,
 - nad yw'n gwrthwynebu cael ei dderbyn i'r ysbyty, neu i rywfaint neu'r holl driniaeth y byddant yn ei derbyn yno ar gyfer anhwylder meddyliol (gan gynnwys triniaeth ar gyfer cyflwr corfforol sy'n gysylltiedig â'r anhwylder meddyliol), a,
 - bod ganddo drefniadau triniaeth gofal a all neu a fydd yn golygu amddifadu o ryddid; ac
 - nad yw'n cael ei gadw'n barod o dan yr MHA, neu'n ddarostyngedig i un o'r pwerau cymunedol o dan yr MHA, ac
 - nad yw atwrnai wedi'i benodi o dan LPA neu ddirprwy (â phwerau dilys a pherthnasol) wedi cydsynio i'r derbyn i'r ysbyty neu unrhyw agwedd o'r driniaeth feddygol. Wedyn mewn egwyddor, gallai awdurdodiad o dan naill ai'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid neu gadw o dan yr MHA fod ar gael. Mewn

¹²⁵ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1983/20/section/1>

achosion yn unig lle mae'r holl wybodaeth uchod yn gymwys y gellir defnyddio naill ai'r MHA neu'r LPS. Mae'n bwysig nodi nad yw unigolyn yn gallu cael ei gadw o dan yr MHA ar yr un pryd â bod yn ddarostyngedig i awdurdodiad o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid.

22.59 Er mwyn pennu a fyddai'n bosibl defnyddio'r naill drefn neu'r llall, dylid asesu gallu'r unigolyn a'i gofnodi pan gânt eu derbyn i'r ysbyty. Os na fydd yr unigolyn â phrinder gallu, yna ni fydd y rhyngwyneb yn gymwys, a dylid defnyddio'r MHA. Mae hyn yn gymwys yn unig pan fydd yr unigolyn yn cael ei dderbyn i'r ysbyty ar gyfer trin anhwylder meddyliol neu gyflwr corfforol sy'n gysylltiedig ag anhwylder meddyliol. Ar gyfer pob achos arall o dderbyn i'r ysbyty, ni fydd yn angenrheidiol asesu gallu'r unigolyn wrth gael ei dderbyn, a gellir ei asesu'n hytrach ar adeg penderfyniad perthnasol.

22.60 Yn ymarferol y ddau faen prawf anoddaf i'w pennu fydd a ellid gwneud cais ar gyfer cadw o dan adran 2 neu 3 yr MHA, ac a yw'r unigolyn yn gwrthwynebu.

Sut i benderfynu a ellid gwneud cais am gadw o dan yr MHA

22.61 Mae adran 2 yr MHA yn berthnasol lle bydd unigolyn yn dioddef o anhwylder meddyliol sy'n gofyn iddo gael ei gadw mewn ysbyty i'w asesu, a bod cael ei gadw er budd iechyd neu ddiogelwch yr unigolyn neu gan ystyried diogelu eraill. Mae adran 3 yn gymwys lle mae unigolyn yn dioddef o anhwylder meddyliol a bod angen triniaeth arno mewn ysbyty, mae'n angenrheidiol er mwyn iechyd a diogelwch yr unigolyn neu ddiogelwch eraill i ddarparu'r fath driniaeth, a byddai'n bosibl yn unig i'r unigolyn dderbyn y driniaeth honno wrth iddo gael ei gadw, a bod triniaeth feddygol briodol ar gael.

22.62 Er mwyn pennu a allai cais am gadw gael ei wneud o dan adran 2 neu 3 yr MHA, dylai'r man cychwyn fod a yw'r meini prawf yn adran 2(2) neu adran 3(2) yn cael eu bodloni yn achos y claf (gweler paragraff XX, uchod). Dylai'r gwneuthurwr penderfyniad wedyn ragdybio dau beth:

- os bodlonir y meini prawf hynny, y dylai meddygon fod wedi gwneud yr argymhellion meddygol angenrheidiol i gefnogi'r defnydd o adran 2 neu 3 yr MHA, ac,
- Wrth bennu a yw'r sail yn cael ei bodloni bod triniaeth ar gael i'r claf yn adran 3(2) yr MHA, ni ellir darparu'r driniaeth hon o dan yr LPS

22.63 Dylid nodi fodd bynnag oherwydd y gallai cais o dan adran 2 neu 3 gael ei wneud, nid yw o anghenraid yn wir y bydd y fath gais yn cael ei wneud mewn gwirionedd. Mae'r egwyddorion a amlinellir ym mharagraff XX yn unig ar gyfer penderfynu a allai'r cais gael ei wneud at ddibenion ystyried a yw'r rhyngwyneb rhwng y ddwy Ddeddf yn gymwys.

Sut mae penderfynu os nad yw'r unigolyn yn gwrthwynebu

22.64 Bydd angen i wneuthurwyr penderfyniad ystyried a yw'r unigolyn yn gwrthwynebu bod mewn ysbyty ar gyfer triniaeth feddygol anhwylder meddyliol neu beidio, a/neu i rywfaint neu'r cwbl o'r driniaeth honno. Os bydd yr unigolyn yn gwrthwynebu mewn gwirionedd, yna ni ellir defnyddio'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid, a dylid ystyried yr MHA yn eu lle.

22.65 Mae'r canolbwynt felly'n syml ar a yw'r unigolyn yn gwrthwynebu neu beidio, ac nid ar resymoldeb dymuniadau a theimladau'r unigolyn. Mewn llawer o achosion bydd yr unigolyn yn gallu datgan a yw'n gwrthwynebu neu beidio. Mewn achosion eraill, ni fydd hyn yn amlwg. Dylai gwneuthurwyr penderfyniad ymbwyllo a, lle bo amheuaeth resymol nad yw'r unigolyn yn gwrthwynebu, gymryd y safbwynt ei fod ef neu hi'n gwrthwynebu.

22.66 Wrth bennu a yw'r unigolyn yn gwrthwynebu neu beidio, mae'n rhaid ystyried yr holl amgylchiadau (cyn belled â'u bod yn rhesymol o ganfyddadwy), gan gynnwys y canlynol:

- ymddygiad yr unigolyn,
- dymuniadau a theimladau'r unigolyn, a
- barn, credoau a gwerthoedd yr unigolyn.

22.67 Wrth ystyried ymddygiad yr unigolyn, gall fod yn angenrheidiol ystyried y canlynol (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr):

- ymddygiad llafar a dieiriau.
- a yw'r unigolyn yn derbyn meddyginiaeth ar gyfer iselder neu'n derbyn tawelyddion (gan y gallai hyn fod yn cuddio'u gwrthwynebiad).
- a yw'r unigolyn yn gwrthwynebu'n weithredol (e.e. ceisio gadael y lle).
- a yw'r unigolyn yn cymryd camau paratoadol i adael (e.e. pacio bagiau).
- unrhyw gofnodion ymddygiad a nodwyd fel un heriol a/neu sbardunau sy'n achosi'r fath ymddygiad os byddant yn glaf mewnol eisoes.

22.68 Wrth bennu a yw'r unigolyn yn gwrthwynebu neu beidio, dylid ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol. Gellir ystyried amgylchiadau blaenorol yr unigolyn, ond cyn belled â'i bod yn briodol i'w hystyried yn unig. Er enghraifft, er efallai nad yw'r unigolyn yn mynegi barn ar hyn o bryd, yn y gorffennol gallant fod o bosibl wedi mynegi'n glir eu bod yn gwrthwynebu cael eu cadw o dan yr MHA.

22.69 Mewn rhai achosion, efallai na fydd yn dod yn amlwg a yw'r unigolyn yn gwrthwynebu neu beidio tan bod yr atgyfeiriad wedi cael ei wneud ar gyfer y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid neu asesiad MHA. Gall gwneuthurwyr penderfyniad ddysgu'n ddiweddarach bod yr unigolyn yn gwrthwynebu neu beidio mewn gwirionedd, a gall hyn olygu bod angen i'r asesiad presennol gael ei atal a bod atgyfeiriad newydd yn cael ei wneud ar gyfer y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid neu MHA. Os bydd hyn yn digwydd, gall yr asesiadau sydd wedi'u paratoi gael eu defnyddio neu ddibynnu arnynt ar gyfer yr asesiadau o dan y drefn arall.

Sut i benderfynu rhwng yr LPS a'r MHA

22.70 Mewn achosion lle bodlonir y meini prawf ar gyfer adran 2 neu adran 3 yr MHA, ac nad yw'r unigolyn yn gwrthwynebu, bydd angen i wneuthurwyr penderfyniad benderfynu pa drefn dylid ei defnyddio i awdurdodi'r amddifadu o ryddid. Er mwyn gwneud y penderfyniad hwn, dylai gwneuthurwyr penderfyniad ystyried pa un yw'r ffordd leiaf

cyfyngol o gyflawni'r asesiad neu'r driniaeth a gynigir, trwy fabwysiadu ymagwedd sensitif i ffeithiau ac ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol.

- 22.71 Ni ddylid fyth seilio'r penderfyniad hwn ar ffafrio un drefn neu'r llall yn gyffredinol, neu oherwydd bod un drefn yn fwy cyfarwydd i wneuthurwyr penderfyniad na'r llall. Nid yw'r fath ystyriaethau'n gyfreithiol berthnasol ac maent yn arwain at wneud penderfyniadau'n fympwyol. Yn ogystal, ni ddylai gwneuthurwyr penderfyniad symud ymlaen ar y sail fod un drefn yn gyffredinol yn llai cyfyngol na'r llall. Mae'r ddwy drefn yn seiliedig ar yr angen i osod cyn lleied o gyfyngiadau ar ryddid ac annibyniaeth cleifion â phosibl.
- 22.72 Yn amgylchiadau penodol achos unigol, gall fod yn amlwg fod un drefn yn debygol o brofi'n llai cyfyngol. Os felly, dylid cydbwysu hyn yn erbyn unrhyw fuddion posibl sy'n gysylltiedig â'r drefn arall. Yn y fath amgylchiadau, gall yr LPS fod yn fwy priodol. Yn rhannol, gall hyn fod oherwydd bwriad i gadw'r unigolyn yn ganolbwynt proses yr LPS, sy'n eu cadw yn rhan o'r penderfyniadau ynglŷn â'u hamddifadu o'u rhyddid.
- 22.73 Dylai gwneuthurwyr penderfyniad hefyd ystyried a yw unigolyn sydd wedi'i amddifadu o'i ryddid yn gallu adennill y gallu perthnasol neu fod ganddo allu cyfnewidiol o bosibl. Mae'r fath sefyllfa'n debygol o ddangos y gallai defnyddio'r MHA i awdurdodi amddifadu o ryddid fod yn fwy priodol nag awdurdodiad LPS neu orchymyn y Llys Gwarchod.
- 22.74 Dylai fod gan ysbytai bolisiau ar waith i ymdrin ag amgylchiadau lle mae anghytundeb yn arwain at anallu i wneud penderfyniad p'un ai'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid neu'r MHA dylid eu defnyddio i awdurdodi amddifadu o ryddid. Dylai proses glir o wneud penderfyniadau gael ei hamlinellu gan gynnwys sut i gael mynediad at gyngor cyfreithiol priodol os bydd angen.

Cleifion MHA yn y gymuned a'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid

- 22.75 Mewn rhai achosion, gall unigolyn gael ei gadw o dan bwerau'r MHA ond nid ei gadw mewn ysbyty. Mae'r pwerau hyn fel arfer yn galluogi'r unigolyn i dderbyn gofal a thriniaeth yn y gymuned a chynnwys:
- gwarcheidiaeth neu orchymyn gwarcheidiaeth,
 - absenoldeb adran 17
 - Gorchymynion Triniaeth Gymunedol, a
 - rhyddhad amodol.
- 22.76 Fodd bynnag, nid yw'r pwerau hyn yn gallu awdurdodi amddifadu o ryddid. Pan fydd yr unigolyn yn ddarostyngedig i un o'r pwerau hyn, mewn achosion priodol mae'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid yn gallu cael eu defnyddio i awdurdodi unrhyw amddifadu o ryddid ar yr amod nad yw'n gwrthdaro ag unrhyw ofynion iechyd meddwl o dan y pwerau hyn.
- 22.77 Er enghraifft, gall yr unigolyn fod yn destun Gorchymyn Triniaeth Gymunedol lle mae amodau'r gorchymyn yn nodi dylai'r unigolyn fyw mewn cartref gofal penodedig a mynychu canolfan iechyd gymunedol ar gyfer apwyntiadau claf allanol rheolaidd. Pan fydd yr unigolyn â'r prinder gallu perthnasol, ac y byddai'r trefniadau yn y cartref gofal

ac ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol yn achosi amddifadu o ryddid, gellir defnyddio'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid os y bo angen ac yn briodol.

- 22.78 Yn gyffredinol, tra bo cleifion yn cael eu cadw mewn ysbyty maent yn gallu gadael yn gyfreithlon, hyd yn oed am gyfnod byr iawn, ar yr amod eu bod yn cael caniatâd absenoldeb gan eu clinigydd cyfrifol o dan adran 17 yr MHA. Bydd y clinigydd yn gallu gwneud absenoldeb yn amodol ar unrhyw amodau maent yn eu hystyried yn angenrheidiol er budd y claf neu er mwyn diogelu pobl eraill.
- 22.79 Mewn llawer o achosion, gall adran 17 roi'r awdurdod i amddifadu unigolyn o'u rhyddid. Byddai hyn yn digwydd pan fydd y clinigydd cyfrifol wedi cyfarwyddo bod y claf yn aros yng ngwarchodiaeth rhywun arall yn ystod eu caniatâd absenoldeb, megis aelod o staff yr ysbyty neu unrhyw un arall sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig gan reolwyr yr ysbyty. Ar wahân i'r achosion hyn, nid yw adran 17 yn darparu'r awdurdod ar gyfer amddifadu o ryddid yn y gymuned ac os bydd yr unigolyn â'r prinder gallu perthnasol, dylai'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid gael eu hystyried mewn achosion perthnasol.
- 22.80 Pan fydd trefniadau claf yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid tra ar absenoldeb adran 17, dylai'r clinigydd cyfrifol ystyried yn gyntaf a yw'n bosibl i'r amddifadu o ryddid hwnnw gael ei awdurdodi trwy ddefnyddio adran 17. Dim ond os nad yw hynny'n briodol, a bod y claf â'r prinder gallu perthnasol, y dylid ystyried defnyddio'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid. Mae achosion lle gallai absenoldeb adran 17 beidio â bod yn briodol yn cynnwys:
- Os bydd y trefniadau sy'n achosi'r amddifadu ar gyfer gofal a thriniaeth anhwylder corfforol, yn amherthnasol i anhwylder meddyliol yr unigolyn.
 - Pan weithredir y trefniadau mewn lleoliad teuluol neu'r cartref, ac nad oes neb yn fodlon derbyn bod y claf yn aros yn eu gwarchodiaeth.
 - Pan na fydd yr unigolyn neu unrhyw un arall ar eu rhan yn gwrthwynebu'r trefniadau a gynigir neu'r driniaeth sy'n cael ei darparu tra ar absenoldeb ac nad oes ffurf o ataliad yn cael ei ragweld.
 - Pan fydd gan yr unigolyn gyflwr tymor hir neu ddatblygedig, sy'n debygol o olygu y bydd angen iddynt gael eu hamddifadu o'u rhyddid bob amser, gan gynnwys ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Gall fod yn well defnyddio'r LPS yn y senario hwn fel bod yr unigolyn yn cyfarwyddo â'r broses cyn iddynt gael eu rhyddhau.

Achosion lle na ellir defnyddio'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid

- 22.81 Mae nifer o achosion lle mae defnyddio'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid yn cael ei wahardd yn unswydd. Yn y fath achosion, bydd angen i wneuthurwyr penderfyniad ystyried camau eraill, gan gynnwys defnyddio'r MHA. Trafodir y rhain yn eu tro isod.

Mae'r unigolyn yn cael ei gadw mewn ysbyty o dan yr MHA

- 22.82 Ni ellir defnyddio'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid os bydd yr unigolyn yn cael ei gadw mewn ysbyty o dan yr MHA (neu unrhyw ymddeddiad arall a wneir yn Lloegr a Chymru sydd â'r un effaith).¹²⁶ Byddai hyn yn cynnwys achosion prin lle bydd angen

¹²⁶ Yr adrannau perthnasol yw 2, 3, 4, 35, 36, 37, 38, 44, 45A, 47, 48 a 51 yr MHA.

triniaeth ar yr unigolyn am gyflwr iechyd corfforol sy'n amherthnasol i'w gyflwr iechyd meddwl, a bod angen i'r unigolyn gael ei amddifadu o'u rhyddid er mwyn darparu'r driniaeth honno. Yn yr achosion hyn gellid gwneud cais i'r Llys Gwarchod.

Gallai'r Unigolyn gael ei gadw o dan yr MHA ac mae'n gwrthwynebu

22.83 Fel y trafodwyd yn flaenorol, gall fod angen amddifadu unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol o'u rhyddid mewn ysbyty er mwyn derbyn triniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol. Mewn rhai achosion, ni ellir dibynnu ar yr LPS. Gweler paragraffau XX i gael mwy o wybodaeth.

Mae'r unigolyn ar absenoldeb adran 17 neu ryddhad diamod ac angen cael ei dderbyn

22.84 Pan fydd yr unigolyn ar absenoldeb adran 17 neu'n ddarostyngedig i ryddhad amodol, ac nad yw'n cael ei gadw mewn ysbyty, ni ellir defnyddio'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid i alluogi triniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol mewn ysbytai. Byddai angen i'r unigolyn gael ei dderbyn i'r ysbyty gan ddefnyddio pŵer perthnasol yr MHA.

Yr unigolyn sy'n ddarostyngedig i CTO ac angen triniaeth ysbyty arno ar gyfer anhwylder meddyliol

22.85 Pan fydd unigolyn yn ddarostyngedig i Orchymyn Triniaeth Gymunedol, neu debyg, a bod angen trefniadau a allai fod yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, i alluogi triniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol mewn ysbyty, ni ellir defnyddio'r Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid i awdurdodi'r trefniadau. Mae'n rhaid defnyddio'r MHA; fel arfer y pŵer o alw yn ôl o dan adran 17E.

Y rhai hynny sy'n ddarostyngedig i warcheidiaeth ac sydd angen cael eu derbyn i'r ysbyty ar gyfer anhwylder meddyliol

22.86 Os bydd yr unigolyn yn ddarostyngedig i warcheidiaeth o dan adran 7 neu adran 37 yr MHA, a bod y trefniadau ar gyfer derbyn i'r ysbyty er mwyn darparu triniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol, ni ellir defnyddio'r Gweithdrefnau mddiffyn Rhyddid os:

- bydd yr unigolyn yn gwrthwynebu bod mewn ysbyty ar gyfer y driniaeth neu'n gwrthwynebu derbyn rhywfaint o'r driniaeth neu'r driniaeth gyfan, neu
- na fydd atwrnai a benodwyd o dan LPA neu ddirprwy (gyda phwerau dilys a pherthnasol) wedi cydsynio i'r materion hyn.
- Os bydd y naill neu'r llall (neu'r ddau) o'r rhain yn gymwys, dylid ystyried defnyddio'r MHA.
- Os na fydd yr unigolyn yn gwrthwynebu unrhyw faterion, neu fod atwrnai neu ddirprwy wedi gwneud penderfyniad dilys i gydsynio i bob mater mae'r unigolyn yn ei wrthwynebu, gellir awdurdodi'r trefniadau o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid.

Eithriad yr MHA

22.87 Gellir ystyried unigolyn ag anabledd dysgu i fod ag anhwylder meddyliol at ddibenion pwerau penodol yn yr MHA yn unig (megis adran 3, Gorchymynion Triniaeth Gymunedol a gwarcheidiaeth), heb anhwylder meddyliol arall, lle bydd yr anabledd dysgu'n gysylltiedig ag un neu'r ddwy o'r nodweddion ychwanegol canlynol:

- ymddygiad anarferol o ymosodol
- ymddygiad difrifol o anghyfrifol.

22.88 Os bydd angen i unigolyn ag anabledd dysgu gael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn ysbyty ac yn cael eu heithrio o'r MHA, dylid ystyried awdurdodiad o dan yr LPS. Hyd yn oed os na fydd yr unigolyn yn cael ei eithrio o'r MHA, gall yr LPS fod yn briodol o hyd i awdurdodi eu trefniadau os nad ydynt yn gwrthwynebu. Dylai gwneuthurwyr penderfyniad ystyried y pwyntiau uchod i benderfynu pa fframwaith cyfreithiol yw'r un mwyaf priodol ar gyfer yr unigolyn hwnnw.

DRAFT

23. Pa ddulliau diogelu sy'n bodoli i bobl sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniad drostynt eu hunain?

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r asiantaethau gwahanol sy'n bodoli i helpu i sicrhau bod pobl sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniad drostynt eu hunain yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'n esbonio hefyd y gwasanaethau mae'r asiantaethau hynny yn eu darparu a sut maent yn goruchwyllo pobl sy'n darparu gofal neu wneud penderfyniadau ar ran pobl sydd â phrinder gallu. Yn olaf, mae'n esbonio beth ddylai rhywun wneud os ydynt yn amau bod rhywun yn cam-drin oedolyn neu unigolyn ifanc sydd â phrinder gallu.

Yn y bennod hon, fel trwy'r Cod cyfan, mae gallu (neu brinder gallu unigolyn) yn cyfeirio'n benodol at eu gallu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg mae angen iddo gael ei wneud.

Crynodeb cyflym

- Mae gan bawb rôl mewn diogelu pobl sydd â phrinder gallu. Adroddwch am amheuan o gam-drin neu esgeuluso unigolyn sydd â phrinder gallu bob tro i'r asiantaeth berthnasol.

Pryderon am unigolyn sydd â phrinder gallu mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod

- Os bydd rheswm da i amau bod rhywun wedi cyflawni trosedd yn erbyn unigolyn sydd â phrinder gallu, megis lladrad, ymosodiad corfforol neu rywiol neu gamdriniaeth yn y cartref, cysylltwch â'r heddlu.
- Yn ogystal, cysylltwch â gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion neu blant a phobl ifanc, fel y bo'n berthnasol, er mwyn iddynt allu gweithio gyda'r heddlu a chynorthwyo'r unigolyn mewn perygl yn ystod yr ymchwiliad.
- Os na fydd rhywun yn derbyn y gofal cywir, cysylltwch â gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion neu blant, fel y bo'n berthnasol.

Pryderon am atwrnai neu ddirprwy

- Os bydd rhywun yn pryderu am weithredoedd atwrnai neu ddirprwy, dylent gysylltu â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mae mwy o fanylion ym mhennod 7 (atwrneiod) a phennod 8B (dirprwyon).

Pryderon am ofal neu driniaeth

- Pan fydd pryder am y gofal iechyd neu ofal cymdeithasol a ddarperir i unigolyn sydd â phrinder gallu, mae ffyrdd ffurfiol ac anffurfiol o gwyno am y gofal neu driniaeth. Gweler pennod 15 i gael mwy o wybodaeth.

Pryderon am benodai

- Pan fydd rhywun yn pryderu am benodai'n casglu neu'n defnyddio budd-daliadau nawdd cymdeithasol ar ran unigolyn sydd â phrinder gallu, dylent gysylltu ag asiantaeth berthnasol yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Beth yw camdriniaeth?

- 23.1 Mae'r gair 'camdriniaeth' yn cynnwys ystod eang o weithredoedd. Mewn rhai achosion, mae camdriniaeth yn amlwg yn fwriadol ac yn fwriadol angharedig. Ond weithiau bydd camdriniaeth yn digwydd oherwydd nad yw rhywun yn gwybod sut i ymddwyn yn gywir - neu nad oes ganddynt gymorth a chefnogaeth briodol. Mae'n bwysig atal camdriniaeth, lle bynnag y bo'n bosibl. Os bydd rhywun yn cael ei gamdrin neu'i esgeuluso, mae'n bwysig gwneud ymholiadau am y pryderon i sefydlu pa weithredoedd sy'n ofynnol i ddiogelu'r unigolyn (ac eraill o bosibl).
- 23.2 Camdriniaeth yw unrhyw beth sy'n mynd yn erbyn hawliau dynol a sifil unigolyn. Mae hyn yn cynnwys camdriniaeth rywiol, corfforol, geiriol, ariannol ac emosiynol, a sefyllfaoedd lle mae trais yn y cartref, caethwasiaeth fodern, triniaeth wahaniaethol, camdriniaeth sefydliadol, esgeuluso a hunan-esgeuluso.
- 23.3 Mae camdriniaeth yn gallu bod yn:
- weithred unigol
 - cyfres o weithredoedd wedi'u hailadrodd
 - methu â darparu gofal angenrheidiol, neu fethu â gweithredu'n briodol.
- 23.4 Mae camdriniaeth yn gallu digwydd mewn unrhyw le (er enghraifft, yng nghartref yr unigolyn ei hun, cartref gofal, ysbyty, neu leoliad arall).
- 23.5 Y prif fathau o gamdriniaeth yw:

Math o gamdriniaeth	Enghreifftiau
Ariannol neu faterol	<ul style="list-style-type: none"> • dwyn • twyll • pwysau amhriodol • camddefnyddio eiddo, meddiannau neu fudd-daliadau

	<ul style="list-style-type: none"> • ennill eiddo, meddiannau neu fudd-daliadau'n anonest
Corfforol	<ul style="list-style-type: none"> • taro, gwthio, cicio neu ffurfiau eraill o drais • camddefnyddio meddyginiaeth (er enghraifft, cynyddu dos i wneud rhywun yn gysglyd) gan gynnwys tynnu meddyginiaeth yn ôl • cosbau amhriodol (er enghraifft, peidio â rhoi pryd o fwyd i rywun oherwydd eu bod wedi bod yn 'ddrwg')
Trais	<ul style="list-style-type: none"> • treisio • ymosodiad rhywiol • gweithredoedd rhywiol heb gydsyniad (mae hyn yn cynnwys os na fydd unigolyn yn gallu rhoi cydsyniad neu fod y camdriniwr wedi defnyddio pwysau)
Seicolegol	<ul style="list-style-type: none"> • camdriniaeth emosiynol • bygythiadau o niweidio, ataliad neu droi cefn • gwrthod cysylltiad â phobl eraill • codi ofn • bygythiadau i gyfyngu ar ryddid rhywun
Esgeuluso a gweithredoedd o eithrio (gan gynnwys hunan-esgeuluso)	<ul style="list-style-type: none"> • anwybyddu anghenion meddygol neu gorfforol yr unigolyn • methu â sicrhau gofal iechyd neu ofal cymdeithasol • tynnu meddyginiaeth, bwyd neu wres yn ôl
Arall	<ul style="list-style-type: none"> • caethwasiaeth fodern • anffurfio organau cenhedlu benywod • priodas dan orfod • trais yn seiliedig ar anrhydedd • camdriniaeth wahaniaethol • trosedd casineb
Sefydliadol	<ul style="list-style-type: none"> • esgeuluso ac arfer gofal gwael o ganlyniad i strwythur y polisïau, prosesau ac arferion o fewn sefydliad

Pa ddeddfwriaeth sy'n diogelu pobl sydd â phrinder gallu rhag camdriniaeth neu esgeulustod?

23.6 Awdurdodau lleol yw'r arweinydd statudol ar gyfer diogelu plant ac oedolion. Dylai'r rhai hynny sy'n gweithio gyda phobl sydd â phrinder gallu fod yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau diogelu a amlinellir yn y ddeddfwriaeth ganlynol.

Oedolion

23.7 Mae Deddf Gofal 2014 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu fframweithiau deddfwriaethol ar gyfer diogelu oedolion mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod yn Lloegr a Chymru. Yn Lloegr, gellir dod o hyd i ganllawiau yn y Cyfarwyddyd Statudol Gofal a Chymorth¹²⁷. Yng Nghymru, gellir dod o hyd i ganllawiau yn y canllawiau statudol a'r Codau Ymarfer ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014¹²⁸ a Gweithdrefnau Diogelu Cymru¹²⁹.

Plant a phobl ifanc

23.8 Mae Deddfau Plant 1989 a 2004 yn amlinellu dyletswyddau penodol mewn perthynas â diogelu plant yn Lloegr. Mae'r canllawiau statudol Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant (2018)¹³⁰ yn egluro'r gofynion cyfreithiol craidd ar unigolion a sefydliadau yn Lloegr i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

23.9 Yng Nghymru, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer diogelu plant. Gellir dod o hyd i'r canllawiau yn y canllawiau statudol a'r Codau Ymarfer ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Beth os bydd rhywun yn meddwl y gall unigolyn sydd â phrinder gallu fod mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod?

23.10 Dylai unrhyw un sy'n meddwl y gall unigolyn sydd â phrinder gallu fod mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod:

- gysylltu â'r heddlu os amheuir trosedd

¹²⁷ <https://www.gov.uk/government/publications/care-act-statutory-guidance/care-and-support-statutory-guidance>

¹²⁸ <https://socialcare.wales/hub/sswbact-legal-framework>

¹²⁹ <https://safeguarding.wales/>

¹³⁰

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/77940/1/Working_Together_to_Safeguard_Children.pdf

- cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol oedolion neu blant awdurdod lleol perthnasol (gweler gwefan yr awdurdod lleol am fanylion cyfredol)
- cysylltu â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus os mai'r ffynhonnell ymddangosiadol o risg yw atwrnai neu ddirprwy (gweler paragraff 14.12 isod),
- derbyn cyngor gan sefydliad perthnasol¹³¹ neu gan Gyngor Cyfreithiol Sifil¹³².

23.11 Bydd gweithdrefnau diogelu cenedlaethol neu leol (megis y rhai hynny a lywodraethir gan Fyrddau Diogelu Oedolion neu Fyrddau Diogelu Plant) yn dweud â phwy i gysylltu a phwy ddylai weithredu. Ond mae rhai mathau o gamdriniaeth yn gallu bod yn drosedd, megis ymosodiad corfforol, ymosodiad neu drais rhywiol, dwyn, twyll a rhai dulliau eraill o gamfanteisio'n ariannol. Mae'n hanfodol yn yr achosion hyn, dylai'r unigolyn sy'n amau camdriniaeth gysylltu â'r heddlu ar unwaith. Mae'r ymchwiliad troseddol yn gallu cymryd blaenoriaeth dros bob dull arall o ymchwilio. Mae'n rhaid i bob asiantaeth weithio gyda'i gilydd i gynllunio'r ffordd orau i wneud ymholiadau ac atal camdriniaeth neu esgeulustod posibl.

23.12 Gall fod angen cyfarwyddo Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA) ynghylch diogelu ymholiadau oedolion (gweler pennod 10). Gallai rhai pobl a all fod angen IMCA mewn perthynas â diogelu oedolion hefyd fodloni'r meini prawf statudol ar gyfer eiriolwr o dan adran 68 Deddf Gofal 2014 yn Lloegr, neu'r gofynion ar gyfer eiriolaeth o dan Ran 10 y Codau Ymarfer ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Pan fydd awdurdod lleol yn trefnu eiriolwr annibynnol yn y fath amgylchiadau, byddai angen iddynt fod yn glir a fyddant yn gweithredu fel eiriolwr at ddibenion Deddf Gofal 2014 / Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, fel IMCA, neu fel y ddau.

Beth yw rôl y Ddeddf mewn diogelu pobl rhag camdriniaeth?

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

23.13 24.10. Mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (o dan adran 57 y Ddeddf), wedi'i gynorthwyo gan staff Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG), yn helpu i ddiogelu pobl sydd â phrinder gallu trwy:

- sefydlu a rheoli cofrestr o LPAau
- sefydlu a rheoli cofrestr o EPAau
- sefydlu a rheoli cofrestr o orchmynion llys sy'n penodi dirprwyon

¹³¹ Er enghraifft, Gweithredu ar Gam-drin Pobl Hŷn
<https://www.thenationalcareline.org/AccessingHelp/ActionOnElderAbuse>, Age UK
<https://www.ageuk.org.uk/>

¹³² www.gov.uk/civil-legal-advice

- goruchwylio dirprwyon, gan weithio gyda sefydliadau perthnasol eraill (er enghraifft, gwasanaethau cymdeithasol, os bydd yr unigolyn sydd â phrinder gallu'n derbyn gofal cymdeithasol)
- anfon Ymwelwyr Llys Gwarchod i ymweld â phobl a all fod â phrinder gallu i wneud penderfyniadau penodol a'r rhai hynny sydd â phwerau ffurfiol i weithredu ar eu rhan (gweler paragraffau 14.13–14.14 isod)
- derbyn adroddiadau gan atwrneiod sy'n gweithredu o dan LPAau a gan ddirprwyon
- darparu adroddiadau i'r Llys Gwarchod, yn ôl y gofyn, ac
- ymdrin â chynrychiolaethau (gan gynnwys cwynion) am y ffordd y mae atwrneiod neu ddirprwyon yn cyflawni'u dyletswyddau.

Ymwelwyr y Llys Gwarchod

23.14 Rôl Ymwelydd y Llys Gwarchod yw darparu cyngor annibynnol i'r llys a'r Gwarcheidwad Cyhoeddus¹³³. Mae ymwelwyr yn cynghori sut y dylai unrhyw un y rhoddwyd pŵer iddo o dan y Ddeddf ymddwyn, ac y maent yn cyflawni'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Mae dau fath o ymwelydd: Ymwelwyr Cyffredinol ac Ymwelwyr Arbennig. Mae Ymwelwyr Arbennig yn ymarferwyr meddygol cofrestredig ag arbenigedd perthnasol. Mae'r llys neu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gallu anfon pa fath bynnag o ymwelydd sy'n fwyaf priodol i ymweld ag a chyfweld unigolyn a all fod â phrinder gallu. Mae ymwelwyr hefyd yn gallu cyfweld atwrneiod a dirprwyon ac arolygu unrhyw gofnodion gofal iechyd neu ofal cymdeithasol perthnasol. Mae'n rhaid i atwrneiod a dirprwyon gydweithredu â'r ymwelwyr a rhoi'r holl wybodaeth berthnasol iddynt. Os na fydd atwrneiod a dirprwyon yn cydweithredu, mae'r llys yn gallu diddymu eu penodiad, lle y bo'n meddwl nad ydynt wedi gweithredu er y budd pennaf i'r unigolyn.

¹³³ <https://www.gov.uk/government/publications/public-guardian-practice-note-release-of-visitors-reports/court-of-protection-visitors-and-the-release-of-their-reports-web-version>

Senario: Defnyddio Ymwelydd Cyffredinol

Gwnaeth Ms Q LPA gan benodi ei nai fel ei hatwrnai ariannol. Collodd ei gallu'n ddiweddar i wneud ei phenderfyniadau ariannol ei hun oherwydd dementia, ac mae ei nai nawr yn rheoli materion ariannol Ms Q.

Mae nith Ms Q yn siarad â Ms Q sy'n dweud bod angen rhywfaint o'i harian ar ei nai i dalu rhai dyledion. Mae'r nith yn pryderu nad yw'r nai yn rheoli materion ariannol Ms Q er y budd pennaf i Ms Q, ac mae hi'n cysylltu â'r OPG i'w hysbysu am ei phryderon.

Mae ymchwilydd yr OPG yn gofyn i nai Ms Q anfon copïau o'i chyfrifon a thrafodion ariannol. Mae'r rhain yn dangos sawl trosglwyddiad o dros £10,000 yr un i nai Ms Q. Mae'r OPG hefyd yn anfon ymwelydd cyffredinol i siarad â Ms Q ac yn asesu ei gallu i ddeall y pryderon a godwyd.

Mae'r ymwelydd yn cwblhau asesiad galluedd meddyliol i ganfod a yw Ms Q yn gallu delio â'r pryderon. Mae hi'n gofyn cyfres o gwestiynau i weld a yw Ms Q yn gallu deall y pryderon, cadw a phwyso a mesur gwybodaeth ynglŷn â'r pryderon ac a yw Ms Q yn gallu cyfathrebu ei phenderfyniad i'r ymwelydd.

Ar ôl yr ymweliad mae'r ymwelydd yn cyflwyno'i hadroddiad gan gynnwys ei hasesiad i ymchwilydd yr OPG. Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod Ms Q â phrinder gallu i reoli'i materion ariannol a delio â'r pryderon.

Nid oedd nai Ms Q wedi gwneud cais i'r Llys Gwarchod am awdurdodiad ynghylch y rhoddion i'w hun. Trwy roi arian i'w hun nid yw wedi bod yn gweithredu er y budd pennaf i Ms Q.

Mae'r OPG yn penderfynu gwneud cais i'r Llys Gwarchod i ddiswyddo nai Ms Q fel ei hatwrnai, gan fod ganddynt gred resymol bod nai Ms Q wedi gweithredu'n amhriodol.

23.15 Mae gan Ymwelwyr y Llys Gwarchod ran bwysig wrth ymchwilio camdriniaeth bosibl. Ond mae eu rôl yn llawer ehangach na hyn. Maent hefyd yn gallu sicrhau llesiant cyffredinol yr unigolyn sydd â phrinder gallu, ac maent yn gallu rhoi cymorth i atwrneiod a dirprwyon y mae angen cymorth arnynt i gyflawni'u dyletswyddau.

Sut mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn arolygu LPAau?

23.16 Trefniant preifat yw LPA rhwng rhoddwr 18 oed neu throsodd ac atwrnai (gweler pennod 7). Dylai rhoddwyr ddewis atwrneiod maent yn gallu ymddiried ynddynt yn unig. Mae'r OPG yn darparu gwybodaeth i helpu rhoddwyr posibl ddeall:

- effaith gwneud LPA

- yr hyn maent yn gallu rhoi awdurdod i atwrnai ei wneud
- beth i'w ystyried wrth ddewis atwrnai.

23.17 Mae'n rhaid i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus sicrhau bod LPA yn bodloni gofynion y Ddeddf. Cyn cofrestru LPA, bydd yr OPG yn gwirio dogfennaeth. Ni fydd y Gwarcheidwad Cyhoeddus fel arfer yn cymryd rhan cyn gynted â bod rhywun wedi cofrestru LPA - oni bai bod rhywun yn pryderu am sut mae atwrnai'n cyflawni'u dyletswyddau. Os bydd pryderon yn cael eu codi am atwrnai, mae'r OPG yn gweithio'n agos gyda sefydliadau megis awdurdodau lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG i gynnal ymchwiliadau.

Sut mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn goruchwylio dirprwyon?

23.18 Nid yw unigolion yn dewis pwy fydd yn gweithredu fel dirprwy drostynt. Y llys sy'n gwneud y penderfyniad. Mae mesurau mewn grym i sicrhau bod y llys yn penodi dirprwy priodol. Mae'r OPG wedyn yn goruchwylio dirprwyon ac yn eu cynorthwyo i gyflawni'u dyletswyddau, wrth sicrhau hefyd nad ydynt yn camddefnyddio'u swydd.

23.19 Pan fydd achos yn dod gerbron y Llys Gwarchod, mae'r Ddeddf yn datgan y dylai'r llys wneud penderfyniad i ddatrys y mater yn hytrach na phenodi dirprwy, os yn bosibl. Bydd yn haws i'r llysoedd wneud penderfyniadau mewn achosion lle bo angen penderfyniad untro. Mae'n fwyaf tebygol y bydd angen dirprwyon ar gyfer materion ariannol lle mae angen awdurdod parhaus ar rywun i wneud penderfyniadau am arian neu asedau eraill yr unigolyn. Ond gall y llys benodi dirprwy ar gyfer eiddo a materion personol neu ar gyfer lles personol pryd bynnag mae'n ystyried ei bod er y budd pennaf i'r unigolyn i wneud hynny¹³⁴ (gweler pennod 8).

23.20 Gall yr OPG o bosibl gynnal gwiriadau ar ddirprwyon posibl os gwneir cais gan y llys.

23.21 Mae dirprwyon yn atebol i'r llys. Mae'r OPG yn goruchwylio gweithredoedd y dirprwy ar ran y llys, a gall y llys fod eisiau i'r dirprwy ddarparu cyfrifon ariannol neu adroddiadau eraill i'r OPG. Mae'r OPG yn ymdrin â chwynion neu bryderon ynglŷn â'r ffordd mae dirprwyon yn cyflawni'u dyletswyddau. Mae'n gweithio gydag asiantaethau perthnasol eraill i'w harchwilio.

¹³⁴ *Parthed Lawson, Mottram a Hopton (appointment of personal welfare deputies)* [2019] EWCOP 22 - <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/2019/22.html>

23.22 Mae pennod 8B yn rhoi gwybodaeth fanwl am gyfrifoldebau dirprwyon.

Senario: Pryderon ynghylch dirprwy iechyd a lles

Beth sy'n

Mae Mr L yn cael damwain yn y gwaith sy'n achosi anaf a gafwyd i'w ymennydd ac yn ei adael ag anghenion gofal tymor hir cymhleth.

Mae ei fab yn gwneud cais i'r Llys Gwarchod ac yn cael ei benodi fel ei ddirprwy iechyd a lles er mwyn rheoli'i anghenion meddygol a gofal eraill.

Mae brawd Mr L yn pryderu y gallai mab Mr L fod yn camddefnyddio'i swydd fel dirprwy. Mae'n dweud bod mab Mr L wedi ei atal ef ac aelodau eraill o'r teulu rhag gweld Mr L. Mae'n dweud bod staff gofal yn y cartref preswyl lle mae Mr L yn byw yn adrodd bod mab Mr L wedi rhoi'r gorau i fynd â Mr L allan, er bod Mr L wedi mwynhau teithiau blaenorol.

Mae brawd Mr L yn ffonio'r OPG i adrodd am ei bryderon. Mae'r OPG yn anfon ymwelydd y Llys Gwarchod i gyfarfod â Mr L a'i fab ac yn asesu ffeithiau'r achos. Mae'r ymwelydd yn gofyn i Mr L a'i fab am gyswllt Mr L ag aelodau eraill o'r teulu a theithiau o'r cartref. Dywed Mr L y byddai'n hoffi gweld ei frawd ac aelodau eraill o'r teulu a mynd allan yn amlach. Mae mab Mr L yn dweud nad yw'n cyd-dynnu'n dda â brawd Mr L gan ei fod yn gwybod ei fod wedi tramgwyddo'i dad yn y gorffennol. Mae mab Mr L yn dweud ei fod yn derbyn os bydd Mr L yn dymuno gweld ei frawd yna dylai hynny ddigwydd. Mae mab Mr L yn dweud ei fod hefyd yn derbyn nad yw wedi mynd â'i dad allan yn ddiweddar, a bod hyn oherwydd ei oriau gwaith anhygoel o hir.

Mae adroddiad yr ymwelydd yn amlinellu'r pwyntiau hyn ac yn argymhell bod yr OPG yn cynyddu'i weithgareddau goruchwyllo ynglŷn â sut mae mab Mr L yn cyflawni'i ddyletswyddau dirprwyo, i'w alluogi i wella. Mae'r OPG yn gwneud hyn a gallent lansio ymchwiliad os byddant yn pryderu yn y dyfodol am weithredoedd mab Mr L.

digwydd os bydd rhywun yn dweud eu bod yn pryderu am atwrnai neu ddirprwy?

23.23 Mae llawer o bobl sydd â phrinder gallu'n debygol o dderbyn gofal neu gymorth gan ystod o asiantaethau. Hyd yn oed pan fydd atwrnai neu ddirprwy yn gweithredu ar ran unigolyn sydd â phrinder gallu, mae gan y gofawyr eraill gyfrifoldeb o hyd i'r unigolyn i ddarparu gofal a gweithredu er y budd pennaf i'r unigolyn. Dylai unrhyw un sy'n gofalu am unigolyn sydd â phrinder gallu, p'un ai mewn swydd gyflogedig neu ddi-dâl, sy'n pryderu am sut mae atwrneiod neu ddirprwyon yn cyflawni'u dyletswyddau gysylltu â'r OPG, a fydd yn ymchwilio lle mae ganddi'r awdurdodaeth

i weithredu. Nid yr OPG fydd y sefydliad mwyaf priodol i ymchwilio i'r holl gwynion bob tro. Gan ddibynnu ar y pryderon, gall ymchwilio i achos ar y cyd ag, er enghraifft:

- gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys gwasanaethau plant lle y bo'n berthnasol
- cyrff y GIG
- yr heddlu

23.24 Pan na fydd ganddi hawl i weithredu, bydd yr OPG yn cyfeirio pryderon am iechyd a lles LPAau neu ddirprwyon lles personol i'r asiantaeth berthnasol. Mewn amgylchiadau penodol, bydd yn hysbysu'r heddlu am achos. Pan fydd yn gwneud atgyfeiriad, bydd yr OPG yn sicrhau bod yr asiantaeth berthnasol yn parhau i'w hysbysu am ei chamau gweithredu. Bydd hefyd yn sicrhau bod gan y llys yr holl wybodaeth sydd ei hangen i weithredu o bosibl yn erbyn yr atwrnai neu ddirprwy.

23.25 Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gallai atgyfeiriad fod yn angenrheidiol yn cynnwys lle:

- bod rhywun wedi cwyno bod atwrnai lles yn cam-drin rhoddwr yn gorfforol - byddai'r OPG yn atgyfeirio'r achos hwn at yr awdurdod lleol perthnasol, o dan weithdrefnau diogelu oedolion a, lle y bo'n berthnasol, yr heddlu
- bod yr OPG wedi canfod bod cyfreithiwr a benodwyd fel dirprwy ariannol i unigolyn hŷn wedi twyllo'u hystâd – byddai'r OPG yn cyfeirio'r achos hwn at yr heddlu a'r Ombwdsmon Cyfreithiol¹³⁵ a/neu'r Awdurdod Rheoliadau Cyfreithwyr¹³⁶

23.26 Mae Deddf Twyll 2006 yn cynnwys y drosedd 'twyll trwy gamddefnyddio swydd', sy'n gallu bod yn berthnasol i ystod o bobl, gan gynnwys:

- atwrneiod o dan Atwrneiaeth Arhosol (LPA) neu Atwrneiaeth Barhaus (EPA), neu
- ddirprwyon a benodir gan y Llys Gwarchod i wneud penderfyniadau ariannol ar ran unigolyn sydd â phrinder gallu.

23.27 Gall atwrneiod a dirprwyon fod yn euog o dwyll os byddant yn camddefnyddio'u swydd yn fwriadol, yn bwriadu cael budd i'w hunain neu eraill, ac yn achosi colled neu wneud unigolyn yn agored i risg o golled. Dylai pobl sy'n amau twyll adrodd am yr achos wrth yr heddlu.

¹³⁵ <https://www.legalombudsman.org.uk/>

¹³⁶ <https://www.sra.org.uk/>

Sut mae'r Ddeddf yn delio â thriniaeth wael ac esgeuluso bwriadol?

23.28 Mae'r Ddeddf yn cynnwys dwy drosedd: triniaeth wael ac esgeuluso bwriadol unigolyn sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u gofal eu hun¹³⁷ (adran 44). Mae'r troseddau'n gallu bod yn berthnasol i:

- unrhyw un sy'n gofalu am unigolyn sydd â phrinder gallu - mae hyn yn cynnwys gofalywyr teuluol, staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol sy'n darparu gofal mewn ysbysai, cartrefi gofal neu mewn cartref unigolyn
- atwrnai a benodwyd o dan LPA neu EPA, neu
- ddirprwy a benodwyd ar gyfer yr unigolyn gan y llys

23.29 Gall y bobl hyn fod yn euog o drosedd os byddant yn trin yn wael neu'n esgeuluso'n fwriadol yr unigolyn maent yn gofalu amdanynt neu'n eu cynrychioli os bydd yr unigolyn hwnnw â phrinder gallu ar yr adeg honno¹³⁸. Bydd cosbau'n amrywio o ddirwy i ddeddfryd o garchar i hyd at bum mlynedd - neu'r ddwy.

23.30 Mae triniaeth wael ac esgeuluso'n ddwy drosedd ar wahân. Er mwyn i unigolyn gael ei ganfod yn euog o driniaeth wael, mae'n rhaid iddynt naill ai:

- fod wedi trin yr unigolyn yn wael yn fwriadol, neu
- fod yn ddi-hid a oeddent yn trin yr unigolyn yn wael neu beidio¹³⁹

23.31 Nid oes gwahaniaeth a oedd yr ymddygiad yn debygol o achosi, neu wedi achosi,, niwed gwirioneddol i iechyd y dioddefwr.

23.32 Mae gweithred unigol yn ddigon i ddangos triniaeth wael¹⁴⁰.

23.33 Mae ystyr 'esgeuluso bwriadol' yn amrywio gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Ond mae fel arfer yn golygu bod unigolyn wedi methu'n fwriadol â chyflawni gweithred roeddent yn gwybod ei fod yn ddyletswydd arnynt i'w gwneud¹⁴¹. Mae hyn yn

¹³⁷ *R yn erbyn Hopkins; R yn erbyn Priest* [2011] EWCA Crim 1513 - https://www.mentalhealthlaw.co.uk/media/R_v_Hopkins%3B_R_v_Priest_%282011%29_EWCA_Crim_1513.pdf

R yn erbyn Hopkins; R yn erbyn Priest [2018] EWCA Crim 2743 - https://www.mentalhealthlaw.co.uk/media/R_v_Hopkins%3B_R_v_Priest_%282011%29_EWCA_Crim_1513.pdf

¹³⁹ Achos: *R yn erbyn Newington* [1990] 91 Cr App R 247

¹⁴⁰ Achos: *R yn erbyn Holmes* [1979] Crim LR 52

¹⁴¹ *R yn erbyn Hopkins; R yn erbyn Priest* [2012] EWCA Crim 2521 - https://www.mentalhealthlaw.co.uk/media/R_v_Hopkins%3B_R_v_Priest_%282011%29_EWCA_Crim_1513.pdf

berthnasol hyd yn oed os methodd yr unigolyn weithredu oherwydd eu bod wedi cynhyrfu¹⁴².

23.34 Mae'r troseddau hyn yn berthnasol i unigolion yn unig ac nid i gamdriniaeth sefydliadol. Fodd bynnag, mae troseddau penodol o driniaeth wael ac esgeuluso o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015 sy'n gallu bod yn berthnasol i weithwyr unigol yn ogystal â darparwyr gofal, a oes gan yr unigolyn sy'n derbyn gofal y gallu neu beidio¹⁴³.

Pwy ddylai sicrhau bod staff yn ddiogel i weithio gyda'r bobl maent yn gofalu amdanynt?

23.35 Mae cyflogwyr yn gyfrifol am sicrhau a yw staff yn ddiogel i weithio gyda phobl maent yn gofalu amdanynt. Mae hyn yn cynnwys gwiriad trwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Gall y cyflogwyr wneud cais am wiriad manylach ar

Senario: Adrodd am gam-drin

Mae gan Ms N afiechyd Alzheimer. Mae ei mab yn byw gyda hi ac yn atwrnai lles personol iddi. Mae'n gwneud y penderfyniadau o sylwedd ynglŷn â gofal Ms N oherwydd, er ei bod yn gallu gwneud penderfyniadau syml dydd i ddydd megis beth i'w fwyta neu wisgo, mae prinder gallu ganddi i wneud penderfyniadau mwy cymhleth am ei gofal.

Fel ei hatwrnai mae mab Ms N yn trefnu i ofalwr ymweld â Ms N bob dydd tra'i fod yn y gwaith. Ymhen amser mae'r gofalwr yn gweld bod gan Ms N gleisiau ac anafiadau eraill nad yw Ms N yn gallu eu hesbonio, a bod poteli gwirodydd gwag bob amser ym min ailgylchu'r gegin. Mae'r gofalwr yn sylwi hefyd bod Ms N yn ymddangos wedi'i h pan ofynnir iddi am ei mab neu'r alcohol ac mae'n gyndyn dweud unrhyw beth. Mae hyn yn arwain y gofalwr i amau y gall mab Ms N fod yn ymosod ar ei fam ar ôl yfed. Mae'n hysbysu'r heddlu a thîm diogelu'r awdurdod lleol yn ogystal a'r OPG.

Cynhelir ymchwiliad troseddol sy'n arwain at fab Ms N yn cael ei gyhuddo o gam-drin ei fam. Mae'r heddlu'n hysbysu'r OPG o ganlyniad eu hymchwiliad ac mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gwneud cais i'r llys ddiddymu'r LPA. Mae'r awdurdod lleol yn gwneud trefniadau ar gyfer gofal parhaus Ms N.

¹⁴² Achos: *R yn erbyn Patel* [2013] EWCA Crim 965

¹⁴³ Adrannau 20-5 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015 - <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/2/section/20>

gyfer rolau penodol, er enghraifft rhai rolau mewn gofal iechyd neu ofal cymdeithasol ar gyfer plant neu oedolion, neu'r ddau¹⁴⁴.

Pwy sy'n gyfrifol am fonitro safon darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol?

- 23.36 Mae'n rhaid i'r holl ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cael eu cynnwys gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 gofrestru â'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr. Mae'n rhaid i'r rhai hynny sy'n cael eu cynnwys gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) neu, os wedi'u cofrestru o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW). Mae'r asiantaethau hyn yn sicrhau bod darparwyr gofal yn bodloni safonau penodol. Maent yn gofyn bod gan ddarparwyr gofal cofrestredig weithdrefnau i ddiogelu pobl rhag niwed neu gamdriniaeth, a bod ganddynt weithdrefnau cwynion effeithiol. Gallant weithredu os byddant yn canfod ymarferion peryglus neu anniogel a allai roi pobl mewn perygl. Mae'r asiantaethau hyn hefyd yn adrodd ar arsylwadau ynglŷn â gweithredu'r Ddeddf.
- 23.37 Os bydd rhywun yn pryderu am y gofal iechyd neu ofal cymdeithasol sy'n cael ei ddarparu i unigolyn sydd â phrinder gallu, mae ffyrdd ffurfiol ac anffurfiol o gwyno am y gofal neu driniaeth. Gweler pennod 15 i gael gwybodaeth bellach.

Beth yw penodai, a phwy sy'n eu monitro?

- 23.38 Pan fydd rhywun â phrinder gallu i reoli'u budd-daliadau mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn gallu penodi rhywun (penodai) i hawlio a gwario budd-daliadau ar ran unigolyn os¹⁴⁵:
- Mai unig incwm yr unigolyn hwnnw yw budd-daliadau nawdd cymdeithasol ac nad oes ganddynt eiddo na chynilion
 - Nad yw'r unigolyn hwnnw wedi gwneud LPA neu EPA eiddo a materion personol, ac
 - nad yw'r llys wedi penodi dirprwy eiddo a materion personol
- 23.39 Os bydd gan yr unigolyn incwm neu eiddo neu gynilion eraill, gall fod angen penodi dirprwy (gweler pennod 8B).
- 23.40 Cyn gwneud penodiad mae'r DWP yn sicrhau bod y darpar benodai yn addas ac yn ddibynadwy ac yn deall eu cyfrifoldeb yn llawn i weithredu er y budd pennaf i'r

¹⁴⁴ <https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service>

¹⁴⁵ <https://www.gov.uk/become-appointee-for-someone-claiming-benefits>

unigolyn. Bydd yn ymchwilio i unrhyw honiadau nad yw penodai yn gweithredu'n briodol neu er budd yr unigolyn. Gall ddiswyddo penodai sy'n camddefnyddio'u swydd. Dylai pryderon am benodai gael eu codi â'r asiantaeth DWP berthnasol - y Ganolfan Byd Gwaith leol, y Gwasanaeth Anabledd neu'r Gwasanaeth Pensiwn.

DRAFT

DRAFT

24. Beth yw'r ffyrdd gorau o ddatrys anghytundebau ac anghydfodau ynglŷn â materion sy'n cael eu cynnwys yn y Ddeddf?

Weithiau bydd pobl yn anghytuno am allu unigolyn i wneud penderfyniad, yr hyn sydd er y budd pennaf i unigolyn neu benderfyniad neu weithred mae rhywun yn ei wneud ar ran unigolyn sydd â phrinder gallu.

Mae er budd pawb i ddatrys anghytundebau ac anghydfodau'n gyflym ac yn effeithiol, gyda chyn lleied o straen a chost ag sy'n bosibl. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r opsiynau gwahanol ar gyfer datrys anghytundebau. Mae hefyd yn awgrymu ffyrdd o osgoi gadael i anghytundeb droi'n anghydfod difrifol. Yn olaf, mae'n amlinellu pryd y gallai fod yn angenrheidiol i wneud cais i'r Llys Gwarchod a phryd y gall rhywun gael cyllid cyfreithiol.

Pan fydd trefniadau neu y gall trefniadau fod yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, mae gan yr unigolyn, ac unigolion eraill ar eu rhan, hawl i herio'r hyn a gynigir neu a awdurdodir. Maent hefyd yn gallu herio'r ffordd y cafodd proses y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid (LPS) ei gweithredu. Gellir codi pryderon am y trefniadau ar unrhyw adeg ym mhroses yr LPS.

Yn y bennod hon, fel trwy'r Cod cyfan, mae gallu (neu brinder gallu) unigolyn yn cyfeirio'n benodol at eu gallu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg mae angen iddo gael ei wneud.

Crynodeb cyflym

- Pan fydd anghytundebau'n digwydd ynghylch materion sy'n cael eu cynnwys yn y Ddeddf, fel arfer mae'n well ceisio'u datrys cyn iddynt droi'n ddifrifol.
- Gall eiriolwyr helpu i ddatrys anghytundeb o bosibl trwy gynrychioli'r unigolyn sydd â phrinder gallu a sicrhau bod eu llais yn cael ei ystyried.
- Mae rhai anghytundebau'n gallu cael eu datrys yn effeithiol trwy gyfryngiad.
- Pan fydd pryder am y gofal iechyd neu ofal cymdeithasol a ddarperir i unigolyn sydd â phrinder gallu, mae ffyrdd ffurfiol ac anffurfiol o gwyno am y gofal neu driniaeth.

- Pan na fydd dulliau eraill o ddatrys anghytundebau'n briodol, gellir atgyfeirio'r mater i'r Llys Gwarchod.
- Mae rhai penderfyniadau y dylid eu hatgyfeirio i'r Llys Gwarchod bob tro.

Pa anghydfodau all godi yn o ran yr LPS?

- Gall unrhyw un godi pryder am broses yr LPS neu am y trefniadau, gan gynnwys yr unigolyn a'u Person Priodol neu IMCA.
- Dylai'r Person Priodol neu IMCA ganfod dymuniadau a theimladau'r unigolyn am y trefniadau. Os bydd yr unigolyn yn dymuno, dylent gael eu cynorthwyo i wneud cais i'r Llys Gwarchod.
- Mewn rhai achosion, hyd yn oed os na fydd yr unigolyn yn dymuno, gall fod yn angenrheidiol o hyd i'r Person Priodol neu IMCA wneud cais i'r llys.
- Gall fod gan yr unigolyn neu unrhyw un arall bryderon am y ffordd mae proses yr LPS yn cael ei gweithredu. Dylai fod gan Gyrrff Cyfrifol sianelau priodol ar gyfer ymdrin â'r fath gwynion.

Pa opsiynau sydd ar gyfer datrys anghytundebau?

24.1 Mae'r termau 'anghytundeb' neu 'anghydfod' yn cael eu defnyddio yma i adlewyrchu sefyllfa lle ceir safbwyntiau gwahanol. Gallai anghytundebau am ofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau lles eraill fod rhwng:

- Pobl sydd wedi asesu unigolyn fel bod â phrinder gallu i wneud penderfyniad
- yr unigolyn sydd wedi'i asesu fel bod â phrinder gallu i wneud penderfyniad (gweler pennod 4 ar gyfer sut i herio asesiad prinder gallu)
- aelodau o'r teulu neu bobl eraill sy'n pryderu am ofal a lles unigolyn sydd â phrinder gallu
- staff gofal iechyd neu ofal cymdeithasol sy'n ymwneud â darparu gofal neu driniaeth ac a all fod â barn wahanol ynglŷn â'r hyn sydd er y budd pennaf i unigolyn sydd â phrinder gallu.

24.2 Neu gall penderfyniad fod wedi'i gydbwyso'n gyfartal gan safbwyntiau gwahanol, ond cyfiawn. Mae'r fath benderfyniadau'n anodd i'w cytuno yn hytrach nag 'anghydfod'.

Senario: Anghytundeb ynghylch gallu

Mae gan Ms T ddementia cam cynnar ac mae hi'n byw mewn llety cysgodol, gyda gofalwr yn ymweld â hi bob dydd i'w chynorthwyo â'i bywyd dyddiol. Mae ganddi anhwylder deubegwn ac mae nyrs seiciatrig gymunedol (CPN) mewn cysylltiad rheolaidd.

Mae Ms T yn cael ei diagnosio â chanser y fron ac mae hi'n gwrthod triniaeth. Mae meddyg teulu Ms T a thîm oncoleg yr ysbyty yn trafod hyn â hi ac yn ei hasesu fel bod â gallu i wneud y penderfyniad hwn.

Gydag amser mae'r canser yn datblygu ac mae meddyg teulu ac ymgynghorydd gofal lliniarol Ms T yn y gymuned, gyda chymorth ei gofalwr, yn awgrymu ei bod hi'n mynd i hosbis. Mae hi'n gwrthod yn ffyrnig ond nid yw'n dweud pam nad yw'n dymuno mynd yno.

Mae'r ymgynghorydd yn credu bod gan Ms T brinder gallu i wneud y penderfyniad hwn gan ei bod heb ddangos ei bod yn gallu defnyddio a phwyso a mesur y wybodaeth berthnasol. Barn y meddyg teulu yw er bod penderfyniad Ms T i aros gartref yn annoeth, mae ganddi allu i'w wneud, ac mae ei phenderfyniad yn gyson â'i rhai blaenorol. Mae'r gofalwr yn cytuno. Mae'r ymgynghorydd a'r meddyg teulu wedyn yn ymgynghori â'r CPN, sy'n cadarnhau dymuniad Ms T a fynegwyd ers amser maith i aros gartref beth bynnag yw'r sefyllfa.

Yn dilyn trafodaeth â'r CPN mae meddyg teulu ac ymgynghorydd Ms T yn cytuno bod gan Ms T allu i aros gartref.

Maent yn cytuno, â Ms T, i gynyddu amllder ymweliadau gofalwr ac i fonitro ei meddyginiaeth lleddfu poen.

- 24.3 Yn gyffredinol, gellir datrys anghytundebau trwy naill ai weithdrefnau ffurfiol neu anffurfiol, ac mae mwy o wybodaeth arnynt yn y bennod hon. Pan nad yw'n bosibl cyrraedd cytundeb ynghylch yr hyn sydd er y budd pennaf i'r unigolyn sydd â phrinder gallu, mae'n bosibl y bydd cais yn cael ei wneud i'r Llys Gwarchod. Gellir datrys rhai anghytundebau gan y Llys Gwarchod yn unig (gweler [pennod 8](#) i gael gwybodaeth bellach).
- 24.4 Fel arfer mae'n well ceisio datrys anghytundebau cyn iddynt waethygu. Yn aml bydd pobl yn eu datrys trwy gyfathrebu'n effeithiol a chymryd yr amser i wrando ac i fynd i'r afael â phryderon. Yn aml mae anghytundebau ac anawsterau i gyrraedd consensws yn cael eu datrys orau yn anffurfiol, neu weithiau trwy gyfryngiad. Pan fydd anghytundeb rhwng gweithwyr proffesiynol â theulu unigolyn, mae'n syniad da dechrau trwy:

- wrando ar, cydnabod a mynd i'r afael â phryderon
- amlinellu'r opsiynau gwahanol mewn ffordd sy'n hawdd i'w deall
- gwahodd cydweithiwr i siarad â'r teulu a chynnig ail farn
- defnyddio eiriolwr i gynorthwyo a chynrychioli'r unigolyn sydd â phrinder gallu
- cynnig cael cyngor arbenigol annibynnol
- trefnu cynhadledd achos neu gyfarfod (cyfeirir ato'n aml fel 'cyfarfod budd pennaf') i drafod materion yn fanwl
- pan nad yw'r sefyllfa'n un frys, caniatáu i bawb feddwl amdano

24.5 Gall canllawiau ychwanegol ar sut i ymdrin â phroblemau heb fynd i lys fod ar gael hefyd gan Gyngor ar Bopeth. Gan ddibynnu ar eu sefyllfa ariannol, gall fod gan bobl hawl i gyngor cyfreithiol wedi'i gyllido'n gyhoeddus ar ddewisiadau amgen i fynd i'r llys (gweler adran 15.14 – 15.32).

Pryd fydd eiriolwr yn ddefnyddiol?

24.6 Unigolyn annibynnol yw eiriolwr sy'n cynrychioli buddiannau'r unigolyn ac yn sicrhau bod eu llais yn cael ei ystyried. Mae'r diffiniad o eiriolaeth yn cael ei amlinellu yn y Siarter Eiriolaeth (a ddatblygwyd gan y sector a'i fabwysiadu gan y rhan fwyaf o gynlluniau eiriolaeth) fel a ganlyn:

*'Eiriolaeth yw gweithredu i helpu pobl i ddweud yr hyn y maent yn ei ddymuno, diogelu eu hawliau, cynrychioli'u buddiannau a sicrhau gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. Mae eiriolwyr a chynlluniau eiriolaeth yn gweithio mewn partneriaeth â'r bobl maent yn eu cynorthwyo ac yn eu cefnogi. Mae eiriolaeth yn hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol'*¹⁴⁶.

24.7 Nid yw eiriolwr annibynnol yn gyfryngwr ond gall helpu i ddatrys anghytundeb trwy fod yn annibynnol o bawb sy'n cymryd rhan a chynrychioli'r unigolyn yn unig, tra'n meddu ar ddealltwriaeth o hawliau'r unigolyn a'r polisïau/arfer a chyfraith sy'n llywodraethu gwneud penderfyniadau. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau eirioli'n cael eu darparu gan y sector gwirfoddol ac yn cael eu trefnu ar lefel leol. Maent yn gweithredu'n annibynnol o unrhyw gorff proffesiynol neu gyhoeddus sy'n ymwneud â'r unigolyn.

24.8 Mae defnyddio eiriolwyr yn gallu helpu pobl (gan gynnwys y rhai hynny sydd wedi'u hasesu fel bod â phrinder gallu) i aros wrth wraidd gwneud penderfyniadau trwy sicrhau eu bod yn cyrchu'u cynrycholaeth eu hunain ac yn sicrhau bod eu llais yn cael eu hystyried. Mae eiriolwyr yn gallu helpu pobl i:

- ddweud yr hyn maent yn ei ddymuno
- sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cefnogi

¹⁴⁶ <https://qualityadvocacy.org.uk/>

- cynrychioli'u buddiannau, a
- sicrhau'r gwasanaethau neu adnoddau eraill y mae eu hangen arnynt.

24.9 Gall eiriolwyr hefyd gymryd rhan mewn cynorthwyo'r unigolyn yn ystod cyfryngiad (gweler paragraffau 15.7–15.13 isod) neu helpu gyda gweithdrefnau cwyno. Weithiau mae gan bobl hawl gyfreithiol i eiriolwr, er enghraifft:

- Pan fo'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn gofyn am gyfranogiad Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA) (gweler pennod 10)
- Pan fo'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn gofyn am gyfranogiad Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHA) (gweler pennod 13)
- Pan fydd gofyn i eiriolwr gofal cymdeithasol o dan Ddeddf Gofal 2014 neu Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- wrth wneud cwyn ffurfiol yn erbyn y GIG (gweler paragraff 15.18)

24.10 Pan fo'r unigolyn sydd â hawl i eiriolwr â phrinder gallu i wneud penderfyniad ac nad oes ganddynt hawl i IMCA, gallent o bosibl gael mynediad i fath arall o eiriolwr sy'n gallu eu helpu i wneud penderfyniadau a gefnogir neu eu cynrychioli trwy broses.

Pryd fydd cyfryngiad yn ddefnyddiol?

24.11 Mae cyfryngiad yn gallu bod yn effeithiol ym mhob maes sy'n cael eu cynnwys gan yr MCA, o driniaeth feddygol i anghydfodau ynghylch lles a chwestiynau yngylch eiddo a materion personol. Mae cyfryngwr yn helpu pobl i ddod i gytundeb sy'n dderbyniol i bob parti. Mae cyfryngu'n gallu helpu i ddatrys problem yn gynnar. Mae ffurfiau gwahanol o gyfryngu sy'n briodol i amgylchiadau gwahanol, gan gynnwys cyfryngu ffurfiol ac anffurfiol. Gall fod gan rai gost gysylltiedig. Mae'r Cyngor Cyfryngu Sifil¹⁴⁷ yn gallu helpu pobl i ddod o hyd i gyfryngwyr proffesiynol.

24.12 Mae cyfryngu'n cynnig ystod ehangach o ddatrysiadau nag y mae'r llys yn gallu - a gall fod yn llai o straen i bob parti, yn fwy cost effeithiol ac yn gyflymach. Mae pobl sy'n dod i gytundeb trwy gyfryngu'n gallu bod yn fwy tebygol o gadw ato, oherwydd eu bod wedi cymryd rhan mewn gwneud y penderfyniad. Mae'n rhaid cadw mewn cof trwy gydol unrhyw broses cyfryngu fod yn rhaid i'r cytundeb a gyrhaeddir fod er y budd pennaf i'r unigolyn sydd â phrinder gallu. Mewn rhai amgylchiadau gall fod angen i gais gael ei wneud i'r Llys Gwarchod ar y penderfyniad a gyrhaeddwyd i gymeradwyo'r penderfyniad a gyrhaeddir neu'r weithred.

24.13 Mae cyfryngwyr yn annibynnol. Nid oes ganddynt fudd personol yng nghanlyniad yr achos. Ni fyddant yn gwneud penderfyniadau nac yn gorfodi datrysiadau. Bydd y cyfryngwr yn penderfynu a yw'r achos yn addas ar gyfer cyfryngu. Byddant yn

¹⁴⁷ <https://civilmediation.org/>

ystyried y cyfleoedd tebygol am lwyddiant a'r angen i ddiogelu buddiannau'r unigolyn sydd â phrinder gallu, sy'n rhaid bod yn flaenoriaeth bob amser. Gall ffi fod yn gysylltiedig â gwaith y cyfryngwr.

24.14 Mae unrhyw achos sy'n gallu cael ei ddatrys trwy drafod yn debygol o fanteisio ar gyfryngu. Mae'n fwyaf addas pan na fydd pobl yn cyfathrebu'n dda neu heb ddeall safbwyntiau ei gilydd. Mae'n gallu gwella perthynas ac atal anghydfodau yn y dyfodol, felly mae'n opsiwn da pan fydd er y budd pennaf i'r unigolyn i bobl gael perthynas dda yn y dyfodol.

24.15 Mewn cyfryngu, mae angen i bawb gymryd rhan mor gyfartal â phosibl fel bod cyfryngwr yn gallu helpu pawb sy'n cymryd rhan i ganolbwyntio ar fudd pennaf yr unigolyn. Gallai fod yn briodol hefyd i gynnwys eiriolwr i helpu i gynrychioli dymuniadau, teimladau a safbwyntiau'r unigolyn sydd â phrinder gallu. Pan fydd angen eiriolwr ar yr unigolyn neu y byddai'n elwa o eiriolwr ond nad oes ganddo hawl i eiriolwr statudol, gall dirprwy neu atwrnai gyfarwyddo eiriolwr ar ran yr unigolyn fel rhan o unrhyw benderfyniadau budd pennaf ariannol eraill.

- 24.16 Gall staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol hefyd gymryd rhan mewn prosesau cyfryngu. Ond gall fod yn fwy priodol i ddilyn y gweithdrefnau cwynion perthnasol ar gyfer gofal iechyd neu ofal cymdeithasol (gweler paragraffau 15.14–15.32).

Senario: Defnyddio cyfryngu

Mae gan Ms R ddementia ac mae pawb sy'n ymwneud â'i lles yn cytuno ei bod â phrinder gallu i benderfynu lle y dylai fyw. Mae'n byw gyda'i mab, fodd bynnag, mae ei merch wedi dod o hyd i gartref gofal lle maei'n meddwl y bydd ei mam yn cael gofal gwell. Mae ei brawd yn anghytuno. Nid oes gan Ms R Atwrneiaeth Arhosol.

Mae Ms R wedi'i chynhyrfu gan yr anghydfod teuluol hwn, sydd wedi bod yn rhygnu ymlaen nawr ers blwyddyn, a chyflwr Ms R wedi dirywio yn ystod y cyfnod hwnnw, ac mae angen gofal arni erbyn hyn yn ystod y dydd a thros nos. Gyda golwg ar geisio datrys materion heb yr angen i fynd ar ofyn y Llys Gwarchod, mae ei mab a'i merch yn penderfynu rhoi cynnig ar gyfryngu i ddod o hyd i ffordd trwy'r anghydfod gan nad ydynt nawr yn gallu trafod y mater mwyach heb anghytuno sylweddol, ac mae'n dechrau effeithio ar fywydau personol y ddau ohonynt, yn ogystal â'u perthynas â'u mam.

Mae'r cyfryngwr yn ystyried bod Ms R yn gallu cyfathrebu ei theimladau, ac mae'n gofyn ei bod yn cael ei chynrychioli gan IMCA yn y cyfryngu. Mae'r awdurdod lleol yn barti â diddordeb oherwydd anghenion gofal Ms R, ac mae'n dymuno bod yn bresennol. Mae plant Ms R yn penderfynu mynychu ac eistedd mewn ystafelloed ar wahân, gyda'r cyfryngwr yn symud yn ôl ac ymlaen rhwng ystafelloedd. Yn ystod y sesiynau, mae'r cyfryngwr yn gwrandao ar ddau blentyn Ms R, yr awdurdod lleol ac IMCA Ms R. Mae hyn yn ei helpu i ddeall eu pryderon a'r hyn yr hoffent gyflawni i Ms R. Gallant yna ganolbwyntio ar ddatrysiadau posibl sydd er y budd pennaf i Ms R ac sy'n mynd i'r afael â'u pryderon.

Ar ôl diwrnod llawn o drafodaethau, cyrhaeddir cytundeb y dylai Ms R barhau i fyw gyda'i mab, ond â phe cyn gofal cynyddol yn ei le i fynd i'r afael â'i hanghenion gofal cynyddol. Mae pob parti'n cytuno i adolygu'r sefyllfa mewn chwe mis i weld a allai'r cartref gofal fod yn well opsiwn i Ms R, a rhoddir dyddiad yr adolygiad yn y dyddiadur gan yr awdurdod lleol. Mae'r cytundeb a gyrhaeddir yn cael ei adlewyrchu mewn cofnod ysgrifenedig, ac yn cael ei lofnodi gan bob parti.

- 24.17 Gall cymorth cyfreithiol fod ar gael o bosibl i gyllido cyfryngu i bobl sy'n bodloni'r meini prawf cymhwys (gweler paragraffau 15.38–15.44). Gallai cyfryngu gynnwys ystod eang o faterion o bosibl, gan gynnwys iechyd a lles, materion ariannol ac eiddo. Byddai cymorth cyfreithiol yn cynnwys y gyfran wedi'i chynorthwyo'n

gyfreithiol yn unig i unigolyn o gostau cyfryngwr, a byddai'n gyfyngedig yn gyffredinol i gyfraddau penodol a amlinellir mewn deddfwriaeth cymorth cyfreithiol.

Gweithdrefnau ar gyfer codi pryderon neu gwynion

24.18 Mae codi pryderon neu wneud cwyn am ofal iechyd neu ofal cymdeithasol a ddarperir i unigolyn sydd â phrinder gallu ar wahân i anghytundeb neu anghydfod ynghylch yr hyn sydd er y budd pennaf i'r unigolyn o dan yr MCA. Pan fo pryder am y gofal iechyd neu ofal cymdeithasol a ddarperir i unigolyn sydd â phrinder gallu, mae ffyrdd ffurfiol ac anffurfiol o gwyno am y gofal neu'r driniaeth.

Cwynion am ofal iechyd neu driniaeth	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r GIG yn darparu canllawiau ar gyfer cwynion am ofal iechyd neu driniaeth ¹⁴⁸.• <u>Os na fydd unigolyn yn hapus â'r canlyniad, gallant fynd â'u hachos at yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd yn Lloegr, neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.</u>• Wrth wneud cwyn, gall fod yn briodol hefyd hysbysu'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) yn Lloegr neu Arolygiaeth Iechyd Cymru (HIW) fel y rheoleiddwyr annibynol ar gyfer gofal iechyd. Er nad ydynt yn ymchwilio i gwynion unigol, bydd yr asiantaethau hyn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir i helpu i lunio penderfyniadau ar bryd, ble a beth i'w arolygu i sicrhau bod darparwyr gofal yn bodloni safonau penodol.
Gofal cymdeithasol	<ul style="list-style-type: none">• Dylai gweithdrefnau cwyno darparwr gwasanaeth ei hun amlinellu sut i wneud cwyn a beth i'w wneud â chwyn nad yw'n gallu cael ei datrys yn lleol.• Ar gyfer gwasanaethau wedi'u contractio gan awdurdod lleol, gall fod yn fwy priodol defnyddio trefn gwynion yr awdurdod lleol ¹⁴⁹.• Os na fydd yr unigolyn sy'n gwneud y gŵyn yn fodlon, gallant gysylltu â'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.• Wrth wneud cwyn, gall fod yn briodol hefyd hysbysu'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) yn Lloegr neu Arolygiaeth Iechyd Cymru (CIW) fel y rheoleiddwyr annibynol ar gyfer

¹⁴⁸ Gweler: <https://www.nhs.uk/using-the-nhs/about-the-nhs/how-to-complain-to-the-nhs/> ar gyfer Lloegr ar gyfer Cymru - http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/932/Healthcare%20Quality%20-%2030166_Putting%20Things%20Right_a5%20leaflet_English_WEB%20VERSION%20-%20FINAL%20-%202017%2003%2001.pdf

¹⁴⁹ Yng Nghymru, gellir dod o hyd i ganllawiau ychwanegol ynghylch y mater hwn ar: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/a-guide-to-handling-complaints-and-representations-by-local-authority-social-services.pdf>

	<p>gofal cymdeithasol. Er nad ydynt yn ymchwilio i gwynion unigol, bydd yr asiantaethau hyn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir i helpu i lunio penderfyniadau ar bryd, ble a beth i'w arolygu i sicrhau bod darparwyr gofal yn bodloni safonau penodol.</p>
<p>Gofal iechyd a gofal cymdeithasol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Pan fo cwyn yn cynnwys nifer o ddarparwyr, neu ofal iechyd yn ogystal â gofal cymdeithasol, mae'n rhaid i awdurdodau lleol a'r GIG weithio gyda'i gilydd i gytuno pa sefydliad fydd yn arwain y gŵyn¹⁵⁰. • <u>Os na fydd unigolyn yn hapus â'r canlyniad, gallant fynd â'u hachos at yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd yn Lloegr, neu'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr, neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.</u>
<p>Darpariaeth addysg</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid dilyn gweithdrefn gwynion yr ysgol, y gwasanaeth neu'r darparwr ei hun. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ynghylch yr hyn i'w wneud os na ellir datrys cwynion ar gov.uk. • Os bydd unigolyn yn anghytuno â phenderfyniad mae awdurdod lleol wedi'i wneud mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig unigolyn ifanc, gellir apelio i'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig (SEND) yn Lloegr neu Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (SENTW).
<p>Materion lles eraill</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn Lloegr, mae'r Ombwdsmon Tai yn ymdrin â chwynion am landlordiaid cymdeithasol (cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol) ac aelodau gwirfoddol (rhai landlordiaid preifat ac asiantiaid gosod) yn Lloegr. • Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymdrin â chwynion ynglŷn â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. • Gellir atgyfeirio cwynion am awdurdodau lleol at yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Maent yn edrych ar gwynion ynghylch penderfyniadau ar dai cyngor (os nad ydynt yn cael eu cynnwys gan yr Ombwdsmon Tai), gwasanaethau cymdeithasol, Budd-dâl Tai a cheisiadau cynllunio.

¹⁵⁰ Yng Nghymru, gellir dod o hyd i ganllawiau sy'n amlinellu sut dylai sefydliadau weithio gyda'i gilydd i drafod cwynion sy'n cynnwys gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/a-guide-to-handling-complaints-and-representations-by-local-authority-social-services.pdf>

Beth yw'r ffordd orau i ymdrin ag anghytundeb ynghylch cyllid unigolyn?

- 24.19 Os bydd anghytundeb am yr hyn sydd er y budd pennaf i'r unigolyn mewn perthynas â'u cyllid (er enghraifft, anghydfod ynghylch y swm o arian y dylai unigolyn sydd â phrinder gallu dalu i'w gofalwr neu a ddylent werthu eu tŷ), dylid dilyn y cyngor yn y bennod hon i geisio dod i gytundeb. Os na fydd y partïon yn gallu cytuno, gellir gwneud cais i'r llys i wneud y penderfyniad.
- 24.20 Mae gwahaniaeth rhwng anghytundeb am yr hyn sydd er y budd pennaf i'r unigolyn a phryder am rywun yn trafod arian unigolyn sydd â phrinder gallu'n amhriodol. Os bydd pryder am weithredoedd atwrnai a benodir o dan Atwrneiaeth Arhosol neu ddirprwy a benodir gan y llys, y cam gweithredu mwyaf priodol fyddai cysylltu â'r OPG i gael cyngor a chanllawiau pellach.
- 24.21 Mewn achosion lle nad yw'r unigolyn o dan sylw yn atwrnai neu'n ddirprwy, gall fod yn briodol gwneud atgyfeiriad diogelu i'r awdurdod lleol perthnasol. Er enghraifft, gall fod pryder bod gofalwr o bosibl yn defnyddio arian unigolyn sydd â phrinder gallu'n amhriodol neu heb yr awdurdod cywir. Bydd yr awdurdod lleol wedyn yn gwirio a oes ganddo ddyletswydd, o dan Adran 42 Deddf Gofal 2014 neu Ran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014, i wneud ymholiadau cymesur mewn ymateb i bryder ynghylch achos o gam-drin neu esgeuluso posibl oedolyn mewn perygl.

Sut gall y Llys Gwarchod helpu?

- 24.22 Mae [Pennod 8](#) yn amlinellu'r amgylchiadau mae'n rhaid i'r cais gael ei gyflwyno i'r Llys Gwarchod, yn ogystal â'r rhai hynny lle gall cais fod yn ofynnol. Mae'r rhain yn cynnwys sefyllfaoedd a gynhwysir gan y bennod hon lle nad yw'n bosibl datrys amheuaeth neu anghytundeb am fater o fewn cwmpas y Ddeddf.
- 24.23 Ym mhob achos lle mae'r mecanweithiau amgen a amlinellir yn y bennod hon ar gyfer datrys anghydfodau neu anghytundebau am allu neu fudd pennaf unigolyn yn cael eu hystyried, mae'n bwysig taro'r cydbwysed rhwng ceisio cyrraedd consensws a pheidio â mygu anghydfod gwirioneddol. Y Llys Gwarchod yn unig sy'n gallu rhoi penderfyniad pendant am allu unigolyn neu eu budd pennaf.
- 24.24 Mae'n bwysig hefyd nad yw unigolyn a amddifadwyd o'u rhyddid o dan awdurdodiad LPS yn cael ei atal rhag ymarfer eu hawl i herio awdurdodiad gerbron y llys hyd yn oed os nad yw eraill yn meddwl y byddant yn llwyddo yn eu her. Gweler [pennod xx](#).

Fydd cyllid cyfreithiol cyhoeddus ar gael?

- 24.25 Gan ddibynnu ar eu sefyllfa ariannol, gall pobl fod â hawl i:

- gyngor cyfreithiol wedi'i gyllido'n gyhoeddus (cymorth cyfreithiol) gan gyfreithwyr achrededig neu asiantaethau cyngor
- cynrychiolaeth gyfreithiol gerbron y Llys Gwarchod mewn rhai achosion iechyd a lles (Gweler pennod XX).

Pryd gall rhywun gael help cyfreithiol?

24.26 Mae help cyfreithiol yn fath o gymorth cyfreithiol (cyllid cyhoeddus) sy'n talu am gyngor a chymorth ar faterion cyfreithiol, gan gynnwys y rhai hynny sy'n effeithio ar unigolyn sydd â phrinder gallu. Ond nid yw'n darparu cynrychiolaeth ar gyfer gwrandawriad llys.

24.27 I gymhwyso ar gyfer cymorth cyfreithiol, mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos:

- eu bod yn derbyn budd-daliadau nawdd cymdeithasol penodol, neu eu bod yn bodloni'r prawf modd, gan ddangos bod yr unigolyn yn ennill llai na swm penodol ac nad oes ganddo gynilion nac asedau ariannol eraill dros swm penodol
- eu bod yn bodloni'r prawf teilyngdod, sy'n golygu y byddent yn elwa'n ddigonol o gyngor cyfreithiol i gyfiawnhau'r swm mae'n ei gostio.

24.28 Gall cymorth cyfreithiol gynnwys:

- cyngor a chanllawiau ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a hawliau'r unigolyn
- cymorth gan gyfreithiwr neu gynrychiolydd arall wrth ysgrifennu llythyrau
- mewn amgylchiadau eithriadol, cael barn bargyfreithiwr, a
- chymorth wrth baratoi a chefnogi cais i'r Llys Gwarchod.

24.29 Nid yw pobl yn gallu cael cymorth cyfreithiol i wneud Atwrneiaeth Arhosol (LPA) neu benderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth. Ond maent yn gallu cael gwybodaeth gyffredinol gan yr OPG a gallant fod yn gymwys ar gyfer help i dalu ffioedd cofrestru LPA neu ffioedd goruchwylio dirprwy'r OPG. Nid yw'r OPG yn gallu rhoi cyngor cyfreithiol na chyngor arbenigol. Er enghraifft, ni fyddant yn gallu rhoi cyngor i rywun ar ba bwerau y dylent eu dirprwyo i'w hatwrnai o dan LPA. Mae pobl, fodd bynnag, yn gallu cael cymorth cyfreithiol ar gyfer cyngor ar faterion eraill sy'n ymwneud ag LPAau a phenderfyniadau ymlaen llaw, er enghraifft i gynorthwyo datrys anghydfod am y ffordd y defnyddir LPA.

24.30 Pan fo anghydfod yn cael ei gyflwyno gerbron y Llys Gwarchod, gall cyllid cyhoeddus ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol fod ar gael. Mae gwybodaeth ynghylch pryd mae rhywun yn gymwys ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol yn y Llys Gwarchod ar gael ym mhennod XX.

Pwy sy'n gallu codi pryderon am drefniadau, proses y Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid, neu'r awdurdodiad?

24.31 Pan fo trefniadau sy'n gyfystyr, neu a all fod yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid yn cael eu cynnig, mae proses yr LPS yn cael ei sbarduno. Ar unrhyw adeg, mae'r unigolyn yn gallu codi pryderon am y trefniadau a gynigir, proses yr LPS neu'r awdurdodiad. Dylai'r rhai hynny sy'n gofalu am neu'n agos at yr unigolyn fod yn wylidwrus ynghylch unrhyw awgrym gan yr unigolyn eu bod yn pryderu. Gweler paragraffau XX i gael mwy o wybodaeth ynghylch nodi pan all fod gan yr unigolyn bryder.

24.32 Mae nifer o unigolion yn debygol o adnabod yr unigolyn a gallant fod yn rhan o broses yr LPS. Ar unrhyw adeg yn y broses, gall unrhyw un o'r unigolion hyn ddymuno codi pryder am naill ai'r trefniadau a gynigir neu'r awdurdodiad. Mae'r unigolion hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA)
- Person Priodol
- Unrhyw unigolyn sy'n gweithredu o dan Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus
- Unrhyw Ddirprwy a Benodir gan Lys
- Aelod o'r teulu neu ffrind neu rywun arall sy'n agos at yr unigolyn
- Rhywun sy'n gofalu am yr unigolyn (naill ai ar sail gyflogedig neu'n ddi-dâl)
- Unrhyw un sy'n darparu triniaeth i'r unigolyn
- Gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol
- Unrhyw un arall sy'n ymddiddori yn lles yr unigolyn

24.33 Gall unrhyw unigolyn neu sefydliad wneud cais i'r Llys Gwarchod heb ganiatâd, lle mae'n ymwneud â'r LPS. Mae hyn yn cynnwys yr unigolyn neu eu Person Priodol neu IMCA. Gall yr unigolyn sy'n ystyried dod â'r mater gerbron y llys geisio herio'r awdurdodiad, er enghraifft os na fyddant yn meddwl bod amodau'r awdurdodiad yn cael eu bodloni. Gallant hefyd ddymuno herio materion megis hyd y cyfnod awdurdodi neu'r hyn mae'r trefniadau awdurdodedig yn cyfeirio atynt. Mae'r hawl i wneud cais i'r llys yn gymwys waeth bynnag a yw gwneuthurwyr penderfyniad yn meddwl bod hyn yn briodol neu beidio neu nad yw er y budd pennaf i'r unigolyn. Gweler mwy o wybodaeth ar rôl y llys, a pha achosion y gall eu hystyried, ym mhennod XX.

24.34 Rheswm pwysig dros wneud cais i'r Llys Gwarchod yn aml fydd oherwydd bod yr unigolyn yn dymuno herio'r awdurdodiad. Mewn rhai achosion, gall fod angen cymorth ar yr unigolyn i wneud hynny. Dylai'r man cychwyn ystyried a yw neu a fyddai'r unigolyn yn dymuno gwneud cais i'r Llys Gwarchod.

- 24.35 Os, er enghraifft, bod gan yr IMCA neu Berson Priodol reswm dros gredu bod yr unigolyn yn anhapus â'r trefniadau ar unrhyw adeg, dylent geisio canfod dymuniadau a theimladau'r unigolyn ynglŷn â pha gamau i'w cymryd. Os bydd yr unigolyn yn dymuno herio'r trefniadau, dylai'r IMCA neu Berson Priodol gynorthwyo'r unigolyn i gyflwyno'r her hon gerbron y Llys Gwarchod. Gall fod yn angenrheidiol hefyd wneud cais i'r llys hyd yn oed os na fydd yr unigolyn yn dymuno gwneud hynny neu nad ydynt yn gallu mynegi'u dymuniadau a'u teimladau, gweler paragraffau XX isod i gael mwy o wybodaeth.
- 24.36 Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol gyhoeddi gwybodaeth am yr hawl i wneud cais i'r Llys Gwarchod o dan adran 21ZA a dylai hyn gynnwys rhestr o gynrychiolwyr cyfreithiol sy'n ymarfer yn y maes hwn o'r gyfraith. Dylai Cyrff Cyfrifol sicrhau bod gan y gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn y rhestr hon achrediad galluedd meddyliol gyda Chymdeithas y Gyfraith. Os bydd yr unigolyn, gan gynnwys lle bydd yr IMCA neu unrhyw un arall yn gweithredu fel cyfaill cyfreitha'r unigolyn, neu eu Person Priodol, yn cyflwyno cais o dan adran 21ZA, mae ganddynt hawl i gymorth cyfreithiol heb ei brofi trwy fodd. Bydd y cynrychiolydd cyfreithiol yn gallu rhoi cyngor ar sut mae cyrchu'r cymorth hwn. Bydd angen i unrhyw un arall sy'n gwneud cais o dan 21ZA fodloni prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol. Gweler paragraffau XX isod i gael mwy o wybodaeth ar 21ZA.
- 24.37 Mae'r hawl i wneud cais i'r llys yn fesur diogelu pwysig ar gyfer hawliau dynol Erthygl 5 yr unigolyn. Mae'r Erthygl hon yn datgan bod gan bob unigolyn hawl i ryddid ac yn diogelu pobl rhag cael eu cadw'n anghyfreithlon. Mae gan bawb hawl i ddwyn achos ar gyfreithlondeb eu cadw y mae'n rhaid i lys benderfynu arno'n gyflym.
- 24.38 Mae proses yr LPS wedi'i chynllunio i sicrhau cydymffurfiaeth lawn ag Erthygl 5. Dylid cydnabod y gallai fod rheswm i feddwl y byddai'r unigolyn yn dymuno gwneud cais er eu bod yn dweud nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Er enghraifft, gall yr unigolyn fod yn gyndyn i gael eu gweld yn herio gwneuthurwyr penderfyniad, ond mae'r awdurdodiad yn ymyrryd ar eu hawliau o dan yr Erthygl. Mae'n bwysig felly yn yr achosion hyn fod yr awdurdodiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Llys Gwarchod, hyd yn oed os na fydd yr unigolyn ei hun yn cydnabod unrhyw angen nac yn mynegi dymuniad i gyflwyno'r mater gerbron y llys. Mae hyn er mwyn diogelu hawliau Erthygl 5 yr unigolyn.
- 24.39 Gweler paragraffau XX isod i gael mwy o wybodaeth ar y pryderon y gellir eu codi.
- 24.40 Adnabod pryd bydd unigolyn yn dymuno herio neu ei fod yn anhapus â'r trefniadau
- 24.41 Os bydd yr unigolyn yn gallu cyfathrebu'u dymuniadau a'u teimladau ar lafar, ynglŷn â'r trefniadau neu'r awdurdodiad, gallant fynegi eu bod yn dymuno gwneud cais i'r llys. Hyd yn oed os bydd gan yr unigolyn allu i gychwyn achos, gall fod angen cymorth arnynt o hyd ac os felly, dylai'r Person Priodol neu IMCA gynorthwyo'r unigolyn i wneud y cais. Mae'r trothwy ar gyfer cychwyn achos yn is na'r trothwy ar

gyfer bod â gallu i gynnal achos llys. Mae'n gofyn yn syml i'r unigolyn ddeall bod gan y llys y pŵer i benderfynu a ddylai'r unigolyn fod yn ddarostyngedig i'r trefniadau neu beidio.

24.42 Mewn rhai achosion, mae'n bosibl na fydd yr unigolyn yn hapus â'r trefniadau neu'r awdurdodiad ond gallant fynegi nad ydynt yn dymuno ei herio. Pan mai dyma'r achos, gall fod angen i rywun megis yr IMCA neu Berson Priodol herio'r trefniadau yn y llys oherwydd, os bydd yr unigolyn yn anhapus â'r trefniadau neu'r awdurdodiad, yna mae'u hawliau Erthygl 5 yn debygol o fod mewn perygl. Gweler paragraffau XX isod i gael mwy o wybodaeth ar rôl yr IMCA neu Berson Priodol wrth herio'r trefniadau.

24.43 Yn yr un modd, os na fydd yr unigolyn yn gallu cyfathrebu eu dymuniadau a'u teimladau, gallant barhau i fod yn anhapus â'r trefniadau a mynegi hyn trwy eu hymddygiad mewn ffordd sy'n dangos y byddent yn dymuno gwneud cais i'r llys. Pan mai dyma'r achos, dylai'r IMCA neu Berson Priodol dynnu sylw at unrhyw arwyddion ymddygiadol y gall hyn fod yr achos a chyflwyno'r her gerbron y Llys Gwarchod ar ran yr unigolyn os yn briodol. Dylai'r IMCA neu Berson Priodol hefyd ystyried beth fyddai'r dymuniadau a'r teimladau pe byddai gan yr unigolyn y gallu perthnasol.

24.44 Wrth ystyried yr hyn mae'r unigolyn yn ei ddweud ar lafar, dylid ystyried:

- unrhyw ddatganiadau a wneir gan yr unigolyn am eu dymuniadau a'u teimladau mewn perthynas â chychwyn achos;
- unrhyw ddatganiadau a wneir gan yr unigolyn am eu preswylfan a gofal;
- unrhyw beth mae'r unigolyn yn ei ddweud am eu cyflwr emosiynol;
- pa mor aml mae'r unigolyn yn gwrthwynebu ar lafar i'w lleoliad neu'n gofyn am adael;
- cysondeb eu dymuniadau a fynegwyd neu gyflwr emosiynol; ac
- unrhyw resymau eraill posibl y tu ôl i'w dymuniadau a fynegwyd neu gyflwr emosiynol.

24.45 Wrth ystyried ymddygiad yr unigolyn, dylid ystyried:

- y rhesymau posibl am eu hymddygiad;
- a yw'r unigolyn yn cael cyffur tawelu neu feddyginaieth (gan y gallai hyn fod yn cuddio unrhyw ymddygiadau sy'n awgrymu gwrthwynebiad);
- a yw'r unigolyn yn ceisio gadael y lle;
- a yw'r unigolyn yn cymryd camau paratoadol i adael y cartref gofal, er enghraifft, pacio bagiau;
- ymddygiad yr unigolyn a pherthynas â staff;
- unrhyw gofnodion o ymddygiad heriol a'r sbardunau i'r fath ymddygiad;

- a yw ymddygiad yr unigolyn yn ymateb i agweddau penodol o'r trefniadau gofal neu i'r holl drefniadau hynny; a
- "gwrthwynebiadau goddefol" sy'n dangos dymuniadau a theimladau heb fynegi her ar lafar, gan gynnwys rhoi'r gorau i fwyta ac yfed, mynd yn fewnblyg, hunan-niweidio, datgysylltu.

24.46 Er mwyn pennu dymuniadau a theimladau'r unigolyn, dylai'r Person Priodol neu IMCA fod yn wyladwrus ynghylch ysgogwyr gwahanol sy'n gallu newid ymddygiad yr unigolyn. Mae'n bosibl, er enghraifft, bod yr unigolyn yn ymddangos yn anhapus â'r trefniadau ond trwy ymchwilio'n ymhellach mae'r IMCA yn canfod eu bod wedi dechrau cymryd meddyginiaeth newydd a all fod wedi newid eu hymddygiad, ac mai hyn oedd achos eu hanhapusrwydd mewn gwirionedd. Yn y fath achosion, efallai y bydd angen ymchwilio ymhellach ynghylch a oes angen cyflwyno cais i'r llys. Cyn penderfynu bod yr unigolyn yn dymuno herio'r awdurdodiad, dylai'r Person Priodol neu IMCA, lle y bo'n briodol, ystyried siarad â'r rhai hynny sy'n ymwneud â gofal a thriniaeth yr unigolyn i bennu os gallai fod rheswm arall dros yr hyn maent yn ei ddweud ar lafar neu ymddygiad.

24.47 Yn yr un modd, weithiau gallai ymddygiad yr unigolyn a'u dymuniadau a fynegwyd fod yn anghyson. Yn y fath achosion, dylai'r Person Priodol neu IMCA, neu eraill sy'n ymwneud â gofal yr unigolyn, ystyried yr holl amgylchiadau i ddod i'r casgliad a fyddai'r unigolyn yn dymuno cais i gael ei wneud neu beidio neu a oes angen gwneud cais i'r llys am reswm arall.

24.48 Os bydd yr unigolyn yn dymuno herio'u hawdurdodiad ac nad yw'n derbyn cynrychiolaeth a chymorth angenrheidiol gan Person Priodol neu IMCA, dylai'r Corff Cyfrifol sicrhau bod eu hachos yn cael ei gyflwyno gerbron y llys os bydd angen.

24.49 Hyd yn oes os bydd gan yr unigolyn allu i gyflwyno achos, gall fod â phrinder gallu i gynnal achos a bydd yr angen am gyfaill cyfreithia arnynt yn parhau i gynnal yr achos ar eu rhan. Mewn llawer o achosion, mae Person Priodol neu IMCA'r unigolyn yn gallu gweithredu yn y rôl hon. Os na fydd neb arall yn addas ac yn fodlon cyflawni'r rôl, yna gall y Cyfreithiwr Swyddogol gael ei wahodd i weithredu.

Pa heriau all gael eu codi yn erbyn y trefniadau, awdurdodiad, neu broses yr LPS?

24.50 Mae gan yr unigolyn ac eraill, er enghraifft unigolyn neu sefydliad ar eu rhan, hawl i herio'r trefniadau a gynigir neu drefniadau a awdurdodir, neu'r modd y mae proses yr LPS wedi cael ei chyflawni. Dylai'r Corff Cyfrifol sicrhau bod sianelau priodol i unigolion godi'r fath bryderon, gan gynnwys trwy brosesau cwynion safonol. Dylid ystyried pob pryder yn syth, a chymryd unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol. Dylai gwybodaeth am sut i wneud cwyn gael ei chynnwys o fewn y wybodaeth mae Cyrff Cyfrifol yn ei chyhoeddi a bod ar gael trwy ddarparwyr gofal.

- 24.51 Os, yn dilyn cwblhau'r asesiadau a'r penderfyniadau, ac ymgynghori, bydd rheswm i gredu nad yw'r unigolyn yn dymuno preswyllo neu dderbyn gofal neu driniaeth mewn lleoliad, mae'n rhaid i'r achos gael ei gyfeirio at AMCP ar gyfer adolygiad cyn-awdurdodi. Gweler pennod XX i gael mwy o wybodaeth ar rôl AMCP a chyngor pellach ar bryd mae'n rhesymol credu nad yw'r unigolyn yn dymuno preswyllo neu dderbyn gofal neu driniaeth mewn lle.
- 24.52 Yn ogystal, ar unrhyw adeg, naill ai yn ystod y broses awdurdodi neu cyn gynted â bod awdurdodiad ar waith, mae unrhyw un sydd wedi'i restru ym mharagraff XX yn gallu codi pryderon am broses yr LPS. Er enghraifft, er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei drin yn deg, gall gweithiwr gofal yn y cartref weld rhyngweithrediadau rhwng yr unigolyn a'u Person Priodol a bod â phryderon am y ffordd y mae'r Person Priodol yn cynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn. Yn y fath achos, dylent godi pryderon gyda'r Corff Cyfrifol.
- 24.53 Dylai pob ymdrech gael ei gwneud gan y Corff Cyfrifol i ddatrys anghytundebau a heriau'n anffurfiol, os y bo'n bosibl ac yn briodol. Gall pryderon a heriau gael eu cyflwyno i'r Corff Cyfrifol ar unrhyw adeg cyn yr awdurdodiad, gan gynnwys trwy'r broses ymgynghori a chynllunio gofal, neu cyn gynted â bod awdurdodiad ar waith. Mewn rhai achosion, gall y Corff Cyfrifol geisio cyngor gan AMCP, heb gyfeirio'r achos at adolygiad cyn-awdurdodi AMCP, cyn penderfynu sut i fwrw ymlaen.
- 24.54 Os na fydd y sawl, neu'r unigolyn sy'n codi'r pryder, yn fodlon â'r broses datrys anghydfod neu'r datrysiad a gynigir, mae nifer o ffyrdd y gallant eu cymryd i fwrw ymlaen â hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:
- gwneud cwyn trwy system gwynion swyddogol y Corff Cyfrifol. Os na fydd y mater yn cael ei ddatrys trwy weithdrefnau cwynion mewnol, gall fod yn briodol gwneud cwyn wrth yr Ombwdsmon perthnasol.
 - codi pryder diogelu o dan weithdrefnau diogelu amlasiantaeth bwrdd lleol diogelu oedolion neu blant (os credir bod yr unigolyn mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod).
 - gofyn am adolygiad o'r cynllun gofal a chymorth neu'r trefniadau awdurdodedig, neu'r ddau.
 - gwneud cais i'r Llys Gwarchod i herio'r awdurdod, gweler pennod XX i gael mwy o wybodaeth.

Beth i'w wneud os bydd rhywun yn codi pryderon am fater arall yn ystod proses yr LPS

- 24.55 Yn ystod proses yr LPS, gall yr unigolyn neu eraill godi pryderon am faterion eraill, nad ydynt yn rhan o'r broses. Mae hyn yn gallu cynnwys pryderon am y gofal a'r driniaeth ei hun, neu gyfyngiadau eraill a gynigir, megis terfynau ar gysylltu â'r teulu, sy'n fwy perthnasol i hawliau Erthygl 8 yr unigolyn, yn hytrach na'u hawliau Erthygl 5. Er bod y fath faterion y tu allan i broses y Gweithdrefnau Amddiffyn

Rhyddid, os cânt eu codi, gellir eu hystyried fel rhan o'r asesiad ar Angenrheidrwydd a Chymesuredd (Gweler pennod XX i gael mwy o wybodaeth).

DRAFT

25. Pa reolau sy'n llywodraethu mynediad at wybodaeth am unigolyn sydd â phrinder gallu?

Mae'r bennod hon yn rhoi canllawiau ar ba wybodaeth bersonol am rywun sydd â phrinder gallu mae gan bobl sy'n ymwneud â'u gofal â hawl i'w gweld, a sut gallant gael mynediad i'r wybodaeth honno. Canllaw cyffredinol yn unig yw'r bennod hon ac nid yw'n rhoi gwybodaeth fanwl am y gyfraith. Nid yw'n cymryd lle canllawiau proffesiynol chwaith na chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) (mae'r canllaw hwn ar gael ar ei gwefan¹⁵¹). Lle bo angen, dylai pobl gael cyngor cyfreithiol.

Mae'r bennod hon yn bennaf ar gyfer pobl megis dirprwyon ac atwrneiod sy'n gofalu am neu'n cynrychioli rhywun sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniadau penodol ac yn enwedig, sydd â phrinder gallu i ganiatáu i wybodaeth amdanynt gael ei datgelu. Mae gan weithwyr proffesiynol eu codau ymddygiad eu hunain, a gall fod ganddynt gymorth arbenigwyr gwybodaeth yn eu sefydliadau.

Yn y bennod hon, fel trwy'r Cod cyfan, mae gallu (neu brinder gallu) unigolyn yn cyfeirio'n benodol at eu gallu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg mae angen iddo gael ei wneud.

Crynodeb cyflym

Bydd y wybodaeth bersonol y gallai rhywun ei gweld am rywun sydd â phrinder gallu i roi cydsyniad yn dibynnu ar:

- a yw'r unigolyn sy'n gofyn am y wybodaeth yn gweithredu fel asiant (cynrychiolydd wedi'i gydnabod gan y gyfraith, megis atwrnai neu ddirprwy) ar gyfer yr unigolyn sydd â phrinder gallu neu a oes gorchymyn llys perthnasol mewn grym
- a yw datgelu er y budd gorau i'r unigolyn sydd â phrinder gallu neu a oes rheswm cyfreithlon arall dros ddatgelu, a
- pha fath o wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Mae atwrnai neu ddirprwy'n gallu gofyn i weld gwybodaeth ynglŷn â'r unigolyn maent yn ei gynrychioli, ar yr amod fod y wybodaeth yn eu helpu i wneud penderfyniadau, y mae

¹⁵¹ <https://ico.org.uk/>

ganddynt yr awdurdod cyfreithiol i'w gwneud. Dylid ymgynghori ag atwrnai, lle bo angen, ar benderfyniadau y tu allan i'w cylch gorchwyl.

Pan na fydd gan unigolyn awdurdod cyfreithiol i ofyn am wybodaeth am rywun sydd â phrinder gallu, bydd a ydynt yn gallu cael mynediad at y wybodaeth neu'i rhannu yn dibynnu ar y sefyllfa.

Gall staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol ddatgelu gwybodaeth am rywun sydd â phrinder gallu yn unig pan fydd er y budd gorau i'r unigolyn i wneud hynny, neu pan fydd rhyw reswm cyfreithlon arall iddynt wneud hynny.

Pa gyfreithiau a rheoliadau sy'n effeithio ar fynediad at wybodaeth?

25.1 Mae gwybodaeth sensitif a chyfrinachol yn cael ei rheoleiddio gan:

- Y GDPR a DPA 2018
- y ddyletswydd cyfraith gyffredin o gyfrinachedd
- codau proffesiynol o ymddygiad ar gyfrinachedd
- Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn enwedig Erthygl 8 (yr hawl i barch ar gyfer bywyd preifat a theuluol), sy'n golygu ei bod yn gyfreithlon i ddatgelu gwybodaeth bersonol rhywun yn unig os:
 - bydd nod cyfreithlon i wneud hynny
 - byddai cymdeithas ddemocrataidd yn meddwl ei bod yn angenrheidiol i wneud hynny, a
 - bod y math a swm o wybodaeth a ddatgelir mewn perthynas â'r angen

Sut mae rhywun yn cael mynediad atwybodaeth ar ran rhywun arall?

- 25.2 Mae erthygl 15 y GDPR yn rhoi'r hawl i bawb weld y wybodaeth bersonol mae sefydliad yn ei chadw amdanynt. Gallant hefyd awdurdodi rhywun arall i gael mynediad at eu gwybodaeth ar eu rhan. Mae gan yr unigolyn sy'n cadw'r wybodaeth ddyletswydd gyfreithiol i'w rhyddhau. Felly, lle y bo'n bosibl, mae'n bwysig ceisio cael cydsyniad unigolyn cyn gwneud cais i weld gwybodaeth amdanynt. Yn yr achos hwn, dylai darparu cydsyniad yr unigolyn i'r sefydliad sy'n cadw'r wybodaeth olygu bod rhywun yn gallu cael mynediad at neu rannu'r wybodaeth fel y cytynwyd gan yr unigolyn.
- 25.3 Nid yw meddygon na chyfreithwyr fel arfer yn gallu rhannu gwybodaeth am eu cleientiaid, neu fod cleientiaid wedi rhoi iddynt, heb gydsyniad y cleient. Weithiau mae'n deg rhagdybio bod gan feddyg neu gyfreithiwr gydsyniad rhywun eisoes (er enghraifft, nid yw cleifion fel arfer yn disgwyl i staff gofal iechyd neu weithwyr cyfreithiol proffesiynol gael cydsyniad bob tro maent yn rhannu gwybodaeth â chydweithiwr - ond gall staff ddewis cael cydsyniad cleient yn ysgrifenedig pan fyddant yn dechrau trin neu weithredu ar ran yr unigolyn hwnnw). Ond mewn amgylchiadau eraill, mae'n rhaid i feddygon a chyfreithwyr gael cydsyniad penodol i 'ddatgelu' gwybodaeth (ei rhannu gyda rhywun arall).
- 25.4 Bydd awdurdodau cyhoeddus amrywiol yn darparu eu codau a chanllawiau proffesiynol eu hunain ar ddatgelu gwybodaeth (er enghraifft, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, Cymdeithas y Gyfraith a'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr). Dylai staf iechyd a gofal cymdeithasol hefyd ddilyn 'Egwyddorion Caldicott', sy'n sicrhau bod gwybodaeth sy'n gallu sefydlu pwy yw'r claf yn cael ei diogelu ac ond yn cael ei defnyddio pan fydd yn briodol gwneud hynny.
- 25.5 Gall fod gan unigolyn y gallu i gytuno i rywun weld eu gwybodaeth bersonol, hyd yn oed os nad oes ganddynt y gallu i wneud penderfyniadau eraill. Mewn rhai sefyllfaoedd, gall unigolyn fod wedi rhoi cydsyniad yn flaenorol (tra roedd ganddynt y gallu o hyd) i rywun weld eu gwybodaeth bersonol yn y dyfodol.
- 25.6 Os bydd gallu rhywun yn newid o dro i dro, efallai y bydd y sawl sydd angen y wybodaeth eisiau aros tan y gall yr unigolyn hwnnw roi eu cydsyniad. Neu gallant benderfynu nad yw'n angenrheidiol cael mynediad atwybodaeth o gwbl, os bydd yr unigolyn yn gallu gwneud penderfyniad ar eu pen eu hun yn y dyfodol.
- 25.7 Fodd bynnag, efallai y bydd angen cael mynediad at wybodaeth bersonol am unigolyn sydd â phrinder gallu i gydsynio.
- 25.8 Efallai y bydd angen gwybodaeth ar bobl sy'n gofalu am, neu'n rheoli cyllid rhywun sy'n brin o'r gallu i:

- asesu gallu'r unigolyn i wneud penderfyniad penodol
- pennu budd gorau'r unigolyn, a
- gwneud penderfyniadau priodol ar ran yr unigolyn.

25.9 Mae'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Er enghraifft:

- bydd rhywun sy'n darparu gofal llawn amser i'w rhiant oedrannus yn gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar eu profiad a'u gwybodaeth am y rhiant
- gall fod angen gwybodaeth ar ddirprwy gan bobl eraill. Er enghraifft, os oeddent yn penderfynu a oes angen i unigolyn symud i gartref gofal, neu a ddylent werthu cartref yr unigolyn, gall fod angen gwybodaeth arnynt gan aelodau'r teulu, y meddyg teulu, banc yr unigolyn a'u cyfreithiwr i sicrhau eu bod yn gwneud y penderfyniad er y budd gorau i'r unigolyn.

25.10 Bydd y wybodaeth bersonol y gallai rhywun ei gweld am rywun sydd â phrinder gallu i roi cydsyniad yn dibynnu ar:

- a yw'r unigolyn sy'n gofyn am y wybodaeth yn gweithredu fel asiant (cynrychiolydd wedi'i gydnabod gan y gyfraith, megis atwrnai neu ddirprwy) ar gyfer yr unigolyn sydd â phrinder gallu neu a oes gorchymyn llys perthnasol mewn grym
- a yw datgelu er y budd gorau i'r unigolyn sydd â phrinder gallu neu a oes rheswm cyfreithlon arall dros ddatgelu, a
- pha fath o wybodaeth y gofynnwyd amdani.

25.11 Pan fydd gan yr unigolyn awdurdod cyfreithiol i wneud cais am y wybodaeth, gallant gael mynediad at a rhannu gwybodaeth lle caniateir hyn o dan yr awdurdod sydd ganddynt. Gall fod angen iddynt ddangos naill ai'r copi gwreiddiol neu'r un ardystiedig o'r awdurdod ac adnabyddiaeth os gofynnir amdano. Mae mathau o awdurdod cyfreithiol fydd yn caniatáu i'r unigolyn reoli materion personol, cael mynediad at wybodaeth a gwneud penderfyniadau dros unigolyn sydd â phrinder gallu gan gynnwys Atwrneiaethau Arhosol, Atwrneiaethau Parhaus (a grëwyd cyn 1 Hydref 2007) a dirprwyaethau'r Llys Gwarchod.

25.12 Pan na fydd gan unigolyn awdurdod cyfreithiol i wneud cais am y wybodaeth, bydd a ydynt yn gallu cael mynediad at y wybodaeth neu'i rannu yn dibynnu ar y sefyllfa. Mewn rhai achosion, efallai na fyddant yn gallu cael mynediad atwybodaeth yr unigolyn. Fodd bynnag, os bydd ganddynt reswm dilys dros angen gwneud, megis cynrychioli'r unigolyn mewn cwyn ynghylch gofal neu gais i'r GIG barhau i gyllido gofal iechyd, mae'n bosibl y byddant yn gallu gwneud hynny. Os bydd angen iddynt, maent yn gallu rhannu gwybodaeth â sefydliadau hyd yn oed pan na fyddant yn gallu cael mynediad at wybodaeth yr unigolyn.

Pryd gall atwrneiod a dirprwyon ofyn i weld gwybodaeth bersonol?

- 25.13 Mae atwrnai neu ddirprwy yn gallu gofyn i weld gwybodaeth ynglŷn â'r unigolyn maent yn ei gynrychioli, ar yr amod fod y wybodaeth yn eu helpu i wneud penderfyniadau mae ganddynt yr awdurdod cyfreithiol i'w gwneud. Mewn rhai amgylchiadau gallai hyn olygu atwrnai eiddo a materion personol yn gofyn am gofnodion iechyd penodol os byddai'r fath gofnodion yn helpu'r atwrnai i wneud penderfyniad ariannol ar ran y rhoddwr. Ar gyfer gwybodaeth sy'n gysylltiedig â meysydd eraill, gall fod angen i'r atwrnai neu ddirprwy wneud cais i'r Llys Gwarchod.
- 25.14 Ar ôl gweld yr awdurdod priodol dylai'r unigolyn sy'n cadw'r wybodaeth allu ei rhyddhau.
- 25.15 Mae'n rhaid i'r atwrnai neu ddirprwy drin y wybodaeth yn gyfrinachol a dylent fod yn eithriadol o ofalus i'w diogelu. Os byddant yn methu â gwneud hynny, gallai'r llys ddiddymu'r LPA neu ddirprwyaeth.
- 25.16 Mae'n rhaid i geisiadau am wybodaeth bersonol fod yn ysgrifenedig. Yn y rhan fwyaf o achosion nid yw sefydliad yn gallu codi ffi i gydymffurfio â chais mynediad at bwnc. Fodd bynnag, maent yn gallu codi "ffi rhesymol" ar gyfer y costau gweinyddol o gydymffurfio â'r cais os yw heb sail neu'n ormodol; neu mae unigolyn yn gwneud cais am gopiâu ychwanegol o'u data yn dilyn cais. Gall atwrnai neu ddirprwy addalu eu hun allan o gyllid yr unigolyn ar gyfer unrhyw ffi sy'n ofynnol iddynt dalu, ar yr amod bod y cais am wybodaeth yn cael ei wneud yn gywir ac er y budd gorau i'r unigolyn sydd â phrinder gallu. Dylai cwynion am fethu â chydymffurfio â'r GDPR gael eu cyfeirio i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth¹⁵².

Pa gyfyngiadau sydd?

- 25.17 Dylai atwrneiod a dirprwyon ofyn am wybodaeth yn unig fydd yn eu helpu i wneud penderfyniad mae angen iddynt wneud ar ran yr unigolyn sydd â phrinder gallu. Er enghraifft, os bydd angen i'r atwrnai wybod pryd y dylai'r unigolyn gymryd meddyginiaeth, ni ddylai ofyn i weld y cofnod gofal iechyd cyfan. Mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n rhyddhau gwybodaeth sicrhau bod gan atwrnai neu ddirprwy awdurdod cyfreithiol (gall ofyn am brawf hunaniaeth a phenodiad). Wrth ofyn i weld gwybodaeth bersonol, dylai atwrneiod a dirprwyon gadw mewn cof bob tro bod yn rhaid i'w penderfyniad fod er y budd gorau i'r unigolyn sydd â phrinder gallu i wneud y penderfyniad hwnnw.

¹⁵² <https://ico.org.uk/>

25.18 Efallai nad yw'r atwrnai neu ddirprwy yn gwybod y math o wybodaeth mae rhywun yn ei gadw am yr unigolyn maent yn ei gynrychioli. Felly weithiau gallai fod yn anodd iddynt wneud cais penodol. Efallai y byddai angen iddynt hyd yn oed weld yr holl wybodaeth i wneud penderfyniad. Ond eto, mae'r egwyddor 'budd gorau' yn gymwys.

Senario: Rhoi mynediad i atwrneiod at wybodaeth bersonol

Mae Mr Y yn y camau diweddarach o afiechyd Alzheimer. Mae ei fab yn gyfrifol am les personol Mr Y o dan Atwrneiaeth Arhosol. Mae Mr Y wedi bod mewn gofal preswyl am nifer o flynyddoedd. Ond nid yw ei fab yn meddwl bod y cartref nawr yn gallu bodloni anghenion presennol ei dad gan fod ei gyflwr wedi dirywio'n ddiweddar.

Mae mab Mr Y yn gofyn yn ysgrifenedig i weld cofnodion ei dad. Mae eisiau gwybodaeth benodol arno am ofal ei dad, er mwyn iddo allu gwneud penderfyniad am fudd gorau'i dad. Ond mae rheolwr y cartref gofal yn gwrthod, gan ddweud bod y Ddeddf Diogelu Data'n ei atal rhag rhyddhau gwybodaeth bersonol.

Mae mab Mr Y yn esbonio ei fod yn gallu gweld cofnodion ei dad, oherwydd mae ef yw'r atwrnai lles personol a bod angen y wybodaeth arno i wneud penderfyniad iechyd a lles. Mae'r GDPR yn gofyn bod rheolwr y cartref gofal yn rhoi mynediad at ddata personol sy'n cael eu cadw ar Mr Y.

Mae rheolwr y cartref gofal yn cytuno i rannu'r cofnodion sydd eu hangen ar fab Mr Y i wneud y penderfyniad iechyd a lles.

25.19 Gall y dirprwy neu atwrnai ganfod bod rhywfaint o wybodaeth heb ei datgelu (er enghraifft, pan fydd yn cynnwys cyfeiriadau at bobl heblaw am yr unigolyn sydd â phrinder gallu). Gallai hyn fod i ddiogelu preifatrwydd unigolyn arall, os bydd yr unigolyn hwnnw'n cael ei grybwyll yn y cofnodion. Mae'n annhebygol y byddai'r wybodaeth honno ynglŷn ag unigolyn arall yn helpu atwrnai i wneud penderfyniad ar ran yr unigolyn sydd â phrinder gallu. Gallai deiliad y wybodaeth hefyd fod o dan rwymedigaeth i gadw gwybodaeth am yr unigolyn arall yn gyfrinachol, neu gallai fod rheswm arall pam nad yw'r unigolyn arall eisiau i wybodaeth amdanynt gael ei rhyddhau. O dan yr amgylchiadau hyn, nid oes hawl gan yr atwrnai i weld y wybodaeth honno.

25.20 Ni ddylai deiliad gwybodaeth ryddhau gwybodaeth os byddai gwneud hynny'n achosi niwed corfforol neu feddyliol difrifol i unrhyw un, gan gynnwys yr unigolyn y mae'r wybodaeth amdano. Mae hyn yn berthnasol i wybodaeth am ofal iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg.

25.21 Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gallu rhoi manylion pellach ar:

- sut i wneud cais am wybodaeth bersonol
- cyfyngiadau ar gael mynediad at wybodaeth
- sut i apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â datgelu gwybodaeth, a
- sut i wneud cwyn os bydd gwybodaeth yn cael ei datgelu'n anghywir

Pryd gall rhywun weld gwybodaeth am ofal iechyd neu ofal cymdeithasol?

- 25.22 Gall staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol ddatgelu gwybodaeth am rywun sydd â phrinder gallu yn unig pan fydd er y budd gorau i'r unigolyn o dan sylw i wneud hynny, neu pan fydd rhyw reswm cyfreithlon arall i wneud hynny.
- 25.23 Bydd gofyniad y Ddeddf i ymgynghori â phobl berthnasol wrth ganfod budd gorau unigolyn sydd â phrinder gallu yn annog pobl i rannu'r wybodaeth sy'n gwneud ymgynghoriad yn ystyrion. Ond dylai pobl sy'n rhyddhau gwybodaeth fod yn siŵr eu bod yn gweithredu'n gyfreithlon a'u bod yn gallu cyfiawnhau rhyddhau'r wybodaeth. Mae angen iddynt gydbwysu hawl yr unigolyn i breifatrwydd â'r hyn sydd er eu budd gorau neu fudd ehangach y cyhoedd¹⁵³ (gweler paragraffau 16.24–16.25 isod).
- 25.24 Weithiau bydd hi'n weddol amlwg y dylai staff ddatgelu gwybodaeth. Er enghraifft, byddai angen i feddyg ddweud wrth weithiwr gofal newydd pa gyffuriau sydd eu hangen ar unigolyn neu ba alergeddau sydd gan yr unigolyn. Mae hyn yn amlwg er budd gorau'r unigolyn.
- 25.25 Gall fod angen datgelu gwybodaeth arall fel rhan o'r broses o ganfod budd gorau rhywun. Mae hyn yn debygol o fod yn anghyfreithlon os bydd gofyn am ddatgeliad er mwyn i weithiwr proffesiynol allu ymgynghori'n ystyrion er mwyn gwneud penderfyniad er budd gorau. Er enghraifft, gallai gweithiwr cymdeithasol benderfynu datgelu gwybodaeth am orffennol rhywun wrth ymgynghori ag aelod agos o'r teulu am fudd gorau'r unigolyn. Ond dylai staff gadw mewn cof o hyd bod y Ddeddf yn gofyn iddynt ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn sydd â phrinder gallu. Yn y ddau achos hwn, dylai staff ond ddatgelu cymaint o wybodaeth ag sy'n berthnasol i'r penderfyniad gael ei wneud.
- 25.26 Mae adran 58(5) y Ddeddf yn rhoi'r hawl i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus archwilio a chymryd copïau o gofnodion iechyd neu unrhyw gofnod a gedwir gan awdurdodau lleol ynglŷn â gofal cymdeithasol. Mae hyn er mwyn helpu i gynorthwyo â dyletswyddau statudol y Gwarcheidwad Cyhoeddus, megis ymdrin â chwynion am sut mae atwrnai/dirprwy yn ymarfer eu pwerau.

¹⁵³ Gweler *S yn erbyn Cyngor Dinas Plymouth* [2002] EWCA Civ 388 - <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCA/Civ/2002/388.html>

25.27 Mae adran 35(6) y Ddeddf yn rhoi'r hawl i IMCA archwilio, a chymryd copïau o, unrhyw gofnodion mae'r unigolyn sy'n cadw'r cofnod yn meddwl sy'n berthnasol i ymchwiliad yr IMCA (er enghraifft, cofnodion clinigol, cynlluniau gofal a chymorth, dogfennau asesu gofal cymdeithasol neu gofnodion cartref gofal). Mae'n debygol hefyd y bydd datgelu gwybodaeth i eiriolwyr statudol eraill yn gyfreithlon os bydd gofyn am y fath wybodaeth i'w galluogi i gyflawni'u swyddogaethau.

Senario: Rhannu gwybodaeth briodol

Mae gan Mr J anabledau dysgu. Mae'r cartref preswyl lle mae'n byw ar fin cau. Mae ei dîm gofal yn cynnal asesiad trywlyr o'i anghenion llety. Maent yn asesu Mr J fel bod yn brin o allu i wneud penderfyniad am ei gartref nesaf, ond yn cynnwys Mr J yn yr asesiad gymaint â phosibl, gan ddefnyddio cymorth Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol i ganfod ei ddymuniadau a'i deimladau a chyrraedd penderfyniad er ei fudd gorau. Yn dilyn yr asesiad, mae tîm gofal Mr J yn penderfynu ei leoli gyda gofalwyr mewn cynllun lleoli oedolion.

Mae'r gofalwyr newydd yn gofyn am gael gweld ffeil achos Mr J, fel eu bod yn gallu darparu'r gofal priodol iddo er ei fudd gorau. Mae rheolwr gofal presennol Mr J yn ceisio cydsyniad Mr J i ddatgelu'i nodiadau, ond ar ôl ei gynorthwyo gymaint â phosibl i allu gwneud y penderfyniad ei hun, mae'n asesu Mr J fel bod yn brin o allu i wneud y penderfyniad. Mae'n cydnabod ei bod yn briodol darparu digon o wybodaeth i'r gofalwyr i'w galluogi i weithredu er y budd gorau i Mr J. Mae'n penderfynu nad yw'n briodol iddynt weld yr holl wybodaeth ar ffeil yr achos. Gan fod Mr J wedi bod yn y cartref gofal am amser maith, mae llawer o'r wybodaeth yn y ffeil yn gysylltedig ag anghenion blaenorol oedd gan Mr J lawer o flynyddoedd yn ôl ac nid yw'n berthnasol i'w anghenion gofal presennol.

Mae'r rheolwr gofal felly'n penderfynu datgelu gwybodaeth sy'n berthnasol ar hyn o bryd yn unig o'r ffeil am anghenion gofal Mr J.

25.28 Weithiau bydd hawl unigolyn i gyfrinachedd yn gwrthdaro â phryderon cyhoeddus ehangach. Mae gwybodaeth yn gallu cael ei rhyddhau os bydd er budd y cyhoedd hyd yn oed os nad yw er y budd gorau i'r unigolyn sydd â phrinder gallu. Mae'n gallu bod yn anodd penderfynu yn yr achosion hyn, a dylai deiliaid gwybodaeth ystyried pob achos ar ei deilyngod. Mae Cod Ymarfer Cyfrinachedd y GIG¹⁵⁴ yn rhoi enghreifftiau o bryd mae datgelu er budd y cyhoedd. Mae cyrff eraill yn darparu canllawiau hefyd, er enghraifft y Cyngor Meddygol Cyffredinol i feddygon. Mae datgeliadau er budd y cyhoedd yn cynnwys sefyllfaoedd lle gallai datgelu gwybodaeth atal, neu gynorthwyo ymchwiliadau i, droseddau difrifol, neu i atal

¹⁵⁴ <https://www.gov.uk/government/publications/confidentiality-nhs-code-of-practice>

niwed difrifol, megis lledu afiechyd heintus. Yna, mae'n angenrheidiol barnu a yw'r lles cyhoeddus fyddai'n cael ei gyflawni gan y datgelu yn gorbwyso'r rhwymedigaeth o gyfrinachedd i'r unigolyn o dan sylw *yn ogystal â'r* budd cyhoeddus ehangach yn narpariaeth gwasanaeth cyfrinachol.

25.29 Er mwyn i ddatgelu fod er budd y cyhoedd, mae'n rhaid iddo fod yn gymesur ac yn gyfyngedig i'r manylion perthnasol. Dylai staff gofal iechyd neu ofal cymdeithasol sy'n wynebu'r penderfyniad hwn ofyn am gyngor gan eu cynghorwyr cyfreithiol. Nid pethau'n unig ar gyfer 'er budd y cyhoedd' sydd er budd y cyhoedd - mae datgelu er budd yr unigolyn sydd â phrinder gallu yn gallu bod er budd y cyhoedd hefyd (er enghraifft, i atal unigolyn sydd â phrinder gallu, neu rywun arall, rhag dioddef niwed corfforol neu feddyliol).

Pa wybodaeth ariannol y gellir ei rhannu?

25.30 Mae'n anoddach yn aml i gael gwybodaeth ariannol nag y mae i gael gwybodaeth ar les unigolyn. Efallai nad yw banc, er enghraifft, yn:

- adnabod yr unigolyn o dan sylw
- yn gallu gwneud asesiad o allu'r unigolyn i gydsynio i ddatgelu
- ymwybodol o berthynas y gofalwr â'r unigolyn.

25.31 Felly mae'n llai tebygol na meddyg neu weithiwr cymdeithasol i allu barnu yr hyn sydd er y budd gorau i'r unigolyn yn ogystal â bod yn rhwymedig gan ddyletswyddau i gadw materion cleient yn gyfrinachol. Yn gyffredinol, bydd gan atwrnai neu ddirprwy, a benodir i reoli eiddo a materion personol yr unigolyn, yr awdurdod (oherwydd eu penodiad) i gael yr holl wybodaeth berthnasol am eiddo a materion personol yr unigolyn. Mae eraill y mae eisiau gwybodaeth ariannol arnynt yn debygol o fod ag angen gwneud cais i'r Llys Gwarchod am fynediad at y wybodaeth honno.

A yw gwybodaeth yn parhau'n gyfrinachol ar ôl i rywun ei rhannu?

25.32 Pryd bynnag mae gofalwr yn cael gwybodaeth, dylent drin y wybodaeth yn gyfrinachol, ac ni ddylent ei rhannu ag unrhyw un arall (oni bai bod sail gyfreithlon dros wneud hynny). Mewn rhai amgylchiadau, gallai deiliad y wybodaeth ofyn i'r gofalwr roi cadarnhad ffurfiol y byddent yn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol.

25.33 Pan fydd y wybodaeth mewn ffurf ysgrifenedig, dylai gofalwyr ei storio'n ofalus a pheidio â'i chadw am fwy nag sydd angen. Mewn llawer o achosion, bydd yr angen i gadw'r wybodaeth dros dro. Felly dylai'r gofalwr allu rhoi sicrwydd i ddeiliad y wybodaeth na fyddant yn cadw cofnod parhaol o'r wybodaeth.

Beth yw'r ffordd orau i ddatrys anghytundeb am wybodaeth bersonol?

- 25.34 Dylai gofalwr ddechrau bob tro o sefyllfa'r unigolyn ei hun yn gwneud y penderfyniad i gydsynio i rannu gwybodaeth. Os, hyd yn oed ar ôl cymorth i wneud y penderfyniad, bod yr unigolyn yn brin o allu i gydsynio, dylai'r gofalwr ofyn i ddeiliad y wybodaeth am y wybodaeth berthnasol ac esbonio pam bod ei hangen arnynt. Gall fod angen iddynt atgoffa deiliad y wybodaeth bod yn rhaid iddynt wneud penderfyniad er y budd gorau i'r unigolyn ac na fydd yn gallu gwneud hynny heb y wybodaeth berthnasol.
- 25.35 Mae hyn yn gallu bod yn faes sensitif a bydd anghydfodau'n codi'n anochel. Mae gan staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol ddyfarniad anodd i'w wneud. Gallent deimlo'n gryf na fyddai datgelu'r wybodaeth er y budd gorau i'r unigolyn sydd â phrinder gallu a byddai'n gyfystyr â tharfau ar eu breifatrwydd. Gall hyn fod yn annifyr i'r gofalwr sy'n debygol o fod â chymhellion da dros ddymuno cael y wybodaeth. Ym mhob achos, dylai asesiad o fuddiannau ac anghenion yr unigolyn sydd â phrinder gallu bennu a ddylai staff ddatgelu gwybodaeth.
- 25.36 Os bydd trafodaeth yn methu â datrys y mater, ac nad yw'r gofalwr yn hapus o hyd, mae ffyrdd eraill i ddatrys yr anghytundeb (gweler pennod 15). Gall fod angen i'r gofalwr ddefnyddio'r weithdrefn cwyno briodol. Gan fod y gŵyn yn cynnwys elfennau o ddiogelu data a chyfrinachedd, yn ogystal â budd gorau, dylai arbenigwyr perthnasol o fewn y sefydliad perthnasol helpu i ddelio â'r gŵyn.
- 25.37 Mewn achosion lle na ellir datrys yr anghytundeb, mae'r gofalwr yn gallu gwneud cais i'r Llys Gwarchod am yr hawl i gael mynediad i'r wybodaeth benodol. Yna, byddai angen i'r llys benderfynu a oedd hyn er y budd gorau i'r unigolyn sydd â phrinder gallu i gydsynio. Mewn achosion brys, gallai fod yn angenrheidiol i'r gofalwr wneud cais yn uniongyrchol i'r llys heb fynd trwy'r camau cynharach.

26. Sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar brosiectau ymchwil sy'n cynnwys unigolyn sydd â neu all fod â phrinder gallu?

Mae'n bwysig y gellir cyflawni ymchwil sy'n cynnwys pobl sydd â neu all fod â phrinder gallu, a'i fod yn cael ei gyflawni'n gywir. Hebdo, ni fyddem yn gwella'n gwybodaeth o'r achosion, triniaeth a gofal o bobl â chyflyrau amharol na'n dealltwriaeth o'u persbectifau a phrofiadau.

Mae'r bennod hon yn rhoi canllawiau ar gynnwys pobl sydd â phrinder gallu i gydsynio, ac sydd angen cymorth i gydsynio i gymryd rhan mewn ymchwil. Mae'n amlinellu:

- sut i gynorthwyo pobl i wneud penderfyniad am gymryd rhan mewn ymchwil neu beidio
- y gofynion cyfreithiol mae'n rhaid i bobl eu bodloni os bydd eu prosiect ymchwil yn cynnwys rhywun sydd â phrinder gallu
- cyfrifoldebau penodol ymchwilwyr a'r hyn ddylai ddigwydd os bydd rhywun sy'n cymryd rhan mewn ymchwil yn colli gallu yn ystod prosiect ymchwil

Mae'r bennod hon yn ymwneud ag ymchwil sy'n gysylltiedig â phobl 16 oed a throsodd. Mae canllawiau'r GIG ar gydsynio ar gyfer plant a phobl 16 a 17 oed¹⁵⁵.

Yn y bennod hon, fel trwy'r Cod cyfan, mae gallu (neu brinder gallu) unigolyn yn cyfeirio'n benodol at eu gallu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg mae angen iddo gael ei wneud.

¹⁵⁵ <https://www.hra.nhs.uk/planning-and-improving-research/policies-standards-legislation/research-involving-children/>

Crynodeb cyflym

Pan fo rheswm i amau a oes gan unigolyn allu i gydsynio i gymryd rhan mewn ymchwil, mae ymchwilwyr yn gyfrifol am bennu a yw'r unigolyn yn gallu rhoi cydsyniad gwybodus neu beidio.

Os bydd unigolyn sydd â phrinder gallu i gydsynio i gymryd rhan, mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i'w diogelu. Mae darpariaethau'r Ddeddf ar gyfer ymchwil sy'n cynnwys pobl sydd â phrinder gallu i gydsynio iddynt gymryd rhan yn cynnwys:

- pryd y gellir cyflawni ymchwil
- y farn foesegol a'r broses cymeradwyo ymchwil
- parchu dymuniadau a theimladau'r bobl sydd â phrinder gallu
- trefniadau diogelu eraill i ddiogelu pobl sydd â phrinder gallu
- sut i ymgysylltu ag unigolyn sydd â phrinder gallu
- sut i ymgysylltu â gofalwyr a phobl berthnasol eraill.

Mae darpariaethau'r ymchwil yn y Ddeddf yn gymwys i bob ymchwil sy'n ymwthiol. Mae 'ymwthiol' yn golygu ymchwil a fyddai'n anghyfreithlon pe byddai'n cynnwys unigolyn oedd â gallu ond nad oedd wedi cydsynio i gymryd rhan. Nid yw'r darpariaethau'n gymwys i Dreialon Clinigol Cynhyrchion Meddyginiaethol Ymchwiliadol (CTIIMPS).

Beth yw 'ymchwil'?

26.1 Nid oes gan y Ddeddf ddiffiniad penodol o 'ymchwil'. Mae Fframwaith Polisi'r DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn datgan:

'Mae ymchwil yn cael ei ddiffinio fel yr ymdrech i gael gwybodaeth newydd mae modd ei chyffredinol neu ei throsglwyddo i ateb neu firieinio cwestiynau perthnasol â dulliau gwyddonol cadarn.'¹⁵⁶

26.2 Gall ymchwil:

- ddarparu gwybodaeth sy'n gallu cael ei chymhwyso'n gyffredinol i salwch, anhwylder neu gyflwr
- dangos pa mor effeithiol a diogel mae triniaeth newydd
- ychwanegu at dystiolaeth bod un ffurf o driniaeth yn gweithio'n well nag un arall

¹⁵⁶ <https://www.hra.nhs.uk/planning-and-improving-research/policies-standards-legislation/uk-policy-framework-health-social-care-research/>

- ychwanegu at dystiolaeth bod un ffurf o driniaeth yn ddiogelach nag un arall, neu
- archwilio materion ehangach (er enghraifft, y ffactorau sy'n effeithio ar allu rhywun i wneud penderfyniad)

- 26.3 Mae'n rhaid i ymchwilwyr ddatgan yn glir os bydd gweithgaredd yn rhan o ofal rhywun ac nid yn rhan o'r ymchwil. Weithiau gall meddyginiaeth neu driniaeth arbrofol gael ei pherfformio er budd yr unigolyn a bod yn opsiwn gorau ar gyfer eu gofal. Ond yn yr achosion hyn, gall fod yn anodd penderfynu a yw triniaeth yn ymchwil neu ofal. Pan fo amheuaeth, dylai'r ymchwilydd ofyn am gyngor cyfreithiol.
- 26.4 Mae'r Awdurdod Ymchwil Iechyd yn darparu canllawiau ar y polisïau, safonau a deddfwriaeth sy'n gymwys i ymchwil¹⁵⁷. Mae ei offeryn penderfynu yn gallu helpu i bennu yr hyn sy'n cyfrif fel ymchwil¹⁵⁸.

Pam bod y Ddeddf yn cynnwys ymchwil?

- 26.5 Oherwydd bwriedir i'r Ddeddf gynorthwyo pobl a all fod â phrinder gallu, mae'n diogelu pobl sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil ond sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniadau am eu cyfranogiad. Mae'n sicrhau bod ymchwilwyr yn parchu eu dymuniadau a'u teimladau. Nid yw'r Ddeddf yn gymwys i ymchwil sy'n cynnwys treialon clinigol o feddyginiaethau gan fod y rhain yn cael eu cynnwys gan reolau eraill.
- 26.6 Mae ymchwilwyr yn gyfrifol am sicrhau bod cymryd rhan mewn ymchwil yn digwydd ar sail cydsyniad gwybodus. Mae'n rhaid i bob ymchwil sy'n cynnwys pobl sydd â nam o, neu amhariad ar weithrediad, eu meddwl neu ymennydd gael ei gynnal yn unol ag egwyddorion y Ddeddf (gweler penodau 1, 2 a 3).

¹⁵⁷ <https://www.hra.nhs.uk/planning-and-improving-research/policies-standards-legislation/>

¹⁵⁸ www.hra-decisiontools.org.uk/research

Sut gall ymchwil sy'n cynnwys pobl sydd â phrinder gallu yn helpu?

Mae ymchwilydd yn ymgymryd ag ymchwil arsylwadol i ba mor effeithiol mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yn cynnwys pobl mewn cynllunio'u gofal a'u cymorth. Mae'n cynllunio i arsylwi ar gyfarfodydd gweithwyr cymdeithasol awdurdod lleol gyda chleientiaid a gofalwyr neu weithwyr cymorth i drafod eu cynlluniau cymorth.

Mae eisiau sicrhau bod ei sampl yn gynrychioladol o'r ystod eang o bobl mae gwasanaethau cymdeithasol yn eu cynorthwyo, gan gynnwys pobl â namau gwybyddol mwy difrifol sy'n effeithio ar ddealltwriaeth a chyfathrebu. Mae hyn yn golygu y gall rhai cyfranogwyr posibl fod â phrinder galluedd meddyliol i gydsynio i gymryd rhan yn yr ymchwil. Byddai'r ymchwil yn llai effeithiol pe na byddai'n cynnwys y grŵp hwn, oherwydd y gallant gyflwyno heriau clir ar gyfer cymryd rhan mewn cynllunio cymorth.

Mae'r ymchwilydd yn hyderus y bydd yr ymchwil hwn yn y pen draw o fudd i bobl â namau tebyg oherwydd y bydd yn darparu argymhellion ar ffyrdd i gynnwys y boblogaeth hon yn fwy effeithiol. Mae'n credu bod y risgiau o gymryd rhan yn ddibwys ond mae wedi cymryd camau i adnabod unrhyw rai a allai ddigwydd a lleihau'r rhain.

Mae'r ymchwilydd yn ceisio cydsyniad i arsylwi'r cyfarfodydd cynllunio cymorth gan y gweithwyr cymdeithasol y bydd yn arsylwi eu gwaith, yn ogystal ag unrhyw ofalwyr neu gynorthwywyr eraill a all fynychu. Pan fo'n teimlo y gall fod gan gyfranogwr anawsterau deall fersiynau hygyrch y taflenni gwybodaeth a ffurflenni cydsynio a baratodd, mae'n derbyn cyngor gan y gweithiwr cymdeithasol ac unrhyw ofalwyr ynghylch y ffordd orau i gyfathrebu â'r unigolyn i gynorthwyo'u dealltwriaeth. Os, ar ôl siarad a'r unigolyn amdano, y bydd yn ystyried nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i gydsynio i gymryd rhan, ond nad oes dim byd yn dangos na fyddent yn dymuno cymryd rhan neu nad ydynt yn dymuno iddo fod yn bresennol, yna mae'n mynd at unrhyw ofalwyr yr unigolyn fel 'ymgynghorai personol' am eu barn ar ddymuniadau a theimladau'r unigolyn am gymryd rhan mewn ymchwil. Os na fydd gan yr unigolyn ofalwr a fyddai'n briodol i ymgynghori ag ef, bydd yn siarad â'r gweithiwr cymdeithasol fel 'ymgynghorai enwebedig'. Os ar unrhyw adeg yn ystod yr arsylwi bydd yr ymchwilydd yn synhwyro bod ei bresenoldeb yn gwneud i'r cyfranogwr deimlo'n ofidus neu'n bryderus, neu nad ydynt yn dymuno ei fod yno, yna mae'n gadael yr ystafell ac yn dileu'u ddata o'r astudiaeth.

Pa ragdybiaethau gall ymchwilydd eu gwneud am allu?

- 26.7 Dylai ymchwilyddwr ragdybio bod gan unigolyn allu, oni bai bod rheswm i gredu eu bod â phrinder gallu i wneud penderfyniad penodol (gweler pennod 3). Wrth ofyn am gydsyniad gwybodus, mae'n rhaid cymryd pob cam rhesymol hefyd i gynorthwyo'r unigolyn i wneud eu penderfyniad eu hun a'u galluogi i roi cydsyniad gwybodus. Mae pennod 3 yn esbonio camau y dylid eu cymryd a all helpu rhywun i wneud penderfyniad drostynt ei hunain. Mae gan yr unigolyn yr hawl i wneud penderfyniadau na fyddai eraill yn cytuno â nhw o bosibl, ac mae ganddynt yr hawl i beidio â chymryd rhan mewn ymchwil.
- 26.8 Wedi cymryd pob cam rhesymol i gynorthwyo'r cyfranogwr i wneud penderfyniad, gall fod gan ymchwilyddwr reswm i gredu y gall cyfranogwr fod â phrinder gallu i gymryd rhan mewn ymchwil. Os felly, maent yn gyfrifol am benderfynu a yw'r unigolyn yn gallu rhoi cydsyniad gwybodus neu beidio. Gall hyn olygu eu bod nhw eu hunain yn ymgymryd ag asesiad ar alluedd neu gall fod yn briodol ceisio barn aseswr arbenigol neu drydydd parti sy'n adnabod yr unigolyn yn dda.
- 26.9 Os bydd yr ymchwilyddwr yn dymuno cynnwys unigolyn maent wedi sefydlu sydd â phrinder gallu i gydsynio i gymryd rhan yn yr ymchwil, mae'n rhaid iddynt ddilyn y gweithdrefnau a osodir yn adrannau 30-34 y Ddeddf, gan gynnwys gofyn am awdurdodiad gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil statudol awdurdodedig (REC – gweler 11.22).
- 26.10 Os na fydd yr ymchwilyddwr yn dymuno cynnwys poblydd â phrinder gallu yn eu hymchwil, yna ni fydd angen iddynt ddilyn prosesau'r Ddeddf a cheisio awdurdodiad gan REC statudol. Fodd bynnag, dylent archwilio'n ofalus gyda'u prifysgol neu bwyllgor moeseg adrannol unrhyw faterion sensitif a all godi ynghylch asesu gallu neu eithrio rhai pobl rhag cymryd rhan mewn ymchwil.

Pa ymchwil mae adran 30-33 o'r Ddeddf yn ei gynnwys?

- 26.11 Oherwydd y bwriedir i'r Ddeddf gynorthwyo a chefnogi pobl a all fod â phrinder gallu, mae'n gwneud darpariaeth arbennig yn adran 30-33 i ddiogelu pobl sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil ond sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniadau am eu cyfranogiad. Mae'r darpariaethau hyn yn galluogi cymryd rhan mewn ymchwil i'r rhai hynny sydd â phrinder gallu i gydsynio, ar yr amod bod gofynion penodol yn y Ddeddf yn cael eu bodloni.
- 26.12 Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r ymchwilyddwr sy'n gofyn i'w hymchwil gael ei gymeradwyo o dan y darpariaethau hyn yn ymchwilyddwr iechyd neu ofal cymdeithasol. Fodd bynnag, maent yn gallu cynnwys mwy nag ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn unig.
- 26.13 Mae'r darpariaethau arbennig yn y Ddeddf yn gymwys i ymchwil sy'n:

- 'ymwthiol' (pe byddai gan unigolyn sy'n cymryd rhan allu, byddai angen i'r ymchwilydd gael eu cydsyniad i'w cynnwys)
- Cynnwys pobl nad ydynt yn gallu penderfynu cytuno i gymryd rhan yn yr ymchwil neu beidio (h.y. maent yn brin o allu i gydsynio) o ganlyniad i nam ar, neu amhariad ar weithrediad, eu meddwl neu'u hymennydd ac
- nad yw'n dreial clinigol wedi'i gynnwys o dan y Rheoliadau Meddyginiaethau ar gyfer Defnydd Dynol (Treialon Clinigol) 2004.

26.14 Nid yw pob ymchwil yn ymchwil ymwthiol. Mae 'ymwthiol' yn golygu ymchwil a fyddai'n anghyfreithlon pe byddai'n cynnwys unigolyn oedd â gallu ond nad oedd wedi cydsynio i gymryd rhan. Nid yw ymchwil ymwthiol nad yw'n ateb gofynion y Ddeddf yn gallu cael ei gyflawni'n gyfreithlon mewn perthynas â phobl sydd â phrinder gallu.

26.15 Mae amgylchiadau lle nad oes angen cydsyniad i gynnwys unigolyn yn gyfreithlon mewn ymchwil. Mae'r rhain yn gymwys i bob unigolyn, p'un ai a oes gallu ganddynt neu beidio:

- Weithiau mae ymchwil yn cynnwys data'n unig sydd wedi'i anonymeiddio eisoes (nid yw'n gallu cael ei olrhain yn ôl i unigolion). Nid yw deddfau cyfrinachedd a diogelu data yn gymwys yn yr achos hwn.
- O dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004, nid yw ymchwil sy'n ymdrin yn unig â meinweoedd dynol sydd wedi'i anonymeiddio yn gofyn am gydsyniad (gweler paragraffau 11.37-11.40). Mae hyn yn gymwys i'r rhai hynny sydd â gallu'n ogystal â'r rhai hynny sydd heb allu. Ond mae'n rhaid i'r ymchwil gael cymeradwyaeth foesegol, ac mae'n rhaid i'r meinweoedd ddod o unigolyn byw¹⁵⁹.
- Os casglodd ymchwilwyr samplau meinweoedd dynol cyn 31 Awst 2006, nid oes angen cydsyniad unigolyn arnynt i weithio arnynt. Ond bydd yn rhaid iddynt gael cymeradwyaeth foesegol fel arfer.
- Mae rheoliadau¹⁶⁰ a wneir o dan adran 251 Deddf GIG 2006 (a adnabuwyd yn flaenorol fel adran 60 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001¹⁶¹) yn caniatâu i bobl ddefnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion heb dorri'r gyfraith ar gyfrinachedd trwy wneud cais i'r Grŵp Cynghori ar Gyfrinachedd am gymeradwyaeth gan yr Awdurdod Ymchwil Iechyd¹⁶².

¹⁵⁹ Deddf Meinweoedd Dynol 2004 adran 1(9) -

https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/30/pdfs/ukpga_20040030_en.pdf

¹⁶⁰ Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd (Rheoli Gwybodaeth am Gleifion) 2002 Adran I. 2002/1438. fel y'u diwygiwyd gan Adran 117 Deddf Gofal 2014 - <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2002/1438/contents/made>

¹⁶¹ Cafodd Adran 60 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 ei chynnwys yn Neddf GIG 2006 a gadarnaodd bod yr holl ddeddfwriaeth iechyd flaenorol yn parhau mewn grym - Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (legislation.gov.uk) - <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/41/contents>

¹⁶² Cafodd y CAG ei sefydlu gan yr Awdurdod Ymchwil Iechyd ar 01 Ebrill 2013 i asesu ceisiadau yn erbyn Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd (Rheoli Gwybodaeth am Gleifion) 2002. Mae'n darparu cyngor arbenigol

26.16 Nid yw'r penderfyniad ynghylch a ddylai unigolyn sydd â phrinder gallu gymryd rhan neu beidio mewn penderfyniad budd gorau o ran adran 4 y Ddeddf oherwydd nid yw cymryd rhan mewn ymchwil fel arfer yn arwain at fudd uniongyrchol i'r cyfranogwr. Yn ogystal, ni all neb roi cydsyniad i gymryd rhan ar ran unigolyn sydd â phrinder gallu. Yn hytrach, mae darpariaethau'r ymchwil yn y Ddeddf yn sicrhau bod ymchwilyr yn dilyn dymuniadau a theimladau'r unigolyn wrth benderfynu a ddylent gymryd rhan neu beidio. Nid yw'r darpariaethau hyn yn gymwys i ymchwil sy'n cynnwys treialon clinigol o feddyginiaethau – oherwydd bod y rhain yn cael eu cynnwys gan reolau eraill¹⁶³.

26.17 Mae'n rhaid i ymchwilyr hefyd ystyried y sail gyfreithlon ar wahân ar gyfer prosesu'r data sy'n deillio o'u ymchwil mewn cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR. Gan fod cynnwys rhywun mewn ymchwil yn debygol o fod â'r bwriad o brosesu'u data personol, dylai'r ystyriaethau hyn gael eu gwerthuso ar ddechrau prosiect. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn darparu canllawiau pellach ar GDPR¹⁶⁴.

Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod ymchwil sy'n cynnwys unigolyn sydd â phrinder gallu yn bodloni gofynion y Ddeddf?

26.18 Mae cyfrifoldeb dros fodloni gofynion y Ddeddf yn gyda'r:

- ymchwilyr a'u sefydliadau sy'n cynnal yr ymchwil (gweler paragraffau 11.20–11.40) a'r
- 'corff priodol', fel y'i diffinnir mewn rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol (ar gyfer rheoliadau sy'n gymwys yn Lloegr) neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru (ar gyfer rheoliadau sy'n gymwys yng Nghymru) (gweler paragraff 11.10).

annibynnol i'r Awdurdod Ymchwil Iechyd a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar a ddylai cais i brosesu gwybodaeth am gleifion heb gydsyniad ei gymeradwyo neu beidio - <https://www.hra.nhs.uk/about-us/committees-and-services/confidentiality-advisory-group/legal-frameworks/>

¹⁶³Rheoliadau Meddyginiaethau ar gyfer Defnydd Dynol (Treialon Clinigol) 2004, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Diogelwch ac Ansawdd Gwaed (Diwygiad) 2008 - <https://www.legislation.gov.uk/uksi/2008/941/contents/made>

Sut gall ymchwil sy'n cynnwys unigolyn sydd â phrinder gallu gael cymeradwyaeth foesegol?

26.19 Nid yw ymchwil sy'n cael ei gynnwys gan y Ddeddf yn gallu cynnwys pobl sydd â phrinder gallu i gydsynio i'r ymchwil oni bai:

- fod ganddo gymeradwyaeth 'y corff priodol', a'i
- fod yn dilyn gofynion eraill yn y Ddeddf i:
 - barchu dymuniadau a theimladau'r unigolyn, ac unrhyw wrthwynebiadau y gallent eu gwneud (neu byddent yn eu gwneud os yn gallu) ynglŷn â chymryd rhan yn yr ymchwil
 - ystyried barn gofalwyr a phobl berthnasol eraill, a
 - thrin buddiannau'r unigolyn fel rhai pwysicach na rhai gwyddoniaeth a chymdeithas (nid yw hyn yr un peth â'r egwyddor 'budd gorau' yng ngweddill y Ddeddf)

26.20 Sefydliad yw'r 'corff priodol' sy'n gallu cymeradwyo prosiectau ymchwil. Yn Lloegr mae'n rhaid i'r 'corff priodol' fod yn Bwyllgor Moeseg Ymchwil (REC) wedi'i gydnabod gan yr Ysgrifennydd Gwladol¹⁶⁵. Yng Nghymru, mae'n rhaid i'r 'corff priodol' fod yn Bwyllgor Moeseg Ymchwil wedi'i gydnabod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru¹⁶⁶.

26.21 Mae pob REC y GIG yn Lloegr a Chymru yn gydnabyddedig. Yn ogystal, mae REC Gofal Cymdeithasol cenedlaethol sy'n cael ei gydnabod fel corff priodol. Mae pob un o'r RECau hyn yn gweithredu o dan nawdd yr Awdurdod Ymchwil Iechyd (HRA)¹⁶⁷. Mae ymchwilwyr yn cyflwyno ceisiadau ar gyfer adolygiad HRA REC trwy'r System Cymhwyso Ymchwil Integredig¹⁶⁸. Mae'n rhaid iddynt ddangos ar y ffurflen gais eu bod yn bwriadu ymgymryd ag ymchwil ymwthiol sy'n cynnwys oedolion sydd â phrinder gallu i gydsynio ar ran eu hunain. Pan fydd yr opsiwn hwn yn cael ei ddewis, mae ceisiadau'n cael eu cyfeirio'n awtomatig i'w hadolygu gan REC y tynnwyd sylw ato. Gall y broses hon gymryd yn hwy na phrifysgol neu RECau eraill, a dylid ffactora hyn i mewn i gynllunio ymchwil a gwneud ceisiadau am gyllid.

¹⁶⁵ Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Corff Priodol) (Lloegr) Rheoliadau 2006 - <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2006/2810/made>

¹⁶⁶ Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Corff Priodol) (Cymru) 2007 - <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2007/833/introduction/made>

¹⁶⁷ Awdurdod Ymchwil Iechyd (hra.nhs.uk) - <https://www.hra.nhs.uk/>

¹⁶⁸ <https://www.myresearchproject.org.uk/Signin.aspx>

Ffactorau sy'n cael eu hystyried gan HRA RECau y tynnwyd sylw atynt

26.22 Mae'r corff cyfrifol yn gallu cymeradwyo prosiect ymchwil os bydd yr ymchwil yn gysylltiedig â:

- chyflwr niwieidiol sy'n effeithio ar yr unigolyn sydd â phrinder gallu, neu
- y driniaeth o'r cyflwr hwnnw (gweler paragraff 11.17)

a:

- bod seiliau rhesymol i gredu y byddai'r ymchwil yn llai effeithiol os mai pobl â gallu'n unig sy'n cymryd rhan, a
- bod y prosiect ymchwil wedi gwneud trefniadau i gynnwys ymgynghoreion i roi cyngor ar ddymuniadau a theimladau a rhan yr unigolyn yn yr ymchwil, ac i ddilyn gofynion eraill y Ddeddf.

26.23 Os na fydd y meini prawf hyn yn cael eu bodloni, ni ddylai'r unigolyn gael ei gynnwys yn yr ymchwil. Mae'n rhaid i ymchwilyr gyfiawnhau cynnwys oedolion nad ydynt yn gallu cydsynio drostynt eu hunain. Ni ddylent geisio cynnwys pobl sydd â phrinder gallu yn eu hymchwil i greu sampl cynrychioladol yn unig, nac am resymau moesegol perthynol i gydraddoldeb a chynhwysiad cymdeithasol.

26.24 Mae'n rhaid i ymchwil hefyd fodloni un o ddau ofyniad:

- Mae'n rhaid fod gan yr ymchwil rywfaint o gyfle i roi budd i'r unigolyn sydd â phrinder gallu, fel yr amlinellir ym mharagraff 11.14 isod. Mae'n rhaid i'r budd fod yn gymesur ag unrhyw faich a achosir gan gymryd rhan; neu
- Mae'n rhaid i nod yr ymchwil fod i ddarparu gwybodaeth am yr achos, neu driniaeth neu ofal pobl â'r un cyflwr niwieidiol, neu gyflwr tebyg.

26.25 Os bydd ymchwilyr yn dibynnu ar yr ail ofyniad, mae'r Ddeddf yn amlinellu gofynion ychwanegol mae'n rhaid eu bodloni:

- mae'n rhaid i'r risg i'r unigolyn sydd â phrinder gallu fod yn ddibwys
- mae'n rhaid fod dim ymyrraeth arwyddocaol â rhyddid gweithredu neu breifatrwydd yr unigolyn sydd â phrinder gallu, ac
- mae'n rhaid peidio â gwneud dim i neu mewn perthynas â'r unigolyn sydd â phrinder gallu sy'n amhriodol o ymwithiol neu gyfyngol (gweler paragraffau 11.16–11.19 isod).

26.26 Mae cyflwr sy'n amharu:

- yn cael ei achosi gan (neu gall gael ei achosi gan) nam ar, neu amhariad ar weithrediad, meddwl neu ymennydd yr unigolyn

- yn achosi (neu'n gallu achosi) nam ar, neu amhariad ar y meddwl neu'r ymennydd, neu
- yn cyfrannu at (neu'n gallu cyfrannu at) nam ar, neu amhariad ar y meddwl neu'r ymennydd.

26.27 Mae'r gofynion uchod yn adlewyrchu'r ffeirio'r baich buddiannau mae gofyn i ymchwilwyr eu hystyried wrth gyfiawnhau cyfranogaeth pobl sydd â phrinder gallu mewn ymchwil. Nid yw'r ystyriaeth hon yr un peth â phenderfyniad budd gorau o ran adran 4 y Ddeddf ac felly nid yw'r egywddor statudol o benderfyniadau budd gorau'n gymwys yn y cyd-destun hwn. Yn hytrach, mae'n rhaid i'r ymchwil fodloni'r gofynion fel a nodir uchod a dylai ymchwilwyr ddilyn dymuniadau a theimladau'r unigolyn wrth benderfynu a ddylent gymryd rhan neu beidio.

Ymchwil sy'n cynnwys pobl sydd â gallu'n unig

Mae elusen yn comisiynu ymchwilydd i ganfod yr hyn mae pobl ag anableddau dysgu yn meddwl am y gwasanaethau a dderbyniant, a sut y gall yr elusen ehangu darpariaeth eu gwasanaeth. Mae'r ymchwilydd yn penderfynu mai'r ffordd orau i sicrhau bod lleisiau pobl anabl yn cael eu hystyried yn yr ymchwil hwn yw eu cyfweld am eu barn a'u profiadau.

Mae'r ymchwilydd yn meddwl y gall ei hymchwil gael ei gyflawni'n effeithiol os bydd hi'n cynnwys pobl sydd â gallu'n unig i benderfynu cymryd rhan yn ei hymchwil. I wneud ei hymchwil mor hygyrch â phosibl, mae'n creu taflenni gwybodaeth i gyfranogwyr a ffurflenni cydsynio sy'n hawdd i'w darllen. Mae'n defnyddio dulliau cydsynio i broses, lle mae'n siarad trwy'r wybodaeth gyda chyfranogwyr posibl i'w helpu i ddeall yr hyn fydd yn digwydd yn ystod ac ar ôl yr ymchwil. Mae'n cynllunio'r ymchwil er mwyn i gyfranogwyr gael cynorthwy-ydd neu gynorthwy-ydd personol yn bresennol i'w helpu os byddant yn dymuno.

Mae'r ymchwilydd yn ennill cymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil ei Phrifysgol. Wrth gynnal yr ymchwil, mae'n rhagdybio bod gan wirfoddolwyr allu i gymryd rhan yn ei hymchwil, ond mae hi'n gwirio'n ofalus eu bod yn gallu cadw, defnyddio a phwyso a mesur y wybodaeth yn ei ffurflen gwybodaeth cyfranogwyr ynglŷn â chymryd rhan neu beidio, a chydsynio i brosesu data o'r ymchwil at wahanol ddibenion.

Cydbwysu budd a baich ymchwil

26.28 Mae'n bwysig bod ymchwil sy'n cynnwys pobl sssydd â phrinder gallu yn cael ei gynnal. Hebdo, ni fyddem yn gwella'n gwybodaeth o'r achosion, triniaeth a gofal o bobl â chyflyrau amharol na'n dealltwriaeth o'u persbectifau a phrofiadau. Byddem

yn gwybod ychydig am brofiadau a barn y rhai hynny sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y Ddeddf.

26.29 Mae'n bwysig felly, lle bo'r unigolyn yn dymuno gwneud hynny, fod eu cyfranogaeth mewn ymchwil yn cael ei hwyluso a'u cyfraniadau yn cael eu gwerthfawrogi. Gall rhai pobl fod â phrinder gallu i gydsynio ond gallant barhau i ddymuno siarad ag ymchwilwyr am eu profiadau a dylai ymchwilwyr wneud eu gorau i hwyluso hyn.

Buddiannau uniongyrchol o gymryd rhan mewn ymchwil i unigolyn sydd â phrinder gallu i gydsynio.

26.30 Gallai buddiannau posibl ymchwil i unigolyn sydd â phrinder gallu gynnwys:

- datblygu ffyrdd mwy effeithiol o drin unigolyn neu reoli eu cyflwr
- gwella ansawdd gofal iechyd, gofal cymdeithasol neu wasanaethau eraill mae ganddynt fynediad iddynt
- canfod achos eu cyflwr, pe byddent yn elwa ar y wybodaeth honno
- lleihau'r risg o'r unigolyn yn cael ei niwieidio, ei eithrio neu ei roi o dan anfantais
- Rhoi'r cyfle iddynt fynegi eu barn a phrofiadau am y materion sy'n effeithio ar eu bywyd.

26.31 Gall buddiannau fod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (er enghraifft, gallai'r unigolyn gael budd yn ddiweddarach os bydd polisïau neu becynnau gofal sy'n cael effaith arnynt yn cael eu newid oherwydd yr ymchwil). Gallai fod cymryd rhan yn yr ymchwil ei hun o fudd i'r unigolyn mewn amgylchiadau penodol. Er enghraifft, os bydd yr ymchwil yn cynnwys cyfweiliadau a bod gan yr unigolyn y cyfle i fynegi eu barn, gellid ystyried hyn o fudd gwirioneddol i unigolyn penodol.

Darparu gwybodaeth am achosion, triniaeth neu ofal pobl â'r un cyflwr niwieidiol neu gyflwr tebyg

26.32 Mae'n bosibl cynnal ymchwil nad yw o fudd gwirioneddol i'r unigolyn sy'n cymryd rhan, ar yr amod ei fod yn anelu at ddarparu gwybodaeth am achosion, triniaeth neu ofal pobl â'r un cyflwr niwieidiol, neu gyflwr tebyg. Nid yw 'gofal' a 'thriniaeth' yn gyfyngedig i ofal a thriniaeth feddygol. Er enghraifft, gallai ymchwil archwilio sut mae bywyd dydd i ddydd mewn carchar yn effeithio ar garcharorion â chyflyrau iechyd meddwl.

26.33 Mewn ymchwil wedi'i anelu at ddeall achosion, triniaeth a gofal cyflwr, mae'n rhaid i gyflwr gwirioneddol yr unigolyn fod yr un peth neu'n debyg mewn ymchwil, ac nid yr achos isorweddol o reidrwydd. Er y gall cyflwr tebyg gael achos gwahanol i'r hyn sy'n cael ei ddioddef gan y cyfranogwr, gall ymchwil ynglŷn â phobl â chyflwr tebyg barhau i gynhyrchu tystiolaeth werthfawr am gyflwr y cyfranogwr. Er enghraifft, gallai ymchwil i ffyrdd o gynorthwyo pobl ag anabledau dysgu i fyw'n fwy annibynnol gynnwys unigolyn sydd wedi cael anaf i'w ymennydd. Ond gallai ei ganfyddiadau helpu pobl ag anabledau dysgu tebyg sydd ag achosion gwahanol.

Cynnwys pobl sydd â phrinder gallu mewn ymchwil

Mae elusen yn ymgymryd ag ymchwil a hoffai farn pobl sydd â phrinder gallu, yn ogystal â phobl â gallu, i gael ei gynnwys yn yr ymchwil, er mwyn iddynt allu sicrhau eu bod yn deall persbectifau'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r ymchwilydd yn cynllunio set ychwanegol o daflenni gwybodaeth a ffurflenni cydsynio i'w defnyddio gan ymgynghoreion. Mae'n gwneud cais i'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil Gofal Cymdeithasol am gymeradwyaeth foesegol i gynnal ymchwil sy'n cynnwys pobl sydd â phrinder gallu i gydsynio. Mae'n egluro yn ei chais am gymeradwyaeth bod ei hymchwil yn gysylltiedig ag anabledd dysgu ac y byddai'r ymchwil yn llai effeithiol pe byddai cyfranogwyr â gallu i gydsynio i gymryd rhan yn unig yn cymryd rhan. Yn yr achos hwn, byddai'r ymchwil yn llai effeithiol oherwydd y byddai'n hepgor profiadau grŵp o ddefnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r ymchwil hefyd yn bodloni gofynion yr MCA fod gan yr ymchwil y potensial i fod o fudd i gyfranogwyr yn uniongyrchol, ac i fod o fudd i eraill â namau tebyg. Pe byddai'r ymchwil o fudd i eraill yn unig, byddai angen i'r ymchwilydd hefyd ddangos bod ei hymchwil yn bodloni amodau preifatrwydd ychwanegol, a bod unrhyw risgiau i gyfranogwyr yn ddibwys.

Er bod yr ymchwilydd yn gofyn i ymgynghoreion am eu cydsyniad ar gyfer pobl ag anableddau dysgu i gymryd rhan, mae hefyd yn gofyn am ganiatâd gan y cyfranogwyr eu hunain, gan ddefnyddio ei deunyddiau ymchwil hawdd i'w darllen.

- 26.34 Mae'n rhaid i unrhyw risg i bobl sy'n cymryd rhan yn y categori hwn o ymchwil fod yn 'ddibwys'. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i unigolyn fod yn annhebygol iawn o ddiodeff unrhyw niwed neu ofid trwy gymryd rhan. Mae'n rhaid i ymchwilwyr ystyried risgiau i les seicolegol yn ogystal â lles corfforol.
- 26.35 Mae'n rhaid i ymchwil yn y categori hwn hefyd beidio ag effeithio ar ryddid gweithredu neu breifatrwydd unigolyn mewn ffordd arwyddocaol, ac ni ddylai fod yn amhriodol o ymwthiol a chyfyngol. Bydd yr hyn a fydd yn cael ei ystyried yn amhriodol o ymwthiol yn wahanol i wahanol bobl a mathau gwahanol o ymchwil. Er enghraifft, mewn ymchwil seicolegol gall rhai pobl feddwl bod cwestiwn penodol yn ymwthiol, ond ni fyddai eraill. Ni fydd gweithredoedd fel arfer yn cael eu dosbarthu fel bod yn amhriodol o ymwthiol os na fyddant yn mynd y tu hwnt i brofiad bywyd bob dydd, archwiliad meddygol arferol neu archwiliad seicolegol.

Ymchwil ansoddol sy'n cynnwys pobl sydd â phrinder gallu

Mae athro'n bwriadu archwilio gwerth therapi cerdd grŵp i oedolion ag anableddau deallusol dwys. Mae'n bwriadu cynnal cyfweiliadau byr â therapyddion cerdd yn dilyn y sesiynau therapi er mwyn ennill dirnadaeth o'u profiadau o gymryd rhan yn y gweithgaredd.

Fel rhan o'i phrotocol, mae'r athro'n bwriadu gofyn i'r therapyddion am eu barn ar a fu gan y sesiwn therapi cerdd effaith gadarnhaol ar ansawdd bywyd eu cleientiaid.

Mae'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil yn pryderu y bydd y therapyddion yn siarad dros eu cleientiaid, ac na fydd rhoi ymatebion dirprwyol am brofiadau personol yn cyflwyno data ystyrlon. Mae'r athro'n adolygu ei phrotocol ac yn penderfynu recriwio pobl ag anableddau sy'n cymryd rhan yn y therapi cerdd i'w phrosiect. Mae'n cydnabod bod y bobl hyn yn debygol o fod â phrinder gallu i gydsynio i gymryd rhan yn ei hymchwil. Felly mae'r athro'n meddwl am sut mae hi'n gallu casglu data dilys gan bobl ag anableddau am eu profiadau o gymryd rhan mewn therapi cerdd pan na fydd y bobl hyn o bosibl yn deall eu bod wedi derbyn therapi.

Mae'r athro'n penderfynu y bydd defnyddio cyfarpar casglu data cynhwysol, gan gynnwys cwestynau cyfweiliad agored, a chasglu ymatebion dieiriau gan ddefnyddio 'Matiau Siarad' ac adeiladu gludwaith sy'n ymgorffori delweddau a symbolau, yn ei galluogi i ddal profiadau'r bobl ag anableddau'n gywir. Mae'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil yn fodlon y bydd y dull hwn yn galluogi i ddata gael eu casglu fydd yn darparu gwybodaeth am ofal pobl ag anableddau deallusol dwys, tra'n rhoi'r cyfranogwyr hyn yn agored i risg ddibwys.

Pa gyfrifoldebau sydd gan ymchwilwyr wrth gynnwys unigolyn sydd â phrinder gallu?

26.36 Cyn cychwyn yr ymchwil, mae'n rhaid i'r tîm ymchwil wneud trefniadau i:

- gael cymeradwyaeth i'r ymchwil gan y 'corff priodol'
- cael barn unrhyw ofalwyr a phobl berthnasol eraill cyn cynnwys unigolyn sydd â phrinder gallu mewn ymchwil (gweler paragraffau 11.22–11.28). Mae eithriad i'r gofyniad ymgynghori hwn mewn sefyllfaoedd lle mae angen triniaeth frys i gael ei rhoi neu ei bod ar fin cael ei rhoi
- parchu gwrthwynebiadau, dymuniadau a theimladau'r unigolyn, a

- rhoi mwy o bwysigrwydd ar fuddiannau'r unigolyn nag ar rai gwyddoniaeth a chymdeithas.

26.37 Mae'n rhaid i gynnig yr ymchwil roi digon o wybodaeth am yr hyn y bydd y tîm yn ei wneud os bydd angen triniaeth frys ar unigolyn sydd â phrinder gallu yn ystod ymchwil ac nad yw'n bosibl siarad â gofalwr yr unigolyn neu rywun arall sy'n gweithredu neu'n gwneud penderfyniadau ar ran yr unigolyn (gweler paragraffau 11.32–11.36).

Asesu gallu

26.38 Dylai ymchwilwyr ragdybio bod gan unigolyn allu, oni bai bod rheswm i gredu eu bod yn brin o allu i wneud penderfyniad penodol (gweler pennod 3). Wrth ofyn am gydsyniad gwybodus, mae'n rhaid cymryd pob cam rhesymol hefyd i gynorthwyo'r unigolyn i wneud eu benderfyniad eu hun a'u galluogi i roi cydsyniad gwybodus. Mae Pennod 3 yn esbonio camau y dylid eu cymryd a all helpu rhywun i wneud penderfyniad drostynt eu hunain. Mae gan yr unigolyn yr hawl i wneud penderfyniadau na fyddai eraill yn cytuno â nhw o bosibl, ac mae ganddynt yr hawl i beidio â chymryd rhan mewn ymchwil.

26.39 Wedi cymryd pob cam rhesymol i gynorthwyo'r cyfranogwr i wneud penderfyniad, gall fod gan ymchwilwyr reswm i gredu y gall cyfranogwr fod â phrinder gallu i gymryd rhan mewn ymchwil. Os felly, maent yn gyfrifol am benderfynu a yw'r unigolyn yn gallu rhoi cydsyniad gwybodus neu beidio. Gall hyn olygu eu bod nhw eu hunain yn ymgymryd ag asesiad ar alluedd neu gall fod yn briodol ceisio barn aseswr arbenigol neu drydydd parti sy'n adnabod yr unigolyn yn dda.

26.40 Os bydd yr ymchwilwyr yn dymuno cynnwys unigolyn maent wedi sefydlu sydd â phrinder gallu i gydsynio i gymryd rhan yn yr ymchwil, mae'n rhaid iddynt ddilyn y gweithdrefnau a nodir yn adrannau 30-34 y Ddeddf, gan gynnwys ceisio awdurdodiad gan REC statudol awdurdodedig.

26.41 Os na fydd yr ymchwilwyr yn dymuno cynnwys poblydd â phrinder gallu yn eu hymchwil, yna ni fydd angen iddynt ddilyn prosesau'r Ddeddf a cheisio awdurdodiad gan REC statudol. Fodd bynnag, dylent archwilio'n ofalus gyda'u prifysgol neu bwyllgor moeseg adrannol unrhyw faterion sensitif a all godi ynghylch asesu gallu neu eithrio rhai pobl rhag cymryd rhan mewn ymchwil.

Ymgynghori ag eraill am gyngor am ddymuniadau rhagdybiedig yr unigolyn sydd â phrinder gallu

26.42 Cyn gynted ag y sefydlir bod unigolyn â phrinder gallu'n cytuno i gymryd rhan, cyn iddynt gael eu cynnwys mewn ymchwil bydd yn rhaid i'r ymchwilydd ymgynghori â phobl penodol yn unol ag adran 32 y Ddeddf i bennu a ddylai'r unigolyn gael ei gynnwys. Nid yw ymgynghoreion yn rhoi cydsyniad i ymchwilwyr i'r ymchwil fynd rhagddo â'r unigolyn sydd â phrinder gallu'n cymryd rhan. Maent yn cynghori'r

ymchwilydd ynghylch a yw bwriadau'r ymchwil yn unol â'r hyn fyddai'r unigolyn sydd â phrinder gallu wedi'i ddymuno. Cyfrifoldeb yr ymchwilydd yw gwneud y penderfyniad terfynol am a yw'r unigolyn sydd â phrinder gallu yn cael ei gynnwys yn yr ymchwil, ar sail y dyfarniad hwn.

26.43 Yn ogystal ag ymgynghorai, dylai ymchwilyddwyr gynnwys yr unigolyn eu hun yn y broses o wneud penderfyniad. Er bod unigolyn â phrinder gallu i gydsynio, gall fod ganddynt farn sy'n effeithio ar y penderfyniad, a dylai ymchwilyddwyr sicrhau eu bod yn dilyn dymuniadau a theimladau'r unigolyn wrth benderfynu a ddylent gymryd rhan.

Â phwy mae ymchwilyddwyr yn gallu ymgynghori?

26.44 Mae'n rhaid i'r ymchwilyddwyr gymryd camau rhesymol i nodi rhywun i ymgynghori ag ef (yr ymgynghorai). Gellir gofyn i ddau fath o ymgynghorai i roi cyngor am ddymuniadau rhagdybiedig unigolyn sydd â phrinder gallu:

- 'Ymgynghorai personol' (e.e. perthynas neu ofalwr nad yw'n derbyn tâl)
- 'Ymgynghorai enwebedig' (e.e. meddyg teulu neu weithiwr cymdeithasol nad yw'n cymryd rhan yn yr ymchwil)

26.45 Dylai ymchwilyddwyr geisio cynnwys ymgynghorai personol bob tro yn hytrach nag ymgynghorai enwebedig.

Ymgynghorai personol

26.46 Mae'n rhaid i 'ymgynghorai personol' gymryd rhan yng ngofal yr unigolyn, (ond nid yn gofalu amdanynt yn broffesiynol neu ar gyfer tâl), bod â diddordeb yn eu lles ac yn fodlon helpu. Nid oes angen iddynt fod yn atwrnai o dan Atwrneiaeth Arhosol nac yn ddirprwy a benodir gan y Llys Gwarchod. Nid yw unigolyn yn cael ei atal rhagi ymgynghori ag ef os byddant yn atwrnai neu'n ddirprwy, ond mae'n rhaid i'r unigolyn hwnnw beidio â gweithredu mewn swydd broffesiynol neu daledig (er enghraifft, cyfreithiwr yr unigolyn). Nid yw tâl yn cynnwys aelodau'r teulu sy'n derbyn rhywfaint o bensiwn yr unigolyn neu fudd-daliadau eraill fel tâl tuag at eu cyfran o gostau'r aelwyd.

26.47 Mae'n rhaid i'r ymchwilyddwyr ystyried dymuniadau a theimladau blaenorol y gallai'r unigolyn fod wedi'u mynegi ynglŷn â phwy yr hoffent, neu na hoffent, gymryd rhan mewn penderfyniadau yn y dyfodol. Gall y rhai hynny sy'n cymryd rhan mewn gofalu'n broffesiynol am yr unigolyn helpu'r ymchwilydd i ddewis rhywun priodol i ymgynghori ag ef.

26.48 Gall nifer o bobl weithredu fel ymgynghorai personol, ond dylent fod yn rhywun y byddai'r unigolyn sydd â phrinder gallu yn ymddiried ynddynt â phenderfyniadau pwysig am eu lles. Fel arfer bydd yn rhywun â pherthynas bersonol agos â'r gwrthrych posibl, priod neu bartner, plentyn sy'n oedolyn neu riant. Gellir ystyried

perthnasau eraill neu ffrind agos neu ofalwr blaenorol. Os na fydd ymgynghorai posibl yn teimlo'u bod yn gallu ymgymryd â'r rôl, gallant awgrymu bod rhywun arall yn gwneud, neu ofyn bod 'ymgynghorai enwebedig' (gweler paragraff XX) yn cael ei benodi.

Ymgynghorai enwebedig

26.49 Pan na fo neb sy'n ateb yr amodau a grybwyllir ym mharagraffau 11.23 a 11.25, mae'n rhaid i'r ymchwilydd enwebu unigolyn i ymgynghori ag ef. Mae hyn yn cael ei adnabod fel 'ymgynghorai enwebedig'. Mae'n rhaid i'r sawl a enwebir beidio â bod ag unrhyw gysylltiad â'r prosiect ymchwil.

26.50 Dylid ymdrin â threfniadau ar gyfer enwebu ymgynghorai yn glir wrth ofyn am gymeradwyaeth gan y REC. Bydd hyn yn galluogi'r REC i ystyried yr amrywiaeth o amgylchiadau lle na allai ymgynghorai personol hawdd ei adnabod fod ar gael. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- lle nad oes aelod o'r teulu na ffrind yn fodlon nac yn gallu gweithredu fel ymgynghorai
- lle mae'r teulu neu ffrindiaun byw bellter maith i ffwrdd a/neu heb fod mewn cysylltiad aml â'r unigolyn sydd â phrinder gallu
- lle mae gofalwyr arferol yr unigolyn sydd â phrinder gallu'n gwneud hynny am dâl neu mewn swydd broffesiynol (e.e. staff cartref gofal neu nyrsys)
- lle mae rhywun yn gweithredu mewn rôl broffesiynol (e.e. eu meddyg teulu neu gyfreithiwr)

Pa staff gofal neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gallu gweithredu fel ymgynghoreion enwebedig

26.51 11.47. Er bod yn rhaid i rywun â pherthynas broffesiynol â'r unigolyn sydd â phrinder gallu beidio â bod yn ymgynghorai personol, nid yw'n eu gi wahardd rhag bod yn ymgynghorai enwebedig. Mae'n bosibl felly y gallai aelod o'r tîm gofal neu feddyg teulu'r unigolyn sydd â phrinder gallu weithredu fel yr ymgynghorai enwebedig, ar yr amod nad oedd ganddynt unrhyw gysylltiad â'r prosiect ymchwil. Mater i'r ymchwilydd fyddai bodloni'r REC bod y trefniadau'n briodol i natur yr astudiaeth. Gallai enghraifft fod yn unigolyn mewn cartref gofal nad oes ganddodeulu agos ond mae'n agos at aelod o staff y cartref gofal. Yn yr achos hwn, gellid gofyni'r aelod o staff y cartref gofal weithredu fel ymgynghorai enwebedig. Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol gofyn i aelod o staff y cartref gofal pe byddai'r ymchwil yn cael ei noddi gan y cartref gofal neu pe byddai gan y cartref a'i staff ddiddordeb sefydliadol yng nghanlyniad yr ymchwil.

26.52 Mewn rhai lleoliadau gofal iechyd, gallai meddyg neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n bennaf gyfrifol am driniaeth feddygol yr unigolyn sydd â phrinder gallu fod yr ymgynghorai enwebedig mwyaf priodol. Mae'n rhaid i'r unigolyn hwn

beidio â chael unrhyw gysylltiad â'r prosiect (gweler isod) a bod yn rhydd rhag dylanwad posibl, fel bod yn bartner iau i'r tîm ymchwil. Dylai ymchwilwyr gyfeirio at y Fframweithiau Llywodraethu Ymchwil ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a chodau proffesiynol perthnasol eraill, gan gynnwys canllawiau gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Mae gan y rhain drefniadau diogelu cyffredinol yn erbyn gwrthdrawiadau diddordeb a ffurfiau eraill o gamymddwyn proffesiynol.

Beth mae 'dim cysylltiad â'r prosiect' yn ei olygu?

26.53 Mae'n rhaid i ymgynghorai a enwebir beidio â bod ag unrhyw gysylltiad â'r prosiect ymchwil. Wrth benderfynu a yw rhywun yn "gysylltiedig â'r prosiect", dylai ymchwilwyr ystyried ystod eang o gysylltiadau posibl â'r astudiaeth benodol. Er enghraifft, ni ddylai'r ymgynghorai fod yn rhywun sy'n cymryd rhan neu sydd â diddordeb ariannol neu broffesiynol yng nghynnydd yr ymchwil. Ni ddylent fod o dan ddylanwad y tîm ymchwil, naill ai'n broffesiynol neu'n bersonol (e.e. aelod iau o staff y gallai ei yrfa gael ei dylanwadu arni gan aelod hŷn o'r tîm ymchwil). Ni ddylent chwaith fod â chysylltiadau ehangach fel cysylltiadau uniongyrchol â chyllido'r astudiaeth neu â'r REC a gymeradwyodd y prosiect. Fodd bynnag, bydd rhai cysylltiadau'n amherthnasol. Mae'n ddiangen, er enghraifft, i eithrio pobl a'u hunig gysylltiad yw gweithio yn yr un ystyby neu awdurdod lleol â'r ymchwilydd, neu fyw yn yr un stryd. Mae'n debygol o fod ym amherthnasol hefyd os bydd gan yr ymgynghorai ddiddordeb proffesiynol anuniongyrchol yng nghanlyniad yr ymchwil neu os byddant wedi'u cyflogi gan awdurdod lleol neu ystyby sydd â diddordeb sefydliadol anuniongyrchol yn yr ymchwil. Dylai ymchwilwyr ystyried natur cysylltiad posibl unigolyn â phrosiect wrth i hyn godi.

26.54 Mae canllawiau gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol neu'r Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol a chyrrff proffesiynol yn rhoi cyngor pellach ar atal gwrthdrawiadau buddiannau a ffurfiau eraill o gamymddwyn proffesiynol.

Beth mae "camau rhesymol" yn ei olygu?

26.55 Mae'n ofynnol i'r ymchwilydd gymryd camau rhesymol i nodi rhywun sy'n gallu gweithredu fel ymgynghorai. Mae hyn yn golygu bod gan yr ymchwilydd radd o hyblygrwydd, yn unol â'r gymeradwyaeth gan y REC, am y graddau y mae'n angenrheidiol i gysylltu â pherthnasau neu ffrindiau pell. Fodd bynnag, ni ddylai'r ymchwilydd gael ei ddylanwadu'n amhriodol gan ystyriaethau amser a chyfleuster wrth benderfynu a yw ymgynghorai personol ar gael neu'n fodlon gweithredu. Mewn rhai amgylchiadau, bydd yn bosibl sefydlu nad oes gan yr unigolyn sydd â phrinder gallu berthnasau agos mewn cysylltiad rheolaidd ac y byddai'n fwy priodol i nodi ymgynghorai enwebedig sydd â chysylltiad rheolaidd â'r unigolyn sydd â phrinder gallu. Gan ddibynnu ar natur yr ymchwil, bydd angen i'r ymchwilydd ystyried y trefniadau ar gyfer nodi ymgynghorai newydd os bydd yr ymgynghorai gwreiddiol yn dod yn anfodlon neu na ellir ymgynghori ag ef yn ystod yr astudiaeth.

Beth sy'n rhaid i ymgynghorai personol wneud?

- 26.56 Mae'n rhaid i ymgynghorai personol gael gallu ei hun ar yr adeg faterol a bod yn barod i'r ymchwilydd ymgynghori ag ef am gyfranogaeth bosibl yr unigolyn sydd â phrinder gallu yn y prosiect. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt fod yn fodlon i'w wneud ac yn gallu deall y wybodaeth a ddarperir am y prosiect. Mae rôl ymgynghorai enwebedig yn debyg yn fras i un ymgynghorai personol (gweler isod paragraff xx am fanylion y ffactorau gwahanol sy'n effeithio ar eu rôl.
- 26.57 Nid yw'r Ddeddf yn manylu ar ba wybodaeth y dylid ei darparu i ymgynghoreion, ond dylai fod yn debyg i'r daflen wybodaeth i gleifion fyddai'n cael ei rhoi i unigolyn â gallu oedd yn cael ei ofyn i ymuno â phrosiect ymchwil. Dylai'r REC fod yn fodlon fod y wybodaeth a roddir i ymgynghorai'n gywir, trwyadl a hawdd i'w deall. Ni ddylai'r wybodaeth maent yn ei derbyn fod yn orfodol a dylai egluro nad oes rhwymedigaeth arynto i ymgymryd â rôl ymgynghorai os na fyddant yn dymuno gwneud hynny.
- 26.58 Yn ogystal â'r daflen wybodaeth arferol i'r cyfranogwr bydd hefyd yn angenrheidiol esbonio i'r ymgynghorai personol y gofynnir iddynt roi cyngor ar a ddylai'r unigolyn sydd â phrinder gallu gymryd rhan yn y prosiect. Er enghraifft, dylent ystyried a fyddai'r unigolyn sydd â phrinder gallu yn hapus i gymryd rhan neu a allai gwneud hynny beri gofid iddynt. Mae'n rhaid i'r ymgynghorai hefyd rhoi eu fbrn ar yr hyn fyddai dymuniadau a theimladau'r unigolyn sydd â phrinder gallu yn y gorffennol ac ar hyn o bryd ynglŷn â chymryd rhan yn yr astudiaeth. Gall hyn gynnwys a yw'r unigolyn wedi mynegi cefnogaeth benodol neu gyffredinol yn flaenorol i ymchwil o'r natur hwn pan oedd ganddynt allu, neu'n gallu nodi eu barn fel arall.
- 26.59 Mae'n rhaid i'r ymchwilydd wedyn ddefnyddio'r wybodaeth hon i wneud y penderfyniad terfynol am a fydd yr unigolyn sydd â phrinder gallu yn cael ei gynnwys yn yr ymchwil.
- 26.60 Os bydd yr ymgynghorai'n cynghori na fyddai'r unigolyn wedi dymuno cymryd rhan, yna mae'n rhaid i'r ymchwilydd barchu hyn. Fodd bynnag, mae'r ymgynghorai wedi'i rwymo gan y ddyletswydd gofal arferol i weithredu'n gyfrifol ac yn ddidwyll wrth roi cyngor ar ddymuniadau a theimladau'r gorffennol a'r presennol.
- 26.61 Yn ymarferol, gall fod o gymorth i atgoffa'r ymgynghorai nad ydynt yn cael ei holi am eu safbwyntiau personol ar gymryd rhan yn y prosiect penodol, neu ymchwil yn gyffredinol. Mae hefyd yn ddefnyddiol pwysleisio na ofynnir i'r ymgynghorai gydsynio ar ran yr unigolyn sydd â phrinder gallu. Mae'n rhaid i'r ymgynghorai fwrw unrhyw safbwyntiau sydd ganddynt o bosibl am yr ymchwil i'r neilltu ac ystyried safbwyntiau a buddiannau'r unigolyn sydd â phrinder gallu.
- 26.62 Dylid gofyn i ymgynghorai ystyried nodau ehangach yr ymchwil, y risgiau a'r buddion a'r ystyriaethau ymarferol ynghylch yr hyn fydd cymryd rhan yn ei olygu i'r unigolyn sydd â phrinder gallu. Dylai'r ymgynghorai hefyd ystyried barn yr unigolyn

sydd â phrinder gallu yn y gorffennol ac ar hyn o bryd ynglŷn â natur gyffredinol yr astudiaeth. Mae'n hanfodol hefydystyried eu safbwyntiau a'u dymuniadau presennol. Er enghraifft, gallai'r astudiaeth gynnwys gweithgareddau yn y prynhawn pan fydd yr unigolyn sydd â phrinder gallu'n fwyaf blinedig felly byddai'n ei chael yn straen, neu i'r gwrthwyneb gallai gynnwys gweithgaredd mae'r unigolyn sydd â phrinder gallu'n ei fwynhau'n arbennig. Ar unrhyw adeg, mae'r ymgynghorai'n gallu cynghori'r ymchwilydd na fyddai'r unigolyn sydd â phrinder gallu yn dymuno aros yn y prosiect, ac mae'n rhaid i'w cyngor gael ei barchu gan yr ymchwilydd.

- 26.63 Gall unigolyn sydd wedi cytuno i weithredu fel ymgynghorai ei chael o gymorth i gael cyngor annibynnol am ei rôl, ac mae'n arfer da i sicrhau y gellir darparu hyn. Gallai ffynonellau annibynnol addas o gyngor fod yn bobl sydd wedi ymgymryd â'r paratoi cyffredinol i weithredu fel ymgynghorai enwebedig.

Beth yw dyletswyddau'r ymgynghorai enwebedig?

- 26.64 Mae'n ofynnol i'r ymgynghorai enwebedig berfformio'r un rôl ag ymgynghorai personol (gweler uchod) wrth gynghori'r ymchwilydd am gyfranogaeth yr unigolyn sydd â phrinder gallu. Bydd angen i'r ymgynghorai enwebedig dderbyn gwybodaeth berthnasol am y prosiect. Bydd yn rhaid iddynt ystyried hefyd sut fyddai dymuniadau a buddiannau'r unigolyn sydd â phrinder gallu'n dylanwadu arnynt i benderfynu pe byddais ganddynt y gallu i wneud y penderfyniad.
- 26.65 Efallai nad yw'r ymgynghorai enwebedig yn adnabod yr unigolyn sydd â phrinder gallu. Wrth bennu'r hyn fyddai dymuniadau a theimladau'r unigolyn am yr ymchwil pe byddai ganddynto allu, dylai'r ymgynghorai enwebedig ofyn am farn gan unrhyw deulu, ffrindiau neu ofalwyr a all fod yn anfodlon neu'n analluog i weithredu fel ymgynghorai personol. Pan fo'n briodol, gellir cysylltu â chydweithwyr proffesiynol eraill â diddordeb yn lles neu gyflwr yr unigolyn sydd â phrinder gallu, megis aelodau o'r tîm gofai nad ydynt yn cymryd rhan yn yr ymchwil, am farn. Bydd yn rhaid i'r ymgynghorai enwebedig ystyried unrhyw u wrthdaro buddiannau posibl neu ymddangosiadolb yng nghanlyniad yr ymchwil wrth bwysu a mesur barn teulu, ffrindiau neu ofalwyr.
- 26.66 Mewn rhai achosion, bydd rhaid cydbwysu dyletswydd yr ymgynghorai enwebedig i geisio barn ar ddymuniadau a theimladau rhagdybiedig yr unigolyn yn erbyn dyletswydd o gyfrinachedd ynglŷn ag agweddau sensitif o'r cyflwr mae'r unigolyn sydd â phrinder gallu ynddo. Mae enghreifftiau'n cynnwys ymchwil sy'n ymwneud ag iechyd meddwl neu faterion sensitif ynglŷn â gofai oedolion ifanc ag anabledd dysgu. Gweler pennod 16 am gyngor cyffredinol ar gyfrinachedd a dyletswyddau o dan y Ddeddf. Bydd y REC yn dymuno cael eu bodloni am drefniadau ynghylch cyfrinachedd wrth roi cymeradwyaeth.

Rôl sefydliadau ymchwil lleol

- 26.67 Er mwyn cynorthwyo ymchwil sy'n cynnwys y rhai hynny sydd â phrinder gallu mae'n arfer da i ymddiriedolaethau gweithgar o ran ymchwil, sefydliadau gofal cymdeithasol, prifysgolion neu elusennau i nodi mecanweithiau lleol i ddarparu mynediad i bobl sy'n addas i weithredu fel ymgynghoreion enwebedig o dan y Ddeddf. Er enghraifft, gallai'r sefydliadau gofal sy'n cymryd rhan mewn arwain yr ymchwil - ymddiriedolaethau neu awdurdodau lleol - gysylltu ag eraill mewn rhwydweithiau ymchwil lleol, awdurdodau lleol a grwpiau cleifion neu ddefnyddwyr yn agos at y fan lle cynhelir yr ymchwil i sefydlu panel addas o bobl sy'n gallu gweithredu fel ymgynghoreion enwebedig. Yng ngoleuni'r amgylchiadau lleol, gall fod angen trefniadau addas i ddarparu ar gyfer ymgynghoreion i fod ar gael y tu allan i oriau swyddfa (e.e. ymchwil mewn sefyllfaoedd brys). Mae Sefydliad Cenedlaethol (NIHR) Rhwydweithiau Ymchwil Clinigol¹⁶⁹ a Chydweithrediadau Ymchwil Cymwysedig (ARCau)¹⁷⁰ hefyd yn gallu cynnig cyngor ar weithredu cynlluniau yn lleol i gynorthwyo adnabod ymgynghoreion enwebedig posibl.
- 26.68 Nid yw'n ofynnol i'r panel o ymgynghoreion posibl berthyn i alwedigaeth benodol. Gallai enghreifftiau o ymgynghoreion enwebedig posibl gynnwys staff clinigol eraill neu unigolion lleyg nad ydynt yn gysylltiedig â'r prosiect, gweithwyr cymdeithasol, aelodau anweithredol o fwrdd yr ymddiriedolaeth, caplaniaid ysbyty neu gynghorwyr ysbrydol eraill, gwarcheidwaid Caldicott neu eiriolwyr dros gleifion. Gall fod rôl hefyd ar gyfer yr Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol, gan ddibynnu ar drefniadau lleol. Ar gyfer sefydliadau gofal cymdeithasol, gallai dewisiadau eraill fod ar gyfer rheolwr uned neu wasanaeth i nodi staff sy'n gallu gweithredu fel ymgynghorai enwebedig, yn unol â gofynion eraill y canllaw hwn a'r fframwaith llywodraethu ymchwil lleol.
- 26.69 Bydd rôl hefyd ar gyfer y sefydliad ymchwil, gan weithio gyda'r REC neu bwyllgor moeseg clinigol priodol, wrth sicrhau bod gan y panel yr hyfforddiant a'r cymorth priodol. Dylai'r wybodaeth, a'r hyfforddiant ymlaen llaw dynnu sylw at ofynion y Cod Ymarfer.
- 26.70 Dylai'r trefniadau lleol gynnwys darparu cyngor a chymorth i ymgynghoreion personol ac ymgynghoreion enwebedig sy'n cynghori ar brosiectau ymchwil yn eu sefydliad. Dylai'r wybodaeth a roddir i ymgynghorai hefyd egluro eu rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y Ddeddf.

Pa drefniadau diogelu eraill mae'r Ddeddf yn gofyn amdanynt?

- 26.71 Nid yw'r penderfyniad am a ddylai unigolyn sydd â phrinder gallu gymryd rhan yn benderfyniad budd gorau o ran adran 4 y Ddeddf. Yn hytrach, mae darpariaethau'r ymchwil yn y Ddeddf yn sicrhau bod ymchwilwyr yn dilyn dymuniadau a theimladau'r

¹⁶⁹ <https://www.nihr.ac.uk/explore-nihr/support/clinical-research-network.htm>

¹⁷⁰ <https://www.nihr.ac.uk/explore-nihr/support/collaborating-in-applied-health-research.htm>

unigolyn wrth benderfynu a ddylent gymryd rhan neu beidio. Hyd yn oed pan fydd ymgynghorai wedi cynghori eu bod yn meddwl bod unigolyn yn gallu cymryd rhan mewn ymchwil, dylai'r ymchwilydd barhau i ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn.

26.72 Gallai'r unigolyn fod wedi gwneud datganiad ymlaen llaw am eu dymuniadau i gael eu cynnwys yn yr ymchwil, neu i beidio â chael eu cynnwys. Dylai'r ymchwilydd ystyried hyn, ond nid yw'n gyfystyr a chydysnio.

26.73 Mae'n rhaid i ymchwilyddyr:

- beidio â gwneud unrhyw beth mae'r unigolyn sydd â phrinder gallu'n ei wrthwynebu
- peidio â gwneud unrhyw beth i fynd yn groes i benderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth neu ddatganiad arall ymlaen llaw mae'r unigolyn wedi'i wneud yn flaenorol sy'n mynegi dewisiadau ynglŷn â'u gofal neu driniaeth
- rhagdybio bod buddiannau'r unigolyn yn y mater hwn yn bwysicach na rhai gwyddoniaeth a chymdeithas.

26.74 Mae'n rhaid i ymchwilydd dynnu rhywun yn ei ôl o brosiect os:

- eu bod yn dangos mewn unrhyw ffordd eu bod am gael eu tynnu yn eu hôl o'r prosiect (er enghraifft, os byddant yn mynd yn ofidus neu'n llawn cynnwrf), neu
- nad yw unrhyw un o ofynion y Ddeddf yn cael eu bodloni mwyach.

26.75 Mewn rhai achosion, gall fod yn briodol oedi ymyrraeth ymchwil i ganiatáu amser i'r unigolyn cyn penderfynu a ddylent gael eu tynnu yn eu hôl yn barhaol o brosiect. Er enghraifft, gall gymryd amser i sefydlu a yw unigolyn wedi mynd yn ofidus wrth gymryd rhan yn yr ymchwil, neu am ryw reswm arall.

26.76 Mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn bwysig ystyried a yw gwrthwynebiad unigolyn yn benodol i'r ymchwil neu i'r gofal neu'r driniaeth maent yn ei derbyn. Er enghraifft, gall unigolyn fod yn derbyn gofal neu driniaeth er eu budd gorau maent yn eu gwrthwynebu, ond gall fod yn awyddus i ddweud wrth ymchwilyddyr am eu profiad ac felly gall beidio â gwrthwynebu i ymchwil ar y gofal neu'r driniaeth.

26.77 Yn ogystal a'r trefniadau diogelu a amlinellir yn y Ddeddf, mae Deddf Diogelu Data 2028 a GDPR hefyd yn cynnwys trefniadau diogelu ar gyfer prosesu data personol o ymchwil. Pam fydd ymchwilydd yn prosesu data personol o'r ymchwil o dan y Ddeddf Diogelu Data, mae'n rhaid cydymffurfio â'r trefniadau diogelu hyn.

Beth fydd yn digwydd os bydd gofyn am benderfyniadau brys yn ystod y prosiect ymchwil?

- 26.78 Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n gofalu am unigolyn roi triniaeth frys iddynt os bydd ei hangen arnynt. Mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn amhosibl gwahanu'r ymchwil o'r driniaeth frys. Dylai cynnig am ymchwil esbonio i'r corff priodol sut y bydd ymchwilwyr yn delio â phenderfyniadau brys a all ddigwydd yn ystod y prosiect, pan na fydd amser o bosibl i gyflawni'r ymgynghoriadau sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Er enghraifft, ar ôl i glaf gyrraedd uned gofal dwys, mae'n bosibl y bydd y meddyg yn dymuno olrhain cwrs anaf trwy gymryd samplau neu fesuriadau'n syth ac yna cymryd samplau pellach ar ôl rhyw fath o driniaeth i'w cymharu â'r set gyntaf.
- 26.79 Mae rheolau arbennig yn gymwys lle bydd unigolyn sydd â phrinder gallun cael, neu ar fin cael, triniaeth frys a bod ymchwilwyr am eu cynnwys mewn prosiect ymchwil. Os yn yr amgylchiadau hyn bydd ymchwilydd yn meddwl ei bod yn angenrheidiol gweithredu ar frys at ddibenion yr ymchwil, a'u bod yn meddwl nad yw'n ymarferol i ymgynghori â rhywun amdano, mae'r ymchwilydd yn gallu gweithredu felly os:
- byddant yn cael cytundeb gan ymarferydd meddygol cofrestredig nad yw'n rhan o'r ymchwil, neu
 - eu bod yn dilyn gweithdrefn mae'r corff priodol yn cytuno iddi yn ystod y cam cymeradwyo.
- 26.80 Gall fod gan yr ymarferydd meddygol gysylltiad â'r unigolyn sydd â phrinder gallu (er enghraifft, gallent fod yn feddyg iddynt). Ond mae'n rhaid iddynt beidio â bod yn rhan o'r prosiect ymchwil mewn unrhyw fodd. Mae hyn er mwyn osgoi gwrthdrawiadau buddiannau.
- 26.81 Yn achos ymchwil sy'n digwydd mewn lleoliad gofal iechyd, er enghraifft mewn Adran Ddamweiniau ac Argyfwng neu Uned Gofal Dwys, dylai'r ymchwilydd gymryd camau i nodi meddyg(on) ymlaen llaw i weithio gydag achosion brys y tu allan i oriau. Mae'n rhaid i unrhyw feddyg a gafodd ei nodi i gytuno i gynnwys unigolyn mewn prosiect a gymeradwywyd fod heb gysylltiad arall â'r prosiect. Fel a ddangosir mewn manau eraill yn y canllawiau, mae'n rhaid darparu gwybodaeth briodol iddynt am natur yr astudiaeth, y meini prawf cynnwys ac eithrio a'u dyletswyddau o dan y Ddeddf.
- 26.82 Mewn sefyllfaoedd ymchwil y tu allan i sefydliad gofal iechyd, er enghraifft y rhai hynny sy'n cynnwys parafeddygon, gall fod yn bosibl fod ymgynghorai personol ar gael yn y fan honno. Fodd bynnag, gall fod yn afresymol disgwyl i'r unigolyn hwnnw amsugno gwybodaeth ar unwaith a rhoi cyngor ar gofrestru unigolyn sydd â phrinder gallu i astudiaeth gymeradwy, yn enwedig gan fod rhaid i wybodaeth glinigol gael blaenoriaeth. Yn y fath achosion, dylai'r REC gytuno wrth gymeradwyo'r astudiaeth y trefniadau i'w cymryd gan y parafeddyg neu unigolyn enwebedig arall mewn penderfynu a ddylid cofrestru'r unigolyn hwnnw.

26.83 Dylai unrhyw benderfyniad o'r fath ystyried yn briodol y farn, sut bynnag mae'n cael ei mynegi, gan yr unigolyn sy'n cael ei drin neu gan eu teulu neu ffrindiau sydd gyda nhw.

26.84 Yn absenoldeb unrhyw wybodaeth i'r gwrthwyneb, gellir cyfiawnhau meddyg neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall eu bod yn rhagdybio y byddai gwrthrych posibl yn dymuno derbyn ymyriad sydd â'r cyfle mwyaf o achub eu bywyd neu wella (neu leihau niwed i) eu hiechyd. Pan fydd ansicrwydd gwirioneddol am fuddion neu niweidiau cymharol y ddriniaeth safonol a'r driniaeth ymchwil (equipoise), gall fod yn rhesymol rhagdybio (a phethau eraill yn gyfartal) y byddai gwrthrych posibl yn dymuno cymryd rhan yn y prosiect ymchwil cymeradwy.

26.85 Mae'r eithriad hwn i'r ddyletswydd i ymgynghori'n gymwys yn unig:

- cyhyd â bod angen triniaeth frys ar yr unigolyn, a
- phan fydd angen i'r ymchwilydd weithredu ar frys i ymchwil fod yn ddilys.

26.86 Mae'n debygol o fod yn gyfyngedig i ymchwil i weithdrefnau neu driniaethau a ddefnyddir mewn argyfyngau. Ni fydd yn gymwys lle mae'r ymchwilydd yn dymuno gweithredu'n gyflym yn unig. Cyn gynted ag y bo'r argyfwng wedi mynd heibio, mae'n rhai i drefniadau gael eu gwneud i ofyn am gydsyniad yn y ffordd arferol neu i geisio cyngor gan ymgynghorai ynghylch yr unigolion sydd â phrinder gallu'n parhau i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Megis uchod, ni ddylai hyn gyfaddawdu'r ddarpariaeth o wybodaeth glinigol bwysig, y mae'n rhaid iddi gymryd blaenoriaeth dros yr ymgynghori ynghylch unrhyw ymchwil.

Beth fydd yn digwydd ar gyfer ymchwil sy'n cynnwys meinweoedd dynol?

26.87 Mae'n rhaid i unigolyn â gallu roi eu caniatâd i rywun dynnu meinweoedd o'u corff (er enghraifft, cymryd biopsi (sampl) ar gyfer diagnosis neu dynnu meinweoedd mewn llawdriniaeth). Mae'r Ddeddf yn caniatáu tynnu meinweoedd o gorff unigolyn sydd â phrinder gallu, os bydd er eu budd gorau (gweler pennod 5).

26.88 Mae'n rhaid i bobl â gallu hefyd roi caniatâd ar gyfer storio neu ddefnyddio meinweoedd at ddibenion penodol, a amlinellir yn Neddf Meinweoedd Dynol 2004, (er enghraifft, trawsblaniadau ac ymchwil). Ond ceir sefyllfaoedd lle nad oes gofyn am ganiatâd yn ôl y gyfraith:

- ymchwil lle mae'r samplau wedi'u hanonymeiddio ac mae gan yr ymchwil gymeradwyaeth foesebol¹⁷¹
- archwiliad clinigol
- addysg neu hyfforddiant ynghylch iechyd dynol
- asesiad o berfformiad
- monitro iechyd cyhoeddus, a
- sicrwydd ansawdd.

26.89 Os bydd oedolyn â phrinder gallu i gydsynio, mae Deddf Meinweoedd Dynol 2004 yn dweud y gellir storio neu ddefnyddio'r meinweoedd heb ofyn am ganiatâd os bydd y storio neu'r defnyddio:

- er mwyn cael gwybodaeth berthnasol i iechyd unigolyn arall (er enghraifft, cyn cynnal trawsblaniad), ar yr amod bod yr ymchwilydd neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n storio neu'n defnyddio'r meinweoedd dynol yn credu eu bod yn gwneud hynny er y budd gorau i'r unigolyn sydd â phrinder gallu i gydsynio
- ar gyfer treial clinigol wedi'i gymeradwyo a'i gynnal o dan y Rheoliadau Meddyginiaethau at Ddefnydd Dynol (Treialon Clinigol) 2004, neu
- ar gyfer ymchwil ymwthiol:
 - ar ôl i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ddod i rym
 - sy'n ateb gofynion y Ddeddf, ac
 - sydd â chymeradwyaeth foesebol.

26.90 Mae samplau meinweoedd a gafwyd cyn 31 Awst 2006 yn ddaliadau presennol o dan y Ddeddf Meinweoedd Dynol. Mae ymchwilydd yn gallu gweithio gyda'r meinweoedd hyn heb ofyn am aniatâd. Ond bydd yn rhaid iddynt barhau i gael cymeradwyaeth foesebol. Mae canllawiau ar gael yng Nghod Ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ynghylch ydsynio.¹⁷²

Beth os bydd gan unigolyn allu pan fydd ymchwil yn dechrau ond ei fod colli gallu?

26.91 Mae rhai pobl â gallu'n cytuno i gymryd rhan mewn ymchwil ond gallant golli gallu wedyn cyn diwedd y prosiect. Mae'n rhaid i bob ymchwil (ac eithrio treialon clinigol a gynhaliwyd o dan reoliadau treialon clinigol) a ddechreuodd ar ôl i'r Ddeddf ddod i

¹⁷¹ Adran 1(9) Deddf Meinweoedd Dynol 2004 - <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/30/contents>

¹⁷² www.hta.gov.uk

rym yn 2007 gydymffurfio â thelerau'r Ddeddf¹⁷³, gan gynnwys mewn perthynas â chyfranogaeth barhaol rhywun sydd wedi colli gallu yn ystod yr ymchwil.

- 26.92 Mae Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Colli Gallu yn ystod Prosiect Ymchwil) (Lloegr) 2007 a Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Colli Gallu yn ystod Prosiect Ymchwil) (Cymru) 2007 yn gymwys i feinweoedd a data a gasglwyd cyn i unigolyn golli gallu a roddodd gydsyniad cyn 31 Mawrth 2008, i ymuno â phrosiect a ddechreuodd cyn 1 Hydref 2007. Maent yn amlinellu amodau i gydymffurfio â nhw er mwyn caniatáu i ymchwilwyr barhau ag ymchwil yn y sefyllfa hon. Pan fydd y rheoliadau'n gymwys, gall ymchwil barhau'n unig os bydd gan y prosiect weithdrefnau eisoes i ddelio â phobl sy'n colli gallu yn ystod y prosiect. Nid oes rhaid i'r ymchwil gael ei gysylltu â chyflwr amharol yr unigolyn; fod â'r potensial i fod o fudd i'r unigolyn hwnnw; neu â'r nod i ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol i eraill â'r un cyflwr neu un tebyg. Mae'n rhaid i gorff priodol fod wedi cymeradwyo'r gweithdrefnau, ac mae'n rhaid i'r ymchwilydd ddilyn y gweithdrefnau sydd wedi'u cymeradwyo.
- 26.93 Nid yw'r rheoliadau yn cynnwys ymchwil sy'n cynnwys ymyrraeth uniongyrchol (er enghraifft, cymryd darlleniadau ychwanegol o bwysau gwaed) neu gymryd rhagor o feinweoedd ar ôl colli gallu. Mae'n rhaid i'r fath ymchwil gydymffurfio ag adrannau 30 i 33 y Ddeddf i fod yn gyfreithlon.
- 26.94 Pan fydd cyfranogwr yn colli gallu mae'n rhaid i'r ymchwilydd:
- ofyn am farn pawb sy'n cymryd rhan yng ngofal yr unigolyn neu â diddordeb yn eu lles ac os na fydd modd dod o hyd i ofalwr mae'n rhaid iddynt enwebu ymgynghorai (gweler paragraffau 11.22–11.28)
 - parchu penderfyniadau ymlaen llaw a dewisiadau, dymuniadau neu wrthwynebiadau a fynegwyd, mae'r unigolyn wedi'i gwneud yn y gorffennol, a
 - thrin buddiannau'r unigolyn yn bwysicach na rhai gwyddoniaeth a chymdeithas.
- 26.95 Mae'n rhaid i'r corff priodol fod yn fodlon fod gan y prosiect ymchwil drefniadau rhesymol i fodloni'r gofynion hyn. Dylid cyflwyno gwybodaeth am y prosiect i'r ymgynghorai a gwybodaeth ar natur y cydsyniad a roddir gan y cyfranogwr pan roeddent wedi ymuno (neu ailgydsynio) i'w samplau gael eu casglu.
- 26.96 Mae rôl yr ymgynghorai yn debyg i hynny mewn sefyllfaoedd ymchwil eraill. Mae'n rhaid iddynt roi cyngor ar a fyddai gwrthrych yr ymchwil yn dymuno aniatáu i samplau neu ddata adnabyddadwy gael eu casglu cyn colli gallu i barhau i gael eu defnyddio yn yr astudiaeth. Bydd y ffaith bod yr unigolyn sydd â phrinder gallu wedi cydsynio'n wreiddiol i ymuno â'r prosiect ymchwil, a'r graddau y cafodd anallu i'r dyfodol ei ystyried ar y pryd, yn bwysig. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i'r ymchwilydd ystyried cyngor gan yr ymgynghorai y byddai cymryd rhan yn barhaol yn yr

¹⁷³ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/9/part/1/crossheading/research>

astudiaeth yn groes i ddymuniadau'r unigolyn a oedd wedi colli gallu. Er enghraifft, gall fod yr unigolyn wedi cydsynio'n wreiddiol i'w gofnodion meddygol gael eu cyrchu, ond yn dilyn datblygiad cyflwr iechyd meddwl difrifol, gall yr ymgynghorai gynghori pe byddai'r unigolyn yn ymwybodol o ddefnydd parhaol eu data y byddai'n dymuno tynnu'r fath fynediad yn ei ôl.

26.97 Byddai unrhyw gasglu samplau neu ddata yn y dyfodol yn gofyn i'r prosiect gael ei gymeradwyo ar wahân yn unol â'r Ddeddf.

26.98 Os bydd yr ymchwilydd yn credu ar unrhyw adeg nad yw gweithdrefnau yn eu lle mwyach neu nad yw'r corff priodol yn cymeradwyo'r ymchwil mwyach, mae'n rhaid iddynt atal yr ymchwil ar yr unigolyn ar unwaith.

26.99 Os bydd ymchwilydd yn credu ei bod yn bosibl y gall cyfranogwyr, yn ystod y prosiect ymchwil, gollu gallu i gydsynio i gymryd rhan, dylent gynllunio ymlaen llaw ar gyfer y data sy'n cael eu cyfrannu gan y cyfranogwr hwnnw. Dylai gwybodaeth am yr hyn fydd yn digwydd i'r data a gesglir gan y cyfranogwr hwnnw cyn iddo gollu gallu gael ei chynnwys mewn taflenni gwybodaeth i gyfranogwyr, a chydsyniad yn cael ei sicrhau ar gyfer storio a dadansoddi parhaol o'r data hynny lle bo'n briodol.

Colli'r gallu i gydsynio yn ystod prosiect ymchwil

Mae meddyg yn cynllunio astudiaeth hydredol o ofal dementia sydd â'r nod i ddeall sut mae ansawdd bywyd yn cael ei ddylanwadu gan newid ymyriadau gofal yn y cartref wrth i alluoedd gwybyddol pobl newid.

Mae'r meddyg yn penderfynu bod angen i'w brosiect gipirol data ansawdd bywyd hyd yn oed pan fydd yr unigolyn yn cael ei effeithio'n fwy difrifol gan yr afiechyd. Mae'n cydnabod bod ei gyfranogwyr yn debygol o golli'r gallu i barhau i gydsynio i gymryd rhan yng nghyfarfodau diweddarach yr astudiaeth.

Mae'r meddyg yn cynnwys adran benodol yn y daflen wybodaeth i gyfranogwyr ynglŷn â'r hyn fydd yn digwydd os bydd yr unigolyn yn colli'r gallu i barhau i gydsynio i gymryd rhan yn y prosiect. Mae'n cynnwys datganiad ar wahân hefyd ar y ffurflen gydsynio lle gofynnir i'r unigolyn â dementia gadarnhau a fyddai ef neu hi'n cytuno â pharhau i gymryd rhan yn y prosiect ymchwil os bydd yn cael ei farnu fel bod yn brin o allu i gydsynio. Mae'n bwriadu gwirio bod y datganiad hwn wedi parhau'n gymwys ar adegau rheolaidd trwy gydolt y prosiect, gan fabwysiadu 'model proses' o gydsynio.

Mae'r meddyg yn cydnabod hefyd bod angen iddo gyflawni gofynion yr ymgynghorai o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, os bydd unrhyw un o'r cyfranogwyr yn yr ymchwil â phrinder gallu neu pan fyddant yn colli gallu yn ystod y prosiect Mae'n paratoi taflen wybodaeth a ffurflen ar gyfer ymgynghorai lle gofynnir i'r ymgynghorai roi cyngor ar a ddylai'r unigolyn sydd â phrinder gallu barhau i gymryd rhan yn y prosiect. Yn benodol, mae'n cynnwys cwestiwn am a oes unrhyw resymau i feddwl nad yw datganiad cychwynnol yr unigolyn â dementia y byddent yn cytuno i gymryd rhan yn ddilys bellach.

OGL

© Crown copyright 2022

This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

This publication is also available on our website at www.gov.uk/government/publications